

**Bangor University**

## **DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

Archaeoleg ddisgyrsiol mewn pedair haen: Datganiadau cenedlaethol-drefedigaethol yn y wasg Gymreig a'r wasg Fasgaidd yn y 1890au

Davies, Philip R.

*Award date:*  
2019

*Awarding institution:*  
Bangor University

[Link to publication](#)

### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

PRIFYSGOL BANGOR

Ysgol y Gymraeg

**Archaeoleg ddisgyrsiol mewn pedair haen:**

Datganiadau cenedlaethol-drefedigaethol yn y wasg Gymreig

a'r wasg Fasnidd yn y 1890au

Philip R. Davies

PhD

2019



## Crynodeb

Digwyddiadau, pobl a llenyddiaeth wleidyddol yng Nghymru a Gwlad y Basg rhwng 1876 a 1918 yw cefnlen hanesyddol ehangaf yr astudiaeth hon, a datganiadau cenedlaetholgar yn y wasg yn ystod y 1890au sy'n dwyn ei sylw yn benodol. Yn ôl hanesyddiaeth draddodiadol y ddwy wlad hyn, dyma'r cyfnod y ganwyd cenedlaetholdeb Cymreig a Basgaidd modern ar ffurf y mudiad Cymru Fydd yng Nghymru a'r Blaid Genedlaetholgar Basgaidd (EAJ-PNV) yng Ngwlad y Basg. Dyma'r cyfnod hefyd y gwelwyd ffrwydrad o ddadleuon, trafodaethau a phropaganda yn y wasg ar y cwestiwn cenedlaethol, ynghyd â nifer mawr o gyhoeddiadau newydd ac iddynt y pwrpas penodol o hyrwyddo ac amddiffyn achosion cenedlaethol yn gyffredinol. Dyma'r cyfnod, felly, y ganwyd ac y blodeuodd gyntaf ddisgwrs cenedlaethol Cymreig a disgwrs cenedlaethol Basgaidd yr oes fodern.

Gan ystyried syniadau Michel Foucault ac ôl-strwythurwyr eraill sy'n dal mai trwy ddisgwrs y ffurfir ymwybyddiaeth wleidyddol a thrwy ddisgwrs y gweithredir dyheadau actorion gwleidyddol, mae'r astudiaeth hon yn dadansoddi a chymharu paradeim disgysiol y ddau fudiad cenedlaethol ifanc. Trefnir y dadansoddiad yn bedair haen sy'n cynrychioli camau adeiladol yn rhesymeg a strategaeth rethregol y ddau ddisgwrs, o'u datganiadau hiliol ac ethnolegol yng 'ngwaelod y ffos' hyd at ddatganiadau gwleidyddol ac economaidd yn nes at yr wyneb. Dadleuir bod yr haenau unigol a'r paradeim cyfan yn gweithio fel cyfundrefn unedig, a bod datganiadau ar wyneb y disgwrs megis 'hunanlywodraeth i Gymru!' yn dibynnu ar ddatganiadau sylfaenol megis 'ni'r Cymry' ar waelod y ffos am eu grym semantig ac awdurdod rhethregol.

Dadleuir hefyd, sut bynnag, nad yw'r paradeim yn gadarn ac yn gyson o ran cryfder ei ddadleuon cenedlaetholgar: mae lleisiau amrywiol yn mabwysiadu ac wedyn yn gwrthddweud rhai o'i ddaliadau pwysicaf, a'r paradeim yn methu yn aml iawn caniatáu casgliadau cenedlaetholgar rhesymegol. Dadleuir, felly, mai ynghyd â dylanwad disgysiau 'cenedlaethol-wrthimperialaidd' gwledydd bychain eraill y 19g, megis Iwerddon, Catalwnia, Hwngari, a'r Eidal, dylanwadwyd yn gryf ar ddisgysiau cenedlaethol Cymreig a Basgaidd gan brofiadau trefedigaethol hanesyddol y ddwy wlad a chan ddisgysiau 'cenedlaethol-imperialaidd' Prydain a Sbaen yn y 19g hwyr. Dadleuir, felly, mai disgysiau 'cenedlaethol-drefedigaethol' a welir yn newyddiaduraeth genedlaetholgar y 1890au yng Nghymru a Gwlad y Basg yn y pen draw.

Dyma gymhariaeth o ddau ddisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol hanesyddol: mae'n gymhariaeth a gyflawnir o fewn fframweithiau a ddygir o theori gymharol, theori ôl-strwythurol a theori ôl-drefedigaethol. Caniatâ inni edrych ar ddisgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig a Basgaidd y 1890au mewn ffordd hollol newydd: dylai ganiatáu inni ddadansoddi disgwrs cenedlaethol Cymreig a Basgaidd yr 21g mewn ffordd hollol newydd hefyd.

## Datganiad

Yr wyf drwy hyn yn datgan mai canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd oni bai ei fod, fel y cytunwyd gan y Brifysgol, am gymwysterau deuol cymeradwy.

*I hereby declare that this thesis is the results of my own investigations, except where otherwise stated. All other sources are acknowledged by bibliographic references. This work has not previously been accepted in substance for any degree and is not being concurrently submitted in candidature for any degree unless, as agreed by the University, for approved dual awards.*

Llofnod :

Dyddiad : 11/12/2019



## Diolchiadau

Ym mis Medi 2012 cefais gyfarfod â'r Athro Gerwyn Williams yn ei swyddfa ym Mhrif Adeilad Prifysgol Bangor. Roeddwn yn ystyried ymgymryd â gradd meistr yn hanes neu lenyddiaeth Gymraeg ar y pryd ar ôl gweithio yn y byd bancio am dros 15 mlynedd. Ymddiddorodd yr Athro Williams yn fy syniadau ar unwaith, ac wedi rhoi bron dwy awr o'i amser yn tawelu fy mhryderon ynglŷn â safon fy 'Nghymraeg dysgwr', tuthiais i ffwrdd lawr Coridor yr Athrawon yn argyhoeddedig mai Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, fyddai'r lle delfrydol i mi aildanio fy mywyd deallusol. Diolch Gerwyn am dy holl gefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, cyfarfûm am y tro cyntaf â'm goruchwyliwr ymchwil Dr Aled Llion Jones. Anaml y bydd myfyriwr ymchwil mor ffodus ag yr oeddwn i gael athro, mentor academaidd a chynghorwr deallusol mor alluog, cefnogol a charedig ag Aled. Byddai Aled yn treulio'r 6 mlynedd nesaf yn fy arwain trwy beryglon fy ngradd meistr, ambell bapur cynhadledd ac erthygl gylchgrawn, cynlluniau cynnar ar gyfer fy mhrosiect PhD, ac o'r diwedd (ac arnaf i yn unig y mae'r bai am oedi cymaint!), sgript derfynol y traethawd hwn. Weithiau bu rhaid i Aled gocsio'r can mil o eiriau hyn allan ohonof, weithiau bu rhaid iddo bron eu bwrw allan, ond mi aeth at ei dasg bob tro gyda gwên galonogol a geiriau doeth. Diolch o galon Aled am bopeth.

Mae pawb sy'n gweithio yn Ysgol y Gymraeg a Llyfrgell y Celfyddydau ym Mangor yn haeddu'r clod mwyaf am eu proffesiynoldeb a'u cyfeillgarwch, ond hoffwn estyn fy niolchiadau arbennig at Mr Iwan Davies, Swyddog Gweinyddol yr Ysgol (ymysg llwyth o gyfrifoldebau eraill) a'r Athrawon Peredur Lynch, Angharad Price, Jerry Hunter a Jason Walford Davies am eu cefnogaeth a'u geiriau caredig dros y blynyddoedd.

Mae delweddau fflachiog a seiniau swynol gorynys Iberia yn britho tudalennau'r traethawd hwn, ac amhosibl fuasai'r gorchwyl o ddod â mesur o ysgolheictod Hisbaenaidd credadwy iddo heb gymorth yr Adran Sbaeneg Prifysgol Bangor, a'r ysgolheigion rhagorol Dr Helena Miguélez-Carballeira a Dr David Miranda-Barreiro yn benodol. Diolch yn ogystal i Lorena López López, Dr Guillem Colom-Montero, Iria Aboi-Ferradás a Rubén Chapela am eu cyfeillgarwch a'r sgysiaau difyr dros beint neu ddau ym Miwmares a Bangor.



Rwyf yn ddiolchgar i Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (yr AHRC) am ddyfarnu Ysgoloriaeth Ymchwil Ddoethurol dair blynedd i mi ac i Fanc Santander am ddyfarnu Ysgoloriaeth Deithio a ganiataodd i mi dreulio pedwar mis ym Mhrifysgol Gwlad y Basg (Universidad del País Vasco - Euskal Herriko Unibertsitatea), Leioa, yng ngeaf 2015/2016. Diolch i Nerea Aresti Esteban ac Adran Hanes Cyfoes UPV-EHU am fy nghroesawu mor wresog ac i Ariane Martínez Aretxabaleta, Bakarne Altonaga Begoña a David Beorlegui am eu cymorth, cyngor a'r sgysiau difyr dros bryd o fwyd yn ffreutur y brifysgol. Diolch hefyd i'm hen gyfaill Iñaki Uriarte Pérez ('Txiri') a'i deulu am y cymorth ymarferol a estynasant ataf yn ystod yr ymweliad ac am fynd â mi a'm ci Gelert i gymaint o lefydd diddorol ar draws Euskadi, gan gynnwys copa Gorbea un prynhawn gwyntog mis Rhagfyr.

Hoffwn ddiolch hefyd i'm hannwyl gyd-fyfyriwr PhD Mr William Owen (Llynfaes) am ei garedigrwydd dros y pum mlynedd diwethaf ac am rannu ei wybodaeth ddiderfyn am hanes Cymry Lerpwl a 'phobl y medra' Ynys Môn. Hoffwn ddiolch i Prof. Derek Flitter a Dr Craig Patterson a'm cefnogi yn ymarferol yng nghyfnod cynnar y prosiect hwn ac i'm hen ffrindiau Anna Martin, Dominic Elms, Adam Chamberlain, Gorka Lozano, Chema Herrero, Dani Ortega, Manolo Delgado, Robbie James a Jenny Wilde am boeni amdanaf o bryd i'w gilydd ac am godi'r ffôn.

Yn olaf ac yn bennaf, hoffwn fynegi fy niolch diderfyn i'm rhieni Richard a Patricia Davies am helpu eu mab canol oed i newid cyfeiriad ei fywyd a'i ganfod ei hun o'r newydd. Ac i'm chwaer Joanne a'i phartner Gareth, ac i'm nith Olyfia ac i'm nai Iwan yn benodol, hoffwn ymddiheuro am yr anrhegion Nadolig pitw yr oedd rhaid iddynt eu goddef yn ystod y pedair blynedd y bu eu Hwncl Phil heb *proper job*. Cyflwynir y llawysgrif hon i ddau feddwl ymofyngar ifanc yn y gobaith y byddant yn deall a, pwy a wŷr, yn maddau i'r hen stiwdant tragwyddol hwn yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Caerdydd

Mehefin 2019

# Cynnwys

|   |     |
|---|-----|
| Crynodeb.....   | 3   |
| Datganiad.....  | 5   |
| Diolchiadau.....  | 7   |
| Cynnwys.....  | 9   |
| Nodiadau technegol.....   | 11  |
| Rhagymadrodd.....   | 15  |
| Rhan 1 – Cyn mynd ymlaen i’r ffos.....  | 19  |
| 1: Cenedlaetholdeb a newyddiaduraeth wleidyddol yng Nghymru a Gwlad y Basg yn y 1890au..... | 21  |
| Genedigaeth cenedlaetholdeb Cymreig a Basgaidd 1876-1918.....                               | 21  |
| Llenyddiaeth Gymraeg a Basgaidd yn y 1890au.....  | 26  |
| Newyddiaduraeth wleidyddol a’r wasg Gymreig a Basgaidd yn y 1890au.....                     | 37  |
| 2: Ystyriaethau methodolegol a damcaniaethol.....   | 45  |
| Dewis testunau.....   | 47  |
| Cymharu nid cysylltu.....   | 48  |
| Opsiynau categorïol.....  | 57  |
| Disgwrs a’r genedl.....   | 63  |
| Disgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol.....   | 70  |
| Tawddlestri disgyrsiol heb eu cynsail.....  | 77  |
| Tiroedd peryglus yr archaeolegydd cymharol.....   | 81  |
| Pedair haen y paradeim disgyrsiol.....  | 90  |
| Rhan 2 – Pedair haen y paradeim disgyrsiol.....   | 93  |
| Haen 1: Ni a nhw.....   | 95  |
| Rydym yn bodoli.....  | 95  |
| Mae gennym wreiddiau gwahanol a hŷn.....  | 99  |
| Rydym yn hil wahanol.....   | 108 |
| Mae gennym iaith wahanol.....   | 116 |
| Mae gennym arferion, cyfreithiau a sefydliadau gwahanol.....                                | 120 |
| Mae gennym grefydd wahanol a phurach.....   | 125 |
| A ydym yn well na hwy?.....   | 134 |
| A ydym yn ddau beth?.....   | 143 |
| Haen 2: Cyfeillion a gelynyon.....  | 147 |
| Mae gennym elyn mawr.....   | 148 |

|   |     |
|---|-----|
| Mae gennym gyd-wladwyr esgeulus.....                                    | 154 |
| Mae gennym gyd-wladwyr gwasaidd .....                                   | 161 |
| Mae gennym wladgarwyr ffug yn ein plith.....                            | 166 |
| Mae gennym elyn haniaethol .....  | 172 |
| Mae gennym gefndryd a chymrodyr .....                                   | 179 |
| Mae gelyn ein gelyn yn gyfaill i ni .....                               | 192 |
| Ai cyd-israddolion neu gyd-aelodau'r byd imperialaidd ydym ni? .....    | 198 |
| Haen 3: Diffygion a chywiriadau.....                                    | 205 |
| Mae gennym orffennol gwych, presennol adfyddus a dyfodol iwtopaidd..... | 205 |
| Rhaid i ni gadw ein hiaith frodorol .....                               | 208 |
| Rhaid i ni'n haddysgu ein hunain .....                                  | 214 |
| Rhaid i ni achub ein gwareiddiad.....                                   | 219 |
| Rhaid i ni roi cof yn ôl i'r genedl.....                                | 230 |
| Rhaid i ni buro ein hil a'n moesau .....                                | 236 |
| Rhaid i ni gysylltu/datgysylltu'r Eglwys .....                          | 242 |
| Rhaid i ni ailfeddiannu'r gofod cenedlaethol.....                       | 247 |
| A ydym mor dlawd?.....  | 253 |
| Haen 4: Undod a rhyddid.....  | 257 |
| Rhaid i ni uno.....   | 257 |
| Rhaid i ni greu plaid genedlaethol .....                                | 261 |
| Rhaid i ni'n llywodraethu ein hunain.....                               | 266 |
| Oes rhaid i ni gymryd ein lle yn yr Ymerodraeth?.....                   | 274 |
| Diwedd glo.....   | 283 |
| Llyfryddiaeth.....  | 289 |
| 1. Ffynonellau cynradd .....  | 289 |
| a. Erthyglau yn y wasg Gymreig.....                                     | 289 |
| b. Erthyglau yn y wasg Fasgaidd .....                                   | 295 |
| c. Ffynonellau cynradd eraill (iaith Gymraeg a Saesneg) .....           | 300 |
| ch. Ffynonellau cynradd eraill (iaith Fasgeg, Sbaeneg a Ffrangeg).....  | 306 |
| 2. Ffynonellau eilaidd .....  | 310 |

# Nodiadau technegol

## Endidau tiriogaethol Basgaidd

At ddibenion yr astudiaeth hon, ystyrir y term ‘Gwlad y Basg’ yn Gymraeg yn gyfystyr â’r term ‘Euskal Herria’ yn yr iaith Fasgeg (Euskara), sef enw am y diriogaeth sy’n cwmpasu’r saith talaith Fasgaidd hanesyddol yn Sbaen a Ffrainc. Rhennir Euskal Herria yn ddwy: ‘Hegoalde’ (y taleithiau Basgaidd yn Sbaen: Araba, Bizkaia, Gipuzkoa a Nafarroa Garaia) ac ‘Iparralde’ (y taleithiau Basgaidd yn Ffrainc: Lapurdi, Nafarroa Beherea a Zuberoa). Cyfunwyd y taleithiau Araba, Bizkaia a Gipuzkoa yn un *comunidad autónoma* (cymuned hunanlywodraethol) o’r enw ‘Euskadi’ gan Gyfansoddiad Sbaen 1978 a Statud Gernika 1979, a sefydlwyd y dalaith Nafarroa yn *comunidad autónoma* ar wahân ar yr un pryd.<sup>1</sup> Nid oes gan y taleithiau Basgaidd yn Ffrainc sefydliadau hunanlywodraethol ac maent yn perthyn i’r *département* Pyrénées-Atlantiques.

## Enwau Lleoedd yng Ngwlad y Basg, Sbaen a Ffrainc

Pan fo fersiwn swyddogol Cymraeg ar gael ar gyfer enwau lleoedd yng Ngwlad y Basg, Sbaen a Ffrainc (yn ôl *Geiriadur yr Academi*), e.e. ‘Gwlad y Basg’, ‘Biscaia’, ‘Baewn’, ‘Castilia’, ‘Catalwnia’, fe’u defnyddir. Fel arall, defnyddir y ffurf Fasgeg ar gyfer lleoedd yng Ngwlad y Basg, y ffurf Sbaeneg ar gyfer lleoedd yn Sbaen, a’r ffurf Ffrangeg ar gyfer lleoedd yn Ffrainc. Caiff y ffurf Sbaeneg neu Ffrangeg ar yr enw Basgeg ei nodi mewn cromfachau y tro cyntaf y’i defnyddir yn y Fasgeg: e.e., ‘Iruñea (Pamplona)’, ‘Donibane-Lohizune (Saint-Jean-de-Luz)’.

## Termau Basgeg a Sbaeneg

Oherwydd anhawster cyfieithu nifer o dermau penodol a phwysig Basgeg a Sbaeneg yn fanwl gywir i’r Gymraeg, defnyddir ffurfiau Basgeg a Sbaeneg yn helaeth yn y traethawd hwn megis ‘*fueros*’, ‘*fuerrista*’, ‘*cacique*’, ‘*maketo*’ a ‘*batzoki*’. Ceir esboniad o bob term pan ymddangoso gyntaf, ac wedyn fe’i hysgrifennir mewn ffont italig.

---

<sup>1</sup> Mae toreth o weithiau yn Sbaeneg a Saesneg ar gael sy’n disgrifio a dadansoddi’r gyfundrefn hunanlywodraethol a sefydlwyd yn Euskadi a Nafarroa gan Statud Gernika yn 1979. Ymhlith y gweithiau Saesneg sydd ar gael, gellir amlygu *Basque Political Systems* o 2011 dan olygiaeth Pedro Ibarra Güell a Xabier Irujo Ametzaga (Reno: Center for Basque Studies – University of Nevada, 2011), ac yn enwedig y bennod gan Mikel Irujo Ametzaga ar y sefydliadau gwleidyddol datganoledig (‘Political institutions in Hegoalde’, tt. 33-51) a’r bennod gan Patxi Juaristi Larrinaga ar y gyfundrefn gyllidol a threthi datganoledig (‘Fiscal pacts in Hegoalde’, tt. 71-81).

## **Cyfieithiadau o destunau gwreiddiol Sbaeneg**

Cyfieithir testunau Sbaeneg i'r Gymraeg ym mhrif gorff y traethawd. Ceir y Sbaeneg gwreiddiol mewn troednodyn. Ni chyfieithir testunau Sbaeneg yn llwyr 'lythrennol', na chadw'n driw at arddull, mydr ac arlliw. Yn hytrach, bwriedir cyfleu ystyr sylfaenol y darn gwreiddiol yn y modd mwyaf uniongyrchol a'r modd mwyaf effeithiol yng nghyd-destun ein trafodaeth.

## **Testunau gwreiddiol Saesneg**

Cyfieithir rhai darnau o destunau gwreiddiol Saesneg i'r Gymraeg ym mhrif gorff y traethawd lle mae hynny yn gwella llif neu undod y testun Cymraeg: bydd y testun gwreiddiol Saesneg mewn troednodyn. Fel arall, defnyddir y testun Saesneg yn ei ffurf wreiddiol heb ei gyfieithu i'r Gymraeg.

## **Orgraff/cywirdeb testunau gwreiddiol**

Ni cheisiwyd cywiro na diweddarau orgraff, gramadeg na mynegiant dyfyniadau gwreiddiol o'r wasg Gymraeg/Saesneg, na thestunau gwreiddiol eraill. Nodir camgymeriadau amlwg (ond nid dewisiadau orgraffyddol y cyfnod) gan [*sic*]. Ni cheisiwyd cywiro na diweddarau orgraff testunau gwreiddiol Sbaeneg yn y troednodiadau.

## **Cyfeiriadau**

Ceir cyfeiriadau at ffynonellau dyfyniadau (gwreiddiol ac eilaidd) a gwybodaeth bwysig arall yn y troednodiadau. Ceir manylion llawn y ffynhonnell y tro cyntaf y cyfeirir ati, ac wedyn ceir ffurf fer ar y patrwm canlynol: [cyfenw/ffugenw/dienw], [teitl wedi'i dalfyrru], [tudalen]. E.e.

<sup>1</sup> Thomas Darlington, 'Erthyglau Gwrth-Seisnig yn y Wasg Gymreig', *Y Geninen*, Cyf. XIV/Rhif 1, Ionawr 1896, t. 37.

<sup>2</sup> Darlington, 'Erthyglau Gwrth-Seisnig', t. 36.

Cyfeirir at fanylion cyhoeddi llawn y ffynhonnell eto os yw'r manylion hynny'n berthnasol i'r drafodaeth yn y prif destun.

Os oes cyfres ddi-dor o ddyfyniadau o'r un ffynhonnell mewn un paragraff ceir manylion y ffynhonnell mewn troednodyn ar y defnydd cyntaf ynghyd â'r datganiad canlynol: 'Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell'.

Ceir manylion llawn pob ffynhonnell wreiddiol ac eilaidd yn y llyfryddiaeth hefyd.

### **Priflythrennau a llythrennau bychain mewn teitlau llyfrau, erthyglau academiaidd ac erthyglau yn y wasg**

Yn ôl yr arfer Prydeinig, defnyddir priflythyren ar ddechrau geiriau allweddol mewn teitlau llyfrau Cymreig a Saesneg a theitlau erthyglau yn y wasg Gymreig a Seisnig, e.e. *A View across the Valley: Short Stories by Women from Wales*; *Cerddi Alltudiaeth: Thema yn Llenyddiaethau Québec, Catalunya a Chymru*; 'Cenedlgarwch a Symmudiadau Gwladgarol'; 'The Need of National Unity'.

Yn ôl yr arfer Sbaenaidd, defnyddir llythyren fechan ar ddechrau geiriau mewn teitlau llyfrau Sbaeneg a theitlau erthyglau yn y wasg Fasgaidd a Sbaenaidd, heblaw am enwau personol, e.e. *Mater dolorosa: la idea de España en el siglo XIX*; 'Gladstone y la cuestión vascongada'.

Yn ôl arfer y ddwy wlad, defnyddir llythyren fechan ar gyfer llythyren gyntaf pob gair mewn teitlau erthyglau academiaidd, heblaw am enwau personol, e.e. 'The nation-building process in nineteenth-century Spain'; 'Prensa nacionalista vasca y emigración a America (1900-1936)'.



## Rhagymadrodd

Yn ôl hanesyddiaeth draddodiadol Cymru a Gwlad y Basg, y 1890au oedd y cyfnod y ganwyd cenedlaetholdeb Cymreig a Basgaidd modern ar ffurf y mudiad Cymru Fydd yng Nghymru a'r Blaid Genedlaetholgar Basgaidd (EAJ-PNV) yng Ngwlad y Basg. Dyma'r cyfnod hefyd y gwelwyd ffrwydrad o ddadleuon, trafodaethau a phropaganda yn y wasg ar y cwestiwn cenedlaethol, ynghyd â nifer mawr o gyhoeddiadau newydd ac iddynt y pwrpas penodol o hyrwyddo ac amddiffyn achosion cenedlaethol yn gyffredinol. Dyma'r cyfnod, felly, y ganwyd ac y blodeuodd gyntaf ddisgwrs cenedlaethol Cymreig a disgwrs cenedlaethol Basgaidd yr oes fodern. Dadansoddi'r ddau ddisgwrs cenedlaethol ochr yn ochr yw mater yr astudiaeth bresennol.

Gan ddilyn syniadau Michel Foucault ac ôl-strwythurwyr eraill, deellir 'disgwrs' yn y cyd-destun hwn fel 'system gymdeithasol dibynnol sy'n cynhyrchu gwybodaeth ac ystyr', neu 'ymarferion sy'n ffurfio yn systematig y gwrthrychau y maent yn siarad amdanynt'.<sup>2</sup> Dyma ymarferion, felly, sy'n caniatáu i unigolion siarad yn gydlynol a chreu testunau am wrthrych, pwnc neu gydsyniad penodol.<sup>3</sup> Gorffennol, presennol a dyfodol y genedl Gymreig a'r genedl Basgaidd (fel y'u gwelwyd yn y 1890au) yw pwnc y disgyrsiau dan sylw yma, pwnc y cyfeirid ato yn aml ar y pryd fel 'y cwestiwn Cymreig' neu'r 'cwestiwn Basgaidd'.<sup>4</sup> Trafodid y cwestiynau hyn mewn amrywiaeth o leoliadau cymdeithasol ac ar draws ystod eang o gyfryngau cyfathrebu, a chafodd y ddau ddisgwrs cenedlaethol eu creu, eu herio a'u hesblygu, felly, gan luosogrwydd o gyd-sgwrs-wyr a gweithredwyr disgyrsiol. Dadleuir yma, sut bynnag, mai yn nhudalennau'r wasg, ac mewn ysgrifau, erthyglau, llythyrau ac adroddiadau yn benodol, y crisialwyd y disgyrsiau hyn gliriaf a helaethaf. Er cydnabod pwysigrwydd opsiynau eraill, dewisir canolbwyntio ar ddatganiadau yn y wasg er mwyn dod i adnabod ymarferion a thestunau'r ddau ddisgwrs yn well.

---

<sup>2</sup> 'A historically contingent social system that produces knowledge and meaning'; 'practices that systematically form the objects of which they speak': Rachel Adams, 'Michel Foucault: Discourse', *Critical Legal Thinking: Law and the Political* (17 Tachwedd 2017) [ar-lein], <http://criticallegalthinking.com/2017/11/17/michel-foucault-discourse> [cyrchwyd: 29 Mehefin 2019], t. 2.

<sup>3</sup> Deellir 'testun' yma yn unol ag arfer Derrida fel y gair wedi'i siarad ac wedi'i ysgrifennu. Gw. Adams, 'Michel Foucault: Discourse', t. 2

<sup>4</sup> Gw. [dienw], 'Y Cwestiwn Cymreig', *Y Tyst a'r Dydd*, 1 Tachwedd 1889, t. 9; [dienw], 'Y Cwestiwn Llosgedig Cymru', *Seren Cymru*, 14 Gorffennaf 1893, t. 9; [dienw], 'La cuestión vascongada', *El Basco*, 7 Medi 1893: dyfynnir yn Ander Delgado, 'El fuerismo, el Home Rule Bill y la política británica: el contexto internacional en los inicios del movimiento nacionalista vasco (1890-1903)', *Historia Contemporanea*, 25 (2002), 305.



Gan fabwysiadu ac addasu syniad arall o eiddo Michel Foucault, anelir y dadansoddi at ‘baradeim disgyrsiol’ y ddau ddisgwrs cenedlaethol, sef y fframwaith neu fecanwaith y mae datganiadau unigol yn gweithio oddi mewn iddo. At y pwrpasau hyn, trefnir y paradeim disgyrsiol yn bedair ‘haen’, neu grwpiau o ddatganiadau cysylltiedig sy’n cynrychioli camau adeiladol yn rhesymeg a strategaeth rethregol y ddadl genedlaethol, o’i datganiadau hiliol ac ethnolegol yng ‘ngwaelod y ffos’ hyd at ddatganiadau gwleidyddol ac economaidd yn nes at yr wyneb. Dadleuir bod yr haenau unigol hyn a’r paradeim cyfan yn gweithio fel cyfundrefn unedig, a bod datganiadau ar wyneb y disgwrs megis ‘hunanlywodraeth i Gymru!’ yn dibynnu ar ddatganiadau sylfaenol megis ‘ni’r Cymry’ ar waelod y ffos am eu grym semantig ac awdurdod rethregol. Gan ddwyn y metaffor ‘archaeoleg ddisgyrsiol’ ar fethodoleg yr astudiaeth hon, dilynir ac olrheinir llinynnau rhesymegol y ddadl genedlaethol fesul haen, o waelod y ffos i’r brig.<sup>5</sup> At y dibenion hyn, dadansoddir ffynonellau, ystyr ac effaith datganiadau unigol, ac asesir eu lle a’u swyddogaeth yn y paradeim ehangach.

Dadleuir hefyd, sut bynnag, nad yw’r paradeim disgyrsiol yn gadarn ac yn gyson o ran cryfder ei ddadleuon cenedlaetholgar. Dadleuir bod lleisiau amrywiol yn mabwysiadu ac wedyn yn gwrthddweud rhai o’i ddaliadau pwysicaf, a bod y paradeim yn methu yn aml iawn caniatáu casgliadau cenedlaetholgar rhesymegol. Dadleuir, felly, mai ynghyd â dylanwad disgyrsiau ‘cenedlaethol-wrthimperialaidd’ gwledydd bychain eraill y 19g, megis Iwerddon, Catalwnia, Hwngari a’r Eidal, dylanwadwyd yn gryf ar ddisgyrsiau cenedlaethol Cymreig a Basgaidd gan brofiadau trefedigaethol hanesyddol y ddwy wlad a chan ddisgyrsiau ‘cenedlaethol-imperialaidd’ Prydain a Sbaen yn y 19g hwyr. Nid galwadau am wladwriaethau ethnig annibynnol Cymreig a Basgaidd a welir ar ddiwedd y broses rethregol hon, ond galwadau am fesurau cymedrol o hunanreolaeth o fewn teuluoedd imperialaidd mwy. Dadleuir, felly, mai disgyrsiau ‘cenedlaethol-drefedigaethol’ a welir yn newyddiaduraeth genedlaetholgar y 1890au yng Nghymru a Gwlad y Basg yn y pen draw.

Trefnir yr astudiaeth yn ddwy ran. Yn Rhan 1, trafodir cefndir hanesyddol ac ystyriaethau methodolegol a damcaniaethol yr astudiaeth. Yn Rhan 2, dadansoddir pedair haen y paradeim disgyrsiol yn fanwl.

Ceir dwy bennod yn Rhan 1. Mae Pennod 1 yn olrhain hanes cenedlaetholdeb Cymreig a Basgaidd rhwng 1876 a 1918 a thirlun llenyddol cyffredinol y ddwy wlad yn y

---

<sup>5</sup> Benthycir term o eiddo Michel Foucault yma i ddangos natur ‘archaeolegol-destunol’ ein prosiect, neu brosiect sy’n ceisio dadorchuddio a dadansoddi haenau claddedig iaith a hanes syniadaethol. Gw. Michel Foucault, *The Archaeology of Knowledge* (London: Tavistock Publications, 1972).

1890au, cyn mynd ymlaen i ystyried newyddiaduraeth wleidyddol fel *genre* a'r newyddiaduron a chylchgronau penodol sy'n ymddangos yn yr astudiaeth hon. Mae Pennod 2 yn olrhain daliadau methodolegol a damcaniaethol yr astudiaeth megis dewis testunau, y dull cymharol, opsiynau categorïol, theori disgwrs, cenedlaetholdeb ac ôl-drefedigaethedd, ynghyd â'r problemau ymarferol a ragwelir mewn prosiect cymharol o'r math hwn. Ar ddiwedd Rhan 1, ceir trosolwg ac esboniad o strwythur y paradeim disgyrïol a chynnwys y pedair haen sydd i ddod.

Mae Rhan 2 yn dadansoddi pedair haen y paradeim disgyrïol yn fanwl, a rhennir pob haen yn nifer o isadrannau o dan benawdau sy'n crynhoi hanfod y datganiadau sydd ynddynt (e.e. 'Mae gennym elyn mawr').<sup>6</sup> Mae Haen 1 yn trafod y ddeuliaeth a grëir rhwng 'ni' a 'nhw' a sut mae'r cenedloedd yn cael eu sefydlu ar wahân ar draws sbectrwm o ystyriaethau ethnograffig, cyn mynd ymlaen yn aml i danseilio'r ddeuliaeth hon gan gefnogi categorïau ethnig 'uwch' megis Prydeindod a *Hispanidad*. Mae Haen 2 yn trafod sut y dosberthir perthnasau'r ddwy genedl yn 'gyfeillion' a 'gelynion' a'r berthynas ansicr ac anghyson a geir â'r 'gelyn mawr' neu 'brif bartner' a'i deulu estynedig, sef pobloedd eraill ei ymerodraeth dramor. Mae Haen 3 yn trafod y 'diffygion' cenedlaethol a gyflwynir gan ein hawduron (y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hachosi dan law'r gelyn mawr, wrth gwrs) cyn mynd ymlaen i drafod y 'cywiriadau' y maent yn eu hargymell ar gyfer y dyfodol. Mae Haen 4 yn trafod galwadau ein hawduron i 'uno' a sicrhau 'rhyddid' neu hunanlywodraeth i'w cenedloedd, cyn datgan yn blwmp ac yn blaen mai ym mherfedd teulu imperialaidd y prif bartner y ceir dyfodol disglair y famwlad. Trafodir yr anghysondeb ac amwysedd rhethregol a rhesymegol a welir yn y datganiadau cenedlaethol-drefedigaethol hyn trwy gydol y traethawd. I orffen, ceir diweddglo byr sy'n crynhoi darganfyddiadau'r astudiaeth ac yn adlewyrchu ar waddol y ddau ddisgwrs yn yr 20g a'r 21g.

Dyma gymhariaeth o ddau ddisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol hanesyddol a gyflawnir o fewn fframweithiau a ddygir o theori gymharol, theori ôl-strwythurol a theori ôl-drefedigaethol. Caniatâ hyn inni edrych ar ddisgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig a Basgaidd y 1890au mewn ffordd hollol newydd: dylai ganiatáu inni ddadansoddi disgwrs cenedlaethol Cymreig a Basgaidd yr 21g mewn ffordd hollol newydd hefyd. Nid astudiaeth lwyr 'draddodiadol' mo hon, ac ni ddilynir methodoleg arferol yng nghorff y gwaith

---

<sup>6</sup> Dylid nodi, oherwydd y gwahaniaethau amlwg sydd rhwng cynnwys a phwyslais y disgwrs Cymreig a'r disgwrs Basgaidd, nad yw triniaeth deunydd Cymreig a Basgaidd yn gyfartal ym mhob is-adran y paradeim disgyrïol. Mae rhai is-adrannau yn bwysicach i un disgwrs nac i'r llall, ac i'r gwrthwyneb.

dadansoddol. Dewiswyd gweithio'n fân ac yn fanwl, o'r gwaelod i fyny, heb ragdybio'r naratifau a'r disgyrsiau a ganfyddir yn haenau'r disgyrsiau. Diolchir i'r darllenydd am ei (h)amynedd yn hyn o beth: hyderir y caiff yr amynedd hwnnw ei ad-dalu'n ddigonol.

## **Rhan 1 – Cyn mynd ymlaen i'r ffos**



# 1: Cenedlaetholdeb a newyddiaduraeth wleidyddol yng Nghymru a Gwlad y Basg yn y 1890au

## Genedigaeth cenedlaetholdeb Cymreig a Basgaidd 1876-1918

Wedi pedair blynedd o wrthdaro gwaedlyd ar draws gorynys Iberia, daeth yr Ail Ryfel Carlaidd i ben ar 27 Chwefror 1876, a phrin bedwar mis yn ddiweddarach ar 1 Gorffennaf, diddymwyd cyfundrefn hunanlywodraethol hynafol y taleithiau Basgaidd gan Senedd Sbaen ym Madrid.<sup>7</sup> Rhyfeloedd dros ailsefydlu llinach frenhinol Carlos María de Borbón ar orsedd Sbaen, a thros Gatholigiaeth a threfn gymdeithasol draddodiadol yn gyffredinol, fu'r Rhyfeloedd Carlaidd mewn egwyddor, ond wedi iddynt golli pŵer gwleidyddol go iawn yn haf 1876, trodd teyrngarwch rhan sylweddol o ddosbarth arweiniol y Basgaidd at adennill breintiau hanesyddol Gwlad y Basg ac at syniadau cenedlaetholgar yn gyffredinol.

Yn 1876 dychwelodd Robert Ambrose Jones, neu Emrys ap Iwan fel y'i hadwaenid maes o law, i Gymru ar ôl cyfnod yn astudio yn y Swistir a'r Almaen, ac o fewn ychydig wythnosau dechreuasai'r polemegydd cenedlaetholgar ifanc o Abergele fynd ati o ddifrif i ysgrifennu llythyrau ac ysgrifau tanbaid i'r wasg Gymreig. Bu i sawl llenor Cymraeg ysgrifennu o blaid achosion cenedlaethol Cymreig cyn hynny wrth gwrs, ond yn ffrwydradau cyhoeddus Emrys ap Iwan o 1876 ymlaen, gwelid agwedd wladgarol ddigyfaddawd a syniadau cenedlaetholgar eithafol am y tro cyntaf yng Nghymru, a hynny yn wythnosol yn newyddiaduron mwyaf blaengar y cyfnod.

Yn wir, cyn 1876 roedd llais cenedlaetholgar Michael D. Jones bron yn unigryw yng Nghymru; wedi 1876 byddai lleisiau cenedlaetholgar yn lluosu yn raddol ond yn gyson. Gwelwyd datblygiadau pwysig yn y byd academiaidd megis y gadair gyntaf yn Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Rhydychen yn 1877, lansiad cylchgrawn deallusol newydd *Y Geninen* yn 1883, agor colegau prifysgol newydd yng Nghaerdydd a Bangor yn 1883 a 1884,

---

<sup>7</sup> Adnabyddir y ddeddf hon yn gyffredinol fel 'La Ley de 21 de Julio de 1876' (Deddf 21 Gorffennaf 1876). Gw. Javier Corcuera Atienza, *Orígenes, Ideología y Organización del Nacionalismo Vasco 1876-1904* (Madrid: Siglo Veintiuno Editores, 1979), t. 85.

a sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn 1885 gan Dan Isaac Davies i ymgyrchu dros ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gyfundrefn addysg.<sup>8</sup>

Erbyn 1886, roedd datblygiadau wedi cyflymu wrth i'r gymdeithas wleidyddol *Young Wales* (a fyddai'n troi yn gymdeithas 'Cymru Fydd' maes o law) gael ei sefydlu yn Llundain, wrth i'r cenedlaetholwr ifanc o'r Bala, Thomas E. Ellis, fynd yn Aelod Seneddol dros Sir Feirionnydd, ac wrth i'r gymdeithas ysgolheigaidd Cymdeithas Dafydd ap Gwilym gael ei sefydlu yn Rhydychen.<sup>9</sup> Yn y 'flwyddyn fawr' hon, chwedl Saunders Lewis, daeth gweithgareddau cenedlaetholdeb Cymreig dan drefniadaeth sefydliadau ffurfiol am y tro cyntaf, dechreuodd grŵp o ddeallusion ymrwymedig megis Owen M. Edwards a John Morris Jones adfywio ysgolheictod Cymraeg o ddifrif, a chlywid dadleuon dros hunanlywodraeth i Gymru mewn anerchiadau etholiadol cyffredinol ac ar lawr San Steffan am y tro cyntaf erioed.<sup>10</sup> Cychwyn degawd euraidd y 'dadeni cenedlaethol Cymreig' oedd 1886.<sup>11</sup>

Roedd y flwyddyn 1886 yn bwysig yng Ngwlad y Basg hefyd, ac erthygl gyntaf Sabino Arana – arweinydd ifanc newydd y mudiad cenedlaethol – yn cael ei chyhoeddi yn y wasg, ac yntau'n cychwyn ar ei yrfa lenyddol o ddifrif.<sup>12</sup> Byddai lliaws o weithiau gwleidyddol a phropagandaidd eraill ganddo yn dilyn, megis *Bizkaya por su independencia* (Biscaia dros ei hannibyniaeth) yn 1892, sylfaen hanesyddiaeth genedlaetholgar y mudiad Basgaid o hynny ymlaen.<sup>13</sup> Yn eu tro, dilynodd y cylchgrawn cenedlaetholgar newydd *Bizkaitarra* ac araith gyhoeddus gyntaf Arana, 'El Discurso de Larrazabal', yn 1893, ac o hynny ymlaen tyfodd mudiad cenedlaetholgar trefnus ac ymroddedig o gwmpas Sabino Arana a'i frawd Luis.

---

<sup>8</sup> Sefydlwyd Coleg Prifysgol Aberystwyth yn gynharach yn 1872. Ffurfiwyd *The Society for the Utilisation of the Welsh Language* yn Eisteddfod Aberdâr yn 1885. Adwaenid y gymdeithas fel 'Cymdeithas yr Iaith Gymraeg' yn Gymraeg. Gw. John Davies, *Hanes Cymru* (London: Penguin, 1992), t. 439.

<sup>9</sup> Gw. Dewi Rowland Hughes, *Cymru Fydd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006) am hanes y mudiad Cymru Fydd.

<sup>10</sup> Saunders Lewis, 'Owen M. Edwards', yn Gwynedd Pierce (gol.), *Triwyr Penllyn* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1956), t. 29. Gwelwyd yr alwad gyntaf am hunanlywodraeth i Gymru mewn etholiad cyffredinol yn 'Anerchiad Etholiadol' Thomas E. Ellis a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 1886: Wyn Jones, *Thomas Edward Ellis: 1859-1899* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986), t. 27.

<sup>11</sup> Gw. Davies, *Hanes Cymru*, tt. 437-440, am hanes cyffredinol y mudiad cenedlaethol yn y 1880au. Noder hefyd i'r Bil Hunanlywodraeth i Iwerddon cyntaf ('Government of Ireland Bill') fethu ar 6 Mehefin 1886. Pasiodd Ail Fil Hunanlywodraeth i Iwerddon gan Tŷ'r Cyffredin ar 1 Medi 1893 ond fe fethodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

<sup>12</sup> Sabino Arana, '¿Basco o Vasco?', *Revista de Vizcaya*, Gorffennaf 1886.

<sup>13</sup> Sabino Arana, *Bizkaya por su independencia* (Bilbao: Tipografía de Sebastián, 1892). Hanes pedair brwydr yr Oesoedd Canol ym Miscaia yw *Bizkaya por su independencia* sy'n dangos y camau allweddol yn y broses o sefydlu cenedl y Biscaiaid.

Carreg filltir fawr y mudiad cenedlaethol yng Ngwlad y Basg oedd y flwyddyn 1895 pan sefydlwyd ‘Bizkai-Buru-Batzar’ ar 31 Gorffennaf, sef pwyllgor gwaith y blaid wleidyddol newydd a fyddai’n troi maes o law yn *Euzko Alderdi Jeltzalea / El Partido Nacionalista Vasco* (Y Blaid Genedlaetholgar Fasgaid) neu’r EAJ-PNV. A Sabino Arana yn llywydd cyntaf arni, ynghyd â saith cyfarwyddwr arall, ymgorfforwyd syniadau cenedlaetholdeb Basgaid yn ffurfiol am y tro cyntaf mewn cyfansoddiad, rheolau, cyllideb a maniffesto gwleidyddol go iawn. O 1895-96 ymlaen byddai’r EAJ-PNV yn ymladd, ac o dro i dro yn ennill, etholiadau bwrdeistrefol, taleithiol a chenedlaethol yn enw annibyniaeth wleidyddol Fasgaid ac adfywiad diwylliannol Gwlad y Basg.

Pwysig iawn yn hanes cenedlaetholdeb Cymreig cynnar oedd y blynyddoedd 1895 a 1896 hefyd, gan eu bod yn cynrychioli penllanw’r mudiad Cymru Fydd. Wedi ei sefydlu yn 1886, tyfai’r gymdeithas yn araf gan sefydlu canghennau yn Llundain ac ar draws Cymru, ac o dan arweinyddiaeth Herbert Lewis a David Lloyd George enillai’r galwadau am fesur o hunanlywodraeth i Gymru gefnogaeth eang ymysg dosbarth canol a dosbarth rhyddfrydol Cymru’r 1890au.<sup>14</sup> Yn wir, bu i Lloyd George a’i gefnogwyr fygwth ffurfio grŵp o ASau annibynnol Cymreig yn 1894 oherwydd diffyg cynnydd yn neddfwriaeth datgysylltu Eglwys Loegr, ac yn 1895 yr oedd Ffederasiwn Rhyddfrydol Gogledd Cymru a Ffederasiwn Rhyddfrydol y De ar fin ymuno â Chymru Fydd mewn un *Welsh National Federation* (Cynghrair Genedlaethol Cymru Fydd), cam a fuasai’n gam pendant tuag at sefydlu plaid genedlaethol annibynnol Gymreig. Yr oedd y momentwm tuag at hunanlywodraeth i Gymru i’w weld yn anorchfygol yn 1895, a datganodd hyd yn oed yr Arglwydd Rosebury, Prif Weinidog Rhyddfrydol Prydain, ei fod am weld ‘Home Rule all round’, gan gyfeirio gan hynny at y Gwledydd Cartref i gyd.<sup>15</sup>

Enillodd y Ceidwadwyr etholiad cyffredinol Gorffennaf 1895, sut bynnag, ac mewn cyfarfod yng Nghasnewydd ym mis Ionawr 1896, gwrthododd Rhyddfrydwyr dinasoedd de Cymru gynllun Lloyd George i greu plaid unedig Gymreig, ynghyd â gweddill ei ‘syniadau Cymreig’.<sup>16</sup> Ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach cwmpasai Cymru Fydd fel nerth gwleidyddol, a llywodraeth Doriaidd newydd wrth y llyw yn gwrthod unrhyw syniad o ddatganoli i Gymru am flynyddoedd.<sup>17</sup> Roedd y ddwy flynedd 1895 a 1896 yn allweddol i’r

---

<sup>14</sup> Gw. Davies, *Hanes Cymru*, tt. 447-449, am hanes cyffredinol Cymru Fydd yn y cyfnod 1894-1895.

<sup>15</sup> Dyfynnir yn Davies, *Hanes Cymru*, t. 447.

<sup>16</sup> ‘Welsh ideas’: Davies, *Hanes Cymru*, t. 449.

<sup>17</sup> Davies, *Hanes Cymru*, t. 449.



ddau fudiad cenedlaethol felly. Buont yn bellafbwynt dadleuol, rhethregol a phropagandaidd yn nhaflwybr disgwrs cenedlaethol cynnar y ddwy wlad.

Wedi iddo ffrwydro ar lwyfan wleidyddol Bilbo (Bilbao) yn y 1890au bu gyrfa Sabino Arana yn fyr, dwys a chyffrous. Bu'n gynghorydd taleithiol dros yr EAJ-PNV ym Miscaia (Bizkaia/Vizcaya) rhwng 1898 a 1902, fe'i carcharwyd ddwywaith am ledaenu syniadau 'bradwrus', ac ysgrifennodd lwyth o lyfrau ac erthyglau yn y wasg.<sup>18</sup> Ef oedd prif actifydd a phrif bropagandydd y mudiad cenedlaethol Basgaid yn y 1890au, ac ergyd drom i'r EAJ-PNV oedd marwolaeth Arana o glefyd Addison ym mis Tachwedd 1903, yn ddim ond 38 mlwydd oed. O hynny ymlaen gwelid rhwyg fawr rhwng cefnogwyr traddodiad Sabino Arana, sef yr *Aranistas* a gredai mewn annibyniaeth lwyr i Wlad y Basg a gelyniaeth eithafol tuag at Sbaen a Sbaenwyr yn gyffredinol, a chenedlaetholwyr cymedrol a gefnogai gymeriad blaengar arall y blaid, Ramón de la Sota Llano, a'i ranbartholdeb cyfansoddiadol. Byddai'r EAJ-PNV yn dal i dyfu ac yn dal i ffynnu ar ôl 1903, ond byddai brwydr barhaol am galon ac enaid y mudiad yn nodwedd bwysig o'i lenyddiaeth a'i bropaganda o hynny ymlaen.<sup>19</sup>

Blwyddyn symbolaidd yn hanes cenedlaetholdeb Cymreig yw 1903 hefyd. Fis yn unig cyn i Sabino Arana farw, ymddangosodd erthygl wleidyddol olaf Emrys ap Iwan yn *Y Geninen*, ac er i brif fanerwr cenedlaetholdeb Cymreig y 1880au a'r 1890au fyw hyd 1906, dyma'r flwyddyn y diflannodd syniadau cenedlaetholgar digyfaddawd o dudalennau'r wasg Gymreig, a hynny am genhedlaeth gyfan.<sup>20</sup> Ni fu'r arwyddion yn dda i'r mudiad Cymreig ers i Thomas E. Ellis farw yn ieuanc yn 1899 ac ers i wleidyddiaeth Brydeinig ymfoddi yn jingoistiaeth imperialaidd yr Ail Ryfel Boeraidd o 1899 i 1902. Roedd David Lloyd George, wrth gwrs, wedi ennill cryn dipyn o enwogrwydd ar lwyfan ryngwladol fel un o brif wrthwynebwyr y rhyfel, ond wedi iddo ymuno â chabinet Rhyddfrydol Sir Henry Campbell-Bannerman yn 1906, a chysegru gweddill ei fywyd gwleidyddol i ffawd Prydain Fawr, collodd y mudiad cenedlaethol Cymreig ei lefarydd mwyaf carismatig a mwyaf poblogaidd.<sup>21</sup>

---

<sup>18</sup> Gw. José Luis de la Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia* (Madrid: Anaya, 2009), tt. 22-31, am hanes gyrfa Sabino Arana rhwng 1898 a 1903.

<sup>19</sup> Gw. Stanley Payne, *Basque Nationalism* (Reno, Nevada: University of Nevada Press, 1975), tt. 87-93, am hanes y mudiad cenedlaethol Basgaid rhwng 1903 a 1914.

<sup>20</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Dyscu Cymraeg yn yr Yscolion Beunyddiol', *Y Geninen*, Cyf. XXI/Rhif 4, Hydref 1903, tt. 217-222.

<sup>21</sup> Gw. 'Tom Ellis versus Lloyd George: The Fractured Consciousness of Fin-de-siècle Wales' gan Kenneth O. Morgan, yn Geraint H. Jenkins a J. Beverley Smith (goln), *Politics and Society in Wales, 1840-1922: Essays in Honour of Ieuan Gwynedd Jones* (Cardiff: University of Wales Press, 1988), tt. 93-112, am drafodaeth am y gwahaniaethau syniadaethol rhwng Thomas E. Ellis a David Lloyd George, yn enwedig ar gwestiynau mawr y

At hynny, wedi sefydlu'r Blaid Lafur yn Chwefror 1900, roedd nifer cynyddol o Gymry wedi dechrau uniaethu â gwleidyddiaeth dosbarth a sosiaeth y ganrif newydd yn lle gwleidyddiaeth y gymuned ddaeryddol a chenedlaetholdeb Fictoraidd y ganrif a fu. 'The appeal of class was undermining the call of community', meddai Kenneth O. Morgan.<sup>22</sup>

Byddai llenorion megis Beriah Gwynfe Evans, Owen M. Edwards a J. E. Lloyd yn parhau i draethu ar faterion cenedlaethol Cymreig drwy gydol y cyfnod Edwardaidd, wrth gwrs, a chafodd cenedlaetholdeb gwleidyddol Cymreig haf bach Mihangel yn areithiau, erthyglau a phamffledi E. T. John, J. Arthur Price a Gwilym Oswald Griffith rhwng 1912 a 1919.<sup>23</sup> Fe gyflwynwyd hyd yn oed Fil Hunanlywodraeth i Gymru i'r Senedd yn 1914 gan E. T. John, ond 'heb ddiddordeb na llwyddiant' yn ôl Kenneth O. Morgan.<sup>24</sup> Erbyn Awst 1914, ymysg dwndwr ffyrnig y Rhyfel Byd Cyntaf, diflanasai lleisiau cenedlaetholgar Cymreig o glyw'r cyhoedd i bob pwrpas, ac yn lle pamffledi o blaid hunanlywodraeth i Gymru, llifai pamffledi recriwtio'r Maeslywydd Kitchner o weisg y Fro Gymraeg.

Yng nghyd-destun niwtraliaeth ffurfiol Sbaen, sut bynnag, bu cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf yn gyfnod o lwyddiant etholiadol i'r EAJ-PNV wrth iddi ledu ei gweithgareddau ar draws Gwlad y Basg, ennill mwyafrif ar gyngor taleithiol Biscaia yn 1917, ac anfon saith aelod seneddol a thri seneddwr i *Cortes* (senedd) Sbaen yn 1918.<sup>25</sup> Ond wedi etholiad 1919, a'r rhwyg terfynol rhwng cymedrolwyr y 'Comunión Nacionalista Vasco' ac eithafwyr yr 'EAJ-PNV Aberri' yn 1921, dechreuodd y mudiad Basgaidd golli tir yn gyflym.<sup>26</sup> Yn sicr, dan ormes unbennaeth Miguel Primo de Rivera (1923-1930), unbennaeth 'ffasgaidd' gyntaf Sbaen, diflannai cenedlaetholdeb Basgaidd oddi ar lwyfan wleidyddol Sbaen bron yn llwyr tan y 1930au.

---

cyfnod megis diwygiad tir, ymreolaeth i Iwerddon, datgysylltiad, hunanlywodraeth i Gymru, ac addysg. Mae Morgan yn crynhoi personoliaeth Ellis yn y geiriau canlynol: 'deallusol, cyfriniol, gwledig, rhamantaidd, idealydd, duwiol, gwerinol', a Lloyd George yn 'pragmataidd, realistig, gweithgar, anneallus (heb addysg ffurfiol), trefol'.

<sup>22</sup> Kenneth O. Morgan, 'Welsh nationalism: the historical background', *Journal of Contemporary History*, 6 (1) (1971), 153-159 & 161-172, 168. Gw. hefyd 167-168.

<sup>23</sup> Gw. isod yn ail hadran y bennod hon, 'Llenyddiaeth Gymraeg a Basgaidd yn y 1890au', am fanylion cyhoeddiadau Beriah Gwynfe Evans, Owen M. Edwards a J. E. Lloyd. Ysgrifennodd E. T. John *Home Rule for Wales; Addresses to 'Young Wales'* (Bangor: Jarvis & Foster) yn 1912, *Cymru a'r Gymraeg* (Undeb y Cymdeithasau Cymraeg a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg) yn 1916, *Enter the Celt* (Perth: Milne, Tannahill & Methven) yn 1918, a *Wales, its Politics and Economics: with the text of the Government of Wales Bill* (Cardiff: Welsh Outlook Press) yn 1919. Gw. hefyd J. Arthur Price, 'Is Welsh Home Rule Coming?', yn *The Welsh Outlook*, Vol. IV, Gorffennaf 1917, 247-250, a Gwilym Oswald Griffith, *The New Wales: Some Aspects of National Idealism with a Plea for Welsh Home Rule* (Liverpool, H. Evans & Sons, 1913).

<sup>24</sup> Morgan, 'Welsh nationalism: the historical background', 166.

<sup>25</sup> Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, tt. 37-38.

<sup>26</sup> Gw. Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 22.

Roedd diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, diwedd gyrfa ysgrifennu E. T. John, a llwyddiannau'r EAJ-PNV yn 1918, yn derfyn naturiol i gyfnod cyntaf cenedlaetholdeb Cymreig a chenedlaetholdeb Gwlad y Basg. Rhwng 1876 a 1918 gwelid genedigaeth y ddau fudiad a gwelid cyfnod o gynnyrch llenyddol cenedlaethol heb ei gysail gan ddynion megis Michael D. Jones, R. J. Derfel, Emrys ap Iwan, Thomas E. Ellis, David Lloyd George ac Owen M. Edwards yng Nghymru, a Juan Iturralde y Suit, Estanislao Jaime de Labayru, Arturo Campión a Sabino Arana yng Ngwlad y Basg.<sup>27</sup> Yn sefyll yng nghanol y cyfnod cyffrous hwn roedd y ddwy flynedd allweddol 1895 a 1896, dwy flynedd pan ddaeth digwyddiadau a chynllwynion gwleidyddol tyngedfennol yr oes i'w trobwynt, a dwy flynedd pan gyrhaeddodd maint a dwyster y disgwrs cenedlaethol uchafbwynt mewn newyddiaduron a chylchgronau'r ddwy wlad. Dyma safle perffaith, felly, ar gyfer cloddfa archaeolegol dau ddisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol oes Victoria. Trown at waith yr archaeolegwr ieithyddol o ddifrif yn y tudalennau sydd i ddod.

## **Llenyddiaeth Gymraeg a Basgaidd yn y 1890au**

Geiriau wedi'u cofnodi ar glawr, neu lenyddiaeth mewn termau cyffredinol, yw mater yr astudiaeth hon, a datganiadau cenedlaetholgar mewn erthyglau yn y wasg yn ystod y 1890au yw prif arteffactau disgyrsiol ei sylw. Yn ail adran y bennod hon, felly, byddai'n briodol arolygu tirlun llenyddol cyffredinol y ddwy wlad ar ddiwedd y 19g cyn mynd ymlaen i fanylu ar newyddiaduraeth wleidyddol a'r wasg Gymreig a Basgaidd yn y 1890au.

Llenyddiaeth mewn dwy iaith a llenyddiaeth a ymestynnai dros ystod eang o *genres* oedd llenyddiaeth Gymreig chwarter olaf y 19g. Roedd nifer o hen 'lyfrau drudion a mawreddog' yn yr iaith Gymraeg yn parhau ymysg ffefrynnau'r Cymry yn y 1890au: llyfrau megis gweithiau William Williams Pantycelyn a olygwyd gan Kilsby Jones yn 1867, ail argraffiad *Y Gwyddoniadur Cymreig* o wasg Thomas Gee (1889-96), ail argraffiad *Myvyrian Archaeology* (1870) a gyhoeddwyd gyntaf gan Gymdeithas y Gwyneddigion ar ddechrau'r

---

<sup>27</sup> Thomas E. Ellis a David Lloyd George 'a greodd' ran sylweddol o'r 'rhetreg genedlaethol' Gymreig ym marn Kenneth O. Morgan: 'Tom Ellis versus Lloyd George', t. 95. Noder, sut bynnag, fod Morgan yn olrhain dechrau cyfnod cyntaf cenedlaetholdeb Cymreig i Ddeddf Diwygio 1867 ac Etholiad Cyffredinol 1868, ac yn gweld diwedd y cyfnod yng nghwmpwr David Lloyd George yn 1922: 'between 1868 and 1922 [...] when Lloyd George left office for the last time, a cycle can be traced, the rise and decline of political nationalism [...] The 'Welsh question', no less than the more spectacular 'Irish question', had been a political reality. In this sense the period from 1868 to 1922 has a unity of its own': Kenneth O. Morgan, *Wales in British Politics 1868-1922* (Cardiff: University of Wales Press, 1963), viii.

19g, a dwy gyfrol gan Owen Jones (Meudwy Môn), *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig* (1875-76) a *Cymru: yn hanesyddol, parthedegol a bywgraphyddol* (1875).<sup>28</sup>

Roedd llenyddiaeth grefyddol yn parhau i fod yn hynod o boblogaidd hefyd, a chafwyd toreth o gasgliadau o homiliau pregethwyr enwog, esboniadau ysgrythurol, emyniaduron, cylchgronau crefyddol i blant, cyfnodolion enwadol eraill a chofiannau gweinidogion o fri. Fe fu *The Life and Sayings of the Late Kilsby Jones, Congregational Minister, Llandrindod* a gyhoeddwyd yn 1896 gan J. Vyrnwy Morgan, er enghraifft, yn nodweddiadol o'r *genre* yn Saesneg yn y cyfnod hwn.<sup>29</sup> Yn yr un modd, câi storiâu arwyr crefyddol llewg gryn dipyn o sylw gan y cyhoedd hefyd, gan gynnwys y byth-boblogaidd *Mary Jones, y Gymraes Fechan heb yr un Beibl* gan Robert Oliver Rees o 1879, a ailgyhoeddwyd droeon a thro drwy gydol y 1880au a 1890au, gan gynnwys mewn argraffiad newydd gyda darluniau gan Hughes a'i Fab yn 1904.<sup>30</sup>

Er y bu farw William Thomas 'Islwyn' yn 1878, roedd awdlau 'bardd mawr' y 19g yn parhau i fod yn boblogaidd iawn yn y 1890au, a nifer o gasgliadau pwysig o'i gerddi yn cael eu hailgyhoeddi yn 1897 er enghraifft.<sup>31</sup> Yn yr un modd, roedd gwaith llenor a bardd gwladgarol enwocaf y ganrif, Evan Jones ('Ieuan Gwynedd'), yn dechrau ailgydio yn nychymyg Cymry'r 1890au, yn enwedig ar ôl cyhoeddi *Bywyd Ieuan Gwynedd, ganddo ef ei hun*, sef casgliad o ysgrifau hunangofiannol a cherddi a olygwyd gan Owen M. Edwards yn 1900.<sup>32</sup> At hynny, byddai cerddi syml, naturiol, a phoblogaidd John Ceiriog Hughes am y bywyd gwledig a helyntion serch yn parhau i fod yn ffefrynnau i'r Cymry yn y 1890au, fel

---

<sup>28</sup> J. R. Kilsby Jones, *Holl weithiau prydyddawl a rhyddieithol y diweddar Barch. William Williams, Pant-y-Celyn: gyda chofiant yr awdur gan y golygydd* (Llundain: William Mackenzie, 1867); John Parry (gol.), *Encyclopaedia Cambrensis: Y gwyddoniadur Cymreig*, 11 cyfrol (Dinbych: T. Gee a'i fab, 1889-1896); Owen Jones (Myvyr), Edward Williams (Iolo Morganwg) a William Owen Pughe (Idrison), *The Myvyrion archaiology of Wales: collected out of ancient manuscripts*, 2nd ed. (Denbigh: Gee, 1870); Owen Jones (Meudwy Môn), *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig: yn cynnwys detholion o weithiau prif feirdd ac ysgrifenywyr rhydd-iethiol y dywysogaeth o'r bedwaredd ganrif ar ddeg hyd yr oes hon*, 4 cyfrol (Llundain: Blackie, 1875-1876); Owen Jones (Meudwy Môn), *Cymru: yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol*, 2 cyfrol (Llundain: Blackie a'i fab, 1875). Gw. David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych, Gwasg Gee, 1973), t. 17.

<sup>29</sup> J. Vyrnwy Morgan, *The Life and Sayings of the Late Kilsby Jones, Congregational Minister, Llandrindod* (London: Elliot Stock, 1896).

<sup>30</sup> R. O. Rees, *Mary Jones, y Gymraes Fechan heb yr un Beibl: a sefydliad y Feibl-Gymdeithas* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1904). Cyhoeddwyd gyntaf gan Hughes a'i Fab yn 1879.

<sup>31</sup> 'Great poet': Glyn Tegai Hughes, 'Islwyn and *Y Storm*', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), t. 69. Gw. *Islwyn: Pigion o'i Waith; Pigion Rhyddiaith, Atodiad Barddoniaeth* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1897); *Islwyn* (Wrecsam: Hughes a'i Fab – Llyfrau Urdd y Delyn, 1897); Owen M. Edwards (gol.), *Gwaith Barddonol Islwyn* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1897).

<sup>32</sup> Owen M. Edwards (gol.), *Bywyd Ieuan Gwynedd, ganddo ef ei hun* (Caernarfon: Cyfres y Fil, 1900)

mae cyfrol H. Elvet Lewis, *Athrylith John Ceiriog Hughes*, o 1899 yn ei ddangos.<sup>33</sup> Yn wir, roedd caneuon poblogaidd oes Victoria yn gyffredinol yn eu hanterth yn y 1880au a 1890au, fel y gwelir yn *Cerddi Gwlad y Gân* o 1880 a *Casgliad o Ganeuon Cymru* o 1896.<sup>34</sup>

Y 1890au hefyd oedd y cyfnod pan ymddangosodd cenedlaeth newydd o feirdd rhamantaidd megis John Morris-Jones a Thomas Gwynn Jones.<sup>35</sup> Yn wir, dadleuai Saunders Lewis mai dwy awdl a ysgrifennwyd gan Morris-Jones yn y 1890au yw ‘barddoniaeth boliticaidd bwysicaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg’ yn y Gymraeg.<sup>36</sup> Yn ‘Cymru Fu: Cymru Fydd’ dehonglodd Morris-Jones ddelfrydau cenedlaetholgar y mudiad Cymru Fydd ac yn ‘Salm i Famon’ (1893-4) fe ddehonglodd ddelfrydau radicalaidd a chwyldroadol y mudiad.<sup>37</sup> ‘Y ddwy awdl hyn, nid ei gerddi serch, yw barddoniaeth fawr John Morris-Jones’, meddai Lewis.<sup>38</sup> Er mai ysgrifau ac erthyglau yn y wasg yw canolbwynt yr astudiaeth bresennol, pwysig yw nodi yn gynnar sut bynnag, fod themâu a disgwrs cenedlaetholgar yn ymddangos mewn nifer o *genres* a gweithiau llenyddol eraill y cyfnod.

Dyma gyfnod genedigaeth ffuglen fodern yn y Gymraeg hefyd gyda chynnyrch Daniel Owen ar y brig. Yn ei nofelau *Y Drefflan* (1881), *Rhys Lewis* (1885), *Enoc Huws* (1891) a *Gwen Tomos* (1894), ynghyd â'i gasgliadau o ysgrifau, darluniau a cherddi yn *Y Siswrn* (1888) a *Straeon y Pentan* (1895), dyfeisiwyd y nofel a'r stori fer Gymraeg gyfoes. Er i Saunders Lewis honni mai ‘mewn gwleidyddiaeth yr oedd [gan Owen] reddf Gymreiciach – tebycach i draddodiad Twm o'r Nant – na Rhyddfrydwyr amlwg ei genhedlaeth’, nid ymddengys gwleidyddiaeth genedlaethol fel thema amlwg yng ngwaith Daniel Owen, yn wahanol i'r wleidyddiaeth ddiwydiannol a dosbarthiadol a welir yng nghymeriad Bob Lewis yn y nofel *Rhys Lewis* er enghraifft.<sup>39</sup> Yn *Straeon y Pentan*, a gyhoeddwyd ar anterth llwyddiant Cymru Fydd yn 1895, prin yw'r cyfeiriadau at natur, hanes, sefyllfa, na dyfodol y genedl Gymreig, ac nid yw'r enw ‘Cymru’ yn cael ei grybwyll odid chwaith. Mae'n amlwg mai Cymry yw cymeriadau'r straeon, a bod digwyddiadau'r straeon yn cymryd lle, gan

---

<sup>33</sup> H. Elvet Lewis, *Athrylith John Ceiriog Hughes* (Liverpool: Foulkes, 1899). Gw. hefyd, Saunders Lewis, *Ceiriog – Yr Artist yn Philistia* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1929).

<sup>34</sup> E. G. Millward (gol.), *Ceinion y Gân: Detholiad o Ganeuon Poblogaidd Oes Victoria* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1983). t. xiii.

<sup>35</sup> Ystyrir *Y Nos y Niwl a'r Ynys* gan Alun Llywelyn-Williams fel triniaeth fwyaf awdurdol ar y mudiad newydd o feirdd rhamantaidd a ymddangosodd rhwng 1890 a 1914 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1960).

<sup>36</sup> Lewis, ‘Owen M. Edwards’, t. 29.

<sup>37</sup> J. T. Jones (gol.), *Llyfrau'r Ford Gron: 17* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1932), t. iv.

<sup>38</sup> Lewis, ‘Owen M. Edwards’, t. 29.

<sup>39</sup> Saunders Lewis, *Yr Artist yn Philistia II: Daniel Owen* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1936), tt. 2-3.

mwyaf, yng Nghymru, ond nid gwleidyddiaeth genedlaethol yw prif ddiddordeb Owen yn y gyfrol hon.<sup>40</sup>

Nid Daniel Owen yn unig a ysgrifennai ffuglen yn y Gymraeg yn y 1890au. Cyhoeddwyd cyfres o storïau a ymddangosodd gyntaf yn *Y Drysorfa* rhwng 1893 a 1896 yn y gyfrol *Llon a Lleddf* gan Sara Maria Saunders ('S.M.S.') yn 1897, cyhoeddodd Beriah Gwynfe Evans ei nofel ddychanol am wleidyddiaeth Gymreig San Steffan, *Dafydd Dafis*, yn 1898, ac ymddangosodd *Gŵr y Dolau, neu Ffordd y Troseddwr* gan W. Llewelyn Williams yn 1899.<sup>41</sup> Aeth 'S.M.S.' ymlaen i gyhoeddi sawl nofel Gymraeg arall megis *Y Diwygiad ym Mhentre Alun* (1907) a *Llithiau o Bentre Alun* (1908), ac ysgrifennodd gyfres o storïau byrion yn Saesneg yn y cylchgrawn cenedlaetholgar *Young Wales* rhwng 1896 a 1899 yn dwyn y teitl 'Welsh Rural Sketches'.<sup>42</sup> Cyhoeddodd y cefnogwr brwd dros hunanlywodraeth i Gymru a'r mudiad Cymru Fydd, Anne Harriet Hughes, ddwy nofel Gymraeg o dan y ffugenw 'Gwyneth Vaughan' a ymddangosodd gyntaf mewn cyfres yn *Y Cymro (O Gorllannau y Defaid*, 1905; *Plant y Gorthrwm*, 1908) ynghyd ag erthyglau yn Saesneg yn *Young Wales* a'r *Celtic Review*.<sup>43</sup>

Cyhoeddwyd nifer mawr o storïau byrion a nofelau yn Saesneg yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Roedd y Saesnes Anne Beale wedi cyhoeddi portreadau o fywyd gwledig Cymreig yn ei nofelau a'i rhyddiaith, sef *The Pennant Family* (1876), *Rose Mervyn, of Whitelake* (1879), *Seven Years for Rachel, or Welsh Pictures Sketched from Life* (1886).<sup>44</sup> Ceir y nofelau rhamantaidd a 'gwladgarol' gan y chwirydd Mallt a Gwenffrida Williams, *One of the Royal Celts* (1889) ac *A Maid of Cymru* (1901),<sup>45</sup> a chyhoeddwyd y stori fer 'David' am 'ferthyr arwrol' y Methodistiaid Calfinaidd gan Mallt Williams yng

---

<sup>40</sup> Gw. Daniel Owen, *Straeon y Pentan* (Wrexham: cyhoeddiedig gan Hughes & Son, 1895).

<sup>41</sup> Cyhoeddwyd detholiad o dair cyfrol Sara Maria Saunders yn Rosanne Reeves (gol.), *Llon a Lleddf a Storïau Eraill* (Dinas Powys: Honno, 2012). Beriah Gwynfe Evans, *Dafydd Dafis: sef Hunangofiant Ymgeisydd Seneddol* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1898). W. Llewelyn Williams, *Gŵr y Dolau, neu Ffordd y Troseddwr*, Argraffiad Diwygiedig (Gwasg Aberystwyth, 1946). Cyhoeddwyd gyntaf yn 1899.

<sup>42</sup> Cyhoeddwyd un o'r storïau hyn, 'Nancy on the Warpath', yn Jane Aaron (gol.), *A View across the Valley: Short Stories by Women from Wales c.1850-1950* (Dinas Powys: Honno, 1999), tt. 27-36.

<sup>43</sup> Cyhoeddwyd stori fer gan 'Gwyneth Vaughan', 'The Old Song and the New', yn Aaron (gol.), *A View across the Valley*, tt. 37-44. Am driniaeth lawnach o fywyd a gwaith Sara Maria Saunders a 'Gwyneth Vaughan', gw. Rosanne Reeves, *Dwy Gymraes, Dwy Gymru: Hanes Bywyd a Gwaith Gwyneth Vaughan a Sara Maria Saunders* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014).

<sup>44</sup> Gw. Aaron, *A View across the Valley*, t. 267.

<sup>45</sup> Roedd y chwirydd hyn yn ysgrifennu o dan y ffugenw 'The Dau Wynne'. Gw. Aaron (gol.), *A View across the Valley*, t. 268, am driniaeth lawnach o waith 'gwladgarol' Mallt Williams. Gw. hefyd, erthygl Marion Löffler ar Mallt Williams, 'A romantic nationalist', *Planet*, 121 (1997), 58-66.

nghylchgrawn cenedlaetholgar Owen M. Edwards, *Wales*, yng nghanol y cyfnod yn 1896.<sup>46</sup> Yn yr un modd, cyhoeddwyd 11 nofel hynod o boblogaidd a nifer o storïau byrion yn Saesneg a leolir yn Nhref-saith, Ceredigion, gan Allen Raine (Anne Adaliza Evans) rhwng 1894-1908. Ystyrir *Queen of the Rushes* (1906) yn glasurol o'i fath bellach.<sup>47</sup>

Cyhoeddwyd *In the Land of the Harp and Feathers: a Series of Welsh Village Idylls* gan Alfred Thomas yng nghanol y cyfnod dan sylw hefyd yn 1896.<sup>48</sup> Dyma gyfres o storïau byrion sy'n dilyn bywydau cymeriadau pentref ffuglennol de Cymru o'r enw 'Wengroes' yn y 1840au cyn anterth y chwyldro diwydiannol. Golwg ramantaidd ar bobl dduwiol, foesol, stoicaidd a syml sydd yma, ond golwg ag elfennau cryfion o imperialaeth ddiwylliannol Seisnig y cyfnod iddo hefyd â'i chymeriadau metropolitanaidd awdurdodol, teyrngarwch digwestiwn i'r Ymerodraeth Brydeinig a'r Frenhines Victoria, a'i thuedd i 'gywiro' rhagfarnau negyddol y bobl leol tuag at y Saeson.<sup>49</sup> Amlwg hefyd yw beirniadaeth yr awdur ar Derfysg Merthyr 1831 a'r Siartwyr yn gyffredinol wrth iddo geryddu radicaliaeth 'beryglus' y brodorion.<sup>50</sup> Nofelau rhamantaidd oedd y nofelau Saesneg a gyhoeddwyd yn y cyfnod hwn gan yr awdur ac anturiwr Arthur Owen Vaughan ('Owen Rhos-comyl') hefyd, sef *The Jewel of Ynys Galon* (1895), *Battlement and Tower* (1896) a *The White Rose of Arno* (1897).<sup>51</sup>

Dyma gyfnod ffrwythlon iawn i ryddiaith Gymraeg a Saesneg yn gyffredinol. Cyhoeddwyd nifer o gyfrolau hanes pwysig er enghraifft, megis *Celtic Britain* gan Syr John Rhys ar ddechrau'r cyfnod yn 1882, a *The Welsh People: Chapters on their Origin, History, Laws, Language, Literature and Characteristics* gan yr un awdur a David Brynmor-Jones ar ddiwedd y cyfnod yn 1900.<sup>52</sup> Ymddangosodd cyfrolau enwog yn eu dydd ar ystod eang o bynciau a chymeriadau hanesyddol Cymru; o Gerallt Gymro, yr Eglwys Gymreig gynnar, yr hen drefn lwythol Gymreig, rhyfeloedd goresgyniad Edward y Cyntaf, a hyd yn oed

---

<sup>46</sup> 'One of the Two Wynnes' (Mallt Williams), 'David', *Wales* (1896). Ailgyhoeddwyd yn Aaron (gol.), *A View across the Valley*, tt. 14-26.

<sup>47</sup> Gw. Aaron (gol.), *A View across the Valley*, t. 271.

<sup>48</sup> Alfred Thomas, *In the Land of the Harp and Feathers: a Series of Welsh Village Idylls*, Argraffiad Newydd (Dolgellau: William Hughes & Son, 1910). Cyhoeddwyd gyntaf gan H. R. Allenson, Llundain, yn 1896.

<sup>49</sup> Gw. Stephen Knight, 'Welsh fiction in English as postcolonial literature', yn Jane Aaron a Chris Williams (goln), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), t. 160.

<sup>50</sup> Knight, 'Welsh fiction in English', t. 160.

<sup>51</sup> Gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig* [ar-lein]: <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-VAUG-OWE-1863> [cyrchwyd: 10 Tachwedd 2018].

<sup>52</sup> John Rhys, *Celtic Britain* (London: SPCK, 1882). Gw. argraffiad diweddar gan Random House (London, 1996). John Rhys a David Brynmor-Jones, *The Welsh People: Chapters on their Origin, History, Laws, Language, Literature and Characteristics* (London, 1900). Gw. Fourth Edition, (London: T. Fisher Unwin, 1906)

triniaethau cynnar ar ieithyddiaeth gymdeithasol y Gymraeg.<sup>53</sup> Owen M. Edwards oedd hanesydd mwyaf poblogaidd y cyfnod, a'i ddwy gyfrol gynnar, *The Story of the Nations: Wales* (1901) ac *A Short History of Wales* (1906) yn traethu stori Cymru i'r bobl gyffredin mewn iaith ac arddull hygyrch.<sup>54</sup> Chwaraeai cyfrolau hanesyddol Edwards ac eraill rôl bwysig iawn yn natblygiad y disgwrs cenedlaethol yn y 1880au a 1890au, a byddwn yn eu trafod yn fanylach yn nes ymlaen yn Haen 3.

Ynghyd â chyfeirlyfrau ac almanaciau o bob math, dyma'r cyfnod y ganed llenyddiaeth deithio a *reportage* Gymraeg hefyd.<sup>55</sup> Gan ddechrau â'i deithiau i'r cyfandir, cyhoeddodd Owen M. Edwards *O'r Bala i Geneva* a *Tro yn yr Eidal* yn 1889, a *Tro yn Llydaw* yn 1890.<sup>56</sup> Yn 1896 trodd sylw Edwards at lefydd ac adeiladau cysylltiedig â chymeriadau hanesyddol Cymreig yn ei gyfrol *Cartrefi Cymru*, ac wedyn yn 1907 cyhoeddodd ddau gasgliad o'i deithiau o gwmpas Cymru, *Tro trwy'r Gogledd* a *Tro i'r De*.<sup>57</sup> Byddai Edwards yn cynhyrchu llwyth o lenyddiaeth i blant hefyd yn y cyfnod hwn gan gynnwys cyfrolau ar chwedlau traddodiadol Cymreig a llyfrau hanes i ysgolion megis *Hanes Cymru i Ysgolion*, *Cyfarfodydd Llenyddol*, a *Theuluoedd: Rhan I. Hyd Farwolaeth Gruffydd ab Llewelyn yn 1063* yn 1895.<sup>58</sup> Dyma'r cyfnod y ganed y ddrama Gymreig hefyd, gyda gweithiau arloeswr y maes, Beriah Gwynfe Evans, ar y brig, gweithiau megis *Owain Glyndwr* (1879), *Llywelyn Ein Llyw Olaf* (1883), *Ystori'r Streic* (1904), *Caradog: Drama*

---

<sup>53</sup> Gw. Henry Owen, *Gerald the Welshman* (London: Whiting 1889); Ebenezer J. Newell, *A Popular History of the Ancient British Church: with Special Reference to the Church in Wales* (London: Society for Promoting Christian Knowledge, 1887) ac *A History of the Welsh Church to the Dissolution of the Monasteries* (London: Elliot Stock, 1895); Frederic Seebohm, *The Tribal System in Wales: being part of an inquiry into the structure and methods of tribal society* (1895), 2nd ed. (London: Longmans, 1904); John Edward Morris, *The Welsh wars of Edward I: a contribution to mediaeval military history, based on original documents* (Oxford: Clarendon Press, 1901). Gw. gweithiau John Edward Southall ar ieithyddiaeth gymdeithasol y Gymraeg: *Wales and her language: considered from a historical, educational and social standpoint with remarks on modern Welsh literature and a linguistic map of the country* (Newport: Southall, 1892); *The Welsh language census of 1891: with coloured map of the 52 registration districts into which Wales is divided* (Newport: John E. Southall, 1895); *Preserving and teaching the Welsh language in English speaking districts: being the substance of an essay awarded a prize at the National Eisteddfod, Newport, 1897, by Galar Gwent (John E. Southall)* (Newport: John E. Southall, 1899).

<sup>54</sup> Gw. Owen M. Edwards, *A Short History of Wales* (London: T. Fisher Unwin, 1906); *The Story of the Nations: Wales* (1901), Ailargraffiad (London: T. Fisher Unwin, 1902).

<sup>55</sup> Gw. Hazel Davies, 'Boundaries: the early travel books and periodicals of O. M. Edwards', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 186-209.

<sup>56</sup> Owen M. Edwards, *O'r Bala i Geneva* (Y Bala: Davies ac Evans, 1889); *Tro yn yr Eidal* (Dolgellau: E.W. Evans, 1889); *Tro yn Llydaw* (Dolgellau: E.W. Evans, 1890).

<sup>57</sup> Owen M. Edwards, *Cartrefi Cymru* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1896); *Tro trwy'r Gogledd* (Caernarfon: Cwmni'r Cyhoeddwyr Cymreig, 1907); *Tro i'r De* (Caernarfon: Cwmni'r Cyhoeddwyr Cymreig, 1907). Gw. argraffiad diwygiedig o'r ddau lyfryn mewn un gyfrol: Thomas Jones (gol.), *Tro trwy'r Gogledd; Tro i'r De: Gweithiau Syr O. M. Edwards, Canmlwyddiant 1858-1958* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1958).

<sup>58</sup> Gw. Owen M. Edwards, *Hanes Cymru i Ysgolion, Cyfarfodydd Llenyddol, a Theuluoedd: Rhan I. Hyd Farwolaeth Gruffydd ab Llewelyn yn 1063* (1895). Gw. Ailargraffiad (Caernarfon: Swyddfa Cymru, 1901)



*Hanesyddol* (1904), *Glyndwr: Tywysog Cymru. Chwareuawd Hanesiol mewn Tair Act* (1911), ac *Esther: Drama Ysgrythyrol* (1914).<sup>59</sup> Ni ddadansoddir *reportage* Edwards na theatr Gwynfe Evans yn fanwl yn yr astudiaeth hon, ond diau y gallent fod yn faes ffrwythlon i archaeoleg ddisgyrsiol arall yn y dyfodol.

Cyfnod cymharol ffrwythlon i lenyddiaeth Gymraeg a Chymreig oedd y 1890au felly, ond gan mai Sbaeneg neu Ffrangeg oedd ieithoedd swyddogol y gwladwriaethau a lywodraethasai dros y tiriogaethau Basgaidd ers yr Oesoedd Canol, roedd yr iaith Fasgeg yn parhau i gael ei hystyried yn iaith wledig, ansoffistigedig, heb na diwylliant uchel na llenyddiaeth ysgrifenedig. Yn yr un modd, roedd ymranid gwleidyddol y taleithiau Basgaidd a diffyg canolfan fetropolitanaid iddynt wedi cyfrannu at orosiad chwe thafodiaith dra annhebyg i'w gilydd ar draws y wlad. Ar ben hynny, ac yn wahanol i hanes Cymru, ni ddatblygodd iaith ysgrifenedig safonol ymysg y dosbarthiadau llythrennog Basgaidd yn yr oes fodern: dyma ganlyniad, efallai, i barhad y drefn Gatholig a'i defnydd o Ladin ym mywyd crefyddol pob dydd, yn wahanol i'r drefn Brotestannaidd a'i chefnogaeth ar y cyfan i ieithoedd brodorol.<sup>60</sup>

Mae'n anodd dadlau, felly, fod llenyddiaeth Fasgeg ysgrifenedig a diwydiant cyhoeddi yn ffynnu yng Ngwlad y Basg cyn degawdau agoriadol yr 20g. Cafwyd geirfa fer o eiriau Basgeg yn *De las cosas memorables de España* ('Pethau cofiadwy Sbaen') gan Lucio Marineo Sículo yn 1530, ond *Linguae Vascorum Primitiae* ('Yr iaith Fasgeg gynnar'), sef casgliad o farddoniaeth grefyddol a cherddi serch gan Bernard Etxepare, oedd y llyfr llawn cyntaf i gael ei gyhoeddi yn y Fasgeg, a hynny yn 1545.<sup>61</sup> At hynny, cyhoeddwyd hanes Gwlad y Basg, *Notitia Utriusque Vasconiae* ('Cofnod Gwlad y Basg'), gan Arnold Oihénart

---

<sup>59</sup> Gw. E. G. Millward, 'Beriah Gwynfe Evans: a pioneer playwright-producer', am driniaeth gyflawn o fywyd a gwaith Evans, yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 166-185. Gw. gweithiau gwreiddiol Beriah Gwynfe Evans: *Chwareu-gan: Drama yn Null Shakespeare ar "Owain Glyndwr": Buddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Eryri, Llanberis, 1879* [Drama] (Llanberis: Argraffwyd dros y cyhoeddwr T.E. Jones gan Richard Owen, 1879); *Llywelyn Ein Llyw Olaf: Drama Gantata mewn Tair Act* [Drama] (Llanelli: D. Williams a'i Fab, 1883); *Ystori'r Streic: sef Drama yn Arddangos Bywyd Gweithwyr Cymru Heddyw* [Drama] (Caernarfon: Argraffwyd yn Swyddfa'r Herald, 1904); *Caradog: Drama Hanesyddol* [Drama] (Caernarfon: yr awdur, 1904); *Glyndwr, Tywysog Cymru: The Welsh Historical Investiture Play* [Drama] (Caernarfon: B.G. Evans, 1911); *Glyndwr: Tywysog Cymru. Chwareuawd Hanesiol mewn Tair Act. I. Gormes. II. Gwrthryfel. III. Rhyddid* [Drama] (Caernarfon, 'Cyhoeddedig gan yr awdur', 1911); *Esther: Drama Ysgrythyrol. Rhan 2, Y Cyfarwyddiadau a'r Gerddoriaeth* [Drama] (Caernarfon: Argraffwyd yn swyddfa'r Herald Cymraeg, 1914).

<sup>60</sup> Dyfais gymharol newydd yw 'Euskara batua', iaith lenyddol unedig.

<sup>61</sup> Lucio Marineo Sículo, *De las cosas memorables de España* (Alcalá de Henares, 1530). Gw. Bernard Etxepare; rhagair gan Pello Salaburu; cyflwyniad gan Beñat Oyharçabal; cyfieithwyd gan Mikel Morris Pagoeta, *Linguae vasconum primitiae: the first fruits of the Basque language, 1545* (Reno: Center for Basque Studies, University of Nevada, 2012).

yn 1638 a chasgliad o 537 o gerddi a diarhebion Basgaidd gan yr un awdur yn 1657.<sup>62</sup> Yn y 18g, cyhoeddodd y Jeswit Manuel de Larramendi, ieithydd ac ysgolhaig o fri, *De la antigüedad y universalidad del bascuence en España* ('Hynafiaeth a chyffredinolrwydd yr iaith Fasgeg yn Sbaen') (1728), *Diccionario trilingüe del Castellano, Bascuence y Latín* ('Geiriadur teirieithog Castileg, Basgeg a Lladin') (1745), *Corografía o descripción general de la muy noble y muy leal provincia de Guipúzcoa* ('Coreograffi neu ddisgrifiad cyffredinol o'r dalaith fonheddig a ffyddlon iawn, Guipúzcoa') (1756), a'r gramadeg Basgeg cyntaf erioed, *El imposible vencido* ('Yr amhosibl wedi'i drechu') (1729).<sup>63</sup> Yn yr un modd, cyhoeddodd brodor o Atharratze-Sorholüze (Tardets-Sorholus) yn y dalaith Fasgaid Ffrengig Zuberoa (Soule), a llais unigol o blaid rhyddid i'r taleithiau Basgaidd yn y 19g gynnar, Joseph-Augustin Chaho, *Paroles d'un Bizkaïen aux libéraux del Reine Christine* ('Geiriau Bisciaid wrth ryddfrydwy'r y Frenhines Cristina') yn 1834, a *Voyage en Navarre pendant l'insurrection des Basques (1830-1835)* ('Ymdaith yn Nafarroa yn ystod gwrthryfel y Basgiaid 1830-1835') yn 1836.<sup>64</sup>

Dim ond ar ôl i'r Ail Ryfel Carlaidd ddod i ben yn 1876, a cholli cyfundrefn hunanlywodraethol Fasgaidd y *fueros*, y byddai deallusion Basgaidd yn mynd ati o ddirif i adfer yr iaith Fasgeg ac adfywio llenyddiaeth a hanesyddiaeth Fasgaidd yn gyffredinol.<sup>65</sup> Sefydlwyd *Sociedad Euskara de Navarra* (Cymdeithas Fasgeg Nafarroa) yn 1877 gan Juan Iturralde y Suit, a chydag aelodau amlwg eraill o'r gymdeithas megis Estanislao de Aranzadi ac Arturo Campión, amlinellwyd a chofnodwyd hanes, mytholeg ac arferion talaith Fasgaidd Nafarroa mewn nifer o gyfrolau. Uchafbwynt y cyfnod cynnar hwn oedd y nofel hanesyddol am fuddugoliaeth y Basgiaid dros y Mwriaid yn yr 8g gan Francisco Navarro Villoslada, *Amaya ó los vascos en el siglo VIII* ('Amaya neu'r Basgiaid yn yr 8g') o 1877.<sup>66</sup> Roedd allbwn llenyddol Arturo Campión yn rhyfeddol yn ystod chwarter olaf y 19g. Gweithiodd

---

<sup>62</sup> Gw. Koldo Julen Garai, 'Oihenart, una relectura de su obra', *Letras de Deusto*, vol. 23, n° 60 (septiembre-octubre 1993), 119-143.

<sup>63</sup> Manuel de Larramendi, *De la antigüedad, y universalidad del bascuence en España: de sus perfecciones, y ventajas sobre otras muchas lenguas* (Salamanca: Eugenio Garcia de Honorato, 1728); *Diccionario trilingüe del Castellano, Bascuence y Latín* (San Sebastián: Bartholome Riesgo y Montero, 1745); *Corografía o descripción general de la muy noble y muy leal provincia de Guipúzcoa* (1756) (San Sebastián: Sociedad Guipuzcoana de Ediciones y Publicaciones, 1969); *El imposible vencido* (1729) (Echívarri: Amigos del Libro Vasco, 1988). Gw. Rodney Gallop, *A Book of the Basques* (London: MacMillan and Co., 1930), tt. 69-80.

<sup>64</sup> Joseph Agustín Chaho, *Paroles d'un Bizkaïen aux libéraux del Reine Christine* (Paris: Imprimerie de Prospere Dondey-Dupré, 1834); *Voyage en Navarre pendant l'insurrection des Basques* (Paris: Arthus Bertrand, 1836).

<sup>65</sup> Siarter o hawliau hunanlywodraethol arglwyddiaeth neu is-deyrnas benodol o dan goron Sbaen oedd 'fuero', tebyg i hawliau arglwyddiaethau'r Mers o dan goron Lloegr. Roedd gan y taleithiau Basgaidd i gyd (a Chatalwnia) eu *fueros* eu hunain cyn cael eu diddymu yn 1876.

<sup>66</sup> Francisco Navarro Villoslada, *Amaya ó los vascos en el siglo VIII: novela histórica* (1877) (Donostia: Tarttalo, D.L., 1991).

dros nifer o wahanol *genres* yn Sbaeneg ac yn Fasgeg a chyhoeddodd gannoedd o areithiau ac anerchiadau, erthyglau mewn cylchgronau, ysgrifau gwleidyddol, nofelau a straeon byrion, ynghyd â dwsinau o lyfrau ar hanes, anthropoleg ac ieithyddiaeth Nafarroa. Cyfrifir *El genio de Navarra* ('Athrylith Nafarroa') (1884-1888) a'r nofel hanesyddol *Blancos y negros* ('Gwynion a duon') (1898) ymysg ei weithiau pwysicaf yn Sbaeneg, ac *Orreaga* ('Roncesvalles') (1877) a 'Okendoren Eriotza' ('Marwolaeth Okendo') (1883) yn Fasgeg.<sup>67</sup> Trafodir *El genio de Navarra* yn fanylach yn nes ymlaen yn Haen 1.

Roedd deallusion o dalaith Biscaia yn cyfrannu at adfywiad llenyddol Gwlad y Basg hefyd yn y 1880au a'r 1890au. Cyhoeddodd yr ysgolhaig o Lekeitio (Lequeitio), Resurrección María de Azkue, *Euskal Izkindea* ('Gramadeg yr iaith Fasgeg') yn 1891 a'i *Diccionario vasco-español-francés* ('Geiriadur Basgeg-Sbaeneg-Ffrangeg') yn 1905, ac roedd chwe chyfrol *Historia general del Señorío de Bizcaya* ('Hanes cyffredinol Arglwyddiaeth Biscaia) gan Estanislao de Labayru (1895-1903) yn allweddol yn y broses o gofnodi hanes poblogaidd y dalaith, fel yr oedd *El gobierno y el régimen foral del Señorío de Vizcaya desde el reinado de Felipe II hasta la mayor edad de Isabel II* ('Llywodraeth a chyfundrefn y *fueros* yn Arglwyddiaeth Biscaia o deyrnasiad Felipe II hyd at henaint Isabel II), gan Fidel de Sagarmínaga Epalza o 1892.<sup>68</sup> Ysgrifennodd Sabino Arana ei hun un o ramadegau Basgeg cyntaf yr oes fodern, sef *Gramática elemental del euskera bizkaíno* ('Gramadeg elfennol Basgeg Biscaia'), yn 1888, ynghyd â 33 o weithiau o gerddoriaeth, 14 o lyfrau gwleidyddol a llenyddol a mwy na 600 o erthyglau yn y wasg.<sup>69</sup> O ran ei lyfrau, cyfrifir *Bizcaya por su independencia* ('Biscaia dros ei hannibyniaeth') (1892), a *El Partido Carlista y los fueros vasco-navarros* ('Y Blaid Garlaidd a'r *fueros* Basgaid-Nafarroaidd') (1897) ymysg y pwysicaf a byddwn yn eu trafod yn helaeth yn nes ymlaen yn yr astudiaeth

---

<sup>67</sup> Arturo Campión, *El genio de Navarra* (1884-1888) (Iruña: Editorial Mintzoa, 2005); *Blancos y negros: guerra en la paz* (Pamplona: Imp. de Erice y García, 1898); *Orreaga (Roncesvalles): balada escrita en el dialecto guipuzcoano: acompañada de versiones a los dialectos bizcaíno, labortano y suletino y de diez y ocho variedades dialectales de la región bascongada de Nabarra desde Olazagutía hasta Roncal* (1877) (Bilbao: La Gran Enciclopedia Vasca, 1971); 'Okendoren eriotza', *Euskal-Erria: revista bascongada*, t. 9 (2º sem. 1883), tt. 517-525.

<sup>68</sup> Resurrección María de Azkue, *Azkueko Resurreccion Maria Bizkaiko lenengo euskal-irakasleak eratu ta biurturiko Euskal-izkindea / Gramática euskara / formada y traducida por Resurrección María de Azkue* (Bilbao: Tipografía de José de Astuy, 1891); *Diccionario vasco-español-francés / Dictionnaire basque-espagnol-français* (Bilbao: El autor, 1905-1906). Estanislao Jaime de Labayru y Goicoechea, *Historia general del Señorío de Bizcaya* (chwe chyfrol) (Madrid: Librería de Victoriano Suárez, 1895-1903). Fidel de Sagarmínaga Epalza, *El gobierno y el régimen foral del Señorío de Vizcaya* (1892), Nueva ed. ampliada por Darío de Areitio – 5 vol. (Bilbao: Imprenta de la Excma. Diputación de Vizcaya, 1928-1976).

<sup>69</sup> Gw. Corcuera Atienza, *Orígenes*, tt. 191-192 am fanylion *Gramática elemental del euskera bizkaíno*.

hon.<sup>70</sup> Ysgrifennodd Arana sawl drama hefyd gan gynnwys *De fuera vendrá* ('O'r tu allan y daw') yn 1898 a *Libe* yn 1903, melodrama sy'n adrodd hanes arwres chwedlonol Fiscaiaidd eponymaidd a fu farw ym mrwydr Mungia (Munguía) yn 1471.<sup>71</sup> Canolbwyntir ar waith hanesyddol a newyddiaduraeth Arana yn yr astudiaeth hon, ond fel yn achos Gwynfe Evans, diau fod ei ddramâu yn haeddu sylw pellach yn y dyfodol.

Er na chyhoeddwyd llawer o lenyddiaeth yn yr iaith Fasgeg yn ystod y 1890au, roedd nifer o awduron pwysicaf llenyddiaeth Sbaen y cyfnod yn hanu o Wlad y Basg ac yn cyfrannu at ei llenyddiaeth. Pennaf yn eu plith oedd yr awdur ac athronydd Miguel de Unamuno a aned yn Bilbo yn 1864.<sup>72</sup> Roedd gan Unamuno ddiddordeb yn yr iaith Fasgeg er pan oedd yn ifanc, ac ysgrifennodd ei ddoethuriaeth ar wreiddiau'r iaith yn 1884: *Crítica del problema sobre el origen y prehistoria de la raza vasca* ('Beirniadaeth ar y broblem o darddiad a chynhanes yr hil Fasgaidd'). At hynny, cystadlodd am gadair yn y Fasgeg yn yr *Instituto de Bilbao* yn erbyn Sabino Arana yn 1888, ond enillwyd y gystadleuaeth yn y pen draw gan Resurrección María de Azkue. Bu Unamuno yn ysgrifennu yng ngwasg Bilbo trwy'r 1890au, yn enwedig i *El Noticiero Bilbaíno* a'r cylchgrawn sosialaidd *La Lucha de Clases*, ond cefnodd ar Wlad y Basg a'r iaith Fasgeg tua 1900 pan symudodd i Salamanca (Castilia) i gymryd swydd fel Rheithor y brifysgol, ac yn arbennig ar ôl ei araith ddadleuol yn erbyn y Fasgeg yn *Juegos Florales* Bilbo yn 1901.<sup>73</sup> Er y cydnabyddir Unamuno yn bennaf am ei draethawd athronyddol sylweddol, *Del sentimiento trágico de la vida* ('Ymdeimlad alaethus bywyd') (1912), a'i nofelau dirfodol Sbaeneg megis *Niebla* ('Niwl') (1914), *Abel Sánchez* (1917) a *San Manuel Bueno, mártir* ('Sant Manuel Bueno, merthyr') (1930), cyhoeddodd hefyd *Paz en la guerra* ('Heddwch mewn rhyfel') yn 1897, nofel sy'n traethu profiad pobl Bilbo yn ystod Gwarchae Bilbo gan y Carliaid yn 1874.<sup>74</sup>

---

<sup>70</sup> Sabino Arana, *Bizkaya por su independencia* (Bilbao: Tipografía de Sebastián, 1892); *El Partido Carlista y los fueros vasco-navarros: polémica* (Bilbao: Amorrortu, 1897).

<sup>71</sup> Sabino Arana, *De fuera vendrá: comedia en tres actos* [drama] (1898), edición anotada, estudio histórico-crítico y apéndices por José Luis Granja (Donostia: Haranburu, 1982); *Libe: melodrama histórico* (1903), original de Jelalde; desarrollo y adaptación dramático de Manuel de la Sota y Aburto (Bilbo: E. Verdes Achirica, 1934).

<sup>72</sup> Gw. erthygl gan José Javier Díaz Freire am berthynas Unamuno â Bilbo: 'Miguel de Unamuno y Bilbao: la experiencia melancólica de la modernidad', *Ayer*, 98/2015 (2), 21-44.

<sup>73</sup> Gw. Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 24. Cystadlaethau barddoni, canu a dawnsio ar fodel *jocs florals* y *Renaixença* Catalanaid oedd 'Juegos Florales' ('gemau fflurol') Bilbo a Donostia. Sefydlwyd y *jocs florals* Catalanaid ar sail traddodiad y gwyliau *Ludi Florae* Rhufeinig.

<sup>74</sup> Miguel de Unamuno, *Del sentimiento trágico de la vida en los hombres y en los pueblos* (1912), 3ª ed. (Madrid: Espasa-Calpe, 1982); *Paz en la Guerra* (1897), Edición crítica por Manuel Basas (Bilbao: El Correo Español-El Pueblo Vasco, 1986); *Niebla: novela* (Madrid: Renacimiento, 1914); *Abel Sánchez: una historia de pasión* (1917), 14ª ed. (Madrid: Espasa-Calpe, 1979); *San Manuel Bueno, mártir* (1931), 12ª ed. (Madrid: Cátedra, D.L., 1989).

Roedd sawl aelod amlwg arall y mudiad o fodernwyr *fin de siècle* Sbaenaidd *La Generación del 98* (Cenhedlaeth 1898) yn hanu o Wlad y Basg hefyd, gan gynnwys Pío Baroja a aned yn Donostia (San Sebastián) yn 1872. Yn debyg i Unamuno, cydnabyddir Baroja yn bennaf am ei nofelau athronyddol Sbaeneg megis *Camino de perfección: pasión mística* ('Llwybr perffeithrwydd: dioddefaint cyfriniol') (1901) ac *El árbol de la ciencia* ('Coeden gwybodaeth') (1911), ond ysgrifennodd gyfres o nofelau a alwodd yn 'Tierra vasca' ('Tir Basgaidd') gyda themâu a lleoliadau Basgaidd, sef *La casa de Aizgorri* ('Tŷ Aizgorri') (1900), *El mayorazgo de Labraz* ('Ystad Labraz') (1903), *Zalacaín el aventurero* ('Zalacaín yr anturiwr') (1908) a *La leyenda de Jaun de Alzate* ('Chwedl Jaun de Alzate') (1922).<sup>75</sup>

Ganed Ramiro de Maeztu yn Gasteiz (Vitoria) yn 1874, a chydabyddir y newyddiadurwr hwn erbyn hyn yn un o brif feddylwyr gwleidyddiaeth adain dde Sbaen yn y 1920au a 1930au. Datblygodd de Maeztu ei syniad o *hispanidad* (hisbaendod), neu amddiffyniad o frenhiniaeth, imperialaeth, Catholigiaeth, iaith a diwylliant Sbaen mewn cyfres o weithiau o *Hacia otra España* ('Tua Sbaen arall') (1899), *La crisis del humanismo* ('Argyfwng dyneiddiaeth') (1920), a *Defensa de la hispanidad* ('Amddiffyniad o hisbaendod') (1934).<sup>76</sup> Roedd yn olygydd, hefyd, ar y cylchgrawn adain dde, *Acción Española*, cyn iddo gael ei lofruddio gan weriniaethwyr yn Madrid ar gychwyn Rhyfel Cartref Sbaen yn 1936.

Yng ngweithiau a gyrfaodd Unamuno, Baroja a de Maeztu, felly, gwelir y tensiwn parhaol a fodolai yng Ngwlad y Basg yn y 19g rhwng hunaniaeth Fasgaidd a hunaniaeth Sbaenaidd. Er na ddadansoddir gwaith y tri awdur penodol hyn ymhellach, dyma thema gyffredinol y byddwn yn dychwelyd ati drosodd a throsodd yng ngweddill y traethawd.

---

<sup>75</sup> Pío Baroja, *Camino de perfección: pasión mística* (1901) (Madrid: Caro Raggio, D.L., 1974); *El árbol de la ciencia* (1911), 1<sup>a</sup> ed., 30<sup>a</sup> reimp (Madrid: Alianza, 1989); *La casa de Aizgorri* (1900) (Madrid: Caro Raggio, 1972); *El mayorazgo de Labraz* (1903) (Madrid: Caro Raggio, 1972); *Zalacaín el Aventurero: historia de las buenas andanzas y fortunas de Martín Zalacaín de Urbía* (1908), 7<sup>a</sup> ed. (Madrid: Espasa-Calpe, 1975); *La leyenda de Jaun de Alzate* (1922) (Madrid: Caro Raggio, 1972).

<sup>76</sup> Ramiro de Maeztu, *Hacia otra España* (1899) (Madrid: Biblioteca Nueva, D. L., 1998); *La crisis del humanismo: los principios de autoridad, libertad y función a la luz de la guerra* (1920) (Buenos Aires: Editorial Sudamericana, 1947); *Defensa de la hispanidad* (Madrid: Gráfica Universal, 1934)

## Newyddiaduraeth wleidyddol a'r wasg Gymreig a Basgaidd yn y 1890au

Roedd tirlun llenyddol y ddwy wlad yn weddol iach yn ystod y 1890au felly, a byddai syniadau cenedlaetholgar Cymreig a Basgaidd yn ymddangos yn, neu yn chwarae rhan yng nghreadigaeth, nifer helaeth o'r cyfrolau, nofelau, cerddi, hanesion a dramâu a drafodwyd uchod i ryw raddau neu'i gilydd, a byddwn yn cyfeirio at nifer ohonynt yn ddiweddarach yn yr astudiaeth hon. Wedi dweud hynny, mewn un cyfrwng yn benodol y byddai disgwrs cenedlaethol newydd y ddwy wlad yn ffynnu fwyaf, ac mewn un *genre* penodol o lenyddiaeth y mynegwyd datganiadau cenedlaethol-drefedigaethol gliriaf: hynny yw, ysgrifau, erthyglau a llythyrau yn y wasg argraffedig.

Yn ôl hanesydd amlwg y sector, Aled Jones, roedd enwadau crefyddol a phleidiau gwleidyddol yn sylweddoli potensial y wasg argraffedig i ddatblygu ac i gynnal 'cymunedau cred' yn gynnar iawn yng Nghymru, ac roeddent yn barod i'w cefnogi yn ariannol o hynny ymlaen.<sup>77</sup> Sefydlwyd *Y Drysorfa* gan y Methodistiaid Calфинаidd yn negawdau cynnar y 19g er enghraifft, a sefydlwyd *Yr Haul*, cylchgrawn yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru, yn 1835. At hynny, llwyddodd yr enwadau anghydfurfiol i ledaenu eu presenoldeb yn y wasg yn fwy na'r Eglwys sefydledig mewn termau cyffredinol, a gwir yw bod y Toriaid yn llai awyddus i ymyrryd yn uniongyrchol yn y wasg na'r Rhyddfrydwyr cyn estyn yr etholfraint yn sylweddol ar ôl Deddf Diwygio 1884.<sup>78</sup> Yn gyffredinol, sut bynnag, roedd newyddiaduron y 19g yn bleidiol i un o brif bleidiau'r cyfnod neu'r llall: roedd y *Western Mail* a'r *Weekly Mail* yng Nghaerdydd yn cefnogi'r Toriaid, er enghraifft, a'r *South Wales Daily News* a *Carnarvon and Denbigh Herald* y Rhyddfrydwyr.<sup>79</sup>

Radicaliaid y 1830au a 1840au, sut bynnag, a drodd yr ysgrif a'r erthygl yn y wasg yn gyfrwng cyfathrebu gwleidyddol o bwys yng Nghymru: radicaliaid megis Gwilym Hiraethog, Samuel Roberts (Llanbryn-mair), David Rees (Llanelli), Hugh Pugh (Mostyn) ac Ieuan Gwynedd. Sefydlodd y grŵp bach hwn o weinidogion a llenorion nifer o newyddiaduron a chylchgronau radicalaidd cwbl newydd yn y Gymraeg megis y *Diwygiwr* gan David Rees yn 1835, *Tarian Rhyddid a Dymchwelydd Gormes* gan Hugh Pugh yn 1839, *Yr Amserau* gan Gwilym Hiraethog yn 1843, ac *Y Cronicl* gan Samuel Roberts hefyd yn 1843. Yn

<sup>77</sup> Aled Jones, 'The Welsh Newspaper Press', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), t. 10. Gw. hefyd, Aled Jones, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1993), tt. 1-9, am hanes bras y wasg yng Nghymru rhwng 1800 a 1900.

<sup>78</sup> Jones, 'The Welsh Newspaper Press', t. 11.

<sup>79</sup> Jones, 'The Welsh Newspaper Press', t. 12.

ychwanegol at greu y cyhoeddiadau newydd hyn, ysgrifenasant doreth o erthyglau, areithiau a cherddi o blaid achosion gwleidyddol Cymreig pwysicaf y cyfnod megis rhyddid crefyddol a datgysylltu Eglwys Loegr, y bleidlais gyffredinol, gwrthgaethwasiaeth a gwrthimperialaeth. Gogwydd cryf tuag at foesoldeb Cristnogol yn lle athroniaeth y *philosophes* Ffrengig a wahaniaethai ysgrifau'r awduron radicalaidd Cymreig hyn oddi wrth waith radicaliaid Seisnig dros y ffin, yn ôl D. Gwenallt Jones, gyda Gwilym Hiraethog, er enghraifft, yn ymosod yn aml ar anffyddiaeth Voltaire, Rousseau a D'alembert ac yn dadlau dros swyddogaeth ehangach i grefydd ym mywyd gwleidyddol pob dydd.<sup>80</sup> 'Radicaliaeth Gristnogol, radicaliaeth Feiblaidd, felly, oedd radicaliaeth Cymru, a hwn oedd y gwahaniaeth pwysicaf rhyngddi a radicaliaeth Lloegr, radicaliaeth lesyddol Bentham ac eraill', meddai Jones.<sup>81</sup>

Byddai argyhoeddiad rhyddfrydol y radicaliaid cynnar hyn yn dylanwadu'n gryf ar y genhedlaeth gyntaf o awduron cenedlaetholgar Cymreig megis Michael D. Jones ac R. J. Derfel yng nghanol y ganrif, a byddai gwladgarwch Ieuan Gwynedd yn ysbrydoliaeth fawr i sefydlwyr a chefnogwyr y mudiad Cymru Fydd maes o law.<sup>82</sup> Ynghyd â sawl un arall, sefydlodd Michael D. Jones *Y Celt* yn 1878, er enghraifft, newyddiadur â thuedd gref i gefnogi achosion cenedlaethol Cymreig a 'lladmerydd Cymraeg mwyaf grymus radicaliaeth y cyfnod rhwng 1880 ac 1900', meddai R. Tudur Jones.<sup>83</sup> Thomas Gee oedd ffigwr mawr newyddiaduriaeth Gymreig y 1860au a 1870au, sut bynnag, ac ymhlith ei gyhoeddiadau oedd y cylchgrawn diwylliannol chwarterol *Y Traethodydd* a'r papur newydd *Baner Cymru* yn Ninbych, a gyfunwyd ag *Yr Amserau* Gwilym Hiraethog yn 1859 i ffurfio *Baner ac Amserau Cymru*. Yn *Baner ac Amserau Cymru* cafwyd llais pwerus dros ymgyrchoedd rhyddfrydol a chenedlaethol y 1870au gan gynnwys datgysylltu Eglwys Loegr, diwygiad tir ac addysg Gymraeg, ond cyfres o erthyglau yn y newyddiaduron o Lundain, *The Morning Star* a *The Evening Star*, gan Henry Richard yn 1866 oedd 'dylanwad sylfaenol' ar wleidyddiaeth genedlaethol Gymreig ym marn Kenneth O. Morgan.<sup>84</sup> Bu dadansoddiad Richard o 'Gyflwr Cymdeithasol a Gwleidyddol Cymru' yn alwad glir i ddod â goruwchreolaeth y bonedd

---

<sup>80</sup> D. Gwenallt Jones, 'Michael D. Jones' yn Gwynedd Pierce (gol.), *Triwyr Penllyn* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1956), t. 7.

<sup>81</sup> Jones, 'Michael D. Jones', t. 7.

<sup>82</sup> Gw. *Bywyd Ieuan Gwynedd, ganddo ef ei hun* (Cyfres y Fil, Caernarfon, 1900), casgliad o ysgrifau hunangofiannol, a cherddi gan Ieuan Gwynedd a olygwyd gan O. M. Edwards, un o aelodau amlycaf Cymru Fydd.

<sup>83</sup> Gw. R. Tudur Jones, 'Cwmni'r *Celt* a dyfodol Cymru', yn E. Wyn James a Bill Jones (goln), *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2009), t. 117.

<sup>84</sup> 'Fundamental influence': Morgan, *Wales in British Politics 1868-1922*, t. 21.

Seisnigaidd yng Nghymru i ben, a blynyddoedd yn ddiweddarach, yn Eisteddfod yr Wyddgrug 1873, tystiai William Gladstone ei hun i'r modd yr oedd yr erthyglau hynod hyn wedi 'agor ei lygaid' i faterion Cymreig.<sup>85</sup> Erbyn y 1880au hwyr, sut bynnag, dechreuodd cenedlaeth Samuel Roberts, Thomas Gee a Henry Richard golli dylanwad: 'they were yielding to a generation of new leaders, much younger, more militant, and more intensely nationalist', meddai Morgan.<sup>86</sup>

Ystyrir chwarter olaf y 19g yn 'oes aur' y papur newydd yng Nghymru, yn ôl Ifan Morgan Jones, gyda 17 o bapurau newyddion Cymraeg eu hiaith yn gwerthu tua 120,000 o gopiau yn 1886, a thua phedair gwaith cymaint â hynny yn Saesneg.<sup>87</sup> At hynny, roedd sylwebyddion y cyfnod yn ymwybodol o bwysigrwydd y cyfrwng am ddatblygiad Cymru fel cenedl yn y dyfodol, fel mae cyfrol gan T. M. Jones o 1893 yn ei dystio: *Llenyddiaeth fy Ngwlad, sef Hanes y Newyddiadur a'r Cylchgrawn Cymreig yn Nghymru, America, ac Awstralia yn nghyd a'u Dylanwad ar Fywyd Cenedl y Cymry*.<sup>88</sup> Yn wir, roedd rhai newyddiadurwyr y cyfnod yn enwog iawn yn eu hoesau eu hunain, megis John William Jones, 'Andronicus', a ysgrifennodd yn *Baner ac Amserau Cymru*, yr *Herald*, *Y Genedl a Chymru*. Atgofion personol a brasluniau o lefydd a phobl ei gynefin ac o'i deithiau ar draws Cymru a Phrydain oedd testun gwaith 'Andronicus', a chyhoeddwyd detholiad poblogaidd o'i waith yn 1894, *Adgofion Andronicus*, ac wedi iddo farw, cyfrol arall, *Yn y Trên*, yn 1895.<sup>89</sup>

Erbyn y 1880au hwyr roedd 'Cwmni y Wasg Genedlaethol Gymreig' yng Nghaernarfon wedi dechrau cyhoeddi'r teitlau pwysig *Y Genedl Gymreig* (â'i arwyddair 'Cymru yn un a'r Cymry yn genedl'), *The North Wales Observer*, a'r wythnosolyn sosialaidd cynnar *Y Werin*. Sefydlodd Isaac Foulkes *Y Cymro* yn Lerpwl yn 1890 ac fe fu'r cenedlaetholwr amlwg W. Llewelyn Williams (a sefydlodd gangen gyntaf Cymru Fydd yng Nghymru yn y Barri yn 1892) yn olygydd i *The South Wales Star* rhwng 1891 a 1894. Ar dudalennau'r newyddiaduron hyn, byddai dadleuon cenedlaethol Cymreig yn ymddangos

---

<sup>85</sup> 'The Social and Political Condition of Wales'; 'first opened his eyes': Morgan, *Wales in British Politics 1868-1922*, t. 21.

<sup>86</sup> Morgan, 'Welsh nationalism', 158.

<sup>87</sup> Ifan Morgan Jones, 'Papur newydd', *Esboniadur* (Coleg Cymraeg Cenedlaethol) [ar-lein], [https://wici.porth.ac.uk/index.php/Papur\\_newydd](https://wici.porth.ac.uk/index.php/Papur_newydd) [cychwyd: 07 Ionawr 2019]. Roedd y rhaniad rhwng newyddiaduron Saesneg eu hiaith a Chymraeg eu hiaith yn 65/35 yn y 1840au a 81/19 yn y 1900au: Jones, 'The Welsh Newspaper Press', tt. 5-6.

<sup>88</sup> T. M. Jones (Gwenallt), *Llenyddiaeth fy Ngwlad, sef Hanes y Newyddiadur a'r Cylchgrawn Cymreig yn Nghymru, America, ac Awstralia yn nghyd a'u Dylanwad ar Fywyd Cenedl y Cymry* (Treffynnon: P. M. Evans a'i Fab, 1893).

<sup>89</sup> John William Jones ('Andronicus'), *Adgofion Andronicus* (Caernarfon: Welsh National Press Company, 1894); *Yn y Tren* (gol. gan R. D. Rowland. 'Anthropos') (Caernarfon: Swyddfa'r Genedl, 1895).



bron yn feunyddiol o'r 1880au ymlaen a byddai disgwrs cenedlaethol Cymru yn dechrau ffynnu. Diddorol yw nodi, gan hynny, i'r ceidwadwyr Cymreig lansio newyddiadur newydd, *Y Cloranydd*, yn 1891, a hwythau'n awyddus, efallai, i ymateb y rhethreg ryddfrydol a chenedlaethol a lifai o'r mwyafrif o gyhoeddiadau'r wasg Gymraeg erbyn y 1890au.

Ymestynnai'r wasg Gymraeg yn y 19g i wledydd y *diaspora* Cymreig gyda *Y Drych*, er enghraifft, yn cael ei sefydlu yn 1850 yn Utica (Efrog Newydd), y papur newydd dwyieithog *Columbia* yn 1887 yn Emporia (Kansas), a phapur newydd Cymraeg y Wladfa, *Y Drafod*, yn 1891 gan Lewis Jones.<sup>90</sup> Byddai materion cenedlaethol yn ymddangos yn aml yn y cyhoeddiadau hyn, a byddwn yn ystyried yn ddiweddarach yn yr astudiaeth hon effaith alltudiaeth ar ddisgwrs cenedlaethol y Cymry tramor. Cyhoeddwyd nifer o gylchgronau i fenywod yn y cyfnod hwn hefyd, megis y misolyn *Y Gymraes* a sefydlwyd gan Ieuan Gwynedd yng Nghaerdydd yn 1850 a'r misolyn *Y Frythones* a olygwyd gan Sarah Jane Rees (Cranogwen) rhwng 1879 a 1891.<sup>91</sup> Er na ddadansoddir y cylchgronau 'benywaidd' hyn ar wahân yma, buddiol fyddai cymharu'r disgwrs cenedlaethol a welir ynnddynt â'r disgwrs cenedlaethol a welir yng nghylchgronau 'cyffredinol' (neu 'wrywaidd?') rywbryd yn y dyfodol.

Wrth adeiladu ar waith *Y Traethodydd* (a olygwyd dros gyfnod hir gan yr ysgolhaig enwog Lewis Edwards), sefydlwyd nifer o gylchgronau llenyddol a diwylliannol newydd yn y 1880au a 1890au. Sefydlwyd *Cyfaill yr Aelwyd* gan Beriah Gwynfe Evans yn 1881, er enghraifft, *Y Geninen* yn 1883, a llwyth o gylchgronau yn y 1890au gan Owen M. Edwards, 'gwir gychwynnydd newyddiaduraeth fodern Gymraeg', yn ôl Saunders Lewis, gan gynnwys *Cymru* (1891), *Cymru'r Plant* (1892), *Seren y Mynydd* (1895), *Y Llenor* (1895), *Heddyw* (1897) a *Wales* (1894).<sup>92</sup> Yn y cylchgronau hyn yr ymddangosai nifer mawr o'r ysgrifau hiraf a mwyaf datblygedig y cyfnod ar hanes, llenyddiaeth a diwylliant Cymreig. Pennaf ymysg cyhoeddiadau'r 1890au i drafod ac i gefnogi achosion cenedlaethol Cymreig, fodd bynnag, oedd dau gylchgrawn y mudiad Cymru Fydd, sef *Cymru Fydd* a gyhoeddid rhwng 1888 a 1891 a *Young Wales* a gyhoeddid rhwng 1895 a 1903. Roedd cefnogwyr a golygyddion y cylchgronau hyn yn llwyr ymroddedig i'r achos cenedlaethol yng Nghymru, ac ni synnir,

---

<sup>90</sup> Symudodd swyddfa *Columbia* i Chicago yn 1891.

<sup>91</sup> Jones, 'The Welsh Newspaper Press', t. 14.

<sup>92</sup> 'Er bod Nicander a Gwilym Hiraethog a Thalhaiarn a Cheiriog yn newyddiadurwyr, Owen Edwards yw gwir gychwynnydd newyddiaduraeth fodern Gymraeg, y math hwnnw o sgrifennu cyfoes a eilw'r Ffrancwyr yn *reportage*. Ef a droes newyddiaduraeth, ac arddull y llythyrau, yn brif gyfrwng llenyddiaeth': Lewis, 'Owen M. Edwards', t. 33.

efallai, y gwelir ynddynt ddadleuon llawnaf a hiraf y cyfnod (os nad y mwyaf eithafol) o blaid cenedlaetholdeb Cymreig.<sup>93</sup> Ni synnir chwaith, felly, fod nifer o erthyglau a godwyd o'r cylchgronau hyn yn ganolog i drafodaeth a dadl yr astudiaeth hon.

Yn debyg i'r sefyllfa yng Nghymru, roedd y 1880au a 1890au yn gyfnod cynhyrchiol iawn i'r wasg Fasgaidd, a phedwar cylchgrawn diwylliannol cwbl newydd yn cael eu sefydlu rhwng 1878 a 1885 er enghraifft.<sup>94</sup> Ac yn debyg i drefniadau yng Nghymru, roedd cylchgronau a newyddiaduron Basgaidd yn dueddol o ymochri â phleidiau neu achosion gwleidyddol penodol. At hynny, ac wedi cwmp Gweriniaeth Gyntaf Sbaen ac adferiad y Bourboniaid yn 1875, roedd gwleidyddiaeth brif ffrwd Sbaen yn ymrannu ar linellau tebyg i wleidyddiaeth Brydeinig gyda'r *Partido Liberal-Conservador* (plaid geidwadol a arweinid gan Antonio Cánovas del Castillo) yn cyfnewid grym â'r *Partido Liberal-Fusionista* (plaid ryddfrydol a arweinid gan Práxedes Mateo Sagasta) bob yn ail mewn cyfundrefn answyddogol a elwid yn *turno pacífico* (cyfnewid heddychlon).<sup>95</sup> Roedd nifer o newyddiaduron dyddiol Gwlad y Basg yn cefnogi'r ddwy blaid *monárquico* (o blaid cyfundrefn fonarchaidd 'ryddfrydol' yr Adferiad) Sbaenaidd hyn, gydag *El Nervión* o Bilbo ar ochr y ceidwadwyr o 1891 ymlaen, er enghraifft.<sup>96</sup>

Ond mewn termau cyffredinol roedd gwleidyddiaeth Sbaen llawer mwy heterogenaidd na gwleidyddiaeth Brydeinig ar ddiwedd y 19g. Roedd nifer o garfanau cryf iawn yn erbyn y gyfundrefn fonarchaidd, er enghraifft, megis yr anarchwyr a'r gweriniaethwyr, ac roedd gan y blaid weriniaethol, *La Unión Republicana* (Yr Undeb Weriniaethol), nifer o gyfnodolion cefnogol yn Bilbo megis *El Porvenir Vascongado* ('Y Dyfodol Basgaidd'), yr wythnosolyn *La Unión Republicana* ('Yr Undeb Weriniaethol') a *La Juventud Republicana* ('Ieuenctid Gweriniaethol'), a *La Libertad* ('Rhyddid') yn Donostia.<sup>97</sup> Yn yr un modd, roedd sosiaeth a'r *Partido Socialista y Obrero Español* (Plaid Sosialaidd a Llafur Sbaen) yn dechrau cydio mewn nifer cynyddol o ardaloedd diwydiannol Sbaen gan gynnwys Biscaia o dan arweinyddiaeth Facundo Perezagua a Pablo Iglesias, a ffynnai'r

<sup>93</sup> Byddem yn dadlau mai o ysgrifbin Emrys ap Iwan, a ysgrifennai gan fwyaf yn *Y Geninen a Baner ac Amserau Cymru*, y gwelir disgwrs cenedlaethol Cymreig mwyaf eithafol y cyfnod.

<sup>94</sup> *Revista de las Provincias Euskaras* (Gasteiz, 1878-80), *Revista Euskara* (Iruñea (Pamplona), 1878-83), *Euskal-erria* (Donostia, 1880-1907) a *Revista de Vizcaya* (Bilbo, 1885-89). Gw. Payne, *Basque Nationalism*, t. 84.

<sup>95</sup> Gw. Raymond Carr, 'Liberalism and reaction, 1833-1931', yn Raymond Carr (gol.), *Spain: A History* (Oxford: Oxford University Press, 2000), t. 223, am hanes cryno o'r *turno pacífico*. Gw. hefyd, Raymond Carr, *Modern Spain: 1875-1980* (Oxford: Oxford University Press, 1980), tt. 8-10.

<sup>96</sup> Yr afon sy'n llifo trwy ddinas Bilbo yw'r Nervión.

<sup>97</sup> Javier Díaz Noce, *Historia del periodismo vasco (1600-2010)* (San Sebastián-Donostia: Mediatika, Cuadernos de Medios de Comunicación / Eusko Ikaskuntza 13, 2012), t. 106.

wythnosolyn *La Lucha de Clases: semanario socialista obrero* ('Rhyfel Dosbarth: wythnosolyn sosialaidd lafur') yn Bilbo o 1894 ymlaen, a Miguel de Unamuno yn un o'i gyfranwyr rheolaidd.<sup>98</sup>

Ar ochr arall y sbectrwm gwleidyddol, roedd y Carliaid yn gwrthod brenhiniaeth Alfonso XII am fod yn rhy ryddfrydol ac yn cefnogi cyfundrefn fonarchaidd Gatholig a thraddodiadol iawn yr hawliwr Carlos María de Borbón (a adwaenid fel Carlos VII gan ei gefnogwyr). Yn rhannol oherwydd eu Catholigiaeth a thraddodiaeth gref, ond hefyd oherwydd eu cefnogaeth i gyfundrefn y *fueros* Basgaid, roedd gan y Carliaid gryn dipyn o gefnogaeth yng Ngwlad y Basg, gan gynnwys o du'r cyfnodolion *El Basco* ('Y Basgiad') yn Bilbo, *El Cantabro* ('Y Cantabriad') yn Tolosa ac *El Correo de Guipúzcoa* ('Post Gipuzkoa') yn Donostia. Byddai'r garfan fwyaf eithafol eu Catholigiaeth ymysg y Carliaid yn ffurfio plaid ar wahân yn 1888 o'r enw *El Partido Integrista* (Plaid Gyfannu), a byddai'r blaid hon yn cyfrif nifer o gyfnodolion ymysg ei chefnogwyr megis y papur dyddiol *El Fuerista* yn Donostia, a'i harwyddair yn 'Periódico Católico: Se publica con censura eclesiástica: ¡Cristo vence! ¡Cristo reina! ¡Cristo impera!' ('Papur Newydd Catholig: fe'i cyhoeddir o dan sensoriaeth yr Eglwys: Mae Crist yn fuddugol! Mae Crist yn teyrnasu! Mae Crist yn gorchfygu!').<sup>99</sup>

Wedi sefydlu'r *Sociedad Euskara de Navarra* (Cymdeithas Fasgeg Nafarroa) yn 1877, lansiodd Juan Iturralde y Suit a *fueristas* eraill y misolyn *Revista Euskara* ('Cylchgrawn y Fasgeg') yn 1878, a dechreusant gyhoeddi erthyglau ar hanes, iaith a diwylliant Basgaid Nafarroa. Yn yr un modd, sianelai'r grŵp hwn o ddeallusion gwladgarol, neu'r 'Euskaros navarros' fel y'u hadwaenid hefyd, eu gweithgarwch gwleidyddol trwy'r papurau newydd *El Arga* (sef yr afon Arga) a *Lau Buru* (y groes neu swastica Basgaid). Arwyddair *El Arga* oedd 'Por Navarra, Para Navarra' ('Dros Nafarroa, Ar gyfer Nafarroa'), a byddai'r newyddiadur hwn yn ymgyrchu dros sefydlu plaid *fuerista* ar wahân ym mhedair talaith Fasgaid Sbaen ac adferiad eu llywodraethau rhanbarthol o fewn cyfundrefn ryddfrydol Sbaen. Yn ychwanegol at ysgrifennu yn *Revista Euskara*, *El Arga* a *Lau Buru*, cyfrannodd aelod amlwg arall y grŵp hwn, sef Arturo Campión, i nifer o gylchgronau *fuerista* eraill

---

<sup>98</sup> Gw. Jesús M. Eguiguren, *El socialismo y la izquierda vasca 1886-1994* (Madrid: Editorial Pablo Iglesias, 1994), tt. 1-14.

<sup>99</sup> Ceir enghraifft dda o syniadau'r *Integristas* ar sut y dylai sefydliadau a dysgeidiaeth yr Eglwys Gatholig fod yn rhan annatod o'r wladwriaeth a'r gyfundrefn gyfreithiol yn anerchiad Arturo Campión gerllaw Senedd Sbaen ar 14 Ionawr 1895: Arturo Campión, 'Discurso en el Congreso de los Diputados el día 14 de enero de 1895', yn *Discursos Políticos y Literarios de Arturo Campión* (Bilbao: Editorial la gran Enciclopedia Vasca, 1976), tt. 104-119.

megis *El Eco de Navarra* ('Cytsain Nafarroa'), *Euskal-Erria* ('Gwlad y Basg'), *La Joven Navarra* ('Nafarroa Ieuanc'), *El Ateneo* ('Y Ddarllenfa'), *La Ilustración Navarra* ('Goleuedigaeth Nafarroa'), *Revista del Antiguo Reino de Navarra* ('Cylchgrawn Hen Deyrnas Nafarroa') a *El Boletín de la Comisión de Monumentos de Navarra* ('Adroddiad Comisiwn Henebion Nafarroa').

Roedd y cyfreithiwr a'r hanesydd rhyddfrydol o Fiscaia, Fidel de Sagarmínaga, wedi sefydlu'r newyddiadur *La Paz* ('Heddwch') a chreu'r *Partido Fuerista de Unión Vascongada* (Plaid *Fuerista* dros Undeb Fasgaid) yn Madrid yn 1876. Ac yntau wedi'i ysbrydoli gan yr 'Euskaros navarros', sefydlodd *La Sociedad Euskalerría de Bilbao* (Cymdeithas Gwlad y Basg Bilbo) yn 1880. Yn yr un flwyddyn ymddangosodd newyddiadur dyddiol yr 'Euskalerríacos' (fel yr adwaenid aelodau'r gymdeithas), *La Unión Vasco-Navarra* ('Undeb Fasgaid-Nafarroaid'), a byddai'r newyddiadur *La Cantabria* ('Cantabria') yn Bilbo yn cefnogi safiadau rhanbartholgar a rhyddfrydol yr 'Euskalerríacos' o 1893 tan 1897. Yn 1896 ymddangosodd cylchgrawn wythnosol newydd y mudiad, *Euskalduna* ('Y Basgiad'), o dan reolaeth arweinydd newydd y mudiad Ramón de la Sota, ac o erthyglau hir a datblygedig y cyhoeddiad hwn deuai enghreifftiau cliriach o ddisgwrs cenedlaetholgar cymedrol y cyfnod. Ni synnir, felly, y codwyd nifer mawr o erthyglau o'r cylchgrawn hwn at ddibenion yr astudiaeth bresennol.

Fel y trafodwyd uchod, o rengoedd y Carliaid a'r *Integristas* y deuai cefnogwyr cyntaf yr EAJ-PNV yng nghanol y 1890au, ac nid syndod, efallai, i'r newyddiadur *El Fuerista* newid ei deyrngarwch gan ochri â'r Blaid Genedlaetholgar Fasgaid yn nes ymlaen yn 1898.<sup>100</sup> Ond roedd sylfaenydd yr EAJ-PNV, Sabino Arana, wedi sefydlu nifer o gyhoeddiadau cyn hynny, sef *Bizkaitarra* ('Y Biscaiad') yn 1893 a'r wythnosolyn *Baserritarra* ('Y Gwerinwr') yn 1897, a byddai'n mynd ymlaen i sefydlu sawl un arall megis yr wythnosolyn *La Patria* ('Y Famwlad') a'r chwarterolyn *Euskadi* (sef enw newydd a ddyfeisiodd Arana am y wladwriaeth Fasgaid annibynnol a fydd) yn 1901. Os ar dudalennau *Euskalduna* y ceir yr enghreifftiau cliraf o ddisgwrs cenedlaetholgar cymedrol y cyfnod, ceir enghreifftiau cliriach o ddisgwrs cenedlaetholgar mwyaf eithafol y cyfnod yn nhudalennau cyhoeddiadau Sabino Arana a'r EAJ-PNV. Awn ymlaen yn y penodau sydd i ddod i

---

<sup>100</sup> Mae Engracio de Arantzadi y Etxeberria ('Kizkitza') yn traethu hanes *El Fuerista* a sut y dechreuodd gefnogi'r EAJ-PNV yn 1898, yn *Ereintza: siembra de nacionalismo vasco 1894-1912* (Zarautz: Editorial Vasca, 1935), tt. 61-91.

ddadansoddi'r datganiadau cenedlaetholgar hyn a'u cymharu â datganiadau yn y wasg  
Gymreig.

## 2: Ystyriaethau methodolegol a damcaniaethol

Cymhariaeth o ddau ddisgwrs sy'n trin yr un pwnc mewn dau le gwahanol yw mater yr astudiaeth hon, dau ddisgwrs a gofnodwyd mewn detholiad bach o gyfnodolion yn ystod y 1890au. Astudiaeth fanwl ar ddau arteffact hanesyddol sydd gennym yma felly, astudiaeth sy'n amlinellu iaith, meddwl, ac amgylchiadau cymdeithasol nifer fach o feddylwyr Cymreig a Basgaidd yn ystod y 19g hwyr. Gellir cyfeirio at ein gorchwyl – i fenthyg term yr hanesydd ac athronydd Michel Foucault – fel prosiect mewn 'archaeoleg' destunol, neu brosiect sy'n ceisio dadorchuddio a dadansoddi haenau claddedig iaith a hanes syniadaethol dwy wlad.<sup>101</sup> Os felly, y peth cyntaf y dylid ei wneud – yn unol ag arferion gorau'r gwyddorau – yw egluro dewis ein gwrthrych, y fethodoleg ddadansoddol a fabwysiedir, y tybiaethau damcaniaethol a ddilynir, ac unrhyw anhawster technegol a ragwelir, cyn mynd ymlaen i'r ffos â rhaw a thrywel.

Yn gyntaf yn y bennod hon, esbonir sut y dewiswyd gwrthrychau'r archaeoleg ddisgyrsiol hon, sef datganiadau cenedlaethol-drefedigaethol yn y wasg Gymreig a'r wasg Fasgaidd yn y 1890au. Amlygir y gwahanol gyfrolau a chasgliadau o erthyglau yr ymgynghorwyd â hwy ac esbonnir sut y codwyd erthyglau ac adroddiadau yn uniongyrchol o'r wasg Gymraeg a Basgaidd yn y 1890au.

Os mai gwaith archeolegol yw hwn, gwaith â dwy gloddfa ydyw hefyd, a bwriad yr astudiaeth yw cymharu arteffactau diwylliannol dwy wlad wahanol er mwyn dod i gasgliadau cyfosodol. Ni ddewiswyd y fethodoleg gymharol hon ar ddamwain, sut bynnag, ac nid ar hap y dewiswyd y gwrthrych: ail amcan y bennod hon fydd esbonio egwyddorion, amcanion a manteision y fethodoleg gymharol.

'Testunau', neu ddarnau o lenyddiaeth, sy'n tarddu o'r 1890au yw'r arteffactau diwylliannol y bwriadwn eu harchwilio, a buddiol fydd egluro ein tybiaethau damcaniaethol a'n dull beirniadol o flaen llaw. Y cysyniad sy'n goleuo a chynnal y dull hwnnw yw 'theori disgwrs', neu'r syniad mai mewn iaith y ffurfir ystyr a dealltwriaeth, mai trwy iaith yr ymarferir grym cymdeithasol, ac mai trwy iaith y gellir herio'r grym cymdeithasol hwnnw. Trydydd amcan y bennod yw esbonio pam y dewiswyd theori disgwrs ymhlith y doreth o opsiynau damcaniaethol eraill, a sut y gall y theori hon fwrw goleuni newydd ar ein testunau ac ar eu cyd-destun cymdeithasol.

---

<sup>101</sup> Michel Foucault, *The Archaeology of Knowledge* (London: Tavistock Publications, 1972).

Disgyrsiau cenedlaethol, neu draethodau ar orffennol, presennol a dyfodol y genedl Gymreig a'r genedl Fasgaidd yw deunydd ein testunau, a thrafodaeth fer ynghylch defnydd ac ystyr y gair problemus 'cenedl' fydd pedwaredd adran y bennod hon. Byddwn yn adolygu prif theorïau'r genedl o bersbectif hanesyddiaeth draddodiadol a gwyddoniaeth wleidyddol gyfoes, gan asesu a ydynt o ddefnydd i'r dasg bresennol.

Yn y bumed adran, ystyrir y genedl o bersbectif arall, sef persbectif theori ôl-drefedigaethol. Dyma faes damcaniaethol sy'n dadansoddi cymdeithas, diwylliant a llenyddiaeth yng nghyd-destun perthnasau imperialaidd anghyfartal, a dyma faes sy'n caniatáu inni ystyried disgyrsiau cenedlaethol Cymreig a Basgaidd yng ngoleuni eu perthynas â disgyrsiau 'cenedlaethol-imperialaidd' Prydain a Sbaen. Ystyrir, felly, i ba raddau yr ydym yn ymdrin â disgyrsiau 'cenedlaethol-drefedigaethol' yn y testunau dan sylw ac a ddylem fabwysiadu'r term hwnnw wrth fynd ymlaen.

Dadansoddi defnydd a thriniaeth o iaith sydd wrth wraidd theori ôl-drefedigaethol, ond nifer o ieithoedd sy'n llenwi tudalennau'r astudiaeth hon gan mai gwledydd amlieithog oedd Cymru a Gwlad y Basg yn y 19g, dwyieithog oedd mwyafrif yr awduron dan sylw, ac yn y Gymraeg, Saesneg, Sbaeneg, Ffrangeg a Basgeg yr ysgrifennwyd erthyglau yn y wasg Gymreig a'r wasg Fasgaidd yn y 1890au.<sup>102</sup> Croesi ffiniau ieithyddol a wnaeth ein disgyrsiau cenedlaethol felly, a byddwn yn ystyried goblygiadau'r amlieithrwydd hon, ynghyd â nifer o gymhlethdodau eraill yr astudiaeth gymharol megis categoreiddio, 'lle', 'goddrych' yr awdur, a'i hechel gronolegol, yn chweched adran y bennod hon.

Yn olaf, byddwn yn amlinellu strwythur y dadansoddi testunol, strwythur a seilir ar bedair prif haen ein fframwaith disgyrsiol arfaethedig, sef 'ni a nhw', 'cyfeillion a gelynyion', 'diffygion a chywiriadau' ac 'undod a rhyddid'. Gan gynnig teipoleg newydd ar gyfer disgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol gwledydd bychain o'r fath, byddwn yn gosod fframwaith cyfunol ar gyfer y ddau ddisgwrs, ond fframwaith sy'n caniatáu inni amlygu nodweddion gwahanol ac unigryw wrth inni fynd ymlaen.

---

<sup>102</sup> Siaradid Basgeg a Sbaeneg yn Hegoalde (y taleithiau Basgaidd yn Sbaen) a siaradid Basgeg a Ffrangeg yn Ipparalde (y taleithiau Basgaidd yn Ffrainc).

## Dewis testunau

Ceir miloedd, os nad miliynau, o eiriau yng nghylchgronau a newyddiaduron Cymreig a Basgaidd y 1890au, ac mae'n briodol yn adran gyntaf y bennod hon esbonio sut y dewiswyd y datganiadau a ddadansoddir maes o law.

Yn gyntaf, ymgynghorwyd â nifer o gasgliadau o erthyglau gan genedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd amlycaf y cyfnod. Ceir cyfrolau defnyddiol o erthyglau awduron megis Ieuan Gwynedd, Emrys ap Iwan, R. J. Derfel ac Owen M. Edwards, er enghraifft, a chyfrolau o areithiau cyhoeddus Thomas E. Ellis a homiliau Emrys ap Iwan hefyd.<sup>103</sup> Yn achos Gwlad y Basg, ceir tair cyfrol *Obras Completas* (holl weithiau) Sabino Arana a gyhoeddwyd yn 1965, casgliad o ohebiaeth gan Sabino a'i frawd Luis, a nifer o gyfrolau o ddatganiadau enwocaf Sabino Arana.<sup>104</sup> Yn ail, manteisiwyd ar waith haneswyr a beirniaid llenyddol sydd eisoes wedi dadansoddi a dyfynnu datganiadau o ddiddordeb. Gellid amlygu gwaith D. Gwenallt Jones ar newyddiaduriaeth Michael D. Jones, er enghraifft, neu erthygl Ander Delgado ar syniadau *fuertistas* Basgaidd y 1890au.<sup>105</sup> Yn drydydd, gwnaethpwyd chwiliad ar gyfer y blynyddoedd 1895 a 1896 ar y wefan *Papurau Newydd Cymru Ar-lein* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) dros ddetholiad o newyddiaduron Cymreig megis *Baner ac Amserau Cymru*, *Y Cymro*, *Yr Haul*, *Y Drych-Columbia*, *Tarian* y *Gweithiwr* a *The Weekly Mail*.<sup>106</sup> Gan ddefnyddio allweddeiriau megis 'Welsh nation', 'nationalism', 'nationalist', 'cenedlaethol', a 'chenedlaetholwr', codwyd nifer o erthyglau neu lythyrau o 1895 a 1896 sy'n ymdrin â themâu cenedlaethol Cymreig. Yn bedwerydd, arolygwyd copïau caled nifer o

---

<sup>103</sup> Brinley Rees (gol.), *Ieuan Gwynedd: Detholiad o'i Ryddiath* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1957). D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan*, 3 cyf: I. 'Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol'; II. 'Llenyddol, Ieithyddol'; III. 'Crefyddol' (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937-40). Dafydd Glyn Jones (gol.), *Emrys ap Iwan: Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys* (Bangor: Dalen Newydd, 2011). D. Gwenallt Jones (gol.), *Detholiad o Ryddiath Gymraeg R. J. Derfel*, 2 cyfrol (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1945). Thomas Jones (gol.), *Yn y Wlad ac Ysgrifau Eraill gan Syr O. M. Edwards* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1958). Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrecsam: Hughes and Son, 1912). Ezra Roberts (gol.), *Homiliau gan y Diweddar Parch. R. Ambrose Jones (Emrys ap Iwan)*, 2 cyf. (Dinbych: Gee a'i Fab, 1906-09).

<sup>104</sup> Sabino Arana, *Obras completas de Arana-Goiri'ttar Sabin* (Buenos Aires: Editorial Sabindiar-Batza, 1965). Mauro Elizondo (gol.), *Sabino Arana: padre de las nacionalidades: correspondencia inédita de los hermanos Arana-Goiri* (gohebiaeth Sabino Arana a'i frawd Luis), 2 vol. (Bilbao: La Gran Enciclopedia Vasca, 1981). Manuel de Egilsot (gol.), *De su alma y de su pluma (colección de pensamientos, seleccionados en los escritos del maestro del nacionalismo vasco) / Arana-Goiri'ttar Sabin* (Publicado con motivo de la celebración de las "Bodas de oro" del Nacionalismo Vasco, 1882-1932) (Bilbao: Talleres Gráficos E. Verdes Achirica, 1932); argraffiad newydd gan Editorial Memoria Histórica, heb ddyddiad. Adolfo Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana: Fundador del Nacionalismo Vasco* (Madrid: Criterio Libros, 2001).

<sup>105</sup> Gw. Jones, 'Michael D. Jones'; Ander Delgado, 'El fuerismo, el *Home Rule Bill* y la política británica: el contexto internacional en los inicios del movimiento nacionalista vasco (1890-1903)', *Historia Contemporánea*, 25 (2002), 289-317.

<sup>106</sup> *Papurau Newydd Cymru Ar-lein* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru): <https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru>.



gylchgronau ‘cenedlaetholgar’ Cymreig y cyfnod, megis *Y Geninen*, *Young Wales* a *Cymru*, ar gyfer y blynyddoedd 1895 ac 1896, a chodi erthyglau a ymdriniai â themâu cenedlaethol Cymreig. Yn bumed ac yn olaf, arolygwyd fersiynau ar-lein nifer o newyddiaduron a chylchgronau Basgaidd y cyfnod, megis *Euskalduna*, *La Cantabria*, *Euskal-Erria*, *El Cantabro*, *El Fuerista* a *Bizkaitarra* ar gyfer y blynyddoedd 1895 a 1896, a chodi erthyglau o ddiddordeb ychwanegol.<sup>107</sup>

Ni honnir bod y dewis hwn yn adlewyrchu pob barn ar y cwestiwn cenedlaethol Cymreig a Basgaidd a fynegwyd yn y wasg yn 1895 a 1896, a chydabyddir ei bod yn debygol iawn bod barnau, safiadau a datganiadau pwysig eraill ar goll. Y peth a honnir, sut bynnag, yw bod y detholiad hwn yn rhoi trosolwg gwerthfawr ar y ffordd y trafodid y genedl Gymreig a’r genedl Basgaidd yn y wasg yn y 1890au, a hynny gan genedlaetholwyr neu ranbartholwyr eu hunain, ac yn enwedig dau lais cenedlaetholgar mwyaf eithafol y cyfnod dan sylw: Emrys ap Iwan a Sabino Arana.<sup>108</sup> Ymddiddorir yng nghynnwys disgwrs cenedlaethol-drefedigaethol y ddwy wlad ar y lefel gyffredinol yn ogystal ag y lefel fanylaf, felly, ac ymddiddorir yn sut y mae’r ddau ddisgwrs yn gweithio mewn termau cyffredinol. Ond pam y dewiswyd dadansoddi disgwrs dwy wlad? Pam y dewiswyd eu cymharu hwy?

## Cymharu nid cysylltu

Anghyffredin yw gweld cysylltiadau uniongyrchol rhwng pobl Cymru a phobl Gwlad y Basg yn hanes y ddwy wlad. Gwyddys bod llongau o borthladdoedd Biscaia a Gipuzkoa (Guipúzcoa) yn cludo gwin i Fiwmares a Chaernarfon yn ystod yr Oesoedd Canol hwyr, a gwyddys bod y bardd Cymreig, Hywel Swrdwal, yn ymwybodol o ‘win blaen yr Ysbaen, gwin Rasbi’ yn 1450.<sup>109</sup> Ond prin yw’r cyfeiriadau i Gymry a Basgiaid yn cwrdd, yn masnachu, ac yn cydnabod ei gilydd fel y cyfryw yn y cyfnod cyn-fodern.

---

<sup>107</sup> Ceir mwyafrif o gyfnodolion Basgaidd y cyfnod yn *hemerotecas digitales* (archifau cyfnodolion ar-lein) llyfrgelloedd dinasoedd, taleithiau a phrifysgolion Gwlad y Basg erbyn hyn: e.e. *hemeroteca digital* Donostia (<http://liburutegidigitala.donostiakultura.com>), *hemeroteca digital* Gipuzkoa (<https://w390w.gipuzkoa.net>), a *hemeroteca digital* Biscaia (<http://www.bizkaia.eus/kultura/foru>).

<sup>108</sup> Ffigwr sy’n rhannu barn o hyd yw Sabino Arana. Ceir nifer o weithiau diweddar gan sylwebyddion Basgaidd sy’n beirniadu ei syniadau yn llym, ac yn enwedig etifeddiaeth ei syniadau hiliol ar hanes cenedlaetholdeb Gwlad y Basg. Gw., er enghraifft, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida* gan Txema Arinas García (Astorga: Editorial Akron, 2008).

<sup>109</sup> Gwin melys gogledd Sbaen yw ‘gwin Rasbi’ yn ôl iaith y cyfnod. Gw. K. Lloyd Gruffydd, ‘Wales’s maritime trade in wine during the later Middle Ages’, *Cymru a’r Môr: Maritime Wales*, 15 (1992), 7-42, ac yn enwedig 16, 23 a 28-29.

Yn wir, mae'n ymddangos nad oedd llenorion a chenedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd y 1890au yn ymwybodol o'i gilydd chwaith. Gwyddys am daith gan yr academydd enwog Syr John Rhys i Donibane-Lohizune (Saint-Jean-de-Luz) a Donostia yn 1894, a llythyr a anfonodd at aelodau Cymdeithas Dafydd ap Gwilym yn Rhydychen yn adrodd ei argraffiadau o'r lle a'i ymdrechion i ddysgu Basgeg. Ond ni soniodd Syr John am wleidyddiaeth yr ardal yn gyffredinol nac am y mudiad cenedlaethol a'r blaid genedlaetholgar newydd a oedd ar fin cael ei sefydlu yn Bilbo ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach.<sup>110</sup> Gwyddys hefyd am erthygl gan y Basgiad Angel María Castell yn y cylchgrawn *Euskal-Erria* o 1896 sy'n disgrifio'r eisteddfod Gymreig ac yn damcaniaethu ynghylch tebygrwydd y traddodiad barddol Cymreig i draddodiad barddol Basgaidd y *Bertsolari*.<sup>111</sup> Ond arwynebol yw'r driniaeth ar y cyfan ac nid oes tystiolaeth bod Castell yn wirioneddol gyfarwydd â materion Cymreig, heb sôn am y mudiad cenedlaethol a'r gymdeithas Cymru Fydd.

Yn 1996 bu'r hanesydd Basgaidd Alexander Ugalde Zubiri yn archwilio cysylltiadau'r EAJ-PNV (Plaid Genedlaethol Gwlad y Basg) â phobl, pleidiau a llywodraethau y tu allan i Sbaen rhwng 1890 a 1939, ac ni cheir unrhyw Gymro/aes unigol nac unrhyw sefydliad Cymreig yn y detholiad.<sup>112</sup> Ac er ei bod yn ddigon hysbys bod llongau Casnewydd, Caerdydd ac Abertawe yn cludo glo de Cymru i Bilbo yn wythnosol o'r 1880au ymlaen, mae'n ymddangos na fu perthnasau'r morwyr a dynion busnes yn fwy na'r hyn a fyddai'n angenrheidiol i gynnal y fasnach yn broffesiynol.<sup>113</sup> Ni fyddai llygaid cenedlaetholwyr Cymru yn troi tuag at Wlad y Basg o ddifrif tan 1937. Bryd hynny cafwyd trychineb Rhyfel Cartref Sbaen, bomio dinas Gernika, a chwymp llywodraeth etholedig y Basgiaid dan rymoedd Francisco Franco a'i gyfeillion yn y Luftwaffe Natsiaidd. Yn erthyglau Cyril P. Cule yn y tridegau, cawn y dystiolaeth gyntaf o ymrwymiad â chenedlaetholdeb Gwlad y Basg ar dudalennau *Y Ddraig Goch* a *The Welsh Nationalist*.<sup>114</sup> Y gwir plaen yw na fodolai perthynas ddiwylliannol ystyrllon rhwng Cymru a Gwlad y Basg tan

---

<sup>110</sup> John Rhys, 'Llythyr o San Sebastian at Gymdeithas D. Ab Gwilym', *Cymru*, Cyf. VI/Rhif 33, 15 Ebrill 1894, tt. 149-153.

<sup>111</sup> Angel María Castell, 'Bersolaris... ingleses', *Euskal-Erria*, Tomo XXXV, Rhagfyr 1896, tt. 543-544.

<sup>112</sup> Alexander Ugalde Zubiri, *La Acción Exterior del Nacionalismo Vasco (1890-1939): Historia, Pensamiento y Relaciones Internacionales* (Oñati: IVAP, 1996).

<sup>113</sup> Dyma farn Ander Delgado yn ei adolygiad hanesyddol o'r perthynas rhwng mudiadau cenedlaethol Cymru a Gwlad y Basg ar ddiwedd y 19g hyd at y Rhyfel Cartref Sbaen yn 1936: Ander Delgado, 'Sympathy with you as a nation. Las relaciones entre el nacionalismo vasco y galés hasta la guerra civil española', *Historia y Política*, n° 25 (Enero-junio, 2011), 331-355. Gweler t. 334 yn benodol.

<sup>114</sup> Delgado, 'Sympathy with you as a nation', 340.

ar ôl 1976, â chwmp cyfundrefn y Cadfridog Franco yn Sbaen, a gwleidyddiaeth ranbarthol Ewrop newydd y 1980au.

Mae'n bwysig nodi ar unwaith, felly, nad ydym yn chwilio am gysylltiadau newydd rhwng y ddwy wlad yn yr astudiaeth hon, nac yn datguddio cysylltiadau coll, na damcaniaethu ar gysylltiadau tebygol. Yn hytrach, cymharu arteffactau diwylliannol dwy wlad weddol anghysylltiedig a dod i gasgliadau cyfodol yw bwriad y traethawd. Teg fyddai gofyn o'r dechrau felly, 'pam gwneud cymhariaeth o'r fath?', ac os yw'r ateb i'r cwestiwn hwnnw yn argyhoeddiadol, teg fyddai gofyn, 'sut y dylem ei gwneud, felly?' Gellir rhannu'r cwestiwn cyntaf yn ddwy ran. Yn gyntaf, gellir gofyn, 'pam gwneud cymhariaeth o gwbl?', sef beth yw buddiannau astudiaethau cymharol yn ôl theori hanesyddiaeth neu theori lenyddol? Yn ail, gellir gofyn, 'pam gwneud y gymhariaeth hon yn benodol?', sef beth yw gwerth cymharu'r ddau wrthrych dan sylw i astudiaethau Cymreig a Basgaid, astudiaethau diwylliannol, ac astudiaethau hanesyddol? Awn ymlaen, felly, i ystyried y tri chwestiwn hyn – 'pam?', 'pam hon?' a 'sut?'.

Gellir dadlau, wrth ddilyn dadl y beirniad llenyddol David Ferris a'i esboniad o alegori'r ogof gan Platon, fod 'cymharu' wrth wraidd pob 'gwybod pam', ac os yw 'gwybod pam' (yn hytrach na 'gwybod beth' neu 'wybod sut') wrth wraidd pob disgyblaeth yn y dyniaethau, dyna gyfiawnhad digonol dros gymharu dau wrthrych llenyddol.<sup>115</sup> Tra rhesymegol a thra pherswadiol yw dadl epistemolegol Ferris, ond nodi buddiannau dadansoddol ac ymarferol y dull cymharol yw amcan yr adran hon. Dylid nodi ar unwaith, sut bynnag, nad yw haneswyr yn argymhell y dull cymharol ym mhob sefyllfa. Mae Stefan Berger, er enghraifft, wedi amlygu pedwar rhag-amod y dylid eu cyflawni, cyn i'r hanesydd allu gwneud cymhariaeth lwyddiannus:

First the historian needs close familiarity with more than one social context. Second, comparativists need to reflect on spatial and time constraints. Third, they have to consider theoretical and conceptual frameworks for their comparison. Finally, they have to have a feeling for linguistic pitfalls in transnational comparisons involving more than one language.<sup>116</sup>

Os cymerwn y bydd y pedwar rhag-amod hyn yn cael eu cyflawni, wedyn bydd buddiannau'r dull cymharol yn dilyn. Ceir toreh o gyfrolau academiaidd sy'n trafod y buddiannau hynny

---

<sup>115</sup> David Ferris, 'Why compare?' yn Ali Behdad a Dominic Thomas (goln), *A Companion to Comparative Literature* (Chichester/Malden: Blackwell, 2011), tt. 28-45. Gw. tt. 38-43 yn benodol ar gyfer trafodaeth ar alegori'r ogof Platon.

<sup>116</sup> Stefan Berger, 'Comparative history' yn Stefan Berger, Heiko Feldner a Kevin Passmore (goln), *Writing History: Theory & Practice* (London: Hodder Arnold, 2003), tt. 161-179, t. 166.

yn fanwl wrth gwrs, ond cipolwg o'r prif ddadleuon a roir yma, rhai o bersbectif hanes cymharol, a rhai eraill o bersbectif llenyddiaeth gymharol.<sup>117</sup>

Awdur *The Social Preconditions of National Revival in Europe* yw Miroslav Hroch, a'r gwaith hwn o 1968 a sefydlodd seiliau a safonau hanesyddiaeth cenedlaetholdeb cymharol.<sup>118</sup> Prif gamp Hroch oedd sefydlu model o achosiaeth newydd am fudiadau cenedlaethol Ewrop y 19g gan gymharu enghreifftiau o Norwy i Bohemia, ond disgrifiai'n ofalus hefyd amcanion a buddiannau ei fethodoleg gymharol.<sup>119</sup> Yn gyntaf oll, meddai, gall astudiaethau cymharol adnabod pethau newydd i'w hastudio. Hynny yw, gall nodweddion adnabyddus, amlwg a phwysig un gwrthrych hanesyddol arwain ein sylw at nodweddion newydd mewn gwrthrych arall nas adnabuwyd o'r blaen. Yn ail, gall astudiaethau cymharol sefydlu teipoleg newydd yn y maes wrth drefnu nodweddion tebyg dau wrthrych hanesyddol mewn fframwaith neu system gyffredin. Yn drydydd, gall astudiaethau cymharol ddarganfod modelau o achosiaeth gyffredin na ellir eu profi mewn achosion unigol.<sup>120</sup>

Bydd yr astudiaeth bresennol yn elwa o'r tri ffactor hyn wrth inni osod testunau Cymreig a thestunau Basgaidd ochr yn ochr. Bydd nodweddion adnabyddus y disgwrs Basgaidd megis hiliaeth a gwrth-ryddfrydiaeth yn codi cwestiynau newydd ynglŷn â diffyg hiliaeth a 'gor-ryddfrydiaeth' y disgwrs Cymreig.<sup>121</sup> Yn eu tro, bydd nodweddion y disgwrs

---

<sup>117</sup> Ceir cyflwyniad a llyfryddiaeth gryno ar hanesyddiaeth gymharol ar ddiwedd yr erthygl 'Comparative history' gan Stefan Berger. Cyfrol benodol ar theori hanes cymharol yw *Comparison and History: Europe in Cross-National Perspective* gan Deborah Cohen a Maura O'Connor (goln) (Abingdon: Routledge, 2004), a cheir nifer o erthyglau ar wahanol agweddau y maes. Ceir llyfryddiaeth ar gyfer llenyddiaeth gymharol ar ddiwedd y rhagymadrodd i Ali Behdad a Dominic Thomas (goln), *A Companion to Comparative Literature* (Chichester / Malden: Blackwell, 2011), tt. 11-12.

<sup>118</sup> Miroslav Hroch, *The Social Preconditions of National Revival in Europe: A Comparative Analysis of the Social Composition of Patriotic Groups Among the Smaller European Nations* (Cambridge: Cambridge University Press, 1985). Ymddangosodd y gyfrol wreiddiol yn Almaeneg yn 1968: *Die Vorkämpfer der nationalen Bewegungen bei den kleinen Völkern Europas*. Cyhoeddwyd hanesion cymharol pwysig eraill yn y 1960au a 1970au megis *Social Origins of Dictatorship and Democracy* gan Barrington Moore Junior (1966) a *Civilisation and Capitalism* gan Braudel (1979). Gw. Jeremy Black a Donald M. Macrauld, *Studying History*, 3rd Edition (Basingstoke: Palgrave MacMillan, 2007), t. 105.

<sup>119</sup> Gw. Pennod 5 yn benodol, 'The Comparative Method', yn Hroch, *The Social Preconditions of National Revival in Europe*, tt. 18-21.

<sup>120</sup> Noder bod gwahanol haneswyr yn dadlau dros amcanion a buddiannau gwahanol ar gyfer y dull cymharol. Mae Stefan Berger yn awgrymu pedwar amcan: cymariaethau 'unigoli' (individualizing comparisons), sef astudiaethau sy'n amlgu natur unigryw un gwrthrych canolog; cymariaethau 'cyffredinoli' (universalizing comparisons), sef astudiaethau sy'n nodi tebygrwydd sawl gwrthrych; cymariaethau 'cwmmpasu' (encompassing comparisons), sef astudiaethau sy'n esbonio'r gwahaniaethau sydd rhwng sawl gwrthrych o fewn un 'gyffredinoliaeth'; a chymariaethau 'canfod amrywiad' (variation-finding comparisons), sef astudiaethau sy'n dadansoddi'r amrywiadau a welir mewn ffenomen. Berger, 'Comparative history', tt. 162-164.

<sup>121</sup> Gwir yw y byddai Plaid Cymru (a Saunders Lewis yn benodol) yn cael ei chyhuddo o gefnogi syniadaeth 'ffasgaid' yn ystod y 1930au a'r 1940au gan rai yn y Blaid Lafur, ond dyma gyhuddiad a wrthbrofwyd bron yn llwyr gan Richard Wyn Jones yn *Y Blaid Ffasgaid yng Nghymru: Plaid Cymru a'r Cyhuddiad o Ffasgaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2013).

Cymreig megis ei 'isafiaeth' yn peri inni ailystyried dyfnder a dilysrwydd 'uchafiaeth' y disgwrs Basgaid. At hynny, wrth osod fframwaith disgyrsiol cyffredin ar gyfer y ddau ddisgwrs byddwn yn datblygu math o 'deipoleg' newydd ar gyfer disgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol gwledydd bychain y 19g, a hynny efallai am y tro cyntaf erioed. Pwysig yw nodi yma, fel y dadleuodd Kirsti Bohata, fod hanes a phrofiad trefedigaethol pob gwlad yn unigryw, ac ofer fyddai ceisio gosod 'model ôl-drefedigaethol' hollgynhwysfawr ar gyfer dwy wlad wahanol megis Cymru a Gwlad y Basg. Wedi dweud hynny, cynigir teipoleg a model cyffredinol yn yr astudiaeth hon gan olrhain y lliaws o wahaniaethau ac eithriadau ar wahân.<sup>122</sup> Yn olaf, wrth ystyried sut y ffurfiwyd a sut y trefnwyd y ddau ddisgwrs hyn yn ystod degawdau diwethaf y 19g, cyferbynnir ffactorau achosol lleol a modelau o achosiaeth ehangach.

Mae methodoleg hanesyddiaeth gymharol yn cynnig nifer o resymau technegol a dadansoddol argyhoeddiadol dros ddewis y dull cymharol, felly, a phe baem yn eu derbyn, meddai haneswyr megis Hroch, byddem yn 'deall' ein gwrthrychau (a'r cyd-destunau hanesyddol/cymdeithasol y maent yn perthyn iddynt) 'yn well' na phe baem wedi eu hastudio ar wahân.<sup>123</sup> Dadl ysgolheigaidd sydd yma yn y bôn felly, dadl sy'n ddigon ynddi ei hunan i gyfiawnhau cynllun yr astudiaeth hon mewn termau cyffredinol. Ond mewn theori lenyddol gymharol cawn ddadleuon cryfion eraill o blaid cymharu, dadleuon mwy 'gwleidyddol' neu 'ymroddedig' eu tarddiad a'u natur.

Yng ngolwg Ali Behdad a Dominic Thomas, Goethe oedd y llenor cyntaf i annog pobl i edrych y tu hwnt i'w ffiniau ieithyddol a daearyddol i archwilio gwir hanfod *Weltliteratur*, neu 'lenyddiaeth y byd' ar ddechrau'r 19g.<sup>124</sup> Boed hynny fel y bo, 'cymaryddion' (*comparatists*) y maes academaidd newydd, Llenyddiaeth Gymharol, oedd y garfan gyntaf i fynd ati o ddifrif i feirniadu gogwydd a pharadeim 'cenedlaethol' llenyddiaeth Ewrop yn y 1950au. Cynnal a bwydo siofinistiaeth, rhagfarn a chenedlaetholdeb cul yr hen Ewrop a wnâi llenyddiaeth a phynciau eraill y dyniaethau cyn hynny, medd Behdad a Thomas, ond trwy gymharu testunau o wledydd neu gyfandiroedd gwahanol – hynny yw, trwy fabwysiadu agwedd 'draws-genedlaethol' (*transnational*) neu 'draws-drefedigaethol'

---

<sup>122</sup> Kirsti Bohata, *Postcolonialism Revisited: Writing Wales in English* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), t. 17.

<sup>123</sup> Hroch, *The Social Preconditions of National Revival in Europe*, tt. 18-21.

<sup>124</sup> Behdad a Thomas (goln), *A Companion to Comparative Literature*, t. 2.

(*transcolonial*) – gall y cymharydd osgoi rhagfarnau cul y gorffennol, cyrraedd casgliadau mwy cytbwys a chanfod cyd-destunau hanesyddol ‘cywirach’.<sup>125</sup>

Rhyddhau testunau o’u hen gyd-destun cenedlaethol a’u lleoli mewn cyd-destunau newydd, ôl-genedlaethol, cyd-ddiwylliannol ac amlddimensiynol yw ffrwyth cymharu dros ffiniau diwylliannol felly. Caiff hen esboniadau o achos ac effaith ffenomenau eu herio yng ngoleuni esboniadau cenhedloedd eraill, er enghraifft, a gwneir yr un peth yn achos categorïau a theipolegau academaidd sefydledig, a hyd yn oed yn achos sylfeini moesol neu reolau rhesymu’r hen gymuned ddeallusol genedlaethol. At hynny, gwelir testunau, awduron ac amgylchiadau hanesyddol, a hyd yn oed y gymdeithas gyfoes a ddaeth yn eu sgil, o bersbectif newydd ac mewn fframwaith deallusol gwahanol. Nid ‘gwella’ ein dealltwriaeth o hanes y tu mewn i gyd-destun diwylliannol sefydledig (yn unol â thraddodiad haneswyr megis Hroch) yw amcan y cymharydd llenyddol cyfoes felly, ond herio’r cyd-destun diwylliannol sefydledig hwnnw trwy ei gymharu â chyd-destun arall. Dyma ymagwedd ‘feirniadol’ felly, neu ymagwedd sy’n dal bod rhywbeth ‘o’i le’ yn ein diwylliant sefydledig, ac mai trwy gymharu y gallwn adnabod y gwallau a’u cywiro.<sup>126</sup>

Nid yw’r ddau amcan hyn yn annibynnol ar ei gilydd, wrth gwrs, a bwriad yr astudiaeth bresennol yw ‘gwella’ dealltwriaeth a ‘herio’ un neu ddau gyd-destun diwylliannol sefydledig ar yr un pryd. Ond pam mae angen gwella a herio hanes llenyddol Cymru a Gwlad y Basg y 19g o gwbl? Pam gwneud y gymhariaeth hon yn benodol?

Yn gyntaf ac yn syml, mae angen mwy o gymharu yn y byd academaidd Cymreig a Basgaid. Ni fu i ysgolheictod Cymreig – boed yn hanesyddiaeth, astudiaethau diwylliannol, neu wyddoniaeth wleidyddol – ddianc yn llwyr eto o’i gyd-destun (neu ei gyd-destunau) cenedlaethol traddodiadol.<sup>127</sup> Yn ôl Stefan Berger, er enghraifft, ni fu hanner digon o astudiaethau cymharol yng Nghymru yn ystod yr ugain neu ddeng mlynedd ar hugain diwethaf, a hanesyddiaeth Gymreig yn dal i ddioddef, felly, o’i hen Eingl-ganolrwydd, neu’r ‘predominant Anglocentrism of British history’, a’i hen blwyfoldeb Cymreig llethol.<sup>128</sup> ‘Provincialism’, meddai Berger mewn erthygl o 2002, ‘is one of the biggest threats to Welsh

---

<sup>125</sup> ‘More accurate contextualizations of [...] history’: Behdad a Thomas (goln), *A Companion to Comparative Literature*, t. 2.

<sup>126</sup> Gw. Terry Eagleton, ‘The writer and commitment’, yn *Marxism and Literary Criticism* (London: Routledge, 1992), 37-58.

<sup>127</sup> Byddem yn dadlau bod hanesyddiaeth Gymreig wedi gweithio mewn o leiaf ddau gyd-destun cenedlaethol ers y 19g: y cyd-destun Prydeinig (Seisnig) a’r cyd-destun Cymreig (a Chymraeg).

<sup>128</sup> Stefan Berger, ‘And what should they know of Wales? Why Welsh history needs comparison’, *Llafur*, Vol. 8, No. 3 (2002), 131-139, 137.

historiography today'.<sup>129</sup> (Cwestiwn arall, ond cwestiwn da, ydyw a yw hanesyddiaeth Gymreig wedi dianc eto o ddwy ddylanwad ideolegol bwysicaf yr 20g; y persbectif 'llafur' a'r persbectif 'cenedlaethol').<sup>130</sup> Yn wir, yn ôl Simon Brooks, ni ellir esbonio nodweddion a digwyddiadau sylfaenol hanes Cymru yn gwbl foddhaol heb gymharu hanes Cymru â hanes gwledydd bychain eraill:

Heb fedru cymharu hanes Cymru â hanes gwledydd bychain eraill, nid oes cyfle teg i esbonio pam fod y Cymry wedi bod mor chwannog i gefnu ar y Gymraeg, a pham na ddatblygwyd mudiad cenedlaethol. Trueni hynny, oherwydd o goleddu safbwynt Ewropeaidd cymharol, gwelir yn gliriach fyth y gellid bod wedi disgwyl i'r Gymraeg nid yn unig oroesi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond ymgyrfhau.<sup>131</sup>

Ffordd effeithiol a phwysig i osgoi 'arwahanrwydd gogoneddus' hanesyddiaeth Gymreig gyfoes yw 'cymharu parhaol', meddai Berger, a thrwy gymharu testunau Gymreig y 19g â thestunau gwlad arall, gobeithir y bydd y traethawd hwn yn cyfrannu at y gwaith ehangach hwnnw o ryddhau hanes Cymru o'i hen fyopia Eingl-Gymreig.<sup>132</sup>

Mae'n bwysig nodi, sut bynnag, y gellid agor persbectifau newydd ar y genedl Gymreig a'r genedl Fasgaidd trwy gymharu eu hanesion neu eu harteffectau diwylliannol â hanesion ac arteffactau diwylliannol sawl gwlad arall. Tra niferus yw'r cymariaethau rhwng Cymru a gwledydd Celtaidd eraill, er enghraifft, neu rhwng Gwlad y Basg a *Comunidades Autónomas* (Cymunedau Hunanlywodraethol) eraill Sbaen wrth gwrs.<sup>133</sup> Mae Llydaw, Cwebéc, Fflandrys, Ffrisia, Ocsitania a Chorsica ymhlith y 'cenedloedd heb wladwriaeth' cyfoes sy'n cael eu cymharu yn aml â gwledydd bychain Prydain a Sbaen, a chymherir profiad cenedlaethol pob un o'r rheiny â phrofiadau cenedloedd 'newydd' Ewrop, sef y cenedl-wladwriaethau a grëwyd gan Gytundeb Versailles ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.<sup>134</sup> Mewn pennod yng nghyfrrol benigamp Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams, '*Eu Hiaith a Gadwant?*' *Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, cymharodd Robin Okey, er enghraifft, sefyllfa'r Gymraeg â sefyllfa ieithoedd gwledydd bychain Ewrop eraill yn y 19g, gan

<sup>129</sup> Berger, 'And what should they know of Wales?', 137.

<sup>130</sup> Am drafodaeth fwy cyflawn, gw. Martin Johnes, 'For class and nation: dominant trends in the historiography of twentieth-century Wales', *History Compass*, 8/11 (2010), 1257-1274.

<sup>131</sup> Simon Brooks, *Pam na fu Cymru: Methiant Cenedlaetholdeb Cymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2015), t. 4.

<sup>132</sup> 'Sustained comparison is one way to avoid the pitfalls of a threatening splendid isolation of modern Welsh historiography': Berger, 'And what should they know of Wales?', 137.

<sup>133</sup> Term cyffredinol ar gyfer rhanbarthau hunanlywodraethol Sbaen yw 'Comunidad Autónoma', byddent hwy yn diriogaethau hunanlywodraethol hanesyddol megis Gwlad y Basg, Nafarroa, Catalwnia a Galisia neu yn unedau hunanlywodraethol newydd megis La Rioja, Murcia ac Extremadura.

<sup>134</sup> Y cenedl-wladwriaethau a ffurfiwyd gan Gytundeb Versailles yw: Iwgoslafia (Slofenia, Croatia, Serbia, Bosnia-Hertsegofina, Montenegro a Macedonia), Gwlad Pwyl, Estonia, Latfia, Lithwania, Y Ffindir, Tsiecoslofacia, Hwngari.

gynnwys y Fasgeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill Sbaen.<sup>135</sup> Sicr yw bod Astudiaethau Cymreig ac Astudiaethau Basgaidd wedi elwa yn sylweddol o'r persbectifau newydd hyn dros y blynyddoedd. Yn wir, yn ôl broliant cyfrol gan Paul Birt o 1997, cyfrol sy'n cymharu llenyddiaeth Gymraeg, Gatalaneg a Chwebeceg, bu'r gwaith penodol hwn yn 'helpu ni'r Cymry i'n hadnabod ein hunain yn fwy teg a chyflawn, ac i symud allan o'r gofod cyfyng yr arferwn syllu arnom ni'n hunain ynddo'.<sup>136</sup> Ond pam cymharu Cymru a Gwlad y Basg yn benodol, a pham cymharu eu disgyrsiau cenedlaethol ar ddiwedd y 19g?

Yn gyntaf, prin iawn yw'r astudiaethau sy'n cymharu Cymru â Gwlad y Basg, boed hynny mewn hanesyddiaeth, beirniadaeth lenyddol, ieithyddiaeth gymdeithasol neu yn y gwyddorau gwleidyddol. Mae'r hanesydd o Bilbo, Ander Delgado, wedi ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng mudiadau cenedlaethol Cymru a Gwlad y Basg yn y 1920au a 1930au, ac mae Robin Evans wedi cymharu agweddau o hanes Cymru ag agweddau o hanes Gwlad y Basg, er mai hanes Gwlad y Basg yw prif ffocws ei gyfrol.<sup>137</sup> Bu Patricia Elton Mayo yn cymharu hanesion, sefyllfaoedd cyfoes a rhagolygon y ddau fudiad cenedlaethol yn drylwyr yn 1974, ond ni welwyd astudiaeth fanwl o'r fath ers hynny heblaw am erthygl fer gan yr awdur presennol yn 2015.<sup>138</sup> Ceir sawl astudiaeth gymharol ar agweddau arbenigol o ieithyddiaeth gymdeithasol a cheir penodau ar Gymru a Gwlad y Basg (heb gymharu'r ddwy wlad yn uniongyrchol) mewn nifer o astudiaethau cymharol ar genedlaetholdeb di-wladwriaethol.<sup>139</sup> Ni chafwyd unrhyw feirniadaeth lenyddol, hyd yma, sy'n cymharu gweithiau, awduron a hanes llenyddol y ddwy wlad.<sup>140</sup>

---

<sup>135</sup> Robin Okey, 'Ieithoedd llai eu defnydd a lleiafrifoedd ieithyddol yn Ewrop oddi ar 1918: arolwg cyffredinol', yn Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams (goln), *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 607-640. Ffawd a datblygiad ieithoedd lleiafrifol Ewrop yn ystod yr 20g yw prif ffocws gwaith Okey, ond rhoir adran gyflwyniadol ddefnyddiol ar 'Etifeddiaeth y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg' ar ddechrau'r traethawd.

<sup>136</sup> Paul W. Birt, *Cerddi Alltudiaeth: Thema yn Llenyddiaethau Québec, Catalunya a Chymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), clawr cefn.

<sup>137</sup> Delgado, 'Sympathy with you as a nation'. Robin Evans, *Gwlad y Basg: Yma o Hyd* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2012).

<sup>138</sup> Patricia Elton Mayo, *The Roots of Identity: Three National Movements in Contemporary European Politics* (London: Allen Lane, 1974). Philip R. Davies, 'Jaungoikua eta lagizarra / Duw a'r hen gyfraith: camau cyntaf mewn astudiaeth ar feddwl a llenyddiaeth genedlaethol yng Nghymru a Gwlad y Basg, 1850-1914', *Proceedings of the Association of Celtic Students of Ireland and Britain*, Vol. I & II (2015), 125-136.

<sup>139</sup> Mae traethawd PhD Patrick Joseph Carlin yn cymharu polisiau cynllunio ieithyddol yn awdurdodau isranbarthol Gwlad y Basg, Catalwnia a Chymru: 'Cynllunio ieithyddol mewn awdurdodau isranbarthol yng Ngwlad y Basg, Catalwnia a Chymru' (Traethawd PhD: Prifysgol Aberystwyth, 2009). Mae Julius W. Friend yn cymharu hanes nifer o genhedloedd di-wladwriaeth Ewrop gan gynnwys Cymru a Gwlad y Basg yn *Stateless Nations: Western European Regional Nationalisms and the Old Nations* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2012). Mae gweithiau Tiryakian/Rogowski, Medhurst/Williams a De Winter/Türsan yn dadansoddi traddodiad cenedlaetholdeb a phleidiau cenedlaethol nifer o genhedloedd di-wladwriaeth Ewrop yn y 1980au a 1990au: Edward A. Tiryakian a Roland Rogowski (goln), *New Nationalisms of the Developed West: Toward*



Y ‘ddalen wag’ sydd o’n blaen – neu’r potensial i agor maes ffrwythlon newydd o ysgolheictod Cymreig – yw’r rheswm cyntaf dros ddewis Cymru a Gwlad y Basg felly, a dylid nodi’n gynnar fod deunydd Cymreig yn derbyn ychydig yn fwy o sylw yn yr astudiaeth hon na deunydd Basgaidd, ac at oblygiadau i astudiaethau Cymreig yr anelir mwyafriif ei chasgliadau. At hynny, hyderir mai cynhwysfawr a thrylwyr yw’r driniaeth o ddeunydd Basgaidd yn yr astudiaeth hon, ond gwelir mai cymhariaeth â gogwydd casgliadol a deongliadol tua Chymru ydyw hefyd.

Nid yw diffyg sylw ynddo ei hun yn ddigon i gyfiawnhau astudiaeth o’r fath, sut bynnag, ac ni allem gymharu (pe dymunem gadw yn ffyddlon at fethodoleg gymharol gydnabyddedig) unrhyw wrthrych o dan unrhyw amgylchiadau dadansoddol y dymunem. Dylai’r gymhariaeth fod yn ‘gywir’. Er mwyn sicrhau hynny, dylid diffinio gwrthrychau’r astudiaeth yn fanwl gywir o flaen llaw, meddai Hroch, a dylai’r gwrthrychau hyn berthyn i’r un ‘categori’.<sup>141</sup> Dylai amcan yr astudiaeth fod yn hollol glir, yn enwedig wrth ddewis ei phrif ffocws megis amlygu nodweddion tebyg/gwahanol, dadansoddi trwy gyferbynnu, creu teipoleg newydd neu greu model o achosiaeth newydd. Dylid egluro sut y trinnir yr echel gronolegol, sef egluro ai cymhariaeth ddiacronig, sincronig neu ‘synchronig analogaidd’ fydd persbectif yr astudiaeth.<sup>142</sup> Dylai criteria’r gymhariaeth (nodweddion neu rinweddau’r gwrthrychau y bwriedir eu cymharu) fod yn glir, yn berthnasol i’r ddau wrthrych, yn gymwys i gwestiwn canolog yr astudiaeth, ac yn ddigonol ar gyfer y sgôp. Dylid ymdrin ag unrhyw gymhlethodau ieithyddol a ragwelir o flaen llaw, ychwanega Stefan Berger, a dylai fframwaith damcaniaethol a chysyniadol yr astudiaeth fod yn glir.<sup>143</sup> Yn olaf, meddai Berger, dylai’r hanesydd ystyried goblygiadau theori trosglwyddo diwylliannol (*cultural transfer*

---

*Explanation* (Boston: Allen & Unwin, 1985); Ken Medhurst a Colin Williams (goln), *National Separatism* (Cardiff: University of Wales Press, 1982); Lieven De Winter a Huri Türsan (goln), *Regionalist Parties in Western Europe* (London: Routledge, 1998).

<sup>140</sup> Mae Simon Brooks yn cymharu sefyllfaoedd sawl gwlad Ewropeaidd â Chymru a datblygiad eu mudiadau cenedlaethol yn y 19g yn *Pam na fu Cymru*. Mae Brooks hefyd yn cymharu sefyllfa Cymru a sefyllfa Gwlad y Basg wrth fynd heibio. Ar sail ffurfio’r Blaid Genedlaethol Fasnigaidd (EAJ-PNV) gan Sabino Arana yn 1895, ac ar sail pasio *Estatuto de Autonomía* (Deddf Hunanlywodraeth) yn 1936, casgla Brooks ‘[fod] y Basgiaid genhedlaeth dda o flaen y Cymry’: Brooks, *Pam na fu Cymru*, t. 8.

<sup>141</sup> Miroslav Hroch, *Comparative Studies in Modern European History* (Aldershot: Ashgate Variorum, 2007), xi.

<sup>142</sup> ‘Cymhariaeth ddiacronig’: ‘confront prior with consequent occurrences’; ‘cymhariaeth sincronig’: ‘historical processes or events occurring in different countries at the same time’; ‘cymhariaeth sincronig analogaidd’: ‘synchronic comparisons of analogous historical situations [...] If we can establish that the objects of comparison passed through the same stages of development, we can compare these analogous stages, even if from the standpoint of absolute chronology they occurred at different times’: Hroch, *Comparative Studies in Modern European History*, t. xii.

<sup>143</sup> Berger, ‘Comparative history’, 166.

*theory*), sef theori mai hybrid unigol yw pob diwylliant ac nid enghraifft arall o endidau homogenaidd y gellid eu cymharu yn uniongyrchol.<sup>144</sup>

Manylion a methodoleg benodol y gwaith cymharol dan sylw sy'n pennu ei briodoldeb a'i werth yn y pen draw felly, ac yng ngweddill y bennod hon awn ymlaen i egluro manylion a methodoleg yr astudiaeth dan sylw. Diffinnir ac esbonnir categori'r gymhariaeth, sef 'disgwrs cenedlaethol-drefedigaethol', yng ngoleuni opsiynau categorïol theoretig eraill. Penodir ein dau wrthrych, sef disgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol Cymru a Gwlad y Basg ar ddiwedd y 19g, a gofynnir a ydynt yn perthyn i'r un categori. Esbonnir amcan yr astudiaeth, sef dadansoddi sylwedd y ddau ddisgwrs yng ngolwg cysyniadau ôl-drefedigaethol ac eraill, ac ystyried cwestiynau o achosiaeth ddisgyrsiol megis sut y ffurfiwyd y disgyrsiau hyn, a sut y'u hawdurdodwyd. Gosodir methodoleg gronolegol glir, sef methodoleg synchronig sy'n cymryd y blynyddoedd 1895 a 1896 fel canolbwynt, ac ystyrir y cymhlethdodau sydd ymhlyg mewn gymhariaeth o arteffactau ieithyddol sy'n tarddu o sawl gwlad a sawl cymuned ieithyddol. Yn olaf, amlygir criteria'r gymhariaeth, sef cydrannau unigol ein fframwaith disgyrsiol arfaethedig.

## Opsiyneu categorïol

Cysyniad o eiddo theori feirniadol yw categori'r astudiaeth hon, a byddai'n briodol oedi am eiliad i ddiffinio ei brif nodweddion ac esbonio pam y'i dewiswyd ymhlith nifer o opsiynau theoretig eraill.<sup>145</sup> Gallem fod wedi troi, er enghraifft, at theoriâu seicolegol y dylanwadwyd arnynt gan Freud a Lacan, neu edrych ar ein testunau trwy lygaid mudiadau 'ymylol' megis menywod, lleiafrifoedd ethnig neu bobl LHDT.<sup>146</sup> Afraid dweud, er enghraifft, fod cyfle yn y testunau hyn (gweithiau a gyfansoddwyd i gyd gan ddynion) i ddadansoddi'r modd y cynrychiolir menywod a rôl patriarchaeth yn gyffredinol yn y broses o greu disgwrs

---

<sup>144</sup> Berger, 'Comparative history', 169-171.

<sup>145</sup> Sicr yw bod elfen o ogwydd 'wrth-theoretig' yn dal i gylchredeg mewn rhai cylchoedd yng Nghymru, ond ni fwriedir ateb y cwestiwn 'pam defnyddio theori lenyddol o gwbl?' yn yr astudiaeth hon. Mae Simon Brooks wedi dadansoddi'r mater yn fanwl a digon yw datgan cytundeb cyffredinol â'i chasgliadau a chyfeirio at un o'i esboniadau mwyaf cynhwysfawr: Simon Brooks, 'Yr Hil: ydy'r canu caeth diweddar yn hiliol?', yn Owen Thomas (gol.), *Llenyddiaeth Mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 1-38.

<sup>146</sup> Mae gan gyfrolau Peter Barry a Hans Bertens benodau defnyddiol iawn ar feirniadaeth ffeministaidd, dduon a hoyw: Peter Barry, *Beginning Theory: An Introduction to Literary and Cultural Theory* (Manchester / New York: Manchester University Press, 2002); Hans Bertens, *Literary Theory: The Basics* (London: Routledge, 2001). Gw. *Psychoanalytic Criticism: A Reappraisal* (Cambridge: Polity Press, 1998) gan Elizabeth Wright am gyflwyniad i feirniadaeth seicodandansoddiadol.

enedlaethol yng ngoleuni beirniadaeth ffeministaidd.<sup>147</sup> Yn yr un modd, byddai ystyried cynrychioli pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eraill yn y testunau, yn enwedig yng nghydestun cyfeiriadau at bolisiau imperialaidd a threfedigaethedd Prydain a Sbaen, yn fuddiol i'n dealltwriaeth o hiliaeth sefydliadol Gymreig a Basgaidd yn ystod y 1890au. Ar y llaw arall, prin yw'r cyfeiriadau at ryw neu rywioldeb yn y testunau hyn; sefyllfa sy'n agor, efallai, gymaint o gwestiynau ac y mae'n eu cau, wrth gwrs. Wedi dweud hyn oll, rhaid sicrhau cydbwysedd gofalus rhwng atyniad deallusol y theorïau sydd ar gael a phrif naws a nodweddion yr arteffactau sydd o'n blaen wrth ddewis prism beirniadol. Adolygwn yn fras, felly, yr opsiynau mwyaf priodol i oddrychau, amgylchiadau hanesyddol ac awduron ein testunau.

O amser yr hen Roegiaid tan ddegawdau agoriadol yr 20g prif ffocws athronwyr clasurol a beirniaid llenyddol modern fuasai ystyried y berthynas rhwng y gwir, y llenor, ei athrylith, a'i effaith yn y byd. Credent y gallai unigolyn dawnus fel llenor ganfod gwir hanfod y byd trwy resymu, arsylwi neu fyfyrïo, ac wedi cofnodi'r myfyrdodau goleuedig hyn mewn llenyddiaeth, gallai dynoliaeth ehangach ddysgu ganddynt, tyfu yn ddeallusol a symud ymlaen fel gwareiddiad. Dyma draddodiad gwirioneddau cyffredinol, sicrwydd moesol, y goddrych trosgynnol, a'r unigolyn sy'n meddu ar 'natur ddynol' tragwyddol ac sy'n gallu newid realiti cymdeithasol ac economaidd ei gynefin. Dyma ddyneiddiaeth glasurol a dyneiddiaeth ryddfrydol mewn geiriau eraill, a dyma'r prism beirniadol cyntaf y gallem ei ystyried ar gyfer yr astudiaeth hon.<sup>148</sup>

Pe baem yn edrych ar y testunau trwy lygaid dyneiddwyr clasurol megis Matthew Arnold, T. S. Eliot a F. R. Leavis, neu John Morris-Jones, Thomas Parry a Saunders Lewis, o ran hynny, canolbwynt ein hastudiaeth fyddai dadansoddi pa mor 'gywir' oedd syniadau ein llenorion o'u cymharu â 'gwirioneddau' diamser y byd, pa mor 'briodol' a 'dymunol' oedd eu harddull o'i gymharu â'r 'traddodiad mawr', neu pa mor effeithiol oedd technegau 'addysgol' eu hysgrifau.<sup>149</sup> Ar ben hynny, a chan ein bod yn ffocysu ar erthyglau

---

<sup>147</sup> Am drafodaeth ar fenywod, patriarchaeth a disgwrs rhyddfrydol Cymreig y 1900au, gw. Ursula Masson, 'Women Versus "the People": Language, Nation and Citizenship 1906-11', yn T. Robin Chapman (gol.), *The Idiom of Dissent: Protest and Propaganda in Wales* (Llandysul: Gomer, 2006), tt. 1-23. Noder hefyd y gwaith y mae Helena Miguélez-Carballeira wedi'i wneud ar ddylanwad patriarchaeth ar ddisgwrs enedlaethol Galisia: Helena Miguélez-Carballeira, *Galician, a Sentimental Nation: Gender, Culture and Politics* (Cardiff: University of Wales Press, 2013).

<sup>148</sup> Gw. Barry, *Beginning Theory*, tt. 11-38, am drafodaeth fer ar ddyneiddiaeth ryddfrydol.

<sup>149</sup> Gw. Chris Baldick, *The Social Mission of English Criticism 1848-1932* (Oxford: Clarendon Press, 1983) am hanes traddodiad dyneiddiol rhyddfrydol yn llenyddiaeth Saesneg ers Matthew Arnold i T. S. Eliot a F. R. Leavis. Mae Simon Brooks yn dadansoddi hanes ac etifeddiaeth beirniadaeth lenyddol glasurol John Morris-

cenedlaetholgar yn y wasg, gellid asesu ‘safon’ eu hathroniaeth wleidyddol, ‘sadrwydd’ eu ffeithiau hanesyddol a’u dadleuon, neu’r ‘cydbwysedd’ a ganfyddir rhwng ‘didwylledd’ angenrheidiol y llenor ymroddedig a’i feistrolaeth ar brif offer ei alwedigaeth, sef rhethreg a didacteg. Boed hynny fel y bo, sicr yw y byddem yn canolbwyntio ar y ‘gair ar y tudalen’, neu gynnwys y testun, ac nid ar strwythurau cuddiedig y *genre* neu ar gyd-destun hanesyddol yr awdur.

Ond nid persbectif y dyneiddwyr y bwriedir ei fabwysiadu yn yr astudiaeth hon: rydym am fynd ymhellach drwy’r 20g i ystyried theorïau llenyddol diweddarach y dylanwadwyd arnynt gan ddatblygiadau yng ngwyddorau newydd seicoleg ac ieithyddiaeth.

Cyhoeddi *Cours de Linguistique Générale* gan Ferdinand de Saussure yn 1916, a genedigaeth disgyblaeth newydd semioteg yn ei sgil, oedd y trobwynt pwysig cyntaf yn hanes theori lenyddol yr 20g.<sup>150</sup> Dangosodd Saussure mai ar sail system o ‘arwyddion’ (ac nid ar sail perthynas hanfodol rhwng iaith a’r ‘peth ynddo ei hun’, neu *das Ding an sich* Emmanuel Kant) y penderfynir ‘ystyr’ gair, a bod ystyr wastad yn fypwyol (*arbitrary*), yn berthynol i eiriau eraill (*relational*), ac, yn y pen draw, yn gyfansoddol (*constitutive*) o brofiad dynoliaeth y byd. Ychwanegodd Saussure nad yw datganiad unigol (neu *parole* yn nherminoleg Saussure) yn gwneud synnwyr y tu allan i gyd-destun a rheolau iaith ehangach y llefarwr, sef ei *langue*. Deellir pethau, meddai Saussure, dim ond yng nghyd-destun y system y maent yn perthyn iddo. Byddai ysgolion beirniadol newydd megis Ffurfiolaeth Rwsiaidd a Strwythuraeth Ffrengig yn dechrau dadansoddi testunau yng ngoleuni’r theori hon o’r 1950au ymlaen.<sup>151</sup> Dechreusant gefnu ar gynnwys manwl y darn ‘unigryw’ o lenyddiaeth gan awdur athrylithgar a throi at bensaerniaeth a mecanwaith ‘enghraifft arall’ (*parole*) o strwythur naratif, *genre*, rhwydwaith rhyngdestunol, neu ryw system ddeallusol arall (*langue*). Dyma ddechrau ar deyrnasiad y darllenwr ym meirniadaeth lenyddol, cyfnod a fyddai’n diweddu gyda *la mort de l’auteur*, neu ‘farwolaeth yr awdur’, yn ôl Roland Barthes yn 1968.<sup>152</sup> Dyma ail brism beirniadol y gallem ei ddefnyddio i ddadansoddi ein testunau.

---

Jones ac eraill yng Nghymru yn *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004). Ystyrir *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1944) gan Thomas Parry yn gonglfaen beirniadaeth lenyddol Gymraeg traddodiadol.

<sup>150</sup> Gw. Bertens, *Literary Theory: The Basics*, tt. 55-60.

<sup>151</sup> Gw. Robert Scholes, *Structuralism in Literature: An Introduction* (New Haven/London: Yale University Press, 1974) am gyflwyniad i strwythuraeth, a phenodau ar Saussure (tt. 13-21) a’r ffurfiolwyr Rwsiaidd (tt. 74-90) yn benodol.

<sup>152</sup> Gw. Bertens, *Literary Theory: The Basics*, t. 138.

Chwilio am ffurfiau llenyddol ‘cyffredinol’ megis dieithrio (*defamiliarization*) fyddai’r dasg wrth edrych ar ein testunau o bersbectif Ffurfiolaeth felly, neu geisio esbonio sut mae moddion o ‘wahaniaethu’ (*differentiation*) yn rhoi ystyr i’w cynnwys yn achos Strwythuraeth. Gellid mynd ymlaen i esbonio hynt y ‘naratifau cenedlaethol’ a welir yn ein herthyglau (ein *parole*) gan gyfeirio at hynt ‘Y’ naratif cenedlaethol a welir ym mhob ysgrif genedlaetholgar (ein *langue*). Yn yr un modd, gellid amlygu’r trosiadau a’r symbolau a welir yn nhudalennau *Y Celt* ac *Euskalerrria* ar ddiwedd y 19g (*parole* arall y gellid cyfeirio ato) yng nghyd-destun trosiadau a symbolau a welir yn rhwydwaith rhyngdestunol llenyddiaeth genedlaetholgar pob oes (*langue* arall). Cyfrannu at ddealltwriaeth ysgolheigaidd yr ‘ysgrif genedlaetholgar’ gyffredinol a wnaem (os yw un yn bodoli), ond anwybyddu amgylchiadau penodol ein llenorion a diystyru’r posibilrwydd y gall amser a’r byd materol newid strwythurau dealltwriaeth o le i le ac o gyfnod i gyfnod hefyd. Ond gwaith ‘archaeolegol’ sydd yma yn y pen draw, ac ni fyddai’n weddus i archeolegydd anghofio effaith lle a hanes ar ei wrthrych.

Gwrthod swyddogaeth yr unigolyn wrth greu ‘ystyr’ a wnâi’r strwythurwyr ar y cyfan, ond breintio cysyniadau haniaethol o iaith ‘ar wahân’ a wnaent hefyd. Gosodiad ‘idealaid’ yn ei hanfod sydd yma wrth gwrs, gosodiad a aeth yn groes i’n trydydd prism beirniadol, sef beirniadaeth Farcsaidd brif ffrwd yr 20g.<sup>153</sup> ‘Aradeiledd’ (*superstructure*) sy’n sefyll ar ‘sail’ (*base*) y byd materol yw meddwl a diwylliant i’r Marcswyr, ac o ganlyniad caiff syniadau ein llenorion eu penderfynu nid ganddynt eu hunain, ac nid gan iaith ynnddi ei hun, ond gan yr amgylchiadau economaidd o dan eu traed, a chan effeithiau cyfalafiaeth a’r gyfundrefn dosbarth yn benodol.

Gan fod cyfalafiaeth yn ‘diriaethu’ (*reify*) dyn i fod yn rhan fecanyddol o’r system gynhyrchiol a’i ‘ddieithrio’ (*alienate*) oddi wrth ei wir hunanwybodaeth, saif dynoliaeth mewn rhyw fath o ‘ymwybyddiaeth ffug’ (*false consciousness*) neu ddallineb deallusol, meddai’r Marcswyr. Heblaw am hynny, mae dylanwad gormesol ‘ideoleg’ yr elit cyfalafol a’i ‘aparatus gwladol’ (*state apparatus*) yn ormod i ddyn cyffredin ei wrthsefyll, yn ôl Louis Althusser, ac mae’n ofer iddo wingo yn erbyn ei ffawd benderfynedig.<sup>154</sup> Ar y llaw arall,

---

<sup>153</sup> Terry Eagleton yw prif ysgolhaig beirniadaeth Farcsaidd yng nghyd-destun astudiaethau diwylliannol cyfoes y DU, a chydnyddir ei waith, *Marxism and Literary Criticism* (London: Routledge, 1992), yn gampwaith y maes. Gw. hefyd cyflwyniadau i feirniadaeth Farcsaidd yn Barry, *Beginning Theory*, tt. 156-171, a Bertens, *Literary Theory: The Basics*, tt. 79-94.

<sup>154</sup> Noder y bu Althusser yn gwahaniaethu rhwng ‘strwythurau gormesol’ (*repressive structures*) uniongyrchol megis y gyfundrefn gyfreithiol, yr heddlu a’r gwasanaethau diogelwch, a ‘strwythurau ideolegol’ (*ideological structures*) megis y gyfundrefn addysgol, y cyfryngau, yr eglwys a phleidiau gwleidyddol. Dilyn y gwahaniaeth

rhyw fath o ormes cydsyniol, neu ‘hegemoni’, oedd cymdeithas gyfalafol i’r Marcswydd o’r Eidal, Antonio Gramsci, ac yn union fel y gall unigolyn ‘ganiatáu’ ei gaethiwed syniadaethol, gall unigolyn frwydro yn ei erbyn hefyd, gan osod syniadau ‘gwrth-hegemoniaidd’ (*counter-hegemonic*) yn ei le.<sup>155</sup>

Petaem yn edrych ar ein testunau trwy lygaid Althusser a Gramsci, felly, chwilio am olion ideoleg cyfalafiaeth guddiedig yn eu cynnwys a’u ffurf fyddai canolbwynt ein hastudiaeth, neu geisio esbonio sut y ‘mewnoliwyd’ (*internalize*) cyfalafiaeth Fictoriaidd gan ein llenorion a sut y siaradai cyfalafiaeth ‘trwyddynt’ mewn geiriau eraill. At hynny, a chan fod prif ddi-ddordeb ein llenorion – ‘y genedl’ – yn rhan ganolog o ‘aparats gwladol’ cyfalafiaeth (meddai’r Marcswyr), gallem ddatguddio eu ‘hymwybyddiaeth ffug’ mai trwy greu cenedl newydd y byddent yn llwyddo i wella amgylchiadau economaidd eu gwlad, neu mai trwy atgynhyrchu paraffernalia’r wladwriaeth ormesol y byddent yn rhyddhau eu cydwladwyr. Yn sicr, gellid mynd ymlaen i gwestiynu dibynadwyedd holl hanesyddiaeth ein llenorion (brwydr rhwng cenedl orthrymedig a chenedl ormesol) yng ngoleuni ‘gwir’ hanesyddiaeth Farcsaidd faterol y byd (brwydr ddilechdidol rhwng dosbarth gorthrymedig a dosbarth gormesol). Dadansoddiad o hanesyddiaeth ‘ffug’ ac atebion gwleidyddol ‘ffug’ a geid yn y pen draw felly, dadansoddiad o destunau gan grŵp o lenorion ymylol y 19g a geisiodd greu naratif ‘gwrth-hegemoniaidd’ newydd, ond na lwyddodd i wneud dim ond ailadrodd ideoleg gyfalafol eu meistri dosbarth.

Cafodd Marcisiaeth ddylanwad sylweddol ar genhedlaeth gyfan o feirniaid llenyddol o’r 1930au ymlaen, ond i garfan arall o feddylwyr y 1960au a 1970au, roedd hanfodaeth beirniadaeth Farcsaidd draddodiadol yn anghynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â ‘gwirionedd’ eu credoau ffurfiannol megis dilechdid y frwydr ddosbarth, sail ac aradeiledd cymdeithas, ac effeithiau cyfalafiaeth ar yr unigolyn.<sup>156</sup> Gan fynnu mai ‘ffug’ oedd ymwybyddiaeth y rhai na feddai ar ‘fewnwelediad’ breintiedig y Marcswyr, awgryment – o

---

a dynnodd Gramsci rhwng ‘rheol’ (*rule*) a hegemoni oedd Althusser yn hynny o beth. Gw. Barry, *Beginning Theory*, t. 164.

<sup>155</sup> Gw. David Hawkes, *Ideology*, 2nd Edition (London: Routledge, 2003), am esboniad ‘hegemoni’ Antonio Gramsci (tt. 113-116) ac ‘ideoleg’ Louis Althusser (tt. 117-124).

<sup>156</sup> Noder y byddai Marcisiaeth yn dylanwadu ar genhedlaeth newydd o feirniaid llenyddol unwaith yn rhagor yn y 1980au a 1990au, sef ar ddilynwyr Hanesyddoliaeth Newydd (*New Historicism*) a Materoliaeth Ddiwylliannol (*Cultural Materialism*). Roedd y beirniaid hyn yn derbyn theorïau Derrida a Foucault ynglŷn â thestunoldeb (*textuality*) a disgwrs, ond dangos cyd-destun hanesyddol ‘dadadeiledig’ go iawn y testun (gan wrthod portread ‘ceidwadol-Cristnogol’ beirniadaeth draddodiadol ar yr un pryd) oedd ffocws y grŵp hwn. Gw. Kiernan Ryan (gol.), *New Historicism and Cultural Materialism: A Reader* (London: Arnold, 1996), tt. 1-40, a Jeremy Hawthorn, *Cunning Passages: New Historicism, Cultural Materialism and Marxism in the Contemporary Literary Debate (Interrogating Texts)* (Londonn: Arnold, 1996), yn enwedig ‘Part One, Theory: Textualism and Historicism’, tt. 1-84.

ganlyniad – fod ymwybyddiaeth ‘gywir’ yn bodoli yn rhywle arall.<sup>157</sup> Tra oedd Marcs wyr yn gwrthod ‘gwirionedd goddrychol’ y dyneiddwyr a ‘gwirionedd ieithyddol’ y strwythurwyr, ni allent wrthod y posibilrwydd o ‘wirionedd’ ynddo ei hun. Rhaid inni droi at ein pedwerydd prism beirniadol i ystyried y posibilrwydd nad ‘ffug’ oedd syniadau ein llenorion ond ‘ansefydlog’.

Roedd perthynolaeth Jacques Derrida ac ‘ôl-strwythurwyr’ eraill y 1960au a 1970au yn ymateb uniongyrchol i ‘wirionedd ieithyddol’ y strwythurwyr, ymateb y dylanwadwyd arno fwy gan sgeptigaeth yr athronydd na phositiffaeth y gwyddonydd. Fel y strwythurwyr o’u blaen, dychwelasant at iaith fel ffynhonnell ‘ystyr’, ond yn lle ymddiried yn logoganolrwydd yr awdur (sef dibynadwyedd iaith y siaradwr), byddent yn amlygu ystyron amrywiol, ‘amhuredd’ geiriau, ‘trosiadau sy’n marw’ (*dying metaphors*), a diffyg cyfeirnodau cyffredinol (*universal nodes of reference*) eu testunau. Dadleuai Derrida mai ‘adeiladu’ ffug gyferbyniadau deuol (*binary opposites*) rhwng gwrthrychau a wnâi awduron mewn ymdrech i ‘sefydlogi’ eu testunau, a dylai datguddio gwir gyffelybiaethau o dan yr wyneb fod yn dasg ganolog i’r ôl-strwythurwr o hynny ymlaen.<sup>158</sup> Ansefydlog ar bob adeg oedd iaith i’r ôl-strwythurwyr, rhywbeth tebyg i hylif sy’n newid ei ffurf o le i le, o gyfnod i gyfnod ac o gyd-destun cymdeithasol i gyd-destun cymdeithasol. Ond os saif gwirionedd ar iaith (a dilyn dadl y strwythurwyr) ac os yw iaith yn ansefydlog (a dilyn dadl yr ôl-strwythurwyr), rhaid i wirionedd ei hun fod yn ansefydlog hefyd, a rhaid i ‘ganolau’ traddodiadol ein gwybodaeth ac ‘adeiladau’ cysyniadol ein gwareiddiad fod yn ansefydlog yn eu tro.

Datguddio bydysawd syniadaethol datganoledig (*decentred*) a dadadeiledig (*deconstructed*) oedd ffocws gwaith Derrida felly, a phe byddem yn dilyn ei fethodoleg yn yr astudiaeth hon, amlygem brif elfennau anghytgordiol ein herthyglau, tynnem sylw at y lluosogrwydd o ystyron croesebol a welir ynddynt, datguddiem ystyron ffosiledig y gorffennol trwy ddadansoddi ‘ffawtliniau disgysiol’ (*discursive faultlines*) y presennol, a dadadeiladem y ffug gyferbyniadau deuol a ganfyddir yn y testunau. Ond nid gwaith o ‘seismoleg destunol’ yw hwn, nac astudiaeth o ansefydlogrwydd a symudiadau ieithyddol ynddynt eu hunain, ond gwaith o archaeoleg destunol sy’n canolbwyntio ar yr olion dynol a

---

<sup>157</sup> Gw. ‘The position of critique’: Sara Mills, *Discourse* (London: Routledge, 1997), t. 33.

<sup>158</sup> Gw. Catherine Belsey, *Poststructuralism: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2002), t. 75.

chymdeithasol ar waelod y ffos.<sup>159</sup> Bydd rhaid inni droi yn awr at ddau ddamcaniaethwr arall o'r stabl ôl-strwythurol, sef Michel Foucault a Michel Pêcheux, i ystyried lle a phwysigrwydd cymdeithas ym mydysawd syniadaethol dynoliaeth, bydysawd sydd wedi troi, hyd yma ar ein taith feirniadol, yn hollol berthynolaidd ac yn hollol ddadadeiledig.

## Disgwrs a'r genedl

Ni fwriedir awgrymu wrth honni bod ystyr yn ansefydlog a bod ein gwareiddiad wedi'i ddatganoli ac wedi'i ddadadeiladu fod iaith heb ffiniau, heb system, neu heb reolau o gwbl: ffaith empirig yw, mae'n debyg, fod iaith ac ystyr yn gweithio rywfodd mewn bydysawd perthynolaidd. 'Disgwrs' yw'r gair a fathodd Michel Foucault i ddisgrifio sut y mae system ieithyddol yn gweithredu o dan amgylchiadau ôl-strwythurol, a thrown yn awr i drafod ei brif syniadau ac ystyried sut mae ei theori, a theori ei gyd-ôl-strwythurwr, Michel Pêcheux, yn darparu prif gategori ein hastudiaeth.<sup>160</sup>

Dadleuai Foucault yn gyntaf mai meysydd iaith a datganiadau penodol, sef 'disgyrsiau', sy'n caniatáu i ddyn drafod a gwneud synnwyr o'r byd o'i gwmpas. Dadleuai, er enghraifft, mai 'disgwrs meddyginiaeth', sef cyfres o ddatganiadau awdurdodedig ynglŷn â ffenomenau meddygol, sy'n caniatáu i rywun drafod (ac felly gwybod) gwirioneddau cyfoes y gwyddorau meddygol, ac mai 'disgwrs economeg', sef cyfres o ddatganiadau awdurdodedig ynglŷn â'r drefn gynhyrchu a chyfnewid, sy'n caniatáu i rywun drafod gwirioneddau cyfoes economeg.<sup>161</sup> At hynny, mae'n rhesymegol dadlau bod cymaint o ddisgyrsiau unigol mewn iaith ag sydd o wrthrychau profiad, arsylliad a myfyrdod dynoliaeth, a phob un ohonynt yn gorgyffwrdd a chymysgu â'i gilydd mewn clytwaith cymhleth o iaith ac ystyr. Diffinnir cyfanswm, ffocws a natur gwybodaeth yr unigolyn, neu ei 'oddrychedd' felly, yn unol â chyfanswm, ffocws a natur y disgyrsiau a gysyllta ac a fewnola yn ystod ei fywyd. Mae disgwrs yn flaenorol (*prior*) i oddrychedd felly, a chan fod goddrychedd unigolyn yn cael ei reoli gan ddisgyrsiau, disgyrsiau sy'n rheoli natur pob unigolyn a natur cymdeithas ehangach hefyd.

---

<sup>159</sup> Mae Kevin Passmore wedi ysgrifennu traethawd diddorol ar effaith meddwl ôlstrwythurol ar hanesyddiaeth: Kevin Passmore, 'Poststructuralism and History', yn Stefan Berger, Heiko Feldner a Kevin Passmore (goln), *Writing History: Theory and Practice* (London: Hodder Arnold, 2003), tt. 118-140.

<sup>160</sup> Mae gan y gair 'disgwrs' sawl ystyr gwahanol mewn sawl disgyblaeth academaidd. Ceir trafodaeth gryno o'r rhai pwysicaf yn Mills, *Discourse*, tt. 1-8, megis y gwahaniaethau rhwng diffiniad cyffredin y gair a welir yn y geiriadur a'r gwahanol ddiffiniadau a welir yn theori ddiwylliannol, ieithyddiaeth neu yn seicoleg gymdeithasol.

<sup>161</sup> Gw. Chris Horrocks a Zoran Jevtic, *Introducing Foucault* (Royston: Icon Books, 2004), tt. 85-88.



Gan y gellir datgan nifer diderfyn o ‘ddatganiadau’ mewn maes o wybodaeth benodol (mewn egwyddor), a chan na ddigwydd hynny ym mywyd beunyddiol y byd go iawn (ni allem gyfathrebu gyda’n gilydd pe bai iaith heb gyfyngiadau), rhaid bod rhyw fath o ffitro a dethol ar waith, neu ryw fath o reolau sy’n rhoi trefn ar y ‘ffurfiannau disgyrsiol’ (*discursive formations*) sy’n cwmpasu iaith a gwybodaeth. Y rheolau hyn sydd o brif ddiddordeb i Foucault, ac mae ei theorïau yn ymwneud â sut y penderfynir pa ddatganiadau y gellir eu datgan mewn disgwrs, sut y’u categoreiddir, sut y’u gwerthusir, sut y’u cylchreidir, ac yn enwedig, pa organ sy’n gwneud y penderfyniadau hyn. Cwestiynau canolog Foucault yn y pen draw yw, *pwy* sy’n galluogi’r disgwrs a *phwy* sy’n amffinio’r disgwrs?

‘Grym cymdeithasol’ oedd ateb Foucault i’r cwestiynau hynny, a grym cymdeithasol a ganolwyd yn sefydliadau’r wladwriaeth ‘pan-optegol’ (*pan-optical*) yn benodol.<sup>162</sup> Y ‘sefydliad meddygol’ sy’n rheoli disgwrs meddyginiaeth, felly, a’r ‘sefydliad economaidd’ sy’n rheoli disgwrs economeg, os dymunir dilyn yr enghreifftiau uchod. Dyna’r cyrff cymdeithasol sy’n caniatáu i ddatganiad fod yn wir neu yn ffug, a dyna’r cyrff sy’n awdurdodi rhywun i siarad y ‘gwir’. Perthynas symbiotig rhwng iaith a grym cymdeithasol sydd wrth wraidd hypothesis Foucault felly, gan mai sefydliadau cymdeithasol sy’n rhoi terfyn ar yr iaith y gellir ei defnyddio, ond iaith sy’n rhoi grym i sefydliadau cymdeithasol trwy roi ffurf ac effaith ar eu ‘gwirionedd’ yn y lle cyntaf:

In every society, the production of discourse is at once controlled, selected, organized and redistributed according to a certain number of procedures whose role is to avert its powers and its dangers.<sup>163</sup>

Yn unol â hypothesis y Marcswyr, system a reolir gan gymdeithas yw disgwrs, ac o ganlyniad saif disgwrs Foucault ochr yn ochr ag ideoleg Althusser a hegemoni Gramsci fel ffynhonnell ‘allanol’ meddwl a syniadau awduron.

Gadawer inni oedi am eiliad i ystyried gwrthrych ein testunau yng ngoleuni’r datganiadau uchod. Gan mai disgyrsiâu ‘cenedlaethol’ Cymreig a Basgaidd sy’n nodweddi cynnwys ein testunau, mae’n rhesymegol tybio mai rhyw ‘sefydliad cenedlaethol’ Cymreig neu Fasgaidd a fu’n gyfrifol am oruchwylio eu cynhyrchu, rhoi ffiniau ar eu ceisiadau, a rheoli eu dosbarthu. Nid oes angen mwy nag adnabyddiaeth arwynebol o hanes Ewrop y 19g, er hynny, i wybod na fodolai’r fath sefydliadau yng Nghymru a Gwlad y Basg ar y pryd, ac mae’n rhesymegol awgrymu na fyddai ‘sefydliadau cenedlaethol’ Sbaen a Phrydain yn

<sup>162</sup> Gw. Garry Gutting, *Foucault: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2005), tt. 83-84.

<sup>163</sup> Dyfynnir yn Horrocks a Jevtic, *Introducing Foucault*, t. 96

caniatáu (o'u gwirfodd) i ddisgwrs cenedlaethol cystadleuol gylchredeg y tu fewn i'w tiriogaethau. Naill ai nad disgyrsiau cenedlaethol Cymreig a Basgaidd 'go iawn' sydd gennym dan sylw felly, neu nad hollbwerus yw rheol y wladwriaeth ar y disgyrsiau sy'n cylchredeg o'i chwmpas. Ceir ateb i'r cwestiwn hwn yng ngwaith Michel Pêcheux o 1975, *Language, Semantics and Ideology*.<sup>164</sup>

I Michel Pêcheux, nid yw disgwrs yn eiddo neilltuedig yr 'aparatus gwladol' yn unig. Yn hytrach, mae'n fan brwydro lle y gall datganiadau eraill gylchredeg yn rhydd a gwrthsefyll 'gwirionedd' sefydledig y wladwriaeth. Nid yw pob datganiad yn 'awdurdodedig' chwaith, a gall pob unigolyn ddaduniaethu (*disidentify*) â dadl y 'disgwrs trechol' (*dominant discourse*) gan gynnig 'gwrth-ddisgwrs' (*counter-discourse*) yn ei le.<sup>165</sup> Gellid dadlau felly, yng ngoleuni syniadau Michel Pêcheux, mai 'gwrth-ddisgyrsiau cenedlaethol' a welir yn ein herthyglau Cymreig a Basgaidd o'r 19g, neu olion o hen frwydr ieithyddol lle'r oedd 'disgwrs trechol' cenedlaethol Prydain a Sbaen yn dod wyneb yn wyneb â datganiadau 'daduniaethedig' cenedlaethol newydd o genedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd. Ni welwn, o ganlyniad, na disgwrs rhanbarthol traddodiadol wedi'i awdurdodi gan Brydain a Sbaen na disgwrs cenedlaethol newydd wedi'i lwyr awdurdodi gan rymoedd cymdeithasol Cymru a Gwlad y Basg. Rhyw fath o ddisgwrs cenedlaethol Cymreig a Basgaidd 'ar y gweill' sydd gennym felly, heb ei lwyr gyfansoddi, heb ei lwyr awdurdodi, gydag elfennau o'r hen ddisgwrs ac elfennau o'r newydd.

Ond pa elfen o'r disgwrs newydd sy'n perthyn i'r disgwrs trechol a pha un a gynigiwyd gan ein llenorion? A ellir gwybod yn iawn ffynhonnell eu hawdurdod? A yw ystyr eu datganiadau yn eglur? Neu ai tensiwn, amwysedd a chroesrywedd ieithyddol yw'r gorau y gallwn ei ddisgwyl o'r arteffactau ar waelod ein ffosydd testunol? Dyma ddetholiad bychan o'r cwestiynau mwyaf nodweddiadol sy'n codi o ganlyniad i ddewis disgwrs fel prif gategori ein cymhariaeth. Ond cyn mynd ymlaen i'w trin yn fanwl, dylem oedi am eiliad i ystyried prif 'bwnc' y disgyrsiau a'i berthynas â'r byd materol, grym cymdeithasol a llenyddiaeth.

Datganiadau ynglŷn â'r genedl Gymreig a'r genedl Fasgaidd a gofnodwyd yn y wasg yn y 1890au yw prif ffocws yr astudiaeth hon, datganiadau a gwmpasai, yn nherminoleg Foucault, y 'ffurfiant ddisgyrsiol' a oedd yn hwyluso trafodaeth, gwybodaeth a 'bodolaeth' y

---

<sup>164</sup> Michel Pêcheux, *Language, Semantics and Ideology: Stating the Obvious* (Basingstoke: Macmillan, 1982) (cyfieithiad gan Harbans Nagpal o'r gwaith Ffrangeg gwreiddiol o 1975).

<sup>165</sup> Gw. Mills, *Discourse*, t. 16.

ddwy genedl ym meddwl ein hawduron ac ym meddwl llawer o'u cyd-wladwyr.<sup>166</sup> Yn wahanol i feddyginiaeth ac economeg, sut bynnag, ni cheir consensws ymysg ysgolheigion ynglŷn â gwrthrych yr astudiaeth, sef pa beth yn union a olygir gan y geiriau 'cenedl', 'cenedlaethol' a 'chenedlaetholdeb'. Mae rhai haneswyr a gwyddonwyr cymdeithasol yn credu mai rhywbeth naturiol, parhaol, neu hanfodol yw'r genedl. Mae eraill yn credu ei bod yn rhywbeth artiffisial, tymhorol, neu'n beth a luniwyd gan ddynoliaeth ei hunan, ac mae rhai eraill yn honni bod elfennau o'r ddwy ddadl hyn ar waith.<sup>167</sup> Cyn edrych ar y genedl yng ngoleuni theorïau ôl-Foucauldaidd, cawn gipolwg ar wahanol ffyrdd y mae gwyddonwyr cymdeithasol wedi dehongli'r genedl yn ystod y 19g a'r 20g, ac asesu a allai'r theorïau hyn fod o les i'n hastudiaeth.

Hanfodaeth y genedl fu honiad canolog pob mudiad cenedlaethol ers amser Johann Gottfried Herder, Johann Gottlieb Fichte a chenedlaetholwyr rhamantaidd eraill y 19g.<sup>168</sup> Gwahaniaethau cwbl naturiol rhwng pobloedd o ran hil, iaith, diwylliant ac arferion a fu'n penderfynu ffiniau cenhedloedd Kossuth, Mazzini a Davis yn chwyldroadau 1848 er enghraifft, gwahaniaethau y gellid eu profi ym marn yr arweinwyr hyn naill ai trwy ddisgyblaethau newydd hanes, ieithyddiaeth ac ethnoleg, neu ar dudalennau'r Beibl a phregeth Aeropagus Sant Paul yn benodol: 'Ac efe a wnaeth o un gwaed bob cenedl o ddynion, i breswyllo ar holl wyneb y ddaear, ac a bennodd yr amseroedd rhagosodedig, a therfynau eu preswylfod hwynt'.<sup>169</sup> Peth rhesymegol, os nad gorfodol o dan ddysgeidiaeth Gristnogol y cyfnod, oedd ymdrechion i adfer sofraniaeth wleidyddol gyntefig yr hen genhedloedd hyn, mae'n debyg.<sup>170</sup>

Dadleuon gwrthryfelwyr, cynhyrfwyr a phamffledwyr oedd y rhain ar y cyfan wrth gwrs, ond cymaint oedd eu dylanwad ar feddwl cyffredin y 19g nes i'r genedl hanfodol droi yn rhyw fath o fuwch sanctaidd i hanesyddiaeth y cyfnod. Gellid gofyn a oedd pobl benodol

---

<sup>166</sup> 'In his *The Archaeology of Knowledge* (1972) Foucault tells us that a discourse is "a series of sentences or propositions" and that it "can be defined as a large group of statements that belong to a single system of formation" – a so-called *discursive formation*': Bertens, *Literary Theory: The Basics*, t. 154.

<sup>167</sup> Dyma gategoreiddio sylfaenol Umut Özkirimli yn *Theories of Nationalism: A Critical Introduction* (Basingstoke/New York: Palgrave, 2000), tt. 212-219.

<sup>168</sup> Gw. 'III. Organic Politics', yn F. M. Barnard, *Herder's Social and Political Thought: From Enlightenment to Nationalism* (Oxford: Clarendon Press, 1965), tt. 54-71. Gw. hefyd H. S. Reiss, *The Political Thought of the German Romantics 1793-1815* (Oxford: Basil Blackwell, 1955).

<sup>169</sup> Actau 17:26. Gw., er enghraifft, Alberto Mario Banti, 'Sacrality and the aesthetics of politics: Mazzini's concept of the nation', yn C. A. Bayly ac E. F. Biagini (goln), *Giuseppe Mazzini and the Globalization of Democratic Nationalism* (Oxford: Oxford University Press, 2008), tt. 59-74.

<sup>170</sup> Mae Anthony Smith yn dadansoddi swyddogaeth credoau crefyddol yn hunaniaeth genedlaethol nifer o wledydd gorllewinol yn *Chosen Peoples: Sacred Sources of National Identity* (Oxford: Oxford University Press, 2003).

yn ‘genedl go iawn’, er enghraifft, ond ni ellid honni bod ‘cenedloedd go iawn’ yn rhywbeth llai nag unedau llywodraethol hynafol a chysegredig. At hynny, gwednewidiwyd dadleuon rhamantaidd y 19g yn ddadleuon beirniadol yr 20g gynnar maes o law, wrth i genhedlaeth newydd o haneswyr hanfodol (neu *primordialists* i ddefnyddio’r term technegol Saesneg) ddadlau mai estyniad rhesymegol o’r continwmm ethnolegol ‘unigolyn > teulu > grŵp ceraint’ oedd y genedl, a hynny ar sail tystiolaeth enetig, fiolegol-gymdeithasol, grefyddol, neu hyd yn oed gyfriniol.<sup>171</sup> Ffenomen y drefn naturiol yn ei hystyr ehangach oedd y genedl i *primordialists* megis Edward Shills, Clifford Geertz a Pierre van den Berghe, felly.<sup>172</sup>

Ffenomen y drefn naturiol a dwyfol oedd y genedl i awduron ein herthyglau hefyd, fel y bu i genedlaethau o haneswyr Cymreig a ddaeth ar eu hôl megis R. Tudur Jones a J. E. Daniel.<sup>173</sup> Diddorol yw nodi, sut bynnag, fod R. Tudur Jones yn credu na chrëwyd cenedloedd gan Dduw yn uniongyrchol, ond Duw a greodd ‘ddyfeisgarwch diwylliannol’ dynolryw, a byddai dynolryw yn creu cenedloedd yn eu tro: ‘man created the Welsh nation under the providence of God’, meddai ef.<sup>174</sup> Boed hynny fel y bo, byddai archwilio ffynonellau gwreiddiol syniadaeth genedlaetholgar hanfodol ein hawduron (gan archwilio olion meddwl Herder a Fichte er enghraifft) yn opsiwn dadansoddol amlwg ar gyfer yr astudiaeth hon. Gellid asesu pa mor effeithiol oedd eu hymdrechion didactig a rhethregol i amddiffyn ‘achos’ eu cenedloedd ymysg achosion cenedloedd ‘go iawn’ eraill y cyfnod gan gymharu eu dadleuon â dadleuon cenedlaetholwyr ‘llwyddiannus’ Iwerddon, Bohemia a Gwlad Pwyl, er enghraifft. Ond ni fwriedir cynnig y fath astudiaeth draddodiadol, ddyneiddiol yma. Cynigir astudiaeth a seilir ar bersbectif theori ddiwylliannol gyfoes, persbectif sy’n elwa yn sylweddol o waith carfan arall o haneswyr y 1960au a 1970au.

O dan ddylanwad Marcisiaeth yr 20g, dechreuodd ‘lluniadaethwyr’ (*constructivists*) ddadlau nad oedd y genedl yn ‘naturiol’ o gwbl, ond yn adeiladwaith diwylliannol a ‘ddyfeisiwyd’ neu a ‘ddychmygwyd’ yn y 19g oherwydd newidiadau yn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yr *Ancien Régime*. Ni chytuna lluniadaethwyr, neu ‘fodernwyr’ (*modernists*), a defnyddio term arall, ar yr union newidiadau a fu’n gyfrifol am y rhithlun torfol newydd hwn, ond ‘datblygiad anwastad’ (*uneven development*) (Tom Nairn),

---

<sup>171</sup> Özkirimli, *Theories of Nationalism*, tt. 64-74.

<sup>172</sup> Özkirimli, *Theories of Nationalism*, tt. 64-74.

<sup>173</sup> Rhys Llwyd, ‘Plaid Cymru, Welsh nationalism and christianity – a historical perspective’, *Ethics in Brief* (The Kirby Laing Institute for Christian Ethics), 2015 Election Series No. 5 (March 2015), [http://www.klice.co.uk/uploads/Ethics%20in%20Brief/EiB\\_Llwyd\\_E2015\\_5\\_WEB.pdf](http://www.klice.co.uk/uploads/Ethics%20in%20Brief/EiB_Llwyd_E2015_5_WEB.pdf) [cyrchwyd: 12 Hydref 2016], 4.

<sup>174</sup> Llwyd, ‘Plaid Cymru’, 4.

‘gwladychiaeth fewnol’ (*internal colonialism*) (Michael Hechter), datblygiad yr ‘wladwriaeth fodern’ (John Breuilly), anghenion gweinyddol ‘diwydiannu’ (Ernest Gellner), ac effeithiau ‘cyfalafiaeth y wasg’ (*print capitalism*) (Benedict Anderson) yw’r rhai amlycaf.<sup>175</sup> Boed yr achosiaeth fel y bo, adeiledd dynol y 19g yw’r genedl i’r modernwyr hyn yn y pen draw, neu uned, cyfundrefn ac ideoleg a ddyfeisiwyd gan grwpiau bychain o arweinwyr cymdeithasol i gipio (neu i ddal) grym llywodraethol oddi wrth garfan arall o ddynion mewn cyfnod o newid cymdeithasol digynsail.<sup>176</sup>

‘Gwahodd y lluoedd i mewn i hanes’ a wnaeth yr arweinwyr cenedlaetholgar hyn yn ôl datganiad enwog Tom Nairn, ond bu carfan arall o feddylwyr y 1980au yn gofyn pam yn union yr ymatebai’r werin i’r alwad hon mewn ffordd mor frwdfrydig pan wynebant anfanteision materol sylweddol, a hyd yn oed marwolaeth, yng ngwasanaeth eu mamwlad ‘ddychnmygol’.<sup>177</sup> Byddai ethnosymbolwyr (*ethno-symbolists*) megis John Armstrong ac Anthony D. Smith yn derbyn ffurf neilltuol a pharamedrau syniadaethol y genedl fodern fel ffenomen fodern, ond amlygent hefyd nodweddion hynafol grwpiau cymdeithasol megis mythau, cof, gwerthoedd a symbolau a fu’n cryfhau’r syniad o genedl ymysg y bobl gyffredin ac a fu’n hwyluso eu teyrngarwch at ei chyfundrefn lywodraethol.<sup>178</sup> Casglant mai mater o ‘raddfa’ ac nid ‘math’ yw’r gwahaniaethau a welir rhwng unedau cymdeithasol cyntefig a chenedloedd cyfoes, ac mai cyfuniad o nodweddion ethnolegol hynafol ac amgylchiadau newydd yr oes fodern yw’r genedl yn y pen draw.

Bu dadleuon ynglŷn â natur y genedl, cenedligrwydd a chenedlaetholdeb yn cyfrif ymysg gweithiau academaidd amlycaf Cymru ers y 1960au hefyd. Cafwyd, er enghraifft, rifyn arbennig o *Efrydiau Athronyddol* yn 1961 a ystyriai’r genedl o bersbectifau nifer o academyddion pwysicaf yr oes.<sup>179</sup> Bu J. R. Jones yn dadansoddi seiliau ‘cenedligrwydd’ yn gyffredinol a seiliau ‘cenedligrwydd’ Cymru gan ddilyn fframwaith Stalin yn ei *National and Colonial Question* (cymundod iaith, cymundod tiriogaeth, cymundod diwylliannol / economaidd) gan gynnig categori ychwanegol, sef ymwybyddiaeth dorfol o ‘ddimensiwn

---

<sup>175</sup> Gw. Özkirimli, *Theories of Nationalism*, t. 218. Gw. Ernest Gellner, *Nationalism* (London: Weidenfeld & Nicolson, 1997).

<sup>176</sup> Mae Marianne Heiberg wedi ceisio lleoli cenedlaetholdeb Basgaidd o fewn fframwaith damcaniaethol y modernwyr, a fframwaith Ernest Gellner yn benodol, ond yn casglu nad yw hynny yn bosibl. Canlyniad gwrthdaro rhwng sosialaeth Gastilaidd newydd yn Bilbo a chymdeithas draddodiadol gyfalafol Biscaia oedd cenedlaetholdeb Basgaidd y 1890au yn ei barn hi: Marianne Heiberg, ‘Insiders/outside: Basque nationalism’, *European Journal of Sociology*, 16:02 (1975), 169-193.

<sup>177</sup> ‘The new middle-class intelligentsia of nationalism had to invite the masses into history’: Tom Nairn, dyfynnir yn Özkirimli, *Theories of Nationalism*, t. 90.

<sup>178</sup> Gw. Özkirimli, *Theories of Nationalism*, tt. 167-183.

<sup>179</sup> *Efrydiau Athronyddol*, 26 (1961).

oesol y genedl', boed hynny'n ymwybyddiaeth 'echblyg' (gwybodaeth academaidd o hanes) neu ymwybyddiaeth 'ymhlyg' wedi'i throsglwyddo trwy gyfrwng symbolau'r genedl.<sup>180</sup> Gwelai Gwyn Alf Williams wreiddiau ymwybyddiaeth genedlaethol gynnar iawn yn hanes Cymru, ond tybed onid 'ymwybyddiaeth grŵp ethnig' a ddisgrifia Williams mewn gwirionedd yn hytrach nag ymwybyddiaeth 'genedlaethol' yn yr ystyr modern?<sup>181</sup> Yn ddiweddarach, bu J. E. Caerwyn Williams yn dadansoddi olion cenedlaetholdeb yn yr Oesoedd Canol a Peredur Lynch yn dadansoddi'r 'syniad o genedl' yng nghanu proffwydol Cymreig o'r Oesoedd Canol hyd at yr 17g. Casgliad Lynch yw bod llawer o dystiolaeth i'r Cymry feddu ar syniadau cenedlaetholgar (yn ddiwylliannol ac yn wleidyddol), a hynny ar y lefel poblogaidd oherwydd pwysigrwydd achau i'r Cymry, a throsglwyddo'r cerddi ar lafar.<sup>182</sup> Yn gymharol ddiweddar ceir trafodaeth hynod o ddiddorol ar beth a olygir gan y term 'cenedlaetholdeb' a 'chenedligrwydd' yn y cyd-destun Cymreig ym mhennod agoriadol cyfrol Richard Wyn Jones ar syniadaeth Plaid Cymru.<sup>183</sup>

Er na fyddai modernwyr, ethnosymbolwyr nac ysgolheigion Cymreig yn cytuno ar ba mor hynafol neu ba mor fodern yw hunaniaeth genedlaethol, neu a yw'r genedl gyfoes wedi'i chreu yn 'hollol' neu yn 'rhannol' gan ddyn, byddent yn cytuno bod y broses honno o 'greu' rhywbeth, rywbyrd, yn bwysig iawn. Hynny yw, boed tystiolaeth am 'enedigaeth' cenedl yn chwedlau'r Oesoedd Canol cynnar neu ym mhropaganda gwleidyddol y 19g, roedd angen i rywun, rywbyrd, gyfansoddi testun a rhoi siâp syniadol i gysyniad na fodolai (yn ei gyfanrwydd) yn y byd materol o'r blaen. Rhywbeth wedi'i greu, rhywbeth wedi'i ysgrifennu i lawr, naill ai yn llwyr neu yn rhannol, yw'r genedl i'r mwyafrif o ddamcaniaethwyr o'r Marcswyr ymlaen.<sup>184</sup> Dyma 'greadigaeth ddisgyrsiol', mewn geiriau eraill, os dymunwn gymhwyso'r theorïau Foucauldaidd a drafodwyd yn yr adran flaenorol at achos y genedl, neu

<sup>180</sup> J. R. Jones, 'Y syniad o genedl', *Efrydiau Athronyddol*, 26 (1961), 3-17. Trafodir cyfrol pwysig J. R. Jones, *Prydeindod* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1966), yn nes ymlaen yn Haen 1.

<sup>181</sup> Gwyn A. William, 'Twf hanesyddol y syniad o genedl yng Nghymru', *Efrydiau Athronyddol*, 26 (1961), 18-30.

<sup>182</sup> Peredur I. Lynch, *Proffwydoliaeth a'r Syniad o Genedl*, Trafodion Bangor: Rhif 5 (Prifysgol Bangor, 2007).

<sup>183</sup> Richard Wyn Jones, *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007). Gw. Pennod 1, 'Cenedlaetholdeb, Mudiadau Cenedlaethol a Chymru', a'r is-adran, 'Cymru – yng nghysgod y cyntaf-anedig', yn benodol: tt. 3-52.

<sup>184</sup> Gw. erthygl ddiddorol gan Philip S. Gorski sy'n ystyried hanes cenedlaetholdeb Seisnig o'r persbectif hwn wrth ddadansoddi testunau trwy hanes Lloegr o gyfnod Bede tan y 19g: 'Pre-modern nationalism: an oxymoron? The evidence from England', yn Gerard Delanty a Krishan Kumar (goln), *The Sage Handbook of Nations and Nationalism* (London /Thousand Oaks / New Delhi: Sage, 2006), tt. 143-156. Gw. J. E. Caerwyn Williams, 'Twf cenedlaetholdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol', yn Dewi Eirug Davies (gol.), *Gwinllan a Roddwyd* (Llandybie: Christopher Davies, 1972), tt. 60-80, am ddadleuon tebyg yn y cyd-destun Cymreig.

‘hunaniaeth genedlaethol wedi’i hadeiladu yn ddisgyrsiol’, i ddwyn geiriau Ruth Wodak a’i chyd-ysgrifenwyr yn eu cyfrol *The Discursive Construction of National Identity*.<sup>185</sup>

Ni fwriedir damcaniaethu ymhellach ar ‘wir natur’ na gwir hynafiaeth y genedl yn yr astudiaeth hon, heblaw am gyfaddef amheuaeth reddfol dros hanfodaeth yn gyffredinol, mynegi cydymdeimlad â hanesyddiaeth hanesyddolaidd yr ethnosymbolwyr, ac ailadrodd cefnogaeth i hypothesis ôl-strwythurol sy’n dal bod creadigaethau syniadaethol y byd dynol, ac felly cenedloedd, wedi’u creu, wedi’u cynnal ac wedi’u newid, naill ai yn llwyr neu yn rhannol, naill ai yn gynnar neu yn hwyr, gan brosesau disgyrsiol. Yn wir, dadleuir hefyd fod erthyglau a llythyrau i’r wasg Gymreig a’r wasg Fasgaidd yn y 1890au yn enghreifftiau rhagorol o ddisgyrsiau cenedlaethol ar y gweill, neu yn fwy penodol, enghreifftiau rhagorol o ymdrechion i greu, cyfiawnhau a chynnal cenedloedd yn ddisgyrsiol ar un adeg benodol o’u hanes. Cynigir, felly, ‘ddisgyrsiau cenedlaethol’ fel is-gategori theoretig yr astudiaeth hon, a dadleuir bod ein dau wrthrych yn perthyn iddo ac felly ei bod yn briodol iawn eu cymharu.

## **Disgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol**

Fel yr awgrymwyd uchod, ni ffurfir disgwrs ar wahân, ond mewn cyfodiad neu wrthdrawiad â disgyrsiau eraill. Buddiol fyddai ystyried, felly, a oedd cysylltiadau a chyfnewidiadau o’r fath ar waith wrth i ddisgyrsiau cenedlaethol Cymreig a Basgaidd gael eu ffurfio yn chwarter olaf y 19g. Buddiol fyddai ystyried, hefyd, at hynny, ai cysylltiadau a chyfnewidiadau â disgyrsiau imperialaidd Prydain a Sbaen y 19g hwyr a ddylanwadodd fwyaf arnynt, ac ai disgyrsiau ‘cenedlaethol-drefedigaethol’ a welir yn ein herthyglau yn y pen draw.

Datblygodd y mwyafrif o ddamcaniaethwyr cenedlaetholdeb y 1960au a 1970au eu theorïau am y genedl yng nghyd-destun hanes Ewrop y 19g a’r 20g gynnar, ac ar sail hanes Ffrainc, Prydain, yr Almaen, yr Eidal ar hen Ymerodraeth Awstro-Hwngaraidd yn benodol. Ond hanes trefedigaethol gwledydd Affrica ac Asia a fu’n dylanwadu fwyaf ar ddamcaniaethwyr diwylliannol ers y 1990au, ac mae cysyniadau o faes newydd astudiaethau ôl-drefedigaethol, neu ‘ôl-drefedigaethedd’, wedi newid yn sylweddol y modd y deallwn ddisgyrsiau cenedlaethol gwledydd bychain megis Cymru a Gwlad y Basg.

---

<sup>185</sup> Ruth Wodak, Rudolf de Cillia, Martin Reisigl, a Karin Liebhart (cyfieithwyd gan Angelika Hirsch a Richard Mitten), *The Discursive Construction of National Identity* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 1999).

Yng ngwaith sylfaenol y maes, *Orientalism*, o 1978, bu Edward Said yn ailystyried y berthynas rhwng diwylliannau brodorol y gwledydd a wladychwyd yn Asia a diwylliannau imperialaidd y gwladychwyr yng ngoleuni theorïau Michel Foucault.<sup>186</sup> Casglai Said fod llenyddiaeth imperialaidd Ewropeaidd y 19g a'r 20g gynnwys yn offeryn disgyrsiol y rheolwr gormesol, a bod y llenyddiaeth hon yn categoreiddio pobloedd a diwylliannau'r Dwyrain fel 'yr arall', neu rywbeth gwahanol a gwaeth na phobloedd a diwylliannau'r Gorllewin. 'Dad-dynoli' (*de-humanize*) goddrychau trefedigaethol a wnâi'r disgwrs hwn, gan briodoli pob math o ddrygioni moesol a chorfforol iddynt megis creulondeb, diogi, a dirywiaeth, a haeru mai emosiynau anifeilaidd yn unig (ac nid rheswm) a benderfynai eu gweithredoedd. 'Dadunigoli' (*de-individualise*) y dwyreiniwr a wnâi hefyd, sef gwrthod unigoliaeth y goddrych a breintio ei nodweddion torfol a homogenaidd yn lle hynny. 'Crëwyd' yr arall israddol trefedigaethol hwn yn ddisgyrsiol, felly, gan ei ddisgrifio a'i ddiffinio yn llenyddiaeth 'awdurdodedig' y gwladychwr. Crëwyd 'disgwrs trefedigaethol y trefedigaethwr' felly, neu iaith 'swyddogol' a ddefnyddid gan y gorllewin i siarad am y dwyrain.

Oherwydd goruchafiaeth (neu hegemoni) wleidyddol, economaidd, ddiwylliannol ac academaidd y trefedigaethwyr yn y trefedigaethau, mabwysiedid y disgwrs hwn gan arweinwyr cymdeithasol y brodorion a oedd yn awyddus i ddod yn rhan (neu i barhau yn rhan) o'r diwylliant llywodraethol. Dechreuodd y brodor ei ddisgrifio'i hun ac esbonio hanes a gwirionedd cyfoes y drefedigaeth yn nhermau'r gwladychwr yn ogystal ag ailadrodd ac atgyfnerthu datganiadau ynglŷn â'i gyflwr isel, ei symlrwydd, a'i israddoldeb cyffredinol. Dyma brofiad, cyflwr a hunaniaeth 'ôl-drefedigaethol' felly: pobl sy'n gweld eu hunain ac yn eu disgrifio eu hunain yn ôl fframwaith epistemolegol, egwyddorion moesol a chategorïau cymdeithasol eu gorchfygwyr. Dyma bobl sy'n byw – naill ai yn ymwybodol neu yn anymwybodol – y tu mewn i ddisgwrs ôl-drefedigaethol. Teg yw'r cwestiwn felly, a fyddai unrhyw ddisgwrs 'cenedlaethol' a ffurfiwyd yn ddiweddarach ymysg pobl o'r fath yn debyg neu yn wahanol i ddisgwrs 'cenedlaethol' cenedloedd imperialaidd, neu genhedloedd na fu'n profi amgylchiadau trefedigaethol o gwbl?

Dangosodd gwaith Said ac ôl-drefedigaethwyr eraill ar Asia ac Affrica bersbectif newydd ar hanes diwylliannol Ewrop, ac yn enwedig ar ddiwylliannau gwledydd bychain,

---

<sup>186</sup> Cyhoeddwyd *The Wretched of the Earth* yn Ffrangeg yn 1961 gan Frantz Fanon, ond cydnabyddir *Orientalism* Edward Said fel y gwaith cyntaf i amlygu theori ôl-drefedigaethol hollgynhwysol: Barry, *Beginning Theory*, t. 193.



neu ‘drefedigaethau mewnol’ a benthg term Sergio Salvi a Michael Hechter, Prydain, Sbaen a Ffrainc.<sup>187</sup> Mae nifer cynyddol o ysgolheigion Cymreig wedi ystyried hanes a diwylliant Cymru o bersbectif ôl-drefedigaethol ers y 1990au hwyr. Ymysg y pwysicaf, gellid amlygu monograff Kirsti Bohata o 2004, *Postcolonialism Revisited: Writing Wales in English*, a chyfrol a olygwyd gan Jane Aaron a Chris Williams yn 2005, *Postcolonial Wales*, cyfrol sy’n cyflwyno erthyglau gan nifer o feirniaid pwysicaf y cyfnod.<sup>188</sup> Ceir nifer o astudiaethau yn y Gymraeg hefyd megis erthygl gan Angharad Price sy’n dadansoddi ysgrif T. H. Parry-Williams yng ngoleuni Orientaliaeth Edward Said, ac erthygl gan Dylan Foster Evans ar Dafydd ap Gwilym a’r ‘arallwlad’.<sup>189</sup> Ceir nifer o astudiaethau ar ddiwylliant a llenyddiaeth Fasgaidd o bersbectif ôl-drefedigaethol hefyd, megis *Writers in between Languages: Minority Literatures in the Global Scene*, a olygwyd gan Jose Mari Olaziregi, sy’n dadansoddi testunau Basgaidd hanesyddol a chyfoes yng ngoleuni cysyniadau megis ‘meddwl y ffindir’ (*borderland thought*) ac *in-betweenness*, cysyniadau sy’n tarddu gan mwyaf o waith Homi K. Bhabha, *The Location of Culture*.<sup>190</sup>

Pennaf ymysg yr heriau a wyneba pob ymchwilydd sy’n dadansoddi hanes neu lenyddiaeth cenhedloedd di-wladwriaeth Ewrop o bersbectif ôl-drefedigaethol yw’r cwestiwn o ‘deilyngdod’ neu addasrwydd categorïol y theori hon ar gyfer cenhedloedd Ewropeaidd.<sup>191</sup> Dyma heriau a drafodid yn aml ar dudalennau cylchgronau a chyfrolau Cymreig dros y sawl degawd diwethaf; cwestiynau y mae Kirsti Bohata wedi eu crynhoi yn gyfleus yn

<sup>187</sup> Bathwyd y term ‘trefedigaethau mewnol’ gan yr hanesydd Sergio Salvi yn 1973 yn *Le Nazioni Proibite: Guida a Dieci Colonie Interne dell’Europa Occidentale* (Y Cenhedloedd Gwaharddedig: Canllaw i Ddeg Trefedigaeth Fewnol Gorllewin Ewrop), astudiaeth a ystyriai sefyllfaoedd Catalwnia, Yr Alban a Llydaw. Cyhoeddwyd *Internal Colonialism: The Celtic Fringe in British National Development, 1536-1966* gan Michael Hechter yn 1975 (London: Routledge and Kegan Paul).

<sup>188</sup> Bohata, *Postcolonialism Revisited*; Jane Aaron a Chris Williams (goln), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005). Gw. hefyd, draethawd PhD yn Saesneg gan Owain Llŷr ap Gareth, ‘Welshing on postcolonialism: complicity and resistance in the construction of Welsh identities’ (University of Wales Aberystwyth, 2009). Mae Jeffrey Cohen wedi dadansoddi *Itinerarium Kambriae* a *Descriptio Kambriae* Giraldus Cambrensis trwy brism theori ôl-drefedigaethol yn ‘Hybrids, monsters, borderlands: the bodies of Gerald of Wales’, yn Jeffrey Jerome Cohen (gol.), *The Postcolonial Middle-Ages* (New York: St Martin’s Press, 2000), tt. 84-104.

<sup>189</sup> Gw. Angharad Price, ‘Borshiloff’ (tt. 137-151) a Dylan Foster Evans, ‘Bardd arallwlad: Dafydd ap Gwilym a theori ôl-drefedigaethol’ (tt. 39-72) yn Owen Thomas (gol.), *Llenyddiaeth Mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006). Ceir nifer o draethodau MPhil/PhD heb eu cyhoeddi hefyd megis Awen Meleri Schiavone, ‘*Barti Ddu*, T. Llew Jones – nofel antur ôl-drefedigaethol?’ (Traethawd MPhil: Prifysgol Caerdydd, 2014).

<sup>190</sup> Gw. Mari Jose Olaziregi (gol.), *Writers in Between Languages: Minority Literatures in the Global Scene* (Reno: Center for Basque Studies, 2009). Gw. hefyd, ‘Madness and the politically real: reflections on violence in Postdictatorial Spain’ gan Begoña Aretxaga yn Mary-Jo DelVecchio Good, Sandra Teresa Hyde, Sarah Pinto a Byron J. Good (goln), *Postcolonial Disorders* (Berkeley / Los Angeles: University of California Press, 2008), tt. 43-61. Gw. hefyd Homi K. Bhabha, *The Location of Culture* (London: Routledge, 1994).

<sup>191</sup> Gw. Liam Kennedy, ‘Modern Ireland: post-colonial society or post-colonial pretensions?’, *The Irish Review*, No. 13, ‘Autobiography as Criticism’ (Winter, 1992/1993), 107-121.

*Postcolonialism Revisited*.<sup>192</sup> Yn gyntaf, ceir y ddadl bod cyfnod ‘trefedigaethol’ Cymru yn ‘rhy bell’ oddi wrth gyfnod trefedigaethol Affrica ac Asia (mewn termau cronolegol), ac na welwyd yng Nghymru ffenomenau cymdeithasol a diwylliannol ôl-drefedigaethol addas i’w cymharu â gwledydd Affrica ac Asia yn y cyfnod modern. Yn ail, amlygir y ddadl bod pobl Cymru’r 19g yr un mor ymhlyg ym menter imperialaidd Prydain Fawr ag unrhyw grŵp daearyddol arall y deyrnas, ac nad dioddefwyr imperialaeth oeddent ond cyd-droseddwy. Yn drydydd, amlygir y ddadl bod Cymru yn sefyll wrth ochr (mewn termau daearyddol) ei ‘gorthrymydd’ trefedigaethol (Lloegr), heb na môr na nodwedd ddaearyddol sylweddol arall rhyngddynt, fel sydd yn achos Iwerddon, er enghraifft.

Ar y llaw arall, mae nifer o ysgolheigion wedi dadlau bod gan Gymru hanes trefedigaethol amlwg iawn, yn enwedig yn ystod y cyfnod rhwng y goncwest Edwardaidd a gwrthryfel Owain Glyndŵr (1282-1400), dadl a sefydlwyd yn gryf gan R. R. Davies yn ei erthygl enwog o 1974, ‘Colonial Wales’.<sup>193</sup> Yn wir, mewn cyfrol a chyfres deledu ddiweddar, *Wales: England’s Colony?*, mae’r hanesydd Martin Johnes wedi amlygu gweithgareddau a pholisïau trefedigaethol didostur gan goron Lloegr yng Nghymru hyd at y 16g, gan gasglu, sut bynnag, fod ffawd y genedl yn nwylo’r Cymry eu hunain wedi hynny:

As the injustices inflicted on medieval Wales drifted beyond living memories, and the nation itself was annexed out of legal existence, the Welsh not only reconciled themselves to their new position as members of a British state but revelled in it. They were no more coerced into Britishness than the medieval kingdom of Gwynedd gave up its independence voluntarily. Wales after the Tudors was simply not a colony of England.<sup>194</sup>

Mae’r hanesydd a gwyddonydd gwleidyddol cyfoes Richard Wyn Jones wedi dadlau yn ‘In the shadow of the first-born: the colonial legacy in Welsh politics’, sut bynnag, fod olion o’r cyfnod trefedigaethol hwnnw wedi treiddio i mewn i gymdeithas a gwleidyddiaeth Gymreig yr oes fodern.<sup>195</sup> Ac yn ei gyfrol ddiweddar, *Wales: The First and Final Colony*, mae Adam Price yn dadlau’n gryf fod Cymru gyfoes yn ‘wlad ôl-drefedigaethol sy’n dal i aros i gael ei

---

<sup>192</sup> Bohata, *Postcolonialism Revisited*, tt. 2-4.

<sup>193</sup> R. R. Davies, ‘Colonial Wales’, *Past and Present*, 65 (1974), 3-23. Noder bod A. J. Christopher wedi dadlau bod cynllun a chyfundrefn trefi apartheid De Affrica megis Soweto wedi’u seilio ar y system drefedigaethol Normanaidd yng Nghymru ac ar y trefi’r Fflint, Conwy a Chaernarfon yn benodol. Gellid dadlau, gan hynny, fod rhaid i wlad sy’n allforio nodweddion trefedigaethol fod yn drefedigaeth ei hun: A. J. Christopher, ‘From Flint to Soweto: reflections on the colonial origins of the apartheid city’, *Area*, Vol. 15, No. 2 (1983), 145-149.

<sup>194</sup> Martin Johnes, *Wales – England’s colony?* (Cardigan: Parthian, 2019), t. 174.

<sup>195</sup> Richard Wyn Jones, ‘In the shadow of the first-born: the colonial legacy in Welsh politics’, yn Jane Aaron a Chris Williams (goln), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), tt. 23-38.

dad-drefedigaethu', neu 'wladwriaeth hybrid sy'n byw yn y craciau rhwng gorffennol dibynnol a dyfodol annibynnol'.<sup>196</sup>

Sicr yw bod llawer o Gymry unigol (yn arbennig y rhai o'r dosbarth pendefigaidd) yn cyfrannu at, ac yn ymelwa o'r, Wladwriaeth Brydeinig o'r 17g hyd at yr 20g, ac mae'n wir na thyfai ymdeimlad poblogaidd yn erbyn yr Ymerodraeth Brydeinig tan yn gymharol hwyr yn y 19g.<sup>197</sup> Ond nid yw ymagweddau cadarnhaol rhai yng Nghymru tuag at Brydain a'i Hymerodraeth dramor yn negyddu, o reidrwydd, brofiad a theimlad o drefedigaethedd gartref, yn enwedig yn y maes diwylliannol. Mae Jane Aaron wedi dadlau yn ei herthygl 'Bardic anti-colonialism', er enghraifft, fod hanes llenyddiaeth Gymraeg yn amlygu traddodiad hir o wrthsefyll trefedigaethedd ddiwylliannol Lloegr. Cyfeiria Aaron at gywyddau Beirdd y Tywysogion, 'Dic Siôn Dafydd' Jac Glan-y-Gors, 'Y Storm' gan Islwyn, a barddoniaeth Gerallt Lloyd Owen: mae'n gweld cyfres o lenorion a oedd 'ym mlaen y gad wrth amddiffyn gwahaniaeth Cymreig', yn brwydro dros 'oroesiad diwylliannol', yn awyddus i 'ddefro cenedl'.<sup>198</sup>

Yn ychwanegol at hynny, mae Stephen Knight wedi dadansoddi nofelau Cymreig a ysgrifennwyd yn Saesneg ers y 19g ac wedi amlygu tri chyfnod a thri math o ymateb i sefyllfa drefedigaethol Cymru.<sup>199</sup> Mae'n gwahaniaethu, er enghraifft, rhwng meddylfryd 'brodorol' rhai awduron a meddylfryd 'wedi'i drefedigaethu' sy'n nodweddu awduron eraill. Mae'n gwahaniaethu hefyd rhwng awduron oedd yn cyfranogi o'u trefedigaethu eu hunain a'r rhai a oedd yn ei wrthwynebu. Yn olaf mae'n gwahaniaethu rhwng testunau sy'n pwysleisio nodweddion cyntefig, anwar, egsotig neu gamweithredol y gymdeithas Gymraeg; testunau sy'n portreadu pethau hybrid; a'r testunau sy'n ceisio portreadu byd y brodor 'fel y mae'. Mae Knight yn dod i dri chasgliad eglur iawn: yr oedd (ac y mae) Cymru mewn cyflwr seicolegol ôl-drefedigaethol; ysgrifennwyd nofelau o safbwynt trefedigaethol yng Nghymru, naill ai o safbwynt y trefedigaethwr, o safbwynt y brodor gwrthwynebus, neu o safbwynt y brodor ymostyngar; ac yn olaf, gellir yn hawdd defnyddio cysyniadau o theori ôl-

---

<sup>196</sup> 'Post-devolution, we're a post-colonial country still waiting to be decolonised. It is in these contradictions that describe our present predicament: we are a hybrid state living in the cracks between a dependent past and an independent future': Adam Price, *Wales: The First and Final Colony* (Talybont: Y Lolfa, 2018), t. 29.

<sup>197</sup> Gw. H. V. Bowen (gol.), *Wales and the British Overseas Empire: Interactions and Influences 1650–1830* (Manchester: Manchester University Press, 2012).

<sup>198</sup> 'Front-liners in the defence of Welsh difference'; 'cultural survival'; 'wake a nation': Jane Aaron, 'Bardic anti-colonialism', yn Jane Aaron a Chris Williams (goln), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), tt. 137-158.

<sup>199</sup> Y tri chyfnod yw: 'first-contact romance', 'writing the industrial settlement', a 'integration and independence': Knight, 'Welsh fiction in English', tt. 159-176.

drefedigaethol i ddadansoddi testunau Cymreig. Mater arall, wrth gwrs, yw a ellir defnyddio cysyniadau ôl-drefedigaethol i ddadansoddi disgwrs cenedlaethol newydd Cymru'r 1890au, ond hyderaf y byddaf yn dangos hynny yn y man.

Er bod rhai beirniaid a haneswyr yn benderfynol bod ymddygiad, ymagweddau a phatrymau ieithyddol ôl-drefedigaethol i'w canfod mewn hanes a llenyddiaeth Gymreig fodern, mater o farn (neu efallai o semanteg) yw a oedd Cymru mewn cyflwr 'ôl-drefedigaethol' yn y 19g. Llai dadlennol byth yw'r honiad, gan hynny, fod awduron ac ymwelwyr o Saeson yn defnyddio 'disgwrs imperialaeth ddiwylliannol Eingl-ganolog' (a benthg term Kirsti Bohata) wrth ymdrin â Chymru a'i phobl yn yr oes fodern.<sup>200</sup> Hynny yw, beth bynnag am feddwl, hunaniaeth neu gyflwr seicolegol y Cymry eu hunain, gellir dweud yn sicr fod iaith drefedigaethol neu iaith imperialaidd yn cael ei chymhwyso 'at' y Cymry gan y rheiny a lefarai o fewn diwylliant metropolitaidd Prydain Fawr.

Mae Kenneth O. Morgan wedi sylwi mai fel 'cilddwr llwythol anghysbell' yr ystyrir Cymru yn ystod y 19g gan gymdeithas wâr yn Lloegr, 'ar ei hôl hi yn economaidd' ac 'yn glynu yn ystyfnig i'w hiaith hynafol yn wyneb ymdaith deallusrwydd'.<sup>201</sup> Câl'r darlun hwn o wlad anwar, wyllt ac egsotig ei atgynhyrchu mewn llwyth o weithiau llenyddol Saesneg y cyfnod, megis darlithoedd Matthew Arnold, 'Lectures on Celtic Literature' (1865-66), a *Wild Wales* gan George Borrow o 1862, a pharhâl'r ddelwedd hon yn hir yn yr 20g mewn teithlyfrau megis *In Search of Wales* gan H. V. Morton (1933).<sup>202</sup> Yng nghanol holl jingoistiaeth ac ymorchestu'r wasg Brydeinig yn ystod ail hanner y 19g a dechrau'r 20g, câl Cymru ei phortreadu gan ddisgwrs imperialaidd Prydain fel tiriogaeth neu 'feddiant' arall yr ymerodraeth megis yr India, De Affrica a Chanada. Wele ddefnydd o'r gair 'dominion' gan Matthew Arnold yn 'Lectures on Celtic Literature', er enghraifft:

---

<sup>200</sup> 'The discourse of Anglocentric cultural imperialism': Bohata, *Postcolonialism Revisited*, t. 9.

<sup>201</sup> 'Wales continued to be widely regarded as a remote tribal backwater, economically backward, obstinately adhering to its antique language in the face of 'the march of intellect'. It was a picture that even a sympathetic observer like George Borrow, in his *Wild Wales*, first published in 1862, was substantially to confirm': Morgan, 'Welsh nationalism', 154.

<sup>202</sup> Cyhoeddwyd darlithoedd Matthew Arnold ar lenyddiaeth Geltaidd yn y cylchgrawn *Cornhill Magazine* yn 1866 ac ar ffurf llyfr yn 1867: gw. Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986) tt. 22-23. Gw. erthygl gan Jodie Matthews sy'n dadansoddi 'hunaniaeth' George Borrow yn *Wild Wales* o bersbectif cysyniadau ôl-drefedigaethol megis 'affiliation' a 'reproduction': 'Borrowing Welshness: *Wild Wales*, affiliation and identity', *North American Journal of Welsh Studies*, Vol. 6, 1 (Winter 2011), 53-61. Gw. H. V. Morton, *In Search of Wales*, Firth Edition (London: Methuen & Co. Ltd, 1933). Diddorol yw nodi y bu Morton yn ysgrifennu teithlyfr am Sbaen yn 1955 o'r enw *A Stranger in Spain* (London: Methuen & Co. Ltd, 1955).

It must always be the desire of a government to render its dominions, as far as possible, homogenous. Sooner or later the difference of language between Wales and England will probably be effaced, an event which is socially and politically desirable.<sup>203</sup>

Rhan o'r ymerodraeth oedd hithau yn sicr, gyda'i lle priodol a gogoneddus (yn ôl chwaeth yr awdur), ond rhywbeth 'arall' oedd hefyd, pell (yn ddaearyddol ac yn ddiwylliannol) oddi wrth ganol yr ymerodraeth yn Llundain a Lloegr. Prin y gellid dychmygu, felly, na fyddai'r disgwrs imperialaidd hwn yn effeithio, yn ei dro, ar ddisgwrs cenedlaethol newydd Cymru, tybed?

Wedi colli'r rhan fwyaf o'i hymerodraeth yn Ne America rhwng 1808 a 1825 bu profiad imperialaidd Sbaen yn y 19g yn wahanol iawn i Brydain Fawr, ac mae'n deg dweud na fu teimlad o 'Sbaendod' mor gadarn nac mor eglur â'r teimlad o Brydeindod imperialaidd ym Mhrydain yng nghyfnod ein hastudiaeth. Yn wir, mae José Álvarez Junco, wedi disgrifio'r broses broblemus o greu 'la idea de España' (y syniad o Sbaen), neu *mater dolorosa* (mam ofidus) y Sbaenwyr, yng nghynnyrch diwylliannol y 19g.<sup>204</sup> Dyma broses hir ac araf, meddai Álvarez, a wynebair rymoedd gwrthwynebus gwleidyddiaeth ranedig Sbaen; tensiynau mewnol; dirywiad economaidd; colli ymerodraeth a diffyg cyfeiriad, cytundeb ac arweinyddiaeth.<sup>205</sup> Er gwaethaf yr anawsterau, gwir yw bod disgwrs cenedlaethol-imperialaidd Sbaeneg yn bod ac yn tyfu yn ystod chwarter olaf y 19g. Cafwyd, er enghraifft, araith enwog Antonio Cánovas del Castillo, Prif Weinidog Sbaen, *Discurso sobre la nación* ('Araith ynglŷn â'r genedl') o 1882.<sup>206</sup> Ac erbyn y Rhyfel Sbaenaidd-Ciwba (1895-1898) a Rhyfel Sbaenaidd-Americanaidd (1898), roedd jingoistiaeth Sbaenaidd-imperialaidd yn hollgyffredin yng ngwasg a theatrau poblogaidd Madrid a dinasoedd mawr eraill y wlad. Dyma'r cyfnod y ganed y trosiad poblogaidd 'el león' ('y llew') am Sbaen ac 'el cerdo' ('y

---

<sup>203</sup> Matthew Arnold, 'Lectures on Celtic Literature', dyfynnir yn T. D. Breverton, *The Welsh Almanac* (Sain Tathan: Wales Books, 2002), t. 36.

<sup>204</sup> Gw. José Álvarez Junco, *Mater dolorosa: la idea de España en el siglo XIX* (Madrid: Taurus, 2001) am drafodaeth lawn. Gw. hefyd, erthygl gyfleus yn Saesneg gan Álvarez Junco sy'n crynhoi ei brif ddadleuon: José Álvarez Junco, 'The nation-building process in nineteenth-century Spain', yn Clare Mar-Molinero ac Angel Smith (goln), *Nationalism and the Nation in the Iberian Peninsula: Competing and Conflicting Identities* (Oxford/Washington DC: Berg, 1996), tt. 89-106.

<sup>205</sup> Yn ôl M. K. Flynn, mae hunaniaeth genedlaethol Sbaenaidd wedi cael ei hesgeuluso yn yr academi oherwydd diddordeb mewn hunaniaethau is-genedlaethol Iberaidd (hunaniaeth Fasgaidd, Gatalanaidd, Alisaidd, ayyb) ar ôl sefydlu Cyfansoddiad 1978, a thwf hunaniaeth Ewropeaidd wedi i Sbaen ymuno â'r Undeb Ewropeaidd. Gw. M. K. Flynn, 'Constructed identities and Iberia', *Ethnic and Racial Studies*, 24 (5) (2001), 703-718, yn enwedig 706-710.

<sup>206</sup> Antonio Cánovas del Castillo, *Discurso Sobre la Nación: Ateneo de Madrid, 6 de Noviembre de 1882* (Madrid: Biblioteca Nueva, 1997).

mochyn') am yr Unol Daleithiau er enghraifft.<sup>207</sup> Fel yn achos Prydain/Cymru, byddai'n annhebygol iawn pe na buasai disgwrs y canol imperialaidd hwn yn treiddio i mewn i'r wasg Fasnagaid ac yn effeithio ar y disgwrs cenedlaethol Basnagaid newydd.

## Tawddlestri disgwrsiol heb eu cynsail

Fel y gwelir uchod, nid oedd disgwrsiau cenedlaethol Cymreig a Basnagaid yn cylchredeg yn y wasg Gymraeg a Basnagaid ar eu pennau eu hunain ar ddiwedd y 19g. Roeddent yn rhannu'r sffêr gyhoeddus â nifer mawr o ddisgwrsiau, lleisiau a syniadau eraill, gan gynnwys disgwrsiau'r canol imperialaidd.<sup>208</sup> At hynny, roedd newyddiaduron Cymreig megis *Y Faner*, *Y Goleuad* a *Seren Cymru* yn genedlaethol eu cyrraedd ac roeddent yn adlewyrchu storïau, naratifau a lleisiau pob cwr a phob adran gymdeithasol Cymru. Yn wir, buont yn adlewyrchu hunaniaeth dorfol, gynhwysol Gymreig, neu yng ngeiriau Aled Jones, 'a Welsh mind', am y tro cyntaf erioed.<sup>209</sup> I raddau helaeth felly, tawddlestr disgwrsiol heb ei gynsail oedd gwasg Gymreig ail hanner y 19g.

Ymdeimlad o esgeulustod tuag at Gymru o ran y wasg yn Llundain a greodd y wasg Gymraeg a Chymreig yn y 19g, meddai Jones, neu'r awydd i ddweud rhywbeth am Gymru ac am y cyflwr o fod yn Gymreig. Yn hynny o beth, roedd ar Gymry'r cyfnod yr awydd i gyfathrebu 'mynegiadau o wahaniaeth' hefyd, a hyd yn oed 'ddiffinio' moderniaeth y Gymru newydd yn y wasg:<sup>210</sup>

It is feasible to argue that [...] the popular press that was produced in Wales during the nineteenth century reflected the anxieties of a self-consciously marginalised people [...] Newspapers were started in Wales after 1804 often with the explicit intention of saying something in the public arena about Wales, about what was going on in Wales, and about what it meant to be Welsh.<sup>211</sup>

Dyma fforwm disgwrsiol hollol newydd felly, a dyma ffenomen lenyddol ryngdestunol gymhleth iawn gyda gohebwyrs ac awduron yn ysgrifennu erthyglau ar bob math o bynciau, yn darllen gwaith awduron eraill, yn addasu'u dadleuon yn ôl yr angen, ac yn ailymuno â'r

<sup>207</sup> Gw. Sebastian Balfour, 'The lion and the pig: nationalism and national identity in fin-de-siècle Spain', yn Clare Mar-Molinero ac Angel Smith (goln), *Nationalism and the Nation in the Iberian Peninsula: Competing and Conflicting Identities* (Oxford/Washington DC: Berg, 1996), tt. 107-117.

<sup>208</sup> Cymharer 'Sffêr gyhoeddus' (*Public Sphere*) Jürgen Habermas. Gw. Barry, *Beginning Theory*, tt. 85-87.

<sup>209</sup> Jones, 'The Welsh newspaper press', t. 17.

<sup>210</sup> 'Expressions of difference'; 'Wales defined its modernity in its media': Jones, 'The Welsh newspaper press', tt. 22-23.

<sup>211</sup> Jones, 'The Welsh newspaper press', t. 22.

ddadl â gwrthatebion gwahanol. Yn wir, dyma gyfnod o fetanewyddiaduriaeth ffyrnig hefyd, pan ddaeth y Cymry yn ymwybodol am y tro cyntaf eu bod yn berchen ar eu llenyddiaeth newyddiadurol eu hunain, a dechrau ei thrafod a'i dadansoddi yn y wasg.<sup>212</sup>

Yn yr un ffordd, gwelid 'sbectrwm o agweddau tuag at Gymreictod fel hunaniaeth' yn nhudalennau newyddiaduron a chylchgronau'r cyfnod, meddai Jones, a hynny o ganlyniad i'r ffaith bod lluosogrwydd o ddisgyrsiau cryfion yn cylchredeg ochr yn ochr â'i gilydd yn yr un gofod cyhoeddus.<sup>213</sup> Dyma ddisgyrsiau rhyddfrydol-radicalaidd, disgyrsiau cenedlaethol-imperialaidd Prydeinig, disgyrsiau cenedlaetholgar Cymreig, neu'r disgyrsiau sosialaidd newydd a ddechreuai ymddangos ym mhapurau newydd y meysydd glo a'r ardaloedd chwarelyddol. Symudai'r disgwrs olaf hwn i ganol y llwyfan gwleidyddol yng Nghymru ar ôl 1900, meddai Peter Stead, yn enwedig wrth i Ryddfrydwyr Lib-Lab a sosialwyr yr ILP ymladd yn ffyrnig dros ystyr a pherchnogaeth geiriau megis 'Labour' a 'Progressive', ac wrth i newyddiaduron rhyddfrydol geisio arallu, a chan hynny danseilio, arweinwyr yr undebau llafur trwy ddefnyddio ansoddeiriau megis 'eithafol' neu 'advanced'.<sup>214</sup> Yn yr un ffordd, byddai gweinidogion anghydfurfiol yn troi at ddadleuon a delweddaeth grefyddol a moesol i danseilio 'anffyddwyr' o sosialwyr o flaen eu cynulleidfaoedd, tra oedd y gweithwyr eu hunain yn taflu eu disgwrs brodorol ffyrnig, neu 'an altogether more picturesque underworld vocabulary' yn erbyn 'non-unionists' y pyllau glo, neu gydweithwyr nad oedd yn perthyn i undeb.<sup>215</sup> Byddai'r gwrthdaro hwn yn cyrraedd ei anterth rhwng 1906 a 1914, cyn i'r disgwrs sosialaidd droi yn hegemoniaidd yng Nghymru yn y 1920au, ond sicr yw y clywir y taniadau agoriadol yn erthyglau'r wasg Gymreig yn y 1890au.

Yn ddiddorol iawn, mae gennym dystiolaeth bod rhai o'n hawduron yn ymwybodol o'r gystadleuaeth ddisgyrsiol hon, neu'r 'ddadl' rethregol, yn eu geiriau hwy, a oedd yn cylchredeg o'u cwmpas. Mae'n ddiddorol, er enghraifft, sut mae 'Proff. T. Rhys' yn beirniadu cyfresymiad (*sylogism*) Syr Harry Reichel (Pennaeth Coleg Prifysgol Gogledd

---

<sup>212</sup> John Davies, 'Llenyddiaeth Newyddiadurol Cymru', *Y Traethodydd* (Llyfr XXXIX, 1884 (Ebrill), tt. 172-192; T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad* (1893) (gw. uchod am fanylion); David Davies, 'The journalism of Wales during the Victorian era', *Young Wales*, Vol. III/No. 31-32, Awst 1897, tt. 184-188. Gw. Jones, 'The Welsh newspaper press', tt. 21 a 23.

<sup>213</sup> 'Spectrum of attitudes towards Welshness as an identity': Jones, 'The Welsh newspaper press', t. 22.

<sup>214</sup> Mae Peter Stead yn dadansoddi'r iaith a ddefnyddiwyd yn y wasg yn ne Cymru rhwng 1906 a 1910, a'r gwrthdaro gwleidyddol-ieithyddol rhwng Ryddfrydwyr Lib-Lab a sosialwyr yr ILP yn benodol, yn 'The language of Edwardian politics', yn David Smith (gol.), *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales 1780-1908* (London: Pluto Press, 1980), tt. 148-165.

<sup>215</sup> Stead, 'The language of Edwardian politics', t. 157.

Cymru ym Mangor) am fethu dysgu hanes Cymru ym Mhrifysgol Bangor, a hynny mewn erthygl o 1895 o'r enw 'Ein Colegau Anghenedlaethol':

Rheswm Mr Reichel, prifathraw Coleg Bangor, [dros fethu dysgu hanes Cymru ym Mhrifysgol Bangor] oedd, nad oedd yr un llyfr o awdurdod ar y pwnc. Ond ai nid drwy benderfynu arholi yn Hanes Cymru y byddem debycaf o gael llyfr allan o awdurdod ar y testyn? Clywais fod rhai o athrawon y colegau cenedlaethol yn ormod o ddynion i gymeryd *text books* mewn rhai pynciau gan ystyried, feallai, fod eu gwybodaeth hwy o'r pwnc yn mhell uwchlaw dim a geid mewn unrhyw lyfr. Ai ni ellid gwneud yn gyffelyb a Hanes Cymru tybed? Neu, ai taflu llwch i'n llygaid oedd amcan dadl o'r fath a ddefnyddiwyd?<sup>216</sup>

Dyma awdur sy'n ymwybodol bod rhai yng Nghymru yn ceisio atgynhyrchu dadl awdurdodedig dros bolisi 'anghenedlaethol', ac sy'n awyddus i ddatguddio cymhellion cudd y dadl ('taflu llwch i'n llygaid') a chynnig dadl awdurdodedig i'r gwrthwyneb. Dyma awdur sy'n ymwybodol, felly, fod rhaid i'w ddisgwrs dethol ef (disgwrs 'cenedlaethol' Cymreig) frwydro yn erbyn disgwrs arall (disgwrs 'anghenedlaethol' y Cymry 'anghymreig').

I raddau helaeth, gwelir yr un math o gystadleuaeth ddisgyrsiol yn y wasg Fasgaid o'r un cyfnod. Gwelir disgwrs canoli rhyddfrydol Sbaenaidd yn cystadlu â disgwrs datganoli'r *fuertistas* a disgwrs cenedlaetholgar yr EAJ-PNV. Gwelir disgyrsiau gweriniaethol yn cystadlu yn erbyn disgyrsiau breniniaethol, a hynny mewn dau newyddiadur sy'n cael eu cyhoeddi yn yr un dref, sef *El Cántabro* ac *Euskal-Egia* o Tolosa (Gipuzkoa).<sup>217</sup> Gwelir disgyrsiau ceidwadol oedd yn amddiffyn hen strwythurau cymdeithas megis breintiau'r bendefigaeth yn cystadlu gyda disgyrsiau rhyddfrydol oedd yn awyddus i dorri strwythurau ac arferion yr *Ancien Régime*.<sup>218</sup> Gwelir disgyrsiau seciwlar yn cystadlu gyda disgyrsiau Cristnogol Catholigiaeth draddodiadol,<sup>219</sup> a gwelir sawl math o ddisgyrsiau Catholig, megis y disgwrs tra-Chatholig a welir yn *El Fuerista* (Donostia) a *La Cantabria* (Bilbo) a disgwrs Catholigiaeth gymedrol *El Cántabro* (newyddiadur *Carlista* Tolosa) yn cystadlu â'i gilydd.<sup>220</sup> Tawddlestri disgyrsiol newydd a gynigiai'r wasg Fasgaid hefyd yn y 1890au, a byddai'r frwydr ieithyddol a syniadaethol hon yn effeithio yn drwm ar ddisgyrsiau cenedlaethol newydd Gwlad y Basg

<sup>216</sup> T. Rhys, 'Ein Colegau Anghenedlaethol', *Y Celt*, 22 Mawrth 1895, t. 3.

<sup>217</sup> Gw., er enghraifft, y sawl cyfeiriadau yn [dienw], 'Espíritus fuertes', *El Cántabro*, 3 Ionawr 1895, t. 1, at y gwrthdrawiad ffyrnig rhwng y newyddiadur *tradicionalista* hwn a'r newyddiadur gweriniaethol *Euskal-Egia*.

<sup>218</sup> Mae *El Fuerista*, er enghraifft, yn amddiffyn y system o entael yn Sbaen: [dienw], 'Pequeñeces...', *El Fuerista*, 3 Ionawr 1895, tt. 1-2.

<sup>219</sup> Gw. yr erthygl gan 'F. B.' yn *El Fuerista* o 3 Ionawr 1895, t. 1, '¿Dónde está el mal de la sociedad?', yn beirniadu anffyddiaeth a seciwlariaeth cymdeithas gyfoes yn llym.

<sup>220</sup> Gw. [dienw], 'Casos sospechosos', *La Cantabria*, 22 Mai 1896, t. 1.



Dadl yr astudiaeth hon, felly, yw bod yr iaith a welir yn y wasg Gymreig yn y 1890au am drafod y genedl Gymreig wedi cael ei dylanwadu gan gymysgedd eang o ddisgyrsiau ffynonellol eraill. Yn gyntaf, gwelwn elfennau o ddisgwrs ‘gwladgarol’ traddodiadol Cymreig, disgwrs a ddisgynasai o amseroedd cynharaf y Brythoniaid trwy lenyddiaeth Gymraeg a diwylliant poblogaidd y Cymry. Wedyn gwelwn elfennau o ddisgwrs cenedlaetholdeb Ewropeaidd y 19g, wedi’u trosglwyddo i’r cyd-destun Cymreig dan ddylanwad digwyddiadau a chymeriadau yn yr hen Ymerodraeth Awstro-Hwngaraidd a’r Ymerodraeth Lân Rufeinig, ac yn enwedig yn Iwerddon. Yn drydydd, gwelwn effaith cyflwr seicolegol ôl-drefedigaethol y Cymry, neu brofiad pobl a oedd wedi byw mewn safle o israddoldeb mewn perthynas â Lloegr, ar sut yr oedd y bobl hyn yn dehongli’r cysyniad o genedl. Yn bedwerydd, gwelwn adlewyrchu neu ailadrodd disgwrs trefedigaethol Prydain Fawr yn treiddio i mewn i’r disgwrs cenedlaethol Cymreig. Yn olaf, gwelwn agweddau o ddisgyrsiau pwysig eraill y cyfnod megis disgyrsiau diwinyddol neu ddisgyrsiau Sosialaidd yn dylanwadu ar y ffordd y mae’r genedl yn cael ei disgrifio neu ei diffinio. Dadleuir, felly, nad ‘disgwrs cenedlaethol’ traddodiadol (yn dilyn patrwm disgwrs cenedlaethol Prydain neu ryw genedl ‘newydd’ canol Ewrop er enghraifft) yn unig a welir yn y wasg Gymreig yn y 1890au, ond disgwrs unigryw, wedi’i ffurfio yn ôl amgylchiadau a phrofiadau neilltuol y wlad hon, yn enwedig ei phrofiad o israddoldeb diwylliannol.

Ni ddadleir bod yr iaith a welir yn y wasg Fasgaidd yn y 1890au am drafod y genedl Fasgaidd yn union yr un fath â’r hyn a welir yng Nghymru sut bynnag. Gwelir gwahaniaethau mawr a phwysig rhyngddynt o ran sylwedd a phwyslais. Yn wir, ac fel y dywedwyd uchod, ansicr yw i ba raddau y gellid cymhwyso’r term ‘trefedigaethol’ at y berthynas rhwng y taleithiau Basgaidd a gwladwriaeth Sbaen yn hanesyddol, neu ddefnyddio’r term ‘ôl-drefedigaethol’ am gyflwr seicolegol y Basgiaid yn y 19g. Ond yr hyn a honnir yn sicr yma yw bod prif gydrannau ffynonellol y ddau ddisgwrs cenedlaethol yn debyg iawn, sef traddodiad gwladgarol, cenedlaetholdeb Ewropeaidd, perthynas â phartner mwy, crefydd, a disgyrsiau gwleidyddiaeth dosbarth. Yn ychwanegol at hynny, gellid dadlau bod natur y berthynas rhwng Sbaen a Gwlad y Basg (boed hynny yn ‘drefedigaethol’ neu beidio), a’r cwestiynau dilynol o israddoldeb ac uwchraddoldeb, wrth wraidd y disgwrs i gyd, fel y mae yn y disgwrs Cymreig. Ymdrin â (ac i ryw raddau, dygymod â) statws cymdeithasol cymharol isel y Cymry a’r Basgiaid yn yr oes fodern yw prif fater y ddau ddisgwrs yn y pen draw. Er gwaethaf y gwahaniaethau amlwg felly, a chan gydnabod annigonolrwydd y gorchwyl o

gategoreiddio yn gaeth, dadleuir bod ‘disgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol’ yn enw teilwng i’r ddau ddisgwrs, a chan hynny, yn gategori sylfaenol i’r gymhariaeth hon.

## Tiroedd peryglus yr archaeolegydd cymharol

‘Iaith’ sydd wrth wraidd theori ôl-drefedigaethol, a mwy nag un iaith sy’n llenwi tudalennau’r astudiaeth hon. Wrth dalu sylw i gyngor doeth Stefan Berger fod ‘iaith yn dir peryglus i’r hanesydd cymharol’, buddiol fyddai ystyried y goblygiadau damcaniaethol, dadansoddol ac ymarferol i’n hastudiaeth wrth groesi ffiniau ieithyddol.<sup>221</sup> Yn yr un modd, buddiol fyddai arolygu ambell ddarn arall o dir peryglus ym methodoleg y prosiect cyn mynd ymlaen i drafod dull synchronig yr astudiaeth a fframwaith esboniadol y penodau sydd i ddod. Pwysig nodi ymlaen llaw, sut bynnag, na fwriadwn ddofi’r tiroedd peryglus hyn ond, yn hytrach, ganfod ein ffordd trwyddynt wrth fwrw sylw ar y maglau a’n hwyneba ar y ffordd.

Yn gyntaf, dylid egluro mai tair iaith sydd wrth wraidd yr astudiaeth hon: Cymraeg, Saesneg a Sbaeneg. Dywedwyd uchod i’r wasg Gymreig ddatblygu’n sylweddol yn ystod ail hanner y 19g, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynyrchesid llwyth o newyddiaduron a chylchgronau yn y ddwy iaith erbyn y 1890au ac roedd awduron, meddylwyr a gwleidyddion Gymreig yn rhydd i draethu eu syniadau ar y genedl yn Gymraeg ac yn Saesneg fel ei gilydd. Disgwrs dwyieithog oedd disgwrs cenedlaethol y 1890au yng Nghymru felly, ac mae llwyth o dystiolaeth destunol wedi goroesi yn y ddwy iaith.

Nid felly oedd y sefyllfa yng Ngwlad y Basg. Dim ond megis dechrau datblygu oedd y wasg Fasgeg yn y 1890au, ac ambell erthygl yn ymddangos yn wythnosol yn y cylchgrawn cenedlaetholgar, *Bizkaitarra*, rhai eraill yn y newyddiadur wythnosol, *Euskalduna*, ac ambell un arall yn y cylchgrawn diwylliannol misol *Euskal-Erria*.<sup>222</sup> Câi’r mwyafrif helaeth o’r erthyglau a ymdriniai â materion cyfoes, gwleidyddiaeth a diwylliant Gwlad y Basg yn y 1890au eu cyhoeddi mewn cylchgronau uniaith Sbaeneg. I raddau helaeth felly, disgwrs Sbaeneg oedd disgwrs cenedlaethol Gwlad y Basg yn y 1890au cyn i nifer y cylchgronau Basgeg dyfu yn sylweddol tua dechrau’r 20g. Disgwrs Sbaeneg ei hiaith fydd gwrthrych ein

---

<sup>221</sup> ‘Language is a veritable minefield for the comparative historian, as different words/concepts often mean different things in different languages’: Berger, ‘And what should they know of Wales?’, 138.

<sup>222</sup> *Euskalduna*, a sefydlwyd ym mis Medi 1896, oedd un o’r cyfnodolion cyntaf ym Miscaia i gynnwys testunau Basgeg, a hynny o ryw 15% mwy na chyfnodolion Sabino Arana. Gw. Díaz Noce, *Historia del periodismo vasco*, t. 111.

cymhariaeth â'r disgwrs Cymraeg a Saesneg felly, sef clytwaith ieithyddol braidd yn gymhleth sy'n cyflwyno nifer o heriau technegol y dylwn eu hystyried yn ofalus ymlaen llaw.

Yn gyntaf, dylid cofio nad yw 'ystyr' geiriau yn hollol sefydlog yn yr un o'r ieithoedd dan sylw, heb sôn am ystyr geiriau cyfatebol ar draws tair iaith. Buom yn sôn uchod am yr anghytundeb a welir ymysg damcaniaethwyr pan geisiant ddiffinio'r gair 'cenedl', ac mae'n debyg bod y broblem yn croesi ffiniau ieithyddol a ffiniau cronolegol. Mae Coro Rubio Pobes, er enghraifft, wedi dadansoddi'r defnydd a'r dehongliad o'r gair 'autonomía' (hunanlywodraeth) yng ngwaith awduron a gwleidyddion sawl plaid yng Ngwlad y Basg yn ystod ail hanner y 19g. Mae hi'n dangos bod ystyr y gair yn amrywio yn sylweddol o unigolyn i unigolyn ac yn cwmpasu syniadau o 'hunanlywodraeth weinyddol' o fewn teyrnas sofran Sbaen, i syniadau o 'sofraniaeth' y rhanbarthau hanesyddol y tu mewn i 'deulu' Iberaidd.<sup>223</sup> Yn ychwanegol at hynny, roedd rhai o awduron ein cyfnod yn ymwybodol o anghysondeb eu hiaith a'u geiriau eu hunain, mae'n debyg. Nododd Telesforo de Aranzadi, er enghraifft, mewn erthygl o 1896, sut oedd geiriau cyffredin megis 'euskaros', 'euskariens' ac 'escuariens' yn cael eu 'camddefnyddio' (meddai ef) yn Sbaen ac yn Ffrainc wrth ddisgrifio pobl o 'hil' y Basgiaid, yn lle disgrifio pobl oedd yn siarad Euskara (Basgeg).<sup>224</sup>

Yn hynny o beth, gallai ystyr gair newid dros gyfnod hefyd, ac mae Oscar Álvarez Gila a José María Tápip Fernández wedi dangos sut y newidiodd ystyr yr ansoddeiriau 'vascongado' a 'vasco' o ddiwedd y 19g hyd at ganol yr 20g.<sup>225</sup> Ansoddeiriau daeryddol yn bennaf oedd y ddau air hyn yn y 1880au, gyda 'vascongado' yn disgrifio Basgiad o'r taleithiau Araba (Álava), Biscaia a Gipuzkoa yn unig, a 'vasco' yn disgrifio Basgiad o unrhyw ranbarth o Euskal Erria. Wrth i'r blynyddoedd (a datblygiadau gwleidyddol) fynd ymlaen, sut bynnag, dechreuodd y ddau air fagu ystyr o 'werth cenedlaethol', gyda 'vasco' yn cyfeirio at Fasgiad dilys, cywir, ymroddedig i'r achos cenedlaethol, a 'vascongado' yn cyfeirio at 'fradwr' neu rywun oedd yn cefnogi gwleidyddiaeth *españolista* (Sbaenaidd).<sup>226</sup> Yn ei waith diweddar, *Voces vascas: diccionario de uso*, mae Manuel Montero wedi disgrifio'n huawdl y traddodiad o ystyron hylifol a newidiol yn lecsicon Gwlad y Basg:

---

<sup>223</sup> Coro Rubio Pobes, 'El concepto y la idea de autonomía en el siglo XIX (Cataluña y País Vasco): una aproximación', *Spagna Contemporanea*, 17 (2000), 7-27.

<sup>224</sup> Telesforo de Aranzadi, 'Consideraciones acerca de la raza vasca', *Euskal-Erria*, Tomo XXXV, Rhagfyr 1896, t. 33.

<sup>225</sup> Oscar Álvarez Gila a José María Tápip Fernández, 'Prensa nacionalista vasca y emigración a America (1900-1936)', *Anuario de Estudios Americanos*, Tomo LIII, 1 (1996), 233-259.

<sup>226</sup> Gila a Tápip Fernández, 'Prensa nacionalista', 239.

Yng Ngwlad y Basg, mae'r geiriau yn llawn arlliwiau ac arwyddocâd sydd weithiau yn bwysicach na'u hystyr uniongyrchol. Mae'r geiriau yn mynegi syniadau, ond hefyd agweddu, safbwyntiau athrawiaethol, a safiadau dynamig. Yn aml, mae'r rhai olaf yn cyfrif yn fwy na'r cyntaf.<sup>227</sup>

Wrth nodi, dadansoddi a dyfynnu geiriau Cymraeg, Saesneg a Sbaeneg yn yr astudiaeth hon, ni allwn gymryd yn ganiataol, felly, fod 'ystyr' neu ddealltwriaeth o'r geiriau yn hollol gyson o awdur i awdur, o le i le, nac o gyfnod i gyfnod.

Ar ben hynny, mae pethau yn cymhlethu rhywfaint wrth gymharu geiriau o ddwy iaith wahanol, hyd yn oed mewn parau o eiriau a ystyrir fel arfer yn drosiadau uniongyrchol. Yn wir, hysbys yw bod y ddisgyblaeth o gyfieithu ynddi ei hun yn un broblemus dros ben i'r graddau y bu maes academiaidd newydd, Astudiaethau Cyfieithu, yn ymddangos yn y 1970au a 1980au i ystyried 'the complex of problems clustered round the phenomenon of translating and translations', meddai arloeswr y maes, James S. Holmes.<sup>228</sup> Cawn ym maes yr astudiaeth hon, er enghraifft, yr achos a godwyd gan Simon Brooks ynglŷn ag ystyr y geiriau 'hil' yn Gymraeg a 'race' yn Saesneg, dau air sy'n ymddangos, ar yr olwg gyntaf, yn hollol gyfystyr.<sup>229</sup> Wedi dadansoddi'n fanwl sut y defnyddir y ddau air a'r cyd-destun cyfeiriadol y maent yn tueddi i ymddangos ynddo, mae Brooks yn casglu bod 'hil' yn nes at 'genedl' yn y Gymraeg a 'race' yn nes at 'blood-relationship', neu 'consanguinity', yn Saesneg. Nid yw'r 'hil' Cymraeg a'r 'race' Saesneg yn llwyr gyfystyr yn y pen draw felly, ac mae'n fwy annhebygol fyth y byddai 'raza' Sbaeneg yn llwyr gyfystyr â'r naill ohonynt. Wrth ddewis, dyfynnu, cyflwyno a chymharu miloedd o eiriau yn yr astudiaeth hon, ni honnir fod ystyr unigol, cyffredin neu sefydlog yn bodoli rhwng cyfieithiadau, ac ni honnir eu bod yn golygu'r un peth yn union. Arddangos defnydd a dethol geiriau yng nghyd-destun y ddau ddisgwrs yw amcan y prosiect hwn gan gymharu a chyferbynnu eu hystyron cyd-destunol a pherthynol.

Rhaid cyfaddef, sut bynnag, na fyddai pob hanesydd yng Ngwlad y Basg, na hanesyddiaeth Fasgaid yn gyffredinol, yn derbyn pob elfen o'r dehongliad perthynolaidd uchod. Mae gan hanesyddiaeth cenedlaetholdeb Gwlad y Basg duedd i ddiffinio geiriau yn

---

<sup>227</sup> 'En el País Vasco las palabras están cargadas de matices, de connotaciones a veces más importantes que su significado inmediato. Las palabras expresan ideas, pero también actitudes, posiciones doctrinales, posturas vitales. En muchas ocasiones éstas cuentan más que aquellas': Manuel Montero, *Voces vascas: diccionario de uso* (Madrid: Tecnos, 2014), t. 13. Dyma fath o eiriadur sy'n rhoi diffiniadau i 365 o eiriau, termau ac ymadroddion sy'n gysylltiedig â gwleidyddiaeth a sefyllfa Gwlad y Basg cyfoes.

<sup>228</sup> Ystyrir mai'r papur, 'The name and nature of translation studies', gan James S. Holmes, a ddiffiniodd y maes newydd Astudiaethau Cyfieithu yn 1972. Gw. James S. Holmes, 'The name and nature of translation studies', yn Lawrence Venuti (gol.), *The Translation Studies Reader*, 2nd edition (New York/London: Routledge, 2004), tt. 180–92, t. 181.

<sup>229</sup> Brooks, 'Yr Hil', t. 14.

gadarn a chategoreiddio gwleidyddion ac ysgrifenyddion y cyfnod yn eithaf caeth. Y mae'r ansoddair a'r enw 'nacionalista' (cenedlaetholgar/cenedlaetholwr) yn cael eu defnyddio am ddilynwyr syniadau Sabino Arana a'r EAJ-PNV yn unig, er enghraifft, neu am yr unigolion a oedd yn dymuno creu gwladwriaeth Fasnogaidd hollol annibynnol. Ni dderbynnir y gallasai gwladgarwr cyffredinol neu genedlaetholwr diwylliannol berthyn i'r categori hwn, ac nid adnabyddir categorïau trawsnewidiol megis 'pre-nacionalista' (cyn-genedlaetholwr) a 'proto-nacionalista' (cenedlaetholwr cyntaf) chwaith.<sup>230</sup> 'Sefydlwyd' cenedlaetholdeb Basnogaidd (ac felly'r categori 'nacionalista') yn 1895 yn ôl llawer o haneswyr Basnogaidd, a hynny gan ddyn penodol ac o dan ddylanwad ideoleg benodol, fel y mae'r datganiad isod gan José Luis de la Granja Sainz, prif hanesydd cenedlaetholdeb Basnogaidd yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, yn ei ddangos:

Yn Bilbo degawd olaf y 19g sefydlodd Sabino Arana y mudiad cenedlaetholgar Basnogaidd gan roi iddo ideoleg benodol, ei brif symbolau, sawl cyfrwng cyfathrebu a'i drefn gyntaf yn Bilbo a nifer o bentrefi Biscaia.<sup>231</sup>

'Foralista' neu 'fuerrista' yw'r geiriau a ddefnyddir i ddisgrifio pobl a oedd yn gefnogol i hunanlywodraeth Fasnogaidd a chyfundrefn y *fueros* o fewn y wladwriaeth Sbaenaidd, ac i nifer mawr o haneswyr Basnogaidd, mae gwahaniaeth elfennol (a chaeth) rhwng ystyr '*nacionalista*' ac ystyr '*fuerista*'. Gweler geiriau de la Granja Sainz unwaith eto:

Gwahaniaeth nodedig â chenedlaetholdeb Basnogaidd diweddarach yw nad oedd *fueristas* yn cwestiynu eu bod yn perthyn i'r genedl Sbaenaidd, nac yn honni gwladwriaeth annibynnol. Nid oedd y *fueristas* mwyaf cyndyn yn dymuno torri â Sbaen, ond diddymu cyfraith 21 Gorffennaf 1876 ac adfer cytundeb y *fueros*.<sup>232</sup>

O ganlyniad, mae'n hollol resymegol (ac angenrheidiol) iddynt gategoreiddio pobl, gweithiau llenyddol, erthyglau a datganiadau penodol yn un categori neu'r llall. Disgwrs '*nacionalista*' a disgwrs '*fuerista*', sef dau ddisgwrs gwahanol, a geir yn y pen draw felly yng nghyfrolau hanesyddiaeth draddodiadol Gwlad y Basg.

---

<sup>230</sup> Gw. trafodaeth José Luis de la Granja Sainz ar ragflaenyddion cenedlaetholdeb Basnogaidd amlwg megis Manuel de Larramendi, Dominique-Joseph Garat, a Joseph-Agustin Chaho yn *El nacionalismo vasco (1876-1975)* (Madrid: Arco Libros, 2000), tt. 12-14.

<sup>231</sup> 'En Bilbao del último decenio del siglo XIX, Sabino Arana fundó el movimiento nacionalista vasco al dotarlo de una ideología definida, de sus principales símbolos, de varios medios de comunicación y de una primera organización en Bilbao y algunos pueblos de Vizcaya': Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 16.

<sup>232</sup> 'Una diferencia notoria con el nacionalismo vasco posterior era que el fuerismo no cuestionaba su pertenencia a la nación española, ni reivindicaba un Estado independiente. Los fueristas más intransigentes no querían la ruptura con España, sino la derogación de la ley de 21 de julio de 1876 y el restablecimiento del pacto foral': Granja Sainz, *El Nacionalismo Vasco (1876-1975)*, t. 18.

Gellir dadlau, sut bynnag, na welir yr un fath o gysactrwydd semantig yn y traddodiad Prydeinig gan fod yr ansoddeiriau ‘nationalist’ a ‘chedlaetholgar’ yn cael eu defnyddio yn aml ar gyfer gwleidyddion a meddylwyr mor amrywiol â Daniel O’Connell (*repealist*), Charles Stewart Parnell (*home-ruler*) a Michael Davitt (gweriniaethwr) yng nghyd-destun Iwerddon, ac ar gyfer Michael D. Jones, R. J. Derfel, Emrys ap Iwan a Thomas E. Ellis yn y cyd-destun Cymreig. Yn wir, bu David Lloyd George ei hun, dyn a ddaeth yn Brif Weinidog brenin Lloegr a phennaeth ymarferol yr Ymerodraeth Brydeinig yn 1916, yn fodlon ei alw ei hun yn ‘genedlaetholwr’ Cymreig yn 1895: ‘yr wyf yn Genedlaetholwr am fy mod yn Rhyddfrydwr, ac yn Rhyddfrydwr am fy mod yn Genedlaetholwr’.<sup>233</sup> Gall *home-ruler* yn hawdd fod yn *nationalist* yn nhraddodiad hanesyddiaeth Prydain, ond nid felly *fuerrista* yn hanesyddiaeth Gwlad y Basg.

Mae’n rhaid inni ofyn, wrth gwrs, i ba raddau y mae’r sefyllfa wleidyddol ranedig a threisgar a welid yng Ngwlad y Basg yn ystod y 40 mlynedd diwethaf wedi atal hanesyddiaeth cenedlaetholdeb Basgaidd rhag dilyn cwrs naturiol ac agored, ac mae’n rhaid inni ofyn a yw’r disgwrs academiaidd cyfoes wedi cael ei bolareiddio a’i galedu yn annaturiol gan haneswyr ymroddedig i un ochr neu’r llall. Gwir yw, sut bynnag, fod hanesyddiaeth boblogaidd gyfoes yng Ngwlad y Basg yn parhau i ddilyn yr un patrwm, gan ynysu, gwahaniaethu, trefnu a chategoreiddio’r carfannau yn gaeth. Roedd cenedlaetholwyr a hunanlywodraethwyr yn wahanol: roedd ganddynt ddisgyrsiau ar wahân, ac roedd un garfan yn dda ac un yn ddrwg.<sup>234</sup> Wrth barchu rhesymeg a gweledigaeth ddeallusol wahanol ein cydweithwyr Basgaidd yn y maes, amcan pwysig yr astudiaeth bresennol yw rhoi’r dystiolaeth destunol ar brawf a gofyn a ellir yn wir sôn am ddau gategori hollol wahanol a dau ddisgwrs anghysylltiedig. Yn wir, wrth ddewis strwythur ‘haenog’ i gyflwyno’n paradeim disgyrsiol, ac amlygu camau ‘adeiladol’ yn rhesymeg y ddadl genedlaetholgar, gobeithir dangos bod y disgwrs *nacionalista* a’r disgwrs *fuerrista* yn rhannu nifer helaeth o elfennau sylfaenol, os nad pob casgliad neu flaenoriaeth ar ddiwedd y broses o resymu.

Dwyieithog oedd y mwyafrif o’r awduron a ysgrifennodd ysgrifau ac erthyglau yn y wasg Gymreig yn y 1890au, wedi’u magu ar yr aelwyd Gymraeg ond wedi’u haddysgu yn ffurfiol trwy Saesneg, naill ai mewn ysgolion ‘Cenedlaethol’ neu mewn colegau diwinyddol anghydfurfiol. Roeddent yn byw eu bywydau beunyddiol yn ddwyieithog, roeddent yn

---

<sup>233</sup> David Lloyd George, Maniffesto Etholiad Cyffredinol 1895. Dyfynnir yn Dafydd Glyn Jones, *Hen Lyfr Bach: Lloyd George* (Bangor: Dalen Newydd, 2015), tt. 17-18.

<sup>234</sup> Gw. Santiago González, *Palabra de Vasco: la Parla Imprecisa del Soberanismo* (Madrid: Espasa Calpe, 2004), a Jon Jauristi, *El linaje de Aitor: la invención de la tradición vasca* (Madrid: Taurus, 1998).

darllen llenyddiaeth a newyddiaduriaeth Gymraeg a Saesneg, ac roeddent yn ysgrifennu yn bersonol ac yn broffesiynol yn y ddwy iaith. Er bod yr arteffactau testunol a grëwyd ganddynt yn ‘crisialu’ disgwrs y cyfnod mewn un iaith neu’r llall felly, prin y gellir ystyried y deunydd disgyrsiol crai, y deunydd meddyliol a ddaeth yn ei flaen, yn ddisgwrs Cymraeg neu yn ddisgwrs Saesneg hollol ar wahân. Disgwrs Cymraeg a disgwrs Saesneg a ffurfiwyd i raddau helaeth dan ddylanwad cryf yr iaith arall sydd gennym yma felly, neu hyd yn oed ddisgyrsiau a ffurfiwyd dan ddylanwad rhyw fath o iaith hylifol amlieithog mewn cyflwr parhaol o drosglwyddo diwylliannol.<sup>235</sup> Sicr yw na ellir dadansoddi arteffactau testunol Cymraeg a Saesneg o’r cyfnod hwn, nac o *genre* newyddiaduriaeth yn benodol, yn gyfan gwbl ar wahân i’w gilydd.

Fel yr esboniwyd uchod, roedd yr iaith Fasgeg wedi cael ei chyfyngu i gymunedau pysgota’r arfordir a phentrefi gwledig y mynyddoedd yn unig erbyn canol y 19g, wedi’i gwarthnodi yn ‘iaith anghoeth ar gyfer pobl anghoeth’ ac yn ‘iaith gyntefig i labystiau’ gan ddsbarthiadau dysgedig y trefi mawr.<sup>236</sup> Oherwydd y statws cymdeithasol isel hwn a diffyg llenyddiaeth Fasgeg yn gyffredinol hyd at yr 20g,<sup>237</sup> Sbaeneg oedd iaith addysg, newyddiaduriaeth, gwleidyddiaeth a diwylliant ysgrifenedig yn gyffredinol yn y 1890au ar wahân i rai erthyglau, adolygiadau, cerddi a phosau a ymddangosodd yn y Fasgeg yng nghyfnodolion cenedlaetholgar megis *Bizkaitarra*.<sup>238</sup> Uniaith Sbaeneg oedd nifer mawr o ysgrifenyddyr, deallusion, gwleidyddion a meddylwyr Basgaidd y cyfnod hefyd, wedi’u geni yn y dinasoedd mawr Sbaenaidd megis Iruñea, Donostia, Bilbo a Gasteiz, ac wedi’u magu a’u haddysgu yn llwyr trwy’r Sbaeneg. Ni ellir sôn, felly, am garfan o ysgrifenyddyr dwyieithog yn ystod y cyfnod, nac am gorff o lenyddiaeth gysylltiedig a chyd-ddibynnol yn y ddwy iaith. I raddau helaeth felly, rhaid ystyried ein harteffactau testunol Sbaeneg yn adlewyrchiad o ddisgwrs uniaith ei wreiddiau.

Trafodid mater y genedl Gymreig ar draws Cymru gyfan ar ddiwedd y 19g a chyhoeddid erthyglau mewn cyfnodolion a newyddiaduron o Ynys Môn i Sir Fynwy ac o Sir Benfro i Sir y Fflint. Yn ychwanegol at hynny, roedd gan y cymunedau mawr o Gymry yn

---

<sup>235</sup> Gw. Ieuan Gwynedd Jones, ‘Language and community in nineteenth-century Wales’, yn David Smith (gol.), *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales 1780-1980* (London: Pluto Press, 1980), tt. 47-71, am drafodaeth ar y broses o drosglwyddiad diwylliannol rhwng y Gymraeg a’r Saesneg yn y 19g yng Nghymru.

<sup>236</sup> ‘An unrefined language for unrefined people, a primitive tongue for bumpkins’: Jeremy MacClancy, ‘Bilingualism and multinationalism in the Basque Country’, yn Clare Mar-Molinero ac Angel Smith (goln), *Nationalism and the Nation in the Iberian Peninsula: Competing and Conflicting Identities* (Oxford/Washington DC: Berg, 1996), tt. 207-220, t. 210.

<sup>237</sup> MacClancy, ‘Bilingualism and multinationalism’, t. 210.

<sup>238</sup> Noder mai elfen o hyfforddiant ieithyddol sydd gan lawer erthygl yn Euskara yn *Bizkaitarra* gyda geirfa.

Lerpwl, Manceinion, Llundain, a hyd yn oed yng Ngogledd America a threfedigaethau'r Ymerodraeth eu cyfnodolion eu hunain, ac roedd y 'cwestiwn cenedlaethol' yn ymddangos ynddynt yn aml.<sup>239</sup> Er y pellteroedd hir rhwng yr holl gymunedau Cymraeg hyn, roedd digon o drosglwyddo rhyngdestunol ar waith wrth i wahanol awduron danysgrifio i nifer o gyfnodolion ac wrth i adroddiadau mewn un cyfnodolyn gael eu hailgyhoeddi mewn cyfnodolyn arall. At hynny, ceir sefyllfa debyg yng Ngwlad y Basg wrth i'r genedl Fasgaid gael ei thrafod mewn cyfnodolion ar draws Euskal Herria i gyd, o Iruñea, Donostia, Bilbo a Gasteiz, gan gynnwys y taleithiau Basgaid Ffrengig a'r cymunedau allfudol yn yr Unol Daleithiau. I raddau helaeth, felly, gellir yn wir sôn am 'ddarllenyddiaeth' genedlaethol, neu gymuned estynedig o gyd-ddarllenwyr yn y ddwy wlad. Ond nid homogenaidd o ran profiad hanesyddol, datblygiad economaidd, credoau na lliwiau gwleidyddol oedd cymdeithas neu gymdeithasau Cymraeg a'u *diaspora* yn y 19g wrth gwrs, ac roedd gan bob talaith a chymuned Fasgaid ei hanes, diwylliant, sefydliadau a thraddodiadau gwleidyddol ei hunan. Wrth ddadansoddi a rhoi trefn ar y ddau ddisgwrs cenedlaethol yn eu cyfanrwydd, a chyfraniadau unigol tuag atynt, rhaid inni gofio swyddogaeth 'lle' yn ein bydysawd disgyrsiol a nodi cymhlethodau geo-wleidyddol, neu amgylchiadau a gwahaniaethau lleol.

At hynny, ac er y mabwysiedir safbwynt ôl-strwythurol ac ôl-fodernaidd yn yr astudiaeth hon, gan ganolbwyntio ar iaith a disgyrsiau yn gyffredinol yn lle meddwl a syniadau awduron ac ysgrifenyddyr penodol, ni ddymunir anwybyddu unigolion na diraddio'r goddrych yn llwyr. I'r gwrthwyneb, dylid cydnabod y gwaith damcaniaethol pwysig a wnaethpwyd ers y 1990au gan nifer o haneswyr i ailystyried swyddogaeth y 'gweithredwr' (*agent*) mewn fframwaith hanesyddol ôl-fodernaidd.<sup>240</sup> Mae David Shaw, er enghraifft, yn gweld yr unigolyn yng ngoleuni theori 'structuration' Anthony Giddens, sef cyfundrefn 'recursive' (ailadroddus) lle mae unigolion yn 'broesyddion-disgwrs' ('discourse-

---

<sup>239</sup> Mae Aled Jones wedi ysgrifennu yn helaeth ar wasg y *diaspora* Cymraeg ar draws yr Ymerodraeth Brydeinig ac ar brif bapur y Cymry yng Ngogledd America, *Y Drych*. Gw. Aled Jones, 'Welsh Missionary Journalism in India, 1880-1947', yn Julie F. Codell (gol.), *Imperial Co-Histories: National Identities and the British and Colonial Press* (Madison: Fairleigh Dickinson University Press, 2003) tt. 242-272, ac Aled Jones a Bill Jones, *Welsh Reflections: Y Drych and America 1851-2001* (Llandysul: Gomer, 2001). Mae Rhiannon Heledd Williams wedi cyhoeddi cyfrol yn ddiweddar sy'n dadansoddi hanes Cymry America yn y 19g trwy lygaid y wasg gyfnodol Gymraeg yn ystod ei 'hoes aur', sef 1838-1866: *Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad?: Gwasg Gyfnodol Gymraeg America 1838-1866* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017). Mae Jerry Hunter wedi ysgrifennu cyfrol ar hanes y Cymry Cymraeg yn America a'u hadwaith (mewn pob math o lenyddiaeth, o'r wasg i lythyrau personol a cherddi) i Ryfel Cartref 1861-65 yn benodol: Jerry Hunter, *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the American Civil War* (Cardiff: University of Wales Press, 2007). Am hanes cyffredinol diweddar Cymry America, gw. D. Eirug Davies, *Y Winllan Well: America'r Cymry* (Talybont: Y Lolfa, 2015).

<sup>240</sup> Gw. y rhifyn thema o'r cylchgrawn *History and Theory* o 2001 am ddetholiad o erthyglau sy'n trafod y pwnc: *History and Theory*, 'Agency after postmodernism', 40 (4) (2001).



processors') sy'n gallu effeithio ar, a newid, y disgwrs.<sup>241</sup> Mae'r hanesydd Basgaidd José Javier Díaz Freire wedi mynd â'r ddadl yn bellach, gan roi swyddogaeth bwysig i gorff ac emosiynau'r unigolyn yn y broses ddisgyrsiol ehangach.<sup>242</sup> Nid anwybyddir unigolion yn llwyr yn yr astudiaeth hon felly; cyfeirir atynt, ystyrir eu cefndir a'u sefyllfa gyfoes, a derbynnir y ffaith y gallent fod wedi cymryd rhan bwysig yn y broses o lunio'r disgwrs.

Wedi dweud hynny, sicr yw mai amatur neu led-broffesiynol (ac eithrio'r golygydd) oedd y mwyafrif helaeth o'r gohebwy'r ac awduron a gyfrannai at y wasg yn y 1890au, ac nid yw'n glir bob tro pwy yn union sy'n 'siarad', neu bwy yn union sy'n cyfranogi o'r disgwrs.<sup>243</sup> Mae rhan helaeth o'r erthyglau yn cael eu hysgrifennu gan awduron anhysbys, er enghraifft, ac er ei bod yn bosibl mynd yn ôl i'r archif a chanfod pwy oedd yn golygu'r newyddiadur mewn cyfnod penodol, nid ydym yn sicr gant y cant bod y golygydd 'hanesyddol' wedi ysgrifennu pob erthygl neu'r erthygl benodol yr ydym yn ei dadansoddi. Yn ychwanegol at hynny, cawsai llawer o erthyglau eu hysgrifennu dan ffugenw, megis 'Adelphos', 'Ap Freni Fach', 'Gwyddfaydd', 'Celyydd' a 'Ben Hur' yn *Y Celt* er enghraifft,<sup>244</sup> neu o dan flaenlythrennau'r awdur yn unig, megis 'F. B.' yn y cylchgrawn Basgaidd *El Fuerista*.<sup>245</sup> At hynny, mae rhai cyfnodolion yn adrodd erthygl air am air o gyfnodolyn arall (neu yn ei aralleirio) heb ei phriodoli.<sup>246</sup> Yn aml mae'r erthygl wreiddiol yn dod o'r wasg Saesneg, neu hyd yn oed o'r wasg Gymraeg yn yr Unol Daleithiau.<sup>247</sup> Yn yr un ffordd, maent yn adrodd areithiau gwleidyddol neu ddarlithoedd cyhoeddus a draddodwyd gan bobl eraill, ac maent yn aralleirio yma a dyfynnu yn uniongyrchol acw. Yn ramadegol, maent yn cymysgu'r araith anuniongyrchol (*indirect speech*) ac araith uniongyrchol (*direct speech*) o un frawddeg i'r llall. Ystyrier:

Llywyddid [y cyfarfod] gan Mr J. Herbert Lewis, A.S., yr hwn ddywedai ei fod wedi dychwelyd o Ddeheudir Cymru, ac oddiwrth yr hyn a welodd ac a glywodd yno credai fod yr undeb cydrhwng gogledd a de yn cryfhau yn barhaus. Yr oedd yr amser

---

<sup>241</sup> David Gary Shaw, 'Happy in our chains? Agency and language in the postmodern age', *History and Theory*, 40 (4) (2001), 1-9.

<sup>242</sup> Gw. José Javier Díaz Freire, 'Cuerpo a cuerpo con el giro lingüístico', *Arenal*, 14 (1) (2007), 5-29.

<sup>243</sup> Noder y gwelwyd proses o broffesiynoli yn dechrau erbyn 1900: Jones, 'The Welsh newspaper press', t. 19.

<sup>244</sup> Jones, 'Cwmni'r *Celt* a Dyfodol Cymru', tt. 116-7.

<sup>245</sup> 'F. B.', '¿Dónde está el mal de la sociedad?', *El Fuerista*, 3 Ionawr 1895, t. 1.

<sup>246</sup> Gw. 'F. B.', '¿Dónde está el mal de la sociedad?'; wedi'i ddyfynnu i gyd oddi allan o *La Verdad* o Manresa, Catalwnia.

<sup>247</sup> Gw., er enghraifft, y stori, 'Dal dyn gwyllt yn Missouri' a ddyfynnir gan Aled Jones yn, 'The Welsh newspaper press', t. 19.

yn dyfod pan na byddai gogledd a de ond termau daearyddol yn unig, oblegid dymuniad corph mawr y genedl oedd gweled ‘Cymru unedig’.<sup>248</sup>

Yn ychwanegol at hynny, maent yn adrodd trafodion cyfarfodydd cyhoeddus wrth grynhoi datganiadau a barn sawl person mewn un frawddeg. Wrth iddynt adolygu llyfrau, dramâu ac operâu, maent yn defnyddio’r un arfer: aralleirio, dyfynnu, araith anuniongyrchol, araith uniongyrchol. I raddau helaeth felly, anhysbysedd, neu o leiaf amwysedd ynglŷn ag awduraeth, sy’n nodweddi llawer iawn o’r testunau dan sylw. Gellir adnabod gwaith rhai o’r awduron amlycaf, ond mae eu geiriau yn llithro o gwmpas môr o ddelweddau, honiadau, metafforau a syniadau amhriodedig. Canolbwyntir ar yr ‘hylif’ cyffredinol hwn yn yr astudiaeth hon.

Wrth lunio astudiaeth gymharol, mae’n bwysig penderfynu o flaen llaw sut y bwriedir ymdrin â’r echel gronolegol. Gellir cymharu datblygiad dau wrthrych dros gyfnod o amser estynedig (sef cymryd sgôp diacronig), neu gymharu cyflwr neu amgylchiadau dau wrthrych mewn cyfnod o amser penodol (sgôp synchronig). Mae gan y ddau ddull hyn wahanol fanteision ac anfanteision yn dibynnu ar union ddibenion y prosiect. Wrth gymryd sgôp diacronig, er enghraifft, gellir cymharu achos ac effaith gwahanol amgylchiadau neu wahanol actorion allanol ar ddatblygiad y ddau wrthrych. Wrth gymryd sgôp synchronig, gellir cymharu cyfansoddiad manwl y gwrthrychau mewn moment benodol o’u hanes.

Mae disgwrs cenedlaethol yn newid gydag amser wrth gwrs, fel y mae syniadau a rhethreg cefnogwyr cenedlaetholdeb ac awduron unigol. Gwelir yng ngyrfa David Lloyd George rhwng 1886 a’r 1920au, er enghraifft, newid sylweddol yn naws a phwyslais ei ddatganiadau ynglŷn â’r genedl Gymreig, fel y gwelir yn ‘evolución españolista’ (esblygiad Sbaenaidd) Sabino Arana yn ei erthygl enwog o 1902, ‘Grave y trascendental’ (Difrifol a throsgynnol).<sup>249</sup> Nid oes amheuaeth felly y bu sylwedd, cywair a lliw disgwrsiau cenedlaethol Cymru a Gwlad y Basg yn eu cyfanrwydd yn newid rhwng 1876 a 1918 er enghraifft, a byddai cymhariaeth o’u datblygiadau diacronig yn werthfawr ac yn addysgiadol, yn enwedig wrth ystyried hynt a helynt y ddau fudiad cenedlaethol yng nghyd-destun hanes Prydain Fawr

---

<sup>248</sup> [Dienw], ‘Cenedlaetholdeb Cymru’, *Y Cymro*, 24 Ionawr 1895, t. 5. Dyma erthygl sy’n adrodd araith ddiweddar J. Herbert Lewis AS. Tanlinellu gan yr awdur presennol.

<sup>249</sup> Sabino Arana, ‘Grave y trascendental’, *La Patria*, Año II/Número 35, 22 Mehefin 1902, t. 3. Mae Dafydd Glyn Jones wedi sylwi ar y newidiadau cyson ac anghysondeb cyffredinol a welir yn natganiadau gwleidyddol David Lloyd George dros ei yrfa: Gw. *Hen Lyfr Bach: Lloyd George*, tt. 1-5. Dadleuir bod Sabino Arana yn lleihau ei wrthwynebiad i’r syniad o ymreolaeth i Wlad y Basg o fewn gwladwriaeth Sbaen (yn lle annibyniaeth llwyr), sef ei ‘evolución españolista’ (esblygiad Sbaenaidd), tua chyfnod olaf ei fywyd yn 1902-03. Gw. Corcuera Atienza, *Orígenes*, tt. 512-575.

a Sbaen y cyfnod. Ond dadleuir yma nad yw disgysiau cenedlaethol-drefedigaethol Cymru a Gwlad y Basg wedi cael eu llwyr gategoreiddio yn academiaidd eto, ac ni wyddys yn fanwl pa ‘beth’ a fyddai’n cael ei ddadansoddi dros gyfnod mewn astudiaeth ddiacronig. Gwell (ym marn yr awdur presennol) fyddai dadansoddi cynnwys, strwythur a mecanwaith y ddau ddisgwrs mewn moment benodol o’u hanes cynnar er mwyn ceisio diffinio a disgrifio’r deipoleg yn y lle cyntaf, neu sefydlu’r categori, fel petai, ac wedyn dilyn trywydd ei ddatblygiad. Mae i’r dull synchronig fantais bwysig arall wrth ymdrin â thestunau newyddiadurol ym marn Aled Jones, a hynny yw dealltwriaeth ddyfnach o’r perthnasau cymhleth rhwng gwahanol gyfnodolion a’u cyfranogwyr, neu’r rhwydwaith rhyngdestunol y soniwyd amdano uchod. Ymhellach, meddai Jones, byddwn yn gweld y newyddiaduron (ac felly’r byd) fel y byddai darllenwyr y cyfnod yn eu gweld, yn hytrach na sut yr ydym ninnau yn eu gweld bellach wrth edrych yn ôl:

It is in the reconstruction of the moment, and not in the recording of the uneven and longer-term trajectories of its constituent parts, that we gain a sense of the ways in which different newspaper titles interacted with each other as well as with the world which they reported and interpreted. In short, it is as important that we think of the history of newspapers synchronically, as the original writers and readers saw them, as it is to consider them diachronically, as we see them now in retrospect, bound chronologically into serial runs.<sup>250</sup>

Wrth ddewis dull synchronig ar gyfer yr astudiaeth hon, bwriedir dadansoddi’r rhwydwaith rhyngdestunol newyddiadurol hwnnw yn fanwl, sef y disgysiau cenedlaethol-drefedigaethol a grisialwyd yn y wasg Gymreig a Basgaidd yn y 1890au. Bwriedir dadansoddi eu cynnwys, eu strwythur a’u mecanwaith. Yn adran olaf y bennod hon rhoir braslun o’r paradeim disgysiol, neu’r fframwaith esboniadol y byddwn yn ei ddilyn yn y penodau sydd i ddod.

## **Pedair haen y paradeim disgysiol**

Ar waelod y paradeim disgysiol a thestun Haen 1 y mae’r ddeuoliaeth rethregol a grëwyd rhwng ‘ni’ y Cymry a ‘ni’ y Basgiaid, a ‘nhw’ y Saeson a ‘nhw’ y Sbaenwyr. Seiliwyd y ddeuoliaeth elfennol hon ar esboniadau hanesyddol, diwinyddol, daearyddol, gwyddonol, neu ar gymysgedd o bob un ohonynt, a defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau megis chwedlau hynafol, y Beibl, hanesyddiaeth Roegaidd, Rufeinig a chanoloesol, a hyd yn oed y gwyddorau newydd o anthropoleg ac ethnograffeg, i brofi’r gwahaniaeth. Yn ei thro, y mae’r

---

<sup>250</sup> Jones, ‘The Welsh newspaper press’, tt. 21-22.

ddeuliaeth elfennol hon yn hwyluso cyfres gyfan o wahaniaethau pellach gan ein hysgrifenywyr. Cynigir gwahaniaethau hiliol, ieithyddol, crefyddol a moesol; gwahaniaethau yn y drefn gymdeithasol, yn y gyfraith ac yn y system wleidyddol; a hyd yn oed wahaniaethau yn arferion y bobl, eu haniaethau a'u tueddfryd ysbrydol ac emosiynol. Yn ychwanegol at hynny, defnyddiodd rhai o'n hysgrifenywyr y gwahaniaethau elfennol hyn i esbonio pam yr ydym 'ni' yn 'uwch' na 'hwy', a rhai eraill i esbonio diffygion cynhenid 'ein pobl'. Wrth gloi Haen 1, ystyrir y cwestiwn o ragoriaeth ac israddoldeb yn nisgwrs y cyfnod gan ddadlau mai yng nghyd-destun y paradeim cyfan yn unig y dylid asesu gwir gymhellion a gwir argyhoeddiad ein hysgrifenywyr am draethu syniadau o ragoriaeth. Pam y byddai angen i gymdeithas 'uwch' adfywio ei hun ac ailadeiladu ei hun ar ddelw ei chymydog 'is'? Ystyrir y cwestiwn hwn ymhellach yn ddiweddarach yn y traethawd.

Wedi sefydlu a chyfiawnhau deuoliaeth bendant rhwng 'ni' a 'nhw', mae ein hysgrifenywyr yn mynd ymlaen yn aml i ddatblygu disgyrsiau o elyniaeth, gwrthdaro, ymelwa, erledigaeth ac anghyfiawnder: yr ydym 'ni' wedi dioddef camwedd dan law'r 'nhw' ac y mae ein hysgrifenywyr yn ein hatgoffa o'r troseddau hyn, naill ai yn benodol neu yn gyffredinol. Bydd Haen 2 yn olrhain y gwahanol naratifau hyn o elyniaeth, gan gynnwys un neu ddau elyn haniaethol, ac ystyried eu rôl yng nghyd-destun y paradeim ehangach. Er hynny, nid ydym 'ni' i gyd (o reidrwydd) ar yr un ochr yn y gwrthdaro hwn ac fe'n hatgoffir yn aml am ein 'gelyn mewnlol', neu'r bradwr o Gymro a bradwr o Fasgiad sydd wedi bradychu ei genedl er budd personol ac sy'n gweithredu yn uniongyrchol yn erbyn budd y genedl ehangach: y Dic Siôn Dafydd o Gymru, a'r *españolito* o Wlad y Basg. Heblaw hynny, cawn ein hunain yn aml yng nghwmni 'cywelyau' rhyfedd, sef brodyr mewn arfau'r presennol a oedd yn elynion glas ychydig ganrifoedd yn gynt (megis y Gwyddel i'r Cymro a'r Sais i'r Basgiad). Gall hyd yn oed gelyn ein gelyn droi yn gyfaill annwyl os bydd budd digonol gennym. Bydd y bennod yn cloi gan ystyried y perthnasau cymhleth hyn, yr esboniad a chyfiawnhad a roddir ar eu cyfer gan ein hysgrifenywyr a'u pwrpas rhethregol yn y paradeim disgyrsiol.

Pa un ai oherwydd mechdeyrniaeth ormesol neu oherwydd bradwriaeth fewnol y cwmpodd anfantais ac israddoldeb ar ysgwyddau'r Cymry a'r Basgiaid, y mae'r naratifau yn bwrw ymlaen gyda disgrifiadau cynhwysfawr o fethiannau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y cyfnod. Dilynir yr asesiad hwn gan raglen o gamau cywirol y dymuna ein hysgrifenywyr eu rhoi ar waith. Y mae'r camau hyn yn amrywio o ystyriaethau diwylliannol

megis achub yr iaith frodorol, adnewyddu llenyddiaeth ddirywiedig y cyfnod a chywiro hanesyddiaeth annigonol; ac yn mynd yn eu blaen i buro hiliol a diwygio crefyddol, cymdeithasol ac economaidd. Y rhan o'r paradeim disgyrsiol sy'n amlinellu rhaglen genedlaethol wleidyddol ein hysgrifenwyr yw 'diffygion a chywiriadau', a bydd Haen 3 yn disgrifio ei helfennau pwysicaf gan dynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng y disgwrs Cymreig a'r disgwrs Basgaidd. Ystyrir y cwestiwn pwysig hwn hefyd: pam dymunai ein hysgrifenwyr greu cenedl a gwladwriaeth mor debyg i eiddo eu cymydog ffiiaidd os oeddent mor wahanol yn y bôn?

Haen gymharol denau yw haen olaf y paradeim disgyrsiol, a'r haen sy'n agosaf at wyneb y ddaear destunol. Dyma'r datganiadau cenedlaetholgar Cymreig a Basgaidd y mae pobl yn eu cydnabod orau, achos dyma'r datganiadau sy'n galw am weithred wleidyddol ac am greu sefydliadau gwleidyddol ar wahân. Wedi profi cyfreithlondeb ein cenedl, wedi amlygu bygythiad ein gelyn mawr, ac wedi manylu ar gyflwr adfydus ein presennol a'r mentrau a fydd yn arwain at genedl iwtopaidd y dyfodol, mae'r amser wedi cyrraedd inni weithredu ac ymryddhau ein hunain. Bydd Haen 4 yn amlinellu cynlluniau ein hysgrifenwyr i greu pleidiau cenedlaethol ar wahân a'u dyheadau i greu cenedl hunanlywodraethol neu hollol annibynnol. Bydd Haen 4 hefyd yn gofyn, sut bynnag, pa mor genedlaetholgar yw'r datganiadau hyn mewn gwirionedd a pha mor ymrwymedig yw'r galwadau dros sefydliadau cenedlaethol annibynnol. Ai meddylfryd trefedigaethol sy'n treiddio perfedd ein disgyrsiai cenedlaethol wrth iddynt gyrraedd eu crescendo rhesymegol a rhethregol yn y pen draw? Ai'r term 'cenedlaethol-drefedigaethol' yw'r term gorau i ddisgrifio datganiadau cenedlaetholgar yn y wasg Gymreig a'r wasg Fasnidd yn y 1890au?

## **Rhan 2 – Pedair haen y paradeim disgyrsiol**



## Haen 1: Ni a nhw

‘Since every search for identity includes differentiating oneself from what one is not, identity politics is always and necessarily a politics of the creation of difference’, meddai Seyla Benhabib.<sup>251</sup> At hynny, gwaelod y ffos destunol yw sylw’r bennod hon, sef y weithred ddisgyrsiol o greu dwy genedl – Cymru a Gwlad y Basg – a’r ddeuoliaeth rethregol a ganlyn rhwng ‘ni’ y Cymry a ‘nhw’ y Saeson, a ‘ni’ y Basgiaid a ‘nhw’ y Sbaenwyr.

Yn gyntaf, byddwn yn ystyried sut y mae’r Cymry a’r Basgiaid yn cael eu ‘hactifadu’ yn ddisgyrsiol trwy ddyfeisiadau ieithyddol ym morffoleg a chystrawen y testunau. Wedyn, awn ymlaen i ystyried sut mae awduron yn adeiladu ar y gwahaniaeth elfennol hwn gan ychwanegu naratifau o wreiddiau hanesyddol gwahanol a honiadau o wahaniaethau hiliol, ieithyddol, cymdeithasol a chrefyddol rhwng dwy bobl. Byddwn yn ystyried hefyd i ba raddau y mae’r disgyrsiau Cymreig a Basgaid yn sefydlu rhagoriaeth y ‘ni’ dros y ‘nhw’ (os o gwbl), ac os felly, ym mha ffordd a pham. Yn olaf, byddwn yn ystyried y lleisiau sy’n gwrthod unrhyw wahaniaeth rhwng ‘ni’ a ‘nhw’, neu’r lleisiau sy’n awyddus i greu categori ethnig newydd sy’n uwch na’r Cymry a’r Saeson neu’r Basgiaid a’r Sbaenwyr: cefnogwyr Prydeindod a Sbaendod. Gwelir yn yr haen gyntaf hon, felly, gamau disgyrsiol sy’n dynwared strategaethau disgyrsiau cenedlaethol eraill y cyfnod trwy ‘arallu’ ac ‘israddio’ y bobl drws nesaf er mwyn sefydlu pobl ‘gyfreithlon’ ar wahân. Gwelir hefyd, sut bynnag, amheuron a gwrthddywediadau ynghylch maint a dilysrwydd y gwahaniaeth hwn: amheuron sy’n datguddio presenoldeb a dylanwad disgyrsiau imperialaidd cryfion gerllaw.

### Rydym yn bodoli

Mae ymdeimlad o genedligrwydd ‘mor hen â’r Cymry eu hunain’, meddai Kenneth O. Morgan mewn erthygl o 1971: sylwodd Bede ar y gwahaniaeth rhwng y Cymry a’r Saeson pan gyrhaeddodd Awstin Brydain yn 597, roedd beirdd Cymreig yn canu ar y thema trwy’r oesoedd canol, fe wnaeth Gerallt Gymro ddibynnu arno i amddiffyn achos yr Eglwys Gymreig yn erbyn yr Eglwys Normanaidd, a chlywyd datganiadau o wahanrwydd boblogaidd yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr yn y 15g gynnar.<sup>252</sup> Gwir hefyd fod awduron

<sup>251</sup> Dyfynnir yn Wodak (*et al.*), *The Discursive Construction of National Identity*, t. 2.

<sup>252</sup> ‘A sense of nationality is as old as the Welsh themselves’: Morgan, ‘Welsh nationalism’, 154.



cenedlaetholgar Cymreig a Basgaidd y 1890au yn cyflwyno gwahaniaeth hanfodol rhwng eu cenedloedd eu hunain a chenhedloedd eraill. Ond sut yn union y cyflawnasant hyn mewn termau ieithyddol a disgyrsiol? Yn yr adran gyntaf hon byddwn yn arolygu'r camau rhethregol cychwynol a gymer ein hawduron (camau sy'n gallu ymddangos yn syml iawn ar yr olwg gyntaf, ond camau sy'n hollbwysig ym mecanwaith ehangach y paradeim disgyrsiol) cyn mynd ymlaen i drafod sut yr adeiladir arnynt haen fesul haen yng ngweddill y bennod.

Mae angen i bobl wahanol feddu ar enw gwahanol, ac mae ein hawduron yn dilyn traddodiad hynafol y ddwy wlad gan gyfeirio gan mwyaf at 'y Cymry' yn y Gymraeg ac at 'the Welsh' yn Saesneg, at 'los vascos' yn Sbaeneg ac at 'Euskaldunak' yn y Fasgeg. Dyma ddechrau da i baradeim disgyrsiol unrhyw bobl ar wahân: mae gan y rhai sy'n trigo mewn tiriogaeth benodol enw penodol. Gan y gallai'r geiriau 'y Cymry' ac 'y Basgiaid' gyfeirio at bobl hanesyddol, neu hyd yn oed at bobl ddychmygol, sut bynnag, nid yw enwau ar eu pennau eu hunain yn ddigon i greu pobl fyw mewn disgwrs cenedlaethol. Mae angen 'actifadu' yr enwau hyn yn ddisgyrsiol cyn i'r Cymry a'r Basgiaid ddod yn bobl gyfoes a phobl wirioneddol.

Cyflawnir hyn trwy ddyfeisiadau ieithyddol ym morffoleg a chystrawen y testunau. Yn gyntaf, mae awduron y testunau yn eu cynnwys eu hunain yn y grŵp ehangach – naill ai yn unigol neu yn lluosog – gan gyfeirio at, er enghraifft, 'ni, y Cymry', 'we, Welshmen'.<sup>253</sup> Mae gan y datganiadau hyn effaith gyfresymol seml ond cref: os yw awdur y testun yn perthyn i'r categori 'y Cymry', ac os yw'r awdur yn fyw (tybiaeth resymegol mewn cyfnodolyn cyfoes), mae'r categori 'y Cymry' yn fyw. Yn ail ac yn syml, defnyddir yr amser presennol wrth ddisgrifio'r Cymry a'r Basgiaid ('mae'r Cymry yn [...]', 'los vascos son [...]); hynny yw, mae'r Cymry a'r Basgiaid yn rhywbeth ar hyn o bryd, rhywbeth yn y presennol. Yn drydydd, defnyddir enwau'r pobloedd hyn fel goddrychau yn y stad weithredol ('y mae'r Cymry yn meddwl', 'piensan los vascos'); hynny yw, mae'r Cymry a'r Basgiaid yn gwneud pethau, nid yn unig yn derbyn gweithredoedd a wnaethpwyd gan oddrychau eraill: maent yn weithredol. Ar y lefel symlaf, felly, crëir y Cymry a'r Basgiaid yn ddisgyrsiol trwy'u henwi, trwy'u lleoli yn ramadegol yn y presennol, trwy'u galluogi yn y stad weithredol, a thrwy'u cysylltu yn gyfresymol â phobl gyfoes fyw. Ond dim ond dechrau'r paradeim disgyrsiol yw'r enwau gweithredol hyn: mae eisiau ehangu, llenwi a lliwio gwacter y gofod disgyrsiol â

---

<sup>253</sup> Ystyrier: 'we, Welshmen' yn R. A. Griffith, 'Welsh Nationalism', *Young Wales*, Vol. I/No. 2, Chwefror 1895, t. 35; ac 'ond i ni, y Cymry' yn [dienw], 'Cenedlgarwch a Symmudiau Gwladgarol', *Yr Haul*, Rhifyn 121/Cyf. XI, Ionawr 1895, t. 15.

geiriau, delweddau a throsiadau eraill er mwyn trafod cenhedloedd yn gynhwysfawr, ac er mwyn rhoi ‘corff’ i bobl y genedl.

Dechreuau'r broses hon gan luosogi'r enwau y gellir eu defnyddio ar gyfer y ddwy bobl. Yn ogystal â'r 'Cymry', 'the Welsh', 'los vascos' ac 'Euskaldunak', felly, gwelwn yn ein testunau gyfeiriadau at 'genedl y Cymry', 'pobl Cymru', 'gwerin Cymru', 'the Welsh nation', 'the Welsh people', 'los vascongados', 'la nación vasca', 'el pueblo vasco', 'la familia vascongada', 'la familia euskara' ac 'Aberri'.<sup>254</sup> Mae gan eiriau cyfnewidiol megis 'cenedl', 'pobl', 'gwerin', 'nation', 'people', 'pueblo' a 'familia' ystyron, naws a nodweddion gwahanol wrth gwrs, ac mae'r nodweddion amrywiol hyn yn chwyddo a chyfoethogi'r paradeim disgyrsiol yn esboniadol trwy gysylltu'r Cymry a'r Basgiaid â gwrthrychau a chydsyniadau cymhleth eraill. At hynny, mae'r Cymry a'r Basgiaid bellach wedi cael eu 'hactifadu' a'u 'lluosogi', ond dim ond trwy'u disgrifio yn llawnach – trwy'u gwahaniaethu rhag pobloedd eraill – y bydd ein pobloedd yn cyrraedd eu hehangder disgyrsiol terfynol.

Un ffordd o wneud hyn yw creu datganiadau hunangynhwysol sy'n gosod ein pobl mewn grŵp o bobloedd eraill, sef datganiadau sy'n rhoi'r Cymry a'r Basgiaid ar yr un lefel disgyrsiol â phobloedd gwahanol adnabyddus. Gwelir enghreifftiau o'r dechneg hon mewn dwy erthygl o 1895: 'Ein Colegau Anghenedlaethol' yn *Y Celt* gan 'Proff. T. Rhys', a 'Wales and the English' yn *Young Wales* gan J. H. Davies.<sup>255</sup> Ystyrier, er enghraifft, sut mae Rhys yn rhestru'r Cymry ymysg pobloedd eraill Ynysoedd Prydain: 'y mae braidd pob athraw sydd yn cael ei benodi yn Ngholeg Bangor yn ddiweddar yn Sais, Scotyn, neu Wyddel, neu ryw beth heblaw Cymro'; a sut mae Davies yn gwneud yr un peth yn Saesneg yn ei erthygl ef: 'the great mass of English people, as distinguished from Irishmen, Scotchmen, and Welshmen'.<sup>256</sup> Nid oes rhaid i'r awduron gyfiawnhau na diffinio gwahaniaeth y Cymry yn llawnach eto, mae'n ddigon i'w lleoli yn wrthgyferbyniol â phobloedd eraill er mwyn awgrymu toreth o wahaniaethau posibl.

Gadewch inni ystyried y gosodiad hwn yn fanylach am eiliad. Dyweder y gwyddom fod y Saeson yn chwarae criced, er enghraifft. Y mae'n bosibl, felly, nad yw'r Cymry yn

---

<sup>254</sup> Gw. er enghraifft: 'Cenedl y Cymry', yn Rhys, 'Ein Colegau Anghenedlaethol', t. 3; 'la familia vascongada' a 'la familia euskara' yn [dienw], 'Lo que somos y lo que queremos', *Euskalduna*, Año I/Número 2, 20 Medi 1896, tt. 9-10.

<sup>255</sup> Rhys, 'Ein Colegau Anghenedlaethol', t. 3; J. H. Davies, 'Wales and the English', *Young Wales*, Vol. I/No. 7, Gorffennaf 1895, tt. 159-161.

<sup>256</sup> Rhys, 'Ein Colegau Anghenedlaethol', t. 3; Davies, 'Wales and the English', t. 159.

chwarae criced; neu, o leiaf, nid *qua* Cymry, sef Cymry fel y cyfryw. Dyweder y gwyddom fod yr Albanwyr yn gwisgo cilt, ac mae'n bosibl, felly, nad yw'r Cymry yn gwisgo cilt. Dyweder y gwyddom fod y Gwyddelod yn Gatholig, ac mae'n bosibl nad yw'r Cymry yn Gatholig. Ni wyddys yn sicr sut mae'r Cymry yn gwahaniaethu oddi wrth y Saeson, yr Albanwyr a'r Gwyddelod, ond gwyddom fod gwahaniaethau yn bodoli, neu fel arall, pam nad ydynt yn yr un categori? Yn yr un modd, yn unol â'r maint yr ydym yn adnabod nodweddion yr eraill, y mae posibiladau disgyrsiol o'n gwahanrwydd ein hunain yn tyfu. Ystyrier y datganiad canlynol gan Ana Iglesias a Fernando Ramallo sy'n deillio o safbwynt Derrida a'i gysyniad o *différance*: 'identities arise in the presence of the other, of the opposite, of its negation, in a negotiated dialectic that is at all times an unfinished process of construction and deconstruction'.<sup>257</sup> Gan leoli'r Cymry mewn rhestr o genhedloedd adnabyddus eraill, hynny yw, gan wahaniaethu 'categori' y Cymry oddi wrth 'categoriâu' cenedloedd adnabyddus eraill, mae'r awduron yn awgrymu bod nifer anhysbys o wahaniaethau 'negyddol' yn bodoli.

Yn dilyn datganiadau sy'n 'awgrymu' gwahaniaeth y Cymry a'r Basgiaid trwy'u categoreiddio yn wahanol a'u gwrthgyferbynnu â phobloedd eraill, ceir datganiadau yn y ddwy erthygl uchod sy'n 'proffesu' y gwahaniaeth hwnnw yn gadarnhaol. Mae J. H. Davies yn datgan bod 'gwahaniaeth hanfodol rhwng cyflyrau bywyd a meddwl yng Nghymru a'r rhai yn Lloegr' yn bodoli,<sup>258</sup> er enghraifft, ac mae T. Rhys yn dweud: 'erbyn hyn, y mae braidd pob gelyn o unrhyw bwys yn gorfod addef ein bod yn genedl ar wahân i'r Saeson gan ein bod mor wahanol i'r Saeson mewn cymaint o bethau'.<sup>259</sup> Fel man cychwyn i broses o wahaniaethu llawnach, mae gan yr haeriadau uniongyrchol hyn swyddogaeth ddisgyrsiol bwysig, ac, yn ddibynnol ar awdurdod cymdeithasol y siaradwr, fe allent ddwyn rhyw gymaint o rym didactig ar eu pennau eu hunain.<sup>260</sup> Eto, anaml y gwelid ffigurau o'r fath awdurdod yn ysgrifennu yn y wasg Gymreig a Basgaidd ar ddiwedd y 19g, a byddai rhaid i

---

<sup>257</sup> Ana Iglesias a Fernando Ramallo, 'Language as a diacritical in terms of cultural and resistance identities in Galicia', *Estudios de Sociolingüística*, 3.2 (2002), 259. Gw. hefyd, Heather Williams, 'Différance', *Esboniadur* (Coleg Cymraeg Cenedlaethol) [ar-lein], <https://wici.porth.ac.uk/index.php/Différance> [cyrchwyd: 09 Chwefror 2019].

<sup>258</sup> 'Among the many difficulties with which the Welsh nationalist has to contend in his endeavour to gain recognition of Welsh grievances, none is so great as that of impressing upon the average Englishman the essential difference between the conditions of life and thought in Wales and the like conditions in England': Davies, 'Wales and the English', t. 159.

<sup>259</sup> Rhys, 'Ein Colegau Anghenedlaethol', t. 3.

<sup>260</sup> Cymharer grym datganiadau cyfoes megis '[the Basques are an] ethnically distinct group' gan Ken Medhurst: 'Basques and Basque nationalism' yn Ken Medhurst a Colin H. Williams (goln), *National Separatism* (Cardiff: University of Wales Press, 1982), tt. 235-261, t. 235.

awduron megis J. H. Davies a T. Rhys gyfiawnhau eu honiadau â thystiolaeth ychwanegol pe dymument fwyhau effaith eu datganiadau.

Cynnig nifer o nodweddion cymdeithasol a diwylliannol er mwyn profi gwahanrwydd y Cymry a wnâi Davies a Rhys yn eu herthyglau yn 1895 felly: nodweddion megis yr iaith Gymraeg, Anghydfurfiaeth Gymreig, pwysigrwydd yr eisteddfod, a duwioldeb a chenedlaetholdeb ‘eang’ y Cymry.<sup>261</sup> Byddwn yn dadansoddi’r nodweddion hyn, a llawer mwy, yn fanwl yng ngweddill y bennod hon, ond digon yw dweud am y tro mai yn strwythur rhethregol syml y ddwy erthygl uchod (datganiad o wahanrwydd + enghreifftiau o wahanrwydd) gwelir seiliau disgysiol y mwyafrif helaeth o erthyglau a llythyrau cenedlaethol a ysgrifennwyd yn y wasg Gymreig a Basgaidd yn y 1890au. Ond seiliau disgysiol yn unig a welir yma, nid y manylion, gan fod gwahanol awduron yn anghytuno yn aml ynghylch yr union ffactorau a oedd yn gwahaniaethu’r Cymry oddi wrth y Saeson, a’r ffactorau a oedd yn gwahaniaethu’r Basgiaid oddi wrth y Sbaenwyr. Yn wir, anghytunent yn aml ar faint y gwahaniaeth hwnnw hefyd.

Disgyrsiau o wahaniaeth heterogenaidd, newidiol a hylifol sydd gennym yn ein herthyglau felly, ond disgyrsiau ac iddynt themâu, naratifau, delweddaeth, a geirfa gyffredin o dro i dro hefyd. Byddwn yn mynd ymlaen yn awr i ddadansoddi plân ansoddol y disgyrsiau, sef y disgrifiadau hynny sy’n gwneud y Cymry a’r Basgiaid yn genhedloedd gwahanol .

## **Mae gennym wreiddiau gwahanol a hŷn**

Mae’r disgrifiadau hynny yn dechrau ym mherfeddion y gorffennol gan amlygu gwreiddiau gwahanol y ddwy bobl, gan ddatgan bod cyndadau’r Cymry a’r Basgiaid yn wahanol i gyndadau’r Saeson a’r Sbaenwyr, a chan ddatgan mai o lefydd gwahanol y daethant i Brydain ac Iberia. Nid o lefydd gwahanol yn unig y daeth y Cymry a’r Basgiaid i Brydain ac i Iberia, sut bynnag, ond daethant hefyd yn gynt na’u cymdogion. Yr oedd bron pob awdur yn cytuno ar hanfodion y stori, felly: roedd y Cymry a’r Basgiaid yn hiliau, pobloedd, neu lwythi gwahanol, ac roeddent wedi byw ym Mhrydain ac Iberia yn hwy na’r Saeson a’r Sbaenwyr. Nid oeddent o’r un meddwl, sut bynnag, ynghylch manylion y stori, na ffynhonnell nac awdurdod y ffeithiau chwaith, a gwelir cymysgedd eang o fytholeg, chwedlau Beiblaidd,

---

<sup>261</sup> Rhys, ‘Ein Colegau Anghenedlaethol’, t. 3; Davies, ‘Wales and the English’, t. 159.

hanes cynwyddonol, ac anthropoleg gyfoes ymysg yr esboniadau a gaed am y gwahaniaethau elfennol rhwng y pobloedd.

Ceir enghraifft dda o esboniadau Beiblaidd dros wahaniaeth y Cymry a'u dyfodiad i Ynys Prydain mewn erthygl yn *Y Drych-Columbia* o fis Mawrth 1895 gan John L. Griffith o Nanticoke, Pensylfania, 'Dyfodiad y Cymry i Brydain'.<sup>262</sup> Ceisio dangos bod y Cymry yn tarddu o deulu Noa y mae Griffith, ac iddynt ddod i Brydain bedair mil o flynyddoedd yn ôl. Dechreuwa gan adrodd stori draddodiadol y Dilyw yn *Genesis*, sef sut y glaniodd arch Noa ar Fynydd Ararat, sut y buasai teulu Noa yn anheddu yn Sinar ac wedyn ym Mabilon, a sut aeth ei feibion, Shem, Ham a Jaffeth, i adeiladu'r Tŵr. Wedi'u haflonyddu gan gwerylau'r adeiladwyr, dywed Griffith, ymadawodd Jaffeth a'i feibion, gan gynnwys Gomer a Javan, ar daith hir tua'r gorllewin. Arhosodd Javan yng Ngwlad Groeg a sefydlu dinasoedd a diwylliant y Groegiaid, ac aeth Gomer ymlaen trwy Ewrop, dros y Môr Udd, i lanio yn Nofr ym Mhrydain i sefydlu cenedl y Cymry. 'Nid oes amheuaeth', meddai Griffith, mai Gomer oedd 'tad' y Cymry, ac mae'n mynd ymlaen i ddyfynnu dadleuon 'Mr. Davies' a'i 'Celtic Researches', yr hanesydd Phoenicaidd Sanchuniathon, Homer, Borlase, Raymond, a rhyw 'T. E. Watkins (Blaenau)' i roi cryfder tystiolaethol i'w honiad.<sup>263</sup>

Roedd y Basgiaid yn tarddu o deulu Noa hefyd yn ôl y traddodiad Basgaidd, ac ystyrir ei wŷr Tubal yn 'aneddwr cyntaf yr orynys' yn ôl Javier Corcuera Atienza.<sup>264</sup> Ond stori sylfaenol nifer mawr o genhedloedd yw stori gwasgariad meibion Noa yn nhraddodiad Iddewaidd-Gristnogol y gorllewin, wrth gwrs, a chan feddiannu elfennau o'r stori hon a'u trosglwyddo i hanes y Cymry a hanes y Basgiaid, dim ond lleoli'r ddwy bobl ymysg cenedloedd 'awdurdodedig' eraill y byd a wnaeth ein hawduron.<sup>265</sup> Ond nid strategaeth newydd cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd y 1890au oedd y strategaeth hon chwaith. Dyma barhad i draddodiad rhethregol a welwyd yng ngwaith Theophilus Evans a Thomas Price (Carnhuanawc) yng Nghymru yn y 18g a 19g gynnar, a pharhad i draddodiad Manuel de Larramendi o'r 18g yn achos Gwlad y Basg.<sup>266</sup> Parhad i draddodiad Sieffre o Fynwy a'i

---

<sup>262</sup> John L. Griffith, 'Dyfodiad y Cymry i Brydain', *Y Drych-Columbia*, 7 Mawrth 1895, t. 2.

<sup>263</sup> Griffith, 'Dyfodiad y Cymry i Brydain', t. 2.

<sup>264</sup> 'Primer poblador de la península': Gw. Corcuera Atienza, *Orígenes*, tt. 19-20.

<sup>265</sup> Mae Peredur Lynch wedi trafod y traddodiad hwn yng nghanu proffwydol Cymraeg o'r 10g i'r 17g: Lynch, *Proffwydoliaeth*, 26-27.

<sup>266</sup> Mae Theophilus Evans yn adrodd stori Gomer a'i daith i Brydain yn Rhan 1, Pennod 1, 'Cyff-genedl y Cymry', yn *Drych y Prif Oesoedd* (1716): gw. Garfield H. Hughes (gol.), *Drych y Prif Oesoedd: Yn ôl yr argraffiad cyntaf: 1716* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1961), tt. 17-21. Gw. hefyd Thomas Price (Carnhuanawc), *Hanes Cymru a Chenedl y Cymry o'r Cynoesoedd hyd at Farwolaeth Llywelyn ap Gruffydd*

*Historia Regum Britanniae* (1136) sydd yma hefyd wrth gwrs,<sup>267</sup> ac i draddodiad hŷn a fyddai'n honni disgyniad o Noa, y Troeaid ac o gymeriadau hanesion Rhufeinig er mwyn sefydlu 'pobligrwydd' (*peoplehood*) cenedloedd Ynysoedd Prydain a chenedloedd ledled cyfandir Ewrop.<sup>268</sup> Honnodd 'Nennius' yn *Historia Brittonum* (830), er enghraifft, fod y Brythoniaid yn tarddu o'r 'Groegiaid a'r Rhufeiniaid':

Respecting the period when this island became inhabited subsequently to the flood, I have seen two distinct relations. According to the annals of Roman history, the Britons deduce their origin both from the Greeks and the Romans.<sup>269</sup>

Yn wir, yn ôl Philip S. Gorski, mabwysiadai ysgrifenyddyr canoloesol megis 'Nennius' ddwy strategaeth rethregol i sefydlu pobligrwydd eu cenedloedd: un hanesyddol ac un ethnograffig.<sup>270</sup> Seiliwyd yr un hanesyddol, meddai Gorski, ar achyddiaeth dorfol o ffynonellau Beiblaidd a chlasurol:

One variant was to trace the lineage back to Noah. Another was to link it to the Trojans. And still another to the writing of Roman authors. Often these three discourses of descent – the Noachic, the Trojan and the Roman – were combined in clever, if implausible, ways.<sup>271</sup>

Dyma John L. Griffith o Nanticoke, Pensylfania, yn mabwysiadu ac yn dynwared yn 1895 strategaethau rethregol hynafol a chyffredinol. Dyma elfen o ddisgyrsiau cenedlaethol Cymru a Gwlad y Basg – a llawer o genhedloedd Ewropeaidd eraill – sy'n hen iawn.

At hynny, mae'n ddiddorol nodi yng nghyd-destun dadl Gorski a'r cyfnod dan sylw yn yr astudiaeth hon y dadorchuddiwyd llun olew newydd ym Mhalas Westminster yn 1895 o'r enw 'Phoenicians trading with Ancient Britons on the coast of Cornwall' gan yr Arglwydd Leighton.<sup>272</sup> Yn yr un flwyddyn ag yr oedd John L. Griffith yn cysylltu'r Cymry â theulu Noa, felly, dyma Lywodraeth Prydain yn corffori enw a thraddodiad y Phoeniciaid o fewn ideoleg imperialaidd gyfredol Prydain Fawr wrth hyrwyddo'r naratif bod y Phoeniciaid wedi cyrraedd Cernyw cyn cyfnod y Rhufeiniaid i fasnachu tŷn gyda'r Brythoniaid hynafol.

---

(Crughywel/Crickhowell: Thomas Williams, 1842), a Manuel de Larramendi, *De la Antigüedad y Universalidad del Bascuense en España* (Salamanca, 1728).

<sup>267</sup> Yn ôl *Historia Regum Britanniae*, Brutus, y Troead, a sefydlodd genedl y Brythoniaid. Gw. Lewis Thorpe (golygydd a chyfieithydd), *Geoffrey of Monmouth: History of the Kings of Britain* (London: Penguin, 1966), tt. 71-72.

<sup>268</sup> Gorski, 'Pre-modern nationalism', t. 149.

<sup>269</sup> J. A. Giles (cyfieithydd), *Nennius: History of the Britons* (Kessinger Publishing, 2007), Pennod 10, t. 7.

<sup>270</sup> Gorski, 'Pre-modern nationalism', t. 149.

<sup>271</sup> Gorski, 'Pre-modern nationalism', t. 149.

<sup>272</sup> Timothy Champion, 'The appropriation of the Phoenicians in British imperial ideology', *Nations and Nationalism* 7 (4), 2001, 451-465, 452.

Cawsai'r Phoeniciaid ddylanwad parhaol ar y Brythoniaid, yn ôl y naratif, gan droi (meddai Timothy Champion) yn rhyw fath o 'brototeip', neu 'ddelfryd o ymddygiad' i Brydain fodern a'u doniau amlwg am weithgynhyrchu metalwaith a thecstilau, morio, masnachu a choloneiddio tramor.<sup>273</sup> Dyma Lywodraeth Prydain yn mabwysiadu ac yn dynwared yn 1895 strategaethau rhethregol hynafol a chyffredinol hefyd.

Gwelir yn ein testunau, felly, arlliwiau, olion neu atseiniau o ddisgyrsiau cenedlaethol Cymreig a Basgaidd y gorffennol wedi'u hailadrodd er mwyn hawlio gwreiddiau unigryw o'r newydd. Ni fyddai'n afresymol mentro, gan hynny, nad ar hap a siawns y mabwysiadwyd yr un strategaeth ddisgyrsiol yn yr un flwyddyn, mewn dwy wlad anghysylltiedig 600 o filltiroedd oddi wrth ei gilydd. Gellid mentro, fel y gwelir yn llun yr Arglwydd Leighton, mai patrwm disgyrsiol cyffredinol Ewropeaidd, neu orllewinol, sydd ar waith yn nysgyrsiau cenedlaethol Cymru a Gwlad y Basg y 1890au.

Er bod gan ddehongliadau ysgrythurol o hanes fel y rhai uchod, a llythrenoliaeth Feiblaidd yn gyffredinol, rywfaint o ddal o hyd ar rannau penodol o'r gymdeithas Gymreig a'r gymdeithas Fasgaidd yn y 1890au, sicr yw eu bod yn colli tir yn y gymdeithas ehangach i awdurdod y gwyddorau newydd megis hanes beirniadol, archaeoleg, ieithyddiaeth, ethnoleg ac anthropoleg fiolegol. Mae'n rhesymegol felly y byddai geirfa'r gwyddorau hyn yn treiddio i'n disgyrsiau cenedlaethol yn hwyr neu'n hwyrach, ac y byddai'n hawduron cenedlaethol yn apelio yn gynyddol at eu darganfyddiadau er mwyn ceisio profi eu dadleuon. Yn ystod ail hanner y 19g, un o gyffroadau deallusol (os nad obsesiynau) mawr Ewrop gyfan oedd ethnoleg, ac nid syndod yw gweld toreth o erthyglau ar wreiddiau 'gwyddonol' y Cymry a'r Basgiaid yn y wasg Gymreig a Basgaidd erbyn y 1890au, yn enwedig mewn cylchgronau academiaidd neu ddiwylliannol megis *Y Geninen ac Euskal-Erria*.<sup>274</sup>

Yn 1896, er enghraifft, wele 'Origen del pueblo bascongado' ('Gwreiddiau'r bobl Fasgaidd') yn ymddangos yn *Euskal-Erria*; dyma erthygl ddiennw sy'n datgan yn y frawddeg gyntaf fod 'y theori fwyaf rhesymegol a gwyddonol' ynghylch gwreiddiau'r bobl Fasgaidd yn tarddu o waith ryw Padre (Tad) Fidel Fita a'i astudiaeth ieithyddol ar Geltiaid ac Iberiaid cynnar Sbaen.<sup>275</sup> O'r cychwyn cyntaf, seilir dadl yr awdur ar yr hyn a ystyrir yn wyddonol,

---

<sup>273</sup> Champion, 'The appropriation of the Phoenicians', 452. Byddai'r naratif yn diflannu yn yr 20g wrth i agweddau tuag at bobl Semitig newid, meddai Champion.

<sup>274</sup> George W. Stocking Jr., *Victorian Anthropology* (New York: The Free Press, 1991). Gw. tt. 56-90 yn benodol.

<sup>275</sup> 'La teoría más racional y científica acerca del origen del pueblo vascongado': [diennw], 'Origen del pueblo bascongado', *Euskal-Erria*, Gorffennaf 1896, tt. 26-27.

ac mae'n mynd ymlaen i gyflwyno'r theori a oedd ar led yn Ewrop ar y pryd mai disgynyddion i'r Iberiaid oedd y Basgiaid, pobl Aryaidd o'r Cawcasws, a'r bobl a ddaeth gyntaf i Iberia gyda'r Celtiaid yn dynn ar eu sodlau.<sup>276</sup> Gan mai yng ngogledd-ddwyrain yr orynys rhwng y Pyreneau ac afon Ebro yr anheddodd yr Iberiaid yn ôl y theori hon, a chan mai ymhellach i'r gorllewin a'r de y setlodd y Celtiaid, ni chymysgai'r Iberiaid â'r Celtiaid, nac ag unrhyw un o'r llwythi a ddaeth i Iberia ar eu hôl megis y Swefiaid, Fisigothiaid, Ffranciaid a'r Mwriaid. Pobl 'gynfrodorol' Iberia oedd y Basgiaid, meddai'r awdur, ffaith a'u gosododd 'ar ben pob hil a ddaeth i'r ardal'.<sup>277</sup>

Yn ychwanegol i'r gwrthgyferbyniad disgrifiadol syml uchod, gwelwn symudiad disgyrsiol arall yn 'Origen del pueblo bascongado' wrth i'r awdur ddatgan bod 'cydnabyddiaeth neilltuol [yn ddyledus] i'r Tad Fita' gan bobl Gwlad y Basg, am ei fod wedi 'awdurdodi' eu 'hynafiaeth a'u llinach', a darparu 'breintlythyr' sy'n caniatáu iddynt 'brofi' blaenoriaeth ac annibyniaeth eu harferion, eu sefydliadau a'u hiaith.<sup>278</sup> Nid yw'n ddigon i'r awdur adael i ffeithiau'r Tad Fita siarad drostynt eu hunain, mae'n debyg: mae'n rhaid iddo bwysleisio awdurdod yr offeriad o wyddonydd i ddatgan y 'gwir'. Gwelir yn y darn hwn, felly, angen ymwybodol i roi awdurdodaeth ar ddisgwrs o wahaniaeth trwy gyfeirio at, dyfynnu, a dyrchafu ffynonellau 'gwyddonol' newydd; boed y ffynonellau hynny yn ddibynadwy neu beidio. Yn wahanol i'r honiadau Noachaid uchod, cyflwyniad seciwlar sydd yma, cyflwyniad a allai fod yn fwy awdurdodedig (yn ôl chwaeth y darllenydd) na chyflwyniad Beiblaidd. Ond disgwrs anfeirniadol ac anwyddonol sydd yma hefyd: disgwrs sy'n ailadrodd ffeithiau a dadl rhyw awdur heb eu cwestiynu na'u cymharu â dadleuon gwrthwynebol awduron eraill.

---

<sup>276</sup> Ffaith ddiddorol dros ben i'w nodi bod A. W. B. Everitt, yn ysgrifennu yn *Young Wales* yn 1896, yn cytuno â'r awdur Basgaidd hwn ynglŷn â hynafiaeth a phurdeb achau Iberaidd y Basgiaid: 'These men [...] were of the race now known as Iberian, which at one time inhabited a great part of Western Europe, but which has since mingled with other races. The Basques of the Pyrenees are the only Iberians who still preserve anything like purity of descent'. Nid cywirdeb honiadau ethnograffig cenedlaetholwyr Basgaidd y 1890au sydd o brif ddiddordeb i'n hastudiaeth bresennol, ond o ystyried y dystiolaeth uchod, gellid dadlau eu bod yn cael eu derbyn yn eang ar draws Ewrop ar y pryd. Gw. A. W. B. Everitt, 'The Early Inhabitants of Britain II.', *Young Wales*, Vol. II/No. 20, Awst 1896, t. 187.

<sup>277</sup> 'Los aborígenes'; 'colocándonos así a la cabeza de todas las razas que vinieron a esta región': [dienw], 'Origen del pueblo bascongado', t. 26.

<sup>278</sup> 'El país vasco navarro [...] debe al P. Fita especial reconocimiento [por haber sancionado, con razones profundamente científicas, el abolengo de nuestra antigüedad, proveyéndonos de una ejecutoria en toda regla, merced á la que podemos ya demostrar que en este país asentó la primitiva población de España y que nuestras costumbres, nuestra organización peculiar y la conservación del idioma euskaro, uno de los modos de hablar más antiguos del mundo, revelan [que] hemos permanecido independientes y libres en todo el curso de nuestra historia': [dienw], 'Origen del pueblo bascongado', tt. 26-27.



Ni fu pob awdur a ysgrifennai yn y wasg Fasnagaid ar ddiwedd y 19g mor ddirado mewn cwestiynau o wyddoniaeth ag awdur anhysbys yr erthygl uchod. Eglura Roger de Flor yn ofalus mewn erthygl arall yn *Euskal-Erria* yn 1895 nad oedd ganddynt ‘ddigon o ddata’ i brofi hynafiaeth ‘y gwareiddiad Euskara’, er iddo fynd ymlaen i ddamcaniaethu ar gysylltiadau rhwng yr Iberiaid a’r Etrwsgiaid a’r Hen Eifftiaid, a chan hynny, ar gysylltiadau’r Basgiaid â ‘chrud gwareiddiad Ewrop’.<sup>279</sup> Mewn erthygl arall o 1896 ystyria Pedro Lino Munárriz wahanol theoriau Gebhardt, yr ‘huawdl’ Madrazo, Padre Fidel Fita, P. Risco, ‘los bascófilos’ (‘y basg-garwyr’) ac Arturo Campión, cyn dod i’r casgliad ‘mai’r Basgiaid a’r Iberiaid, er nad oeddent yn perthyn i’r un teulu, oedd anheddwyr cyntaf Sbaen, ac y gellir ystyried mai’r Celtiaid oedd trawsfeddianwyr cyntaf Iberia’.<sup>280</sup> Yn yr un modd, ac ar ôl gwrthod ‘ffablau, traddodiadau a chwedlau’ a dewis canolbwyntio ar ‘ffeithiau hanesyddol’ (er y cyfeddyf mai ‘anodd iawn yw sicrhau gwreiddiau’r hil Fasnagaid’), mae Pedro M. de Soraluce yn ystyried nifer o bosibiliadau yn ei gyfres o erthyglau, ‘El marinero euskaldun’ (Y morwr Basnagaid), gan gynnwys theori Iberaidd Joseph-Augustin Chaho a theori’r archeolegydd Gwyddelig ‘Mister Henry O’Shea’ sy’n dal mai ‘disgynyddion pobl gynharaf *Atlantica*’ oedd y Basgiaid.<sup>281</sup> Diddorol yw nodi, sut bynnag, fod cronoleg y theoriau newydd yn ‘cytuno yn llwyr’ â chronoleg ‘Tadau’r Eglwys’ ynglŷn â dyddiad ‘creu dyn’ yn ôl de Soraluce (sef 7122 o flynyddoedd cyn ysgrifennu’r erthygl). Roedd de Soraluce yn awyddus, mae’n debyg, i barhau i fanteisio ar awdurdod yr Eglwys Gatholig yn ogystal ag awdurdod y gwyddorau.<sup>282</sup>

Wrth fwrw golwg ar y lliaws o erthyglau o’r math hwn a gyhoeddwyd yn y wasg Fasnagaid yn y 1890au, gwelir nad oedd gan yr awduron (na’r awdurdodau academaidd y cyfeirir atynt) syniad clir eto, na rhagdybiaeth wyddonol sefydledig, ynghylch tarddiad ethnolegol y bobl Fasnagaid. I’r gwrthwyneb, gwelir maes o wybodaeth sydd wrthi’n cael ei ffurfio, a gwelir, felly, ddisgwrs ethnograffig hanner orffenedig gyda datganiadau petrus a dyfaliadol, ffynonellau anghyson a chronolegau hanesyddol gwrthwynebol. Er gwaethaf yr holl ansicrwydd ac anghysondeb, gwelir awydd cryf gan yr awduron i gysylltu’r Basgiaid yn

<sup>279</sup> Roger de Flor, ‘Bascongados prehistóricos’, *Euskal-Erria*, Rhagfyr 1895, tt. 405-406.

<sup>280</sup> ‘Los bascones y los iberos, sin que pertenezcan á la misma familia, fueron los primeros pobladores de España, y que los celtas pueden considerarse como los primeros usurpadores del territorio ibérico’: Pedro Lino Munárriz, ‘Los Bascos: etnografía/carácter’, *Euskal-Erria*, Tomo XXXV, Rhagfyr 1896, t. 148.

<sup>281</sup> ‘Fábulas, tradiciones y leyendas’; ‘hechos históricos’; ‘muy difícil es poder asegurar el origen de la raza euskara’; ‘descendientes de los primeros habitantes de la Atlántida’: Pedro M. de Soraluce, ‘El Marinero Euskaldun’, *Euskal-Erria*, Tomo XXXIII, Rhagfyr 1895, tt. 468-472.

<sup>282</sup> ‘Las fechas antes citadas corresponden perfectamente con las seguidas por los Santos Padres y los escritores eclesiásticos de los primeros siglos: ó sea, que van transcurridos desde la creacion del hombre 7122 años’: Soraluce, ‘El Marinero Euskaldun’, t. 472.

agos â gwareiddiadau cynharaf (ac enwocaf) Ewrop, a lleihau (neu hyd yn oed esgeuluso yn llwyr) gysylltiadau â'r bobloedd nesaf atynt: y Sbaenwyr o León, Castilia, ac Aragón, a'r Ffrancwyr o Gascogne a Bearn.<sup>283</sup> Gwelir ymdrech systematig i gyflwyno'r ddelwedd bod y Basgiaid yn bobl wahanol ac yn bobl ddilys, er gwaethaf diffyg tystiolaeth.

Gwelir patrwm tebyg yn y wasg Gymreig yn y 1890au wrth i faterion anthropolegol gael eu trin yn gynyddol mewn newyddiaduron a chylchgronau cyffredinol, ac wrth i awduron cenedlaetholgar chwilio am dystiolaeth i gyfiawnhau eu safbwyntiau gwleidyddol ar sail dadleuon ysgolheigaidd. Sefydlesid hanes beirniadol y Celtiaid ym Mhrydain (a hanes y Cymry cynnar gan hynny) gan Syr John Rhys yn *Celtic Britain* yn 1882,<sup>284</sup> a gwelir naratif Rhys yn cynyddol dreiddio i ddisgwrs cenedlaethol y Cymry yn ystod ugain mlynedd olaf y 19g.<sup>285</sup> Erbyn y 1890au, er enghraifft, byddai Owen M. Edwards yn adrodd holl hanes awdurdodol Cymru mewn cyfres o erthyglau o'r enw 'Hanes Cymru' yn ei gylchgrawn newydd, *Cymru*, gan ddechrau gyda hanes Prydain gyn-Rufeinig.<sup>286</sup> Honna Edwards ym mhennod gyntaf y gyfres yn Hydref 1891 (wrth gydnabod ei fod ar 'dir sigledig iawn') mai'r Iberiaid 'o'r de ddwyrain' oedd y bobl gyntaf i ddod i Brydain, a Cheltiaid o ardal y Rhein a'r Scheldt yn eu dilyn ryw ychydig ganrifoedd yn ddiweddarach.<sup>287</sup> Cymeriad ag anian wahanol i'r Celtiaid oedd gan yr Iberiaid, yn ôl Edwards, ac er y'u goresgynnwyd hwy gan y Celtiaid, a hwythau yn cefnu ar eu hiaith 'Hamitaidd' wreiddiol er mwyn mabwysiadu'r iaith Frythoneg, gwelir elfennau o anian ac iaith yr Iberiaid yng nghymeriad ac iaith y Cymry hyd y presennol: 'O'r ddau yma, y Dafydd a'r Goliath, y mae'r Cymro wedi dod. Y mae wedi etifeddu athrylith freuddwydiol y naill ac ynni y llall; cafodd delyn Dafydd a tharian

---

<sup>283</sup> Ystyrier geiriau Wodak (*et al.*) ar y duedd mewn disgyrsiau cenedlaethol i bwysleisio gwahaniaethau rhwng y cenedloedd agosaf at 'ein' cenedl ni: 'discursive constructs of nations and national identities [...] primarily emphasise national uniqueness and intra-national uniformity but largely ignore intra-national differences. In imagining national singularity and homogeneity, members of a national community simultaneously construct the distinctions between themselves and other nations, most notably when the other nationality is believed to exhibit traits similar to those of one's own national community, similar to what Freud called the narcissism of small differences': Wodak (*et al.*), *The Discursive Construction of National Identity*, t. 4.

<sup>284</sup> Dyma'r tro cyntaf yr adroddir hanes y Brythoniaid ar sail archaeoleg a ffiloleg yn unig, heb ddamcaniaethu ymhellach nag ydyw'r dystiolaeth gorfforol (artefactau megis darnau o arian) a thestunol (hanesion y Groegiaid a'r Rhufeinwyr) yn ei ganiatáu. Gw. John Rhys, *Celtic Britain* (London: SPCK, 1882) ac argraffiad diweddar gan Random House (London, 1996). Noder hefyd gwaith Robert John Pryse (Gweirydd ap Rhys), *Hanes y Britaniaid a'r Cymry yn Wladol, Milwrol, Cymdeithasol, Llenorol, a Chrefyddol, o'r Amseroedd Boreuaf hyd y Bresennol* (dau gyfrol) (Llundain; Caerlleon; Abertawe: William MacKenzie, 1872 a 1874).

<sup>285</sup> Dyfynnir *Celtic Britain* John Rhys, er enghraifft, gan A. W. B. Everitt yn 'The Early Inhabitants of Britain II.', t. 186.

<sup>286</sup> Owen M. Edwards, 'Hanes Cymru', *Cymru*, Cyf. I/Rhif 3, 15 Hydref 1891, tt. 97-100. Noder y byddai Owen M. Edwards yn ymhelaethu yn sylweddol ar ei theori Iberaidd yng nghyfrlau hanesyddol oedd i ddod megis *The Story of the Nations: Wales*: gw. tt. 10-15 yn benodol.

<sup>287</sup> Edwards, 'Hanes Cymru', t. 97.

Goliath'.<sup>288</sup> Troi yn un bobl (y Cymry) a wnâi'r ddau lwyth hyn, ond brwydr (neu 'ymdrech') barhaol rhwng anian freuddwydiol yr Iberiaid ac anian ymarferol y Celtiaid a fyddai'n nodweddu eu datblygiad dros y canrifoedd yn ôl Edwards.<sup>289</sup>

Ar ôl cyfnod y Rhufeinwyr, medd Edwards, daeth 'cenedl arall', 'i'r un cyfeiriad hyd lwybr cyfochrog arall'. 'Y genedl Deutonaidd' oedd hon, gyda nodweddion ffisegol, anian a chymeriad gwahanol i'r Iberiaid a'r Celtiaid, ac erbyn cyfnod brwydr Caer yn 613 OC, yr oeddent wedi 'meddiannu gwastadeddau Prydain' a 'thra-arglwyddiaethu ar y Celtiaid Rhufeinig a'u preswyliai'. Pobl wahanol i'w gilydd oedd yr holl bobloedd hyn: 'yr Iberiaid fu'n ddeiliad y byd, y Celt yn llywodraethwr, a'r Teuton yn wrthryfelwr', ac y mae'r 'Sais a'r Norman' ('dau dylwyth yn perthyn i'w gilydd'), terfyna Edwards, yn dal i fod ymhlith y Cymry hyd y presennol. At hynny, clywir 'helgorn y Teuton' o hyd, 'a deil i redeg ar ôl llwynogod a dyfrgwn, a'r ychydig anifeiliaid gwylltion ereill sydd eto heb eu difa yn ein hynys'.<sup>290</sup> Dyma fotiff cyson a phwysig yn y disgwrs cenedlaethol Cymreig: cenedl wreiddiol Ynys Prydain oedd y Cymry, goresgynwyr rhyfelgar a bygythiol oedd y Saeson.<sup>291</sup>

Erbyn 1895 roedd theorïau Rhÿs, Edwards ac eraill wedi troi yn naratif prif ffrwd hanesyddiaeth Cymru ac wedi treiddio i ddisgyrsiau cenedlaethol ein cyfnodolion. Yn 'Cymry y Cynoesoedd' yn *Y Geninen* ym mis Ionawr 1895, er enghraifft, mae'r awdur anhysbys 'Cefni' yn ystyried pob math o gysylltiadau cynnar rhwng y Cymry, y Celtiaid, yr Iberiaid a phobloedd eraill Ewrop (ac eithrio'r Saeson), gan gyfeirio at Dr. Thomas Nicholas, Matthew Arnold, 'Morgan', 'Bunsen', Owen Williams, a William Owen, er mwyn cryfhau ei ddadl bod llenyddiaeth a diwylliant y Cymry wedi dylanwadu ar bron pob gwarediddiad Ewrop cynnar.<sup>292</sup> Ym mis Rhagfyr 1895 wele *Y Cymro* yn adrodd ar anerchiad ar 'Y Cymeriad Celtaidd' a roddwyd gan y barnwr Syr Vaughan Williams i aelodau Cymdeithas Genedlaethol Gymreig Lerpwl. Wrth fynd ati i gymharu cymeriad y Celt a chymeriad y Tiwton, meddai Williams, yr oedd rhaid i rywun ofyn 'a oedd gwahaniaethau llydain rhyngddynt, neu ai gwahanol genhedloedd yn perthyn i'r un cyff oeddent', gan gasglu yn y

---

<sup>288</sup> Edwards, 'Hanes Cymru', t. 99.

<sup>289</sup> Edwards, 'Hanes Cymru', t. 100.

<sup>290</sup> Edwards, 'Hanes Cymru', t. 100.

<sup>291</sup> Gwelir y motiff hwn mor gynnar â'r 10g yn *Armes Prydain*.

<sup>292</sup> 'Cefni', 'Cymry y Cynoesoedd', *Y Geninen*, Cyf. XIII / Rhif 1, Ionawr 1895, tt. 75-77.

pen draw fod ‘gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt, er y gallai fod amgylchiadau a chymysgiad gwaed wedi eu tebygu i’w gilydd’.<sup>293</sup>

Yn ‘The Early Inhabitants of Britain’ gan A. W. B. Everitt (Mai ac Awst 1896), cawn enghraifft ardderchog o naratif safonol y Cymry cynnar, naratif a oedd wedi troi bron yn hollbresennol yn y wasg ac yn hanesion poblogaidd y cyfnod. Dyma hanes sy’n trafod pobloedd paleolithig, neolithig, Celtaidd a Rhufeinig Prydain cyn cyrraedd o’r Sacsoniaid a ‘goresgyniad’ y Cymry. Buddiol fyddai dyfynnu darn sylweddol o ran olaf yr erthygl:

When the English reached the shores of their present home, the population of the land consisted mostly of Celts who were driven out by their relentless foes with fire and with sword to seek homes further west. They retreated northward into what is now Scotland, westward into what are now Wales and Ireland, and southward into what is still called Brittany, or the land of the Britons, in the North of France. Those that still remained in England were principally confined to the western coast, in Cumberland, in Devon, and in Cornwall; and with those in Wales they formed a long line of formidable opponents sheltered amid the most wild and mountainous regions of the country. Between the mountains of Wales, however, and the groups to the North and the South are two stretches of flat country; and the English finally destroyed the power of the Celts in their land by two battles, one at Chester and one at a place in the south-west called Deorham, which broke this long line of defence into three parts, and rendered the Celts unable henceforward to act in concert, as they had done before. In this way the English people secured the predominance.<sup>294</sup>

Dyma naratif adnabyddus iawn yn yr 21g wrth gwrs, naratif a ailadroddir o hyd gan rai, a naratif sy’n destun cryn dipyn o feirniadaeth ysgolheigaidd hefyd.<sup>295</sup> Ond nid cywirdeb hanesyddol sydd o ddiddordeb inni yma ond y rhan a chwery’r naratif yn nisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig ehangach y 19g. Dyma naratif sy’n cyflwyno gwahaniaeth cyntefig rhwng brodorion a goresgynwyr, naratif sy’n cyflwyno ‘enciliad’ y Celtaid o Loegr a sefydlu ffiniau ‘hiliol’ rhwng y Cymry a’r Saeson. Dyma naratif sy’n cyflwyno dwy bobl o dras wahanol felly, a dwy bobl sydd wedi’u llwyr wahanu mewn termau daearyddol.

I’r mwyafrif helaeth o awduron a deallusion Cymreig y cyfnod, felly (ac eithrio un neu ddau lais gwrthwynebus a drafodir ar ddiwedd y bennod hon), roedd gwreiddiau Iberaidd-Celtaidd y Cymry yn wahanol i wreiddiau Tiwtonaidd y Saeson, fel yr oedd gwreiddiau Iberaidd-Basgaidd y Basgiaid yn wahanol i wreiddiau Celtaidd-Swefaidd-

<sup>293</sup> [Dienw], ‘Y Cymeriad Celtaidd’ [adroddiad ar anerchiad gan Syr Vaughan Williams i aelodau Cymdeithas Genedlaethol Gymreig Lerpwl], *Y Cymro*, 12 Rhagfyr 1895, t. 7.

<sup>294</sup> A. W. B. Everitt, ‘The Early Inhabitants of Britain I.’, *Young Wales*, Vol. II/No. 17, Mai 1896, t. 99.

<sup>295</sup> Gw. D. N. Dumville, ‘Sub-Roman Britain: History and Legend’, *History* 62 (1977), 173-192.

Fisigothaidd-Ffrancaidd-Mwraidd y Sbaenwyr i Pedro Lino Munáriz a Pedro M. de Soraluze. Ac yn unol â'r awduron Basgaid hyn, credai awduron Cymreig megis 'Cefni' mai trwy hanes beirniadol, archaeoleg, anthropoleg ac ieithyddiaeth y gellid profi'r gwahaniaeth hwn.

Mae'r naratifau o wreiddiau hynafol a gwahanol y Cymry a'r Basgiaid a welir yn yr adran hon yn cyflawni swyddogaeth bwysig ynddynt eu hunain yn y paradeim disgyrsiol: maent yn ychwanegu gwybodaeth esboniadol ac awdurdodedig i'r categori ieithyddol a sefydlwyd yn yr adran flaenorol. Dyma adeiladu'r genedl ddisgyrsiol haen fesul haen fel petai, neu gyfiawnhad fesul cyfiawnhad. Ar ben hynny, ac fel y gwelir yn helaeth maes o law, mae sefydlu a chyfiawnhau gwahaniaeth hynafol y genedl yn y rhan hon o'r paradeim disgyrsiol yn caniatáu i ddatganiadau eraill 'weithio', neu ddwyn ystyr, awdurdod neu effaith mewn rhannau eraill. Ystyrier y datganiad hwn gan Emrys ap Iwan yn 'Paham y gorfu'r Undebwyr' o fis Hydref 1895:

Gwybydd, ddarllenwyd, mai brwydr rhwng y Celtiaid a'r Teutoniaid oedd y frwydr etholiadol a ymladdwyd y mis o'r blaen; ac ni all y Celtiaid byth mwy ddisgwyl am gymorth effeithiol gan y Saeson tuag at ei hennill hi.<sup>296</sup>

Dadleuem yn gryf na fyddai'r honiad byr hwn am oblygiadau Etholiad Cyffredinol 1895 mor ystyrion ac mor effeithiol mewn termau rhethregol a phropagandaidd pe na buasai'r gwahaniaeth hynafol rhwng y 'Celtiaid' a'r 'Tiwtoniaid' wedi cael ei sefydlu, ei ymhelaethu a'i 'brofi' rywle arall ynghynt: hynny yw, nid yw haerid gwleidyddol tafladwy fel hwn yn 'gweithio' y tu allan i'r gyfundrefn gyfeiriadol y mae'n perthyn iddi. Dyma gipolwg cynnar, felly, ar gyd-ddibyniaeth y paradeim disgyrsiol yn ei gyfanrwydd. Awn ymlaen yn yr adran nesaf i drafod sut y ffurfir elfen bwysig arall yr haen gyntaf, sef nodweddion hiliol y genedl Gymreig a Basgaid.

## Rydym yn hil wahanol

Cam bach rhethregol, yng nghyd-destun ethnoleg y 19g, yw'r cam rhwng hawlio gwreiddiau gwahanol a honni bod pobl yn hil wahanol, ond dyma ran o'r paradeim disgyrsiol lle y gwelir gwahaniaeth sylweddol rhwng un testun a'r llall, rhwng un awdur a'r nesaf, a rhwng y disgwrs Cymreig a'r disgwrs Basgaid. Os yw'r mwyafrif o'n testunau yn cytuno bod

---

<sup>296</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', *Y Geninen*, Cyf. XIII/Rhif 4, Hydref 1895, tt. 252-257. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), tt. 23-41, t. 23.

gwreiddiau ein pobloedd yn wahanol i eraill, nid ydynt yn cytuno ym mha ffordd ac i ba raddau yr oedd y pobloedd hynny yn wahanol yn yr 1890au, yn enwedig o ran corff, anian, a chymeriad.

Ffurfiar honiadau bod ‘y corff Basgaidd’ yn wahanol i gorff pobloedd eraill ran sefydledig o ddisgwrs cenedlaethol Gwlad y Basg ers o leiaf y 18g, fel y bu ymdrechion i ddiffinio ei nodweddion ac i ddelfrydu ei rinweddau.<sup>297</sup> Erbyn y 1890au gwelir etifeddiaeth y traddodiad hwn yn ymddangos yn aml yn y wasg Fasgaidd ar wedd astudiaethau, trafodaethau a dadleuon ynghylch anthropoleg fiolegol y Basgiaid. Mewn cyfres o erthyglau dan y teitl ‘Consideraciones acerca de la raza vasca’ (‘Ystyriaethau ynglŷn â’r hil Fasgaidd’) o 1896, er enghraifft, mae’r gwyddonydd ac anthropolegwr enwog, Telesforo de Aranzadi, yn trafod y syniadau diweddaraf ar ‘fynegrif seffalig’ (maint penglog) y Basgiaid ynghyd â’u ffisiognomi, maint eu hesgryn, a’u taldra.<sup>298</sup> Ceisio penodi’r categori hiliol y mae’r Basgiaid yn perthyn iddo – hynny yw, ai’r ‘braquicéfalos’ ynteu’r ‘dolicocéfalos’ – y mae Aranzadi yn yr erthygl hon ynghyd â cheisio cadarnhau maint y gwahaniaeth corfforol sydd rhwng y Basgiaid, y Sbaenwyr, a’r Ffrancwyr yr ochr draw i’r Pyreneau. Gwelir elfen o’r gwahaniaethu corfforol hwn yn y wasg Gymreig hefyd yn 1891 wrth i Owen M. Edwards honni bod nodweddion ffisegol yr Iberiaid gwreiddiol (byrddra, pryd tywyll, gwallt a llygaid duon, pen hir, talcen cul, a gên hir) yn dal i’w gweld yng nghyrrff Cymry Gwent, Morgannwg a Gwynedd:

Efe [yr Iberiad] yw Siluriad Gwent a Morganwg, – gellir ei weled ar nos Sadwrn yng Nghaer Dydd neu Gasnewydd, gwelir ef yn mwynhau ac yn beirniadu canu’r Eisteddfod, ac nid anaml y cyfarfyddir ef yn nrysau Coleg yr Iesu. Trwy Gymru i gyd, yn enwedig yng Ngwent, ym Morgannwg, ac yng Ngwynedd, y mae ef wedi aros – rhoddodd ei bryd a’i athrylith i’w orchfygwyr.<sup>299</sup>

Ond nid nodweddion ffisegol, gan mwyaf, sy’n gwahaniaethu’r Cymry a’r Saeson yn nisgwrs cenedlaethol Cymru’r 19g, ond nodweddion meddyliol ac emosiynol, neu ‘gymeriad’ y bobl.

Yn ‘Y Cymeriad Celtaidd’ ym mis Rhagfyr 1895, mae’r awdur yn adrodd ar anerchiad cyhoeddus Syr Vaughan Williams ar brif nodweddion meddyliol y Celt, gan gynnwys ‘pertrwydd, dyfnder teimlad crefyddol, cariad at y celfau cain, nwyd ac egni,

<sup>297</sup> Gw. José Javier Díaz Freire, ‘La construcción de la identidad nacional vasca’, yn Ramón Talasac Hernández a José Manuel Azcona Pastor (goln), *La tribuna de ‘El Sitio’: 125 años de expresión libre en Bilbao (1875-2000)* (Ansoáin (Nafarroa): Impreso Sociedad ‘El Sitio’, 2001), yn enwedig tt. 676-679.

<sup>298</sup> Telesforo de Aranzadi, ‘Consideraciones acerca de la raza vasca’, *Euskal-Erria*, Tomo XXXV, Rhagfyr 1896, tt. 33-37, 65-72, 97-103, 129-134.

<sup>299</sup> Edwards, ‘Hanes Cymru’, t. 97.

cydymdeimlad [a] moesgarwch', ynghyd â'r '[d]uedd i wrthwynebu deddf gyhoeddus fel y mae ar wahân i ddeddf breifat y llwyth neu'r tylwyth'.<sup>300</sup> Ychwanegodd Williams nad oedd y Celtiaid yn '[d]refnus ac ymarferol' ond eu bod yn dueddol o 'ddamcanu' a 'breuddwydio am y gorphenol'. Cariad at ryddid a pharch at iawnderau dyn oedd prif nodweddion y 'Teuton' ar y llaw arall, ynghyd â:

pharch at y ddeddf pan wedi ei gwneud ganddynt eu hunain; cariad at gyfiawnder, o'r hyn lleiaf i'w cenedl eu hunain; cariad at lafur a gorphwyso ar ei ôl mewn dull cnawdol ac anifeilaidd; tuedd i ufuddhau i'r ddeddf gyhoeddus; [a] gallu rhesymegol.

'Diwyd, llafurus, rheolaidd, [ac] ymarferol' oedd y Tiwtoniaid, ac ni fyddent 'byth yn aberthu'r presennol na'r dyfodol er mwyn teimlad na breuddwydion am y gorphenol'. Ond diffyg 'syniadaeth uchel am gelf' a oedd ganddynt hefyd, sef rhinwedd, wrth gwrs, yr oedd y Celt yn rhagori ynddo yn ôl Williams.

Crynoir nodweddion y cymeriad Celtaidd yn aml yn ein herthyglau gan y term 'yr athrylith Geltaidd', neu'r 'Celtic genius' mewn testunau Saesneg. Ystyrier y darn canlynol gan J. H. Davies yn 'Wales and the English': 'among the features especially characteristic of the Welsh character, none is nobler than that reverence for intellect and genius which we find so common in the case of the poet, or a preacher, or a singer'.<sup>301</sup> Dyma gysyniad (yn dilyn trafodaethau Matthew Arnold) a gâi ei ddadansoddi a'i glodfori yn helaeth yn y wasg Gymreig yn ystod y 1890au, meddai Kenneth O. Morgan: 'in journals like *Young Wales*, *Wales*, and *Welsh Outlook*, patriots dilated upon the precise aspects of the Celtic genius displayed by Welsh businessmen, musicians, or rugby players, often with the fashionable Darwinian emphasis'.<sup>302</sup> Yn ôl Syr Vaughan Williams, er enghraifft, yr oedd yr athrylith Geltaidd hon yn rhagori ar yr 'athrylith' Diwtonaidd yn yr amseroedd cynharaf:

Canlyniad yr athrylith Geltaidd oedd y gwareiddiad hwn, ac yr oedd yn mhell o flaen eiddo'r Teuton. Dangosai'r rhestr faith o ddynion enwog godwyd fod y Celt yn meddu athrylith ddisglaer, ac yn tra rhagori ar y Teuton yn hyn.<sup>303</sup>

Ac yn ôl R. A. Griffith, byddai'r athrylith Geltaidd yn rhoi galwedigaeth neilltuol i'r Cymro yn y dyfodol, a rhestra rai o'r rhinweddau pwysicaf:

---

<sup>300</sup> [Dienw], 'Y Cymeriad Celtaidd', t. 7. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell.

<sup>301</sup> Davies, 'Wales and the English', t. 160.

<sup>302</sup> Morgan, 'Welsh nationalism', 163. Gw., er enghraifft, J. E. Lloyd, 'Athrylith y Celt', *Cenad Hedd*, 1 (1881), 179-81a 335-9.

<sup>303</sup> [Dienw], 'Y Cymeriad Celtaidd', t. 7.

That gift of seeing beyond the veil of matter which has ever distinguished the Celt, though it has hitherto found but imperfect expression; that nervous sensibility which makes him responsive to the touch of joy and sorrow, and everything that effects the emotions; that love of the communion with nature which gives to his literature a colour and charm all its own; that spontaneous eloquence that has made the preacher so powerful in the land – these are the qualities that will give the Welshman a special vocation in the arena of human endeavour.<sup>304</sup>

Yr oedd gan y cymeriad Celtaidd ddiffygion hefyd, sut bynnag, ac mae Vaughan Williams yn datgan mai diffyg ‘rhyddid personol’, neu ddiffyg unigolyddiaeth, oedd fwyaf ymysg nifer. Buddiol fyddai dyfynnu darn sylweddol o’r erthygl hon:

Yn mha beth, ynte, yr oedd y Celtiaid yn ddiffygiol? Awgrymai [Williams] fod y Celt yn dyoddef fwyaf oddiwth ddiffyg cariad at ryddid personol mewn meddwl a gweithred [...] Cyfyngid ei athrylith gan deyrngarwch i’w arweinydd dewisedig neu i un prif feddylddrych (*master idea*) [...] Onid yr elfen Geltaidd wnaeth i’r Ffrancod mewn dyddiau fu ruthro’n wallgof i geisio cydraddoldeb oedd yn anhosibl? Onid yr elfen Geltaidd oedd heddyw yn gwneud i bob Gwyddel benderfynu pob cwestiwn politicaidd, nid ar ei deilyngdod ei hun, ond yn ôl fel yr effeithia ar y syniad o Ymreolaeth? [...] Nid oedd ganddo syniad am undeb cenedlaethol, nac uchelgais uwch na llwyddiant ei dylwyth ei hun.<sup>305</sup>

Diffyg prif rinweddau Prydeinig (Seisnig) yr oes Fictoraidd (unigolyddiaeth, hunangynhaliaeth, pragmatiaeth, ymarferoldeb, parch at y drefn naturiol) oedd prif ddiffygion y Celtiaid yn ôl Williams, ac er ei fod yn cydnabod eu ‘hathrylith’, ac yn rhestri diffygion a fyddai’n rhinweddau yng ngwledydd eraill y byd Fictoraidd (cydberchnogaeth, ideaelaeth, damcaniaeth, cydraddoldeb), nid yw’n dewis gwerthuso’r cymeriad Celtaidd ar ei delerau ei hunan nac mewn cyd-destun diwylliannol rhyngwladol. Mae’r cymeriad Celtaidd yn wahanol i’r cymeriad Tiwtonaidd i Vaughan Williams, ond byddai unrhyw asesiad o’r gwahaniaeth hwnnw yn cael ei seilio yn gaeth ar delerau metropolitanaidd, Prydeinig y 1890au. Mae’n ddiddorol cymharu’r disgrifiad uchod o ddiffygion y Cymry â disgrifiad cynharach R. J. Derfel, o 1864:

Rhyw duedd blino sydd ynom gyda phopeth. Dechreuwn yn wyllt a selog dros ben; gwnawn fôr a mynydd am ychydig fisoedd; llosgwn a golewn yr holl nefoedd am ryw dro bach: ond ni fydd dim ond fflam yn y badell; derfydd yn union, a bydd yr oerni, wedi hynny, yn gyfatebol i’r gwres o’r blaen. Ond peidiwn â digaloni; yn

<sup>304</sup> Griffith, ‘Welsh Nationalism’, t. 35.

<sup>305</sup> [Dienw], ‘Y Cymeriad Celtaidd’, t. 7.



hytrach, diwygiwn; a boed i'r Nefoedd ein bendithio ag ysbryd i weithio, ac â chalon i ddyfal-barhau'.<sup>306</sup>

Yn hollbwysig, hyd yn oed i genedlaetholwr pybyr megis Derfel, nid yw cymeriad y Cymry yn ddigonol fel y mae. Mae rhaid iddo newid, neu mae rhaid i'r Cymry 'ddiwygio', ac ni allent wneud hynny oni bod y nefoedd yn rhoi 'ysbryd i weithio' a 'chalon i ddyfal-barhau' iddynt. Dyma ddisgwrs o wahaniaethu hiliol, neu wahaniaethu ethnig (sef disgwrs cenedlaethol), yn sicr, ond dyma ddisgwrs sy'n rhoi diffygion cymeriad sylweddol i'r bobl frodorol a'r diffyg i gymryd eu ffawd yn eu dwylo eu hunain (sef disgwrs trefedigaethol). Ni wyddom i ba raddau y gellid disgrifio'r diffygion a briodolwyd i'r Cymry gan yr awduron uchod yn 'fenywaidd' a 'sentimental', a'r cywiriadau a welant yn angenrheidiol yn 'wrywaidd', ond diddorol yw nodi dadl Helena Miguélez-Carballeira yma mai dyna'r union nodweddion a briodolid i bobl Galisia yn y 19g gan ddisgwrs 'benyweiddio' a 'choloneiddio' Sbaen.<sup>307</sup>

Roedd gan y dalaith Fasnagidd Nafarroa ei hathrylith ei hun, meddai Arturo Campión yn ei gyfrol enwog o 1884-1888, *El genio de Navarra* (Athrylith Nafarroa), ac roedd cymeriad y Basgiaid yn wahanol i gymeriad y Sbaenwyr yn ôl rhan helaeth o'n hawduron hefyd.<sup>308</sup> Yn wir, crynhowyd y cymeriad hwn yn aml yn ein herthyglau gan defnyddio'r geiriau *tenacidad* ac *orgullo*, sef unplygrwydd a balchder. Yr oedd yn well i'r Basgiaid 'dorri cyn plygu' yn ôl awdur anhysbys yn *Euskalduna* yn 1896 er enghraifft, ac yn ôl Sabino Arana yn *Bizkaitarra* ym mis Ionawr 1895, gwell gan y Basgiaid fynd heb fwyd na gofyn am elusen, yn wahanol i'r Sbaenwyr a oedd yn fwy tebygol o fod yn 'gardotwyr proffesiynol'.<sup>309</sup> At hynny, gallai unplygrwydd y Basgiaid 'gyflawni llawer iawn' pes cyfeirid at 'achosion urddasol', yn ôl awdur 'Lo que somos y lo que queremos' ('Yr hyn a ydym a'r hyn a ddymunwn') yn *Euskalduna* yn 1896.<sup>310</sup>

Ond nid hil unedig ac iddi gymeriad unigol oedd y Basgiaid yn ôl awduron eraill. Hil wedi'i rhannu yn ddwy garfan oedd y Basgiaid i Pedro Lino Munárriz yn 'Los Bascos:

---

<sup>306</sup> R. J. Derfel, 'Pethau a wnawn pe bai gennyf arian' (1864). Ailgyhoeddwyd yn D. Gwenallt Jones (gol.), *Detholiad o Ryddiath Gymraeg R. J. Derfel: Cyfrol I* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1945), tt. 112-118, t. 118).

<sup>307</sup> Gw. Miguélez-Carballeira, *Galicia, a Sentimental Nation*.

<sup>308</sup> Arturo Campión, *El genio de Navarra*.

<sup>309</sup> 'Y con la tenacidad propia del carácter vascongado, del cual se dijo que antes se quiebra que se tuerce': [dienw], 'Lo que somos', t. 9. 'Mendigos de profesión': Sabino Arana, '¡Caridad!', *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 2.

<sup>310</sup> 'La tenacidad vascongada, puesta al servicio de causas nobles, puede mucho, muchísimo': [dienw], 'Lo que somos', t. 9.

etnografía/carácter' ('Y Basgiaid: ethnograffeg/cymeriad') o 1896, er enghraifft, a hynny o ganlyniad i fasnachu â phobloedd cyfagos yn y gorffennol a goresgyniad Iberia gan y Mwriaid:

Mae'r gwahaniaethau rhwng cymeriad Basgiaid yr iseldiroedd a chymeriad Basgiaid y mynyddoedd mor amlwg [...] nes y byddai'n ymddangos mai dwy bobl wahanol ydynt sy'n rhannu'r un enw.<sup>311</sup>

Pobl wahanol oedd Basgiaid yr ucheldiroedd a Basgiaid yr iseldiroedd ym marn Munárriz, felly, ac mae'n mynd ymlaen i ddisgrifio'n fanwl y gwahaniaethau a welir yn eu pryd a'u gwedd:

Mae preswlydd y mynyddoedd yn dangos ei darddiad yn ei wyneb ei hun; trwyn eryraidd, llinell gên gref, aelïau trwchus, a thoriad penodol ar yr wyneb, sydd, ynghyd â'i wedd ddiymhongar, yn awgrymu purdeb gwaed yr hil gynhenid Fasgaidd [...] Prin y mae gan [Fasgiad yr iseldiroedd] unrhyw beth yn gyffredin â Basgiad y mynyddoedd: mae'r amrywiaeth yn ei nodweddion yn datguddio cyfuno neu gymysgu gydag hen breswylwyr eraill yr hen Sbaen, a hyd yn oed cysylltiad â'r hil Foslemaidd; ac oherwydd ei garedigrwydd a'i ysbryd, ei lygaid cul a'i liw croen brown, gall sylwedydd astud adnabod tebygrwydd a charennydd â'r hil Foslemaidd hon.<sup>312</sup>

Nid eu pryd a gwedd yn unig a oedd yn wahanol ym marn Munárriz, ond eu cymeriad a'u personoliaeth hefyd, fel yr oedd agweddau eu menywod tuag at garwriaeth ac agweddau eu dynion ifainc tuag at addysg.<sup>313</sup> Yn ychwanegol at hynny, nid oedd amheuaeth fod ymddygiad Basgiaid yr iseldiroedd yn waeth nag ymddygiad Basgiaid yr ucheldiroedd, a hynny oherwydd 'arglwyddiaeth y Mwriaid', meddai Munárriz.<sup>314</sup> Ond roedd nifer o bethau yn dal i rwymo'r ddwy bobl Fasgaidd hyn at ei gilydd, sef cariad at eu 'hannibyniaeth draddodiadol', serch tuag at eu '*fueros* hynafol', ymrwymiad i'w 'cyfansoddiad enghreifftiol', a gwrthwynebiad i 'gyfundrefnau newydd eraill'. Byddai'r pethau hyn, yn ôl Munárriz, yn 'lleddfu gwahaniaethau distadl' ac yn 'cryfhau undeb y Basgiaid-Nafarroaid' yn y pen draw.<sup>315</sup>

---

<sup>311</sup> 'Las diferencias entre el carácter del ribereño y del montañés son tan marcadas [...] parecería que eran dos pueblos distintos con una misma denominación': Munárriz, 'Los Bascos: etnografía/carácter', t. 166.

<sup>312</sup> 'El habitante de la montaña trae el sello de su origen en su misma faz; nariz aguileña, barba más ó menos saliente, cejas espejas, corte especial del rostro, que, unido á su mesurado continente, acusan la raza indígena, la pureza de la sangre vasca [...] Apenas tiene [el ribereño] cosa común con el montañés: la diversidad en sus facciones acusa la fusión ó mezcla con otros antiguos pobladores de la vieja España y hasta el enlace con la raza musulmíca, con quien, por su gentileza y talento, por sus rasgados ojos y color moreno de su tez [...] fantasea semejanza y parentesco la inteligencia del atento observador': Munárriz, 'Los Bascos: etnografía/carácter', tt. 167-168.

<sup>313</sup> Munárriz, 'Los Bascos: etnografía/carácter', t. 167.

<sup>314</sup> 'Dominación agarena': Munárriz, 'Los Bascos: etnografía/carácter', t. 167.

<sup>315</sup> Munárriz, 'Los Bascos: etnografía/carácter', t. 168.

Mae'n ddiddorol nodi yn yr enghraifft hon sut mae'r awdur yn creu math o Fasgiad hybrid na all rannu holl nodweddion pur y bobl gyntefig oherwydd ei gysylltiad â hil arall y cyffindiroedd, ond na all berthyn i'r bobl estron honno chwaith oherwydd ffactorau diwylliannol a'i rwyma o hyd wrth ei gefndir. Dynwared i ryw raddau, yn ymwybodol neu yn isymwybodol, ddisgwrs imperialaidd prif ffrwd y cyfnod y mae Munárriz, gan gategoreiddio poblogaeth Gwlad y Basg yn dri: ni (y Basgiaid go iawn), yr arall (y Sbaenwyr), a'r cymysgryw (Basgiaid y cyffindiroedd). Diddorol yw cymharu geiriau'r Cymro David Lloyd George mewn llythyr a ysgrifennodd at ei wraig o Dredegar (ardal wedi'i Seisnigo) ym mis Tachwedd 1895:

Mi ges gyfarfod ardderchog neithiwr, er nad ydi'r cynulleidfaoedd yn yr ardaloedd hanner-Seisnig yma ddim i'w cymharu â'r rheini gaf i yn yr ardaloedd Cymraeg. Yma mae'r bobl wedi suddo i ryw ffwtboliaeth anfywydol.<sup>316</sup>

Mae'n eglur bod un o genedlaetholwyr Cymreig amlycaf y cyfnod o'r farn bod dwy garfan o Gymry yn byw yng Nghymru yn y 1890au: y Cymry glân, a Chymry hybrid, 'hanner-Seisnig', o gymoedd diwydiannol y de.

Wele olion disgwrs imperialaidd yn y ddau ddisgwrs, felly, ond mwy diddorol byth yw'r cymysgu a welir yn y darn Basgaid wrth i ddisgwrs cenedlaethol Basgaid dorri i mewn a chynnig moddion i'r ddwy bobl Fasgaid ddod at ei gilydd a 'lleddfu gwahaniaethau distadl' trwy ddiwylliant ac arferion. Dyma gystadleuaeth fyw rhwng (1) disgwrs trefedigaethol sy'n rhannu poblogaeth y genedl a gwanhau potensial gwleidyddol y Basgiaid a (2) disgwrs cenedlaethol pragmataidd sy'n chwilio am unrhyw ffordd i fynd â'r prosiect cenedlaethol yn ei flaen: dyma densiwn parhaol arall a welir ar draws y paradeim disgrysiol.

Awgrymiadau cynnil o wahaniaeth hiliol tybiedig rhwng y Basgiaid a'r Sbaenwyr a welir yn y darn uchod o'r cylchgrawn *Euskal-Erria* o'i gymharu ag erthyglau Sabino Arana yn y cylchgrawn *Bizkaitarra* yn y 1890au. Cysegrodd Arana erthygl ar ôl erthygl, wythnos ar ôl wythnos, i ddisgrifio rhinweddau'r 'raza euskeriana' (yr 'hil Fasgaid') a diffygion yr hil Sbaenaidd, dwy hil a oedd yn 'sylweddol wahanol' yn ei farn ef.<sup>317</sup> Gweler y datganiadau

---

<sup>316</sup> David Lloyd George: llythyr at ei wraig o Dredegar, Tachwedd 1895. Cyfieithwyd i'r Gymraeg a dyfynnwyd gan Dafydd Glyn Jones yn *Hen Lyfr Bach: Lloyd George*, t. 18.

<sup>317</sup> Sabino Arana, 'La pureza de raza', *Bizkaitarra*, Año III/Número 24, 31 Mawrth 1895, t. 1. 'Etnográficamente hay diferencia entre ser español y ser euskeriano, la raza euskeriana es sustancialmente distinta a la raza española': Sabino Arana, 'Minuta contra errores Carlistas', *Bizkaitarra*, Año II/Número 11, 29 Mehefin 1894, tt. 3-4.

isod o fis Mehefin 1895, er enghraifft; datganiadau a godwyd o baragraff tair gwaith maint y darn hwn sy'n dilyn yr un patrwm:

Mae ffisiognomi'r Biscaiad yn ddeallus ac yn urddasol; mae ffisiognomi'r Sbaenwr yn anadweithiol a sarrug. Mae'r Biscaiad yn cerdded yn olygus a dynol; nid yw'r Sbaenwr yn gwybod cerdded (y conscript er enghraifft), neu os yw'n cerdded yn olygus, mae'n cerdded mewn ffordd fenywaidd (yr ymladdwr teirw er enghraifft). Mae'r Biscaiad yn athletaidd ac yn ystwyth; mae'r Sbaenwr yn ddiog ac yn afrosgo. Mae'r Biscaiad yn ddeallus ac yn fedrus ar gyfer pob math o swyddi; mae'r Sbaenwr yn brin ei wybodaeth ac nid oes ganddo sgil ar gyfer y gwaith symlaf [...] Mae'r Biscaiad yn llafurus (gweler ei fynyddoedd wedi'u hamaethyddu hyd at y brig); mae'r Sbaenwr yn swrth ac yn ddiog (ystyrier ei wastadeddau anferth heb lystyfiant o gwbl). Mae'r Biscaiad yn fentrus [...]; nid yw'r Sbaenwr yn mentro neu feiddio i wneud dim byd, nid yw o werth am ddim byd (edrychwch ar gyflwr ei drefedigaethau).<sup>318</sup>

Enghraifft eglur iawn o wrthwynebiad llwyr rhwng 'ein hil' ac 'eu hil' sydd yma yn nisgwrs Sabino Arana, disgwrs sy'n gwahaniaethu nodweddion ffisegol, meddyliol, ymddygiadol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y ddwy bobl. Ond mae'n eglur hefyd nad gwahaniaethau niwtral eu gwerth sy'n nodweddi'r ddwy hil i Arana, ond mae un ohonynt yn 'well' ac un yn 'waeth', ac wrth gwrs, mae'r clod yn mynd i'r Basgiaid bob tro yn erthyglau Sabino Arana.<sup>319</sup> Byddwn yn dychwelyd at y cam disgyrsiol hwn o werthfawrogi'r gwahaniaeth, neu ddyrchafu'r 'ni' a diraddio'r 'nhw', yn nes ymlaen yn y bennod hon, ond digon yw dweud am y tro fod gwahaniaeth hiliol llwyr, elfennol, a hanfodol rhwng y Basgiaid a'r Sbaenwyr yn nodwedd ddisgyrsiol amlwg yng ngwaith rhai o'n hawduron mwyaf eithafol.

---

<sup>318</sup> 'La fisonomía del bizkaino es inteligente y noble; la del español inexpresiva y adusta. El bizkaino es de andar apuesto y varonil; el español, o no sabe andar (ejemplo, los quintos), o si es apuesto, es tipo femenino (ejemplo, el torero). El bizkaino es nervudo y ágil; el español es flojo y torpe. El bizkaino es inteligente y hábil para toda clase de trabajos; el español, es corto de inteligencia y carece de maña para los trabajos más sencillos [...] El bizkaino es laborioso (ved labradas sus montañas hasta la cumbre); el español, perezoso y vago (contemplad sus inmensas llanuras desprovistas en absoluto de vegetación). El bizkaino es emprendedor [...]; el español nada emprende, a nada se atreve, para nada vale (examinad el estado de sus colonias)': Sabino Arana, '¿Qué somos? (IV)', *Bizkaitarra*, Año III/Número 29, 30 Mehefin 1895, tt. 1-2.

<sup>319</sup> Mae Teresa Fernández Ulloa yn ymhelaethu ar y gwahaniaeth a wêl Sabino Arana rhwng 'ni/nhw', 'moesol/anfoesol', 'arwr/dihiryn', 'ni'r cenedlaetholwyr Basgaid/yr arall (pawb)' yn 'La fuerza del mito en el discurso político nacionalista de Sabino Arana Goiri', *Revista Electrónica de Estudios Filológicos*, 6 (2003), <http://www.um.es/tonosdigital/znum6/estudios/fernandezulloa.htm> [cyrchwyd: 22 Hydref 2014], t. 18 yn benodol.

## Mae gennym iaith wahanol

Mae sefydlu ‘ni’ a ‘nhw’ fel pobloedd hanfodol wahanol yn hollbwysig i’r ddau ddisgwrs cenedlaethol yr ydym yn eu dadansoddi yn yr astudiaeth hon, ond nid yw’n ddigon ar ei ben ei hun. Er mwyn i rannau eraill o’r paradeim ddisgyrsiol weithio, mae angen i ‘ni’ feddu ar bethau, neu mewn geiriau eraill, mae angen fod gennym ‘eiddo’: ac mae ‘ein hiaith ein hunain’ ymysg eiddo pwysicaf y Cymry a’r Basgiaid yn nisgwrs cenedlaethol y 1890au.

Iaith unigryw yw’r Fasgeg (neu ‘Euskara’ yn yr iaith ei hun), heb na theulu na pherthnasau yn y byd cyfoes. Dyma iaith sy’n tarddu o ragiaith (*proto-language*) anhysbys. Honna rhai ieithyddion fod ganddi gysylltiad ag iaith yr Iberiaid, ond pwnc llosg yw hwn ymysg yr arbenigwyr, a’r mwyaf y gallant gytuno arni yw ei bod yn iaith gyn-Indo-Ewropaidd, sef iaith a fodolai yn Ewrop cyn cyrraedd o’r llwythi Indo-Ewropaidd yn ystod yr Oes Efydd.<sup>320</sup> Mae’n bosibl, felly, y siaredir rhyw ffurf neu ei gilydd o Fasgeg ar draws Euskal Herria ers y flwyddyn 4000 CC, neu hyd yn oed ers 9000 CC.<sup>321</sup>

Ynghyd â gweddill gorynys Iberia daeth Gwlad y Basg o dan awdurdod yr Ymerodraeth Rufeinig o tua 200 CC tan OC 415, ond er bod y Rhufeiniaid yn anheddu gwastadeddau’r ardal, prin oedd eu presenoldeb a’u dylanwad gwleidyddol yn yr ucheldiroedd.<sup>322</sup> Cyhyd â bod y llwythi Basgaid yn heddychlon, ac nid oeddent yn bygwth rhwydwaith trafniadaeth yr Ymerodraeth rhwng de Ffrainc a gwastadeddau gogledd Sbaen, ymddengys bod eu trefniadau beunyddiol yn cael aros yn weddol annibynnol yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid.<sup>323</sup> Byddai’r annibyniaeth hon oddi wrth y Rhufeiniaid yn destun balchder i genedlaetholwyr y 1890au maes o law, ac mae’n ddiddorol sylwi mai ‘yn llwyr rydd ac awtonomaidd’ oedd Gwlad y Basg yng nghyfnod y Rhufeiniaid yn ôl un awdur yn 1895, wedi’i pharchu gan yr Ymerodraeth ac yn darparu ‘gwasanaethau pwysig’ iddi.<sup>324</sup>

---

<sup>320</sup> Iñaki Egaña, *Breve Historia de Euskal Herria* (San Sebastián-Donostia: Txertoa Argitaletxea, 2013), t. 11.

<sup>321</sup> Evans, *Gwlad y Basg*, t. 11. Ceir crynodeb o darddiad yr iaith Fasgeg ac arolwg cryno yn Saesneg o’i defnydd cyfredol a’i statws cyfreithiol yn y gwahanol daleithiau Basgaid, ynghyd â’i lle yn y gyfundrefn addysg yn Jasone Cenoz a Josu Perales, ‘The Basque-speaking communities’, yn María Teresa Turell (gol.), *Multilingualism in Spain* (Clevedon: Multilingual Matters, 2001), tt. 91-109.

<sup>322</sup> Sefydlodd y Rhufeiniaid dref bwysig yn Iruñea yn 77 CC a chanolfan filwrol sylweddol ar arfordir Môr Gwasgwyn ym Maewn (Baiona/Bayonne). ‘Pompaelo’ oedd Iruñea i’r Rhufeiniaid, gwraidd yr enw Sbaeneg presennol, Pamplona.

<sup>323</sup> Evans, *Gwlad y Basg*, t. 12.

<sup>324</sup> ‘Completamente libre y autónomo’; ‘La Euskal-Erria en cambio, respetada por la poderosa Roma, vivió del todo libre y aliada á la misma, prestándole importantes servicios por mar y por tierra en España y la Aquitania’: Soralue, ‘El Marinero Euskaldun’, t. 506.

Yn hyn o beth, roedd profiad y Basgiaid cynnar yn debyg i eiddo'r Brythoniaid a drigai yn ucheldiroedd Cymru a gogledd *Provincia Britannia*. Roedd y ddwy bobl yn byw o dan yr un math o lywodraeth filwrol a masnachol Rhufeinig, ac o ganlyniad, gwelwyd yr un effaith arwynebol ar eu hieithoedd brodorol, ieithoedd a fyddai'n 'goroesi' cysylltiad yr Ymerodraeth a'r goresgyniadau paganaidd oedd i ddod.<sup>325</sup> Yn wahanol i Saesneg a Sbaeneg, felly, ieithoedd cyn-Rufeinig ac ieithoedd 'gwreiddiol' y ddwy wlad yw Cymraeg a Basgeg, a byddai'r gwahaniaeth a'r hynafiaeth hon yn porthi disgysiau cenedlaethol y ddwy wlad yn y 19g. Yn wir, yn ôl un awdur Basgaid yn 1895, roedd Gwlad y Basg yn 'hollol rydd' o 'dragrwyddiaeth' y Fisigothiaid, Sgandinafiaid, Mwriaid a'r Normaniaid.<sup>326</sup>

Annhebyg bod llawer o Gymry'r 1890au yn credu, fel y credai 'Miss Brower' o Wilkesbarre, Pensylfania, mai iaith 'Adda ac Efa yn Ngardd Eden' oedd y Gymraeg, ond mae'n bosibl bod mwy ohonynt yn rhannu barn Emrys ap Iwan fod meddu ar iaith wahanol yn ganolog i fodoli fel pobl a chenedl.<sup>327</sup> 'Ddim amgen na Saeson heb eu llwyr wareiddio' fyddai'r Cymry 'os na bydd gennym iaith wahanol', meddai Emrys mewn erthygl yn *Y Geninen* ym mis Hydref 1895, wrth fynd ymlaen i honni mai'r 'unig wrthglawdd rhyngom a diddymdra' oedd yr iaith Gymraeg yn y pen draw.<sup>328</sup> Yn yr un modd, byddai Owen M. Edwards yn datgan sawl degawd yn ddiweddarach: 'y mae i Gymru ei hiaith ei hun, ac ni fedr gadw ei henaid hebddi'.<sup>329</sup> Ni all pobl fod yn bobl go iawn heb feddu ar ei hiaith ei hunan yn ôl Emrys ac Edwards felly, a 'llawer mwy' na ffordd o gyfathrebu yn unig oedd iaith briodol i rai o'n hawduron yn y wasg Fasgaid yn y 1890au hefyd.<sup>330</sup> 'Prawf' a roddai 'gyfreithlondeb' i draddodiad annibynnol Gwlad y Basg oedd y Fasgeg i awdur anhysbys yn *Euskalduna* yn 1896, ac mae'n werth ystyried ei ddatganiadau yn llawnach:

Nid yw iaith benodol neu iaith yn gyffredinol yn gyfrwng defnyddiol i ddynion gyfathrebu a mynegi perthnasau bywyd yn unig; mae'n rhywbeth mwy, llawer mwy. Mae'n werth cymaint â hanes y bobl ei hun, ac yn adlewyrchu mwy na'i ffordd o fyw neu'i chymeriad yn unig, ond hefyd ffaith wreiddiol ei hannibyniaeth a'i

---

<sup>325</sup> 'Dylanwadwyd ar iaith y Basg gan y Rhufeiniaid, ond ni ddisodlwyd Euskara gan Ladin. Fel Cymraeg cynnar, y Fasgeg yw un o'r ychydig ieithoedd brodorol a fu dan reolaeth y Rhufeiniaid ac a oroesodd ac a ffynnodd wedi hynny'. Evans, *Gwlad y Basg*, t. 13.

<sup>326</sup> 'Encastillados los vascos en sus montañas, vivieron siempre en constante lucha con los visigodos, quedando el país completamente libre de su dominación'; 'Ni los 'escandinavos', normandos, *vikings*'; 'Desde la invasión sarracena, de cuya dominación se vió también completamente libre la Euskal-Erria': Pedro M. de Soraluece, 'El Marinero Euskaldun', tt. 522-23.

<sup>327</sup> Griffith, 'Dyfodiad y Cymry i Brydain', t. 2.

<sup>328</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', tt. 23-24.

<sup>329</sup> Owen M. Edwards, 'Enaid Cenedl', *Cymru*, Cyf. LIV/Rhif 318 (1918), tt. 11-12. Ailgyhoeddwyd yn Thomas Jones (gol.), *Yn y Wlad ac Ysgrifau Eraill gan Syr O. M. Edwards* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1958), t. 188.

<sup>330</sup> [Dienw], 'La Lengua Euskara', *Euskalduna*, Año I/Número 1, 13 Medi 1896, t. 3.

phersonoliaeth wleidyddol [...] Dyna pam mae'r iaith Fasgeg yn fwy na ffordd i garfan o unigolion sydd wedi cael eu carcharu yn rhydd yn y mynyddoedd gael ddangos eu hanghenion i eraill o'u hil [...] Mae'n brawf o holl draddodiadau cyfreithlon y bobl Fasgaid, traddodiadau a etifeddiwyd ac sy'n ffurfio ei hawliau diamheuol.<sup>331</sup>

Roedd meddu ar iaith wahanol yn diffinio pobl neu genedl yn llygaid yr awduron Cymreig a Basgaid uchod felly, a thrwy feddu ar y Gymraeg ac ar y Fasgeg, roedd y Cymry a'r Basgiaid wedi cyrraedd y safon angenrheidiol: pobl 'gyfreithlon' oeddent felly.

Gwelir olion cryfion o fotiffau disgyrsiol hŷn yma, sef disgyrsiau hanesyddoliaeth (*historicism*) a chenedlaetholdeb Rhamantaidd yr Almaen, a disgyrsiau meddylwyr penodol megis Johann Gottfried Herder.<sup>332</sup> Bu Herder a'i ddilynwyr Fichte a Wilhelm von Humboldt yn dadlau ar ddiwedd y 18g mai ar sail ei hiaith y ffurfir *Volk* (gwerin) penodol, ac ar sail iaith y dylai ffiniau cenedloedd (a gwladwriaethau) gael eu sefydlu.<sup>333</sup> Yn yr un modd, roedd y Ffrancwr Jean-Jacques Rousseau wedi datgan yn ei draethawd ar wreiddiau ieithoedd yn 1781 mai 'iaith sy'n gwahaniaethu cenedloedd oddi wrth ei gilydd'.<sup>334</sup> Treiddiai syniadau Rhamantaidd am iaith a hunaniaeth i bob agwedd o athroniaeth wleidyddol Ewrop yn ystod y 19g, yn enwedig i feddwl cenedlaetholwyr canol a dwyrain Ewrop, ac fel mae Simon Brooks wedi dangos yn ddiweddar, i feddwl nifer o awduron Cymreig y 1820au a 1830au megis Samuel Roberts (Llanbryn-mair) ac aelodau 'cylch Llanofor' Augusta Hall megis Christian Bunsen a Thomas Price (Carnhuanawc).<sup>335</sup> Gwelir mwy nag ychydig o naws

---

<sup>331</sup> 'El idioma ó lengua en general no es un simple signo útil para la comunicación de los hombres y expresión de las relaciones de la vida; es algo más, mucho más. Vale tanto como la historia misma de los pueblos, en que entra á más de su modo de ser ó carácter, el hecho originario de su independencia [...] Por eso la lengua euskara no es solamente el medio cómo una porción de individuos encerrados libremente allá en sus montañas, manifiestan sus necesidades á los de su raza [...] Es la prueba de toda la tradición legítima del pueblo euskaldun, tradición heredada y que constituye su incuestionable derecho': [dienw], 'La Lengua Euskara', t. 3.

<sup>332</sup> Yn *Treatise on the Origin of Language* (1772) mae Herder yn dadlau mai iaith yw mynegiant pwysicaf cenedligrwydd a bod ysbryd y *Volk* yn cael ei fynegi trwy iaith. Am gyfieithiad o'r *Treatise* i'r Saesneg, gw. Michael N. Forster (cyf. a gol.), *Johann Gottfried von Herder: Philosophical Writings* (Cambridge: Cambridge University Press, 2002), tt. 65-165. Ceir syniadau Johann Gottlieb Fichte ar y genedl 'organig' yn ei *Addresses to the German Nation* (1807-08); gw. R. F. Jones a G. H. Turnbull (goln), *Addresses to the German Nation by Johann Gottlieb Fichte* (London: The Open Court Publishing Company, 1922). Mewn traethawd cymharol fyr gan Isaiah Berlin ar Herder ceir crynhoed safonol o'i syniadau: Isaiah Berlin, *Vico and Herder: Two Studies in the History of Ideas* (London: The Hogarth Press, 1976), tt. 145-216. Ceir arolwg hygyrch ar ei athroniaeth yn *Stanford Encyclopedia of Philosophy* [ar-lein]: <https://plato.stanford.edu/entries/herder/#PoliPhil> [cyrchwyd: 20 Ebrill 2019]. Mae R. Tudur Jones yn rhoi crynodeb defnyddiol o genedlaetholdeb rhamantaidd Herder a Fichte o bersectif Cymreig yn *The Desire of Nations* (Llandybie: Christopher Davies, 1974), tt. 122-123. Gw. hefyd Elie Kedourie, *Nationalism*, Fourth Edition (Oxford: Blackwell, 1992), tt. 44-55.

<sup>333</sup> Gw. Barnard, *Herder's Social and Political Thought*, tt. 55-62.

<sup>334</sup> J. J. Rousseau, 'Essay on the origin of languages', dyfynnir yn Craig Patterson, *Galician Cultural Identity in the Works of Ramón Otero Pedrayo* (Lampeter: The Edwin Mellen Press, 2006), t. 135.

<sup>335</sup> Mae Brooks yn trafod dylanwad syniadau Herder a Fichte ar genedlaetholwyr Bohemia ac Estonia, er enghraifft, ac ar Samuel Roberts a chylch Llanofor yn benodol yn *Pam na fu Cymru*, tt. 28-29 a tt. 40-44. Yn ei dro, mae Ifan Morgan Jones yn trafod dadansoddiad Brooks o ddylanwad Herder ar genedlaetholdeb Cymreig

Herderaidd, er enghraifft, yng ngeiriau'r cenedlaetholwr Cymreig Michael D. Jones yn 1848 wrth iddo freintio iaith uwchben pob lluniad diwylliannol arall:

A ydyw ein hiaith, ein harferion, ein crefydd a'n moesau fel cenedl, ddim yn werth eu cadw i fyny? Ac onid ydyw hanes ein cenedl yr ochr hyn i'r Werydd, yn gystal a'r ochr draw, ddim yn profi fod colli ein hiaith yn golli y tri eraill?<sup>336</sup>

Yn yr un modd, byddai syniadau Rhamantaidd yn treiddio i athroniaeth, llenyddiaeth a gwleidyddiaeth Sbaen erbyn ail hanner y 19g hefyd, gyda champweithiau llenyddol megis *Historia crítica de la literatura española* (Hanes beirniadol llenyddiaeth Sbaeneg) (1861-65) gan Amador de los Ríos, er enghraifft, 'wedi'i drwytho' gan syniadau Herder.<sup>337</sup>

Mae'n bwysig nodi, sut bynnag, nad oedd pob awdur a meddyliwr yn rhoi cymaint o bwyslais ar iaith fel unig (neu brif) faen prawf cenedligrwydd Cymru a Gwlad y Basg erbyn y 1890au, a gwelwn awgrym o'r newidiadau disgysiol ehangach hyn mewn rhai o'n testunau. Yn ôl J. Herbert Lewis, un o arweinwyr amlwg y mudiad Cymru Fydd, mewn araith yn 1895, 'er nad oedd cenedlaetholdeb Cymreig yn dibynnu ar ein hiaith, eto yr oedd ein hiaith yn amlwg yn ein cenedlaetholdeb'.<sup>338</sup> Hynny yw, 'pwysig yw'r iaith i'n cenedlaetholdeb, ond nid yw'n bopeth'. Yn yr un modd, rhoddai Sabino Arana ac aelodau eraill y EAJ-PNV lawer mwy o bwyslais ar hil fel sail y genedl nag a roddai cenedlaetholwyr diwylliannol pleidiau Basgaid eraill megis y *fuertistas*. Yn wir, aethant mor bell â beirniadu'r Catalaniaid am hybu polisi o addysgu Catalaneg i fewnfudwyr o Gastilia yn lle hybu polisi o yrru'r mewnfudwyr allan o'r wlad.<sup>339</sup> Dyma un o'r tensiynau parhaol a welir ar draws y ddau ddisgwrs felly, wrth

---

yn y 19g yn ei draethawd PhD diweddar: Ifan Morgan Jones, 'Ymrestru o dan y Faner: Dadansoddiad o'r modd yr atgynhyrchwyd cenedlaetholdeb gan sefydliadau a gweisg Cymraeg Cymru yn y 19eg ganrif' (Traethawd PhD: Prifysgol Bangor, 2018), gw. tt. 74, 126, a 135-137 yn benodol. Mae Robin Okey yn gwneud defnydd helaeth o syniadau Herder hefyd yn ei ddadansoddiad o genedlaetholdeb di-wladwriaethol Ewrop yn y 19g, gw. Robin Okey, 'Iaith ac addysg cenedloedd di-wladwriaeth yn Ewrop, 1800-1918', yn Prys Morgan (gol.), *Brad y Llyfrau Gleision: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), tt. 201-222; ac Okey, 'leithoedd llai eu defnydd', tt. 607-640. Diddorol yw nodi bod J. R. Jones yn defnyddio dyfyniadau gan Herder a Fichte fel arysgrifau ar ddechrau ac ar ddiwedd ei gyfrol pwysig o 1966, *Prydeindod* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw).

<sup>336</sup> Darn o lythyr gan Michael D. Jones i'r *Cenhadwr Americanaidd* yn Rhagfyr 1848. Dyfynnir yn R. Tudur Jones, 'Michael D. Jones a thynged y genedl', yn E. Wyn James a Bill Jones (goln), *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2009), tt. 60-83, t. 61.

<sup>337</sup> Patterson, *Galician Cultural Identity*, t. 142.

<sup>338</sup> [Dienw], 'Cenedlaetholdeb Cymru', t. 5.

<sup>339</sup> Gw. Sabino Arana, 'Errores catalanistas', *Bizkaitarra*, Año II/Número 16, 31 Hydref 1894, t. 3. Gw. hefyd José Luis de la Granja Sainz, 'El antimaketismo: la visión de Sabino Arana sobre España y los Españoles', *Revista de Historia*, 19 (2006), 197. Mae swyddogaeth iaith yn nisgwrs cenedlaethol Arana yn wahanol iawn i'w swyddogaeth yn nisgwrsiaid cenedlaethol Catalwnia a Galisia: 'A diferencia del catalanismo y del galleguismo, el nacionalismo vasco dio mucha más importancia a la raza que a la lengua como base de la nacionalidad. Arana admitía la posible existencia del pueblo vasco sin euskera, pero no sin la raza vasca [...] El idioma vasco era un elemento importante de su concepción de nación, pero lo subordinaba a la raza y a la religión. El euskera le servía de baluarte para defender la raza y la religión': Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 20.



i hen ddisgyrsiau Herderaidd gystadlu â disgyrsiau newydd megis ethnoleg hiliol yn achos Arana, a dinasyddiaeth ryddfrydol yn achos Lewis.

## **Mae gennym arferion, cyfreithiau a sefydliadau gwahanol**

Yn ogystal ag iaith, roedd hen arferion y *Volk* yn ganolog i athroniaeth genedlaethol Herder.<sup>340</sup> Roedd gan bob pobl, neu 'werin', eu gwisg, eu bwyd, eu ffyrdd o weithio, eu ffyrdd o gymdeithasu, eu cyfreithiau a'u sefydliadau unigryw yn ei farn ef, ac roedd yr hen arferion hyn yn ymgorffori 'ysbryd' eu hunaniaeth dorfol. Diffinnid cenedloedd gan y pethau hyn yn ôl Herder felly, a dim ond trwy eu cynnal, dathlu ac amddiffyn y gallai cenedl wireddu ei photensial. Byddai'r athroniaeth hon yn treiddio i ddisgwrs cenedlaethol Cymru a Gwlad y Basg yn ystod y 19g, a gwelwn ei olion amlwg yng ngwaith Michael D. Jones ac Agustin Chaho, er enghraifft. Parhaodd y dylanwad hwn hyd ddiwedd y ganrif ac erbyn y 1890au roedd y motiff yn hollbresennol yn y wasg: roedd y Cymry a'r Basgiaid yn meddu ar arferion, ac roedd yn bwysig eu dathlu, eu hamddiffyn a'u diwygio.

Roedd prif ddisgybl athroniaeth Herderaidd yng Nghymru, Michael D. Jones, yn dal i ysgrifennu yn y wasg yn y 1890au, gan amddiffyn yn ffyrnig hen fywyd y werin Gymreig. Yn wir, 'ymgorfforiad o hen fywyd y Bala' oedd Michael D. Jones yn ôl D. Gwenallt Jones, â'i ddillad o frethyn cartref, crys o wlanen a chlos pen-glin, esgidiau wedi eu llunio gan grydd gwlad, a'i fwyd Gymreig syml megis uwd, sucen llaeth, caws Caerfyrddin, a mêl.<sup>341</sup> At hynny, cadwodd Jones wenyn yn ei gartref yn y Bala ac ysgrifennodd lyfr ar yr hen arfer hwn yn 1888 ynghyd ag erthygl yn hyrwyddo 'nwyddau gwisg y Cymry' yn *Y Celt* yr un flwyddyn.<sup>342</sup> Gwelwn yr un fath o amddiffyniad o fywyd gwerinol y Basgiaid yn y wasg Fasgaidd yn yr un cyfnod. Yn 'El labrador' ('Y gweithiwr gwledig') o 1896, er enghraifft, mae awdur anhysbys yn dathlu diniweidrwydd, diwydrwydd, duwioldeb a bonedd y gweithiwr gwledig Basgaidd: 'mae symlrwydd ei arferion, ei deimladau urddasol, a'i gymeriad gonest ac agored yn ei wneud yn deilwng o anrhydedd a gwerthfawrogiad pawb'.<sup>343</sup> Yn y ddwy enghraifft hyn, o Gymru ac o Wlad y Basg, gwelir atseiniau a delweddau

<sup>340</sup> Gw. Jones, *The Desire of Nations*, t. 122.

<sup>341</sup> Jones, 'Michael D. Jones', tt. 16-17.

<sup>342</sup> Gw. Michael D. Jones, *Y Gwenynydd: Llawlyfr Ymarferol Ar Gadw Gwenyn*: dyfynnir yn Jones, 'Michael D. Jones', t. 17. Gw. Michael D. Jones, 'Nwyddau Gwisg y Cymry', *Y Celt*, 2 Mawrth 1888, t. 10.

<sup>343</sup> 'La sencillez de sus costumbres, sus nobles sentimientos y su carácter abierto y franco le hacen digno de la distinción y el aprecio de todos': [dienw], 'El labrador', *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Gorffennaf 1896, tt. 202-203.

Herderiaidd a oedd yn gyffredinol ar draws Ewrop yn y 19g. Yn yr agwedd hon, felly, nid yw'r disgysiau cenedlaethol Cymreig a Basgaidd ond yn adlewyrchu disgysiau cenedlaethol rhamantaidd prif ffrwd y cyfnod.

Pwysicach o lawer i ddisgwrs cenedlaethol Gwlad y Basg yn y 1890au na hen arferion y werin oedd hen 'drefn', hen gyfraith a hen sefydliadau'r wlad. Gwraidd a phrif symbol y drefn hon oedd y *fueros*, sef siarteri cyfreithiol neu gofnodion o draddodiadau a amddiffynnai pob talaith Fasgaidd yn wylidwrs.<sup>344</sup> Deilliai'r *fueros* o gyfnod y *Reconquista* (yr Ailoresgyniad) yn yr Oesoedd Canol wrth i frenhinoedd Cristnogol ganiatáu mesur o annibyniaeth wleidyddol i diriogaethau ffiwdal a ffiniai â theyrnasoedd Mwraidd i'r de.<sup>345</sup> Yn ymarferol, roedd y taleithiau Basgaidd yn rhydd i arfer eu deddfau cymdeithasol, masnachol a throseddol eu hunain, i godi eu trethi a'u tollau eu hunain, ac osgoi gwasanaeth milwrol uniongyrchol i'r brenin. Er mai i arglwyddiaeth neu endid ffiwdal penodol y rhoddid *fuero* (Arglwyddiaeth Biscaia, Is-Iarllaeth Zuberoa ac Iarllaeth Araba, er enghraifft), roedd eu darpariaethau yn diogelu traddodiadau, hawliau a dyletswyddau'r holl gymuned ac roedd cynullïadau cynrychiadol yn rhan bwysig o'r hen gyfundrefn. Cyfarfyddai, er enghraifft, y *Junta de Vizcaya* (Cynulliad Biscaia) yn draddodiadol yn y *Batzarretxea* (Tŷ'r Cynulliad) yn Gernika (Guernica), a deuai seremoni *El Juramento del Señor* (Llw'r Arglwydd) yn symbol pwysig o'r llywodraethu 'gydsyniol' a nodweddi gyfansoddiad y taleithiau Basgaidd.<sup>346</sup> Ni allai'r arglwydd osod cyfradd trethi na maint y mwstwr milwrol heb ganiatâd y cynulliad lleol hwn, er enghraifft.

Yn hynny o beth, ac fel mae Marianne Heiberg wedi dadlau, cofnodi hen arferion oedd yn dal i fodoli, ac nid deddfu o'r newydd yn haniaethol, a wnâi awduron y *fueros*, neu greu cyfundrefn 'a ddeilliai o wead yr adeiledd cymdeithasol ei hunan'.<sup>347</sup> At hynny, gwelir dadl bendant o blaid tarddiad organig y *fueros* mewn erthygl o'r enw 'En síntesis' yn *Euskalduna* o 1896.<sup>348</sup> Ymgorfforiad o 'ein hen gyfundrefn hollol rydd' a'r 'gorffennol a

---

<sup>344</sup> Am grynodedbau o hanes cyfundrefn y *fueros*, a ffyonellau yr wybodaeth yn y paragraff hwn, gw. Payne, *Basque Nationalism*, t. 17-22; Francisco Letamendi ('Ortzi'), *Breve historia de Euskadi: de la prehistoria a nuestros días* (Barcelona: Ibérica de Ediciones y Publicaciones, 1980), tt. 43-48; Maximiano García Venero, *Historia del nacionalismo vasco*, Reimpresión a la 3ª edición (Madrid: Editora Nacional, 1979), tt. 69-94. Ceir trosolwg o hanes y *fueros* yn Gymraeg yn Evans, *Gwlad y Basg*, tt. 22-23 a 34-35.

<sup>345</sup> *La Reconquista* yw'r enw a roddir ar y cyfnod rhwng 720 OC a 1492 OC pan ad-enillodd brenhinoedd Cristnogol y rhannau o Benrhyn Iberia oedd wedi dod dan reolaeth Islamaidd fel rhan o'r diriogaeth Fwraidd Al-Ándalus.

<sup>346</sup> Gw. Evans, *Gwlad y Basg*, t. 22.

<sup>347</sup> 'Derived from the very fabric of the social structure itself' / 'First custom and later law': Heiberg, 'Insiders/outside', 170.

<sup>348</sup> [Dienw], 'En síntesis', *Euskalduna*, Año I/ Número 1, 13 Medi 1896, t. 1.

gollwyd' oeddent i'r awdur, yn ogystal â 'chyfreithiau cyffredin wedi'u dyrchafu yn gyfreithiau cyfansoddiadol ein horganeb wleidyddol'.<sup>349</sup> Pwysicach o lawer i'r awdur, sut bynnag, oedd y ffaith eu bod 'wedi cael eu cymeradwyo gan gannoedd o genedlaethau'.<sup>350</sup>

Yn ychwanegol at y *fueros*, roedd *hidalgúa universal* (pendefigaeth gyffredinol) a *soberanía originaria* (sofraniaeth sylfaenol) y Basgiaid yn bwysig iawn i ddisgwrs cenedlaethol Basgaidd y 1890au. Yn ôl Sabino Arana mewn erthygl yn *Bizkaitarra* yn 1895, er enghraifft, grwpiau o 'weriniaethau organaidd teuluol' oedd y Biscaiaid yn yr Oesoedd Canol cynnar a gytunai i Arglwydd Biscaia benarglwyddiaethu drostynt yn gyfnewid am gadw eu statws (pob un ohonynt) fel *hidalgos*, neu uchelwyr.<sup>351</sup> O dan y cytundeb hwn, byddai'r Biscaiaid gwreiddiol yn rhydd i ddilyn eu cyfreithiau cyntefig ('las leyes de la Nación') yn eu haneddiadau eu hunain, ac i beidio â thalu rhent na threthi i'r arglwydd. Roedd pobl o Gastilia a fyddai'n poblogi tiroedd newydd yr Arglwydd yn ddiweddarach ar y llaw arall yn gorfod talu rhent a threthi, a dilyn cyfreithiau 'estronol' Brenin Sbaen.<sup>352</sup> Gan hynny, honnodd Arana mai dau ddsbarth o bobl oedd yn bodoli yn Biscaia, sef y Biscaiaid rhydd, a'r Sbaenwyr caeth:

Ym Miscaia, felly, roedd dwy hil: yr hil wreiddiol a oedd y fwyaf niferus o dipyn; a'r *mestiza* [cymysgryw] neu'r estron, a oedd yn brin iawn ar y pryd. Ond nid oeddent yn cymysgu â'i gilydd; yn hytrach, roeddent yn cadw ar wahân ac roeddent yn gwahaniaethu rhyngddynt eu hunain gan eu cyfreithiau a'u hawdurdodau; ac nid oedd gan y ddwy'r un hawliau, gan fod yr ail yn ddarostyngedig i'r gyntaf ac yn cael ganddi hi yn RASLON (deallwch yn dda) yr hawl i ymgartrefu yn nhiriogaeth Fiscaiaidd.<sup>353</sup>

Yn yr un modd, roedd yr hen gyfundrefn etholaethol o fewn yr aneddiadau Biscaiaidd yn 'organig' yn ôl Arana, a chan hynny yn llai 'Sbaenaidd'.<sup>354</sup> Byddai penaethiaid teuluol y gymuned yn dewis eu cynrychiolwyr ar gyfer cynulliad y dalaith, a byddai'r rheiny yn enwi,

<sup>349</sup> 'Los fueros constituyeron nuestro antiguo y libérrimo régimen [...] Son el fundamento de nuestras aspiraciones legítimas de hoy y de las tranquilas realidades de mañana. Constituyen el fundamento de lo pasado perdido y de lo que pretendemos para lo futuro, porque no son concesiones derogatorias al arbitro de quien tiene á bien concederlas, sino porque son leyes consuetudinarias elevadas á la categoría de constitucionales de nuestro organismo político': [dienw], 'En síntesis', t. 1.

<sup>350</sup> 'Sancionadas, á pesar de todos los pesares, por el goce tranquilo, perfectísimo, de cientos de generaciones': [dienw], 'En síntesis', t. 1.

<sup>351</sup> Arana, 'La pureza de raza', t. 1.

<sup>352</sup> 'Leyes extranjeras': Arana, 'La pureza de raza', t. 1.

<sup>353</sup> 'En Bizkaya, pues, había dos razas: la originaria, que era incomparablemente la más extensa; y la mestiza ó extranjera, que era entonces muy limitada. Pero no se confundían una con otra, sino que se mantenían separadas materialmente, y se diferenciaban por sus leyes y sus autoridades; ni ambas tenían los mismos derechos, puesto que la segunda estaba subeditada á la primera y recibía de ella como GRACIA (entiéndese bien) el derecho de establecerse en territorio bizkaino': Arana, 'La pureza de raza', t. 2.

<sup>354</sup> 'No estaba por tanto españolizada en su vida interna': Sabino Arana, 'Corrupción', *Bizkaitarra*, Año III/Número 27, 31 Mai 1895, t. 1.

‘yn rhannol gan bleidleisio ac yn rhannol gan ffawd’, lywodraeth ‘oruchel’ Biscaia.<sup>355</sup> Wedi mynd trwy’r broses hon, byddai llywodraeth Biscaia wedi’i ‘hurddo yn gyfreithlon [...] gyda’r cymeriad uwch-ddynol hwnnw a elwir awdurdod’.<sup>356</sup>

Nid syniad a delwedd ddisgyrsiol newydd oedd *fueros* Gwlad y Basg a ‘phendefigaeth gyffredinol’ y Basgiaid yn 1895: roedd haneswyr rhamantaidd megis Pablo Pedro de Astarloa y Aguirre wedi honni’r un peth yn ystod y 18g ac roedd *fueristas* cyfoes megis Fidel de Sagarmínaga ac Arturo Campión wedi seilio eu galwadau am adfer y *fueros* ar yr un dadleuon ers y 1870au.<sup>357</sup> Ond yn wahanol i’r hen *fueristas* a’r rhanbarthwyr cyfoes hyn, nid hawliau a ganiateid gan ras Brenin Sbaen oeddent i Arana, ond statws bonheddig ac organig a ragflaenai ddyfodiad y Castiliaid o ganrifoedd. Nid prawf o awtonomiaeth o fewn Sbaen oeddent chwaith, ond cyfiawnhad i annibyniaeth lwyr i Fiscaia.<sup>358</sup> Er gwaethaf hynny, ac er iddynt anghytuno ar y radd o annibyniaeth y dylai Gwlad y Basg ei mwynhau, roedd dwy garfan ‘genedlaethol’ y 1890au yn cytuno ar y pethau sylfaenol: roedd y Basgiaid yn meddu ar hen gyfreithiau, ar hen sefydliadau ac ar hen hawliau, ac roedd yr ‘eiddo’ hwn yn cynrychioli gwahaniaeth elfennol eu pobl. Yn wir, ac yn ôl awdur arall yn *Euskal-Erria* yn 1896, roedd y Basgiaid yn teimlo gwir ‘serch’ tuag at eu ‘sefydliadau seciwlar’, eu ‘hannibyniaeth weinyddol’ a’u ‘*fueros* hybarch’.<sup>359</sup>

Ni wŷr haneswyr Cymru yn union i ba raddau y gweithredid Cyfraith Hywel yn ymarferol yn llysoedd y Dywysogaeth na llysoedd y Gororau ar ôl 1282 gan fod proses raddol a hir o gefni ar gyfraith Gymreig a throi i gyfraith Eingl-Normanidd ar waith, ac roedd cyflymdra’r broses hon yn amrywio o un awdurdodaeth i’r llall. Mae R. T. Jenkins, er enghraifft, yn nodi’r arfer Cymreig o ddal ac etifeddu tir a orosai o 1282 hyd gyfnod y Tuduriaid, a llysoedd barn annibynnol arglwyddi’r Mers:

---

<sup>355</sup> ‘Por elección en parte y en parte por suerte’; ‘el gobierno supremo de Bizcaya’: Arana, ‘Corrupción’, t. 1.

<sup>356</sup> ‘Quedaba legítimamente investido de ese carácter sobre humano que llamamos autoridad’: Arana, ‘Corrupción’, t. 1.

<sup>357</sup> Gw. Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 56.

<sup>358</sup> ‘Sabino Arana hará una relectura de estos textos fueristas en la que la confirmación de los fueros de las Provincias Vascongadas y Navarra ya no será, como decían aquellos, ‘sin perjuicio de la unidad constitucional de la monarquía’, sino orientada ante todo a la independencia de la misma’: Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 56. ‘Estos eran concebidos por Arana como expresión de la soberanía originaria y la independencia secular de los territorios vasco hasta el siglo XIX’: Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 15.

<sup>359</sup> ‘La monarquía nabarra pasó, como accidente de la vida social del basco; lo que no desaparece es el amor del pueblo á sus instituciones seculares, á sus fueros venerandos, á ese régimen federativo, á esa autonomía administrativa que hace todos sus encantos’: Munárriz, ‘Los Bascos: etnografía/carácter’, t. 149.

Er mai Brenin Lloegr oedd eu penarglwydd ffiwdalaidd, nid oedd [arglwyddiaethau'r Mers] yn rhan o dir Lloegr; nid oeddynt dan gyfraith Lloegr; yr oedd ganddynt bob un ei lys barn a'i fyddin fechan ei hun, a chan bob arglwydd hawl bywyd a marwolaeth ar ei ddeiliaid. Nid oedd 'Tywysogaeth Cymru' chwaith, er ei golygu'n rhan o deyrnas Lloegr, eto wedi ei chwbl uno â'r deyrnas honno; gadawyd llawer o'r hen gyfreithiau Cymreig mewn grym, ac nid anfonai'r siroedd Cymreig aelodau i Senedd Lloegr.<sup>360</sup>

Er hynny, cydnabyddir yn gyffredinol mai yn 1543, a chymeradwyo ail Ddeddf Cyfreithiau yng Nghymru, y daeth personoliaeth gyfreithiol annibynnol Gymreig i ben: 'Wales is and ever hath bene incorporated, annexed, united and subiecte to and under the imperiale Crown of this Realme as a verrye membre of the same', meddai testun y ddeddf.<sup>361</sup> Byddai Cyngor Cymru a'r Gororau yn goroesi am ryw ganrif a hanner yn hirach, ond erbyn 1830, a diddymu yn derfynol Llys y Sesiwn Fawr, cafodd pob sefydliad 'cenedlaethol' Cymreig ei chwalu hefyd.<sup>362</sup> Yn hynny o beth, nid oedd y Cymry yn meddu ar eu cyfreithiau nac ar eu sefydliadau gweithredol eu hunain yn y 1890au, ond yr oedd ganddynt gof o'u cyfreithiau, a byddai hyn yn chwarae rhan bwysig yn nisgwrs cenedlaethol newydd y cyfnod.

Mae Huw Pryce wedi amlygu sut y bu i hanesydd Cymreig amlycaf yr oes Fictoriaidd ac Edwardaidd, J. E. Lloyd, drawsffurfio hanes Cymru yn y 1880au a 1890au gan ganolbwyntio am y tro cyntaf ar ddeddfau Canol Oesol Cymreig, ac yn enwedig ar sut y creodd y deddfau hyn strwythurau ac arferion cymdeithasol unigryw i Gymru.<sup>363</sup> Mae Pryce hefyd yn nodi sut y bu i Lloyd ddwyn y dadl hon yn ei blaen er mwyn cyfiawnhau'r achos dros hunanlywodraeth i Gymru: roedd Cymry'r Oesoedd Canol yn meddu ar eu cyfreithiau eu hunain ac o ganlyniad mae galwadau Cymry cyfoes am hunanlywodraeth yn 'gyfreithlon': 'The fundamental reason for focusing on the Welsh past was that this gave legitimacy to claims that modern Wales was a nation reborn'.<sup>364</sup> Ni synnir felly fod dadl J. E. Lloyd wedi cael ei mabwysiadu gan ei gyfeillion yng Nghymru Fydd, ac bod datganiadau o'r fath yn ymddangos maes o law mewn areithiau gwleidyddol ac erthyglau yn y wasg Gymreig yn y 1890au.

---

<sup>360</sup> R. T. Jenkins, 'Y newid yng Nghymru yng nghyfnod y Tuduriaid', yn *Yr Apêl at Hanes ac Ysgrifau Eraill* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1930), tt. 9-34, t. 15.

<sup>361</sup> Dyfynnir yn Davies, *Hanes Cymru*, t. 222). Deddf gyntaf ers 1543 i drin Cymru yn wahanol i Loegr oedd Deddf Cau'r Tafarnau yng Nghymru 1881.

<sup>362</sup> Diddymwyd Cyngor Cymru a'r Gororau ar ôl y Chwyldro Gogoneddus yn 1688. Noder y gweithredwyd cyfundrefn llysoedd wahanol o dan gyfraith gyffredin Lloegr a Chymru yng nghorff 'Y Sesiwn Fawr' rhwng 1543-1830. Gw. Davies, *Hanes Cymru*, t. 226.

<sup>363</sup> Huw Pryce, *J. E. Lloyd and the Creation of Welsh History: Renewing a Nation's Past* (Cardiff: University of Wales Press, 2011), tt. 50-55 a tt. 135-149.

<sup>364</sup> Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 91.

Mewn araith o 1896, er enghraifft, mae'r Aelod Seneddol dros Feirionnydd, ac arweinydd symbolaidd y mudiad Cymru Fydd, Thomas E. Ellis, yn honni bod achosion llysoedd Cymru'r gorffennol yn cael eu barnu yn unol ag 'arferion a chyfreithiau brodorol Cymru', a bod Cyngor Cymru a'r Gororau 'yn ffurfio llywodraeth Cymru dros gyfnod hir'.<sup>365</sup> Yn ychwanegol at hynny, o amser Harri VIII hyd ddiddymu Llys y Sesiwn Fawr yn 1830 roedd gan Gymru 'farnweinyddiad ar wahân a barnweinyddiad nodweddiadol Gymreig', meddai Ellis.<sup>366</sup> Hyn oll, wrth gwrs, i gyfiawnhau rhaglen Cymru Fydd i godi sefydliadau cenedlaethol newydd ac i hybu ymwybyddiaeth genedlaethol y Cymry.

Ni fynnwn honni yma, sut bynnag, fod hen gyfreithiau a hen sefydliadau yn cyfrif cymaint yn nisgwrs cenedlaethol Gymreig y 19g ag yr oeddent yn nisgwrs cenedlaethol Gwlad y Basg yn ystod yr un cyfnod.<sup>367</sup> Diddymwyd hen *fueros* a hen sefydliadau Araba, Biscaia, Gipuzkoa a Nafarroa mor ddiweddar â 1876, ac roedd y cof amdanynt ac am eu perthnasedd cymdeithasol yn dal i bwysu yn gryf ar ymwybyddiaeth wleidyddol y Basgiaid yn y 1890au. Ond digon (a phwysig) yw nodi am y tro fod darlunwyr y disgwrs cenedlaethol Gymreig newydd yn apelio at yr un elfennau hanesyddol ag yr oedd eu cyfoeswyr yng Ngwlad y Basg: roedd meddu ar yr eiddo cyfansoddiadol hwn, naill ai yn ddiweddar neu yn y gorffennol pell, yn hollbwysig i 'gyfreithlondeb' gwahaniaeth y ddwy bobl. Teg yw dweud hefyd, sut bynnag, fod 'eiddo' arall gan y Cymry a oedd yn bwysicach o lawer nag unrhyw eiddo arall: eu crefydd.

## **Mae gennym grefydd wahanol a phurach**

Mae Anthony Smith yn amlygu swyddogaeth credoau crefyddol yn hunaniaeth genedlaethol nifer o wledydd gorllewinol mewn cyfrol bwysig o 2003, *Chosen Peoples: Sacred Sources of National Identity*, a theg yw dweud mai nodwedd bwysig o hunaniaeth y Cymry ers yr Oesoedd Canol cynnar fu'r ymwybyddiaeth o etifeddiaeth grefyddol wahanol i'r Saeson, ac

---

<sup>365</sup> 'Welsh custom and Welsh native law'; 'for ages formed the government of Wales': Thomas E. Ellis, 'The duty of the Guild towards the literature and records of Wales: a paper read at the second annual collegiate meeting of the Guild of Graduates of the University of Wales, held in the University College of North Wales, Bangor, on Saturday, October 17th, 1896', yn Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrecsam: Hughes and Son, 1912), tt. 159-160.

<sup>366</sup> 'A separate and distinctively Welsh judicature': Ellis, 'The duty of the Guild', t. 160.

<sup>367</sup> Fel y trafodir yn fanylach yn Haen 4, buddiol yw nodi dadl Ifan Morgan Jones mewn traethawd PhD diweddar mai diffyg sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru a allai hyrwyddo ymbyddiaeth o hunaniaeth genedlaethol Gymreig oedd un o brif resymau am fethiant y mudiad cenedlaethol yn y 19g: Jones, 'Ymrestru o dan y Faner'.

yn benodol, ymwybyddiaeth o feddu ar draddodiad Cristnogol hŷn.<sup>368</sup> Noder y geiriau canlynol gan E. Wyn James o erthygl ar y pwnc o 2001:

From the very beginning [...] Christianity surfaces as a key element in Welsh national identity, in contrast to the paganism of the Germanic invaders, with Wales in this early period forming not only a 'Romano-British' but also a 'Christian' enclave on the western peninsula of Britain.<sup>369</sup>

Yn ôl hen chwedl Gerallt Gymro am y Gŵr o Bencader a'i neges broffwydol i Harri II yn 1163, er enghraifft, roedd gan y Cymry berthynas arbennig â Duw, ac ni fyddai neb ond y Cymry yn ymateb am 'y cwr bach hwn o'r ddaear' ar Ddydd y Farn Fawr:

My Lord king, this nation may now be harassed, weakened and decimated by your soldiery, as it has so often been by others in former times; but it will never be totally destroyed by the wrath of man, unless at the same time it is punished by the wrath of God. Whatever else may come to pass, I do not think that on the Day of Direct Judgement any race other than the Welsh, or any other language, will give answer to the Supreme Judge of all for this small corner of the earth.<sup>370</sup>

Dyma neges yr oedd Owen M. Edwards yn awyddus i'w hailadrodd a'i hadnewyddu yn 1902:

The words addressed by the Welsh seer to the most energetic of the conquerors of Wales, the discernment by impotent fatalism of the futility of the plans of the most masterful human will, have an ever-renewing meaning.<sup>371</sup>

Er bod eironi, wrth gwrs, yn y ffaith mai ymuno â lluoedd brenin Lloegr yn erbyn ei bobl ei hun a wnaeth yr hen ŵr o Bencader ('oherwydd eu ffordd ddrwg o fyw'), gellir dadlau bod mwy nac awgrym o seicoleg ôl-drefedigaethol yn natganiad yr Oesoedd Canol hwn.<sup>372</sup> Boed hynny fel y bo, mae E. Wyn James yn dadlau bod arysgrifau ar gofebion carreg y 6g sy'n cysylltu 'gwladgarwch' y Cymry cynnar â'u Cristnogaeth yn dangos hynafiaeth y teimlad hwn, fel y mae datganiadau o neilltuoldeb crefyddol y Cymry gan ddyneiddwyr yr Ymoleuo

---

<sup>368</sup> Smith, *Chosen Peoples*: gw. Pennod 1, 'Nationalism and Religion', tt. 9-18, yn benodol.

<sup>369</sup> E. Wyn James, 'The new birth of a people: Welsh language and identity and the Welsh methodists, c. 1740-1820', yn Robert Pope (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001), t. 15. Gw. hefyd, Trystan Owain Hughes, 'Continuity and conversion: the concept of a national church in twentieth-century Wales and its relation to the Celtic Church', yn Robert Pope (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001), tt. 123-138. Mae Hughes yn disgrifio sut aeth Eglwys Loegr ac Eglwys Rufain yng Nghymru ati i gystadlu i gyflwyno eu hunain fel 'gwir' etifeddion eglwys Geltaidd, 'genedlaethol' Cymru.

<sup>370</sup> Thorpe, *Gerald of Wales*, t. 274.

<sup>371</sup> Edwards, *The Story of the Nations: Wales*, t. 9.

<sup>372</sup> 'Because of their evil way of life': Thorpe, *Gerald of Wales*, t. 274.

megis Dr John Davies, Mallwyd.<sup>373</sup> Gwelwyd eisoes sut yr oedd chwedleuwyr a haneswyr cynnar Cymru yn honni mai disgynyddion i Gomer, wŷr Noa, oedd y Cymry a bod yr iaith Gymraeg yn tarddu o'r Ardd Eden.<sup>374</sup> Honnent hefyd i Samoths, wŷr arall Noa, sefydlu cyfundrefn y Derwyddon a'r Beirdd, ac i Joseff o Arimathea ddod â'r efengyl i Ynys Prydain dim ond 30 mlynedd ar ôl y Croeshoeliad.<sup>375</sup>

Yn ôl y traddodiad Cymreig hwn, felly, disgynydd pur ac uniongyrchol i'r Gristnogaeth Apostolaidd gynharaf oedd Eglwys y Cymry, wedi'i llygru gan Eglwys Gatholig Rufeinig yr Oesoedd Canol uchel, ac wedi'i phuro a'i hadfer gan y Diwygiad Protestannaidd, fel y dadleuai'r Esgob Richard Davies yn ei 'Epistol at y Cembra' yn 1567.<sup>376</sup> Defnyddiai Morgan Llwyd yr un ddadl yn *Llyfr y Tri Aderyn* yn 1653 er mwyn cryfhau a Chymreigeiddio achos y Piwritaniaid yn erbyn Eglwys Loegr.<sup>377</sup> A gallai Griffith Jones, Llanddowror, efengylwr ac addysgwr mawr y 18g, hyd yn oed sôn am 'ddiweirdeb' y Gymraeg, 'gwrthglawdd yn erbyn materoliaeth a llygredd cynyddol yr amseroedd yn yr iaith Saesneg'.<sup>378</sup> Yn wir, mae rhai haneswyr cyfoes wedi dadlau bod Jones yn un o genedlaetholwyr Cymreig cynharaf yr oes fodern, ynghyd ag Hywel Harris.<sup>379</sup>

Er mai Anglicaniaid megis Arglwyddes Llanofar a Walter Davies ('Gwallter Mechain') oedd 'gwladgarwyr' Cymreig cydnabyddedig cyntaf yr oes fodern, o fewn Anghydfurfiaeth Gymreig y 19g y byddai ymwybyddiaeth o wahaniaeth crefyddol cenedlaethol y Cymry yn cydio gryfaf, fel mae Kenneth O. Morgan yn ein hatgoffa:

For the rest of the [nineteenth] century, the Welsh national causes were to be promoted by a nonconformist intelligentsia. The national movement in Wales was to be cradled in the chapels, while the Anglican church was to appear isolated from it, and even to be its enemy.<sup>380</sup>

---

<sup>373</sup> Gw. James, 'The new birth of a people', tt. 14-16. Noder hefyd dyneiddwyr Protestannaidd Cymreig megis William Salesbury a oedd yn awyddus i 'achub eneidiau' ond hefyd yn 'wladgarwyr brwd' yn ôl E. Wyn James: 'The new birth of a people', t. 20.

<sup>374</sup> James, 'The new birth of a people', t. 21.

<sup>375</sup> James, 'The new birth of a people', t. 21.

<sup>376</sup> Gw. Llwyd, 'Plaid Cymru', 4.

<sup>377</sup> Gw. M. Wynn Thomas (gol.), *Morgan Llwyd: Llyfr y Tri Aderyn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1988), tt. xxv-xxx.

<sup>378</sup> 'In contrast, Welsh was "perhaps the chastest [language] in all Europe", whose literature was free from "Atheism, Deism, Infidelity, Arianism, Popery, lewd plays, immodest romances, and love intreagues"; "The welsh language acted as a bulwark against materialism and the "growing corruption of the times in the English tongue": Griffith Jones (Llanddowror), dyfynnwyd yn James, 'The new birth of a people', t. 25.

<sup>379</sup> Gw. Llwyd, 'Plaid Cymru', 13-15.

<sup>380</sup> Morgan, 'Welsh nationalism', 157.



Wedi dweud hynny, nid oedd yr enwadau Anghydfurfiol cyntaf yng Nghymru yn arbennig o 'Gymreig' o ran tarddiad a diwinyddiaeth; daeth yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr o Loegr yn yr 17g, dechreuodd Methodistiaeth gyda'r brodyr Wesley yn Rhydychen yn y 1730au, a daeth y Wesleaid i Gymru o Loegr ar ddechrau'r 19g.<sup>381</sup> 'At first the attitudes of the pioneers of Welsh nonconformity were hard to distinguish from those of English Dissenters', meddai Morgan, 'they revered the same puritan heroes. They adhered to the same intellectual and theological tradition. They battled against the same obstacles (the Test Acts, the tithe and burial laws, the church rates) as did nonconformists everywhere'.<sup>382</sup> Ond wedi sefydlu enwad newydd hollol Gymreig y Methodistiaid Calfinaidd yn 1823, a chyda'r iaith Gymraeg wedi'i sefydlu yn gryf fel iaith addoli bob dydd, dechreuodd Anghydfurfiaeth Gymreig gymryd ffurf a naws mwy annibynnol.<sup>383</sup>

A gweinidogion Anghydfurfiol yn dechrau dod yn arweinwyr *de facto* ar gymunedau Cymraeg lleol, a chyda datblygu arddull benodol Gymraeg o bregethu, byddai hunaniaeth grefyddol y Cymry yn dechrau ymwahaniaethu oddi wrth hunaniaeth grefyddol Prydain ehangach wrth i'r ganrif fynd ymlaen.<sup>384</sup> Yn wir, credid yn boblogaidd fod yr arddull hon yn rhagori ar bregethu pob gwlad arall a bod y Cymry, o ganlyniad, yn fwy duwiol na'u cymdogion. Mae W. P. Griffith yn honni, er enghraifft, fod y dosbarthiadau is Cymraeg yn fwy ymroddedig i'w crefydd na chymunedau eraill y cyfnod oherwydd yr arddull hon o bregethu a'r ffaith ei bod yn datgan efengyl iachawdwriaeth a gwirioneddau'r ysgrythurau yn y Gymraeg.<sup>385</sup> Mae Griffith yn ychwanegu bod sylwebyddion amlwg y cyfnod megis Edward Matthews, Christmas Evans, Owen Thomas a John Puleston Jones yn trafod rhagoriaeth yr arddull Gymraeg ar y pryd, ac yn dyfynnu'r darn canlynol gan Edward Matthews, awdur a gweinidog y Methodistiaid Calfinaidd, o 1868:

Do, do, gwelodd ein Harglwydd yn dda i fendithio Cymru â phregethu heb fod yn ail i un wlad dan haul. Eu llwch sydd yn gysegredig yn meddwl y genedl; ac y mae hi yn

---

<sup>381</sup> D. Densil Morgan, 'The essence of Welshness? Some aspects of Christian faith and national identity in Wales, c.1900-2000', yn Robert Pope (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001), t. 141.

<sup>382</sup> Morgan, 'Welsh nationalism', 156.

<sup>383</sup> 'It was becoming transparently clear by the end of the 1840s that Welsh nonconformity was developing a culture and momentum of its own': Morgan, 'Welsh nationalism', 156.

<sup>384</sup> 'Yet by the 1870s it was clear that a genuine Welsh national consciousness was growing and that questions concerning the relationship between religion and national identity were being asked': Morgan, 'The essence of Welshness?', t. 141. Gw. hefyd, W. P. Griffith, 'Preaching second to no other under the sun: Edward Matthews, the nonconformist pulpit and Welsh identity during the mid-nineteenth century', yn Robert Pope (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001), t. 62.

<sup>385</sup> Griffith, 'Preaching', t. 61.

falch o'i meibion sydd heddyw yn chwythu yr udgorn, gan alw byddinoedd y Dyw byw yn nghyd.<sup>386</sup>

Nodweddid yr arddull ragorol hon, meddai Griffith, gan dôn neu ansawdd penodol y llais, tuedd i annog yn lle darlithio, a'r gallu i lywio teimladau a 'gyrru' y gynulleidfa yn seicolegol mewn llif yr ymwybod difyfyf. 'Whether this Welsh style was specially Welsh', ychwanega Griffiths, 'is a moot point, but the fact was that it was believed to be so by the Welsh at the time'.<sup>387</sup> Yn wir, cafodd y diwinydd ac addysgwr enwog, Lewis Edwards, ei ddarbwylllo rhag ymuno â gweinidogaeth Eglwys Loegr gan ei dad oherwydd 'pregethu israddol' yr Anglicaniaid.<sup>388</sup>

Pan gynhaliodd Llywodraeth Prydain ymchwiliad i gyflwr y gyfundrefn addysg yng Nghymru yn 1847, ac wedi iddynt ddyfarnu bod y gyfundrefn hon yn ddiffygiol oherwydd iaith frodorol annatblygedig, moesau isel y boblogaeth yn gyffredinol, ac aneffeithrwydd y gyfundrefn grefyddol Ymneilltuol, cafwyd ymateb llym gan arweinwyr cymdeithasol a chrefyddol y wlad.<sup>389</sup> Llenwai gweinidogion a llenorion fel Samuel Roberts (Llanbryn-mair), Ieuan Gwynedd ac R. J. Derfel gyfnodolion a phapurau newydd y 1850au ag erthyglau a llythyrau yn amddiffyn crefyddoldeb a moesoldeb y Cymry ac yn ymosod ar anfoesoldeb materol, diwydiannol, a threfol y Saeson.<sup>390</sup> Cyhoeddwyd erthyglau pwysicaf ar y pwnc gan Ieuan Gwynedd yn *The Shrewsbury Chronicle*, *Yr Amserau*, *The Nonconformist*, *John Bull*, a *The Monmouthshire Merlin*, a chafodd rhai ohonynt eu hailgyhoeddi fel pamffledi, gyda *Facts, figures and statements in illustration of the dissent and morality of Wales: an appeal to the English people* ac *A Vindication of the Educational and Moral Condition of Wales* ymysg y pwysicaf.<sup>391</sup> 'Gwaith rhagorol ei fywyd' oedd ymgyrch Ieuan Gwynedd i 'gywiro' rhagfarn adroddiad Comisiynwyr Addysg 1847 yn ôl Frank Price Jones.<sup>392</sup>

---

<sup>386</sup> Edward Mathews, *Bywgraffiad y Parch. Thos. Richard, Abergwaen* (Swansea, 1863), t. xi: dyfynnir yn Griffith, 'Preaching', t. 61.

<sup>387</sup> Griffith, 'Preaching', t. 67.

<sup>388</sup> Griffith, 'Preaching', t. 62. Gweler hefyd erthygl gan Sioned Davies sy'n dadansoddi arddull pregethu Mathews ac eraill: Sioned Davies, 'Pefformio o'r pulpud: rhagarweiniad i'r maes', *Y Traethodydd*, Cyfrol CLV (2000), 256-280.

<sup>389</sup> Gw. Morgan, 'Welsh nationalism', 157.

<sup>390</sup> Am waith R. J. Derfel ar y pwnc, gweler Arthur Meirion Roberts, 'R. J. Derfel, 1824-1905', *Y Traethodydd*, 'O'r Pulpud i'r Platfform' (Ionawr 2009), 34-54.

<sup>391</sup> Evan Jones (Ieuan Gwynedd), *Facts, figures and statements in illustration of the dissent and morality of Wales: an appeal to the English people* (London: B. L. Green, 1849); *A Vindication of the Educational and Moral Condition of Wales in reply to William Williams, Esq., Late M.P. for Coventry by Evan Jones of Tredegar* (Llandovery: William Rees, 1848).

<sup>392</sup> 'The outstanding work of his life was his defence of Welsh nonconformity against the attacks of certain clergymen, and, more particularly, against the attacks of the Education Commissioners of 1847': Frank Price

Yn ymateb i ‘Frad y Llyfrau Gleision’ 1847, felly, a datganiad gan awdurdodau Seisnig mai gwahanol a gwaeth oedd y Cymry o ran egwyddorion crefyddol a moesol, dechreuodd arweinwyr deallusol Cymru eu gweld eu hunain yn wahanol, gan ddatgan y gwahanrwydd hwn yn gyhoeddus.<sup>393</sup> Dywed W. P. Griffith mewn ysgrif o 2001:

Religion, therefore, became a badge of patriotic, if not indeed nationalistic, sentiment among the Welsh [...] In this, it reflected the sort of historical sense and popular memory of the mid-century. The Welsh were depicted as a conquered nation, the victim of the innate oppressive and rapacious tendencies of the English, but morally and spiritually superior because of the people’s piety which had been nurtured by unique preaching.<sup>394</sup>

Roedd Lloegr yn uwch na Chymru ym mhob agwedd ar y bywyd modern, yn ôl llawer o arweinwyr cymdeithasol Cymreig y cyfnod, mae’n debyg, heblaw am yr un pwysicaf, sef ymrwymiad crefyddol: ‘here the peculiar and special religiosity of the Welsh people shone through’, meddai Griffiths.<sup>395</sup>

Nid syndod, felly, yw gweld datganiadau o wahaniaeth a rhagoriaeth duwioldeb y Cymry yn parhau i ymddangos mewn erthyglau yn y wasg yn y 1890au. ‘Y mae crefydd yr Arglwydd Iesu wedi cydio gafael ac wedi gwreiddio’n ddyfnach yma na braidd yn un lle arall’, meddai T. Rhys yn ‘Ein Colegau Anghenedlaethol’ yn *Y Celt* yn 1895.<sup>396</sup> ‘Ni siglwyd yr un genedl arall erioed i’r fath raddau gan ddiwygiadau grymus’, ychwanega gan fynd ymlaen i honni ‘[nad] oes yr un wlad arall lle mae’r Beibl yn gymaint o frenin ar ei gorsedd hi’. ‘Pa ddyd fel y Cymro am barchu addoldy?’ casgla Rhys, ‘pa genedl arall sydd wedi ei thrwytho mewn gwybodaeth Feiblaidd fel y Cymry?’ Mae’n amlwg bod y motiff hwn o dduwioldeb arbennig y Cymry, motiff a ddechreuodd â chofebion carreg y 6g ac a barhaodd trwy’r oesoedd canol a’r oes fodern, yn parhau i chwarae rhan bwysig yn nisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig y 1890au.

Gwyddys erbyn hyn na chafodd Eglwys Rhufain fawr o ddylanwad ar Euskal Herria yn ystod canrifoedd cyntaf y mileniwm cyntaf, a honna rhai haneswyr cyfoes na throdd y Basgiaid yn derfynol oddi wrth baganiaeth i Gristnogaeth tan yr Oesoedd Canol hwyr.<sup>397</sup> Er

---

Jones, ‘Jones, Evans (Ieuan Gwynedd; 1820-1852), Independent minister, and journalist’, *Welsh Biography Online*, <http://wbo.llgc.org.uk/en/s-JONE-EVA-1820.html> [cyrchwyd: 1 Ionawr 2019].

<sup>393</sup> Enw poblogaidd ar *Reports of the Commissioners of Enquiry into the State of Education in Wales* yw ‘Brad y Llyfrau Gleision’, term a fathwyd gan y bardd a gwladgarwr R. J. Derfel yn 1854.

<sup>394</sup> Griffith, ‘Preaching’, t. 63.

<sup>395</sup> Griffith, ‘Preaching’, t. 63.

<sup>396</sup> Rhys, ‘Ein Colegau Anghenedlaethol’, t. 3. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell.

<sup>397</sup> Gw. Corcuera Atienza, *Orígenes*, t. 48.

hynny, erbyn yr 16g dechreuasai'r Basgiaid eu hystyried eu hunain yn fwy duwiol ac yn fwy Catholig na'u cymdogion Iberaidd. Mae'r hanesydd cenedlaetholdeb Basgaid, Javier Corcuera Atienza, yn priodoli'r eithriadoliaeth (*exceptionalism*) hon i gyfnod y gwrthddiwygiad cynnar a 'dogma' newydd a ddaliai fod y Basgiaid cyn-Gristnogol yn arfer crefydd monotheïstaidd (a hyd yn oed cwlt i'r groes) pan oedd gweddill Penrhyn Iberia eto'n baganaidd ac yn bantheïstaidd.<sup>398</sup> Roedd diwinyddion y gwrthddiwygiad wedi diddwytho hwn, meddai Atienza, oddi wrth waith y daearyddwr a hanesydd o Wlad Groeg, Strabo, a'i sylwadau yn y ganrif gyntaf cyn Crist mai 'rhyw ddwyfoldeb penodol dienw' sydd gan lwythau gogledd Iberia, a'i honiad eu bod wedi tarddu o deulu Tubal, wŷr Noa.<sup>399</sup>

Roedd Tubal wedi cyrraedd Gwlad y Basg ar ôl y Dilyw, yn ôl Strabo, ac wedi dysgu crefydd Noa a'r iaith Fasgeg (iaith wreiddiol Paradwys) i'r Basgiaid. Honnodd hefyd fod y Basgiaid wedi dechrau offrymu bara a gwin yn eu gwasanaethau crefyddol oherwydd Tubal, a'u bod yn plannu gwinllannoedd o gwmpas eu cartrefi fel yr oedd Noa wedi gwneud yn yr Hen Destament. Yn ychwanegol, haerai haneswyr Basgaid cynnar fod y ffydd Gristnogol wedi cael ei phregethu yng Ngwlad y Basg ar adeg yr Apostolion cyntaf, bod Sant Iago ei hun wedi pregethu yn ardal Cantabria a bod Sant Sadwrn o Toulouse wedi lledaenu'r efengyl yn Nafarroa (Navarra), a hynny i gyd gannoedd o flynyddoedd cyn i Gristnogaeth gyrraedd Penrhyn Iberia yn ôl hanesyddiaeth draddodiadol yr Eglwys yn Sbaen.<sup>400</sup>

Erbyn y 18g roedd y naratif hwn o wreiddiau cynddilywaidd, efengylu Cristnogol cynnar a phurdeb Cristnogol y Basgiaid wedi cyrraedd uchelfannau eithriadol o liwgar yng ngwaith *fuéristas* cynnar megis Manuel de Larramendi. Yn ôl Larramendi, roedd Gipuzkoa, yn wahanol i rannau eraill o Sbaen er enghraifft, wedi cael ei harbed rhag dylanwad eilunaddoliaeth, heresiâu Ariaeth a Phriscilianaeth, crefyddau Islam ac Iddewiaeth, ac wedi cadw'n ffyddlon i efengyl wreiddiol Iesu Grist fel y'i pennwyd gan yr Eglwys Gatholig gynnar. Gweler y darn isod ganddo o *Corografía o descripción general de la muy noble y muy leal provincia de Guipúzcoa* o 1756:

Ni chyflwynwyd eilunaddoliaeth erioed i Gipuzkoa, na themlau, na duwiau ffug, na cherfluniau nac eilunod. Ni ddaeth y Carthaginaid na'r Rhufeiniaid â'u crefyddau ffug yma [...] Daeth Ariaeth i Sbaen â'r Gothiaid, ond ni chyrhaeddodd Gipuzkoa. Bu'r Priscilianaidd yn plagio Sbaen ond daliai Gipuzkoa heb ei heintio. Gorfifwyd Sbaen gan y Mwriaid, ond ni chyrhaeddodd Islam Gipuzkoa. Ers i Efengyl Iesu Grist

<sup>398</sup> Gw. Corcuera Atienza, *Orígenes*, tt. 20-21.

<sup>399</sup> 'Tienen cierta divinidad innominada': Corcuera Atienza, *Orígenes*, t. 20.

<sup>400</sup> Corcuera Atienza, *Orígenes*, tt. 20-21.

gael ei phregethu am y tro cyntaf, mae Gipuzkoa wedi derbyn a chynnal y ffydd Gatholig ac Apostolig, heb erioed gyfeiliorni oddi wrthi, heb un enghraifft o un o Gipuzkoa yn gwrthod ei ffydd neu fynd yn heretic, yn Fwslim neu Iddew.<sup>401</sup>

Er y byddai chwedloni o'r fath yn ildio tir i ddisgyblaethau newydd anthropoleg, ethnoleg a hanesyddiaeth feirniadol yn ystod yr Ymoleuo, llwyddai disgyrsiau o eithriadoliaeth grefyddol y Basgiaid i oroesi ymhell i'r 19g, meddai Atienza, fel y mae gwaith Juan Bautista de Erro o 1815, *El mundo primitivo o examen filosófico de la antigüedad y cultura de la nación bascongada* (Y byd cyntefig neu archwiliad athronyddol ar hynafiaeth a diwylliant y genedl Fasgaid), yn tystio.<sup>402</sup>

Cytunir yn gyffredinol gan haneswyr Basgaid, fodd bynnag, fod gan yr Eglwys Gatholig safle arbennig o freintiedig o fewn y gymdeithas Fasgaid ar ôl y Gwrthddiwygiad, a chlerigwyr gwledig yn meithrin perthynas agos iawn â'u cymunedau ac yn gweithredu yn aml fel eu harweinwyr cymdeithasol-wleidyddol.<sup>403</sup> Yn ychwanegol at hynny, ac o ganlyniad i Ryfeloedd Carlaidd 1833-1840 a 1872-1876, byddai cysylltiad mwy echblyg rhwng Gwlad y Basg a'r syniad o Gristnogaeth 'dda' yn esblygu, wrth i rannau helaeth o'r gymdeithas Fasgaid ochri gyda'r hawlwyr Carlaidd a'u hamddiffyniad o Gatholigiaeth draddodiadol a chyfranolaid (neu *integrist*), yn erbyn gwladwriaeth ryddfrydol yr Isabeliaid a droai'n fwyfwy seciwlar wrth i'r 19g fynd heibio. Daeth deuoliaeth grefyddol i'r amlwg yn Sbaen tua diwedd y 19g felly, wedi'i seilio nid yn unig ar linellau ideolegol a diwinyddol, ond hefyd ar linellau daeryddol, a byddai'r acsiom o *Euskaldun-fededun* – sef mai'r un peth yn union oedd Basgiad a dyn o ffydd – yn troi yn motiff eang iawn ei ddefnydd.<sup>404</sup>

Câi'r motiff hwn ei ddefnyddio yn helaeth yn erthyglau ein cyfnodolion yn y 1890au, nid yn unig gan genedlaetholwyr eithafol ond hefyd gan *fuéristas* a rhanbarthwyr cymedrol. Mae Pedro M. de Soraluece yn awgrymu yn y cylchgrawn *fuérista, Euskal-Erria*, ym mis Rhagfyr 1895, mai'r unig ffordd i esbonio campau morwrol hanesyddol y Basgiaid yw trwy dderbyn y cyffyrddwyd â hwy gan Ragluniaeth Ddwylol:

---

<sup>401</sup> 'En Guipúzcoa nunca se introdujo la idolatría, ni templos de dioses falsos, ni estatuas ni ídolos. Ni los cartagineses ni los romanos introdujeron aquí su falsa religión [...] entró el arrianismo con los godos en el resto de España, y no entró en Guipúzcoa, apestaron a España los priscilianistas y Guipúzcoa quedó libre del contagio. Inundaron los moros a España, y no entró en Guipúzcoa el mahometismo. Desde que se predicó el Evangelio de Jesucristo, Guipúzcoa aceptó y ha mantenido siempre la religión católica, apostólica y romana, sin que se haya extraviado jamás de ella, sin que haya ejemplos de que haya apostatado algún guipuzcoano, se haya hecho hereje, moro o judío': Manuel de Larramendi, *Corografía o descripción general de la muy noble y muy leal provincia de Guipúzcoa*, ed. De Tellechea, t. 131. Dyfynnir yn Corcuera Atienza, *Orígenes*, t. 20.

<sup>402</sup> Corcuera Atienza, *Orígenes*, t. 21.

<sup>403</sup> Gw. Medhurst, 'Basques and Basque nationalism', t. 236.

<sup>404</sup> Corcuera Atienza, *Orígenes*, t. 35.

Mae'n hollol amhosibl esbonio cyflawniad morwrol epig y Basgiaid os nad yw un yn cydnabod, fel man cychwyn, eu rhagordeiniad hanesyddol unigryw a rhyw gydymdeimlad amlwg gan Ragluniaeth Fawr y Nef tuag at ein Euskal-erria annwyl.<sup>405</sup>

Mae Sabino Arana yn ailadrodd yr acciom hefyd mewn erthygl o'r enw 'Azkue y su obra' (Azkue a'i waith) yn *Bizkaitarra* o Chwefror 1895 gan ddatgan bod bod yn 'Gatholig' ac yn 'wladgarwr' yn ddigon i wneud rhywun yn genedlaetholwr Biscaiaidd, sef Biscaiad go iawn yn ei farn ef. Yn wir, mae bod yn wladgarwr yn ddigon ynddo ei hun yn ôl Arana, gan mai 'Jaun-Goikua eta Lagi-Zar'a' ('Duw a'r Hen Gyfraith') yw arwyddair pob gwladgarwr ac na all unigolyn fod yn Fasgiad da, felly, heb gydnabod goruchafiaeth 'Jaun-Goikua', sef Duw.<sup>406</sup>

Mae Arana yn ymhelaethu ar y syniad hwn mewn erthygl arall o'r enw 'Areizt órbelak' ('Dail wedi syrthio') o Fehefin 1895 gan ddatgan ei fod yn angenrheidiol bod yn wladgarwr er mwyn caru Duw ac yn angenrheidiol caru Duw er mwyn bod yn wladgarwr. Y rhai sy'n dadlau i'r gwrthwyneb, mae'n ychwanegu, nid Basgiaid ydynt ond *maketos*, sef mewnfudwyr (o statws cymdeithasol isel) o Sbaen:

A siarad yn ideolegol, mae Duw yn bwysicach na'r famwlad; ond wrth ystyried anghenion ymarferol a'r sefyllfa bresennol, yma ym Miscaia mae'n angenrheidiol bod yn wladgarwr i garu Duw, ac i fod yn wladgarwr mae angen caru Duw [...] Mae'r rhyddfrydwyr yn dweud nad oes rhaid bod yn Gatholig i fod yn wladgarwr, ac mae Catholigion yn meddwl nad oes rhaid bod yn wladgarwr i wasanaethu Duw. [...] Ymddengys nad yw'r rhai hyn yn eu hystyried eu hunain yn aelodau o gymdeithas Biscaia. Mewn gwirionedd, mae'n debycach eu bod yn rhan o'r gymdeithas *maketa*.<sup>407</sup>

Gwelir yn achos Cymru a Gwlad y Basg ill dwy felly, fod gwahaniaethu crefyddol yn rhan bwysig o ddisgwrs gwladgarol y ddwy wlad ers amseroedd cynnar, a bod y disgwrs cenedlaethol newydd a ffurfiwyd tua diwedd y 19g yn ailadrodd yr un naratif. Yn ôl y naratif traddodiadol hwnnw, dyma bobl sy'n meddu ar ffydd Gristnogol wahanol i weddill y byd, ffydd na chafodd ei llygru gan ddylanwadau allanol hanesyddol na chan ddylanwadau allanol

---

<sup>405</sup> 'Humanamente imposible es explicarse la epopeya marítimo-euskara, si no se admite, como principio de partida, una singular predistinción histórica, una señalada predisposición de la Divina Providencia hacia nuestra queridísima Euskal-erria': Soraluece, 'El Marinero Euskaldun', t. 468.

<sup>406</sup> 'Para ser nacionalista bizkaino basta con ser católico y patriota. Basta en rigor ser patriota porque el lema patrio es Jaun-Goikua eta Lagi-Zar'a': Sabino Arana, 'Azkue y su obra', *Bizkaitarra*, Año III/Número 21, 17 Chwefror 1895, t. 1.

<sup>407</sup> 'Ideológicamente hablando, antes que la patria está Dios; pero en el orden práctico y del tiempo, aquí en Bizkaya para amar a Dios es necesario ser patriota, y para ser patriota es preciso amar a Dios [...] Los liberales dicen que para ser patriota no hace falta ser católico, y los católicos sienten que para servir a Dios no precisa ser patriota [...] Parece que esos tales no se juzgan miembros de la sociedad bizkaina. En efecto, más deben de serlo de maketa': Sabino Arana, 'Areizt órbelak', *Bizkaitarra*, Año III/Número 28, 16 Mehefin 1895, t. 3. *Maketa* - newyddair difriol a ddyfeisiodd Arana am fewnfudwyr o ranbarthau eraill Sbaen, yn enwedig y rhai a ddaeth o ardaloedd tlotaf Castilia, Leon a Galisia. Gw. Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 10.

presennol. Ni ellid ond damcaniaethu ynghylch yr amgylchiadau hanesyddol – neu gyflwr seicolegol – a barai i naratif o’r fath wreiddio mor gadarn yn nisgwrs cenedlaethol y ddwy wlad. Ond mae’n ddigon dealladwy, efallai, y byddai pobloedd a oedd wedi cael eu llyncu o fewn gwladwriaeth arall ers canrifoedd maith, ac a oedd o ganlyniad wedi colli (neu fethu datblygu) llawer o’r nodweddion ‘allanol’ a ddisgwylir gan genedl-wladwriaethau sefydledig, yn troi at nodweddion ‘mewnol’ i gryfhau eu honiadau o wahanrwydd. Yn yr un modd, mae’n ddigon dealladwy y byddai cenedloedd a oedd wedi colli (neu fethu datblygu) mynegiannau echblyg o gyfoeth neu olud materol yn y byd go iawn yn troi at gyfoeth eu bywydau crefyddol i brofi eu gwahanrwydd. Cenedl nad yw’n llwyr hyderus o’r pethau materol sy’n ei gwahaniaethu, gellid dadlau, yw cenedl sy’n canolbwyntio gymaint ar y pethau ysbrydol. Awn ymlaen yn yr adran nesaf i ystyried y cwestiwn hwn yn fanylach.

## **A ydym yn well na hwy?**

Gwelwyd hyd yma yn Haen 1 sut mae’r ddau ddisgwrs cenedlaethol yn creu ‘pobl’ Cymru a ‘phobl’ Gwlad y Basg gan eu gwahaniaethu oddi wrth y Saeson a’r Sbaenwyr yn eu hanfod: mae ganddynt wreiddiau gwahanol ac mae ganddynt nodweddion hiliol gwahanol. Gwelwyd hefyd fod ganddynt eu ‘heiddo’ eu hunain, sef eu hiaith, eu harferion, eu hen gyfreithiau, a’u crefydd arbennig. Gwelwyd, hefyd, sut mae’r weithred hon o wahaniaethu yn awgrymu, o dro i dro, ragoriaeth y Cymry a’r Basgiaid dros eu cymydog. Rhaid ystyried y cwestiwn pigog hwn yn ddyfnach, sef sut mae’r ddau ddisgwrs yn breintio moesoldeb y Cymry a’r Basgiaid, ac yn breintio eu hymddygiad cyhoeddus, eu deallusrwydd, eu dawn, a’u heangfrydedd. Ystyriwn hefyd sut y mae’r disgwrs yn ildio rhagoriaeth i’r Saeson a’r Sbaenwyr o dro i dro hefyd.

Mae José Javier Díaz Freire wedi dadlau bod y ‘ffisiognomi moesol Basgaidd’, neu gymeriad moesol y Basgiaid, wedi cael ei ddisgrifio a’i ddelfrydu mewn llenyddiaeth am y tro cyntaf yn y 18g, a hyn yn cael ei ailadrodd yn y 19g a’r 20g gan nifer helaeth o awduron gan gynnwys Wilhelm von Humboldt, Miguel de Unamuno a Sabino Arana.<sup>408</sup> Roedd gan y ffisiognomi traddodiadol hwn nifer o nodweddion ymddygiadol ac agweddol yn ôl Díaz Freire, gan gynnwys cariad at lendid, moesoldeb mewn perthnasau personol, gwedduster

---

<sup>408</sup> Gw. Díaz Freire, ‘La construcción’, t. 674. Gw. Wilhelm von Humboldt, *Selected Basque Writings: The Basques and Announcement of a Publication* (1801). Ailgyhoeddwyd a chyfieithwyd gan Andreas Corcoran gyda chyflwyniad gan Iñaki Zabaleta Gorrotatxegi (Reno: University of Nevada, 2013).

mewn dawnsiau, ymataliaeth emosiynol (yn enwedig mewn angladdau), cysondeb mewn cyfeillgarwch, anrhydedd, urddas, parch at awdurdod, cymeriad tawedog, a ‘defnydd da’ o amser.<sup>409</sup>

At hynny, mae’r awduron Basgaidd dan sylw yn yr astudiaeth hon yn anghytuno ynghylch y gwahaniaethau a oedd rhwng ffisiognomi moesol y Basgiaid a ffisiognomi moesol y Sbaenwyr. Gwelir yng ngwaith Sabino Arana o’r 1890au, er enghraifft, ddeuoliaeth bendant rhwng pobl Gristnogol ar y naill law a phobl atheïstaidd a materol ar y llaw arall. Yn wir, gwelir gwahaniaeth hanfodol a alwyd gan José Luis de la Granja Sainz yn ‘ddeuoliaeth foesol ddwys o gymeriad Manicheaidd’.<sup>410</sup> Honnodd Arana mewn llythyr personol, er enghraifft, mai cenedl gynhenid Gatholig oedd Gwlad y Basg, a bod ‘ei thraddodiad, ei chymeriad dinesig a’i chymeriad gwleidyddol yn Gatholig yn eu hanfod’.<sup>411</sup> Roedd Sbaen yn genedl gynhenid annuwiol meddai Arana mewn erthygl yn *Baserritarra* ar y llaw arall, a oedd ‘wedi gwrthwynebu yn wastadol ddylanwad llesionol [yr Eglwys Gatholig]’, ac wedi parhau felly ‘yn anghrefyddol ac yn anfoesol’.<sup>412</sup> Yn ychwanegol at hynny, tra oedd godineb yn ‘brin’ a chariad tuag at gartref a theulu yn anhepgor i’r Biscaiaid, ‘mynych’ oedd godineb ymysg y Sbaenwyr ac nid oedd ganddynt unrhyw ‘serch tuag at yr aelwyd’.<sup>413</sup>

Anghrefyddoldeb cyffredinol a oedd wrth wraidd anfoesoldeb y Sbaenwyr yn ôl Arana felly, ond roedd rhywbeth arall hefyd, sef goruchafiaeth *liberalismo* (rhyddfrydiaeth) dros wleidyddiaeth a chymdeithas gyfoes Sbaen. Gair diddorol yw *liberalismo* yn nisgwrs Sabino Arana gan ei fod yn cwmpasu nifer helaeth o gysyniadau cysylltiedig ond tra gwahanol, o ddyneiddiaeth, athroniaeth resymolaidd, secwlariaeth, materoliaeth ac iwtilitariaeth i naturiolaeth a moderniaeth yn gyffredinol. ‘Dwyfoli dynolryw’, ‘dwyfoli

---

<sup>409</sup> Gw. Díaz Freire, ‘La construcción’, t. 674.

<sup>410</sup> ‘Describe [ambas razas] con un intenso dualismo moral de carácter maniqueo: los vizcaínos son dechados de virtudes y los españoles, un cúmulo de vicios, en la comparación que hace en su artículo ‘¿Qué somos?’: Granja Sainz, ‘El antimaketismo’, 196.

<sup>411</sup> ‘Proclamo el catolicismo para mi Patria, porque su tradición, su carácter político y civil es esencialmente católico’: Sabino Arana, ‘Carta Particular’, dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 33.

<sup>412</sup> ‘El pueblo español, no obstante los largos siglos en que ha gozado de gobierno y legislación católicos, siempre se ha resistido a su benéfica influencia, siempre ha permanecido irreligioso e inmoral, de suerte que este su actual carácter no puede atribuirse en manera alguna al gobierno y a la legislación liberales, que al presente le rigen, sino que éstos así le encontraron’: Sabino Arana, *Baserritarra* 11, dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 40.

<sup>413</sup> ‘El bizkaino es amante de su familia y su hogar (cuanto a lo primero, sabido es que el adulterio es muy raro en familias no inficionadas de la influencia maketa, esto es, en las familias genuinamente bizkainas; y cuanto a lo segundo, si el bizkaino por su carácter emprendedor se ausenta de su hogar no le pasa día en que no suspire por volver a él); entre los españoles, el adulterio es frecuente así en las clases elevadas como en las humildes, y la afección al hogar es en estas últimas nula porque no la tienen’: Sabino Arana, dyfynnir yn Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 69.



natur' a 'gwadu Duw yn ymarferol' yw hanfod rhyddfrydiaeth yn y pen draw yn ôl Arana mewn erthygl yn *Euskadi*, sef popeth nas derbynnir yn gyfreithlon gan ddiwinyddiaeth uniongred a chyfundrefn gymdeithasol draddodiadol yr Eglwys Gatholig.<sup>414</sup> Gwêl Arana, felly, gontinwrm achosol uniongyrchol o ryddfrydiaeth i annuwioldeb, ac o annuwioldeb i anfoesoldeb ei hun. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod Arana o'r farn bod *El liberalism es pecado* (mae rhyddfrydiaeth yn bechod), cyfrol o 1884 gan y Jeswit Catalanaidd, Félix Sardá y Salvany, yn 'aruchel' ac yn cynrychioli 'gogoniant Eglwys Sbaen a'r Eglwys Gyffredinol'.<sup>415</sup> At hynny, os oedd rhyddfrydiaeth Sbaenaidd yn 'ein rhannu oddi wrth Dduw', meddai ef, ac o ganlyniad yn annuwiol, rhaid bod Sbaen yn annuwiol hefyd.<sup>416</sup>

Gan edrych yn benodol ar gyfnod ein hastudiaeth, datganodd Arana mewn erthygl yn *Bizkaitarra* o'r enw '¡Caridad!' ('Caredigrwydd!'), fis Ionawr 1895, fod dyfodiad mewnfudwyr o Sbaen i Fiscaia yn 'oresgyniad [gan] annuwioldeb, pob math o anfoesoldeb, cabledd, trosedd, rhydd-feddwl, anghrediniaeth, sosialaeth, [ac] anarchiaeth'.<sup>417</sup> Mewn erthygl arall o'r enw 'La Cantabria' ('Y Cantabria', sef enw newyddiadur y cyfnod), fis Chwefror 1895, datganodd fod y mewnfudwyr o Sbaen yn 'amnewid cymeriad y Biscaiaid am eu cymeriad eu hunain', cymeriad a oedd yn 'rhagrithiol a gwrthnysig'.<sup>418</sup> Ac ym mis Mai yr un flwyddyn, datganodd yn yr erthygl 'Corrupción' ('Llygredd') fod cymunedau mewnfudol mor 'ddirywiedig' nes byddai rhoi pleidlais gyffredinol iddynt yn 'drosedd ac yn hunanladdiad'.<sup>419</sup> Gwnaeth gyferbyniad uniongyrchol rhwng Biscaiaid a Sbaenwyr yn '¿Qué somos?' ('Beth ydym ni?') ym mis Mehefin wrth ddatgan mai 'dirywio mewn cymeriad' y mae'r Biscaiaid pan fônt yn cysylltu ag estroniaid (gan eu bod eisoes yn rhagorol, mae'n debyg), tra mae angen 'goresgyniad gan estroniaid' ar y Sbaenwyr o dro i dro, 'er mwyn eu

---

<sup>414</sup> 'El Cesarismo y el racionalismo de la culta Europa de nuestros días , ¿qué son sino formas varias de esa divinización del hombre? Y ¿qué el materialismo y el naturalismo, sino formas templadas de aquella deificación de la naturaleza? El salvajismo, así el hombre se adorne con plumas la cabeza y se ciña con pieles, como vista sombrero de copa y frac, siempre consiste en una misma cosa: en la negación práctica de Dios': Sabino Arana, *Euskadi* 1, dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 38.

<sup>415</sup> Granja Sainz, 'El antimaketismo', 194.

<sup>416</sup> 'El liberalismo nos aparta de nuestro último fin, que es Dios': Sabino Arana, dyfynnir yn Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 19.

<sup>417</sup> 'Con esa invasión maketa [...] la impiedad, todo género de inmoralidad, la blasfemia, el crimen, el libre pensamiento, la incredulidad, el socialismo, el anarquismo [...] todo es obra suya': Arana, '¡Caridad!', t. 2.

<sup>418</sup> 'La irreligiosidad y la inmoralidad van cundiendo en nuestro pueblo por obra y gracia de la invasión maketa, de los maketos todos, llámanse integristas o librepensadores, que van sustituyendo el carácter bizkaino con su propio carácter, de suyo hipócrita y perverso': Sabino Arana, 'La Cantabria', *Bizkaitarra*, Año III/Número 22, 24 Chwefror 1895, t. 3.

<sup>419</sup> 'En pueblos tan degenerados como el maketo y maketizado, resulta el universal sufragio un verdadero crimen, un suicidio': Arana, 'Corrupción', t. 1.

gwareiddio hwy'.<sup>420</sup> At hynny, byddai un gweithiwr o Fiscaia yn gorffen cymaint o waith mewn cyfnod penodol o amser 'â thri gweithiwr o Sbaen gyda'i gilydd'.<sup>421</sup>

I awduron eraill o Wlad y Basg yn y 1890au, mwy cymedrol eu cenedlaetholdeb efallai, digon oedd amlygu a moli ansoddau gorau'r cymeriad Basgaidd yn lle beirniadu'r Sbaenwyr yn uniongyrchol. Wele awdur yn y cylchgrawn *fuerrista, Euskalduna*, o 1896 yn moli lletygarwch y Basgiaid: 'Gwelir yn ei thrigolion y balchder urddasol a haelioni hwnnw mor nodweddiadol o'r bobl Fasgaidd. Lletygarwch yw nodwedd amlycaf cymeriad y teulu hwn'.<sup>422</sup> Ac yng nghyfres o bum erthygl yn *Euskal-Erria* yn 1895, 'El marinero euskaldun', mae Pedro M. de Soraluze yn amddiffyn rhagoriaeth y Basgiaid (ac eithrio'r Sgandinafiaid) fel morwyr, morfilyddion a physgotwyr, ac yn cyfeirio at 'fedr milwrol rhagorol' y Basgiaid ym myddinoedd Hannibal ac Iŵl Cesar o'i gymharu â medr milwyr cenedloedd eraill.<sup>423</sup>

Yng Nghymru, fel y gwelwyd uchod, roedd Ieuan Gwynedd wedi dechrau ysgrifennu am y gwahaniaeth rhwng cenedl dduwiol y Cymry a chenedl annuwiol y Saeson (yn enwedig Saeson o'r dosbarth gweithiol) yn y 1850au, gan ymateb i 'Frad y Llyfrau Gleision', fel y gwnâi Edward Matthews yn nes ymlaen yn y 1860au. Ystyrier barn W. P. Griffiths:

Matthews, and earlier Ieuan Gwynedd, attempted to convey the idea that the religiosity of the common man in Wales [...] was a positive feature of modern life and in turn they conveyed a stereotypical view of the lower-class Englishman as worldly, ignorant, complacent: happy enough with his state so long as he got plentiful supplies of beer and beef! The Welsh, by contrast, set their minds on higher things [...] Matthews added that the secular reading material of the English – The News of the World – compared with the Welsh's devotion to scripture made them inferior.<sup>424</sup>

Gellid ychwanegu hefyd honiadau Michael D. Jones yn yr un cyfnod fod y cwlt Seisnig newydd o'r 'hunan' yn mynd yn groes i foesau a gwerthoedd Cymreig traddodiadol, a bod sobrwydd, gonestrwydd ac allgaredd y Cymry yn cael eu cyfnewid am haerllugrwydd,

<sup>420</sup> 'El bizkaino degenera en carácter si roza con el extraño; el español necesita de cuando en cuando una invasión extranjera que le civilice': Arana, '¿Qué somos? (IV)', t. 1.

<sup>421</sup> 'Preguntádselo a cualquier contratista de obras, y sabréis que un bizkaino hace en igual tiempo tanto como tres maketos juntos': Arana, '¿Qué somos? (IV)', t. 1.

<sup>422</sup> 'En sus moradores se observa muy distintamente esa noble altivez y generosidad tan características en el pueblo vascongado. La hospitalidad es el rasgo más saliente del carácter de esta familia': [dienw], 'Arrate' (1/2), *Euskalduna*, Año I/ Número 1, 13 Medi 1896, t. 4.

<sup>423</sup> Dyma draddodiad Basgaidd o forfila a physgota penfras yn y Gogledd Iwerydd ers yr Oesoedd Canol cynnar, yr unig bobl i wneud hynny heblaw y Sgandinafiaid hyd at amseroedd modern. Roedd ganddynt berthnasau masnachol uniongyrchol gyda llysoedd gogledd Ewrop (Lloegr, Ffrainc, y Cynghrair Hanseatig, ayyb), a honnir hyd yn oed y darganfuant America cyn Columbus oherwydd presenoldeb enwau Basgaidd yn Newfoundland. Soraluze, 'El Marinero Euskaldun', tt. 468-472, 504-507, 521-525, 568-575. Ceir rhan olaf y gyfres yn *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Gorffennaf 1896, tt. 18-22. Gw. tt. 504-505 am gyfeiriad at fedr milwrol y Basgiaid ym myddinoedd Hannibal ac Iŵl Cesar.

<sup>424</sup> Griffiths, 'Preaching', ôl-nodyn 13.

balchder, a materoliaeth y Saeson.<sup>425</sup> At hynny, ar ddiwedd y 1870au roedd Emrys ap Iwan wedi dechrau ymosod yn llym ar foesau isel y Sais cyffredin yn nhudalennau'r wasg Gymreig gan amlygu ei 'feiau cenhedlol' megis 'ei falchder, ei daeogrwydd, ei draheusder, a'i anwybodaeth'. Wele'r darn isod o'r erthygl 'Y Llo Arall' o 1877:

Os gellwch, ac os mynnwch, anrhydeddwch bob Sais, ond gwnewch hynny heb aberthu'ch anrhydedd eich hunain. Dangoswch iddo annibyniaeth eich ysbryd, nid trwy ei boeni â dwrn a thafod, ond trwy beidio ag ymostwng i'w efelychu yn eu feiau cenhedlol, megis ei falchder, ei daeogrwydd, ei draheusder, a'i anwybodaeth. Yn y Sais, nid yw'r pethau hyn ond amlygiadau o'i ysbryd. Ynoch chwi y maent yn amlygiadau o waseidd-dra. Yr ydych yn ceisio gweithio eich hunain i'r un ysbryd ag ef, trwy ddwyn yr un nodau ag ef.<sup>426</sup>

Ar ben hynny, roedd y Sais cyffredin yn gynhenid o dreisiol i Emrys, roedd milwyr Seisnig yn feddwon colledig na allai saethu yn syth, a gwelid yn dda i ŵr o Sais 'gicio ei wraig a hanner lladd ei fam' er mwyn datblygu '*splendid fighting qualities*' y Saeson. Buddiol yw dyfynnu tri darn estynedig o'r erthygl 'Sylwadau am y Rhyfel nad oedd yn Rhyfel' o 1882:

Tybia llawer o aelodau "Cymdeithas Heddwch" mai'r rhyfeloedd ymosodol a wna'r Saeson yn ddi-baid sy'n peri iddynt ymhoffi mwy nag un genedl arall mewn paffio, ymosod, gyrru rhedfeirch, hela, saethu colomennod anafedig, ac arteithio creaduriaid direswm. Ond tybiaf i nad yw'n iawn dweud bod y naill beth yn peri'r llall, er bod y ddau, wrth eu harfer, yn cryfhau'i gilydd y mae'n ddiamau.

Biff a bir yw bwyd a diod y Sais. Yn awr, y mae biff yn fwyd cryfhaol iawn, ac y mae cryfder corffol yn anhepgorol i drin bidog. Llygad da a dwylo diysgog sy'n angenrheidiol i saethu'n union, ac y mae hi'n digwydd bod diod y Sais yn gwneud ei lygad yn bwl a dyfrllyd, a'i law yn grynedig. Gan ei fod yn saethwr mor wael, y mae arno ofn wynebu dyn gwyn a disgybledig.

Dywedir mai'r achos paham y rhoir cymaint llai o gosb ar ddyn am gicio ei wraig a hanner lladd ei fam nag am ddwyn torth geiniog neu wy petrisen i dorri ei newyn ydyw er mwyn cynnwys, ac felly ddatblygu "*splendid fighting qualities - ysblennydd ansoddau ymladd*" y Saeson.<sup>427</sup>

Dywedodd Emrys mewn homili na allai 'ddychnygu am un proffwyd na sylfaenydd crefydd yn codi mewn gwledydd fel Lloegr a'r Taleithiau Unedig' gan fod 'sŵn cras y bywyd

---

<sup>425</sup> Gw. Glyn Williams, 'Nationalism in nineteenth-century Wales: the discourse of Michael D. Jones', yn Glyn Williams (gol.), *Crisis of Economy and Ideology: Essays on Welsh Society, 1840-1980* (BSA Sociology of Wales Study Group, 1983), t. 190 a 193.

<sup>426</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Y Llo Arall', *Baner ac Amserau Cymru*, 11 Ebrill 1877. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), t. 52.

<sup>427</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Sylwadau am y Rhyfel nad oedd yn Rhyfel', *Baner ac Amserau Cymru*, 11 Hydref 1882. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), t. 83, 84, 82.

cyffredin a elwir yn fywyd gwareiddiedig yn boddi seiniau isel, tyner y byd ysbrydol'.<sup>428</sup> Yn y pen draw, nid oedd mwyafrif y genedl Seisnig 'ddim yn gyfryw bobl y dylem ni'r Cymry eu haddoli a'u dynwared':

Ni raid dweud wrth y rhai craffaf ohonoch nad wyf i ddim yn erbyn i chwi barchu pob Sais sydd yn haeddu parch. Dywedodd un Sais mai'r Saeson gorau yw'r bobl orau ar y ddaear, ac mai gwerin y Saeson yw'r creaduriaid dylaf a dyhiraf. Yr wyf yn credu ei dystiolaeth. Y trueni yw bod y Saeson gorau gymaint llai eu nifer na'r rhai gwaethaf. Cydnabyddaf fod miloedd o Saeson yn bobl y gellir eu parchu. Dadlau yr wyf nad yw corff y genedl Seisnig ddim yn gyfryw bobl y dylem ni'r Cymry eu haddoli a'u dynwared.<sup>429</sup>

Gwelwyd tuedd gynyddol ers 1847, felly, i bortreadu'r Cymry yn ffafriol o ran eu moesau a'u duwioldeb o'u cymharu â'r Saeson, ac erbyn y cyfnod dan sylw yn yr astudiaeth hon, roedd y motiff wedi helaethu yn nisgwrs cenedlaethol y wasg Gymreig. Ystyrier y darn isod gan 'Proff. T. Rhys' yn *Y Celt* o fis Mawrth 1895; arferion 'isel' a 'phaganaidd' sydd gan y Saeson tra mai 'rhagorfreintiau' sydd gan y Cymry:

Yr ydym wedi gwrthod crefydd y Saeson bron yn unfrydol; cenedl o Ymneillduwyr neu Anghydfurfwyr ydym. Ni fynnwn ddim o hen arferion isel, paganaidd y Saeson, megis rasis ceffylau, &c. Yr eisteddfod, y cwrdd pregethu, y seiat, a'r cwrdd gweddi sydd mewn bri yn ein gwlad ni. Yr ydym wedi etifeddu rhagorfreintiau oddiwrth ein rhieni a'n teidiau na wyr y Saeson yn y cyfangorff fawr am danynt.<sup>430</sup>

Gwelir hefyd i Emrys ap Iwan yn nhudalennau *Y Geninen* yn 1895 gyhuddo'r Saeson o fod yn 'waedlyd', 'ysbeilgar' a 'thrahaus', a hwythau gan hynny yn 'blino a llygru'r byd':

Fe demtid dyn i gredu nad oes Creawdwr a Llywodraethwr yn bod pe gorfyddai iddo gredu y goddefir i genedl mor waedlyd ac ysbeilgar â'r Saeson flino a llygru'r byd yn llawer hwy. Yn fuan neu yn hwyr, y mae traha cenedl yn dychwelyd ar ei phen ei hun, a pha genedl erioed a fu mor drahaus â'r Saeson?<sup>431</sup>

Ac o fod yn 'anghyfiaith ac anghyweithas':

Cadw'r Gymraeg yn fyw ac yn iach yw'r unig Geidwadaeth y mae'n weddus i'r Cymry ymagnïo i'w hamddiffyn, a rhyddhau'r Dywysogaeth oddi wrth yr ormes Seisnig sy'n ei gwneud hi'n gadlas chwarae ac yn grochan golchi i bobl anghyfiaith ac anghyweithas ydyw'r unig Ryddfrydiaeth y mae'n wiw i'r Cymry ymladd drosti.<sup>432</sup>

Ac o fod yn 'anifail mwy didoriad' yng ngolwg lletywyr y Cyfandir:

<sup>428</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Duw yn Darian a Duw yn Wobr', yn Ezra Roberts (gol.), *Homiliau gan y Diweddar Parch. R. Ambrose Jones (Emrys ap Iwan) Cyf. 2* (Dinbych: Gee a'i Fab, 1909), t. 25.

<sup>429</sup> Emrys ap Iwan, 'Y Llo Arall', t. 52.

<sup>430</sup> Rhys, 'Ein Colegau Anghenedlaethol', t. 3.

<sup>431</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 29.

<sup>432</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 23.

Gwelent ei bod yn rhaid i estron o Sais dalu mwy deirgwaith am ei fwyd a'i lety na rhyw estron arall, nid yn unig am ei fod yn anifail mwy ariannog, ond hefyd am ei fod yn anifail mwy didoriad, a bod yn rhaid gan hynny wrth fwy o amynedd i'w oddef.<sup>433</sup>

Dylid nodi, sut bynnag, fod y Sais, Thomas Darlington, yn gwrthod yr haerriad hwn yn ei ymateb i Emrys ap Iwan yn *Y Geninen* ym mis Ionawr 1896 gan roi'r enghraifft (braidd yn goeglyd) o'i daith ei hun i'r Almaen a'r pris rhesymol a dalodd am ei lety a'i fwyd.<sup>434</sup>

I awdur arall yn *Y Cymro* yn 1895 (yn adlewyrchu ansicrwydd parhaol ynghylch casgliadau addysgol y 'Llyfrau Gleision', efallai), rhagorai safon addysg yng Nghymru dros addysg rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, addysg sy'n gwneud 'diwylliant' a 'dadblygiad cymdeithasol' glowyr de Cymru yn 'uwch' ac yn 'berffeithiach' nag eiddo unrhyw löwr arall ym Mhrydain:

Ceid addysg Cymru ar y blaen i addysg rhannau eraill o Brydain, oddieithr yr Alban; a chydag addysg ganolradd ac uwchradd, edrychid ar Gymru gydag edmygedd. Cydmarer glowyr y Rhondda a glowyr eraill Prydain. Onid oedd eu diwylliant yn uwch a'u dadblygiad cymdeithasol yn berffeithiach nag eiddo y rhan luosocaf o lowyr Prydain? Onid at weithwyr o'r math yma yr edrychent gyda gobraith hyderus i benderfynu y cwestiynau anhawdd a godent parth cyfalaf a llafur?<sup>435</sup>

Ac yn addasu motiff pwysig arall ail hanner y 19g, 'Cymru lân', mae'r awdur dienw hwn yn mynd ymlaen i honni nad oedd ardaloedd eraill ym Mhrydain 'mor lân oddiwrth droseddau' na'r ardaloedd yng Nghymru 'lle yr oedd y boblogaeth yn hollol Gymreig': 'dylent ymfalchïo yn hyn, ac hefyd yn y dyfnder teimlad crefyddol oedd mor nodweddiadol ohonynt fel Cymry'.<sup>436</sup>

Gadawer inni ystyried y term 'poblogaeth hollol Gymreig' am eiliad. Dyma frawddeg ddiddorol iawn wrth i'r awdur greu gwahaniaeth dealedig rhwng poblogaeth 'hollol' Gymreig (uchel ei moesau) a phoblogaeth 'rhannol' Gymreig, isel eu moesau. Gwelir yr un gwahaniaeth yn *Y Drych* ym mis Hydref 1895 wrth i awdur dienw (gan ddyfynnu erthygl yn y *Celt*) gwyno am 'anwariaid Sir Forgannwg' a oedd yn cynnal ymladdfeydd paffio â dyrnau noeth hyd at farw un o'r cystadleuwyr.<sup>437</sup> Sir wedi'i Seisnigo i raddau helaeth erbyn y 1890au oedd Sir Forgannwg wrth gwrs, a gwelir yma enghraifft arall o greu hybrid Eingl-Gymreig –

<sup>433</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 24-25.

<sup>434</sup> Thomas Darlington, 'Erthyglau Gwrth-Seisnig yn y Wasg Gymreig', *Y Geninen*, Cyf. XIV/Rhif 1, Ionawr 1896, t. 37.

<sup>435</sup> [Dienw], 'Y Cymeriad Celtaidd', t. 7.

<sup>436</sup> [Dienw], 'Y Cymeriad Celtaidd', t. 7. Trafodir y motiffau 'Cymru lân, gwlad y gân' a 'Cymru lân, Cymru lonydd' yn nes ymlaen yn Haen 3.

<sup>437</sup> [Dienw], 'Cymry Anwaraidd', *Y Drych-Columbia*, 10 Hydref 1895, t. 5.

hybrid wedi'i 'ddad-ddynoli' (*de-humanize*) a'i droi yn 'anwariad' (*savage*) i ddwyn termau ôl-drefedigaethol – na allai gyrraedd safon y bobl wreiddiol, bur.<sup>438</sup>

I'r Aelod Seneddol a 'Chymru Fyddwr' enwog J. Herbert Lewis, wrth draethu araith yn 1895 a gafodd ei ailadrodd yn *Y Cymro*, 'nid oes pobl mwy hoff o lenyddiaeth na'r Cymry' ac 'nid yw dyled llenyddiaeth Ewropeaidd i feddylddrychau Celtaidd ond yn dechreu cael ei gydnabod':

Er nad oedd ein llenyddiaeth yn helaeth iawn, yr oedd yn ddylanwadol neillduol, ac nid yw dyled llenyddiaeth Ewropeaidd i feddylddrychau Celtaidd ond yn dechreu cael ei gydnabod. Nid oes pobl mwy hoff o lenyddiaeth na'r Cymry, canys gwarient 200,000p yn flynyddol ar lenyddiaeth Gymreig yn unig.<sup>439</sup>

Yn y cylchgrawn *Wales* yn 1896, mae W. Llewelyn Williams yn amlygu pa mor wael fel ieithyddion yw'r Saeson oherwydd eu 'sefyllfa ynysig' o gymharu â sefyllfa ddwyieithog y Cymry:

English people are notoriously bad linguists. Why? Not because they are duller than other nations, but, because from their insular position, they have no advantages to train the ear and the memory for acquiring any other language than their own.<sup>440</sup>

Dyma honiad sy'n adlewyrchu honiad Emrys ap Iwan mai 'cenedl uniaith yw y Saeson yn anad un genedl yn Ewrop'.<sup>441</sup> Ychwanega: 'ni fynnant ac ni fedrant ddysgu un iaith ddieithr. Chwenychant bob peth ar sydd eiddo i genhedloedd eraill ond eu rhagoriaethau moesol a meddyliol'.<sup>442</sup> Ar ben hynny, haerodd Emrys ap Iwan yn 'Paham y Gorfu'r Undebwyr' fod llenyddiaeth Saesneg yn 'ynysaidd',<sup>443</sup> haeriad a wrthodwyd gan Thomas Darlington unwaith eto gan roi llawer o enghreifftiau o ddylanwad llenyddiaeth Lloegr, 'un o'r pedair neu bump o lenyddiaethau mawrion a fedd y byd', ar lenyddiaethau eraill.<sup>444</sup>

Gwelir ar draws ein detholiad o gylchgronau Cymreig a Basgaidd o'r 1890au liaws o sylwadau tebyg i'r rhai uchod, naill ai gan awduron eithafol eu cenedlaetholdeb neu gan awduron cymedrol, naill ai mewn cylchgronau a oedd yn bleidiol i genedlaetholdeb neu rai heb deyrngarwch gwleidyddol penodol. Gwelir sylwadau sy'n rhagori nodweddion y Cymry

---

<sup>438</sup> Gw. Bill Ashcroft, Gareth Griffiths a Helen Tiffin, *Key Concepts in Post-Colonial Studies* (London: Routledge, 1998), tt. 209-210.

<sup>439</sup> [Dienw], 'Cenedlaetholdeb Cymru', t. 5.

<sup>440</sup> W. Llewelyn Williams, 'The Claims of the Welsh Language', *Wales*, Vol. III/No. 30, Hydref 1896, t. 458.

<sup>441</sup> Dyfynnir yn Enid Morgan, *Emrys ap Iwan: Garddwr Geiriau* (Bangor: Cymdeithas Theatr Cymru, 1980), t. 16.

<sup>442</sup> Dyfynnir yn Morgan, *Emrys ap Iwan: Garddwr Geiriau*, t. 16.

<sup>443</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 24.

<sup>444</sup> Darlington, 'Erthyglau Gwrth-Seisnig', t. 36.

a nodweddion y Basgiaid, a sylwadau sy'n beirniadu – weithiau yn ysgafn ac weithiau yn llym – nodweddion y Saeson a nodweddion y Sbaenwyr. Ond pam? Ai rhagoriaeth hiliol noeth a welir yma, mabwysiad annibynnol o ddisgwrs jingoïstaidd chwarter olaf y 19g, neu a yw rhywbeth mwy cymhleth ar waith? Ai ymateb i rywbeth a welir yma, neu wrthddisgwrs sy'n ceisio adennill tir rhethregol mewn brwydr ieithyddol ehangach?

Nid dadansoddi triniaeth o'r Cymry a'r Basgiaid yn y wasg Seisnig a Sbaenaidd yn y 19g yw mater yr astudiaeth hon, ond buddiol fyddai ystyried y darn isod a ymddangosodd yng ngholofn olygyddol *The Times* ym mis Medi 1866:

The Welsh language is the curse of Wales. Its prevalence and the ignorance of English have excluded, and even now exclude, the Welsh people from the civilization, the improvement, and the material prosperity of their English neighbours [...] The result has been that the Welsh have remained in Wales, unable to mix with their English fellow-subjects, shut out from all literature except what is translated into their own language, and incapable of progress [...] The gentry, moreover, must necessarily speak English; and the use of a different language among the peasantry creates a most injurious division between the classes [...] Their antiquated and semi-barbarous language, in short, shrouds them in darkness.<sup>445</sup>

Yn yr un modd, gwelir awgrym o'r disgwrs metropolitaidd Sbaenaidd mewn adroddiad yn y cylchgrawn cymedrol, *Euskalduna*, o 1896, ac o'r ffordd yr oedd y wasg yn Madrid yn adrodd gwleidyddiaeth ranbarthol y *fuertistas*. 'Twp' a 'throseddol' oedd y Basgiaid rhanbartholgar, a chanddynt 'gariad cyfeiliornus tuag at y famwlad fach' a barai iddynt 'sathru dan draed faner y famwlad fawr' yn ôl un newyddiadur o Madrid.<sup>446</sup> Ar yr un pryd, roedd papur arall o Madrid, *El Resumen*, yn cyfeirio at Euskalerriakos (un o'r carfanau cenedlaetholgar Bilbo) gyda dirmyg a chryn dipyn o wawd:

*Los euskalarriacos* [sic], neu beth bynnag y'u gelwir nhw. Y goddrychau hynny (ac mae'n bosibl nad eu henw cywir yw hynny gan ein bod yn wan yn y dafodiaith Fasgaidd) a oedd yn codi cymaint o heldrin y llynedd yn Bilbo.<sup>447</sup>

Os oes elfennau o ragoriaeth hiliol neu ragoriaeth foesol yn nisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig a Basgaidd y 1890au, tebyg yw, felly, mai ymatebion i ddisgyrsiau

---

<sup>445</sup> Colofn olygyddol, *The Times*, 8 Medi 1866.

<sup>446</sup> 'Los euskal[a]rriacos son una colección de necios que puede ser una colección de criminales á poco que se les deje en libertad'; 'conviene que las autoridades no les permitan la expansión criminal que ya han tenido otras veces, en que su mal entendido amor á la pequeña patria los ha conducido al extremo de pisotear la bandera de la grande patria': [dienw], 'La Protesta de Guernica: 1896' (1/2), *Euskalduna*, Año I/Número 2, 20 Medi 1896, t. 11.

<sup>447</sup> 'Los euskalarriacos ó como se llamen. Estos sujetos, cuyo nombre puede que equivoquemos por no estar fuertes en el dialecto vascongado, son los que tanto dieron que hacer en Bilbao el pasado año': [dienw], 'La Protesta de Guernica: 1896', t. 11.

metropolitanaidd Prydain a Sbaen yr oes fodern a welir, sef disgyrsgiau a fu'n portreadu'r Cymry a'r Basgiaid yn anffafriol, a hyd yn oed fel pobloedd 'hanner-anwaraidd', ers canrifoedd.<sup>448</sup> Yn achos honiadau o ragoriaeth foesol y Cymry yn y disgwrs Cymreig yn benodol, ymateb uniongyrchol a pharhaol i adroddiad Comisiynwyr Addysg 1847 a welir bid sicr. Dyma ddatganiadau o ragoriaeth sy'n tarddu o'r awydd a'r angen i ymateb i bortreadau o israddoldeb gan bobloedd eraill yn y pen draw felly; datganiadau sy'n 'genedlaethol' a 'threfedigaethol' ar yr un pryd.

## A ydym yn ddau beth?

Rydym wedi gweld hyd yma sut y mae'r disgwrs cenedlaethol yn gwahaniaethu rhwng ein dwy bobl, sut y mae'n breintio'r Cymry a'r Basgiaid yn foesol a sut y mae'n israddio'r Saeson a'r Sbaenwyr. Gwelwyd, hefyd, olion o'r disgyrsgiau ymosodol, metropolitanaidd, Seisnig a Sbaenaidd, yr ymatebir yn eu herbyn. Byddai'n gamarweiniol, er hynny, awgrymu bod pob awdur yng Nghymru a Gwlad y Basg a oedd yn ymdrin â'r genedl Gymreig neu'r genedl Fasgaid yn y 1890au, sef pob un a oedd yn cyfrannu at, neu yn cyfryngu trwy, y disgwrs cenedlaethol-drefedigaethol, yn honni bod gwahaniaeth elfennol rhwng y ddwy bobl. Ceir llwyth o erthyglau yn y cylchgrawn *fueraista Euskal-Erria* yn 1896, er enghraifft, yn cyfeirio at, ac yn galw am wladgarwch i, 'nuestra madre España' (ein mam Sbaen) ac 'la Madre común' (y Fam gyffredin).<sup>449</sup> I gloi'r bennod hon, felly, byddwn yn ystyried un o densiynau disgyrsiol craidd ein dau ddisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol: y rhai sy'n honni nad ydym yn wahanol iddynt 'hwy' o gwbl, neu ein bod 'ni' yn ddau beth.

Yn *Young Wales* ym mis Hydref 1896 er enghraifft, mae Thomas Darlington yn gwrthod yr hen ddadl fod cynfrodorion Prydain wedi cael eu dinistrio yn llwyr gan y Sacsoniaid yn Lloegr, ac yn honni y gall gwyddor newydd ethnoleg brofi nad oes gwahaniaeth mawr rhwng y Cymry a'r Saeson o ran hil, ac nad yw'r Cymry yn fwy 'Celtaidd' na phobl eraill Prydain.<sup>450</sup> Gwrthod y disgrifiad 'Tiwtonaidd' ar gyfer y Saeson y mae Darlington hefyd gan fod 'sylfaen enfawr Cymreig anweledig' ynddynt, er ei fod yn

---

<sup>448</sup> Gw. trafodaeth ar gydsyniad Kirsti Bohata o 'ddisgwrs imperialaeth ddiwylliannol Eingl-ganolog', darlithoedd Matthew Arnold, a *Wild Wales* George Borrow, uchod yn yr adran 'Disgyrsgiau cenedlaethol-drefedigaethol'.

<sup>449</sup> Gw. [dienw], 'La voz del patriotismo', *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Gorffennaf 1896, tt. 242-247; a [dienw], '¡Viva España!', *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Gorffennaf 1896, tt. 223-224.

<sup>450</sup> Thomas Darlington, 'The Cymric Element in the English People (i)', *Young Wales*, Vol. II/No. 22, Hydref 1896, tt. 234-239.



derbyn bod ‘gwaed’ Almaenig a Danaidd yn llifo trwy Saeson dwyrain Lloegr. Ystyrier y darn isod:

But there is no evidence to show that the inhabitants of the western half of the country were, or are, racially different from the Welsh. Matthew Arnold’s description of the English people, therefore, appears to be as scientifically accurate as it is happy from a literary point of view – ‘a vast obscure Cymric basis, with a vast visible Teutonic superstructure’. The English are a Teutonic people only in the sense that the French are a Latin people.<sup>451</sup>

Fel mae’n digwydd, cafodd erthygl Thomas Darlington ei hadolygu a’i chrynhoi yn *Y Werin* ym mis Tachwedd 1896 hefyd, a gwelir yn yr erthygl newydd hon lais arall sy’n atgyfnerthu’r theori ynghylch gwreiddiau unedig y Cymry a’r Saeson, dwy bobl ‘o’r un haniad’ a wahanwyd gan ‘faich gorthrwm estroniaid’, sef y Normaniaid:

Y mae ysgrifau fel hon yn sicr o wneyd lles trwy symud ymaith y rhagfarn sydd yn bodoli rhwng pobl o’r un haniad, er wedi eu gy[r]ru bellach, bellach oddiwrth eu gilydd am ganrifoedd gan faich gorthrwm estroniaid.<sup>452</sup>

Yn ogystal â phobl sy’n honni ‘unffurfiaeth’ hiliol y Cymry a’r Saeson, gwelir y rhai sy’n barod i dderbyn gwahaniaeth hanesyddol, neu ethnig, y ddwy bobl ond yn amddiffyn rhyw unoliaeth newydd o fewn Prydeindod. Dadleuai’r cenedlaetholwr Cymreig enwog Thomas E. Ellis yn ‘The influence of the Celt in the making of Britain’ yn 1889 er enghraifft, fod athrylith y Prydeiniwr modern wedi’i seilio ar gymysgedd da o bobloedd hynafol fel y Cymry a’r Gwyddelod gyda chymysgedd o bobl ddiweddarach fel y Saeson a’r Normaniaid.<sup>453</sup> Yn *Yr Haul* (cylchgrawn Eglwys Loegr a oedd yn geidwadol ei wleidyddiaeth) ym mis Ionawr 1895, gwelwn amddiffyniad huawdl o’r hunaniaeth ddeuol hon. Cymro yw Cymro ac nid Sais, yn ôl yr awdur, ond gall Cymro fod yn Brydeiniwr hefyd, a gall Cymro fod yn wladgarwr Cymreig a gwladgarwr Prydeinig ar yr un pryd; balch o Gymru a balch o’r Ymerodraeth Brydeinig:

Wrth edrych ar gof-golofn Llewelyn, fe deimlwn ein bod yn Gymry cenedlgarol. Wrth edrych ar gof-feini Nelson a Wellington, fe deimlwn ein bod yn Brydeiniwr gwladgarol. Ni all y Cymro *deimlo* yn Sais, ond gallwn a byddwn yn teimlo ein bod yn Brydeiniwr, balch o’n hymerodraeth yn gystal a balch o’n gwlad. Un o ffôl bethau ein culni ydyw tybied fod cenedlgarwch Cymreig yn awgrymu cenedl-gasineb

<sup>451</sup> Darlington, ‘The Cymric Element’, t. 236.

<sup>452</sup> [Dienw], ‘Yr Elfen Gymreig yn y Saeson’, *Y Werin*, 21 Tachwedd 1896, t. 3.

<sup>453</sup> Thomas E. Ellis, ‘The influence of the Celt in the making of Britain’ (1889), yn Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrecsam: Hughes and Son, 1912), tt. 85-115.

Seisonig. Dim o'r fath beth. Yr ydym yn frodyr i'r Seison, ac yn un â hwy fel Prydeinwyr.<sup>454</sup>

Dyma un o'r tensiynau parhaol a welir ar draws y disgwrs cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig a gofnodwyd yn y wasg yn y 1890au. Mae mwyafrif yr awduron yn creu gwahaniaeth elfennol rhwng y Cymry a'r Saeson, ac wedyn mae'r un awduron yn gwadu'r gwahaniaeth hwnnw, neu'n ceisio lleihau gradd y gwahaniaeth. Maent yn sefydlu ac yn cyfiawnhau dau gategori ar wahân, y Cymry a'r Saeson, gyda'u hanesion a'u nodweddion priodol, ond yn aml iawn maent yn mynd ymlaen i sefydlu trydydd categori, y Prydeinwyr, sy'n sefyll yn uwch na'r ddau gategori gwreiddiol. Dyma densiwn hanesyddol (a chyfoes) y bu'r athronydd J. R. Jones yn ei dadansoddi yn fanwl yn ei lyfryn enwog o 1966, *Prydeindod*, wrth gwrs, gan gasglu nad oedd hunaniaeth luosog o'r math hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir, ac mai'r hunaniaeth Gymreig a fyddai'n ildio yn y pen draw.<sup>455</sup> Dyma enghraifft o ddisgwrs cenedlaethol ar ei hanner, felly; disgwrs sy'n cymryd rhai o'r camau rhyngol angenrheidiol i sefydlu delwedd o genedl annibynnol, ond disgwrs sy'n methu cynnal y ddelwedd honno hyd at ei chasgliad rhesymegol. Dyma ddisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol, felly; disgwrs sy'n creu cenedl israddol o fewn ymerodraeth uwchraddol.

\* \* \*

Gwelwyd yn Haen 1 y paradeim disgyrsiol, neu waelod y ffos destunol, gamau disgyrsiol sylfaenol y ddwy genedl, sef creadigaeth y ddeuliaeth rethregol rhwng 'ni' y Cymry a 'nhw' y Saeson, a 'ni' y Basgiaid a 'nhw' y Sbaenwyr. Gwelwyd y dyfeisiadau sy'n 'actifadu' y ddwy bobl yn ieithyddol, a gwelwyd sut mae awduron yn adeiladu ar y gwahaniaeth categorig hwn gan ychwanegu naratifau o wreiddiau hanesyddol gwahanol a honiadau o wahaniaethau hiliol, ieithyddol, cymdeithasol a chrefyddol. Gwelwyd hefyd fod y disgyrsiâu Cymreig a Basgaidd yn sefydlu rhagoriaeth foesol y 'ni' dros y 'nhw' mewn ymdrech i ymateb i bortreadau traddodiadol o'u hisraddoldeb gan y canol metropolitaidd. Yn olaf, ystyriwyd lleisiau sy'n gwrthod unrhyw wahaniaeth rhwng 'ni' a 'nhw' a'r lleisiau sy'n amddiffyn categorïau ethnig uwch na'r Cymry a'r Basgiaid, sef Prydeindod a Sbaendod. Gwelwyd, felly, gamau cyntaf yng ngenedigaeth ddisgyrsiol dwy genedl ar wahân; camau, sut bynnag, sy'n llawn amwysedd ac ansicrwydd o ran maint y gwahanrwydd hwnnw. Awn ymlaen yn y bennod nesaf i weld sut mae awduron yn adeiladu ar y seiliau hyn gan greu cenedloedd a chanddynt gyfeillion a gelynon.

<sup>454</sup> [Dienw], 'Cenedlgarwch a Symmudiadau Gwladgarol', *Yr Haul*, Rhifyn 121/Cyf. XI, Ionawr 1895, t. 15.

<sup>455</sup> J. R. Jones, *Prydeindod* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1966).



## Haen 2: Cyfeillion a gelynon

Ym mis Hydref 1881 anfonodd Emrys ap Iwan lythyr at *Baner ac Amserau Cymru* o dan y teitl 'Ein Gorthrymwy'r a'n Cefnderoedd', llythyr a ymosododd ar 'ormeswaith [sic] diweddaf y Sacsoniaid' yn Iwerddon, sef arestio a charcharu arweinydd y cenedlaetholwyr Gwyddelig, Charles Stewart Parnell, am gynhyrfu dros ddiwygiad tir.<sup>456</sup> Dyma lythyr sy'n crynhoi yn daclus ail haen ein paradeim disgrysiol, wrth i Emrys ap Iwan ochri â 'chefnderoedd' y Cymry, y Gwyddelod, yn erbyn 'gorthrymwy'r' y ddwy genedl, y Saeson. I nifer helaeth o awduron cenedlaetholgar Cymreig a Basgaidd y 1890au felly, roedd gennym 'ni' y Cymry a 'ni' y Basgiaid ddau fath o berthnasau, neu ddau fath o gyd-sgwrsiwr testunol: ein cyfeillion a'n gelynon.

Yn gyntaf, ceir y 'gelyn mawr' neu'r cymydog pwerus dros y ffin sydd wedi bod yn ymosod arnom 'ni' ers canrifoedd. Yn ail, ceir nifer o 'elynon mewnlol', neu'r Cymry a'r Basgiaid esgeulus, gwasaid neu ffug nad ydynt yn ymddwyn yn gyson â 'dyletswyddau' amlwg y genedl. Yn drydydd, ceir gelynon haniaethol neu syniadau ac athroniaethau sy'n mynd yn groes i werthoedd a buddiannau'r Cymry a Basgiaid. Yn bedwerydd, ceir cefndryd a chymrodyr allanol, neu gyd-wrthryfelwyr yn 'ein' hymdrech yn erbyn y gelyn mawr. Yn bumed, ceir cyfeillion cyfleus a hedfanol megis gelynon ein gelyn mawr, neu bwerau milwrol mawr eraill y byd imperialaidd. Yn olaf, ceir brodyr ysbrydol mewn trefedigaethau pell eraill, neu gyd-israddolion (*co-subalterns*) y byd imperialaidd.<sup>457</sup> Gwelir hefyd, sut bynnag, nad yw pob awdur yn cytuno ar y radd o elyniaeth neu gyfeillgarwch y dylid ei phriodoli i'r gwahanol gategoriâu hyn. Trown yn awr i ystyried gelynon a chyfeillion ein cenedloedd yn fanwl, gan ddadansoddi sut y'u ffurfir yn ddisgrysiol, ac asesu eu swyddogaeth achosol yn y paradeim ehangach.

---

<sup>456</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Ein Gorthrymwy'r a'n Cefnderoedd', *Baner ac Amserau Cymru*, 19 Hydref 1881, t. 13.

<sup>457</sup> Nid yw cyfieithiad Cymraeg i'r enw Saesneg 'subaltern' wedi'i sefydlu yn gadarn eto yng nghyd-destun astudiaethau ôl-drefedigaethol Cymreig. Yn Saesneg, mae 'subaltern' yn gallu bod yn enw neu'n ansoddair ('the subaltern races'; 'the subalterns') ond nid yw'r gair 'isradd' wedi ennill plwyf yn Gymraeg fel enw hyd yma. Mae bron pob iaith arall yn defnyddio ffurf ar y gair Lladin 'subaltern', ac mae aml i destun Cymraeg yn cadw'r gair Saesneg (rhwng dyfynodau neu mewn ffont italig). 'Sub-alternus' yw'r 'is-arall' yn Gymraeg, felly byddai'n bosibl bathu'r termau 'yr is-arall', 'yr is-eraill' a'r 'cyd-is-eraill', pe hoffid pwysleisio'r elfen o aralledd. Opsiwn arall (a'r opsiwn a ddewisir yma) yw bathu 'israddolyn, israddolion' ar gyfer 'subaltern, subalterns'. Cafodd y gair hwn ei ddefnyddio ar gyfer 'undergraduate(s)' yn y gorffennol ond mae'r cysylltiad hwnnw wedi cilio erbyn hyn. Cydnabyddir cyngor Dr Aled Llion Jones wrth ddewis y term hwn ar gyfer yr astudiaeth bresennol.

## Mae gennym elyn mawr

‘Mam puteiniaid y ddaear yw llywodraeth oresgynnol’, dywedodd Michael D. Jones yn *Y Ddraig Goch* yn 1876, ac wedi cyfeddiannaeth Ynys Cyprus gan lywodraeth Prydain ddwy flynedd yn ddiweddarach, ychwanegodd mai ‘cadw pob cenedl i lawr y mae’r Saeson [ac] nid oes esiampl yn ei holl hanes ei bod o’i gwirfodd erioed wedi rhoddi hunanlywodraeth i un genedl a oresgynnodd’.<sup>458</sup> Ni synnir, efallai, mai pennaf ymysg gelynyon cenedlaetholwyr Cymreig y 19g oedd yr endid ‘goresgynnol’ hwn, Lloegr, ei phobloedd hanesyddol y Tiwtoniaid a’r Sacsoniaid, a’r Saeson cyfoes yn gyffredinol.

Nid yw datganiadau ecblyg o elyniaeth y Saeson fel y rhai uchod gan Michael D. Jones yn gyffredin yn y wasg Gymreig yn y 1890au, sut bynnag. Ffurfir delwedd ddisgyrsiol y gelyn, gan amlaf, mewn ffordd ymhlyg ac awgrymiadol gan gyfeirio at y Saeson mewn metafforau bygythiol neu gan gyfeirio at eu hymddygiad ymosodol tuag at y Cymry. Gwelir metaffor o’r fath yn ‘Y Cymeriad Celtaidd’ ym mis Rhagfyr 1895 wrth i Vaughan Williams gyfeirio at y ‘Teuton’ fel ‘llew rhuadwy’ a oedd yn ‘rhodio oddiamgylch gan geisio y neb a allai lyncu’, gan ychwanegu mewn datganiad ac iddo fwy nag awgrym o hunan-barch cenedlaethol isel iawn, fod y ‘Celt’ yn ‘gymwys iawn i gael ei lyncu’.<sup>459</sup> Yn ddiddorol, dyma drosiad mae Emrys ap Iwan ei hun yn ei ddefnyddio yn ‘Paham y Gorfu’r Undebwyr’ gan ddatgan bod ‘llawer cenedl’ o dan ‘bawen’ y Saeson ers ‘ugeiniau a channoedd o flynyddoedd’.<sup>460</sup>

Yn ychwanegol at drosiadau fel y rhai uchod, cyflwynir gelyniaeth gyffredinol y Saeson gan adrodd cyfres o’u troseddau, neu’r gweithgareddau ymosodol o’u heiddo a effeithiodd ar y Cymry, naill ai yn hanesyddol neu yn y presennol. Gwelir, er enghraifft, mewn erthygl gan Emrys ap Iwan o 1880, ‘Bully, Taffy a Paddy’, sut y ‘lladratesid’ tir y Cymry, a sut y ‘cymerwyd’ treftadaeth y Gwyddel gan y Saeson.<sup>461</sup> Er gwrthod y theori gyffredinol bod y Brythoniaid wedi eu gyrru o Loegr yn un clamp gan y Sacsoniaid gan yr

---

<sup>458</sup> ‘Mam puteiniaid y ddaear [...] yw llywodraeth oresgynnol, a chyda hon y mae brenhinoedd y ddaear wedi puteinio’: Michael D. Jones yn *Y Ddraig Goch* yn 1876. Dyfynnir gan R. Tudur Jones yn ‘Michael D. Jones a thynged y genedl’, t. 77. ‘Cadw pob cenedl i lawr’: Michael D. Jones yn *Y Celt*, 9 Mawrth 1878. Dyfynnir yn Jones, ‘Cwmni’r *Celt* a dyfodol Cymru’, t. 119.

<sup>459</sup> ‘Edrychai ar y Teuton fel llew rhuadwy yn rhodio oddiamgylch gan geisio y neb a allai lyncu. Ond gallu neu nodwedd y Celt oedd ei fod yn gymhwys iawn i gael ei lyncu’: [dienw], ‘Y Cymeriad Celtaidd’, t. 7.

<sup>460</sup> Emrys ap Iwan, ‘Paham y Gorfu’r Undebwyr’, tt. 24-25.

<sup>461</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan: yn ysgrifennu yma o dan y ffugenw ‘Nationalist’), ‘Bully, Taffy a Paddy’, *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Ebrill 1880, t. 13. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), t. 13.

hanesydd Gweirydd ap Rhys (Robert John Pryse) mor gynnar â 1874 yn ei *Hanes y Britaniaid a'r Cymry*, cyffredin iawn oedd y trosiad hwn mewn ysgrifau cenedlaetholgar y 1890au.<sup>462</sup>

Boed hynny fel y bo, unwaith wedi sefydlu eu goruchafiaeth ddaearyddol a gwleidyddol ar Ynys Prydain, dechreuodd y Saeson 'ymelwa' (neu 'exploit' yn y testunau Saesneg) ar Gymru yn ôl naratif y disgwrs Cymreig, trosiad yr oedd Ieuan Gwynedd ac Edward Matthews wedi ei ddefnyddio yn helaeth yn gynharach yn y 19g yn ôl W. P. Griffith:

The exploitative nature of the English, according to Matthews, had seen Wales being deprived of her natural resources and condemned to serve the interests of the English state. This echoed what Ieuan Gwynedd had written c.1850, when he depicted the Welsh, the Scots and the natives of overseas colonies, in their different ways, as exploited peoples.<sup>463</sup>

Yn ychwanegol at 'ymelwa' ar y Cymry, roedd y Saeson wedi'u 'hesgeuluso' hefyd yn ôl rhai sylwebyddion, yn enwedig o'u cymharu â'r Gwyddelod wedi i lywodraethau Llundain ddechrau cymryd 'Cwestiwn Iwerddon' o ddifrif yn y 1880au. Ceir honiadau o'r fath, er enghraifft, mewn cyfres o bedair erthygl sylweddol gan 'Adfyfr' (T. J. Hughes) yn *The Daily News* o fis Hydref 1886 i fis Ionawr 1887 o dan y teitl 'Neglected Wales'.<sup>464</sup> Cwyno am y cwestiwn tir, yr eglwys sefydledig, y gyfundrefn addysgol a'r gyfundrefn cyfiawnder yn gyffredinol y mae 'Adfyfr', a gwelir atseiniau o'r un honiad mewn erthygl gan W. Llewelyn Williams yn y cylchgrawn *Wales* yn 1896 wrth iddo gwyno am ddiffyg cymorth, diffyg cydnabyddiaeth gan lywodraeth Prydain i lenyddiaeth Gymraeg a diffyg cydnabyddiaeth i waith Gwenogvryn Evans yn benodol:

It may be said with truth that no nation is so little indebted as Wales to its Government for any help or encouragement in literary work [...] It is only this year that a tardy acknowledgement has been made by the Government of the great services which have been rendered to Welsh literature by Mr Gwenogvryn Evans, and even this small acknowledgement has been sneered at and criticized in the English press.<sup>465</sup>

---

<sup>462</sup> 'On the ground of common sense alone the doctrine was incredible. And [Gweirydd ap Rhys] rightly declared it to be *camsyniad dybryd*, a flagrant error': A. W. Wade-Evans, 'Prolegomena to a study of early Welsh history', yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *The Historical Basis of Welsh Nationalism* (Cardiff: Plaid Cymru, 1950), t. 3. Cyhoeddwyd *Hanes y Britaniaid a'r Cymry* mewn dwy gyfrol yn 1872 a 1874.

<sup>463</sup> Griffith, 'Preaching', t. 63.

<sup>464</sup> T. J. Hughes (yn ysgrifennu o dan y ffugenw 'Adfyfr'), 'Neglected Wales: The Land Question', *The Daily News*, 13 Hydref 1886, t. 5; 'Neglected Wales: The State Church', *The Daily News*, 28 Hydref 1886, t. 5; 'Neglected Wales: Education', *The Daily News*, 17 Tachwedd 1886, t. 5; 'Neglected Wales: The Magistracy', *The Daily News*, 27 Ionawr 1887, tt. 5-6.

<sup>465</sup> Williams, 'The Claims of the Welsh Language', t. 455.

At hynny, roedd y defnydd o'r iaith Gymraeg wedi ei wahardd o sefydliadau'r wladwriaeth Brydeinig, neu wedi cael ei droi yn 'dabw' yng ngeiriau Williams, gydag effeithiau 'llechwraidd' a 'phellgyrhaeddol':

Since the Act of Union between England and Wales, the Welsh language has been tabooed in our courts of law and in our public administration, so that the gentry and the professions have been almost completely Anglicised. The effect of this has been insidious and far-reaching.<sup>466</sup>

Yn wir, roedd y Saeson wedi 'ymlid' ar y Gymraeg gyda 'gelyniaeth ddidostur', meddai ef:

Englishmen have ever looked upon the existence of the Welsh language as the greatest barrier to the extension of English influence in Wales, and have therefore pursued it with relentless hostility.<sup>467</sup>

Yn yr un modd, roedd Cymru o dan iau 'pendefigaeth ddigydymdeimlad' o Doriaid ac Eglwyswyr, 'wrth-Gymreig' o ran eu gwleidyddiaeth, crefydd ac iaith yn ôl R. A. Griffith mewn erthygl yn *Young Wales* ym mis Chwefror 1895:

Wales, while its land is in the grip of an unsympathetic aristocracy, cannot be said to be the home of its own people. A Wales, that harbours a dominant caste, anti-Welsh in politics, religion, and language, cannot be a self-respecting country. Whatever patronage Tories and Churchmen may choose to bestow upon our literary institutions, it would be ideal to expect them to do anything for the political and social emancipation of our people.<sup>468</sup>

Canlyniad yr holl droseddau Seisnig hyn oedd teimlad o elyniaeth ffyrnig tuag at y Saeson o ran rhai o'n hawduron, teimlad a drodd yn 'ddirmyg' tuag at y Llywodraeth yn Llundain yn achos awdur anhysbys yr erthygl 'Ysbryd Llewelyn' yn *Y Geninen* yn 1895: 'Haedda y Llywodraeth, yn Doriaidd ac yn Radicalaidd, y dirmyg tostaf am daflu y fath surni ar ein dyheuadau cenedlaethol'.<sup>469</sup> Pobl sy'n awchu am gydnabyddiaeth, cymeradwyaeth a haelioni eu meistri sy'n dioddef eu 'hesgeulustod' a'u 'surni' fwyaf wrth gwrs, ac yn y datganiadau uchod, gellid dadlau y gwelir disgwrs eglur yr israddolyn sy'n brwydro i ddod â thelerau â goblygiadau anffafriol y berthynas anghyfartal y mae'n perthyn iddi.

At hynny, dechreuwn weld mwy o ansicrwydd ac amwysedd yn treiddio i ddisgwrs y gelyn mawr yng ngeiriau W. Llewelyn Williams wrth iddo geisio esbonio ymagwedd

---

<sup>466</sup> Williams, 'The Claims of the Welsh Language', t. 455.

<sup>467</sup> Williams, 'The Claims of the Welsh Language', t. 455.

<sup>468</sup> Griffith, 'Welsh Nationalism', t. 35.

<sup>469</sup> 'Ysbryd Llewelyn', 'Gwaseidd-dra y Cymry (II)', *Y Geninen*, Cyf. XIII/Rhif 4, Hydref 1895, t. 275.

ymosodol y Saeson nid gan eu ‘mileindra a drwgdeimlad’ ond gan eu hawydd i ‘wellhau’ Cymru:

I am far from saying that this policy [sc. dileu'r Gymraeg yng Nghymru] has been the outcome of malevolence or ill-feeling towards Wales and Welshmen. English statesmen have been convinced – and the majority of them are still convinced – that the very best thing that could happen to Wales would be the extinction of the Welsh language.<sup>470</sup>

A dyma enghraifft o drosiad arall am y Saeson a welir yn aml yn y wasg yn y 1890au, sef ‘prif bartner’ neu ‘*predominant partner*’ y Cymry, sy’n gorfod gwneud pethau annymunol er lles y partner llai deallus, llai datblygedig neu lai galluog. Gan amlaf, daw cyfeiriadau i'r *predominant partner*, megis cyfeiriad ‘Idriswyn’ iddo yn *The Weekly Mail* ym mis Hydref 1895, ynghlwm â honiadau nad gelyniaeth sy’n nodweddi gweithgareddau'r Saeson tuag at y Cymry ond eu ‘caredigrwydd’.<sup>471</sup> I nifer o awduron a ysgrifennai yn y wasg Gymreig yn y 1890au, ac a gyfrannai at greu disgwrs cenedlaethol-drefedigaethol y cyfnod, partner mwy neu frawd mawr oedd y Saeson i'r Cymry, a gellid esbonio eu gweithgareddau ymosodol dros y canrifoedd gan eu hystyried yn weithgareddau diwygiol a chywirol. Yng nghanol datganiadau ‘clasurol’ genedlaetholgar o elyniaeth y gelyn mawr drws nesaf, felly, ceir datganiadau ôl-drefedigaethol o wendid ac annigonolrwydd y ‘ni’ yn wyneb doethineb a graslondeb y ‘nhw’.

I rai eraill, sut bynnag, mwythair oedd y term *predominant partner* i guddio gwir natur y berthynas rhwng y ddwy genedl, sef perthynas o orthrwm a gormes. Gweler darn o'r erthygl ‘Paham y gorfu'r Undebwyr’ gan Emrys ap Iwan o 1895:

Os dywed rhywun mai cenedl gydraddol ydym â'r Saeson ac nid un ddarostyngedig iddynt, yna paham na bai gennym senedd Gymreig? Neu, yn niffyg senedd Dywysogaethol, paham na bai nifer ein cynrychiolwyr yn y Senedd Ymerodrol yn gyfartal â nifer cynrychiolwyr y Saeson? Lle bynnag y bo ‘*predominant partner*,’ nid oes yno gydraddoldeb. Nid yw ‘*predominant partner*’ yn ddim amgen nag enw mwy'n ar orthrechwr – *tyrant*.<sup>472</sup>

Cytuno ar naratif hanesyddol o gyfres o weithgareddau ymosodol y Saeson y mae'r gwahanol awdur uchod, mae'n debyg, ond maent yn anghytuno ar eu cymhelliant. Cyfres o geryddon a diwygiadau dan law rhyw fath o athro oeddent i rai, ond cyfres o droseddau haerllug gan elyn

<sup>470</sup> Williams, ‘The Claims of the Welsh Language’, t. 455.

<sup>471</sup> ‘Idriswyn’, ‘Beth y Wnawn?’, *The Weekly Mail*, 19 Hydref 1895, t. 6. Gw. hefyd, [dienw], ‘Cymru i'r Cymry’, *Y Cymro*, 29 Awst 1895, t. 3, adroddiad o araith gan Mr W. Davies ym Mlaenau Ffestiniog sy'n gwrthod alwadau am ‘Gymru i'r Cymry’.

<sup>472</sup> Emrys ap Iwan, ‘Paham y Gorfu'r Undebwyr’, t. 29.



noeth oeddent i rai eraill. Dyma wrthdrawiad deongliadol, neu densiwn disgyrsiol, na chaiff ei ddatrys ar draws cyfanrwydd y disgwrs Cymreig yn y pen draw: mae'n amrywio o destun i destun ac o awdur i awdur.

'Enemigo' yw'r gair am 'elyn' yn Sbaeneg, a gwelir defnydd helaeth ohono yn nisgwrs cenedlaethol Gwlad y Basg yn ystod y 1890au, yn enwedig yn erthyglau Sabino Arana a chyfranwyr eraill i gylchgrawn yr EAJ-PNV, *Bizkaitarra*. Yn wir, mae Arana yn cyflwyno dau elyn 'hollol wrthwynebol oherwydd eu hil' ar ffurf y Basgiaid a'r Sbaenwyr, meddai José Luis de la Granja Sainz; 'gelynion trwy gydol hanes, ers hynafiaeth'.<sup>473</sup> Yn ychwanegol at hynny, mae'n priodoli cyfres o droseddau hanesyddol i'r genedl Sbaenaidd, neu yn ei eiriau ei hunan, cenedl 'fwyaf dirywiedig a mwyaf dirmygedig Ewrop'.<sup>474</sup> Yn gyntaf, mae'r Sbaenwyr wedi caethiwo ('esclavizar'), gormesu ('dominar') a gorthrymu ('oprimir') y Basgiaid yn ôl Arana:

Er mwyn bod yn wladgarwr, mae'n angenrheidiol caru'r famwlad. Er mwyn caru rhyddid y famwlad, mae'n angenrheidiol casáu'r rhai sy'n ei chaethiwo.<sup>475</sup>

Nid yw unrhyw Fiscaiad da yn galw llywodraeth Madrid yn llywodraeth ganolog, ond llywodraeth y genedl ormesol.<sup>476</sup>

Yr ydym yn casáu Sbaen gyda'n holl enaid, tra ei bod yn gorthrymu ein mamwlad gyda chadwyni'r gaethwasiaeth anfad hon.<sup>477</sup>

At hynny, nid Sbaenwr, brenin, gwleidydd, neu llywodraethwr unigol oedd ar fai am 'drawsfeddiant anghyfiawn' Gwlad y Basg, ond pob llywodraeth Sbaen, pob plaid wleidyddol, a hyd yn oed y genedl Sbaenaidd i gyd, neu 'toda una nación':

Mae'n hynod chwerthinllyd priodoli cyfrifoldeb i un llywodraeth neu i un blaid benodol dros yr hyn sy'n waith cenedl gyfan [...] Nid un llywodraeth Sbaen, ond llawer ohonynt, sydd wedi cymryd rhan yn y trawsfeddiannu anghyfiawn o Wlad y Basg; a llawer mwy eto sydd wedi'i awdurdodi a'i sicrhau. Mae pob plaid wleidyddol Sbaen, rhai yn agored a rhai eraill sy'n honni eu bod yn cefnogi *fuero*, [...] pob un

---

<sup>473</sup> '[Sostiene Arana] la existencia de una nación vasca y de una nación española, antagónicas por su raza y enemigas a lo largo de la historia, desde la Antigüedad': Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 18.

<sup>474</sup> 'La nación más degradada y abyecta de Europa': Sabino Arana, 'El 25 de Octubre de 1839', *Bizkaitarra*, Año II/Número 16, 31 Hydref 1894, t. 1.

<sup>475</sup> 'Para ser patriota, es preciso amar la libertad de la Patria. Para amar la libertad de la Patria, es preciso odiar a muerte a quien la esclaviza': Arana, 'Areitz órbelak', t. 3.

<sup>476</sup> 'Al Gobierno de Madrid, ningún buen Bizkaino le llama Gobierno Central, sino Gobierno de la nación dominadora': Sabino Arana, 'El Noticiero Bilbaino', *Bizkaitarra*, Año III/Número 22, 24 Chwefror 1895, t. 1.

<sup>477</sup> 'Nosotros odiamos a España con toda nuestra alma, mientras tenga oprimida a nuestra Patria con las cadenas de esta vitanda esclavitud'. Dyfynnir yn Granja Sainz, 'El antimaketismo', 195.

ohonynt heb eithriad, wedi cyfrannu at anffawd ein mamwlad ac yn gweithio dros ei llwyr ddinistr.<sup>478</sup>

Mae creu bai torfol am ddigwyddiadau hanesyddol penodol yn hynod ddiddorol yng nghydestun ôl-drefedigaethedd wrth gwrs, fel pe bai Arana yn mabwysiadu elfen o ddisgwrs trefedigaethol nodweddiadol y 19g, sef dadunigoli'r arall, er mwyn ymosod ar yr union rym 'trawsfeddiannol' y mae ef yn cwyno amdano.

Ni chyfyngir y gair 'oprimir' (gorthrymu) i waith Sabino Arana yn unig, sut bynnag: fe welir yr ymadrodd 'patria oprimida' (mamwlad orthrymedig) hefyd yng nghylchgronau mwy cymedrol eu cenedlaetholdeb megis *Euskalduna*.<sup>479</sup> Yn wir, yn nhudalennau *Euskalduna* yn 1896 mae awdur anhysbys yn traethu ar drosedd hanesyddol mawr arall y 'gelynyon' Sbaenaidd, sef 'destruir la lengua', neu 'ddifetha'r' iaith Fasgeg:

Y dull mwyaf effeithiol, er nad yr unig un, na'r un mwyaf urddasol, y mae'r gelynyon wedi'i greu er mwyn cael gwared (nid mewn ffordd amlwg ond mewn ffordd ddifrifol) ar y traddodiad Basgaid, ac er mwyn gwanhau brwdfrydedd dyheadau cyfreithlon yn y dyfodol, yw dinistrio'r iaith, dinistrio sy'n cael ei wireddu'n araf, oherwydd nad yw'r pethau a grëir o waed cannoedd o genedlaethau yn cael eu dileu gan ddarpariaethau deddfwriaethol yn unig.<sup>480</sup>

Yn yr un modd ag yn achos Cymru, felly, gwelir datganiadau eglur o elyniaeth y Sbaenwyr a chyfres o weithgareddau ymosodol a wnaed ganddynt yn y disgwrs Basgaid; cyfres a ailadroddwyd gan ystod eang o awduron mewn cyfnodolion ac iddynt amrywiaeth o dueddiadau gwleidyddol.

Gwelir techneg rethregol debyg yn y ddwy wlad i greu delwedd o elyniaeth sylfaenol rhyngom 'ni' a 'nhw', felly; er y byddai rhai o'n hawduron yn ceisio lleddfu'r elyniaeth hon â delweddau o garedigrwydd 'tadol' neu 'gywirol' y partner mwy. Gwelir maes o law yn Haen 3 sut yr adeiledir ar y ddelwedd hon gan fwrw'r bai am rai o'n diffygion cenedlaethol mwyaf difrifol ar ysgwyddau'r 'gelyn mawr', ond am y tro, awn ymlaen i ystyried gelyn arall ein cenhedloedd, sef gelyn sy'n dod o'r teulu cenedlaethol ei hun.

---

<sup>478</sup> 'Es notoria ridiculez imputar a un gobierno o a un partido determinado lo que es obra de toda una nación [...] No uno, sino muchos, han sido los gobiernos españoles que han tomado parte en la inicua usurpación; muchos más los que la han sancionado y confirmado; todos los partidos españoles, unos abiertamente, otros aparentando fuerismo, [...] todos sin excepción, han contribuido a [la] desgracia [de nuestra Patria] y están trabajando su completa ruina': Sabino Arana, 'El Basco' [3], *Bizkaitarra*, Año III/Número 31, 28 Gorffennaf 1895, t. 4.

<sup>479</sup> Gw. [dienw], 'En síntesis', t. 2.

<sup>480</sup> 'El medio más adecuado, aunque no el único, ni el más noble, que los enemigos han podido concebir para dar al traste, no de manera manifiesta, aunque sí profunda, con la tradición vascongada y debilitar para lo futuro el entusiasmo de sus aspiraciones legítimas, ha sido el destruir la lengua, destrucción que se está verificando por modo lento, porque las cosas que se fabrican con sangre de cientos de generaciones, no se aniquilan con meras disposiciones legislativas': [dienw], 'La Lengua Euskara', t. 3.

## Mae gennym gyd-wladwyr esgeulus

Fel y gwelwyd yn Haen 1, ‘sefydlir’ y Cymry a’r Basgiaid fel pobl ar wahân yn ein disgrysiâu cenedlaethol gan greu gwahaniaeth categorïaidd rhwng ‘ni’ a ‘nhw’. Ond i rai awduron, mae undeb mewnol y ‘ni’ yn mynd yn llawer pellach na ‘phobl’ neu grŵp ethnig: mae’r ‘ni’ i gyd yn cwmpasu teulu mawr, neu grŵp o deuluoedd a gysylltir â phatriarch hynafol penodol megis Aitor yn achos y Basgiaid a Chunedda Gwledig yn achos pobl Gwynedd a gogledd Cymru. Awn ymlaen yn yr adran hon i ystyried sut y sefydlir gwreiddiau’r teulu hwn, sut yr amlygir ei ddyletswyddau a sut y mae rhai aelodau yn methu eu cyflwyno ac yn troi yn gyd-wladwyr esgeulus.

Fel y gwelwyd uchod, awdur y gyfrol gyngenedlaetholgar enwog *Voyage en Navarre pendant l’insurrection des Basques (1830-1835)* a nifer o astudiaethau ieithyddol pwysig eraill ar yr iaith Fasgeg oedd Joseph-Augustin Chaho, ond roedd y Basgiad Ffrengig o Zuberoa hwn yn gyfrifol am boblogeiddio’r chwedl Fasgaid ‘Aitor’ am y tro cyntaf hefyd.<sup>481</sup> Er bod mwyafrif o haneswyr Basgaid yn dadlau na chwaraeodd llenyddiaeth ramantaidd gystal ran yn natblygiad cenedlaetholdeb Basgaid ag y chwaraeodd yng nghenedlaetholdeb Catalanaidd a Galisaidd, sicr yw i *fuéristas románticos* (*fuéristas* rhamantaidd) megis Chaho gyfrannu yn sylweddol at greu’r ddelwedd o’r genedl-deulu Fasgaid hynafol y byddai Sabino Arana ac eraill yn manteisio arni gymaint yn y 1890au.<sup>482</sup> Yn ei gyfrol Ffrangeg o 1845, *Aïtor: Légende Cantabre* (Aitor: Chwedl Gantabriaidd), traethodd Chaho stori patriarch y Basgiaid, Aitor, a’i saith mab (sylfaenwyr y saith talaith Fasgaid) am y tro cyntaf, ac wrth i’r chwedl droi’n fwyfwy poblogaidd yng nghanol y ganrif, fe fu *fuéristas* diweddarach megis Arturo Campión yn ei chyfieithu i’r Sbaeneg yn y 1870au.<sup>483</sup> At hynny, gwelwn gipolwg o bwysigrwydd parhaol chwedl Aitor, neu ‘ysbryd y traddodiadau Basgaid’ a ‘phatriarch Basgaid heb gyfnod penodol’, i bobl Gwlad y Basg y 1890au mewn erthygl gan Pedro Lino Munárriz yn *Euskal-Erria* yn 1896:

---

<sup>481</sup> Gweriniaethwr a radical yn nhraddodiad y Chwyldro Ffrengig oedd Chaho, ond cefnogodd y mudiad brenhinol traddodiadol Carlaidd yn Sbaen oherwydd eu hymrwymiad i *fueros* y taleithiau Basgaid. Mewn cyfres o weithiau ac erthyglau yn ei gylchgrawn *L’Ariel* yn y 1830au a 1840au, er enghraifft, galwodd Chaho am ffederasiwn Basgaid estynedig ar sail unigrywiaeth ddaearyddol, ieithyddol a chyfreithiol y Basgiaid; y tro cyntaf y gwelwyd dadleuon cenedlaetholgar-ramantaidd o’r fath yn hanes Gwlad y Basg. Gw. Mark Kurklansky, *The Basque History of the World* (London: Vintage Books, 2000), tt. 24-25.

<sup>482</sup> Gw. Payne, *Basque Nationalism*, t. 50.

<sup>483</sup> Joseph-Augustin Chaho, *Aïtor: Légende Cantabre* (1845). Am argraffiad diweddar yn Sbaeneg gw. *La leyenda de Aitor* (Bilbao: Asociación Valle-Inclán Universidad del País Vasco, 1993). Arturo Campión, *La Leyenda de Aitor por Agustín Chao; versión castellana del original francés por Arturo Campión* (Bilbao: C. Perez Bidebarricta, 1879).

Mae Chwedl Aitor, wedi'i hysgrifennu yn yr iaith Fasseg, yn datgelu ac yn datgan arferion patriarchaidd a chyfreithiau cyntefig y rhanbarthau a'r cymoedd Basgaid, ac yn cynrychioli rhyw fath o ysbryd y traddodiadau Basgaid; mae gan farddoniaeth ei beirdd a chwedlau ei mynyddoedd rywbeth cysegredig amdanynt. Aitor yw'r patriarch Basgaid heb gyfnod penodol.<sup>484</sup>

Er bod cywirdeb hanesyddol chwedl Aitor yn broblemus iawn i nifer mawr o haneswyr cyfoes, gwelir yn nisgwrs cenedlaethol Basgaid y 1890au awgrym fod gan y Basgiaid 'dad' unigol, a chyda'i saith mab yn anheddu ac yn sefydlu saith talaith Gwlad y Basg, awgrym bod pob Basgiaid yn perthyn i'w gilydd rywsut.<sup>485</sup>

Yn ddiddorol i'n pwrpasau ni, gwelwn draddodiad a strategaeth ddisgyrsiol debyg iawn yn chwedl cenedlwr llinell frenhinol teyrnas Gwynedd, Cunedda Gwledig, a'i wyth mab.<sup>486</sup> Ymddangosodd Cunedda gyntaf yn *Historia Brittonum* gan 'Nennius' tua 830:

Cunedda, with his sons, who numbered eight, had come formerly from northern parts, that is the region called Manau of Gododdin, one hundred and forty six years before Maelgwn ruled, and they expelled the Irish, with very great destruction, from these regions, so that they never came back again to live there.<sup>487</sup>

A byddai siartiau achau y Canol oesoedd yn mynd ymlaen i restrï enwau meibion Cunedda, enwau a ddeuai'n enwau ar wyth ardal hanesyddol gogledd a chanolbarth Cymru:

These are the names of the sons of Cunedda, who numbered nine. Tybion was the first-born, who died in the land called Manau of Gododdin and thus did not come with his father and aforesaid brothers. Meirion his son divided the possessions amongst his [Tybion's] brothers: Oswael the second born, the third Rhufen, the fourth Dunod, the fifth Ceredig, the sixth Afloeg, the seventh Einion Yrth, the eighth Dogfael, the ninth Ederm.<sup>488</sup>

Byddai'r chwedl hon, a'r cysyniad o 'linach' yn gyffredinol, yn troi yn elfen bwysig yn hanesion a chwedlau Cymru'r Oesoedd Canol a'r cyfnod cyn-fodern.<sup>489</sup> Ond yn bwysicach i'n dadl yma, fe fyddai Syr John Rhys yn ailadrodd stori Cunedda mor hwyr â 1882 yn ei gyfrol enwog *Celtic Britain*:

---

<sup>484</sup> 'La Leyenda de Aitor, escrita en bascuence, revela y anuncia las costumbres patriarcales, el fuero primitivo de las regiones ó valles, y es como el espíritu de las tradiciones bascas; la poesía de sus bardos y las leyendas montañosas tienen algo de sagrado. Aitor es el patriarca euskaro sin época determinada': Munárriz, 'Los Bascos: etnografía/carácter', t. 148.

<sup>485</sup> Gw. Jauristi, *El linaje de Aitor*, am feirniadaeth o chwedl Aitor a'i dylanwad ar genedlaetholdeb Basgaid.

<sup>486</sup> Gw. Kari Maund, *The Welsh Kings: The Medieval Rulers of Wales* (Stroud: Tempus Publishing, 2000), tt. 24-28.

<sup>487</sup> *Historia Brittonum*, Pennod 62: cyfieithiad gan M. Winterbottom, *Nennius British History and the Welsh Annals* (Chichester, 1980). Dyfynnir yn Maund, *The Welsh Kings*, t. 25.

<sup>488</sup> P. C. Bartrum (gol.), *Early Welsh Genealogical Tracts* (Cardiff, 1966), t. 13. Cyfieithwyd a dyfynnwyd gan Maund, *The Welsh Kings*, tt. 26-27.

<sup>489</sup> Gw. Lynch, *Proffwydoliaeth*.

The earliest of their [the Welsh people's] native rulers, so far as we know, was called Cunedag or Cunedda, about whom Welsh literature has a good deal to say, though not enough to give us a complete view of his history.<sup>490</sup>

Fel yn achos Gwlad y Basg, felly, roedd y syniad bod gan y Cymry genhedlwr unigol yn parhau i gylchredeg yn y 1890au, ac yng nghymeriadau Aitor, Cunedda a'u meibion, gwelwn awgrym yn y ddau ddisgwrs cenedlaethol traddodiadol fod gan y Cymry a'r Basgiaid uniondeb cyntefig a llinachol, fod pawb yn deillio o'r un teulu efallai, fod pawb yn perthyn i'w gilydd i ryw raddau. Yng nghyd-destun y paradeim disgyrsiol ehangach, dyma hedyn yr awgrym bod gan y Cymry a'r Basgiaid ddyletswyddau dwysach na dyletswyddau cymdogion a chydweithwyr: mae ganddynt ddyletswyddau torfol y teulu mawr.

Mewn erthygl fer yn *Y Cymro*, 'Cymry fel Dinaswyr', o fis Ebrill 1895, ceir enghraifft o sut y mynegid y dyletswyddau torfol hyn yn y maes cyhoeddus, a sut roedd rhai Cymry yn cael eu ceryddu am eu hesgeuluso: 'mater wedi ei hir esgeuluso gan Gymry Lerpwl ydyw'r breintiau a berthyn iddynt fel dinasyddion, a'r modd i'w harfer', meddai'r awdur anhysbys.<sup>491</sup> Dyletswydd i fod yn 'ddinasyddion da' sydd ar y Cymry yn ei b/farn, ac i gynnig eu hunain ar gyfer 'rheolaeth weinyddol y ddinas', sef eistedd ar gyngor a byrddau cyhoeddus y ddinas. Mae ganddynt y 'cymwysterau' teilwng ar gyfer y dasg, dywed, ond maent 'wedi esgeuluso cyflawni eu dyledswyddau yn yr amser aeth heibio', ac mae'n hen bryd iddynt 'amlygu eu gallu a'u dylanwad yn y cyfeiriad hwn'. Nid awydd i wasanaethu poblogaeth fwyafrifol Seisnig dinas Lloegr a welir yn y cerydd hwn, sut bynnag, ond awydd i gymryd rhan yn rheolaeth y ddinas, awydd i gynrychioli Cymry eraill, ac awydd i sefyll dros fuddiannau cenedlaethol y Cymry:

Pan gofier rhif Cymry'r ddinas – hanner can' mil – a bod oddeutu 5,000 o'r cyfryw yn etholwyr, y mae'n syndod – bron na ddywedem yn waradwydd – na fuasai eu cenedlaetholdeb wedi amlygu ei hun. Ond ein dyletswydd ydyw diwygio; y mae'r gallu yn ein llaw: nid oes eisiau ond rhoddi ysgogiad iddo na weithreda'n effeithiol.<sup>492</sup>

O bersectif ôl-drefedigaethol, mae'n ddi-ddorol bod yr awdur yn ystyried dinasyddiaeth Lerpwl yn 'faint' i'r Cymry, a chan hynny (gellir tybio), rhywbeth uwch na dinasyddiaeth trefi eu bröydd genedigol yng Nghymru. Ond, boed hynny fel y bo, ym marn yr awdur hwn mae gan y Cymry ddyletswyddau torfol i ddiwygio fel cenedl, fel hil, ac fel grŵp ethnig yn

---

<sup>490</sup> John Rhys, *Celtic Britain* (London: Random House, 1996), t. 118.

<sup>491</sup> [Dienw], 'Cymry fel Dinaswyr', *Y Cymro*, 11 Ebrill 1895, t. 4. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell.

<sup>492</sup> [Dienw], 'Cymry fel Dinaswyr', t. 4.

eu hamgylchiadau newydd; mae'n ddyletswydd arnynt i godi statws y grŵp i gyd trwy weithredoedd unigol.

Mewn teitlau a chynnwys erthyglau eraill o 1895 daw haeriadau dros ddyletswyddau torfol y Cymry yn fwy ecblyg byth. Honnir yn 'Dyledswyddau y Cymry', er enghraifft, fod ar y Cymry'r 'ddyletswydd' i bleidleisio dros blaid benodol yn yr etholiad cyffredinol er mwyn cefnogi datgysylltu Eglwys Loegr.<sup>493</sup> Ac mewn erthygl yn *Young Wales* o fis Chwefror yr un flwyddyn, honnir bod ar y Cymry 'y ddyletswydd o'r radd flaenaf' i ddod 'i'n adnabod ein gilydd' ac i 'ffurfio gwir teimlad o'n posibiladau fel cenedl'.<sup>494</sup> Ceir nifer diderfyn o honiadau o'r math hwn yn y wasg Gymreig yn y 1890au mewn gwirionedd, er bod barn yr awduron yn amrywio yn sylweddol o ran pa rai yn union yw dyletswyddau torfol y genedl. Er hynny, diddorol yw nodi bod cenedlaetholwyr Basgaidd yn gwneud yr un honiadau yn y wasg Fasgaidd yn yr un cyfnod. Ym mis Ionawr 1895, er enghraifft, wele Sabino Arana yn datgan na all dyn honni ei fod wedi cael ei addysgu yn dda os nad yw'n adnabod ei 'ddyletswydd genedlaethol' (*deber patrio*):

Sut mae deallusrwydd yn cael ei addysgu? Trwy ei enghreifftio yn nyletswyddau dyn. Un o'r rhain yw'r ddyletswydd genedlaethol: os nad yw dyn yn ei hadnabod, ni ellir dweud amdano ei fod wedi cael ei addysgu'n dda. Mae'r elfen hon o addysgu deallusrwydd wedi'i hanghofio i raddau helaeth iawn.<sup>495</sup>

Clir, felly, yn nisgwrs y ddwy wlad, yw bod ar y Cymry a'r Basgiaid ddyletswyddau torfol i wneud pethau penodol neu i feddwl mewn ffordd benodol. Ond man cychwyn i gyfres o gamau disgyrsiol hirach yn unig a welir yn y datganiadau uchod: wedi sefydlu dyletswyddau torfol y genedl, fe ddaw cyfres o gwynion yn erbyn aelodau penodol o'r teulu mawr nad ydynt yn eu cyflawni: hynny yw, cyd-wladwyr esgeulus.

Gan ystyried mai gwladgarwyr oedd cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd y 1890au, mae braidd yn annisgwyl, efallai, ein bod yn gweld cymaint o gyfeiriadau beirniadol at Gymry a Basgiaid eraill. Mae gennym y Basgiaid sy'n cysgu, a ddylai fod yn effro, mewn erthygl yn *Euskalduna* yn 1896, er enghraifft: 'deffrowch, felly, y rhai sydd gennych ryw

<sup>493</sup> [Dienw], 'Dyledswyddau y Cymry', *Y Cymro*, 4 Gorffennaf 1895, t. 4.

<sup>494</sup> 'It has become a duty of the first importance that we, Welshmen, should endeavour to understand ourselves, and form a true sentiment of our possibilities as a nation': Griffith, 'Welsh Nationalism', t. 35.

<sup>495</sup> '¿Cómo se educa la inteligencia? Ilustrándola en los deberes del hombre. Uno de estos es el deber patrio: si un hombre no lo conoce, no puede decirse de él que está bien educado. Esta parte de la educación de la inteligencia está muy olvidada': Sabino Arana, 'Educación moderna', *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, tt. 2-4.

ddylanwad yn y wlad’, meddai’r awdur.<sup>496</sup> Ac mae gennym ‘syrthni annheilwng’ yr holl ‘hil Fasgaidd’ yn ôl Sabino Arana:

Mae [Biscaia] wedi clywed gwaedd annibyniaeth yn ei mynyddoedd, gwaedd a fydd yn deffro yn y pen draw (rydym yn gobeithio) syrthni annheilwng yr hil Fasgaidd hon, hil sydd wedi diraddio heddiw hyd at y pwynt o golli ei hysbryd o genedligrwydd.<sup>497</sup>

Gwelir hefyd y ‘*tibieza*’ (difrawder) sydd wedi cael gafael ar ‘nid nifer bach o ysbrydion’ Basgaidd mewn erthygl arall yn *Euskalduna* yn 1896, a’r Basgiaid sy’n ‘dioddef caethiwed yn amyneddgar’ yn *Bizkaitarra*.<sup>498</sup> Yng Nghymru, mae gennym y Cymry sydd wedi bod yn ‘ddifraw a difater [...] hyd yn hyn’, yn ôl ‘Proff. T. Rhys’ yn *Y Celt* yn 1895:

A fyddwn ni yn ddifraw a difater pwy gaiff fod wrth y llyw yn y Colegau Cenhedlaethol a’r Brifysgol Gymreig? Nid wyf yn credu. Ond y mae yn rhaid cyfaddef fod difrawder mawr wedi ei ddangos hefyd hyd yn hyn.<sup>499</sup>

I rai o’n hawduron felly, mae nifer helaeth o aelodau’r teulu Basgaidd a’r teulu Cymreig wedi troseddu yn erbyn rheolau cyffredinol y grŵp, neu o leiaf wedi esgeuluso eu dyletswyddau. Maent wedi bod yn cysgu, yn swrth ac yn ddifater pan ddylasent fod wedi bod yn effro, yn egnïol ac yn chwilfrydig.

Gwelir cyfres ddiderfyn o gwynion o’r fath yn ein testunau Basgaidd, nid yn unig am esgeuluso dyletswyddau’r genedl ond hefyd am ‘ddiffygion’ yng nghymeriadau cyd-aelodau’r teulu. ‘Dall’ yw’r Biscaiaid i Sabino Arana, er enghraifft, yn ei erthygl enwog ‘La ceguera de los Bizkainos’ (‘Dallineb y Biscaiaid’) o 1894, a ‘diffyg barn gyhoeddus’, neu ddiffyg ymdeimlad o hunaniaeth dorfol a phwrpas cyffredin sy’n nodweddi’r Basgiaid, yn ôl awdur arall yn *Euskalduna* yn 1896:

Nid oes gan y bobl Fasgaidd farn gyhoeddus. Hynny yw, y symudiadau poblogaidd digymell hynny lle mae pobloedd yn eu diffinio eu hunain ac yn gofyn am yr hyn y mae arnynt ei angen ac yn rhwygo yn ddarnau’r hyn sy’n mynd yn groes i’w

---

<sup>496</sup> ‘Despertad, pues, los que tenéis alguna influencia en el país’: [dienw], ‘La máquina infernal’, *Euskalduna*, Año I/Número 2, 20 Medi 1896, t. 10.

<sup>497</sup> [‘Bizkaya] ha oído resonar en sus montañas el grito de independencia, que al cabo hará despertar (así lo esperamos) de su innoble letargo á esta raza euskeriana, envilecida hoy hasta el extremo de haber perdido su espíritu de nacionalidad’: Sabino Arana, ‘¿Vida nueva?’, *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 1.

<sup>498</sup> ‘La tibieza que se ha apoderado de no pocos espíritus’: [dienw], ‘Lo que somos’, t. 9. ‘No es digno de ser libre el pueblo que sufre paciente la esclavitud. Mas el pueblo que tiene encadenado el cuerpo, pero libre y altivo el espíritu, es desgraciada víctima, pero no vil esclavo’: Arana, ‘Areitz órbelak’, t. 3.

<sup>499</sup> Rhys, ‘Ein Colegau Anghenedlaethol’, t. 3.

teimpladau, neu yn dangos y ffordd i'r rhai sy'n gyfrifol am eu harwain at eu dyheadau cyfreithlon. Nid yw'r rhain yn bodoli i ni.<sup>500</sup>

I gyfrannwr arall i *Euskalduna*, y mae'r bobl Fasgaidd wedi colli 'ymwybyddiaeth o'u personoliaeth wleidyddol', ac o ganlyniad maent wedi troi yn 'ddifater' ynglŷn â'r unig wleidyddiaeth a allai eu 'hachub', sef gwleidyddiaeth genedlaetholgar.<sup>501</sup> 'Rydym wedi argyhoeddi llawer o feddyliau', meddai Sabino Arana, ond 'rydym wedi perswadio ychydig iawn o galonnau'; dyma'r hyn sy'n dangos, yn ei farn ef, 'nad oes calonnau mwyach yng Ngwlad y Basg. Druan o famwlad!'<sup>502</sup> Os gellir dweud bod calonnau yng Ngwlad y Basg o gwbl, ychwanega mewn erthygl arall, 'sicr yw' mai 'gwendid y galon Fiscaiaidd' sydd wedi achosi'r 'gaethwasiaeth gywilyddus yr ydym yn ddarostyngedig iddi'.<sup>503</sup> Ar ben hynny, mae'r Bisciaid cyfoes wedi colli eu dewrder yn ôl Arana gan 'gasáu' y Sbaenwyr â geiriau yn unig yn lle casáu â 'saethau ac ergydion'.<sup>504</sup> Colli eu 'hurddas' a wnaent hefyd wrth 'gymysgu' eu gwaed gyda gwaed 'hil fwyaf atgas a ffiiaidd Ewrop'.<sup>505</sup>

Gan ddefnyddio'r ferf 'perder' (colli) gymaint yn ei erthyglau, a chan gyfeirio at gollu rhinweddau neu gryfderau'r cymeriad cenedlaethol, mae Arana yn mabwysiadu strategaeth rethregol debyg i'r un a ddefnyddiwyd gan Emrys ap Iwan yng Nghymru yn yr un cyfnod. Fel y gwelwyd mewn darn a ddyfynnwyd ym mhennod 2 uchod, roedd y Cymry wedi 'colli pob parch iddynt eu hunain', meddai Emrys, trwy 'barablu iaith ein gorchfygwyr' ac felly 'peidio â bod':

I ni, y Gymraeg yw'r unig wrthglawdd rhyngom a diddymdra, ac y mae'r sawl a dorro'r gwrthglawdd hwnnw, trwy barablu iaith ein gorchfygwyr heb raid nac achos

---

<sup>500</sup> Sabino Arana, 'La ceguera de los Bizkainos', *Bizkaitarra*, Año II/Número 15, 30 Medi 1894, tt. 1-3. 'En el pueblo vascongado no hay opinión pública vascongada. Es decir esos movimientos populares, espontáneos, en que los pueblos muestran lo que son y piden lo que necesitan y truncan y despedazan lo que en contra de sus sentimientos se pone á su paso, ó marcan el camino á los encargados de conducir á sus aspiraciones legítimas, para nosotros no existen': [dienw], 'La opinión', *Euskalduna*, Año I/Número 14, 13 Rhagfyr 1896, t. 1.

<sup>501</sup> 'El País basco, no sabemos si porque perdió la conciencia de su personalidad política, ó porque los encargados de dirigirla tienen por aspiración [...] la protección de sus propios intereses. Pero es lo cierto que á pesar de una reacción que parece estarse obrando, el fondo de la opinión, si no contraría, persiste indiferente á la única política que le ha de salvar': [dienw], 'En síntesis', t. 1.

<sup>502</sup> 'Hemos convencido a muchas inteligencias; hemos persuadido a muy pocos corazones. Lo cual demuestra, en último término, que ya no hay corazones en Euskeria. ¡Pobre Patria!': Arana, '¿Vida nueva?', t. 1.

<sup>503</sup> 'Lo cierto es que la debilidad del corazón bizkaino de hoy es la causa de esta vergonzosa esclavitud a que estamos sujetos': Arana, 'Educación moderna', t. 3.

<sup>504</sup> 'En odio al español como invasor andamos muy cortos los bizkainos patriotas de hoy, comparados con aquellos de otros siglos que en su idioma llamaban extranjeros a los españoles y los recibían a flechazos y a tiros': Sabino Arana, 'El Basco' [1], *Bizkaitarra*, Año III/Número 22, 24 Chwefror 1895, tt. 1-3.

<sup>505</sup> 'Vosotros, sin pizca de dignidad habéis mezclado vuestra sangre con la española o maketa, os habéis hermanado y confundido con la raza más vil y despreciable de Europa': Sabino Arana, dyfynnir yn Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 63.



yn euog o ddibrisdod sy'n dangos eu bod wedi colli pob parch iddynt eu hunain; a phan beidio dyn â pharchu ei hun y mae hwnnw i bob perwyl wedi peidio â bod.<sup>506</sup>

Yn wir, colli hunan-barch a throi cefn ar yr iaith Gymraeg a thraddodiad crefyddol y Cymry er mwyn mabwysiadu arferion Seisnig oedd trosedd blaenaf y cyd-wladwr esgeulus yng ngolwg gwladgarwyr Cymreig ers amser Jac Glan-y-Gors ar ddiwedd y 18g, trosedd a ymgorfforwyd gan y pamffledwr o Gerrigydrudion yng ngweithredoedd ac agweddau'r cymeriad Dic Siôn Dafydd.<sup>507</sup>

Mae'n ddiddorol nodi, at hynny, fod y cymeriad a throsiad Dic Siôn Dafydd yn parhau i ymddangos yng nghyfnodolion y 1890au. Ym mis Ionawr 1895, er enghraifft, ysgrifennodd awdur o dan y ffugenw 'Dau Gyfaill' erthygl hir yn *Y Geninen* yn beirniadu'r rhai yng Nghymru oedd 'yn proffesu eu bod yn Gymry', ond a oedd mewn gwirionedd, 'yn diystyru iaith eu cenedl trwy glebar ac ysgriblo, heb raid nac achos, yn iaith eu gorchfygwyr'.<sup>508</sup> Gan mai Saesneg oedd iaith gyffredin y rhai hyn 'ar y aelwyd, mewn cymdeithasau, cynghorau, a llythyrau', meddai 'Dau Gyfaill', 'ni raid dweyd fod eu hyspryd, eu syniadau, a'u harferion hefyd yn Seisnigaidd, os nad yn gwbl Seisnig', gan fynd ymlaen i gwyno am y 'Dic Siôn Dafyddion' hynny oedd yn 'marchogaeth' ar y 'teimlad Cymreig' a fu'n cryfhau yng Nghymru ers degawd neu ddau, ac am y rhai a oedd yn manteisio ar wladgarwch y bobl gyffredin er mwyn hybu eu bywydau cyhoeddus heb gefnogi'r iaith Gymraeg na buddiannau Cymreig eraill yn eu bywydau preifat.

Roedd Michael D. Jones wedi defnyddio strategaeth debyg mewn erthygl o 1892 o'r enw 'Mrs Davey, Sunny Cottage, Near Carmarthen' i ddisgrifio hen ddynes Gymraeg sy'n troi i'r Saesneg, mabwysiadu dulliau Seisnig, a throi enw ei thŷ'n enw Saesneg.<sup>509</sup> Ac mewn erthygl yn *Y Geninen* ym mis Hydref 1896 o'r teitl 'Dic Sion Dafydd a Chamaddysg', gwelwn i Jones feirniadu yn llym y 'merched diles' sy'n 'rhodresa rhyw goeg addysg ddi-fudd er cuddio eu diogi' a chefnu ar '[dd]ysgu dyledswyddau buddiol bywyd' ac addysg

---

<sup>506</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', tt. 23-24.

<sup>507</sup> John Jones ('Jac Glan-y-Gors'), 'Hanes Dic Siôn Dafydd', yn Robert Davies (Nantglyn), *Barddoniaeth, yn Cynnwys Cerddi, Cywyddau, ac Ynglynion, ar amryw Destunau* (Llundain: Argraphwyd gan T. Jones, 1803). Gw. Aaron, 'Bardic anti-colonialism' (tt. 147-149), am grynoded o draddodiad y cymeriad Dic Siôn Dafydd yn llenyddiaeth Gymraeg. Noder mai cymeriad cyfwerth i gymeriad 'Shauneen' yn llenyddiaeth Wyddelig yw Dic Siôn Dafydd: Gw. D. Myrddin Lloyd, *Emrys ap Iwan* (Writers of Wales) (Cardiff: University of Wales Press, 1979), t. 14.

<sup>508</sup> 'Dau Gyfaill', 'Beth sydd Genedlaethol?', *Y Geninen*, Cyf. XIII / Rhif 1, Ionawr 1895, t. 16.

<sup>509</sup> Michael D. Jones, 'Mrs Davey, Sunny Cottage, Near Carmarthen', *Y Geninen*, Cyf. X / Rhif 1, Ionawr 1892, tt. 13-14.

grefyddol ‘mamau Cymru gynt’.<sup>510</sup> ‘Hwdwcha’ oedd prif ddiddordeb merch gyffredin o Gymraes erbyn hynny ym marn Jones, ac ‘wedi meddwi ar wisgo’, ac ‘wedi treulio blynyddau mewn bwrdd-ysgol gostus’, prif ffrwyth ei haddysg oedd ‘medru gosod ei chorff yn hoel dillad i’w dangos yn daclus’:

Y mae llawer o addysg y dyddiau hyn yn ei roddi i ferched i’w dysgu i wirioni bechgyn, sef sut i wisgo, pa fodd i foesgrymu yn foneddigaidd, sut i siarad Seisonaeg yn ddigon main, canu’r berdoneg, dysgu rhyw ychydig o Ffrancaeg, a phob rhyw chwareu hollol ddi-fudd; ac wedi troi allan i’r byd, nid yw y rhai hyn ond us wedi ei daenu yn fedrus i wneyd y merched yn basiadwy yn y ffair garu ac i hudo yr adar i delm adarwr: ac wedi eu dal nid ydynt yn werth dim i undyn.<sup>511</sup>

Roedd y trosiad o’r Dic Siôn Dafydd yn dal ac yn fyw yn y wasg Gymraeg yn y 1890au, hyd yn oed i fenywod a merched ifainc Cymru mae’n debyg, ac roedd cefnu ar bethau Cymreig yn un o droseddau pwysicaf y cyd-wladwr esgeulus. Nid hwn oedd yr unig drosedd, sut bynnag, ac nid y gwaethaf.

## **Mae gennym gyd-wladwyr gwasaidd**

Pennaf ymysg troseddau nifer mawr o Gymry ym marn awduron mwyaf eithafol y cyfnod oedd eu ‘Saisaddoliaeth’ neu eu ‘gwaseidd-dra’ yn gyffredinol. Defnyddiwyd y gair ‘Saisaddoliaeth’ mor gynnar â 1850 mewn erthygl gan Ieuan Gwynedd, ond yn nwylo Michael D. Jones yn y 1860au ac Emrys ap Iwan yn y 1880au, cafodd y term rym ac effaith llymach fyth.<sup>512</sup> Canlyniad uniongyrchol oresgyniad gan wlad arall oedd ‘gwaseidd-dra’ ym marn Michael D. Jones, ac roedd ‘gwiber goresgyniad wedi chwythu ei gwenwyn gwyrdd ar hyd a lled [y genedl] ym mhob cyfeiriad’.<sup>513</sup> Prif effaith gwenwyn y wiber hon oedd peri i Gymru wneud ‘gwaith y concwerwr drosto’, sef ‘difa’i hetifeddiaeth, ei hiaith a’i nodweddiion cenedlaethol’:

---

<sup>510</sup> Michael D. Jones, ‘Dic Siôn Dafydd a Chamaddysg’, *Y Geninen*, Cyf. XIV/Rhif 4, Hydref 1896, tt. 249-251.

<sup>511</sup> Jones, ‘Dic Siôn Dafydd a Chamaddysg’, tt. 249-251.

<sup>512</sup> Gw. Evan Jones (Ieuan Gwynedd), ‘Saisaddoliaeth’, *Y Gymraes*, Mawrth 1850. Dyfynnir yn Brinley Rees (gol.), *Ieuan Gwynedd: Detholiad o’i Ryddiath* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1957), tt. 75-76. Gw. ‘Y Llo Arall’ o 1877 gan Emrys ap Iwan am enghraifft nodweddiadol o’i ymosodiadau ar ‘Saisaddoliaeth’ ei gyd-wladwyr.

<sup>513</sup> Dyfynnir yn Jones, ‘Michael D. Jones a thynged y genedl’, t. 60.

[Trychineb] cenedl a “waseiddiwyd” yw ei bod yn dirywio maes o law i gyflwr lle mae hi’n dymuno difa’i hetifeddiaeth, ei hiaith a’i nodweddion cenedlaethol. Hynny yw, daw’n barod toc i wneud gwaith y concwerwr drosto – a’i chyfrif yn fraint.<sup>514</sup>

Nid oedd y Cymry yn ymwybodol eu bod yn euog o wneud ‘gwaith y concwerwr drosto’, mae’n debyg, gan y bu rhaid i Emrys ap Iwan egluro ‘gwrthuni’ eu hymddygiad iddynt mewn ffordd alegoriaidd yn 1895. Yn yr erthygl ‘Paham y Gorfu’r Undebwyr’, gwahoddodd Emrys ap Iwan i bobl Cymru ddychmygu sefyllfa lle bo’r Saeson yn ymddwyn tuag at y Cymry yn yr un ffordd ag y mae’r Cymry yn ymddwyn tuag at y Saeson.<sup>515</sup> Gwelir, felly, fonheddwyr o Saeson yn troi cyfarfod Saesneg yng nghanol Lloegr yn gyfarfod Cymraeg gan fod yno ‘ddau neu dri o Gymry uniaith yn ddigon hy i weiddi “Cymraeg, Cymraeg”’. Gwelir dynion uniaith Gymraeg yn cynrychioli Caint ac Ynys Wyth yn San Steffan, ac wedyn yn cael eu canmol gan y bobl leol am draethu (yn y Gymraeg) ‘ar y priodoldeb o roi ychydig o le i iaith a llenoriaeth Saesneg yn athrofydd Caergrawnt a Rhydychen’. Gwelir i Saeson cyffredin oddef i Gymry fod yn farnwyr ac ynadon yn Lloegr, bod dadleuwyr y llysoedd yn gweithio yn unig drwy’r iaith Gymraeg, a bod eglwysi a chapeli Cymraeg yn cael eu codi yn St Albans a Clacton-on-Sea ar gyfer ymwelwyr Cymreig. Gwelir bod athrawon ysgolion Lloegr yn ‘gwialenodio’ ac yn ‘ffonodio’ eu disgyblion am siarad Saesneg yn yr ysgol, ac yn eu rhybuddio rhag siarad ‘*that vulgar English*’ y tu allan i’r ysgol. Gwelir i ‘goegynnod a choegennod’ Lloegr ‘glebran’ yn Gymraeg yn y siopau, trenau ac ysgolion Sul.

Yn ychwanegol at hynny, ac oherwydd y cywilydd o’u galw eu hunain yn ‘*butcher*, yn *clothier*, neu yn *shoemaker*’, gwelir yr arwyddion ‘Richard Cockburn, Cigydd’, ‘John Coldbottom, Dilledydd’ ac ‘Alfred Rawbottom, Crydd’ uwchben siopau trefi Lloegr.<sup>516</sup> Gwelir enwau megis ‘Gorsaf yr Unicorn’ am ‘Runcorn Station’ ar arwyddion y rheilffyrdd, gwelir i weithwyr Gorsaf Rhydychen weiddi ‘Rhydychen’ yn lle ‘Oxford’ er mwyn bodloni myfyrwyr Cymraeg, a gwelir i weithwyr o Saeson ‘oddef i ddeuddyn uniaith â’u henw Huws a Dafis eu trin mor drahaus ag y mae gweithwyr o Gymry [...] yn goddef i rai Saeson uniaith eu trin hwy’. Ni chredai Emrys ap Iwan, wrth gwrs, y dylai Saeson ymddwyn mewn ffordd mor daeogaidd tuag at y Cymry, ond gwrthododd yn llwyr hefyd y byddai’n weddus i Gymro ‘amharchu ei hun er mwyn dangos parch i’r genedl a’i gorchfygodd’, er mai dyna’r union

<sup>514</sup> Dyfynnir yn Jones, ‘Michael D. Jones a thynged y genedl’, t. 77.

<sup>515</sup> Emrys ap Iwan, ‘Paham y Gorfu’r Undebwyr’, tt. 27-29. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell.

<sup>516</sup> Emrys ap Iwan, ‘Paham y Gorfu’r Undebwyr’, tt. 27-29. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell, oni nodir yn wahanol.

beth yr oedd Cymry'r 1890au yn euog ohono ym marn Emrys.<sup>517</sup> Ar ben hynny, nid oedd Saeson hyd yn oed yn gwerthuso nac yn parchu ymddygiad mor ddiymhongar gan Gymry Saisaddolgar, meddai Emrys. Yn hytrach, 'diystyru o eigion eu calon' y Cymry o'r math hwn a wnâi'r Saeson:

Ymostwng i Sais ac ef a'th fathra; gosod dy hun ar yr un tir ag ef, ef a'th barcha. A ydych chwi'n meddwl, Gymry, eich bod yn fwy eich parch gan y Saeson oherwydd eich bod yn ymboeni i ymdebygu iddynt, ac i fyw yn gwbl iddynt? Nid ydych felly yn sicr, y maent yn eich diystyru o eigion eu calon.<sup>518</sup>

Tra bod rhai beirniaid wedi galw disgrifiad Emrys ap Iwan o'i gyd-wladwyr yn 'gerydd cariad', mae rhai eraill wedi sylwi nad oes 'cyhuddiad mwy ofnadwy yn erbyn cenedl' unrhyw le arall yn llenyddiaeth y byd ac eithrio cosbedigaeth pobl Israel yn yr Hen Destament.<sup>519</sup> Ceir enghraifft nodweddiadol o ymosodiadau ffyrnicaf Emrys ar 'waseidd-dra' y Cymry yn 'Y Llo Arall' o 1877:

Pe buaswn yn Gymro o waed coch cyfan fel un ohonoch chwi, hwyrach y gallaswn gyd-ddwyn â'ch gwaseidd-dra; ond tra bo gwaed cenedl fwy annibynnol yn rhedeg yn fy ngwythiennau, ni allaf ond ystyried eich gwaseidd-dra yn ffieiddbeth, a chwithau yn ddirmygedig.<sup>520</sup>

Ac ar 'Sais-addoli', neu 'Anglo-mania wyllt', sy'n 'pendifadu' Cymru yma:

Y mae'r Anglo-mania wyllt sydd yn pendifadu Cymru y dyddiau hyn yn peri imi gymaint o ofid a chywilydd fel yr wyf yn penderfynu arfer pob moddion – hyd yn oed y fflaim a'r wermod, os bydd raid – i geisio ei meddyginiaethu [...] Y mae digofaint yn llenwi fy enaid wrth weled yr ymdrech annirnadwy a wna'r fintai Saisaddolgar i ddinistrio cenedligrwydd y Cymry.<sup>521</sup>

Ynddynt eu hunain, byddai rhai yn dehongli 'gwaseidd-dra' a 'Sais-addoli' fel nodweddion naturiol a niweidiol pobl ddiymhongar neu bragmatig efallai. Ond credai Emrys fod y broblem yn mynd ymhellach na hynny a bod y symptomau hyn yn adlewyrchu rhyw

---

<sup>517</sup> 'Yn sicr, ni byddai'n fwy anwedus i'r genedl ieuengaf ddynewared y genedl hynaf nag ydyw i'r genedl a orchfygwyd ei hamharchu ei hun er mwyn dangos parch i'r genedl a'i gorchfygodd': Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 29.

<sup>518</sup> Emrys ap Iwan, 'Y Llo Arall', t. 54.

<sup>519</sup> 'Cerydd cariad oedd pob cerydd a roes [Emrys ap Iwan] i Gymru': D. Myrddin Lloyd, *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol*, t. xx. 'Mae'n amheus gennyf a oes yn llenyddiaeth unrhyw wlad, oddigerth hwyrach yn yr Hen Destament, gyhuddiad mwy ofnadwy yn erbyn cenedl nag sydd yn yr homili Cymru Gelwyddog': John Hooson, 'Emrys ap Iwan', *Y Traethodydd*, CVI/461 (1951), 160.

<sup>520</sup> Emrys ap Iwan, 'Y Llo Arall', t. 61.

<sup>521</sup> Dyfynnir yn Gwynfor Evans, 'Ein dyled i Emrys ap Iwan', yn *Cymdeithas Emrys ap Iwan – Y Ddarlith Flynyddol* Cyf. 1 & 2 - 1981-82 (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1983), t. 30.

anhwylder ysbrydol a diwylliant o ddibyniaeth.<sup>522</sup> Roedd yr anhwylder hwn yn amddifadu'r Cymry o'u hunanhyder ac yn eu hatal rhag cymryd penderfyniadau anodd a mynd i'r afael â phroblemau'r dydd gyda datrysiadau digon radical.<sup>523</sup> Er bod gwleidyddion a 'gwladgarwyr' eraill yn canolbwyntio ar ddatgysylltu'r Eglwys, diwygio tir neu ddirwest, roedd Emrys o'r farn y byddai'r holl achosion hyn yn wastraff amser hyd nes cyflawnid newidiadau sylfaenol ym meddwl y Cymry. Yn hyn o beth, nid oedd gwleidyddiaeth genedlaethol yn ymwneud â delio â materion penodol y dydd ym marn Emrys, ond yn mynd i'r afael â diffygion sylfaenol yng nghyflwr seicolegol y Cymry eu hunain. Fel y gwelir maes o law, byddai Emrys ap Iwan ei hun yn gwneud datganiadau 'trefedigaethol' (sef datganiadau sy'n tanbriso potensial Cymru) o bryd i'w gilydd hefyd, ond gwir yw mai ef oedd un o'r ychydig feddylwyr Cymreig i gydnabod (ac i drafod) cyflwr 'ôl-drefedigaethol' y Cymry yn y 19g.

Nid Emrys ap Iwan a Michael D. Jones yn unig a fu'n taranu yn erbyn Saisaddoliaeth y Cymry yn ystod y 1890au. Gwelwn yr un dirmyg at gyd-wladwyr Cymreig yng ngeiriau 'Dau Gyfaill' yn *Y Geninen* ym mis Ionawr 1895, cyd-wladwyr sy'n 'caru' Saeson yn fwy na nhw eu hunain, ac yn fwy, hyd yn oed, na'u duw, eu crefydd a'u hiaith:

O! Gymry gwirion, yn enwedig chwychwi breswylwyr gwanllyd glân y môr, pa hyd y cerwch eich cymydog Seisnig yn fwy na chwi eich hunain, yn fwy na'ch Duw, na'ch crefydd, na'ch iaith, ie na phob peth sydd werthfawr?<sup>524</sup>

At hynny, mae 'Dau Gyfaill' yn mynd ymlaen i'w ceryddu am 'addoli duwiau Seisnig'; pechod a fyddai'n ddigon ynddo ei hun i fwyafrif o Gristnogion anghydfurfiol Cymreig y cyfnod, heblaw am y ffaith bod yr union Saeson hynny yn 'llygru' eu cenedlgarwch, eu moesau a'u crefydd:

Yr ydych yn dweud y cyll y pagan ei enaid am ei fod yn addoli delwau – delwau sydd yn rhy fawr i wneyd na da na drwg: onid ystyriasoch y gallwch chwithau golli eich tipyn enaid trwy addoli duwiau Seisnig; a hynny yn fwy, am fod y rhan fwyaf o'r rhai hyn yn llygru nid yn unig eich cenedlgarwch, ond hefyd eich moesau a'ch crefydd.<sup>525</sup>

Yn yr un modd, cyhoeddwyd erthygl o'r enw 'Gwaseidd-dra y Cymry' yn *Y Geninen* yn 1895 gan awdur dan y ffugenw 'Ysbryd Llewelyn'.<sup>526</sup> Cwyna 'Ysbryd' yn yr erthygl hon

---

<sup>522</sup> 'The weakness was a lack of pride in their own heritage and abilities, leading to servility and an undue readiness to expect solutions from outside': Lloyd, *Emrys ap Iwan*, t. 32.

<sup>523</sup> Lloyd, *Emrys ap Iwan*, t. 32.

<sup>524</sup> 'Dau Gyfaill', 'Beth sydd Genedlaethol?', t. 16.

<sup>525</sup> 'Dau Gyfaill', 'Beth sydd Genedlaethol?', t. 16.

<sup>526</sup> 'Ysbryd Llewelyn', 'Gwaseidd-dra y Cymry (II)', tt. 275-277. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell.

fod yr holl swyddi cyhoeddus gorau yng Nghymru yn cael eu llenwi gan Saeson oherwydd ‘difaterwch’ y Cymry i wneud ‘rhywbeth heblaw siarad’, rhywbeth a ddangosodd fod ‘trylwyredd ein Sais-addoliaeth, a hydwythedd ein cynffonyddiaeth, yn rhemp’. Pan ddaw ‘braster’ y genedl i ddwyllaw estroniaid o Saeson, a hwythau yn Saeson uniaith Saesneg mewn ardaloedd uniaith Gymraeg, dim ond ‘cynffonyddiaeth’ a ddangosir iddynt gan y boblogaeth leol: ‘Ond deued y Sais yn swyddog i dref Gymreig, a chaiff ei barchu gennym fe pe buasai rhywbeth amgenach na’r meidrol yn urddasoli ei berson ef’. Mae ‘Ysbryd Llewelyn’ yn mynd ymlaen i ddisgrifio’r postfeistri, gorsaf-feistri, clercod a stiwardiaid o Saeson, ‘mawreddog’, ‘bostfawr’ a ‘chrintachlyd’ eu cymeriadau, sy’n llywyddu’r rhwydwaith post, y rheilffyrdd a’r ystadau mawr yng Nghymru. Mae hefyd yn disgrifio agwedd daeogaidd y Cymry tuag at y mewnfudwyr hyn, a sut ‘ar godiad bys neu amnaid llygad’ gan ryw stiward o Sais, ‘y daw torf o Gymry gwasaid i blygu ger ei fron’. Yn yr un modd, ‘awdurdod anffaeledig ar bob peth’ yw’r stiward yn llygaid rhan sylweddol o’r Cymry ac ‘ymostyngid i’w ddedfryd ar bobpeth’, meddai ef.

Yn unol â barn Emrys ap Iwan, nid yw ‘Ysbryd Llewelyn’ yn cwyno am y ffaith y dangosir parch i ambell i Sais sy’n haeddu’r clod, ond am y ffaith y dangosir parch i bob Sais beth bynnag y bo ei rinweddau neu ei ymddygiad. Hynny yw, cyfystyron oedd y geiriau ‘Seisnig’ ac ‘uwchraddol’ yng ngolwg llawer o Gymry’r cyfnod. Mae ‘Ysbryd Llewelyn’ yn mynd ymlaen i esbonio’r safiad hwn:

Pa bryd, tybed, y ceir gweinyddu ar gladdedigaeth y syniad mai bonheddwr ydyw *pob* Sais a ddaw i Gymru, os bydd yn llyfn ei dafod ac yn raenus ei ddillad? [...] Mae llawer un hyd heddyw yn parhau yn ein gwlad i goleddu yr un syniad a’r hen arweinydd, sef mai geiriau cyfystyr ydyw *bonheddwr* a Sais. Nid yw hyn yn ddim amgenach na ffurf arbennig ar ein gwaseidd-dra afresymol a blin.<sup>527</sup>

Nid yn unig y gwelir gwaseidd-dra a Saisaddoliaeth y Cymry yn y ffordd y maent yn gorbarchu mewnfudwyr o Loegr, ym marn ‘Ysbryd Llewelyn’, ond hefyd yn y ffordd y maent yn byw eu bywydau pob dydd. Mae’n mynd ymlaen i ddisgrifio sut mae cenhedlaeth newydd o Gymry proffesiynol megis meddygon a chyfreithwyr wedi cefnu ar yr iaith Gymraeg yn ‘y parlwr, y fagwrfa, a’r llyfrgell’, tra bo hi’n ddigon da ‘i wneud y tro i’r pantri, y beudy, a’r ystabl’. Mae gweision siopau’r trefi yn gwario ‘mwy na hanner’ eu cyflog ar ddillad a nwyddau o Loegr ‘er mwyn bod mor annhebyg i Gymro ag sydd yn bosibl’, agwedd sy’n haeddu’r cerydd llymaf posibl gan ‘Ysbryd Llewelyn’: ‘Y bwbach gwasaid! Ffei o

<sup>527</sup> ‘Ysbryd Llewelyn’, ‘Gwaseidd-dra y Cymry (II)’, t. 276. Pwyslais gan yr awdur gwreiddiol. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell, tt. 275-277.

honno, a phawb cyffelyb iddo'. At hynny, mae merched ifainc Cymru yn meddwl bod siarad 'iaith plant Alis' (Saesneg) yn gwneud 'eu gwasgau yn deneuach, eu dwylaw yn wynnach, eu traed yn llai, a'i hwynebau yn dllysach'.

'Marweidd-dra ein tân gwladgarol' a'r ffaith mai 'yn ein geneuau ac nid yn ein calonnau y mae ein gwladgarwch' sy'n gyfrifol am hyn oll, meddai 'Ysbryd Llewelyn', a'r unig Gymro sy'n haeddu edmygedd y milwriaethwr tanllyd hwn yw prifardd o Gymro anhysbys a hawliodd ei docyn 'trydydd dosbarth i'r Abermaw' yn y Gymraeg, a hynny er gwaethaf protestiadau rhyw 'glercyn o Sais' a wrthododd ei weinyddu oherwydd 'nad oedd yn deall Cymraeg'.<sup>528</sup> Pe byddai pob Gymro yn dangos cyffelyb wladgarwch i'r bardd hwn, meddai'r awdur, 'buasai llai o fechgyn ymhongar [...] i'w canfod yn ein gwlad heddyw'.<sup>529</sup>

## Mae gennym wladgarwyr ffug yn ein plith

Wrth wraidd sylwadau 'Ysbryd Llewelyn' yw'r syniad bod gwladgarwyr go iawn a gwladgarwyr ffug i'w cael yng Nghymru yn y 1890au, neu Gymry sydd â gwladgarwch 'yn eu cegau' i ailadrodd y ddelwedd uchod. Fel mae'n digwydd, gwelwn yr un motiff yn y disgwrs Basgaid wrth i awdur anhysbys yn *Euskalduna* yn 1895 ofyn i'w ddarllenwyr a yw 'gwladgarwyr go iawn' yn bodoli ym Miscaia, y rhai a allai waredu'r wlad rhag 'y boblach fudr o Fiscaiaid ffug', ac os felly, 'ym mha le y maent hwy?':

A oes dynion rhydd ym Miscaia, hwyrach, sydd â delfrydau cyfreithlon neu wladgarwyr go iawn sydd â dyheadau uchelgeisiol? Os ydynt yn bodoli, ym mha le y maent hwy? [...] Rhowch ben ar ymosodiad y *caciques* a sicrhau felly fod y peiriant uffernol hwnnw [...] yn chwythu i fyny ac yn lapio ymhlith ei weddillion y boblach fudr o Fiscaiaid ffug hynny sy'n niweidio ein hymdrechion i gyflawni dyheadau pawb.<sup>530</sup>

Diolch i Emrys ap Iwan a'i erthygl 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', mae gennym ddiffiniad cynhwysfawr o un o'r 'gwladgarwyr go iawn' hyn yn y cyd-destun Cymreig, neu 'Gymro

<sup>528</sup> 'Ysbryd Llewelyn', 'Gwaseidd-dra y Cymry (II)', t. 275.

<sup>529</sup> 'Ysbryd Llewelyn', 'Gwaseidd-dra y Cymry (II)', t. 276.

<sup>530</sup> 'Por ventura, ¿no existen en Bizkaia hombres libres, los de ideales legítimos, los verdaderos patriotas de levantadas aspiraciones? Si existen, ¿dónde están? [...] Dad al traste con esa intrusión caciquera y haced de tal suerte que esa máquina infernal [...] estalle envolviendo entre sus residuos la inmundicia de falsos bizkainos que están aniquilando nuestros esfuerzos para la consecución del ideal de todos': [dienw], 'La máquina infernal', t. 10. Noder mai math o benaethiaid lleol grymus, tebyg i'r 'don' Eidalaid, oedd y *caciques* yn hanes Sbaen.

Cymreig' fel mae Emrys yn ei alw ef, cymeriad gwrthgyferbyniol i 'Gymro Fydd', neu gefnogwr y mudiad cenedlaetholgar Cymru Fydd.<sup>531</sup> Un 'sy'n credu ac yn cyffesu' mai 'cadw Cymru yn Gymreig o ran iaith ac ysbryd yw'r pwnc pwysicaf o bob pwnc gwleidyddol' yw gwladgarwr go iawn ym marn Emrys; un sy'n credu mai 'cadw'r Gymraeg yn fyw ac yn iach yw'r unig Geidwadaeth y mae'n weddus i'r Cymry ymegniö i'w hamddiffyn', ac mai 'rhyddhau'r Dywysogaeth oddi wrth yr ormes Seisnig [...] ydyw'r unig Ryddfrydiaeth y mae'n wiu i'r Cymry ymladd drosti'. Cymro sy'n rhoi iaith a diwylliant Cymraeg o flaen unrhyw ystyriaeth arall, Cymro sy'n gwrthod rheolaeth wleidyddol Seisnig dros Gymru, a Chymro sy'n gwrthwynebu mewnfudo i Gymru gan bobl 'annymunol' o Loegr yw'r gwladgarwr hollol gywir yn ôl Emrys ap Iwan felly; Cymro, hefyd, sy'n meddwl nid yn unig am 'lwyddiant' yr unigolyn, ond am '[f]ywyd y genedl yr ydym yn perthyn iddi'. Gallwn gymryd, gan hynny, na fyddai'r 'Cymro Fydd', neu'r gwladgarwr 'ffug', yn sefyll mor gadarn dros yr achosion hyn ym marn Emrys.

Gwelwn hefyd i'r awdur 'Dau Gyfaill' yn 'Beth sydd genedlaethol?' o fis Ionawr 1895, gwyno fod rhai yng Nghymru yn defnyddio disgwrs a therminoleg cenedlaetholdeb (a'r gair 'enedlaethol' yn benodol) heb fod yn wirioneddol genedlaetholgar neu wlatgar yn eu gweithredoedd pob dydd:

Er hynny, y maent yn ddigon craff i wybod fod teimlad Cymreig cryf yn y wlad; ac er mwyn marchogaeth ar hwnnw i gyrraedd eu hamcanion eu hunain, y maent yn gyfrwys iawn yn galw pob peth y bydd ganddynt hwy ran ynddo yn *Genedlaethol*. Ar y Cymro cyffredin y mae y rhai hyn yn byw; a chan fod hwnnw druan yn dueddol i goelio pob hyspysiad a fydd wedi ei argraffu mewn llythyrennau breision, y mae efe yn coelio fod pob peth a elwir yn 'enedlaethol' ar bapur, yn genedlaethol mewn gwirionedd, ac am hynny yn teimlo fod dyled arno i'w gefnogi.<sup>532</sup>

Yng ngweddill yr erthygl mae 'Dau Gyfaill' yn mynd ymlaen i graffu yn fanwl ar y sefydliadau ac ar y bobl sy'n eu galw eu hunain yn 'enedlaethol' ac i roi eu 'cymwysterau cenedlaetholgar' ar brawf. Yn gyntaf, mae'n troi at newyddiaduron 'enedlaethol' Cymru ac yn eu ceryddu am ailadrodd yn ddifeddwl storïau a barn olygyddol papurau Seisnig, tra eu bod yn methu cynrychioli barn gyffredin pobl Cymru ynghylch materion moesol megis imperialaeth a rhyfeloedd tramor. Mae'n beirniadu eu diffyg egwyddor a 'chydwybod' mewn

---

<sup>531</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 23. Daw pob dyfyniad canlynol yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell. Yn ôl Saunders Lewis, ni welodd Emrys ap Iwan ond 'twyll a hoced' yn y mudiad Cymru Fydd: Saunders Lewis, 'Emrys ap Iwan', yn *Ysgrifau Dydd Mercher* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1945) t. 76.

<sup>532</sup> 'Dau Gyfaill', 'Beth sydd Genedlaethol?', t. 16. Daw pob dyfyniad yn y ddau baragraff canlynol o'r un ffynhonnell.



cwestiynau gwleidyddol mawr y cyfnod, ac yn eu beirniadu am ‘ymgecro ynghylch pethau dibwys’ megis datgysylltu’r Eglwys a diwygio tir yn lle dadlau dros bethau ‘pwysig’ y genedl megis ‘cadwedigaeth yr iaith Gymraeg’. Mae hefyd yn beirniadu’r newyddiaduron am fethu craffu ar ‘gymwysterau cenedlaetholgar’ y dynion sy’n sefyll dros aelodaeth pwyllgorau addysg.

Yn ail, mae’n beirniadu’r Eisteddfod Genedlaethol am wneud cymaint o ddefnydd o’r Saesneg yn ei gweithgareddau, yn ei hysbysebion ac yn ei chofnodion, ac yn beirniadu eisteddfodau enwadol am fod yn ‘sectol’ (yn lle ‘cenedlaethol’) wrth ddewis eu testunau a’u beirniaid. Mae’n mynd ymlaen i feirniadu Seisnigaeth athrawon a llywodraethwyr y ‘colegau cenedlaethol’ ym Mangor, Aberystwyth a Chaerdydd, a diffyg Cymreictod yng ngholegau diwinyddol yr enwadau ac ‘ysgolion cenedlaethol’ Eglwys Loegr. Mae’n gwrthod y syniad bod y Methodistiaid Calфинаidd yn ‘gyfundeb cenedlaethol’ wedi iddynt fynd i ‘ddala’ eneidiau Seisnig trwy eu ‘hachosion Seisnig’, ac mae’n gwadu y gellir galw gwleidyddion Cymreig megis David Lloyd George yn wleidyddion ‘cenedlaethol’ tra maent yn esgeuloso’r iaith Gymraeg a gwrthod a gwawdio arwyddeiriau newydd megis ‘Cymru Gymreig’ a ‘Chymry i’r Cymry’. Y gwleidydd neu’r sefydliad sy’n hyrwyddo’r iaith Gymraeg yn weithredol ac sy’n rhoi swyddi cyhoeddus i Gymry Cymraeg yn hytrach nag i fewnfudwyr o Saeson yw’r unig wleidydd neu’r unig sefydliad a all ei alw ei hun yn ‘cenedlaethol’ yn y pen draw, ym marn ‘Dau Gyfaill’.

Mae’r erthygl hon yn enghraifft ardderchog o ddisgwrs cenedlaetholdeb Cymreig mwyaf eithafol y 1880au a 1890au, sef disgwrs yr awduron a’r deallusion a oedd yn gwrthod yn llwyr genedlaetholdeb cymedrol, dinesig y mudiad cenedlaetholgar newydd Cymru Fydd. Cenedlaetholdeb ethno-ieithyddol pur sydd gennym yn yr erthygl hon, cenedlaetholdeb sy’n gosod ffawd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg uwch ben pob ystyriaeth arall, a chenedlaetholdeb yw hwn a seilir ar ddeuoliaeth ddisgyrsiol lem rhwng y rhai sy’n cefnogi’r iaith a’r rhai sy’n ei hesgeuluso neu yn ymosod arni.

Mewn erthygl arall yn y cylchgrawn *Wales* ym mis Hydref 1896, mae W. Llewelyn Williams yn disgrifio math arall o wladgarwyr – ‘rhai o’r gwladgarwyr Cymreig gorau a didwyll’: y gwladgarwyr sy’n fodlon gweld yr iaith Gymraeg yn trengi:

Not only English statesmen, but some of the best and most single-hearted Welsh patriots, have also been of the opinion that the extinction of the language, which has

for centuries isolated Wales from England and from Europe, would be a great blessing to the Principality.<sup>533</sup>

Yn ddiddorol iawn, ac er na chytuna Williams â hwy, mae'n cydnabod bod y gwladgarwyr hyn yn dal eu cred 'yn ddidwyll', a hynny oherwydd y ffaith eu bod yn credu bod yr iaith Gymraeg yn 'neilltuo' Cymru oddi wrth Loegr a gweddill Ewrop, ac yn rhwystr, felly, i ddatblygiad y wlad. Hynny yw, nid yw'r 'gwladgarwyr Cymreig didwyll' hyn yn credu bod yr iaith Gymraeg ymysg buddiannau pwysicaf Cymru; mae ganddynt flaenoriaethau gwahanol. At hynny, roedd Thomas E. Ellis o'r farn mai 'ffosilau hynafol sydd bellach yn ein camarwain ac yn ein camddarlunio' oedd y mwyafrif o'i gyd-aelodau Rhyddfrydol Cymreig yn y 1880au hwyr.<sup>534</sup> Dyma awgrym diddorol, felly, o un o'r tensiynau parhaol arall a welir yn y disgwrs cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig, sef y cwestiwn ynghylch pwy ddylai ddiffinio 'diddordebau' Cymru ac o dan ba griteria gwerthfawrogol. Pwy ddylai ddiffinio gwladgarwch Cymreig ei hun, felly? Fel y gwelwyd yn Rhan 1, neb a phawb fyddai'r ateb yn ôl damcaniaethau ôl-Foucaldaidd wrth gwrs; dim ond maes gwrthdaro ieithyddol parhaol ydyw yn y pen draw.<sup>535</sup>

Y mae archeolegwr ieithyddol yr 21g yn ffodus iawn i Sabino Arana, wrth iddo ysgrifennu 'La ceguera de los Bizkainos' yn 1894, ddisgrifio yn union pwy oedd y gwladgarwyr ffug ymysg y Biscaciaid yn ei farn ef.<sup>536</sup> Roedd y 'gelynion' hyn yn perthyn i ddau gategori: gwahanol garfanau'r pleidiau 'Catholigaidd' (*Carlistas*, *Integristas* a *Fueristas*), a gwahanol garfanau'r pleidiau 'rhyddfrydol' (*Republicanos* a *Monárquicos*).<sup>537</sup> Er bod Arana yn Gatholig cryf a chenedlaetholwr tanbaid, canfyddir bron pob plaid wleidyddol Gwlad y Basg y 1890au ar y rhestr hon, gan gynnwys y rhai cryfaf eu Catholigiaeth (yr *Integristas*) a'r rhai a oedd yn gefnogol i hunanlywodraeth Fasgaidd megis y Carliaid a'r *Fueristas*. Mwy dealladwy o lawer, efallai, oedd presenoldeb y carfanau rhyddfrydol ar restr Arana, â'u tuedd i gefnogi gwleidyddiaeth seciwlar, moderneiddio a chanoli llywodraethau Madrid.

Y peth sy'n amlwg iawn yn 'La ceguera de los Bizkainos' yw mai gelyn oedd pob Basgiad nad oedd yn cefnogi egwyddorion craidd yr EAJ-PNV, sef '*Jaungoikua eta Lagizarra*' (Duw a'r hen gyfraith) i Sabino Arana, a'i bolisiau o genedlaetholdeb eithafol a

<sup>533</sup> Williams, 'The Claims of the Welsh Language', t. 455.

<sup>534</sup> Jones, *Thomas Edward Ellis*, t. 23.

<sup>535</sup> Gw. trafodaeth ar syniadau Michel Pêcheux yn 'Disgwrs a'r genedl' uchod.

<sup>536</sup> Arana, 'La ceguera de los Bizkainos', tt. 1-3.

<sup>537</sup> Fernández Ulloa, 'La fuerza del mito', 1.

Chatholigiaeth ‘integraidd’ (y gred y dylai gwladwriaeth ac eglwys fod yn gyfannol). Yn ei eiriau ei hun, mewn erthygl arall o 1895, ‘nid gwladgarwr’ ac ‘nid mab dilys Biscaia’ oedd unrhyw un a wrthododd yr egwyddorion hyn, ond ‘bastard, sy’n haeddu cael ei lusgo o gopa Gorbea i greigiau Matxixako’.<sup>538</sup> Gelynyon oedd y cyd-wladwyr hyn, ym marn Arana, oherwydd y ffaith eu bod yn ceisio ‘uno’r’ Biscaiaid ag ‘estroniaid’ a’u ‘gelynyon naturiol’ y Sbaenwyr.<sup>539</sup> Ar ben hynny, ‘bradwr o’r fath waethaf’ oedd unrhyw Fiscaiad a fyddai’n tosturio wrth sefyllfa ariannol fregus mewnfudwyr o Sbaen wrth ‘ymffrostio ei fod yn wladgarwr’.<sup>540</sup> ‘Melltigedig’ oedd y rhai oedd yn clywed ‘gwaedd sanctaidd’ gwladgarwch ond nad oeddent yn ei ‘sefydlogi yn eu meddwl na’i derbyn yn eu calonau’: roeddent yn ‘poeri yn wyneb Biscaia ein cyndadau a throedio ar ei baner gysegredig’ wrth ‘ildio eu mamwlad i elyn estron Duw a Chyfraith ein hil’.<sup>541</sup>

Datganodd Sabino Arana mewn erthygl arall o 1895 mai ‘gelynyon i’n sefydliadau traddodiadol’ oedd y newyddiaduron *El Diario de Bilbao* a *El Porvenir Vascongado*,<sup>542</sup> ond nid arweinydd yr EAJ-PNV yn unig a welodd elynion mewnol yn sgwlcan yn fygythiol ar bob cornel eu milltir sgwâr. Bu i olygydd y cylchgrawn *Euskalduna* ffocysu yn aml ar y *caciques* (math o benaethiaid lleol grymus, yn debyg i’r ‘don’ Eidalaid), neu ‘enemigo principal’ (prif elyn) y bobl gyffredin yn ei eiriau ei hun, a oedd yn ‘amddiffyn eu buddiannau eu hunain’ yn lle gweithio dros ‘fudd cyffredin’ y Basgiaid.<sup>543</sup> ‘Peiriant uffernol’ oedd y *caciquismo* (‘penaethiaeth’) hwn, ‘aflednais, materol, hunanol i’r eithaf’, yn ôl erthygl arall yn *Euskalduna* o 1895, a byddai’r cylchgrawn yn ‘datgan rhyfel heb drugaredd’ yn ei erbyn.<sup>544</sup> Mae golygydd *Euskalduna* hefyd yn beirniadu cynghorion trefol a thaleithiol

<sup>538</sup> ‘A la cabeza de nuestro periódico va el lema que defendemos, que es el puramente patrio: quien lo haya entendido, nos ha entendido también a nosotros. El que, comprendiéndolo, no lo acepta en todas sus partes, ése no es patriota, no es hijo legítimo de Bizcaya; bastardo es, y digno de ser arrastrado desde la cumbre del Gorbea hasta las peñas del Matxixako’: Arana, ‘¿Vida nueva?’, t. 1.

<sup>539</sup> ‘¿Cuando llegarán los bizkainos a mirar como a enemigos a todos los que les hermanan con los que son extranjeros y enemigos naturales suyos!’: Arana, ‘El Basco’, tt. 1-3.

<sup>540</sup> ‘Si alguien, pretextando caridad, se compadeciese de los males físicos del enemigo de la Patria, y al mismo tiempo alardea[r]se de patriota, no le creais: es un traidor de los peores, por sêr [*sic*] embozado’: Arana, ‘Areitz órbelak’, t. 3.

<sup>541</sup> ‘¡Malditos sean, malditos por el espíritu de sus antepasados, malditos por sus hijos, los que percibiendo en sus oídos el grito santo, no lo fijan en su mente ni reciben en su corazón, y escupen al rostro de la Bizcaya de nuestros abuelos y pisan su bandera sacrosanta, y entregan a su patria al extranjero enemigo del Dios y la Ley de nuestra raza!’: Sabino Arana, ‘El Basco’ [2], *Bizkaitarra*, Año III/Número 24, 31 Mawrth 1895, t. 4.

<sup>542</sup> ‘Enemigos de nuestras tradicionales instituciones’: Sabino Arana, ‘Revista de la prensa’, *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 3.

<sup>543</sup> ‘El enemigo principal’; ‘tienen por aspiración, mejor que la consecución del interés común, la protección de sus propios intereses: [dienw], ‘En síntesis’, tt. 1 a 3.

<sup>544</sup> ‘La máquina infernal’; ‘un cacequismo grosero, materializado, egoísta hasta lo infinito’: [dienw], ‘La máquina infernal’, t. 10. ‘Declaráramos guerra sin cuartel’: Antón de Muntibar, ‘Chiriloras’, *Euskalduna*, Año I/Número 2, 20 Medi 1896, t. 12.

Biscaia a oedd yn mynd i Donostia bob blwyddyn i ‘gyfarch’ brenin Sbaen heb fanteisio ar y cyfle i godi materion o bwys, sef materion ‘cenedlaethol’ megis adennill hawliau hunanlywodraethol, gwella’r *concierto económico* (setliad ariannol y taleithiau Basgaidd â Madrid), a chael gwared ar *cacequismo*.<sup>545</sup> Mae’r ‘cynrychiolwyr yn mynd yno heb ddim, ac yn dychwelyd fel yr aethant’, dywed mewn erthygl o 1896.<sup>546</sup> Yn yr un ffordd, mae’n cwyno am wleidyddion lleol sy’n gadael i ymwelwyr bonheddig o Loegr fynd i mewn i’r *Sala de Juntas* yn Gernika (hen adeilad Cynulliad Biscaia) i weld y *Gernikako Arbola* (Coeden Gernika, sef emblem rhyddid traddodiadol Biscaia), tra mae’r union wleidyddion yn atal gwladgarwyr Basgaidd rhag mynd yno i gynnal dathliadau cenedlaetholgar a ‘siarad am ryddid Basgaidd’: ‘anghydraddoldeb a desbotiaeth’ yw hyn oll yn ei farn ef.<sup>547</sup>

Os oedd *caciques* a gwleidyddion lleol Gwlad y Basg yn brif elyn i’r cyfranwyr i *Euskalduna*, cyfalafwyr mawr Biscaia oedd y gelynyon mewnol casaf gan Sabino Arana.<sup>548</sup> Roeddent yn gyfrifol am ddenu mewnfudwyr o Sbaen i Fiscaia i weithio yn eu mwyngloddiau, ffatrioedd haearn ac ierdydd llongau ym marn Arana, ac roedd bai’r ‘invasión maketa’ (goresgyniad y *maketos*) dilynol, a phopeth negyddol a ddaeth yn ei sgil megis anfoesoldeb, trosedd ac annuwioldeb, yn disgyn ar ysgwyddau’r mawrion cyfalafol hyn. O ganlyniad, roedd ‘cyfalafwyr Biscaia’ wedi ‘gwyrdroi cymdeithas Biscaia’, ‘llygru enaid y Biscaiad cyffredinol’ a ‘gadael ei gorff i ddiflastod a newyn er mwyn cynnal y dieithryn’.<sup>549</sup> Aeth Antón de Muntibar ymhellach yn *Euskalduna* yn 1896 wrth gwyno am berchnogion a rheolwyr busnesau newydd Bilbo a oedd yn ffafrio ‘estroniaid’ dros bobl leol, gan adrodd achos pan roddwyd swydd gyhoeddus i ymgeisydd o Cuenca (Andalwsia) ar draul dau ymgeisydd da o Bilbo: ‘caniateir i bobl Bilbo fod yn feiliaid a gwylwyr nos erbyn hyn’, meddai de Muntibar, ond ‘rhoir y swyddi da i ddieithriaid’.<sup>550</sup> Y gwir noeth am hyn oll yn y pen draw, yn ôl cerdd a ymddangosodd yn *Bizkaitarra* ar 20 Ionawr 1895, oedd ‘y gwerthwyd’ mamwlad y Biscaiaid gan ‘gyfalafwyr ac ysgrifenyddwyr’.<sup>551</sup>

---

<sup>545</sup> Roedd teulu brenhinol Sbaen yn treulio’r haf yn Donostia pob blwyddyn yn y 19g.

<sup>546</sup> ‘Mas los comisionados van vacíos y vuelven como han ido’: [dienw], ‘Hechos y comentarios’, *Euskalduna*, Año I/Número 1, 13 Medi 1896, t. 5.

<sup>547</sup> ‘Desigualdad y despotismo, se llama esta figura’: [dienw], ‘Hechos y comentarios’, t. 5.

<sup>548</sup> Gw. Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 21.

<sup>549</sup> ‘Estáis pervirtiendo la sociedad bizkaina’: ‘Pero esto no les basta a los capitalistas bizkainos: están corrompiendo el alma del bizkaino, y les es preciso también abandonar su cuerpo a la miseria y al hambre, para sustentar al extraño’: Arana, ‘¡Caridad!’, t. 2.

<sup>550</sup> ‘Hoy á los bilbaínos se les consiente que sean alguaciles y serenos; las buenas plazas se dan á los de fuera’: Muntibar, ‘Chiriloras’, t. 12.

<sup>551</sup> ‘Un Bizkaino’, ‘A mi patria, vendida por capitalistas y escritores’ [cerdd], *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 4.

## Mae gennym elyn haniaethol

Gwelwyd hyd yma yn Haen 2 ein paradeim disgyrsiol fod gan y Cymry a'r Basgiaid elynion o gnawd a gwaed, rhai y tu allan i'r gymuned genedlaethol a rhai y tu mewn. Pobl go iawn oedd y gelynion hyn; pobl nad oeddent yn ymddwyn neu yn gweithredu fel y byddai awduron yr erthyglau yn ei ddymuno. Ond roedd rhai ysgrifenyddwyr yn defnyddio'r gair 'gelyn' am elyn arall, sef gelyn haniaethol, neu elyn na ellid ei gyffwrdd na chael gafael arno yn gorfforol. Moderniaeth ei hun oedd y gelyn hwn, neu'r broses barhaol o ddiwydiannu, moderneiddio a homogoneiddio a hyrwyddai llywodraethau canolog Llundain a Madrid yn ystod y 19g. Yn ôl rhai haneswyr, roedd twf mudiadau cenedlaethol yng Nghymru a Gwlad y Basg o'r 1870au ymlaen yn adwaith uniongyrchol i ganlyniadau diwylliannol a chymdeithasol y polisiau hyn. Ni synnir felly y gwelir atseiniau o'r gwrthdaro syniadaethol hwn yn nhudalennau ein cylchgronau, gan ffurfio rhan bwysig o'r paradeim disgyrsiol ehangach.

'El siglo de la ignominia' ('y ganrif waradwyddus') oedd y 19g i Sabino Arana, a chredai fod y newidiadau cymdeithasol a ddaeth yn sgil y chwyldro diwydiannol ym Miscaia yn fygythiad difrifol a marwol i genedl y Basgiaid hefyd.<sup>552</sup> Yn wir, er cydnabod pwysigrwydd llenyddiaeth ramantaidd wladgarol ac effaith y rhyfeloedd Carlaidd ar ddatblygiad cenedlaetholdeb Fasgaid ar ddiwedd y ganrif, mae haneswyr Gwlad y Basg megis José Luis de la Granja Sainz yn rhoi cryn dipyn yn fwy o bwys ar y broses o foderneiddio a welid ym Miscaia o 1850 ymlaen:

Ymddangosodd cenedlaetholdeb Basgaid yn negawd olaf y 19g. Llenyddiaeth *fuerista* ramantaidd, y rhyfeloedd Carlaidd a dirymu'r *fueros*, ac, yn anad dim, y chwyldro diwydiannol ym Miscaia yn chwarter olaf y 19g (a'u canlyniadau yr adweithiodd Sabino Arana mewn ffordd mor ffyrnig yn eu herbyn), oedd y prif amgylchiadau hanesyddol sy'n esbonio ei ymddangosiad.<sup>553</sup>

Nid adwaith yn erbyn ymelwa cyfalafol ar weithwyr gorthrymedig a welwyd ym Miscaia sut bynnag, gan mai ffyniannus a breintiedig oedd cymdeithas ddiwydiannol Gwlad y Basg o'i chymharu â chymunedau amaethyddol gweddill Sbaen.<sup>554</sup> Adwaith yn erbyn llechfeddiant

---

<sup>552</sup> Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 19.

<sup>553</sup> 'El nacionalismo vasco surgió en Bilbao en el último decenio del siglo XIX. Las principales coordenadas históricas que explican su aparición fueron la literatura fuerista romántica, las guerras carlistas seguidas por las aboliciones forales y, sobre todo, la revolución industrial de Vizcaya en el último cuarto del siglo XIX, contra cuyas consecuencias reaccionó de forma virulenta Sabino Arana': Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 11.

<sup>554</sup> '[Basque nationalism] cannot easily be attributed to colonial patterns of economic exploitation [...] The region's general experience [...] has been of relatively advanced or privileged economic development': Medhurst, 'Basques and Basque nationalism', t. 257. Ond mae'n fuddiol cadw mewn cof y cafwyd gorthrymder

syniadaethol y canol metropolitaidd i mewn i gymdeithas geidwadol yr ymylon a welwyd yma, neu adwaith gan ddsbarth o arweinwyr lleol a welai fod eu gafael ar feddwl ac ymddygiad y gymdeithas honno yn gwanhau. Wele eiriau'r hanesydd Ken Medhurst:

The original nature of the movement's support and the precise content of its ideology [...] may be best explained by references to the defensive reactions of traditionally significant groups in Basque Society whose status, interests and values seemed, as a consequence of industrialization, to be threatened. It was perhaps their heightened awareness of belonging to an ethnically distinct yet culturally beleaguered minority that gave their nationalism its characteristically intransigent quality.<sup>555</sup>

O ganlyniad, meddai Marianne Heiberg, nid yw cenedlaetholdeb Basgaidd y 19g yn cydymffurfio â damcaniaethau o 'symudedd wedi'i rwystro' (*blocked mobility*), fel y'u cyflwynwyd gan Gellner, Minogue, Argyle ac Inglehart.<sup>556</sup> Yn hytrach, meddai, deillia genedigaeth y mudiad cenedlaethol o ddiwedd cyfundrefn dollau annibynnol Gwlad y Basg yn 1876 a'r twf enfawr yn niwydiant Biscaia a ddaeth yn ei sgil.<sup>557</sup> Yn yr un modd, mae Teresa Fernández Ulloa wedi amlinellu sut roedd cyfyngiadau llym ar fewnfudo i Fiscaia ar waith o dan drefn y *fueros* cyn 1876, gan fynnu hyd yn oed brofion o *nobleza* (bonedd) gan fewnfudwyr o Gastilia a oedd yn dymuno symud yno, bonedd a roddwyd i bob Biscaiad yn awtomatig gan y *fueros* wrth gwrs.<sup>558</sup> Wedi diddymu tollau Basgaidd annibynnol a rheolaeth mewnfudo'r *fueros* yn 1876, nid oedd unrhyw rwystr bellach i bobl o ardaloedd tlotaf Sbaen ddod i Fiscaia a mynd ati i gyfranogi o ffyniant newydd y chwyldro diwydiannol.

Yn ogystal â hyn, roedd maint a chyflymder y chwyldro diwydiannol yng Ngwlad y Basg yn ystod ail hanner y 19g yn cyfrannu at ffyrnigrwydd a lledaeniad yr adwaith a welwyd yng nghymdeithas draddodiadol Fasgaidd y 1890au. Ar sail digonedd mwynfeydd haearn Biscaia er enghraifft, ac wedi agor ffwrnais chwyth gyntaf y wlad yn Bilbo yn 1841, byddai 77% o haearn bwrw ac 87% o ddur Sbaen yn cael eu cynhyrchu yn y dalaith erbyn diwedd y ganrif.<sup>559</sup> Daeth diwydiannau eraill i Fiscaia yn sgil y sector haearn megis ffatrioedd cemegau a phurfeydd olew, a moderneiddiwyd a mecaneiddiwyd prosesau diwydiannol traddodiadol Basgaidd megis adeiladu llongau. Yn hynny o beth, ffurfiwyd sector bancio modern Sbaen yng Ngwlad y Basg yn y cyfnod hwn yn sgil sefydlu El Banco

---

llym yn erbyn rhannau helaeth o gymdeithas Fasgaidd gan yr awdurdodau ffasgaidd ar ôl Rhyfel Cartref Sbaen 1936-39, i'r fath raddau fel y disgrifia Medhurst genedlaetholdeb Basgaidd ar ôl y Rhyfel yn gymysgedd o 'ethnicity, industrialization and repression': Medhurst, 'Basques and Basque nationalism', t. 257.

<sup>555</sup> Medhurst, 'Basques and Basque nationalism', t. 257.

<sup>556</sup> Heiberg, 'Insiders/outside', 181.

<sup>557</sup> Heiberg, 'Insiders/outside', 175.

<sup>558</sup> Fernández Ulloa, 'La Fuerza del Mito', 4.

<sup>559</sup> Evans, *Gwlad y Basg*, tt. 74-75.

de Bilbao yn 1857 ac El Banco de San Sebastián yn 1868.<sup>560</sup> Yn hollbwysig, roedd perchnogaeth nifer mawr o'r mwynfeydd, y cwmnïau a'r banciau hyn yn nwylo cyfalafwyr o Gastilia neu gyfalafwyr estron, ac roedd cyfalafwyr mawr Basgaidd wedi derbyn, neu hyd yn oed groesawu, cyfundrefn ryddfrydol Madrid ers talwm.<sup>561</sup> Yng ngolwg dynion dosbarth canol traddodiadol Gwlad y Basg, llifai buddiannau'r chwyldro diwydiannol i bobl nad oedd ganddynt ddiddordeb yn, na ffyddlondeb i, hen ddiwylliant a hen arferion y wlad. Ystyrier sylwadau Ken Medhurst unwaith eto: 'Thus industrialization, though it entailed some marked development in general regional prosperity, was seen principally to benefit groups whose ultimate loyalties or interests lay beyond the area'.<sup>562</sup>

Ar yr un pryd, tyfodd poblogaeth Bilbo o ryw 20,000 yn 1850 i 100,000 erbyn diwedd y ganrif (a thros hanner y boblogaeth honno wedi ei geni y tu allan i Fiscaia), a thyfodd poblogaeth y dalaith gyfan o 94% yn ystod yr un cyfnod.<sup>563</sup> Trawsffurfiwyd Bilbo, a nifer helaeth o drefi eraill Gwlad y Basg, yn ganolfannau diwydiannol, trefol, di-Fasgeg eu hiaith ac anfasgaidd eu diwylliant dros gyfnod cymharol fyr o ryw ddegawd neu ddau. O ganlyniad, cafodd El Partido Socialista Obrero Español (PSOE) (prif blaid sosialaidd Sbaen a ffurfiwyd yn 1879) a La Unión General de Trabajadores (UGT) (undeb llafur a ffurfiwyd yn 1888) gryn dipyn o lwyddiant yn denu aelodau a chefnogaeth yn ffatrioedd a thenementau Biscaia, a llwyddodd arweinwyr y PSOE, Facundo Perezagua ac Indalecio Prieto, i dyfu'r mudiad yn sylweddol yng Ngwlad y Basg yn negawdau olaf y ganrif.<sup>564</sup> Yr oedd anffyddiaeth, radicaliaeth gymdeithasol ac athroniaeth 'estronol' sosialaeth yn hollol groes i draddodiadaeth a lleoliaeth y gymdeithas frodorol Fasgaidd, ac ni synnir felly, mai fel adwaith yn erbyn y ddau nerth modern hyn – rhyddfrydiaeth a sosialaeth ryngwladol – y ganed cenedlaetholdeb Basgaidd o 1876 ymlaen. Am hynny, fel y dywed Ken Medhurst, mae datblygiad cenedlaetholdeb Basgaidd yn gyson â model ethnosymbolaidd Anthony Smith yn hytrach nag â model modernaidd Gellner.<sup>565</sup>

---

<sup>560</sup> Evans, *Gwlad y Basg*, t. 75.

<sup>561</sup> Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 21.

<sup>562</sup> Medhurst, 'Basques and Basque nationalism', t. 240.

<sup>563</sup> I gymharu, bu poblogaeth Guipuzkoa yn tyfu 25% a bu poblogaethau Nafarroa ac Araba yn tyfu 2.5% yn ystod ail hanner y 19g: Evans, *Gwlad y Basg*, t. 76.

<sup>564</sup> Gw. Eguiguren, *El Socialismo y la Izquierda Vasca*, am hanes cynnar El PSOE yng Ngwlad y Basg. Gwelodd y blaid dwf sylweddol a chyflym rhwng 1886 a 1910 o dan arweinyddiaeth Facundo Perezagua a Pablo Iglesias. Lansiodd cylchgrawn y mudiad *La Lucha de Clases* (Rhyfel Dosbarth) yn 1894, cylchgrawn a oedd yn wrth-weriniaethol a gwrth-genedlaetholgar oherwydd hiliaeth Sabino Arana. Byddai'r athronydd ac ysgrifennwr enwog o Bilbo, Miguel de Unamuno, yn cyfrannu at y cylchgrawn yn ystod 1890au.

<sup>565</sup> Medhurst, 'Basques and Basque nationalism', t. 241.

Gwelir yr adwaith hwn yn amlwg yng nghylchgronau cenedlaetholgar a *fuera* y 1890au, gyda Sabino Arana, er enghraifft, yn datgan mewn erthygl yn *Bizkaitarra* yn 1895 fod rhyddfrydiaeth (ynghyd ag ‘españolismo’ neu ‘Sbaeniaeth’) yn ‘elyn’ i brif arwyddair ac egwyddorion yr EAJ-PNV, sef ‘Jaun-Goikua eta Lagizarra’ (‘Duw a’r hen Gyfraith’):

Mae hynny yn golygu, yn fy marn i, fod y blaid wleidyddol honno yn defnyddio’r ddwy ffon drom hynny yn erbyn Biscaia: ffon rhyddfrydiaeth, gelyn *Jaun-Goikua* [yr hen gyfraith]; a ffon Sbaeniaeth, gelyn *Lagi-Zar’a* [Duw].<sup>566</sup>

Yn ychwanegol at hynny, ‘ffars a chelwydd llwyr’ oedd ‘rhyddid rhyddfrydiaeth’ meddai Arana mewn erthygl arall, rhyddid a ellid ei grynhoi mewn un frawddeg: ‘rhyfel yn erbyn Crist’.<sup>567</sup> Yn yr un modd, ‘rhyddid Satan’ oedd rhyddfrydiaeth yn ei erthygl ‘Los Valientes’ yn 1895.<sup>568</sup> Yn hynny o beth, dymchwelwyd ‘adeiladwaith mawreddog’ y sefydliadau hunanlywodraethol Basgaid gan ‘sarhad yr oesoedd modern’ yn ôl Pedro Lino Munárriz yn y cylchgrawn *fuera* cymedrol *Euskal-Erria* yn 1896,<sup>569</sup> wrth i olygydd *Euskalduna* ladd ar y ffenomen ddiweddar ‘credyd’ gan ei ddisgrifio fel ‘bwbach modern’ yn yr erthygl ‘La máquina infernal’ yn 1895.<sup>570</sup> Dyma batrwm disgrysiol amlwg, felly, sy’n portreadu nid yn unig unigolion a phobloedd cyfan fel ‘gelynyon’ i’r bobl Fasgaid ond hefyd syniadau, ideolegau gwleidyddol a damcaniaethau economaidd. Roedd prif athroniaeth y 19g, neu ‘gynnydd’ ei hun, yn elyn i’r Basgiaid ym marn rhai cenedlaetholwyr y 1890au yn y pen draw.

Dadleuodd Gwynfor Evans yn *Land of my Fathers* nad oedd gan genedlaetholdeb Cymreig y 1880au a’r 1890au ‘seiliau’ mewn ‘hanesyddiaeth nac athroniaeth ffurfiol’.<sup>571</sup> Yn yr un modd, gellid dadlau na welir tystiolaeth o gynsail cyfreithiol, egwyddorion syniadaethol na rhesymu economaidd wedi’i llunio yn ofalus yn nadleuon cenedlaetholwyr y cyfnod. Yn hytrach, adwaith yn erbyn newidiadau a digwyddiadau gwleidyddol, economaidd a

---

<sup>566</sup> ‘Eso a mi entender, significa que ese partido político maneja contra Bizcaya ya las dos pesadas trancas [esas]: la tranca del liberalismo, enemigo de Jaun-Goikua; y la tranca del españolismo, enemigo de Lagi-Zar’a’: Sabino Arana, ‘Comentarios cazados al vuelo’, *Bizkaitarra*, Año III/Número 31, 28 Gorffennaf 1895, t. 3.

<sup>567</sup> ‘La libertad del liberalismo es pura farsa y mentira y puede sintetizarse en esta fórmula: guerra a Cristo’: wedi’i briodoli i Sabino Arana (*Bizkaitarra*, Año III/Suplemento IV, 21 Gorffennaf 1895), ond wedi’i ddyfynnu yn Egilsot (gol.), *De su alma y de su pluma*, t. 191.

<sup>568</sup> ‘La peregrina libertad del liberalismo es la libertad de Satanás, esto es, la tiranía para lo bueno, para lo que al hombre mismo le concierne. E inmigran, predicando su libertad en país católico, para imponerle su anticatolicismo’: Sabino Arana, ‘Los valientes’, *Bizkaitarra*, Año III/Número 25, 24 Ebrill 1895, t. 3.

<sup>569</sup> ‘Desmoronado por la injuria de las modernas edades el grandioso edificio de las instituciones forales’: Munárriz, ‘Los Bascos: etnografía/carácter’, t. 149.

<sup>570</sup> ‘Ese espantajo moderno llamado crédito’: [dienw], ‘La máquina infernal’, t. 10.

<sup>571</sup> ‘The nationalism of the period lacked either a historical and philosophical basis’: Gwynfor Evans, *Land of my Fathers: 2000 Years of Welsh History* (Talybont: Y Lolfa, 2008), t. 414.



chymdeithasol y cyfnod oedd cenedlaetholdeb Cymreig tua diwedd y ganrif; newidiadau a digwyddiadau y gellir eu crynhoi yn daclus, fel yn achos Gwlad y Basg, gan y gair ‘moderneiddio’.

Esbonia R. Tudur Jones y ffenomen hon yn huawdl yn *The Desire of Nations*, gan ddadlau bod y gymdeithas draddodiadol Gymraeg yn gallu ymdopi â goruchafiaeth ddiwylliannol Lloegr hyd ganol y 19g oherwydd ‘lleoliad ymylol’ (‘peripheral position’) y wladwriaeth Brydeinig a’i hathroniaeth *Whig* o ryddid personol ac anymyrraeth ym mywyd beunyddiol y bobl gyffredin.<sup>572</sup> Dywed Jones: ‘to be Welsh was a voluntary matter, it was a matter of choice’, a gallai iaith, diwylliant ac arferion pob dydd y Cymry ffynnu law yn llaw ag economeg *laissez-faire* a gwleidyddiaeth hyd-fraich y llywodraeth yn Lloegr yn ei farn.<sup>573</sup> Erbyn canol y 19g, sut bynnag, roedd y wladwriaeth Brydeinig wedi tyfu yn sylweddol ac wedi dechrau ymestyn ei dylanwad a’i rheolaeth ar bob agwedd o gymdeithas gan droi’n ‘intrusive, omniscient State’. Dywed Jones:

By [the] mid-nineteenth century, the process of modernization had accelerated. The Industrial Revolution and its attendant social upheavals were affecting Wales in a dramatic way. The demand for a culture suitable for a new age was growing [and] the State itself was ceasing to be a distant and peripheral institution. It, too, was developing into a massive organization that was becoming increasingly fascinated by the possibilities of applying scientific methods to the art of government. The *laissez-faire* State of the Welsh radicals was being transformed unmistakably into the intrusive, omniscient State.<sup>574</sup>

Mae haneswyr megis Jones yn dyddio dechrau’r broses o foderneiddio hon yng Nghymru i 1830 a diddymu’r Sesiwn Fawr, ac wedyn i *Reports of the Commissioners of Enquiry into the State of Education in Wales*, neu ‘Lyfrau Gleision’ 1847.<sup>575</sup> Fel y trafodwyd uchod, yn enw effeithlonrwydd economaidd a chynnydd y genedl yn gyffredinol, bu i llywodraeth Prydain gomisiynu adroddiad ar arferion a threfniadau’r gyfundrefn addysg yng Nghymru, ac ar ôl i’w harolygwyr ddod i gasgliadau anffafriol a dirmygus ynglŷn â safonau deallusol a hyd yn oed safonau moesol y Cymry, aeth y llywodraeth ymlaen i ymyrryd yn uniongyrchol ym materion domestig y wlad.<sup>576</sup> Ynghyd â Deddf Addysg 1870 (a orfodwyd mai yn Saesneg yn unig y dylai addysg elfennol yr ysgolion Bwrdd weithredu yng Nghymru)

---

<sup>572</sup> Jones, *The Desire of Nations*, t. 139.

<sup>573</sup> Jones, *The Desire of Nations*, t. 141.

<sup>574</sup> Jones, *The Desire of Nations*, t. 143.

<sup>575</sup> Ni ddiddymwyd y Sesiwn Fawr yn 1830 heb wrthwynebiad yng Nghymru, meddai Kenneth O. Morgan: ‘[...] amid much local protest’: ‘Welsh nationalism’, 154.

<sup>576</sup> Gw. trafodaeth estynedig ar yr ymateb i ‘Frad y Llyfrau Gleision’ uchod yn ‘Mae gennym grefydd wahanol a phurach’ a ‘A ydym yn well na hwy?’.

gwelwyd y ‘Llyfrau Gleision’ gan genhedlaeth newydd o Gymry fel ymosodiad anghyfiawn a diangen ar seiliau craidd y genedl megis ei hiaith, ei threfn anghydfurfiol a moesau cyffredinol y bobl. Yn ogystal â hynny, byddai ymestyn y rhwydwaith rheilffyrdd i ogledd Cymru yn 1848 a’r mewnlifiad o bobl o Loegr a’i dilynai, codi ‘Achosion Seisnig’ (neu’r ‘Dwymyn Seisnig’ fel y’i galwyd ef gan Emrys ap Iwan) ym mhentrefi Cymraeg, a sefydlu adloniannau ‘Prydeinig’ fel *music halls* a rasys helgwn, yn halen ar y briw i lawer o Gymry yn y 1850au a’r 1860au.<sup>577</sup> Ar ben hynny, ers i *On the Origin of Species* Charles Darwin, *On Liberty* John Stuart Mill, a *Self-help* Samuel Smiles gael eu cyhoeddi yn 1859, roedd cymdeithas Brydeinig, a chymdeithas Gymreig i raddau cynyddol, wedi dechrau ymddiddori fwyfwy yn y cysyniad o ‘gynnydd’ a gwleidyddiaeth faterolaidd ac iwtilitaraidd yn gyffredinol.<sup>578</sup> Ni synnir, efallai, fod llechfeddiant moderniaeth trwy Gymru gyfan yn ystod ail hanner y 19g yn troi gwladgarwch parchus cenedlaeth Thomas Price Carnhuanawc yn genedlaetholdeb gwleidyddol Michael D. Jones, R. J. Derfel ac Emrys ap Iwan.<sup>579</sup> Dyma farn J. Arthur Price, cenedlaetholwr Cymreig, Catholig, ac aelod blaengar o Gymru Fydd yn y 1890au, ar dwf grym y llywodraeth ganolog a’r ateb a gynigiai cenedlaetholdeb yn ôl yr hanesydd Frances Knight:

Price was a sharp critic of what he saw as the unchecked rise of state power, something he associated with Protestantism. It had come into being in England when Henry VIII broke with Rome, he contended [...] Now it was resurgent everywhere under the influence of Hegel, and the assertion of the rights of nationalities against the despotism of states offered, he believed, one of the few effective checks to safeguard the future.<sup>580</sup>

I haneswyr eraill megis Kenneth O. Morgan, hwyluso twf a datblygiad cenedlaetholdeb Cymreig a wnaeth diwydiannaeth, nid ei rhwystro:

In many ways it was the growth of towns, and the new bourgeoisie that they produced, that made modern Welsh nationalism possible. If there was one outstanding cradle of the Welsh national revival, it can be found not in the agrarian hinterland, so

<sup>577</sup> Gw. ‘Y Dwymyn Seisnig yng Nghymru’ gan Emrys ap Iwan (yn ysgrifennu o dan y ffugenw ‘Lucas Abernethy, M. D. Fellow of the Royal Kill or Cure Society. Member of the Anti Fuss and Toppery League. President of the N. W. Anti-Saxonization Club’), *Baner ac Amserau Cymru*, 27 Rhagfyr 1876, t. 5.

<sup>578</sup> Gw. Gwilym A. Jones, ‘Teithi meddwl Emrys ap Iwan’, yn *Tair Darlith Goffa - Cymdeithas Emrys ap Iwan* (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1991), t. 48. Cyhoeddwyd *Self-Help* gan Samuel Smiles yn 1859 ac fe’i gyfieithwyd i’r Gymraeg fel *Hunan-Gymorth* yn 1889.

<sup>579</sup> ‘Brad Y Llyfrau Gleision yw crud y mudiadau Cymreig yn ail hanner y ganrif ddiwethaf: Brad Y Llyfrau Gleision a dylanwad y mudiad cenedlaethol yn Hwngari, yr Eidal ac Iwerddon yw crud y mudiad cenedlaethol yn yr un cyfnod. Y Brad a Kossuth a droes Fichael D. Jones ac R. J. Derfel yn genedlaetholwyr: hwynt-hwy oedd y ddau genedlaetholwyr cyntaf’: Jones, ‘Michael D. Jones’, t. 11.

<sup>580</sup> Frances Knight, ‘Welsh nationalism and Anglo-Catholicism: the politics and religion of J. Arthur Price (1861-1942)’, yn Robert Pope (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001), t. 109.

beloved by many apostles of ‘peasant culture’, but amid the blast furnaces and winding-shafts of the working-class metropolis of Merthyr Tydfil.<sup>581</sup>

Yn hynny o beth, agwedd arall o foderniaeth, sef diwygio etholiadol ac estyn yr etholfraint yn 1867 a 1884, oedd y sbardun pwysicaf i’r mudiad cenedlaethol Cymreig gan ganiatáu am y tro cyntaf i fwyafrif anghydfurfiol y wlad gymryd rhan yn y broses wleidyddol.<sup>582</sup> Yn ogystal â hynny, meddai Morgan, fe fu Deddf Llywodraeth Leol 1888 yn caniatáu i Gymry Cymraeg dosbarth canol gipio grym gwleidyddol y siroedd a bwrdeistrefi oddi wrth y bonedd Torïaidd a Seisnig am y tro cyntaf erioed, i’r graddau nes nad ‘dinasyddion eilradd’ mewn unrhyw ystyr dilys oedd y mwyafrif anghydfurfiol bellach:

The Local Government Act of 1888 brought about a social revolution, when nonconformist-dominated county councils were elected to supplant those Tory and Whig squires who had ruled the countryside for centuries past as justices of the peace. The Welsh gentry, whose ‘rise’ many historians have lovingly chronicled, was now visibly in decline, if not in decay. The nonconformist majority was no longer in any real sense a second-class citizenry. It was the heir of the new Wales it had largely created.<sup>583</sup>

Gan wrthod moderniaeth a rhyddfrydiaeth yn llwyr oherwydd ei genedlaetholdeb, dywedodd Sabino Arana hyn yn 1894: ‘ni ellir bod yn rhyddfrydwr a *fuerista* ar yr un pryd, achos mae egwyddorion ein *fueros* ac egwyddorion rhyddfrydiaeth yn gwbl groes i’w gilydd ac yn gwbl anghydawns’.<sup>584</sup> Bu David Lloyd George, ar y llaw arall, yn honni flwyddyn yn ddiweddarach yn ei maniffesto etholiadol fod bod yn genedlaetholwr yn gyfystyr â bod yn rhyddfrydwr:

Nis gellir dyrchafu gwlad ond trwy ei gwerin – a dyna’r paham yr wyf yn Rhyddfrydwr. O carwn ein gwlad, carwn yn bennaf ei gweled yn rhydd! Rhydd oddi wrth orthrwm y bendefigaeth, oddi wrth ddeddfau anghyfiawn, oddi wrth anwybodaeth, oddi wrth feddwod ac anfoes, oddi wrth bob gormes sydd yn ein cadwyno. Mewn gair, yr wyf yn Genedlaetholwr am fy mod yn Rhyddfrydwr, ac yn Rhyddfrydwr am fy mod yn Genedlaetholwr.<sup>585</sup>

Tebyg yw, felly, fod y gelyn haniaethol moderniaeth, a’i phrif athroniaeth wleidyddol, rhyddfrydiaeth, yn elynion marwol ym marn rhai yng Nghymru a Gwlad y Basg megis Sabino Arana a J. Arthur Price, tra mai cymrodyr annwyl oeddent yn ôl cenedlaetholwyr

<sup>581</sup> Morgan, ‘Welsh nationalism’, 156.

<sup>582</sup> Morgan, ‘Welsh nationalism’, 158.

<sup>583</sup> Morgan, ‘Welsh nationalism’, 160.

<sup>584</sup> ‘No se puede ser a un tiempo liberal y fuerista, porque los principios de nuestro Fuero y los del liberalismo son diametralmente antitéticos y absolutamente incompatibles’: Sabino Arana, *Bizkaitarra* 15 (1894). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 80.

<sup>585</sup> David Lloyd George, Maniffesto Etholiad Cyffredinol 1895. Dyfynnir yn Jones, *Hen Lyfr Bach: Lloyd George*, tt. 17-18.

eraill megis David Lloyd George. Yn y berthynas aneglur rhwng moderniaeth, rhyddfrydiaeth a chenedlaetholdeb, ceir un o densiynau syniadaethol a rethregol mwyaf cymhleth y cyfnod yn nisgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig a Basgaidd. Yn wir, ym marn Simon Brooks, dyma densiwn a fyddai'n arwain at fethiant y mudiad cenedlaethol Cymreig maes o law:

Roedd lle canolog Rhyddfrydiaeth fel ideoleg yng ngwledydd Prydain yn gyffredinol, ac ymhlith y Cymry yn benodol, yn ystod ail hanner y ganrif yn greiddiol i'r methiant hwn [sc. methiant cenedlaetholdeb Cymreig]. Anghywir yw tybio, fel y gwneir yn gyffredinol, fod cynnydd gwleidyddol y Gymru Ryddfrydol Anghydfurfiol Gymraeg ynghlwm rywsut wrth dwf mewn cenedlaetholdeb. Mewn gwirionedd, bu dylanwad Rhyddfrydiaeth fel athrawiaeth wleidyddol yn rhwystr i dwf ymwybyddiaeth genedlaethol.<sup>586</sup>

Er cydnabod bod haneswyr eraill megis Ifan Morgan Jones yn dadlau i'r gwrthwyneb, gan gynnig ffactorau pwysig amgen am fethiant cenedlaetholdeb Cymreig yn y 19g, teg yw dadlau (yn ein barn ni) fod cysoni polisïau o waredu gwahaniaethau diwylliannau er lles cyfoeth economaidd y genedl â pholisïau o ddiogelu'r union wahaniaethau er lles cyfoeth ysbrydol y genedl yn orchwyl heriol iawn yng nghyd-destun rhyddfrydiaeth ac iwtilitariaeth y 19eg.<sup>587</sup> O leiaf, nid oedd cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd y 1890au yn cytuno y gellid cyflawni hynny ar y pryd.

## **Mae gennym gefndryd a chymrodyr**

Gellid yn hawdd ddod i'r casgliad, o'r hyn y cyflwynwyd hyd yma, fod pawb a phopeth yn elyn i genedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd yn ystod y 1890au. Yn yr un modd, gellid damcaniaethu mai dim ond cerydd, gwrthdaro a chas a nodwedddai eu perthynas â phobloedd eraill. Ond nid yw'r datganiadau a amlinellwyd uchod yn cynrychioli cyfanswm y paradeim disgyrsiol. Roedd gan y Cymry a'r Basgiaid gyfeillion a chynghreiriaid hefyd, rhai amlwg a rhai, efallai, llai disgwylidig. Trown yn yr adran hon i ystyried datganiadau am rai o gymrodyr y Cymry a'r Basgiaid, ynghyd â'r swyddogaeth sydd ganddynt yn y paradeim disgyrsiol ehangach.

O'r braidd y gellid ystyried y berthynas rhwng y Cymry a'r Gwyddelod yn arbennig o gyfeillgar dros ddwy fil o flynyddoedd cyntaf eu hanes yn gymdogion ar ynysoedd Britannia

<sup>586</sup> Brooks, *Pam na fu Cymru*, t. 1.

<sup>587</sup> Trafodir thesis Ifan Morgan Jones yn nes ymlaen yn yr adran 'Rhaid i ni'n llywodraethu ein hunain'.

a Hibernia. Ymosodiadau, rhyfeloedd a chenfigen a nodweddai berthynas y ddwy bobl yn ystod yr Oesoedd Tywyll os credir hen chwedlau'r Mabinogi. Mae tystiolaeth helaeth o ymsefydlu gan Wyddelod yn Nyfed a gorllewin Gwynedd yn y cyfnod cynnar wrth gwrs, a gwyddys y cafodd llenyddiaeth Gymraeg ei dylanwadu yn gryf gan lenyddiaeth Wyddeleg yr Oesoedd Canol.<sup>588</sup> Er bod Gruffudd ap Cynan yn pontio bywydau gwleidyddol y ddwy wlad yn ystod yr 11g, sut bynnag, rhewi ac nid cynhesu a fu cysylltiadau ar ôl goresgyniad Iwerddon gan yr Eingl-Normaniaid yn 1169 ym marn Seán Duffy.<sup>589</sup> Yn ychwanegol at hynny, ac wrth i'r Cymry gefnu ar eu hen ffydd Gatholigaidd a dechrau mabwysiadu Protestaniaeth a Phiwritaniaeth o'r 16g ymlaen, rhagfarn grefyddol a drwgdybiaeth yn gyffredinol a nodweddai eu hagweddau tuag at y Gwyddelod erbyn yr Oes Fictoriaidd. Cymhleth fu'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon dros y canrifoedd.

Serch hynny, ac er na chafodd mudiad *Repeal* Daniel O'Connell lawer o ddylanwad yng Nghymru yn ystod y 1830au a 1840au oherwydd rhagfarnau gwrthbabyddol, byddai mudiad *Home Rule* Isaac Butt, William Shaw, Michael Davitt a Charles Stewart Parnell yn dechrau dylanwadu ar genhedlaeth newydd o genedlaetholwyr Cymreig megis Emrys ap Iwan tua diwedd y 19g.<sup>590</sup> Yn wir, byddai'r bardd Thomas Gwynn Jones – o dan ddylanwad erthyglau Emrys ap Iwan yn y wasg – yn cysegru un o'i gerddi cyhoeddiedig cynharaf, 'The Irish Coercion Act', i gefnogi cenedlaetholwyr Gwyddelig, a hynny pan oedd yn 17 oed yn 1888.<sup>591</sup> Roedd hen ragfarnau crefyddol yn dechrau ildio wrth i'r 'teimlad cenedlaethol' dyfu yng Nghymru yn y 1880au felly, a'r Gwyddelod yn troi yn rhyw fath o esiampl i'w dilyn. Dylid cofio hefyd, sut bynnag, mai Protestaniaid oedd Parnell a Thomas Davis, llenor chwyldroadol a phrif drefnydd y mudiad *Young Ireland*.<sup>592</sup> Roedd yn haws o lawer i'r Cymry ddilyn esiampl y mudiad cenedlaethol Gwyddelig ar ôl i aelodau blaengar yr Oruchafiaeth Brotestannaidd gymryd yr awenau.

---

<sup>588</sup> Gw. Patrick Sims-Williams, *Irish Influence on Medieval Welsh Literature* (Oxford: Oxford University Press, 2011).

<sup>589</sup> Gw. Seán Duffy, 'The 1169 invasion as a turning-point in Irish-Welsh relations', yn Brendan Smith (gol.), *Britain and Ireland, 900-1300: Insular Responses to Medieval European Change* (Cambridge; New York: Cambridge University Press, 1999), tt. 98-114.

<sup>590</sup> 'There was some sympathy with O'Connell's campaign in Ireland on liberal grounds, but there was little general identification with the Irish nation in this period, partly because of the Irish devotion to the Roman Church and partly because the Welsh disapproved of the way of life of the Irish immigrants they knew': Marian Henry-Jones, 'Wales and Hungary', *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Session 1968, Part I (London, 1969), 9. Ysgrifennodd Emrys ap Iwan doreth o erthyglau o blaid Parnell a Michael Davitt a *Home Rule* i Iwerddon yn gyffredinol yn y 1880au a 1890au. Gw. traethawd MA gan Philip R. Davies, 'The ideas of Emrys ap Iwan' (Prifysgol Bangor, 2013), am fanylion pob erthygl (tt. 79-83).

<sup>591</sup> Jenkins, *Thomas Gwynn Jones*, t. 52.

<sup>592</sup> Jones, 'Michael D. Jones', t. 13.

Fel y gwelwyd yn gynharach yn y bennod hon, ysgrifennodd Emrys ap Iwan ei erthygl ddychanol enwog, ‘Bully, Taffy a Paddy’, yn 1880, ac er ei fod yn cyflwyno cymeriad o Wyddel yn llawn ystrydebau’r cyfnod, sef Gwyddel sy’n ‘go ddiog’, sy’n bwyta tatws, sy’n ‘droednoeth’, ac yn dueddol o wneud ‘pethau terfysglyd iawn’, mae’n amlwg bod Emrys yn wir edmygu ‘Paddy’ wrth ei gymharu â’i gymeriad o Gymro gwasaid, taeogaidd a diberfedd, Taffy.<sup>593</sup> Ym mharagraffau agoriadol yr erthygl, gwelwn mai ‘dyn gwlatgar ac annibynnol ei ysbryd’ yw Paddy, sy’n dal i gredu mai ef yw ‘union berchen’ Iwerddon, er yr ‘ysbeiliwyd’ ef gan yr Eingl-Normaniaid ganrifoedd yn ôl.<sup>594</sup> Ni ‘ddychrywir’ Paddy gan ‘eiriau Disraelaidd’, dywed Emrys, ac ni chred fod ‘rhediad amser yn troi eiddo lladrad yn eiddo cyfreithlon’ chwaith, rhywbeth yr oedd y Cymry wedi ei hen dderbyn ers talwm, mae’n debyg.<sup>595</sup>

Mae Emrys yn mynd ymlaen yn yr erthygl hon i gyflwyno ymddiddan rhwng Mr Bully, meistr Seisnig stad ffuglennol Anglestay, a Paddy a Taffy ei weision. Yn hanfodol bwysig i’n dibenion presennol, yng ngeiriau Paddy ac nid yng ngeiriau Taffy gwelwn amddiffyniad ffyrnig, digyfaddawd a huawdl o hawliau gwledydd bychain i reoli eu materion eu hunain:

Nid wyf mwyach yn erfyn arnoch fy llywodraethu yn decach; ond yr wyf am ofyn ichwi eich llywodraethu eich hunan, a gadael i minnau fy llywodraethu fy hunan, fel y mynnwyf fy hun. Nid wyf mwyach am erfyn arnoch leihau’r rhent gorfawr sydd ar yr hen gors ddiffaeth a osodasoch im; oblegid nid wyf yn barnu ei bod yn iawn i mi dalu dim rhent i *chwi* am ddernyn o’r hen etifeddiaeth, gan mai myfi a’i piau i gyd oll. Nid wyf chwaith am erfyn arnoch leihau’r lliaws trethi eraill – gofyn am eu dileu yr wyf i; canys paham, yn enw cyfiawnder, y dylwn i fy ngwasgu fy hun, yn y radd leiaf, er mwyn porthi eich moethau a’ch mympwyon annuwiol chwi? Dyma fy arwyddeiriau i :- *Let everyone mind his business*. Caffed pob dyn ei eiddo ei hyn. Erin i Paddy, a Gwalia i Taffy.<sup>596</sup>

Hefyd yng ngeiriau Paddy, gwelwn y dirmyg y mae Emrys yn ei deimlo tuag at ei gyd-Gymry a’r gwaseidd-dra y dangosasant er lladd Llywelyn ap Gruffudd yn 1282: ‘Och fi, Taffi, y mae’n chwith gennyf dy weled mor wasaid. Mor wahanol wyt yn awr i’r hyn oeddit cyn llarpio o Mr. Bully dy fab, Llywelyn!’<sup>597</sup> A thrwy eiriau Paddy, ac nid Taffy, mae Emrys yn ymosod ar y cydsyniad a drafodwyd uchod, y ‘Predominant Partner’, sef y ddatl bod y Gwyddelod a’r Cymry yn rhy dlawd, yn rhy wan, ac yn rhy dwp i’w rheoli eu hunain, a bod

<sup>593</sup> Emrys ap Iwan, ‘Bully, Taffy a Paddy’, tt. 1-13.

<sup>594</sup> Emrys ap Iwan, ‘Bully, Taffy a Paddy’, t. 3.

<sup>595</sup> Emrys ap Iwan, ‘Bully, Taffy a Paddy’, t. 3.

<sup>596</sup> Emrys ap Iwan, ‘Bully, Taffy a Paddy’, t. 5.

<sup>597</sup> Emrys ap Iwan, ‘Bully, Taffy a Paddy’, t. 9.

angen arweinyddiaeth a chyfarwyddiadau'r Saeson galluog arnynt i '[...] wneud trefn ar bethau':

Eich bai chwi ydyw ein bod yn weision. Amdanaf i, nid wyf yn disgwyl, a mhinna wedi bod cyhyd yn was, fedru gwneud trefn ar bethau mewn un dydd. Ond nid ydyw ddim i chwi pa un ai buan ai araf y dysg y gwas waith meistr. Hyn a wn – y byddai'n well gan fy nheulu, o'r ddau, gael eu llywodraethu'n wael gennyf i na chael eu llywodraethu'n dda gan estron.<sup>598</sup>

Mae Paddy hefyd yn beirniadu rhagrith a hwylustod gwleidyddol y Saeson wrth iddynt amddiffyn hawliau rhyddid pobloedd gorthrymedig eraill y byd (o fewn maes dylanwad eu gelynyon rhyngwladol) tra eu bod yn gwrthod a bychanu galwadau cyfredol y Gwyddelod am yr un hawliau:

Yr ydych yn pleidio rhyddid ar bob ystâd oddieithr eich ystâd eich hun. Os bydd gwas rhyw feistr arall yn deisyfu bod yn w'r rhydd, yr ydych yn galw ei ddeisyfiadau yn "ddyheadau naturiol a chyfiawn", ond "gorflysiau ynfyd ac afiachus" y gelwch fy neisyfiadau i. Os cyfyd gwas gorthrymedig yn erbyn gorthrymwr pell, chwi a'i gelwch yn *noble patriot*, ond "bradwr atgas" y'm gelwir i am arfer hyd yn oed fy nhafod yn eich erbyn chwi.<sup>599</sup>

At hynny, yng ngalarnad Paddy i Robert Emmet (arweinydd Gwrthryfel Gwyddelig 1803), mae Emrys yn mynegi'r parch ac edmygedd eithaf bosibl i 'elyn' y wladwriaeth Brydeinig, edmygedd na ellid ei ddisgwyl o enau Cymro genhedlaeth ynghynt:

O! Emmet, fy mab, fy mab! Pa fodd y'th anghofiaf, Emmet? O'r holl feibion a fegais ac a gollais ni bu nebun mor gu gennyf â thydi. Ni bu erioed wrthryfelwr mwy aflwyddiannus na thydi, ond erys cylch o oleuni disgleiriach ar dy aflwyddiant di nag ar lwyddiant eraill. Ni bu i'r gorthrymedig eriod amddiffynnydd mwy dihunangar, mwy hawddgar, a mwy huawdl. Ond dy garcharu a'th grogi a wnaeth yr Herod hwn, a thorri dy ben ar ôl hynny. Fe'th fagwyd yn rhy dyner i orwedd mewn daeard; yr oedd dy waed yn rhy bur i'w leipio gan y cŵn. Cywilydd oedd anurddo corff mor hardd; gresyn oedd torri ymaith fywyd mor ieuanc. Merthyr, ac nid bradwr, y'th elwir ymhobman oddieithr yn Anglestay. Am hynny, cwsg mewn heddwch, Emmet, fy mab.<sup>600</sup>

Yn olaf, ac yn drawiadol, mae Paddy yn awgrymu y gallai'r Cymry a'r Gwyddelod ddod at ei gilydd i ymladd yn erbyn y Saeson:

Oni buasai fy mod yn gwanobeithio y bydd yn dda gennyf cyn hir gael cydymdrech â mi o blaid iawnder yn erbyn cryfder, buaswn yn poeri ar dy wyneb o wir ddirmyg. Ond annoeth fyddai im wneuthur â thi yn ôl dy haeddiant a minnau'n awyddus i'th

<sup>598</sup> Emrys ap Iwan, 'Bully, Taffy a Paddy', tt. 10-11

<sup>599</sup> Emrys ap Iwan, 'Bully, Taffy a Paddy', t. 12.

<sup>600</sup> Emrys ap Iwan, 'Bully, Taffy a Paddy', tt. 12-13.

gael yn gyfaill ac yn gydweithiwr. Pwy a wŷr na chei di a'th deulu olau newydd, a blas newydd ar y llinellau hynny na faidd ond meibion gŵyr eu canu:- "Gwell ymladd hyd at waed na bod yn gaethion, Gwell marw'n ddewr na byw'n wehilion."<sup>601</sup>

Gwelir, felly, yn 'Bully, Taffy a Paddy' o 1880 fod cenedlaetholwr o Gymro megis Emrys ap Iwan yn dechrau portreadu'r Gwyddel, yn groes i'r arfer blaenorol, fel gwrthryfelwr urddasol, fel rhyw fath o ysbrydoliaeth, ac fel rhyw fath o batrwm i'w ddilyn. Mae'n priodoli agweddau a syniadau nobl, annibynnol a digyfaddawd y dylai'r Cymry eu mabwysiadu, ac mae'n awgrymu y gallai cynghrair y ddwy genedl ymladd 'o blaid iawnder [ac] yn erbyn cryfder'.

Dywedir y dylanwadwyd yn fawr ar Thomas E. Ellis gan araith cenedlaetholwr Gwyddelig mewn dadl yn yr Oxford Union pan fu'n fyfyrwr yno yn yr 1880au cynnar.<sup>602</sup> Boed hynny fel y bo, byddai diddordeb cenedlaetholwyr Cymreig mewn cenedlaetholdeb Gwyddelig yn tyfu yn y 1880au i'r graddau nes y daeth Michael Davitt, arweinydd yr *Irish National Land League*, i annerch cynulleidfaoedd yn y Fflint, Blaenau Ffestiniog a Llandudno yn 1885, a hynny ar wahoddiad ac ar gost y cenedlaetholwyr E. Pan Jones a Michael D. Jones.<sup>603</sup> Yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn, pan gosbodd yr Arglwydd Penrhyn ddau chwarelwr am botsio pysgod o afon Ogwen, ac ar ôl i 2000 o chwarelwr arwyddo deiseb mewn protest, ysgrifennodd E. Pan Jones hyn yn *Y Celt*: 'Dylai *my lord* ddiolch nad yn Iwerddon y mae yn byw. Mae y Gwyddelod, chwarae teg iddynt, yn medru penderfynu pynciau fel hyn gyda llawer o rwyddineb'.<sup>604</sup> Gwell gan Pan Jones foddion 'rhwydd' y Gwyddelod na foddion cwrtais y Cymry i ddatrys problemau gwleidyddol, mae'n debyg, wrth inni weld awgrymiadau petrus o ddisgwrs gwrthryfelgar a chwyldroadol Iwerddon dreiddio i ddisgwrs trefedigaethol a pharchus Cymru.

Erbyn 1895, a'r erthygl 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', roedd Emrys ap Iwan wedi dychwelyd i'r syniad o ffurfio 'Cynghrair Celtig' gyda'r Gwyddelod ac Albanwyr yr Ucheldiroedd i ymladd dros yr 'hawl ddwyfol i'w llywodraethu eu hunain fel y gwelont hwy yn dda':

Pa beth gan hynny a wnânt er mwyn dwyn barn i fuddugoliaeth? Ymuno â'i gilydd yng Nghymru, Iwerddon, ac Ucheldiroedd yr Alban, i ffurfio Cynghrair Celtig, a chytuno i ymladd yn y modd mwyaf Parnelaidd am yr un a'r unrhyw beth, a hwnnw

<sup>601</sup> Emrys ap Iwan, 'Bully, Taffy a Paddy', tt. 9-10.

<sup>602</sup> Jones, *Thomas Edward Ellis*, t. 19.

<sup>603</sup> Jones, 'Cwmni'r *Celt* a dyfodol Cymru', t. 122. Byddai Davitt yn dychwelyd yn 1898. Gw. Morgan, 'Welsh nationalism', 163.

<sup>604</sup> Jones, 'Cwmni'r *Celt* a dyfodol Cymru', t. 113.



yn gyfryw beth ag a gynhyrfo wladgarwch y cenedloedd darostyngedig hyd y gwaelodion. A pha beth amgen a all hynny fod na'r hawl ddwyfol i'w llywodraethu eu hunain fel y gwelont hwy yn dda?<sup>605</sup>

Yn hollbwysig yn yr erthygl hon, mae Emrys yn cydnabod bod y tair cenedl Geltaidd yn wannach na'r 'Teutoniaid' ar eu pennau eu hunain, ond yn 'ddigon cryfion i orchfygu' petaent yn gweithio gyda'i gilydd:

Gan fod y Teutoniaid wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn y Celtiaid, cyhoeddedd y Celtiaid ryfel yn eu herbyn hwythau; ac er ein bod yn wannach o lawer na'r Saeson, yr ydym ynghyd yn ddigon cryfion i orchfygu.<sup>606</sup>

Dyma awgrym felly, mai ar sail hunaniaeth hiliol Geltaidd gyffredin, ymwybyddiaeth o fod yn gyd-ddioddefwyr y Saeson, a chymhellion ymarferol a phragmataidd, ac nid ar sail agosrwydd diwylliannol, cymdeithasol neu grefyddol at y Saeson yn y presennol, y mae'r cyfeillgarwch a chynghreiriau gwleidyddol yn cael eu hadeiladu yn nisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol y Cymry.

Diddorol yw nodi bod E. Pan Jones, Keinion Thomas a Michael D. Jones wedi cwrdd ag Aelodau Seneddol a chynrychiolwyr yr Ucheldirwyr Albanaidd yn Bonar Bridge yn yr Alban gyda'r syniad y gallai ASau Cymru, ASau Iwerddon ac ASau Ucheldiroedd yr Alban gefnogi ei gilydd yn San Steffan ar y Mesur Tir i'r crofftwyr, datgysylltu Eglwys Loegr yng Nghymru a hunanlywodraeth i Iwerddon. Yn ôl D. Gwenallt Jones, methodd y Gwyddelod fynychu'r cyfarfod oherwydd amheuon ynglŷn â datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru, a methodd y gynghrair Geltaidd dybiedig hon godi oddi wrth ei draed.<sup>607</sup> 'Holl-Geltegwyr brwdfrydig' oedd E. Pan Jones, Keinion Thomas a Michael D. Jones yn ôl Peter Beresford Ellis, ac yn ei herthygl ar fywyd yr awdures a chenedlaetholwraig gynnar, Mallt Williams (1867-1950), mae Marion Löffler yn disgrifio'r cylch bach o genedlaetholwyr rhamantaidd ecsentrig a fodolai yng Nghymru ar ddiwedd y 19g a sut roedd rhai o'i ymlynwyr yn mabwysiadu syniadau holl-Geltegaidd ehangach.<sup>608</sup>

Gwelir yn yr enghreifftiau uchod, felly, un pegwn o'r fframwaith ddisgyrsiol ein testunau; mae'r Gwyddelod a'r Albanwyr yn gyd-Geltiaid, yn gyd-ddioddefwyr ac, o bosib, yn gyd-ryfelwyr y Cymry yn y dyfodol. Ond nid oedd pob awdur yn cytuno â'r datganiadau

---

<sup>605</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 34.

<sup>606</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 34.

<sup>607</sup> Jones, 'Michael D. Jones', t. 24.

<sup>608</sup> Peter Beresford Ellis, *Celtic Dawn: The Dream of Celtic Unity* (Talybont: Y Lolfa, 1993), t. 84. Löffler, 'A romantic nationalist', 58-66.

hyn ac roedd honiadau amgen am gefndryd Celtaidd y Cymry yn llifo trwy'r disgwrs. Er bod cenedlaetholdeb Cymreig a chenedlaetholdeb Gwyddelig o'r un fath 'mewn egwyddor', dywedodd J. H. Davies yn *Young Wales* yn 1895, er enghraifft, ni rannent, mewn gwirionedd, yr un amcanion na'r un anawsterau:

Welsh nationalism, however, though the same in principle as Irish nationalism, has not the same objects in view, and its advocates have not to contend with the same difficulties. In Wales the parson and the squire have practically been disestablished, and the Welsh people themselves have the upper hand in all local matters. In Wales the Welsh language is spoken and understood everywhere. There is no Ulster in Wales. There is none of that intense bitterness against English ways and methods in Wales, which is so characteristic of Ireland, and this makes it possible to adopt all that is good and very much that is bad in English customs and institutions.<sup>609</sup>

Hollbwysig yn y darn hwn yw'r ffaith nad yw'r awdur yn gweld yr un 'chwerwder dwys yn erbyn ffyrdd a dulliau Seisnig' yng Nghymru ag y gwelir yn Iwerddon. Hynny yw, ni wêl yr un radd o gasineb tuag at y 'gelyn mawr', ac o ganlyniad mae'r awdur yn gallu rhagweld llwybr gwleidyddol gwahanol i'r Cymry i'r un y mae'r Gwyddelod yn ei ddilyn: dyma lwybr a allai arwain at setliad nes at 'arferion a sefydliadau Seisnig'. Dyma ddau awdur cenedlaetholgar sy'n derbyn ac yn ailadrodd rhannau penodol o'r paradeim disgyrsiol (mae cenedlaetholdeb Cymru ac Iwerddon yn debyg), ond dau awdur sy'n gwahaniaethu wrth ystyried gradd y tebygrwydd a'r goblygiadau gwleidyddol a ddilyn. Dyma gynghreiriaid a chyd-wrthryfelwyr y dyfodol i rai felly, a chefnodyd pell y dylen ni fod yn wylidwrs ohonynt yn ôl rhai eraill.

Mae José María Lorenzo Espinosa wedi dadlau na chafodd cenedlaetholdeb Iwerddon fawr o ddylanwad ar Wlad y Basg cyn yr 20g a Gwrthryfel y Pasg 1916 yn benodol.<sup>610</sup> Mae Ander Delgado, sut bynnag, wedi trafod yn fanwl ddylanwad cenedlaetholdeb Gwyddelig ar y mudiad *fuerrista*, gan gyfeirio at waith El Marqués de Casa Torre o 1881, *Cartas Irlandesas y Húngaras*, fel enghraifft gynnar o syniadau cenedlaetholgar Daniel O'Connell a'r Hwngariad Ferenc Deák yn dylanwadu ar syniadau Basgaid.<sup>611</sup> Ym marn Delgado, roedd mwy a mwy o edrych tuag at y 'drych Gwyddelig' gan wleidyddion ac ysgrifenyddwyr *fuerrista* o

---

<sup>609</sup> Davies, 'Wales and the English', t. 159.

<sup>610</sup> 'Prin yw'r dylanwad Iwerddon ar genedlaetholdeb Basgaid cyn 1916, ond ar ôl Gwrthryfel y Pasg, cymerai le breintiedig a byddai'r model Gwyddelig yn cael ei chwedloni' ('Con anterioridad a 1916, la influencia irlandesa en el nacionalismo vasco es mínima, pero tras la insurrección de Pascua, Irlanda ocupará un lugar de preferencia, habiendo una mistificación del modelo irlandés'): José María Lorenzo Espinosa, 'Influencia del nacionalismo irlandés en el nacionalismo vasco 1916-1936', XI Congreso de Estudios Vascos: Donostia 1991, *Nuevas Formulaciones Culturales: Euskal Herria y Europa* (Donostia: Eusko Ikaskuntza, 1992), Crynodeb.

<sup>611</sup> Delgado, 'El fuerismo', 296.

1876 ymlaen, a byddent yn dilyn hynt a helyntion ‘Cwestiwn Iwerddon’ yn y wasg ar ôl hynny er mwyn ‘dwyn enghreifftiau a gwersi a’u cymhwysu at eu brwydr wleidyddol hwy’.<sup>612</sup>

Gwelir, er enghraifft, mewn erthygl o’r enw ‘Irlanda (lo que debemos imitar)’ (‘Iwerddon – yr hyn y dylen ni ddynwared’) o’r cylchgrawn *fueraista*, *La Unión Vasco-Navarra*, o 1893 mai pobl nad ydynt byth yn ‘ildio’ a phobl sy’n ‘brwydro a gwrthsefyll’ y gelyntion sy’n dymuno eu ‘difodi’ yw’r Gwyddelod yn ôl yr awdur.<sup>613</sup> Yn yr un ffordd, mae eu ‘buddugoliaeth derfynol’ yn ‘anochel’ ac ni fydd eu ‘gobeithion dilys’ yn cael eu ‘llesteirio’ oherwydd ‘cyfiawnder eu hachos’, ‘egni eu hymdrechion’, a ‘newid ffafriol ym marn y cyhoedd’. Nid oes gan lywodraeth Prydain ddewis arall ond ‘ildio *home rule*’ i’r Gwyddelod yn y pen draw, dywed yr awdur. Fel y gwelwyd uchod yn achos Emrys ap Iwan yng Nghymru, dyma ddatganiadau sy’n cyflwyno’r Gwyddelod fel gwrthryfelwyr urddasol a chanddynt achos cyfiawn, a gwrthryfelwyr llawn egni ac ystyfnigrwydd sydd wedi llwyddo i ymfyddino cyhoedd Iwerddon y tu ôl i’r faner genedlaethol: hynny yw, popeth nad oedd cenedlaetholwyr Basgaidd a Chymreig wedi llwyddo i’w wneud eu hunain hyd at yr amser hwnnw. Dyma ‘frawd mawr’, fel petai, o fewn y teulu o genhedloedd Ewropeaidd bychain a oedd yn brwydro dros eu hannibyniaeth ar y pryd.

Er nad oedd gan Sabino Arana ddiddordeb mawr mewn materion y tu allan i Wlad y Basg a gwleidyddiaeth ryngwladol yn gyffredinol, erbyn 1895 byddai arweinydd y cenedlaetholwyr Basgaidd yn ysgrifennu am genedlaetholdeb Gwyddelig o bryd i’w gilydd yn nhudalennau ei brif gylchgrawn, *Bizkaitarra*.<sup>614</sup> Dyma Arana yn ‘Los nacionalistas de Irlanda’ (‘Cenedlaetholwyr Iwerddon’) o 1895, er enghraifft, yn sylwi ar weithgareddau diweddaraf Timothy Healy (prif feirniad a gwrthwynebydd Charles Stewart Parnell am arweinyddiaeth yr Irish Parliamentary Party). Honna Arana fod cyn-arweinwyr Protestannaidd y grŵp seneddol (megis Parnell) a Saeryddiaeth Rydd yn gyffredinol (neu ‘barasit Iwerddon’) wedi tanseilio cenedlaetholdeb Gwyddelig a’i rwystro rhag esgor ar blaid lwyddiannus, sef plaid hollol Gatholigaidd ei naws a’i gwleidyddiaeth ym marn Arana:

---

<sup>612</sup> Delgado, ‘El fuerismo’, 297.

<sup>613</sup> ‘Y como un pueblo que no se deja vencer, que lucha y resiste contra los enemigos que le quieren aniquilar, ó las causas que le podrían destruir, tiene asegurada la final victoria, el *home rule* irlandés ha venido a ser indispensable e inevitable y se impone como una necesidad política al gobierno de la Gran Bretaña. [...] La causa irlandesa no perecería, el *home rule* no habrá muerto, no quedarían frustradas las legítimas esperanzas del pueblo irlandés – porque la justicia de la causa, la energía de sus esfuerzos y el favorable movimiento de la opinión pública hacen de la autonomía de Irlanda un problema que fatal y necesariamente no tiene más solución que el *home rule*’: [dienw], ‘Irlanda (lo que debemos imitar)’, *La Unión Vasco-Navarra*, 11 Chwefror 1893, t. 1.

<sup>614</sup> Delgado, ‘El fuerismo’, 290.

Nid ydym yn gyfarwydd â bwriadau Healy; ond yr ydym bob amser wedi credu bod y blaid genedlaethol Wyddelig wedi bod mewn sefyllfa wan oherwydd nad oedd ganddi sylfaen gadarn. Ni ellir sicrhau'r sylfaen honno nes y canolbwyntir ar yr arwyddair crefyddol-wleidyddol [...] Nid ydym erioed wedi deall pam fod gan blaid sydd yn y bôn yn Gatholig, fel y dylai plaid genedlaethol Iwerddon fod, arweinwyr sydd yn gyntaf yn Brotestanaidd (O'Connell), ac wedyn yn Brotestanaidd ac yn anllad (Parnell) [...] Mae'n debyg iawn mai Saeryddiaeth Rydd, parasit Iwerddon, sy'n gwanhau'r mudiad ac yn ei rwystro rhag ymateb mewn ffordd gyson â'i draddodiadau.<sup>615</sup>

Er bod Arana yn gweld esiampl i'w dilyn, ac efallai ysbrydoliaeth, yng ngwaith cenedlaetholwyr Iwerddon, mae'n glir ei fod yn barod i feirniadu eu safiadau gwleidyddol hefyd. Ym mydsawd rhethregol Arana, pwysicach o lawer yw diogelu purdeb y naratif Catholig *integrista* na manteisio ar naratif o solidariaeth â 'chyd-ryfelwyr' llwyddiannus eraill.

Roedd Catalwnia yn nes at Wlad y Basg – yn ddaearyddol, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol – nac yr oedd Iwerddon yn y 1890au wrth gwrs: a dyma ranbarth a welodd *Renaixença* diwylliannol yn ail hanner y 19g a genedigaeth mudiad cenedlaethol ei hun yn y 1880au.<sup>616</sup> Ni synnir, efallai, o weld datganiadau o gefnogaeth yn y cylchgrawn *fuerrista*, *Euskalduna*, yn 1896 pan gymerwyd camau cyfreithiol yn erbyn y newyddiadur rhanbartholgar Catalanaidd, *La Regionalista*, gan awdurdodau'r wladwriaeth Sbaenaidd. 'Valiente periódico' ('newyddiadur dewr') oedd *La Regionalista* yng ngeiriau awdur yr erthygl wrth iddo ochri gyda rhanbarthwyr Catalanaidd yn eu brwydr yn erbyn llywodraeth ganolog Sbaen.<sup>617</sup> Dyma safiad digon rhesymol o ran cysondeb disgyrsiol ac ideolegol rhwng dwy bobl 'orthrymedig' Penrhyn Iberia, gellid dadlau; dyma ddatganiad y byddwn yn ei ddisgwyl yn nisgwrs cenedlaethol Gwlad y Basg yn y 1890au. Ond nid yw datganiadau o'r math hwn yn cynrychioli cyfanswm y paradeim disgyrsiol.

Bu Sabino Arana a'i deulu yn byw yn Barcelona rhwng 1883 a 1888, ac er na fodelwyd ei syniadau cenedlaethol ar syniadau cenedlaetholwyr Catalanaidd yn benodol, meddai Stanley Payne, 'gellir casglu yn rhesymegol fod y rhai olaf yn gwasanaethu fel

---

<sup>615</sup> No conocemos nosotros las intenciones de Healy; pero siempre hemos creído que el partido nacionalista de Irlanda se resentía de los cimientos, por carecer de base sólida. Esta no puede obtenerse mientras no se fije el lema religioso-político [...] Nunca nos hemos explicado que un partido esencialmente católico, como debe ser el irlandés, haya tenido por jefes, primeramente a un protestante (O' Conell), y luego a un protestante y libertino (Parnell) [...] Es muy probable que sea la masonería, el parásito de Irlanda, que le debilita el organismo y no la deje reaccionar conforme a sus tradiciones': Sabino Arana, 'Los nacionalistas de Irlanda', *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 3.

<sup>616</sup> 'Renaixença': 'Dadenni' Catalaneg, neu adfywiad rhamantaidd yn iaith a diwylliant Catalwnia yn y 19g gynnar, yn debyg i *Rexurdimento* Galisia a *Félibrige* Ocsitania.

<sup>617</sup> [Dienw], 'Sirimiri', *Euskalduna*, Año I/Número 1, 13 Medi 1896, t. 7.

ysgogiad anuniongyrchol iddo'.<sup>618</sup> Yn wir, oherwydd ei amser yng Nghatalwnia, 'dynwardol' (neu 'imitative') oedd cenedlaetholdeb Sabino Arana (ac felly cenedlaetholdeb Basgaid) ym marn Ken Medhurst hefyd: 'Arana studied in Barcelona and his espousal of nationalism owed much to the example of Catalan contemporaries. To that extent Basque nationalism was imitative.'<sup>619</sup> Gallai datganiadau Sabino Arana am y Catalaniaid yn y wasg beri ychydig o syndod, felly, wrth inni weld unwaith eto anghysondeb neu amdoriadau yn nefnydd Arana o drosiad y 'cyd-wrthryfelwr' Iberaidd. Dim ond rhanbarth arall o Sbaen oedd Catalwnia i Arana, a dim ond pobl arall o dras yr hil Sbaenaidd oedd y Catalaniaid. 'Goddef oherwydd anniolchgarwch ei mam ei hun' (sef Sbaen) a wnaed Catalwnia, lle'r oedd Biscaia ar y llaw arall yn 'garcharor cenedl estron', cenedl a oedd yn 'famwlad gyffredin y Catalaniaid, Baleariaid a Galisiaid'.<sup>620</sup> Hynny yw, hil ar wahân oedd y Basgiaid i Arana, a rhan o'r hil a geisiodd eu gorthrymu oedd y Catalaniaid. Nid sail dda i berthynas gynnes a ffrwythlon a welir yn y datganiadau hyn.

Roedd Arana hefyd yn beirniadu'r Catalaniaid yn llym am geisio dysgu Catalaneg i fewnfudwyr o Gastilia: byddai'n 'ddistryw' i'r Basgiaid 'pe bai preswylwyr *maketo* yn siarad Euskera' yng Ngwlad y Basg, meddai unwaith.<sup>621</sup> Roedd Catalaniaid brodorol yn 'ymfodloni' bod mewnfudwyr o Gastilia ac Aragon yn siarad Catalaneg, meddai dro arall, tra bod y Basgiaid yn 'dioddef yn arw' wrth 'weld llofnod rhyw 'Pérez' (cyfenw cyffredin Castilaidd) wrth draed penillion *euzkéricos* (penillion Basgeg traddodiadol)', neu wrth glywed 'coetsmon o La Rioja, brethynnwr o Pasiego, neu ryw sipsi yn siarad ein hiaith ni', neu wrth 'ddod o hyd i gyfenw *maketo*' yn y rhestrau o forwyr o Fiscaia a gafodd eu llongddryllio.<sup>622</sup> 'Dirywio' a 'dadfeilio' a fu'r hen 'bobl urddasol a gwrol' o Gatalaniaid hon i'r graddau eu bod yn barod bellach i 'gynnig eu hunain yn gaethweision i bobl Sbaen', pobl a oedd yn 'cael

<sup>618</sup> 'Though his ideas were not directly modelled on those of any of the prominent Catalanists, it may be reasonably inferred that the latter served as an indirect stimulus': Payne, *Basque Nationalism*, t. 68.

<sup>619</sup> Medhurst, 'Basques and Basque nationalism', t. 239.

<sup>620</sup> 'Cataluña padece por ingratitud de su propia madre España, Bizkaya es presa de una nación extraña, que es patria común de catalanes, baleares, gallegos': Sabino Arana, dyfynnir yn Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 57.

<sup>621</sup> 'Los catalanes quisieran que no sólo ellos, sino también todos los demás españoles establecidos en su región, hablasen catalán; para nosotros sería la ruina el que los maketos residentes en nuestro territorio hablasen Euskera': Sabino Arana, dyfynnir yn Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 57.

<sup>622</sup> 'En Cataluña todo elemento procedente del resto de España lo catalanizan, y les place a sus naturales que hasta los municipales aragoneses y castellanos de Barcelona hablen catalán; aquí padecemos muy mucho cuando vemos la firma de un Pérez al pie de unos versos euzkéricos, oímos hablar nuestra lengua a un cochero riojano, a un lencero pasiego o a un gitano, o cuando al leer la lista de marineros naufragos de Bizkaya tropezamos con un apellido maketo': Sabino Arana, dyfynnir yn Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 57.

eu dirmygu gan bob pobl arall’, a phobl a oedd yn ‘destun gwawd pob cenedl wâr’.<sup>623</sup> At hynny, mae Arana yn beirniadu’r *fuerristas* am gymharu hawliau hunanlywodraethol Biscaia â hawliau Catalwnia a rhanbarthau eraill Sbaen, neu ‘obsesiwn gwirion a chwerthinllyd sy’n perthyn i’r rhai nad ydynt yn gwybod gronyn o hanes yn y mater hwn’, meddai ef.<sup>624</sup> ‘Nid achos ein mamwlad ni, yn sicr iawn, yw achos Catalwnia’, meddai Arana; ‘nid oes hyd yn oed tebygrwydd rhwng y ddwy’.<sup>625</sup>

‘Errores Catalanistas’ (‘Gwallau gwladgarwyr Catalanaidd’) oedd teitl erthygl enwog gan Arana o 1894,<sup>626</sup> teitl sy’n cyfleu ei farn am y Catalaniaid yn gryno ac yn daclus: roedd gan y Catalaniaid y potensial i fod yn gydryfelwyr y Basgiaid, ond roeddent wedi methu (fel roedd y Gwyddelod wedi methu yn y pen draw) cyrraedd disgwyliadau Arana o ran purdeb eu hideoleg hiliol a chrefyddol. Ni newidiodd barn Arana ynglŷn â’r Catalaniaid hyd at ei farwolaeth yn 1903, er ei fod yn cytuno i gydweithio â nhw yn wleidyddol o bryd i’w gilydd, a byddai’r radd y dylai cenedlaetholwyr Basgaid fabwysiadu safiadau a dulliau mwy cymedrol y Catalaniaid yn destun gwrthdaro yn y EAJ-PNV am flynyddoedd.<sup>627</sup> Nid yw agweddau tuag at y Gwyddelod a’r Catalaniaid yn gyson ar draws y disgwrs Basgaidd felly. Mae rhai – yn debyg i rai yng Nghymru – yn ystyried y Gwyddelod yn ysbrydoliaeth ac yn gymrodyr posibl y dyfodol, ac mae rhai yn cefnogi – ac i ryw raddau yn dynwared – y Catalaniaid. Ond mae rhai eraill megis Arana yn beio’r Gwyddelod a’r Catalaniaid am lygru eu syniadaeth genedlaetholgar (neu Gatholig) â syniadau rhy gymedrol. O ystyried y disgwrs Basgaidd yn ei gyfanrwydd felly, ni ellir dweud â sicrwydd ai cyfeillion neu elynion ydynt yn y pen draw.

Yn ôl Saunders Lewis ac eraill, roedd y Cymry yn araf i gymryd diddordeb yn y chwyldroadau cenedlaethol a siglodd y gyfundrefn imperialaidd ac absoliwt Ewrop ar

---

<sup>623</sup> ‘Al cabo, este pueblo noble y viril, temido y admirado, había de decaer y degenerar en tanto grado que viniese en este siglo a ofrecerse de esclavo al pueblo español [...] ¿Al pueblo español [...] menospreciado en esta época por todos los pueblos y objeto de befa para toda nación civilizada?’: Sabino Arana, dyfynnir yn Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 57.

<sup>624</sup> ‘Los periódicos euskarianos que, considerando a Bizkaya como una de tantas regiones de España, la equiparan en derechos con todas ellas y muy especialmente con Cataluña; estúpida y ridícula monomanía de todo el que no sabe un átoma de historia en este asunto’: Sabino Arana, dyfynnir yn Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 58.

<sup>625</sup> ‘La causa de Cataluña, ciertamente, no es la causa de nuestra Patria, ni hay siquiera semejanza entre ambas’: Sabino Arana, dyfynnir yn Granja Sainz, ‘El antimaketismo’, 199.

<sup>626</sup> Arana, ‘Errores catalanistas’, t. 3.

<sup>627</sup> ‘Arana no modificó sus ideas sobre los “errores catalanistas”, si bien aceptó colaborar con ellos. Pero el acercamiento del PNV a la Lliga fue criticado duramente por los aranistas más radicales y dio lugar a una agria polémica entre ambas corrientes en la páginas de sus semanarios *Euskalduna* y *La Patria*, de Bilbao, a finales de 1901’: Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 25.

ddechrau'r 19g.<sup>628</sup> Ond erbyn canol y ganrif, a chwyldroadau gwanwyn 1848 yn benodol, dechreuodd cenedlaetholwyr Cymreig cynnar megis Michael D. Jones ac Ieuan Gwynedd gymryd mwy o sylw o weithgareddau a syniadau arweinwyr y mudiadau cenedlaethol yn Ewrop.<sup>629</sup> Gwelir arlliw o'r diddordeb newydd hwn mewn llythyr a anfonodd Josiah Thomas o Lerpwl at ei gyfaill John Ogwen Jones ar 10fed Mehefin 1852:

Then there are subjects of national importance to Wales, oh there is plenty of work even independently of going to Parliament, but that must follow in the train. I want to stir up and do my best to get a Welsh association of liberal men to carry out reforms and measures for the good of Wales: they may call the movement "Young Wales" if they like, the Italians have their "Young Italy; there is a "Young Ireland," a "Young England". I intend writing to the Herald and to the Amserau on this subject when I can define more distinctly in my own mind the objects of the association.<sup>630</sup>

Byddai'r diddordeb hwn yn cynyddu pan ymwelodd arweinydd y mudiad cenedlaethol Hwngaraidd, Lajos Kossuth, â Phrydain yn 1851, ac yn tyfu mwy byth pan gyhoeddwyd llyfryn yn y Gymraeg ar ei fywyd a'i areithiau yn 1852.<sup>631</sup> 'Llyfryn pwysig yn hanes y mudiad cenedlaethol yng Nghymru yn ail hanner y ganrif ddiwethaf yw hwn', meddai D. Gwenallt Jones, 'am mae ef a droes Michael D. Jones ac R. J. Derfel yn genedlaetholwyr'.<sup>632</sup> Mae Marian Henry-Jones wedi dadlau mai Kossuth, o bob arweinydd cenedlaethol Ewropeaidd y cyfnod, a ddylanwadodd fwyaf ar genedlaetholwyr Cymreig cynnar.<sup>633</sup> Sicr yw, gan hynny, y gwelir parch mawr tuag ato yn erthygl Michael D. Jones yn *Y Celt* yn 1890 er enghraifft:

Yr oedd y gwladgarwr Hungaraidd byd-enwog Kossuth fel seren oleu yn ffurfafen Ewrop wedi tanio llawer enaid a'r athrawiaeth anfarwol o 'hawl pob cenedl i lywodraeth ei hunan,' a rhwng dylanwadau chwyldroadau mawrion 1848, ac addysg

---

<sup>628</sup> 'Araf y tyfodd syniadau'r Chwyldro yng Nghymru. Ond tyfu y wnaethant' meddai Saunders Lewis yn ei draethawd ar Owen M. Edwards o 1956 ('Owen M. Edwards', t. 29) ac mae Marian Henry-Jones yn honni nad oedd llawer o ddiddordeb yng Nghymru yn Rhyfel Annibyniaeth Groeg (1821-32) nac yng ngrwthyrfel Gwlad Pŵyl o 1830-1: 'But the Welsh people had not been noticeably stirred during the war of Greek independence; a poem in *Seren Gomer*, an article or two in the Anglican magazines of the time was perhaps all that could be expected from a country ill-equipped with schools to supply the classical education on which the Philhellenism of the time was so largely based'; 'There was no outcry in the Principality in 1831 against Polish suffering either; apart from a few democrats in Merthyr, no one really felt it was their business': 'Wales and Hungary', 8 a 9.

<sup>629</sup> 'Ieuan Gwynedd saw in Kossuth's Language Laws a proof that "great men never belittle their mother-tongue", and deplored the fact that there were so many "shrunken brains" in Wales who did so': Henry-Jones, 'Wales and Hungary', 23.

<sup>630</sup> Dyfynnir yn Lewis, 'Owen M. Edwards', t. 28.

<sup>631</sup> Gw. [dienw], *Hanes Louis Kossuth, Llywydd Hungari: yn cynnwys rhagdraith ar ei nodwedd fel dyn, gwladwr, areithiwr, &c., a hanes ei fywyd o'i febyd i'w ddymchweliad gan Awstria a Rwssia, ynghyd â diangfa ryfedd ei wraig a'i blant: hefyd, ei areithiau yn Southampton, Llundain, Winchester, etc., etc.* (Y Bala: E. Davies a G. Humphreys, 1852).

<sup>632</sup> Jones, 'Michael D. Jones', t. 11.

<sup>633</sup> Henry-Jones, 'Wales and Hungary', 24.

Kossuth, nid yw cenedloedd goresgynedig Ewrop wedi ymdawelu hyd heddyw, ond edrychant yn obeithiol yn mlaen at jubili pobloedd a chenhedloedd gorthrymedig.<sup>634</sup>

Yn yr un modd, yr oedd gwleidyddiaeth genedlaetholgar Hwngari a Bohemia yn dylanwadu ar syniadau *fuerristas* Gwlad y Basg ar ôl 1876 yn ôl Ander Delgado, yn enwedig syniadau'r Hwngariad Ferenc Deák.<sup>635</sup>

At hynny, cafodd prif ideolegwr cenedlaetholdeb Eidalaid y cyfnod, Giuseppe Mazzini, ddylanwad mawr ar genedlaetholwyr Cymreig y 19g hefyd, yn enwedig ar Thomas E. Ellis, a hynny oherwydd ei ryddfrydiaeth a'i idealaeth: 'Tom Ellis read the works of Mazzini avidly', meddai Gwynfor Evans, 'and the great Italian continued to influence the course of Welsh nationalism until the middle of the twentieth century because his idealism was so in tune with the Welsh mind'.<sup>636</sup> At hynny, roedd ei weledigaeth o ryddid cenedlaethol democrataidd o fewn cyd-destun o gydweithrediad rhyngwladol hefyd yn apelio at Gymry cenedlaetholgar ym marn Alun Davies.<sup>637</sup> Fel yn achos Parnell a Thomas Davis yn Iwerddon, mae'n fuddiol cofio mai Protestaniaid oedd Kossuth, ac mai Catholig 'gwrth-Babyddol' (yn ôl D. Gwenallt Jones) oedd Mazzini a arddelai fath o ddemocratiaeth ryddfrydol gyson ag 'egwyddorion y Dadeni Dysg a'r Diwygiad Protestannaidd'.<sup>638</sup> Teg yw gofyn a fyddai cenedlaetholwyr o Gatholigion pybyr yn cael cymaint o ddylanwad ar Gymry anghydfurfiol y 1890au, tybed.

Ni ddylanwadwyd ar genedlaetholwyr Cymreig gan genedlaetholwyr Hwngaraidd ac Eidalaid yn unig. Gwelir mewn erthygl o 1896 yn *Young Wales* fod J. H. Davies yn cael ei ysbrydoli gan ymdrechion yr Iddewon i amddiffyn eu hunaniaeth a'u nodweddion eu hunain dros y canrifoedd. Mae Davies yn rhagweld dyfodol gogoneddus i'r Iddewon fel 'cenedl lywodraethol y byd', ac yn honni mai dim ond trwy efelychu'r Iddewon a diogelu eu 'cenedligrwydd gwahanol a'u nodweddion neilltuol' y gallai'r Cymry gyfrannu yn llawn at ddynoliaeth:

The Jew has persistently refused to become absorbed in the nations among whom he dwells, and though separated and divided by gulfs which seem to us impassable he has preserved his characteristics wherever he goes. There is always a great future for

<sup>634</sup> Michael D. Jones, 'Ymreolaeth', *Y Celt*, 7 Mawrth 1890. t. 1.

<sup>635</sup> Delgado, 'El fuerismo', 296.

<sup>636</sup> Evans, *Land of my Fathers*, t. 403.

<sup>637</sup> Alun Davies, 'Cenedlaetholdeb yn Ewrop a Chymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg', *Efrydiau Athronyddol*, XXVII (1964), 17. Gw. hefyd C. A. Bayly ac E. F. Biagini (goln), *Giuseppe Mazzini and the Globalization of Democratic Nationalism* (Oxford: Oxford University Press, 2008), am gyfres o erthyglau ar ddylanwad Mazzini ar y syniad o genedlaetholdeb democrataidd a chydweithrediad rhyngwladol.

<sup>638</sup> Jones, 'Michael D. Jones', t. 13.



the Jewish nation, and the time may come when they will again be the ruling nation of the world. It is only while the Welshman preserves his distinct nationality and the characteristics peculiar to him that he can hope to give to mankind the full worth of all the gifts a beneficent Providence has endowed him with.<sup>639</sup>

Diddorol yw nodi mai yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd yr erthygl hon, sef 1896, fe gyhoeddwyd *Der Judenstat* gan Theodor Herzl, cyfrol sylfaenol Seioniaeth fodern a chyfrol a ragwelodd wladwriaeth annibynnol Iddewig yn yr 20g.<sup>640</sup>

Digon pell yw Hwngari a'r Eidal o Gymru a Gwlad y Basg yn ddaearyddol, a braidd yn wahanol i'r Cymry a'r Basgiaid o ran iaith, diwylliant ac arferion oedd yr Hwngariaid, Eidalwyr ac Iddewon yn y 19g. Ni ellir dadlau yn hawdd, gan hynny, fod mynegiannau o gyfeillgarwch a pharch, a chyfluniad ideolegol cyffredinol â'r pobloedd hyn, i'w disgwyl yn natganiadau awduron Cymreig a Basgaid yn y 1890au. Dadleuem yn lle hynny, sut bynnag, nad datganiadau o gyfeillgarwch go iawn a welir yma o gwbl, ond symudiadau rhethregol pragmataidd sy'n cryfhau dadleuon cenedlaetholgar Cymreig a Basgaid lleol. Fel y gwelwyd yn achos pob darpar gefnder a chymrawd yn yr adran hon, felly, mae cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaid yn cefnogi pobloedd sy'n eu cael eu hunain, i ryw raddau neu'i gilydd, mewn sefyllfaoedd cyfansoddiadol tebyg i'r Cymry a'r Basgiaid. Cefnogir meddylwyr sy'n mynegi syniadau cenedlaetholgar tebyg i'r rhai y mae'r cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaid yn eu hategu, a chefnogir arweinwyr gwleidyddol a fu'n gweithredu yn y gorffennol yn y ffordd y byddai arweinwyr Cymreig a Basgaid yn dymuno gweithredu yn y dyfodol. Cyfeillion rhethregol cyfleus yw'r rhain yn y pen draw, felly, a chyfeillion cyfleus a oedd yn gyffredin gan y Cymry a'r Basgiaid o bryd i'w gilydd hefyd.

## **Mae gelyn ein gelyn yn gyfaill i ni**

Os oherwydd tebygrwydd eu sefyllfa gyfansoddiadol a rhaglen wleidyddol eu mudiadau cenedlaethol yr oedd y Gwyddelod a'r pobloedd eraill uchod yn troi yn gyfeillion rhethregol i'r Cymry a'r Basgiaid, teg fyddai gofyn pam roedd y Ffrancwyr a'r Almaenwyr yn 'gyfeillion' i rai cenedlaetholwyr Cymreig, neu'r Saeson a'r Americanwyr yn 'gymrodyr' i

---

<sup>639</sup> Davies, 'Wales and the English', t. 161.

<sup>640</sup> Theodor Herzl, *Der Judenstaat* (1896). Cyfieithiad Saesneg gyda chyflwyniad gan Louis Lipsky, *The Jewish State* (New York: Dover Publications, 1988) ar gael ar-lein: [www.gutenberg.org/ebooks/25282](http://www.gutenberg.org/ebooks/25282) [cyrchwyd: 21 Tachwedd 2018].

rai cenedlaetholwyr Basgaidd? Grymoedd mawrion y cyfnod oedd y cenhedloedd hyn, neu'r union fath o wladwriaethau imperialaidd yr oedd cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd yn brwydro yn eu herbyn. Fel y gwelwyd uchod, sut bynnag, pragmatiaeth a hwylustod a ddylanwadai fwyaf ar ein hawduron wrth gyfansoddi eu dadleuon, ac roedd gan eu gelynyon mawrion, Lloegr a Sbaen, elynion eu hunain i'w poeni amdanynt. 'Dathlu â llawenydd a gorfoledd go iawn a fyddem pe gwelem i'r genedl Ladinaidd hon [Sbaen] gael ei rhwygo yn ddarnau gan wrthdaro mewnol neu ryfel rhyngwladol', dywedodd Sabino Arana yn 1894, ac fel y gwelir yn nes ymlaen yn yr adran hon, gweddus o edmygedd a chefnogaeth ein cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd oedd gelyn rhyngwladol eu gelyn mawr.<sup>641</sup>

Yr Almaen, yr Ymerodraeth Awstro-Hwngaraidd, Rwsia a Ffrainc, sef y grymoedd mawrion cyfandir Ewrop, oedd prif elynion Prydain (ac felly Cymru) yn ystod chwarter olaf y 19g. Ni synnir, efallai, fod tudalennau newyddiaduron a chylchgronau Cymreig y cyfnod yn llawn erthyglau am helyntion a gwrthdrawiadau Prydain â'r gwledydd hyn. Ni synnir chwaith fod y mwyafrif helaeth ohonynt yn mabwysiadu safiad a chywair beirniadol, ymosodol, a hyd yn oed jingoïstaidd yn eu herbyn. Gwir yw, er enghraifft, fod cyfeiriadau at yr 'Arth Rwsiaidd' a 'Thrais Almaenig' yn lluosog yn y wasg Gymraeg yn y 1890au.<sup>642</sup> Gwir yw hefyd, waeth beth fu'r dadleuon mewnol am wahaniaethau ethnig rhwng y Cymry a'r Saeson, fod llawer yng Nghymru (gan gynnwys Lewis Edwards yn 1870 mae'n debyg) yn gweld eu cymdogion ar y cyfandir fel cenhedloedd llawn 'balchder, rhodres a thwyll':

Dr Edwards delivered an interesting lecture in Welsh on "the present commotion on the Continent of Europe" – the principal men, Germans and French, engaged therein; their character and conduct, more especially the Emperor Napoleon and the French nation, with the lessons which are taught by their pride, haughtiness, and deceit, culminating in their failure and downfall in the war with Prussia. The lecturer was warmly applauded.<sup>643</sup>

Erbyn y 1880au, sut bynnag, ac wrth i ddisgwrs cenedlaetholgar Emrys ap Iwan ymddangos yn y gofod cyhoeddus, byddai cyfeiriadau at wledydd megis Ffrainc a'r Almaen yn y wasg yn dechrau newid. Nid gelyn llwyr i'r Cymry oeddent bellach, ond ffynonellau syniadau amgen

---

<sup>641</sup> 'Si a esta nación latina la viésemos despedazada por una conflagración intestina o una guerra internacional, nosotros lo celebraríamos con fruición y verdadero júbilo': Sabino Arana, *Bizkaitarra*, 21 Ionawr 1894. Dyfynnir yn Granja Sainz, 'El antimaketismo', 198.

<sup>642</sup> Gw. er enghraifft: [dienw], 'Side by Side with the Russian Bear', *The Carmarthen Journal and South Wales Weekly Advertiser*, 12 Mai 1893, t. 8; [dienw], 'A Russian Threat', *The Cardiff Times*, 9 Ebrill 1898, t. 5; [dienw], 'Y Bwgan Rwsiaidd eto', *Y Drych*, 26 Awst 1886, t. 4; [dienw], 'Important Agression by Germans: Attempt to Seize English Treasure', *The South Wales Daily Post*, 28 Tachwedd 1900, t. 3.

<sup>643</sup> [Dienw], 'Local and District News: Bala', *The Cambrian News and Merionethshire Standard*, 17 Rhagfyr 1870, t. 4.

am y byd ehangach, syniadau nad oeddent yn Seisnig, syniadau a oedd, o bryd i'w gilydd, yn hollol wrth-Seisnig.

Yn 'Paham y Gorfu'r Undebwyr' o 1895 er enghraifft, mae Emrys ap Iwan yn datgan mai trwy dreulio tair neu bedair blynedd ar y Cyfandir, byddai'r Cymry yn gweld:

Nad yw'r Saeson ddim mor fawr o lawer yng ngolwg cenedloedd eraill ag ydynt yn eu golwg eu hunain, ac yng ngolwg y Cymry plentynnaidd sy'n credu bod "I say" yn Saesneg yr un peth â "Fel hyn y dywed yr Arglwydd" yn y Gymraeg.<sup>644</sup>

Hynny yw, wrth ymwneud â, a siarad yn uniongyrchol â, phobloedd gwledydd Ffrainc, yr Almaen neu'r Swistir byddai'r Cymry yn gweld nad yw'r Saeson na'u syniadau mor awdurdodol a phenderfynol ag y meddylent, ac nid oedd pawb yn y byd yn eu hystyried yn *predominant partner*. I'r gwrthwyneb, ac fel y gwelwyd uchod yn Haen 1, byddai'r Cymry yn gweld bod yr Ewropeaid yn ystyried y Saeson yn rhyw fath o 'anifail didoriad',<sup>645</sup> a bod ganddynt syniad isel am y gyfundrefn addysg Seisnig:

Gwelent mai syniad isel sy gan yr Ellmyn a'r Yswisiaid a'r Yswediaid am y Côt Addysg a luniwyd gan fasnachwr uniaith ac annysgedig a'i enw Forster, ac a adluniwyd gan ddynton sydd agos mor annysgedig ag yntau.<sup>646</sup>

Ac nad oedd gan Loegr athronyddion, diwinyddion, gramadegwyr na ddramodwyr i'w cymharu â'r rhai ar y Cyfandir:

Gwelent ohonynt eu hunain nad oes, ac na bu, cymaint ag un athronydd yn Lloegr, nad yw ei diwinyddion gorau yn yr oes hon ond corrod yn ymyl diwinyddion dwy o deyrnasoedd lleiaf Gogledd Ewrop, nad yw ei hesboniadau gorau ond lledgyfieithiadau o esboniadau'r Almaen a'r Iseldir, nad yw ei geiriaduron helaethaf ond efelychiadau amherffaith o eiriaduron Ffrainc, ac nad yw ei dramodau mwyaf poblogaidd ond cyfaddasiadau o ddramodau gwaelaf Ffrainc a'r Eidal, yr Ysbaen a'r Yswèd.<sup>647</sup>

Trwy dreulio rhai blynyddoedd ar y Cyfandir, meddai Emrys, fe ddysgai'r Cymry 'synio'n uwch am eu hen lenoriaeth eu hunain, ac yn is am lenoriaeth ddiweddar y Saeson', ac 'er bod gan y Saeson lawer gŵr grymus', meddai ef, 'un cawr sydd ganddynt, ac y mae hwnnw wedi

---

<sup>644</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 24.

<sup>645</sup> '[Mae] yn rhaid i estron o Sais dalu mwy [na] deirgwaith am ei fwyd a'i lety [ar y Cyfandir] na rhyw estron arall, nid yn unig am ei fod yn anifail mwy ariannog, ond hefyd am ei fod yn anifail mwy didoriad, a bod yn rhaid gan hynny wrth fwy o amynedd i'w oddef': Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', tt. 24-25. Dyfynnwyd hefyd uchod yn Haen 1, yn yr adran 'Rydym yn fwy duwiol na hwy'.

<sup>646</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 25.

<sup>647</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 25.

marw er y flwyddyn 1616'.<sup>648</sup> Dim ond William Shakespeare oedd gan y Saeson i'w gymharu â mawrion deallusol y Cyfandir ym marn Emrys, a byddai dod yn gyfarwydd â'r diwylliannau Ewropeaidd hyn yn rhyddhau'r Cymry oddi wrth eu caethwasiaeth Seisnig.

Gwir mai llais ar wahân oedd llais yr ewrogarwr Emrys ap Iwan yn y wasg Gymraeg yn y 1890au, ac mae'n ddiddorol nodi bod 'Mr Thomas Darlington' yn ymateb i'r erthygl hon yng nghyfrol nesaf *Y Geninen* ym mis Ionawr 1896, gan ofyn pam y dylai barn yr Almaenwyr ar gôd addysg Prydain fod o bwys pan oedd 'sefyllfaoedd y ddwy wlad mor wahanol', ac ers pryd roedd 'Bismark a'r Ymeradwr' yn 'fodel o oddefgarwch i genhedloedd bychan?'.<sup>649</sup> Ond mae'n glir yn 'Paham y Gorfur Undebwyr' fod Emrys yn gweld Ffrainc a Rwsia yn benodol fel rhyw fath o gynghreiriaid yn erbyn y Saeson yn y dyfodol. Fe fyddai Iwerddon, yr Aifft a'r India yn codi mewn gwrthryfel yn erbyn Lloegr, meddai ef, pe bai Ffrainc neu Rwsia yn 'torri asgwrn ei chefn' yn gynt, wrth awgrymu y byddai 'miloedd ar filoedd o Gymry' yn barod i ymuno â nhw:

Y mae miloedd ar filoedd o Gymry heddiw mor ffaidd ganddynt fod yn ddarostyngedig [i Loegr] [â] phe buasant yn byw drannoeth ar ôl cwmp Llewelyn; ac fe godai Iwerddon, a'r Aifft, a'r India, mewn gwrthryfel yn ei herbyn yr wythnos nesaf, pe rhyngai bodd i Ffrainc neu Rwsia dorri asgwrn ei chefn.<sup>650</sup>

At hynny, mae Emrys yn mynd ymlaen i ofyn pa mor ddoeth y byddai i'r Cymry ochri gyda Lloegr yn erbyn y cenedloedd cryfion hyn, gan fod y Saeson yn cael cymaint o drafferthion wrth geisio gorchfygu ar genhedloedd 'anarfog a hanner noethion' yr ymerodraeth:

Os o'r braidd y mae hi'n gallu gorfod ar fân genhedloedd anarfog a hanner noethion, pa le yr ymddengys hi pan ddelo chwant arni i brofi ei gynnu newyddion mewn rhyfel yn erbyn cenedl gref? Gymry, nid yw ddoeth i chwi frysio i ymgolli ynghanol y Saeson – ni wyddoch beth a ddigwydd mewn deng mlynedd.<sup>651</sup>

Clir yw yn nisgwrs cenedlaethol Emrys ap Iwan fod gelynion marwol y Saeson yn gallu troi yn gyfeillion annwyl y Cymry.

Wrth gofio'r datganiadau gan Sabino Arana o blaid cenedlaetholwyr Gwyddelig a welwyd uchod, daw tensiynau rhethregol a rhesymegol y paradeim disgyrsiol yn amlwg

---

<sup>648</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfur Undebwyr', t. 25 a 26.

<sup>649</sup> 'Proffwyd mawr yr Ewropeaeth fodern yng Nghymru oedd Emrys ap Iwan': D. Myrddin Lloyd, 'Cymru ac Ewrop', *Efrydiau Athronyddol*, 27 (1964), 12. Gw. hefyd R. Gerallt Jones, 'Emrys ap Iwan', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff, University of Wales Press, 2000), t. 144. Darlington, 'Erthyglau Gwrth-Seisnig', t. 37.

<sup>650</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfur Undebwyr', t. 30.

<sup>651</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfur Undebwyr', t. 30.

unwaith eto wrth ystyried ei ddatganiadau ynglŷn â'r Saeson a'r Ymerodraeth Brydeinig; gelyn marwol cenedlaetholwyr Gwyddelig wrth gwrs. Dipyn o 'anglófilo', neu seisgarwr, oedd Arana yn ôl yr hanesydd José Luis de la Granja Sainz; seisgarwr a oedd yn gwbl fodlon i anfon llythyr at Brif Weinidog Prydain, yr Arglwydd Salisbury, ym mis Mehefin 1902 yn ei longyfarch ar fuddugoliaeth y fyddin Brydeinig yn Rhyfel De Affrica.<sup>652</sup> At hynny, datganodd Arana mewn erthygl o 1902 y byddai Euskadi yn llwyddo i gael ei hannibyniaeth yn fuan o dan 'amddiffyniad Lloegr': 'mae ein buddugoliaeth yn sicr ac yn agos yn fy marn i: bydd annibyniaeth Euskadi, dan amddiffyniad Lloegr, yn ffaith cyn bo hir'.<sup>653</sup> Nid yw'n gwbl glir, gan hynny, i ba raddau yr oedd Arana yn wir edmygu'r genedl (Brotestannaidd) Seisnig, ond mae'n amlwg ei fod yn awchus iddi ymyrryd i mewn i wleidyddiaeth fewnol un o'i gelynion hynaf (Sbaen), a hynny am yr union resymau y bu Emrys ap Iwan yn cwyno amdanynt uchod: mantais Lloegr yn y gêm wleidyddol ryngwladol. Boed hynny fel y bo, mae'n eglur nad oedd teyrngarwch Arana at y 'cefnder mawr' Gwyddelig yn hollol gyson. Cyfaill cyfleus wrth lunio rethreg genedlaetholgar oedd y Gwyddel, efallai, a chyfaill cyfleus ym mrwydr *realpolitik* yn erbyn y Sbaenwyr oedd y Saeson, tybed?<sup>654</sup>

Nid yr unig awdur Basgaidd i ganmol gwleidyddion Seisnig yn y 1890au oedd Arana, sut bynnag; roedd y *fuéristas* yn moli'r Prif Weinidog Rhyddfrydol William Gladstone hefyd, a hynny am ei fod yn 'gwrthod tueddiad rhyddfrydiaeth draddodiadol i ganoli grym' wrth gyflwyno ei ddau Fesur Hunanlywodraeth Iwerddon yn 1886 a 1893.<sup>655</sup> 'Y peth gorau inni', dywedodd awdur *fuérista* yn *La Unión Vasco-Navarra* ym mis Medi 1893, 'fyddai i ryw Gladstone ymgodi a dychwelyd ein *fueros* inni'.<sup>656</sup> Yn yr un modd, cyfeiriwyd at Gladstone fel dyn 'sy'n amddiffyn cyfiawnder lle bynnag y'i cenfydd' ym mis Hydref 1893, wrth ei gymharu yn ffafriol iawn gyda phrif weinidogion diweddar Sbaen Antonio Cánovas del Castillo a Práxedes Mateo Sagasta: 'am wahaniaeth sydd rhyngddo ef â'n llywodraethwyr ni!

---

<sup>652</sup> Granja Sainz, 'El antimaketismo', 200.

<sup>653</sup> 'Nuestro triunfo se me ofrece seguro y próximo: la independencia de Euzkadi, bajo la protección de Inglaterra, será un hecho en día no lejano': Sabino Arana, 'Mi pensamiento', Mehefin 1902. Difynnir yn Granja Sainz, 'El antimaketismo', 199.

<sup>654</sup> Mae'n ddi-ddorol nodi yma fod Arana yn datgan ei hoffter tuag at yr Almaenwyr hefyd: 'La raza germana nos es a los vizcaínos mucho más simpática que la española': Sabino Arana, 'Revista de prensa', *Bizkaitarra*, Año III/Número 23, 24 Mawrth 1895, t. 3.

<sup>655</sup> 'Concretamente, el fuerismo vasco ensalzó la figura del primer ministro liberal británico Gladstone y la reforma de *Home Rule Bill* que quiso introducir en el Reino Unido, aunque fue rechazada por dos veces en 1886 y 1893': Delgado, 'El fuerismo', 301.

<sup>656</sup> 'Lo mejor sería que surgiera un Gladstone que nos devolviera nuestros fueros': [dienw], '¡Alerta vascongados!', *La Unión Vasco-Navarra*, 6 Medi 1893, t. 1.

[...] Duw sanctaidd! Sut gellir tynnu cymhariaeth rhwng y ddau ddyn hyn a'r gwladweinydd mawr Seisnig!<sup>657</sup>

Roedd rhai *fuieristas* yn edmygu Rhyddfrydwyr Seisnig mewn termau cyffredinol hefyd, a hynny am 'ganiatáu rhyddid i'r bobl gyffredin' ac am 'ganiatáu i'w gwrthwynebwy'r gwleidyddol gynnal cyfarfodydd cyhoeddus a chyhoeddi propaganda'; hawl na chaniateid i wrthwynebwy'r llywodraeth Sbaen yn y 19g yn ôl Ander Delgado.<sup>658</sup> At hynny, mae'n debyg bod rhai awduron Basgaidd yn barod i ganmol unrhyw Sais tra bod y Sais hwnnw yn barod i ganmol traddodiadau, arferion neu gynhyrchion Gwlad y Basg. Noder y clod y mae'r awdur Pedro M. de Soraluze yn ei roi i Syr Albert Hastings Markham, am ei gyfrol ddiweddar a'r 'dystiolaeth' roedd y Sais wedi ei 'dogfennu' ar ragoriaeth forwrol y Basgiaid a'u traddodiad morfila a physgota yn gyffredinol:

Mae Markham yn canmol y Basgiaid yn helaeth ac yn frwdfrydig, a hynny gyda thystiolaeth wedi'i dogfennu. Dylai'r estron hwn, canwr gogoniannau morol y Basgiaid, dderbyn mynegiant o ddiolchgarwch a chydnabyddiaeth gan bob un o'm cydwladwyr.<sup>659</sup>

Pwysicach na chyfeillgarwch uniongyrchol rhwng dwy genedl, neu gytundeb mewn ystod eang o faterion gwleidyddol, crefyddol neu gymdeithasol, oedd defnyddioldeb a gwerth datganiadau'r cyfaill cyfleus yn y frwydr ddisgyrsiol leol, mae'n debyg.

Byddai'r datganiadau hynny yn bwysicach o lawer pe baent yn tanseilio neu amharu enw da'r gelyn mawr. Noder llythyr a anfonodd Sabino Arana at ei wraig o'r carchar ym mis Mehefin 1902 ar ôl darllen y newyddion yn y wasg Ffrengig bod y llywodraeth Americanaidd wedi mynnu ei ryddid gan Lywodraeth Sbaen:

Mae papurau newydd Ffrainc yn dweud bod yr Unol Daleithiau yn galw ar i Sbaen fy rhyddhau. Os yw hynny yn wir, mae'r canlyniad yn llawer gwell na'r hyn yr oeddwn i'n gobeithio. Roeddwn i'n awyddus yn unig fod yr Unol Daleithiau a Lloegr yn gwybod bod y Basgiaid yn dymuno eu hannibyniaeth; ond mae hyn yn fwy: mae hyn

---

<sup>657</sup> 'Ese es Gladstone: el hombre que defiende la justicia donde quiera que la encuentre. ¡Qué diferencia entre él y nuestros gobernantes! ¡Qué diferencia entre él y Cánovas y Sagasta! [...] Cánovas y Sagasta... Pero ¡Dios santo! ¡Cómo hemos de establecer un paralelo entre estos dos hombres y el gran estadista inglés!': [dienw], 'Gladstone y la cuestión vascongada', *La Unión Vasco-Navarra*, 27 Hydref 1893, t. 1.

<sup>658</sup> Delgado, 'El fuerismo', 314.

<sup>659</sup> 'Markham hace grandes y entusiastas elogios de los bascos, y todo con pruebas documentadas. Reciba pues el cantor extranjero de las glorias marítimas de la Euskal-Erria, la expresión de gratitud y reconocimiento de todos mis paisanos': Soraluze, 'El Marinero Euskaldun', t. 525.

yn golygu bod cenedl gyfeillgar gan y Basgiaid, a bod Sbaen wedi cael ei gwaradwyddo gan genedlaetholdeb Basgaid am y tro cyntaf.<sup>660</sup>

Dim ond dymuno bod yr Americanwyr a'r Prydeinwyr yn ymwybodol o genedlaetholdeb Basgaid oedd Arana cyn y digwyddiad hwn, ond ar ôl y datganiad, roedd ef wedi dod o hyd i genedl sy'n gyfaill i'r Basgiaid, ac roedd Sbaen wedi cael ei gwaradwyddo am y tro cyntaf gan genedlaetholwyr yr EAJ-PNV. Pwysig inni gofio, wrth gwrs, mai dim ond pedair blynedd ynghynt y trechwyd Sbaen gan yr Americanwyr yn Rhyfel Sbaenaidd-Americanaidd 1898. Dyma rym ac apêl bod yn gyfaill bach i elyn mawr eich gelyn.

## **Ai cyd-israddolion neu gyd-aelodau'r byd imperialaidd ydym ni?**

Nid yn Ewrop a'r Unol Daleithiau yn unig yr oedd cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaid yn chwilio am gynghreiriaid yn erbyn y gelyn mawr yn ystod ail hanner y 19g. Roedd datblygiadau yn ymerodraethau tramor Prydain a Sbaen yn dylanwadu'n gryf ar eu syniadau a'u rhethreg genedlaethol hefyd. Roedd polisiau trefedigaethol ymosodol llywodraeth Prydain tua diwedd y ganrif, neu 'imperialaeth newydd', er enghraifft, yn rhannu barn meddylwyr cenedlaetholgar yng Nghymru yn ddwy garfan.<sup>661</sup> I rai, megis Emrys ap Iwan, roedd imperialaeth Brydeinig yn ffeidd-dra anghristnogol, ac ym mhobloedd gorthrymedig yr Ymerodraeth gwelai gynghreiriaid posibl y dyfodol. Gweler sut mae Emrys yn cynnwys pobl yr Aifft a'r India ymysg rhestr o bobloedd Ewropeaidd a'r Cymry sy'n byw o dan lach 'cenedloedd gormesol': 'O na chodid ail Napoleon, mwy rhyddfrydig na'r cyntaf, i wneud i genhedloedd gormesol dynnu eu craffangau atynt, fel y gallai Cymru, Iwerddon, Bohemia, Poland, yr Aifft, a'r Ind eto godi eu pen!'<sup>662</sup>

Bu Emrys yn ysgrifennu yn aml yn y wasg yn erbyn gweithgareddau milwrol Prydain yn Affrica ac Asia, yn enwedig yng Ngwlad Zulu, yr Aifft a'r Swdan, ac yn unol â charfan fach o radicaliaid megis John Bright, Richard Cobden a'r Aelod Seneddol Cymreig, Henry

---

<sup>660</sup> 'Los periódicos franceses dicen ya que los Estados Unidos reclaman a España [...] mi libertad. Si esto es cierto, el fruto es mucho mayor de lo que yo me esperaba. Yo sólo quería que en los Estados Unidos y en Inglaterra se supiese que los vascos queremos la independencia; pero esto es más: esto es encontrar una nación amiga del vasco, y es ver por vez primera humillada a España frente al nacionalismo vasco': dyfynnir yn Granja Sainz, 'El antimaketismo', 200.

<sup>661</sup> Am drafodaeth ar 'imperialaeth newydd' y 1890au, gw. Bernard Porter, *The Lion's Share: A History of British Imperialism 1850 to the Present*, 5th Edition (Harlow: Routledge, 2012), tt. 113-121.

<sup>662</sup> Emrys ap Iwan, 'Sylwadau am y Rhyfel nad oedd yn Rhyfel', t. 86.

Richard, beirniadai imperialaeth Brydeinig mewn termau moesol ac economaidd ill dau.<sup>663</sup> Ceir, er enghraifft, yr erthygl ‘Pethau a ddarguddir’ yn 1879 sy’n beirniadu agwedd ddi-gwestiwn y wasg tuag at yr Ymerodraeth, ‘Rhyfel y Rhyddfrydwyr’ yn 1882 sy’n canolbwyntio ar ragrith y blaid Ryddfrydol mewn materion imperialaidd, ‘Sylwadau am y Rhyfel nad oedd yn Rhyfel’ yn 1882 sy’n beirniadu dulliau gwaedlyd byddin Prydain, ac ‘Anffyddwyr yn Pregethu Cyfiawnder’ sy’n beirniadu diffyg seiliau moesol i’r fenter imperialaidd.<sup>664</sup> Mae ei gymeradwyaeth o wrthryfel Mahdi Swdan yn yr erthygl olaf hon yn nodweddiadol o ran cywair a chynnwys ei amddiffyniad o bobloedd brodorol:

Gwneled ef a’i ddilynwyr a wnelont, yr wyf fi’n dymuno llwydd ar eu harfau hwy, ac ar arfau pawb y gorfyddo arnynt amddiffyn eu hannibyniaeth yn erbyn gormeswyr, fel yr argyhoedder yr holl bobloedd, yn Gristionogion, yn Fohammediaid, ac yn baganiaid, a hynny cyn dydd y farn, fod Duw yn bod, ac fod hwnnw yn Dduw cyfiawn, am ei fod ‘yn gwneuthur cyfiawnder yn y ddaear.’<sup>665</sup>

Mae’n glir bod Emrys ap Iwan yn cyfrif cyd-israddolion (*co-subalterns*) y byd trefedigaethol yn gymrodyr i’r Cymry, ond roedd ei agwedd yn wahanol iawn i’r agweddau cyffredin a welid yn y wasg Gymreig yn ystod y 1890au. Roedd adroddiadau a phenawdau yn dueddol o adlewyrchu rhagfarn a jingoistiaeth gwasg gyffredin Lloegr, fel y mae pennawd yn y *South Wales Daily News* yn 1895 yn ei ddangos: ‘Traacherous Natives: Attack on Niger Company’s Officials: Good Example of British Pluck’.<sup>666</sup> Er nad oedd carfan arall o genedlaetholwyr Gymreig megis Thomas E. Ellis, David Lloyd George ac Owen M. Edwards yn rhannu rhagfarnau poblogaidd o’r math hwn (o leiaf yn gyhoeddus), roedd yr Ymerodraeth Brydeinig yn batrwm enghreifftiol o ‘deulu’ o genhedloedd heddychlun o dan ofal coron Lloegr iddynt, a gwelent gynsail briodol am hunanlywodraeth i Gymru o fewn gymuned ryngwladol o ddominiynau teyrngar megis Canada, Awstralia a Seland Newydd.<sup>667</sup> Yn wir, gwelodd Edwards yn ei gyfrol *Wales* o 1901 ‘wladgarwch datblygol’ yn

<sup>663</sup> Gw. *Critics of Empire: British Radicals and the Imperial Challenge* (London: I. B. Tauris, 2008) gan Bernard Porter am drafodaeth ddiweddar ar y mudiad gwrth-imperialaidd ym Mhrydain yn y 19g hwyr.

<sup>664</sup> Gweler yn benodol yr erthyglau gwrth-imperialaidd a ysgrifennodd rhwng 1879 and 1885: ‘Pethau a ddarguddir’, *Baner ac Amserau Cymru*, 30 Ebrill 1879, t. 13; ‘Rhyfel y Rhyddfrydwyr’, *Baner ac Amserau Cymru*, 16 Awst 1882, t. 13; ‘Sylwadau am y Rhyfel nad oedd yn Rhyfel’, *Baner ac Amserau Cymru*, 11 Hydref 1882 - ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), tt. 82-89; ‘Anffyddwyr yn Pregethu Cyfiawnder’, *Baner ac Amserau Cymru*, 18 Chwefror 1885, t. 13. Gw. erthygl gan yr awdur presennol am syniadau gwrth-imperialaidd Emrys ap Iwan: Philip R. Davies, ‘Dyna’r chwarae: Emrys ap Iwan ac imperialaeth Brydeinig 1879-1885’, *Ysgrifau Beirniadol*, XXXIII, Rhagfyr 2014, 47-72.

<sup>665</sup> Emrys ap Iwan, ‘Anffyddwyr yn Pregethu Cyfiawnder’, t. 13.

<sup>666</sup> [Dienw], ‘Traacherous Natives: Attack on Niger Company’s Officials: Good Example of British Pluck’, *South Wales Daily News*, 12 Rhagfyr 1895, t. 5.

<sup>667</sup> Pwysig yw nodi y bu David Lloyd George yn beirniadu moddion a methodoleg y Fyddin Brydeinig yn llym yn ystod y Rhyfel Boeraidd. Gweler Dafydd Glyn Jones, ‘Traddodiad Emrys ap Iwan’, yn *Tair Darlith Goffa - Cymdeithas Emrys ap Iwan* (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1991), t. 6.



nhrefedigaethau Prydain, a gweledigaeth i Gymru o 'fywyd mwy hunanymwybodol' a 'gwasanaeth' i'r Ymerodraeth yn y dyfodol:

In the struggle for American Independence, in the developing patriotism of the British Colonies, the Welshman has been among the foremost in devotion and energy. The first period of Welsh history ends with the poet's lament for its fallen princes; the second ends with the poet's vision for a future of more self-conscious life and greater service. The motto of Wales is to be that of its prince - 'Ich dien'.<sup>668</sup>

Nid nythod seirff o bobloedd gorthrymedig a oedd yn barod i godi arfau law yn llaw â'r Cymry mewn gwrthryfel yn erbyn y Saeson oedd y trefedigaethau i Edwards, ond cyd-aelodau o'r Ymerodraeth, yn barod i'w gwasanaethu yn ffyddlon ac yn deyrngar. Yn y ddwy ffordd wahanol hyn o weld perthynas y Cymry â chenedloedd a phobloedd eraill yr Ymerodraeth, ceir tensiwn cysyniadol a rhethregol yn y paradeim disgrysiol na fyddai'n cael ei ddatrys byth.

Roedd maint a sefyllfa Ymerodraeth Sbaen yn hollol wahanol i Ymerodraeth Prydain erbyn chwarter olaf y 19g. Bu i Sbaen golli ei meddiannau helaeth yn Ne America bron i gyd yn Rhyfeloedd Annibyniaeth Sbaen-Americanaidd rhwng 1808 a 1833, ac erbyn diwedd y ganrif nid oedd ond Ciwba, Puerto Rico, Ynysoedd y Philipinau a rhai trefedigaethau bychain ar arfordir gorllewinol Affrica o dan reolaeth Madrid. Bu dirywiad imperialaidd Sbaen yn destun cywilydd cenedlaethol trwy'r 19g, ond byddai'r cywilydd hwn yn troi yn waradwydd a dicter ar ôl gorchfygiad milwrol gan yr Unol Daleithiau yn Rhyfel Sbaenaidd-Americanaidd 1898 a cholli pob meddiant trefedigaethol yn America ac Asia. Sbardunodd *El Desastre del '98* (Trychineb 1898) gyfnod o fewnsyllu deallusol, artistig a gwleidyddol ar draws Sbaen i gyd, ond yng Ngwlad y Basg a Chatalwnia gwelai cenedlaetholwyr reswm cryf arall dros adael gwladwriaeth anfedrus, 'annatblygedig' Sbaen i'w ffawd ac ymuno â chymuned cenedloedd annibynnol y byd yn eu hawl eu hunain. Dyma sut mae Stanley Payne yn esbonio'r sefyllfa:

The Spanish national and colonial disaster of 1898 was a major stimulus to Catalanism and Vizcayanism. The trauma of this catastrophe raised serious doubts as to the viability of Spain in the modern world, promoted a decade of 'Regenerationist' activity in Spanish politics, and encouraged regional businessmen – primarily in Catalonia – to look for an alternative political framework to develop their affairs.<sup>669</sup>

---

<sup>668</sup> Edwards, *The Story of the Nations: Wales*, t. 404.

<sup>669</sup> Payne, *Basque Nationalism*, t. 77.

Mater o siom a chywilydd oedd Trychineb 1898 i rai cenedlaetholwyr Basgaidd felly, cenedlaetholwyr a fyddai, fel arfer, yn cefnogi priodoldeb moesol imperialaeth Ewropeaidd ar draws y byd. Ond i genedlaetholwyr eraill, ac i Sabino Arana yn benodol, nid oedd gan Sbaen yr hawl i oresgyn tiriogaethau tramor yn y lle cyntaf. ‘Hoffem wybod ar sail pa hawl y mae Sbaen yn meddiannu’r ynnysoedd yn Oceanía [Ynnysoedd y De] y mae’n berchen arnynt’, meddai ef yn yr erthygl ‘Un buen patriota’ (‘Gwladgarwr da’) yn 1895, a ‘pha ots sydd gennym y Biscaiaid os bydd Sbaen yn colli ei threfedigaethau i gyd, codi cywilydd arni ei hun, difetha ei hun yn ariannol, a hyd yn oed diflannu oddi wrth fap Ewrop’.<sup>670</sup> At hynny, bu Sabino Arana yn anfon telegram at Arlywydd yr Unol Daleithiau, Theodore Roosevelt, ym mis Mai 1902 yn ei longyfarch am ‘ryddhau Ciwba rhag ei chaethwasiaeth’, sef rhyddhau Ciwba rhag ‘caethwasiaeth’ Sbaen wrth gwrs.<sup>671</sup> Deilliai gwrthdrefedigaethedd Sabino Arana yn uniongyrchol o’i wrth-Sbaeniaeth ym marn José Luis de la Granja Sainz, neu roedd yn cynrychioli ‘cymhelliad arall dros ymosod ar Sbaen’ gan fod y rhyfeloedd trefedigaethol yng Nghiwba a’r Philipinau yn ‘gwanhau gwladwriaeth Sbaen’.<sup>672</sup> Yn yr un modd: ‘Arana seemed less interested in the independence of small peoples’, meddai Stanley Payne, ‘than in diminishing Spain and praising stronger powers who had bested it in overseas competition’.<sup>673</sup>

Fel yn achos Cymru felly, roedd rhai cenedlaetholwyr Basgaidd yn cefnogi mentrau imperialaidd y gorllewin (er bod cyflwr ymerodraeth Sbaen ei hun yn destun cywilydd iddynt), ac roedd rhai eraill yn eu gwrthwynebu ac yn ochri â ‘chaethweision’ y byd trefedigaethol. Fel yn achos Cymru hefyd, erys cwestiynau ynglŷn â chymhelliant eu gwrthdrefedigaethedd.

\* \* \*

Gwelwyd hyd yma, felly, fod haen gyntaf y disgwrs cenedlaethol-drefedigaethol yn sefydlu’r Cymry a’r Basgiaid ar wahân i bobloedd eraill mewn cyfundrefn gategorig ddeuaidd. Mae’r ddwy bobl yn wahanol i’w cymdogion, maent wedi meddiannu ar eu tiroedd yn hirach na’r

---

<sup>670</sup> ‘Nosotros deseáramos saber con qué derecho ocupa España en la Oceanía las islas que posee; y sobre todo, qué es lo que nos importa a los bizkainos que España pierda sus colonias todas, se desprestige y arruine y aún desaparezca del mapa de Europa’: Sabino Arana, ‘Un buen patriota’, *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 4.

<sup>671</sup> ‘Liberating Cuba from slavery’: dyfynnir yn Payne, *Basque Nationalism*, t. 79.

<sup>672</sup> ‘En la práctica, el anticolonialismo de Arana era consecuencia de su antiespañolismo, pues era un motivo más para atacar a España y le venía bien en la medida en que las guerras coloniales en Cuba y Filipinas debilitaban al estado español’: Granja Sainz, ‘El antimaketismo’, 198.

<sup>673</sup> Payne, *Basque Nationalism*, t. 79.

newydd-ddyfodiaid drws nesaf ac maent yn rhagori arnynt mewn materion moesol ac ysbrydol. Gwelwyd hefyd fod ail haen y paradeim disgyrsiol yn mynd ymlaen i adeiladu ar y seiliau hyn a sefydlu cyfundrefn berthynol ddeuol o elynion mewnol ac allanol, gelynion materol a haniaethol, a chymrodyr hen a newydd. Ar yr un pryd, gwelwyd hyd yma fod tensiynau ac anghysonderau rhesymegol a rhethregol yn llifo trwy'r ddwy haen ddisgyrsiol hyn.

Gwelwyd yn y bennod hon, felly, sut y ffurfir delwedd y 'gelyn mawr', neu'r Saeson a Sbaenwyr ysglyfaethus dros y ffin, a sut y priodolir cyfres o drosiadau hanesyddol iddynt. Gwelwyd hefyd, sut bynnag, na wyddys bob tro ai gelyn noeth yw'r cymydog pwerus drws nesaf neu *predominant partner* sy'n awyddus i ofalu am ei gymar llai deallus a llai galluog. Gwelwyd hefyd sut y crëir cyfres o 'elynion mewnol', neu'r Cymry a'r Basgiaid esgeulus, gwasaid neu ffug nad ydynt yn ymddwyn yn gyson â 'dyletswyddau' amlwg y genedl. Gwelwyd teulu cenedlaethol a dorrwyd yn ddarnau gan ansicrwydd ac amheumon felly, a theulu a rennir yn barhaol gan demtasiynau deniadol ei gymydog cyfoethog ac awdurdodol. Gwelwyd hefyd sut mae'r amheumon hyn yn ymestyn hyd at y byd anfaterol a sut y crëir gelynion haniaethol, neu syniadau ac athroniaethau sy'n bygwth gwerthoedd traddodiadol y Cymry a'r Basgiaid. Ond gwelwyd hefyd na wyddys a yw pob newid a wyneba ein cenedloedd yn y byd modern yn niweidiol neu yn fuddiol, ac ni wyddys a yw polisiau o waredu gwahaniaethau diwylliannau er lles economaidd y genedl yn gyson â pholisiau sy'n ceisio diogelu'r gwahaniaethau hynny er lles ei chyfoeth ysbrydol. Gwelwyd cyfres o elynion disgyrsiol felly, gelynion a grëwyd gan bobl mewn cyflwr o ansicrwydd ac ansadrwydd diwylliannol a gwleidyddol.

Gwelwyd cyfres o gyfeillion hefyd, sut bynnag, gan ddechrau â'r pobloedd Ewropeaidd sy'n eu cael eu hunain mewn sefyllfaoedd cyfansoddiadol tebyg i'r Cymry a'r Basgiaid megis y Gwyddelod a'r Catalaniaid, a gelynion ein gelyn mawr, sef pwerau milwrol eraill y byd imperialaidd. Gwelwyd, sut bynnag, na wyddys a yw pob un o'r cymrodyr newydd hyn yn gynghreiriad cywir neu yn gyfaill rhethregol cyfleus, wedi'i ddyfeisio i atgyfnerthu dadleuon cenedlaetholgar ein hawduron. Yn olaf yn y bennod hon, gwelwyd sut y cefnogir brodyr ysbrydol mewn trefedigaethau pell eraill y byd imperialaidd. Ond gwelwyd hefyd na wyddys ai cyd-israddolion yn barod i godi arfau yn erbyn y genedl ormesol ydym 'ni' neu gyd-aelodau ffyddlon o'r dosbarth ymerodrol.

Gwelwyd hyd yma, felly, fod dwy haen gyntaf y paradeim disgyrsiol cenedlaethol yn ceisio creu bydysawd deuol clir o bobloedd gwahanol â gelynion a chyfeillion penodol. Gwelwyd hefyd, sut bynnag, fod y ddwy haen hyn yn methu cyflawni hyn mewn ffordd hollol gyson a chadarn ymysg toreth o amheuon a datganiadau gwrthwynebus a gwrthdynciadol. Seiliau i baradeim disgyrsiol cenedlaethol-drefedigaethol a welir yn y ddwy haen gyntaf yn y pen draw.



### **Haen 3: Diffygion a chywiriadau**

Ar sail y ddwy haen a gyflwynwyd uchod adeiladir trydedd haen y paradeim disgyrsiol. Dyma'r haen sy'n cyflwyno cyflwr a phroblemau presennol ein cenedloedd; dyma broblemau, gan mwyaf, sy'n tarddu o weithgareddau'r gelynion allanol a mewnol a welwyd yn gynharach. Dyma'r haen sy'n cynnig llwybr goleuedig tuag at ddyfodol gwell ym marn ein hawduron, sut bynnag, neu haen lle mae diagnosis a phrognosis cenedlaetholgar yn cael eu hateb â phresgripsiwn gwleidyddol cenedlaetholgar.

At hynny, cyflwynir cyfres o ddiffygion a chywiriadau arfaethedig ar draws sbectrwm o faterion mor amrywiol â'r iaith frodorol, y gyfundrefn addysg, cyflwr llenyddiaeth, hanesyddiaeth a chelf; purdeb hiliol, trefniadau crefyddol, symbolau'r genedl, a'r economi wledig. Ond haen fwyaf dryslyd, anghyson ac aneglur y paradeim disgyrsiol yw'r haen hon hefyd; haen y mae lluosogrwydd o leisiau yn cystadlu ynddi i sefydlu eu dehongliad o'r presennol a'u gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Ai 'gwanwyn llawen' sy'n 'blodeuo addewid' yn ystod 'tymor o ddeffroad' yw ffawd Cymru yn y 1890au, fel y dadleuodd Thomas E. Ellis, neu ddyfodol erchyll o dan lywodraeth Lloegr, neu 'wareiddiad nad yw'n ddim amgen na barbareidd-dra o'r fath waethaf wedi ei wyngalchu oddi allan' fel y rhagwelodd Emrys ap Iwan?<sup>674</sup> Tensiynau parhaol mewn disgwrs, rhethreg a rheswm sy'n nodweddu arteffactau disgyrsiol y bennod hon.

### **Mae gennym orffennol gwych, presennol adfydus a dyfodol iwtopaidd**

Bu Peredur Lynch yn dadlau mewn erthygl o 2007 fod delwedd driphlyg ganolog ar waith yng nghanu proffwydol Cymraeg yr Oesoedd Canol, neu ddelwedd sy'n cyflwyno cenedl ac iddi 'orffennol gwych', 'presennol adfydus' a 'dyfodol iwtopaidd'.<sup>675</sup> Gellid dadlau bod delweddaeth debyg i'w gweld yn nhrydedd haen ein disgyrsiai cenedlaethol-drefedigaethol, ac eithrio, efallai, gyda mymryn llai o sicrwydd o ran faint o wychder, adfyd neu iwtopia y

---

<sup>674</sup> 'As we look round upon the life and the activities of our day in Wales, I think we cannot but feel that we are in the glad spring-time for Wales [...] and I think in a season of awakening, it is right and well and perhaps a duty on our part to see what is the meaning of the awakening': Thomas E. Ellis, 'Domestic and decorative art in Wales: a lecture delivered to the Hon. Society of Cymmrodorion on March 10th, 1897', yn Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrexham: Hughes and Son, 1912), t. 30. Daw darn Emrys ap Iwan o Hooson, 'Emrys ap Iwan', 163.

<sup>675</sup> Lynch, *Proffwydoliaeth*, t. 29.

mae awduron cenedlaetholgar y 19g yn ei weld. At hynny, dehongliad triphlyg o hanes Cymru oedd wrth sail ysgrifau gwleidyddol y cenedlaetholwr Cymreig J. Arthur Price yn ystod y 1890au, ym marn Frances Knight: '[Price] promulgated the remarkably common approach to Welsh historiography which emphasized lost glories, a difficult present and a glorious future'.<sup>676</sup> 'Ysbeilio'r gorffennol' a wnaeth Price er mwyn gwneud pwynt am y presennol, meddai Knight, er ei fod yn 'ddistaw' ynglŷn ag ystyriaethau ymarferol cenedlaetholdeb megis materion economaidd.<sup>677</sup>

Yn yr un modd, mae'n ddiddorol ystyried y darn isod mewn erthygl ddiennw yn *Y Cymro* yn 1895. Mae'r awdur yn trafod darlith gyhoeddus ddiweddar gan Syr Vaughan Williams ar y pwnc 'Y Cymeriad Celtaidd'. Dywedodd Williams fod y Celtiaid yn 'cael eu hadfywio' ar y pryd cyn mynd ymlaen i ddisgrifio eu ffawd yn y gorffennol:

Buont yn fyw iawn o'r blaen, ond claddwyd hwy am flynyddau, a da oedd gan [yr anerchwr] weled ysbryd adgyfodiad yn rhoddi bywyd ynddynt yn awr. Bu'r Celt yn weithredydd pwysig yn nhynged cenedloedd mewn oesau aethant heibio, ac yr oedd ei allu yn cael ei deimlo eto.<sup>678</sup>

Bu'r Celtiaid 'yn fyw iawn o'r blaen' ym marn Williams, felly, ond 'claddwyd hwy am flynyddoedd'. Mewn geiriau eraill, roedd gan y Celtiaid 'orffennol gwych' cyn i rywun arall eu claddu a dwyn eu 'presennol adfydus' arnynt. Yn ffodus iawn i'r Celt, sut bynnag, 'ysbryd adgyfodiad' sydd yn yr awyr erbyn hyn a bydd ei 'allu' yn 'cael ei deimlo eto'. Fel yn achos canu proffwydol Cymraeg yr Oesoedd Canol, dyma genedl a gollodd ei ffordd yn y gorffennol ac sy'n chwilio am lwybr newydd yn y presennol.

'Cenedlaetholdeb dyrchafedig' oedd y llwybr y teimlai Syr Vaughan Williams ei fod yn weddus i'r Cymry ei ddilyn yn yr achos hwn, a dim ond trwy 'gadw y rhwymau cenedlaethol oedd yn eu huno' y byddent yn ei ganfod.<sup>679</sup> 'Yr iaith Gymraeg, llenyddiaeth Gymraeg, y wasg, yr eisteddfod, ac arferion Cymreig eraill' oedd y rhwymau cenedlaethol yr oedd Williams yn eu hyrwyddo, ac 'wrth gadw y nodweddion hyn, agorent [y Cymry] lwybrau newydd iddynt eu hunain, ac ni chyfyngid ar eu galluoedd i fod o les i genhedloedd eraill'.<sup>680</sup> Eto, nid yw hunanlywodraeth i Gymru neu unrhyw bolisi cymdeithasol neu economaidd arall yn ymddangos yn rhestr Williams o flaenoriaethau 'cenedlaetholdeb

<sup>676</sup> Knight, 'Welsh nationalism and Anglo-Catholicism', t. 108.

<sup>677</sup> Knight, 'Welsh nationalism and Anglo-Catholicism', t. 108.

<sup>678</sup> [Dienw], 'Y Cymeriad Celtaidd', t. 7.

<sup>679</sup> 'Dymunai ddweyd gair am y modd i gadw y cenedlaetholdeb dyrchafedig hwn. Anmhosibl iddynt oedd ei gadw heb gadw y rhwymau cenedlaethol oedd yn eu huno': [dienw], 'Y Cymeriad Celtaidd', t. 7.

<sup>680</sup> [Dienw], 'Y Cymeriad Celtaidd', t. 7.

dyrchafedig'. Hollol ddiwylliannol yw problemau'r genedl i'r cenedlaetholwr hwn, a hollol ddiwylliannol yw ei atebion, ac o ganlyniad, ei ddiffyniad o 'genedlaetholdeb dyrchafedig' ynddo ei hun.

Buddiol cymharu diffiniad cenedlaetholdeb diwylliannol Syr Vaughan Williams â'r rhestr o bolisiau cenedlaethol a gyflwynodd Michael D. Jones gerbron Cymdeithas Wleidyddol y Gweithwyr yn Llandderfel, Mai 21, 1885:

- 1) Cael Plaid Gymreig yn y Senedd
- 2) Dysgu Cymraeg yn yr ysgolion dyddiol
- 3) Cael afonydd yn rhyddion
- 4) Cael y mynyddoedd yn rhyddion i'w hamaethu, ac nid i fagu helwriaeth
- 5) Dadgysylltiad a Dadwaddoliad
- 6) Gwella, neu ddiddymu Tŷ'r Arglwyddi
- 7) Gwella deddfau helwriaeth
- 8) Cael byl tirol tebyg i'r un Gwyddelig<sup>681</sup>

Wrth gydnabod mai cynulleidfa o weithwyr gwledig a oedd o'i flaen, mae'n ddi-ddorol nodi bod blaenoriaethau Jones yn rhai hollol wleidyddol, economaidd ac ymarferol (heblaw am 'ddysgu Cymraeg yn yr ysgolion dyddiol'), a gellir tybio bod mwy na thinc o gymhelliant gwleidyddol ac economaidd yn ei alwadau am ddatgysylltu Eglwys Loegr. Ond dyma brif bwynt yr adran gyntaf hon: di-rif oedd yr asesiadau o gyflwr a phroblemau Cymru a Gwlad y Basg a ymddangosodd yn y wasg yn y 1890au, a lluosog ac amrywiol oedd y gwahanol ddatrysiadau a gynigiodd yr awduron. 'Y rhaglen sy'n cydweddu orau â thraddodiad hynafol a buddiannau go iawn y teulu Basgaidd, yw ein rhaglen ni', meddai golygyddion *Euskalduna* yn 1896, wrth gydnabod (mewn ffordd anewyllysgar, bid sicr) fod mwy nac un rhaglen wleidyddol ar gael.<sup>682</sup> Yr unig bethau a unai'r holl leisiau croes hyn oedd y ffaith eu bod yn gweld problemau yn y lle cyntaf, y ffaith eu bod yn priodoli'r problemau hyn i Gymru neu i Wlad y Basg yn benodol, a'r ffaith eu bod yn cynnig atebion â therfynau daearyddol Cymreig neu Fasgaidd: hynny yw, roeddent yn gweld diffygion 'cenedlaethol', ac roeddent yn cynnig cywiriadau 'cenedlaethol'. Y peth sy'n uno Cymru a Gwlad y Basg yn y 1890au o safbwynt beirniadol yr 21g yw'r ffaith bod y ddwy wlad anghysylltiedig hyn yn rhannu mwy nag un o'r diffygion cenedlaethol a welid gan ein cenedlaetholwyr a mwy nag un o'u hatebion hefyd.

---

<sup>681</sup> Dyfynnir yn Jones, 'Michael D. Jones', t. 21.

<sup>682</sup> 'El programa que mejor se ajusta á la tradición secular y al verdadero bienestar de la familia vascongada, es el nuestro': [dienw], 'Lo que somos', t. 9.



## Rhaid i ni gadw ein hiaith frodorol

Fel y gwelwyd uchod yn yr erthygl ‘Y Cymeriad Celtaidd’, pennaf ymysg blaenoriaethau nifer o genedlaetholwyr y 1890au oedd amddiffyn y ‘rhwymau cenedlaethol’ oedd yn uno’r genedl neu, mewn termau mwy cyffredin, cadw diwylliant brodorol y Cymry a’r Basgiaid yn fyw. I Emrys ap Iwan, a charfan fach o genedlaetholwyr Cymreig eraill y cyfnod, colli’r iaith Gymraeg oedd y prif berygl i’r genedl yn y 1880au a’r 1890au. Heb yr iaith Gymraeg, ‘ddim amgen na Saeson heb eu llwyr wareiddio’ fyddai’r Cymry, meddai Emrys yn ‘Paham y Gorfu’r Undebwyr’ yn 1895, ac wrth fethu parchu’r iaith ‘trwy barablu iaith ein gorchfygwr heb raid nac achos’, methu parchu eu hunain oedd y Cymry.<sup>683</sup> Yn ychwanegol at hynny, pan ‘[baid] dyn â pharchu ei hun y mae hwnnw i bob perwyl wedi peidio â bod’.<sup>684</sup> Buddiol yw ystyried y darn i gyd:

Ni allwn argyhoeddi estroniaid ein bod yn ddim amgen na Saeson heb eu llwyr wareiddio os na bydd gennym iaith wahanol. I ni, y Gymraeg yw’r unig wrthglawdd rhyngom a diddymdra, ac y mae’r sawl a dorro’r gwrthglawdd hwnnw, trwy barablu iaith ein gorchfygwr heb raid nac achos yn euog o ddibrisdod sy’n dangos eu bod wedi colli pob parch iddynt eu hunain; a phan beidio dyn â pharchu ei hun y mae hwnnw i bob perwyl wedi peidio â bod.<sup>685</sup>

Dyma gyflwyniad rhamantaidd iawn o’r berthynas rhwng iaith a’r genedl wrth gwrs, lle mae cenedl ieithyddol yn cael ei chreu gan natur ei hun. Cymharer y cyfieithiad hwn o un o athronwyr cenedlaetholdeb rhamantaidd y 19g gynnar, Johann Gottlieb Fichte:

The first, original, and truly national boundaries of a state are beyond doubt the internal boundaries. Those who speak the same language are joined to each other by a multitude of invisible bonds by nature herself, long before any human art begins.<sup>686</sup>

Mae dyn a chenedl ‘yn peidio â bod’ os yw dyn yn esgeuluso ei iaith, meddai Emrys, ac o ganlyniad, mae’n rhoi goroesiad yr iaith, ac felly gweithredoedd gwleidyddol sy’n anelu at hynny, o flaen pob mater cenedlaethol arall. Pan wynebwyd Emrys yn 1881 gan wrthdrawiad rhwng polisïau ei enwad i ffynnu yn y dyfodol trwy agor achosion Saesneg eu hiaith mewn ardaloedd Cymraeg, a’i egwyddorion i amddiffyn yr iaith Gymraeg ar bob adeg, fe ddatganodd ei flaenoriaethau o flaen Cymdeithasfa’r Methodistiaid Calфинаidd yn glir iawn: mae ffyddlondeb i’r iaith yn ‘annadleuadwy’:

<sup>683</sup> Emrys ap Iwan, ‘Paham y Gorfu’r Undebwyr’, t. 23.

<sup>684</sup> Diddorol yw nodi, yng nghyd-destun y datganiad hwn, na fu Emrys byth yn trafod sefyllfa ieithyddol yr Alban neu’r Unol Daleithiau. Gweler R. T. Jenkins, ‘Emrys ap Iwan’, *Efrydydd*, Ionawr 1925, 90-4. Ailgyhoeddwyd yn *Yr Apêl at Hanes ac Ysgrifau Eraill* (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1930), t. 90.

<sup>685</sup> Emrys ap Iwan, ‘Paham y Gorfu’r Undebwyr’, t. 23.

<sup>686</sup> Dyfynnir yn Kedourie, *Nationalism*, t. 64.

Nid wyf yn cyfrif ffyddlondeb neu anffyddlondeb i iaith yn bwnc dadleuadwy. Ni allwn bleidio dim â thuedd ynddo i Seisnigo'r Cymry heb fyned yn erbyn fy argyhoeddiadau politicaidd.<sup>687</sup>

Fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol wrth iddo ddiffinio gwladgarwyr Cymreig 'cywir', 'cadw Cymru yn Gymreig o ran iaith ac ysbryd yw'r pwnc pwysicaf o bob pwnc gwleidyddol' ym marn Emrys ap Iwan, a chadw'r 'Gymraeg yn fyw ac yn iach yw'r unig Geidwadaeth y mae'n weddus i'r Cymry ymagnïo i'w hamddiffyn'.<sup>688</sup>

Bu Emrys yn ysgrifennu yn aml ac yn helaeth yn y wasg trwy'r 1880au a'r 1890au ar y polisiau ieithyddol a ystyriai yn hanfodol i 'gadw Cymru yn Gymreig'. Yn gyntaf, fel y datganodd yn yr erthygl 'At y Cymry o'r Cymry' yn 1892, nid yn unig y dylid dysgu Gymraeg yn yr ysgolion cynradd, ond dylai'r iaith Gymraeg fod yn 'iaith swyddogol y wlad': 'ni ellir cadw iaith y Cymry oni ddysgir hi yn gyntaf dim yn yr ysgolion', meddai ef, 'a'i gwneuthur yn iaith swyddogol y wlad.'<sup>689</sup> At hynny, dylai statws swyddogol y Gymraeg estyn at y llysoedd barn ym marn Emrys, fel mae ei ddatganiadau yn Llys Ynadon Rhuthun ym mis Hydref 1889 yn tystio iddo. Wrth ymddangos gerbron y llys fel tyst, gwrthododd Emrys siarad unrhyw air o Saesneg, er gwaethaf protestiadau anghrediniol y fainc, a bu'n rhaid i'r ynadon ohirio trafodion yr achos am bythefnos. Yn ei ddatganiad syml wrth swyddogion y llys, 'Cymraeg yng Nghymru, os gwelwch yn dda', gwelwyd y datganiad cyntaf yn hanes modern Cymru na ddylid gwahardd y Gymraeg rhag unrhyw ofod cyhoeddus yn y wlad.<sup>690</sup>

At hynny, ac yn adlewyrchu barn Fichte fod dysgu Almaeneg yn lle Ffrangeg yn yr Almaen yn fater 'moesol', roedd dysgu'r iaith Gymraeg mewn ysgolion yng Nghymru yn ddyletswydd foesol i Emrys ap Iwan.<sup>691</sup> Mae 'dysgu'n dda ein hiaith ein hunain yn ddyletswydd foesol', meddai ef yn yr erthygl 'Dysgu Gymraeg yn yr Ysgolion Beunyddiol' yn 1895, wrth fynd ymlaen i ychwanegu ei fod yn 'ddyletswydd grefyddol nad ydyw hi'n ail i un ddyletswydd arall', sef barn a gafodd ei hailadrodd mewn erthygl gan Idrisyn Jones yn *Young Wales* flwyddyn yn ddiweddarach: 'The Moral Importance of Retaining our Welsh

---

<sup>687</sup> Darn o anerchiad Emrys ap Iwan o flaen Cymdeithasfa'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llanidloes yn 1881. Dyfynnir yn T. Gwynn Jones, *Emrys ap Iwan: Dysgawdr, Llenor, Cenedlgarwr – Cofiant* (Abertawe: Hughes a'i Fab, 1978), t. 93.

<sup>688</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 23.

<sup>689</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'At y Cymry o'r Cymry', *Y Geninen*, Ebrill 1892, t. 52.

<sup>690</sup> Gw. Evans, 'Ein dyled i Emrys ap Iwan', t. 36. Diddorol yw nodi y bu enghreifftiau helaeth o gam-ddedfrydu ac o gam-gosbi carcharorion yn y 19g, mae'n debyg, am fod iaith y llys yn Saesneg ac iaith y rheithwyr yn Gymraeg. Gw. Jones, 'Michael D. Jones', t. 18.

<sup>691</sup> Gw. Jones a Turnbull (goln), *Addresses to the German Nation*, t. 36.

Language'.<sup>692</sup> Yn ychwanegol at ystyriaethau moesol a chrefyddol, sut bynnag, roedd dysgu pynciau academiaidd eraill trwy'r iaith Gymraeg yn fanteisiol i'r plant o safbwynt addysgedd diweddaraf y Cyfandir, meddai Emrys:

It is now acknowledged that the educational system devised by a monoglot merchant like Foster is disadvantageous to the English themselves, but for the Welsh it is worse than disadvantageous [...] I would not venture to speak so definitely had I not consulted greater people than myself; for I have heard leading scholars in Heidelberg, Bonn and Giessen say how surprised they are that the Welsh can tolerate an educational system devised for the English.<sup>693</sup>

Dyma safiad sy'n adlewyrchu barn Michael D. Jones nad dysgu Cymraeg fel pwnc arall yn yr ysgolion beunyddiol oedd yr angen ond addysg gwbl Gymraeg yn rhanbarthau gwledig Cymru.<sup>694</sup> At hynny, 'athrofeydd bychain na byddai mo'u rhagorach mewn un wlad' fyddai ysgolion Cymreig pe baent yn ceisio 'diwyllio' plant Cymru yn lle eu 'Seisnigo', dywedodd Emrys unwaith.<sup>695</sup> Mewn termau cyffredinol, roedd angen 'meithrin' yr iaith Gymraeg ym marn Emrys ap Iwan, a phe llwyddid i wneud hynny, byddai diwylliant dyfodol y Cymry mor ddisglair â diwylliant gorffennol y Saeson: 'Os nad oes gennym un Shakespeare, y mae gennym iaith odidog, ac emynau ac alawon heb eu bath; ac os meithrinwn ein hiaith, odid na fydd yfory'r Cymry cyn deced â doe'r Saeson'.<sup>696</sup>

Nid Emrys ap Iwan yn unig a ysgrifennodd ar sefyllfa'r iaith ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod ail hanner y 19g. Wele'r cenedlaetholwr cynnar R. J. Derfel yn ysgrifennu yn 'Pethau a wnawn pe bai gennyf arian' yn 1864 am ei awydd i adeiladu 'ysgoldy ym mhob tref a phentref yng Nghymru', ac 'yn ei roi yn anrheg i Gymru' ar yr amod 'bod yr iaith Gymraeg i gael ei dysgu ynddo tra rhedai dŵr'.<sup>697</sup> Buddiol yw ystyried darn estynedig o'r erthygl a nodi ehangder uchelgais Derfel:

Câi ei enw ei gerfio mewn llythrennau mawrion ar ei wyneb yn Gymraeg. Câi'r argraffdy argraffu llyfrau ysgol ar bob gwybodaeth yn Gymraeg, i ddysgu ac egwyddori'r plant ynddynt. Câi'r plant ddysgu darllen a rhifo ac ysgrifennu yn Gymraeg. Caent ddysgu Saesneg hefyd, ond trwy gyfrwng y Gymraeg. Câi'r plant

<sup>692</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Dysgu Cymraeg yn yr Ysgolion Beunyddiol (Papur a Ddarllenwyd yn Nghyfarfod Ysgolion Dosbarth Dinbych)', *Baner ac Amserau Cymru*, 27 Chwefror 1895, tt. 3-4. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), t. 180. Rev. Idrisyn Jones, 'The Moral Importance of Retaining our Welsh Language', *Young Wales*, Vol. I/No. 20, Awst 1896, tt. 181-185.

<sup>693</sup> Dyfynnir yn Lloyd, *Emrys ap Iwan*, t. 18.

<sup>694</sup> Jones, 'Michael D. Jones', t. 18.

<sup>695</sup> Dyfynnir yn Menai Williams, 'Cysylltiad Emrys ap Iwan â phobl ieuanc a phlant', yn *Tair Darlith Goffa - Cymdeithas Emrys ap Iwan* (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1991), t. 28.

<sup>696</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 23.

<sup>697</sup> Derfel, 'Pethau a wnawn', tt. 112-118.

ddysgu canu tonau Cymraeg yn Gymraeg, a chaent eu hegwyddori yn hanes a llenyddiaeth y Cymry. Byddwn yn gofalu am wneud yr ysgolion i gyd i'r Cymry yr hyn yw ysgolion Saesneg i'r Saeson.<sup>698</sup>

'Llyfrau ar bob gwybodaeth' fyddai yn yr ysgolion hyn, llyfrau ar '[dd]arllen a rhifo ac ysgrifennu', 'tonau Cymraeg', 'hanes a llenyddiaeth y Cymry', a hyn i gyd (gan gynnwys dysgu Saesneg) trwy gyfrwng y Gymraeg; popeth, yn y bôn, yr oedd ysgolion Saesneg yn ei ddarparu i blant Lloegr. Yn ddiweddarach yn yr erthygl, pan ofyn Derfel y cwestiwn rhethregol i'w ddarllenwyr, 'pa les dysgu [plant] yn Gymraeg?', datgana yn glir mai'r 'un lles yn union â'u dysgu yn Saesneg' yw'r ateb, 'a phe bai'r arian gennyf, mi fyynnwn ddangos hynny yn weithredol'.<sup>699</sup> Dyma hawliad o gyfartaledd diwylliannol y Gymraeg heb ei gysail gan R. J. Derfel, a hynny mor gynnar â 1864.

Erbyn 1896, roedd erthyglau megis 'Cymry yn ysgrifennu Saesneg' yn cael eu cyhoeddi mewn cylchgronau mor annhebygol â'r cylchgrawn sosialaidd o Aberdâr, *Tarian y Gweithiwr*, yn cwyno am y Cymry a oedd yn troi at Saesneg i 'ffugio bri cymdeithasol'.<sup>700</sup> Ac mewn erthygl angerddol yn y cylchgrawn *Wales* ym mis Hydref 1896, wele W. Llewelyn Williams yn dadlau bod y Gymraeg wedi cael ei hesgeuluso dros gyfnod maith gan lywodraeth Prydain a chan addysgwyr Cymreig, ac wrth fynd ymlaen i apelio at theorïau addysgol newydd oedd yn cynnal mai addysg ddwyieithog oedd yr addysg orau i blant, honnodd fod y Cymry ar drothwy cyfnod gogoneddus, dim ond iddynt fanteisio ar y cyfle i wella'r gyfundrefn addysgol yng Nghymru:

We cannot do better than to accept the unanimous opinion of educationists of every age and every country. Their opinion is that a linguistic training, - a training in the idioms and construction of two or more languages, - affords the best training for the mind [...] If, therefore, a linguistic training is admitted to be the best kind of education, it will be seen that the survival of Welsh is not a curse, but a blessing [...] For purposes of education, one language is almost as good as another, and we may certainly take it for granted that Welsh is, in this respect, at least the equal of English or French.<sup>701</sup>

Yn yr un modd, pe dysgid Saesneg trwy'r iaith Gymraeg, meddai J. H. Davies yn 'Wales and the English' yn y cylchgrawn *Young Wales* yn 1895, byddai'r Cymry yn medru'r ddwy

<sup>698</sup> Derfel, 'Pethau a wnawn', t. 113.

<sup>699</sup> Derfel, 'Pethau a wnawn', t. 114.

<sup>700</sup> [Dienw], 'Cymry yn Ysgrifenu Saesneg', *Tarian y Gweithiwr*, 2 Gorffennaf 1896, t. 2.

<sup>701</sup> Williams, 'The Claims of the Welsh Language', t. 455.

iaith.<sup>702</sup> Ac yn ailadrodd barn Llewelyn Williams, byddai meddwl a gweithio mewn dwy iaith yn rhoi dealltwriaeth well o'r byd o'u cwmpas, meddai Davies:

There is another benefit which will accrue from the concurrent teaching of English and Welsh, for not only is the pupil sure of obtaining a more thorough knowledge of English, but being able to speak, write, and read two languages with ease, he will also have a wider sympathy and a broader outlook on the world around him. The continual mental comparison between two languages, two systems and two types of ideals can do nothing but good.<sup>703</sup>

Dyma gyfres o ddatganiadau yn ein paradeim disgyrsiol, felly, sy'n portreadu sefyllfa fregus i'r iaith Gymraeg, ac sy'n cynnig addysg trwy'r iaith Gymraeg fel prif ffordd i ddatrys y broblem hon. Dyma ddatganiadau hefyd, fel mae'n digwydd, sy'n cael eu hadlewyrchu yn y paradeim disgyrsiol Basgaidd.

'A'n harferion wedi dirywio', meddai awdur dienw'r erthygl 'La lengua Euskara' ('Yr iaith Fasgeg') yn *Euskalduna* yn 1896, 'ai ceisio diogelu'r iaith yw'r lleiaf y gallwn ei wneud, iaith sy'n grair mirain ein gorffennol a dadl anatebadwy o blaid adfer ein hawliau?'<sup>704</sup> Gan adlewyrchu safiad rhamantaidd Emrys ap Iwan, felly, yr iaith Fasgeg (ynghyd ag hen arferion y wlad) a roddai'r hawl i'r Basgiaid adfer eu *fueros* a'u hunanlywodraeth yn ôl yr awdur hwn, sef yr hawl naturiol i fod yn genedl ar wahân. At hynny, tra bod awdur yr erthygl 'Una pregunta' ('Un cwestiwn') yn yr un rhifyn o *Euskalduna* o'r farn bod 'anarchiaeth' yn 'teyrnasu' ar orgraff Basgeg (i'r graddau ei fod 'mewn penbleth' wrth ystyried sut i sillafu rhai geiriau Basgeg yn nhudalennau'r cylchgrawn), nid trwy ddulliau academiaidd y byddai'r Basgiaid yn diogelu eu hiaith, meddai awdur 'La lengua Euskara'.<sup>705</sup> 'Ofer' fyddai adlunio 'adeiladwaith', 'rheolau ynganu' a 'systemau orgraffyddol' yr iaith, meddai ef, tra bod Basgiaid a fu'n 'meddwl yn yr iaith Fasgeg' yn y gorffennol bellach yn meddwl 'yn Sbaeneg yn unig'.<sup>706</sup> 'Dylai pawb sy'n awyddus i weld gwlad yr Euskara'n adfywio', meddai, 'hefyd ddymuno gweld yr unig fodd y bydd hynny yn cael ei wireddu', sef 'meddwl yn yr iaith

---

<sup>702</sup> 'If English were taught to Welsh children through the medium of Welsh, as Latin is taught to English children through the medium of English, Welshmen would soon be conversant in both languages': Davies, 'Wales and the English', t. 160.

<sup>703</sup> Davies, 'Wales and the English', t. 160.

<sup>704</sup> 'Deterioradas nuestras costumbres, qué menos podemos hacer que pretender conservar la lengua, hermosa reliquia de nuestra pasada existencia, argumento irrefutable en favor de la recuperación de nuestros derechos?': [dienw], 'La Lengua Euskara', t. 4.

<sup>705</sup> 'Es tal la anarquía que reina, tratándose de ortografía euskara, que á veces nos vemos perplejos ante el modo cómo hemos de escribir ciertas palabras': [dienw], 'Una pregunta', *Euskalduna*, Año I/Número 1, 13 Medi 1896, t. 6.

<sup>706</sup> 'En vano algunos entusiastas patriotas pretenden reconstruir el edificio de nuestro idioma. ¡Que valen las reglas prosódicas ni los sistemas ortográficos si el pueblo que pensaba en euskara, no piensa sino en castellano!': [dienw], 'La Lengua Euskara', t. 3.

Fasgeg'; wrth gydnabod, sut bynnag, fod y gorchwyl hwnnw'n 'anodd'.<sup>707</sup> Ar y llaw arall, fe fu awdur yr erthygl 'Sirimiri' (glaw mân ysgafn) yn *Euskalduna* o 1896, yn dadlau bod dysgu'r iaith Fasgeg 'mewn cyfnod mor fyr' ag y cymerodd un cyfrannwr i'r cylehgrawn i'w dysgu yn 'llawer haws' nag yr oedd pobl yn ei feddwl, wrth annog pobl ifanc i 'ddilyn enghraifft ein cyfaill'.<sup>708</sup> Ar ben hyn oll, meddai awdur 'La lengua Euskara', byddai sefydlu ysgolion 'gwirioneddol Fasgeg eu hiaith' yn hwb i bobl Gwlad y Basg feddwl yn Fasgeg, 'pe llwyddid i gynyddu eu nifer am gyfnod estynedig ar draws y wlad'.<sup>709</sup>

Nid oedd pob gwladgarwr Cymreig a Basgaidd yn y cyfnod dan sylw yn ystyried yr iaith Gymraeg neu'r iaith Fasgeg yn flaenoriaeth genedlaethol, sut bynnag. 'Diffyg diddordeb cymharol dros fater yr iaith' a nodweddi meddwl gwleidyddol radicaliaid Cymru cyn 1914, medd Kenneth O. Morgan, radicaliaid a oedd yn fodlon i weld yr iaith Gymraeg yn marw ar allor egwyddorion rhyddfrydol megis 'cynnydd' a masnach rydd.<sup>710</sup> Dyma radicaliaid megis Gruffydd Rhisiart (Richard Roberts, 1810-83), brawd Samuel a John Roberts, a ysgrifennodd erthygl i'r *Cronicl* yn 1851 yn erbyn sefydlu trefedigaeth Gymraeg dramor. 'Mymryn o benwendid y beirdd a'r llenorion ydyw eu hymdrech i gadw yr hen iaith wrth ben ei thraed trwy gyfrwng ategion a ffyn baglau', meddai ef, gan ychwanegu, 'gadawer iddi farw heb gael ei phoeni â balmau a phlasterau Cymreigyddion ac Eisteddfodau'.<sup>711</sup>

Yn wir, bu dynion megis James 'Kilsby' Jones, 'un o'r enghreifftiau mwyaf digrif o Philistiaeth Oes Victoria yng Nghymru' yn ôl E. G. Millward,<sup>712</sup> a John Thomas 'Lerpwl', yn ysgrifennu yn agored yn y wasg nad oedd marwolaeth y Gymraeg ddim ond anochel ond hefyd yn fanteisiol i fywyd y genedl. A thra bod un o fawrion deallusol yr oes, Lewis Edwards, yn gwrthwynebu cerydd moesol y 'Llyfrau Gleision' yn gryf, cefnogodd argymhellion ieithyddol yr adroddiad yn frwd, gan ddatgan 'gan fod y deyrnas yn mynd yn Saeson, y mae'n rhaid i ninnau hefyd fyned ar eu hôl'.<sup>713</sup> Yn wir, roedd hen brifathro Emrys

---

<sup>707</sup> 'Todo el que quiera que el país euskaro se regenere, debe querer también para ese fin el único medio posible: pensar en euskara. Es difícil; lo sabemos': [dienw], 'La Lengua Euskara', t. 4.

<sup>708</sup> 'Se propone demostrar á aquellos que no creen en la posibilidad de aprender tan hermosa lengua en tiempo tan corto, como cualquiera otra, que están en error, y que por el contrario, la empresa es mucho más fácil de lo que se imaginan [...] Por nuestra parte felicitamos al autor de la bonita fábula, y excitamos á nuestros jóvenes á que imiten el ejemplo de nuestro amigo': [dienw], 'Sirimiri', t. 7.

<sup>709</sup> 'La fundación de escuelas genuinamente vascongadas es [...] un excelente medio, si se logran multiplicar indefinidamente por todas partes': [dienw], 'La Lengua Euskara', t. 4.

<sup>710</sup> 'Comparative lack of interest among Welsh radicals before 1914 in the language issue': Morgan, 'Welsh nationalism', 171.

<sup>711</sup> Dyfynnir yn Jones, 'Michael D. Jones a thynged y genedl', t. 64.

<sup>712</sup> E. G. Millward, 'O. M. Edwards – Rhai sylwadau ar ei waith llenyddol', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976), tt. 37-38.

<sup>713</sup> Dyfynnir yn Evans, 'Ein dyled i Emrys ap Iwan', t. 29.

ap Iwan yng Ngholeg y Bala yn edifarhau ei fod wedi cysegru cymaint o amser i ysgrifennu yn y Gymraeg o gwbl, mae'n debyg: 'I have taken the Welsh, and am sometimes rather sorry for it', meddai ef unwaith, braidd yn eironig, yn Saesneg.<sup>714</sup>

Roedd y frwydr i amddiffyn iaith frodorol y genedl yn erbyn iaith fetropolitanaid y wladwriaeth yn cael ei gwawdio gan rai yng Ngwlad y Basg hefyd. 'Un o'r pethau mwyaf gwallgof', meddai awdur yng nghylchgrawn sosialwyr Bilbo, *La Lucha de Clases*, yn 1901, 'yw siarad am famwlad fach a'r awydd i gadw iaith ranbarthol tra bod popeth yn tueddu i ryngwladoli'.<sup>715</sup> Ac mewn araith enwog yn ystod *Juegos Florales* Bilbo yn 1901, dywedodd Miguel de Unamuno ei hun fod 'yr iaith Fasgeg yn cael ei diffodd ac nid oes unrhyw rym dynol a all atal hynny; mae hi'n marw yn unol â'r gyfraith naturiol', gan ychwanegu, 'ni ddylem alaru bod ei chorff yn diflannu, achos o ganlyniad bydd ei henaid yn goroesi yn well'.<sup>716</sup>

Roedd cadw'r iaith frodorol yn flaenoriaeth ganolog i rai cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaid y 1890au felly, ac yn wastraff amser llwyr i rai eraill mae'n debyg. Ond roedd pob un ohonynt yn cytuno, i ryw raddau, fod cael 'addysg dda' a chodi diwylliant 'uchel' y genedl yn hanfodol i'r rhaglen genedlaethol. Mae pwy yn union a ddylai ddiffinio 'addysg dda' a diwylliant 'uchel' yn fater arall wrth gwrs, fel y gwelir yn yr adran nesaf.

## **Rhaid i ni'n haddysgu ein hunain**

Mae'r 'syniad cenedlaethol' wastad wedi bod 'yn gryf' yng Nghymru, meddai R. A. Griffith yn *Young Wales* ym mis Chwefror 1895, ond fe fu'n 'troi yn gryfach' yn ddiweddar.<sup>717</sup> Y cwestiwn a boenai Griffith fwyaf am ddyfodol y genedl Gymreig, sut bynnag, oedd pa beth yn union fyddai'n rhoi 'nodwedd wahanol' i fywyd cenedlaethol y wlad ac yn ei gwneud yn

---

<sup>714</sup> Dyfynnir yn Evans, 'Ein dyled i Emrys ap Iwan', t. 33.

<sup>715</sup> 'Hablar de una patria chica y querer conservar una lengua regional, cuando todo tiende a universalizarse, es una de las mayores locuras'. Dyfynnir yn Eguiguren, *El Socialismo y la Izquierda Vasca*, t. 13.

<sup>716</sup> 'El vascoence se extingue sin que haya fuerza humana que pueda impedir su extinción; muere por ley de vida. No nos apesadumbre que desaparezca su cuerpo, pues es para que mejor sobreviva su alma': Miguel de Unamuno, 'Discurso en los Juegos Florales celebrados en Bilbao el día 26 de agosto de 1901', *El Noticiero Bilbaíno*, 27 Awst 1901. Ailgyhoeddwyd yn *Obras Completas: Tomo VI* (Madrid: Afrodisio Aguado, 1958), tt. 326-343, t. 334.

<sup>717</sup> 'The national idea has always been strong in her, and is becoming stronger': Griffith, 'Welsh Nationalism', t. 35.

‘ddylanwad nerthol’ yn y byd.<sup>718</sup> Mae’r ddau ddatganiad hyn, sef datganiadau o’r awydd i fod yn wahanol ac yn ddylanwadol, yn ddiddorol ynddynt eu hunain wrth gwrs, ond yr ateb a rydd Griffith i’w gwestiwn ei hun sydd o ddiddordeb i’n pwrpasau yn y bennod hon:

I think it is her passion for knowledge, and her intense love of literature and music. The realms of thought and its expression will be the special domain of the Wales of the future. Her laurels will be won on the field of poetry, philosophy, oratory, journalism, *belles lettres*, and music. Possibly also art, but of that it is too soon to speak.<sup>719</sup>

Materion athronyddol, diwylliannol a chelfyddydol sy’n nodweddu bywyd cenedlaethol Cymru ym marn Griffith felly, a dylai datblygu’r gweithgareddau hyn fod yn flaenoriaeth i’w gwleidyddion; neu fel y mynegodd J. H. Davies yn *Young Wales* yn yr un flwyddyn: ‘dyletswydd’ sydd gan genedlaetholwyr i arwain eu ‘teimlad’ cenedlaethol at ‘bopeth sy’n bur ac urddasol’.<sup>720</sup>

Pennaf ymysg uchelgeisiau diwylliannol nifer mawr o genedlaetholwyr Cymreig y cyfnod oedd gwella safonau addysgol yng Nghymru yn gyffredinol. Yn wir, honnai J. Viriamu Jones, pennaeth cyntaf Coleg Prifysgol De Cymru a Mynwy, yn 1896 mai ‘hanes ei chynnydd addysgol fu hanes Cymru yn ystod y pum mlynedd ar hugain ddiwethaf’.<sup>721</sup> Ar ôl dadl y ‘Llyfrau Gleision’ yn 1847 a chyfnod o ymgyrchu dwys, pasiwyd Deddf Addysg Ganolradd Cymru gan senedd San Steffan yn 1889 i sefydlu ysgolion canolradd ar draws y wlad, er enghraifft, a sefydlwyd colegau addysg uwch yn Aberystwyth, Caerdydd a Bangor yn 1872, 1883, a 1884. Yn 1893, caniatwyd siarter brenhinol i droi’r tri choleg hyn yn brifysgol ffederal, a gellir dadlau, yn unol â barn Kenneth O. Morgan, mai ‘cyflawniad goruchaf ymwybyddiaeth genedlaethol y 19g’ oedd sefydlu Prifysgol Cymru; cyflawniad a ‘rennid gan y boblogaeth i gyd’:

The University was in some respects the supreme achievement of nineteenth-century national consciousness, one in which the whole population shared [...] There was real justification for the heady rhetoric of the official historians of the University of Wales who saw “the history of learning in Wales as the history of the nation itself”.<sup>722</sup>

---

<sup>718</sup> ‘But what is to impart a distinct character to her national life, and to make it a potent influence in the world?’: Griffith, ‘Welsh Nationalism’, t. 35.

<sup>719</sup> Griffith, ‘Welsh Nationalism’, t. 35.

<sup>720</sup> ‘It is the duty of Nationalists to guide this feeling in the direction of all that is pure and noble’: Davies, ‘Wales and the English’, t. 161.

<sup>721</sup> ‘The history of Wales in the past twenty-five years has been the history of its educational progress’: dyfynnir yn Morgan, ‘Welsh nationalism’, 161.

<sup>722</sup> Morgan, ‘Welsh nationalism’, 162.



Ni synnir, efallai, fod galwadau am ‘gynnydd addysgol’ yn ymddangos yn aml yn y wasg Gymreig yn ystod ail hanner y 19g. Yn adlewyrchu gofynion Llythyr Pennal Owain Glyndŵr (1406), bu R. J. Derfel, er enghraifft, yn galw am ‘ddwy athrofa fawr’ yn ei erthygl ‘Pethau a wnawn pe bai gennyf arian’ yn 1864, ‘un yn y gogledd, a’r llall yn y deau’.<sup>723</sup> Gwneid popeth, gan gynnwys addysgu a gweinyddu, yn yr iaith Gymraeg yn y colegau hyn, meddai Derfel. Byddai copi o bob cyhoeddiad Cymreig cyfredol yn eu ‘llyfrgell[oedd] Cymraeg’. Byddai enw Cymraeg arnynt, byddai’r ‘proffeswyr’ i gyd yn ‘Gymry dysgedig’, a ‘gwneud iaith y Cymry yn ddefnyddiol ac yn enwog fyddai’r diben’, meddai ef. At hynny, nid anwybyddid y gwyddorau ym myd addysgol newydd Derfel chwaith: fe fyddai’n adeiladu ‘arsyllfa ar rai o fryniau Sir Feirionnydd, i fod yn Ysgol Seryddol i’r Cymry’. Bu hynafiaid y Cymry yn ‘edrych ar y nefoedd oddi ar fryniau Cymru’, yn ôl Derfel, ‘ac yn galw sêr wrth enwau Cymraeg’. Ond, mewn enghraifft dda o’r trosiad ‘cyflwyno presennol diffygiol o ganlyniad i gamgymeriadau’r teulu mawr’, ‘yr ydym ni, eu plant annheilwng, wedi myned bron yn rhy ffôl i sôn am ddim yn ein hiaith ein hunain’. Pe codid arsyllfa, mae’n gorffen, ‘mi fyynnwn seryddiaeth Gymraeg i’r Cymry eto’ a ‘[châi] llygaid Cymreig edrych ar y nefoedd, a geiriau Cymraeg ddarlunio ei rhyfeddodau’.

Erbyn 1895, mae ‘Proff. T. Rhys’ yn dadlau bod manteision addysg uwch yn dylanwadu yn ‘ddwfn’ ar bobl ifanc unrhyw wlad sydd gan brifysgolion yn ‘Ein Colegau Anghenedlaethol’.<sup>724</sup> Ac mewn enghraifft dda o’r trosiad ‘sefydlu problem/cynnig ateb’, mae’n mynd ymlaen i amlygu problem hanesyddol y genedl, sef na chafodd y Cymry ‘[b]rofiad o’r manteision a’r breintiau addysgol newydd hyn hyd yma’, wrth gyflwyno ei ragnodyn mai ‘yn awr, yr ydys yn eu cael gyntaf. Rhaid y bydd dylanwad newydd ac aruthrol yn gweithio i ffurfio cymeriad yr oes sydd yn codi’.<sup>725</sup>

I ysgrifenywyr eraill, ni fyddai bodolaeth cyfundrefn addysgol Gymreig yn ddigon ynddi ei hun, a diben, cenhadaeth a methodolegau’r gyfundrefn newydd hon fyddai ffocws llawer o’u cyfraniadau yn y wasg. ‘Peri y tyfa’r Crist yn y dyn’ oedd prif ddiben addysg yn ôl Emrys ap Iwan, a chan ei fod yn ystyried mai ‘colledig’ oedd mwyafrif mawr o oedolion Cymru, medd Menai Williams, plant a gynrychiolai’r cyfle gorau i gyflawni’r genhadaeth Gristnogol hon.<sup>726</sup> Mae rhai haneswyr yn ystyried syniadau Emrys ap Iwan ar addysg

---

<sup>723</sup> Gw. R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford: Oxford University Press, 1995), tt. 169-172. Derfel, ‘Pethau a wnawn’, t. 113. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell a’r un dudalen.

<sup>724</sup> Rhys, ‘Ein Colegau Anghenedlaethol’, t. 3.

<sup>725</sup> Rhys, ‘Ein Colegau Anghenedlaethol’, t. 3.

<sup>726</sup> Williams, ‘Cysylltiad Emrys ap Iwan’, tt. 34-5.

(syniadau y dylanwedid yn fawr arnynt gan yr athronydd ac addysgwyr o Ffrainc, Victor Cousin) yn bell o flaen eu hamser.<sup>727</sup> Gwrthododd Emrys, er enghraifft, y ffocws traddodiadol ar gynnull gwybodaeth yn lle datblygu sgiliau gwybyddol a'r gallu i ddyn ei addysgu ei hun yn y dyfodol. Ystyrier y datganiadau isod:

[Mae] yn bwysicach i athrawon ddysgu eu disgyblion i *feddwl* na chyfrannu gwybodaeth iddynt.<sup>728</sup>

Y mae yr hwn sydd yn addysgu ei hunan yn dod yn feddiannol ar ryw hunanymddiried [...] ag y mae y rhai sydd yn dibynnu llawer ar gynorthwyon yn amddifad ohono.<sup>729</sup>

Dyma syniadau y byddai W. Llewelyn Williams yn eu hailadrodd yn y wasg yn ei erthygl 'The Claims of the Welsh Language' yn 1896:

Education does not mean the amassing of a number of facts, or the acquisition of mere knowledge; but the training of the mind, the widening of the understanding, and the development of the mental faculties, so that we can the easier reach towards new knowledge, and make good and better use of knowledge, when it is acquired.<sup>730</sup>

Gwella cyfundrefn addysgol Cymru oedd blaenoriaeth llawer o genedlaetholwyr y 1890au felly, a hynny er mwyn cyrraedd 'gwybodaeth newydd', ac o ganlyniad, gwneud 'defnydd da a gwell' o'r wybodaeth honno.

Diddorol yw nodi yma, sut bynnag, na dderbyniodd diwygiadau addysgol gymaint o sylw yn y wasg genedlaetholgar Fasgaid yn y 1890au ag y derbyniasant yn y wasg Gymreig. Achos rhyddfrydiaeth glasurol y 19g oedd achos cenedlaetholwyr Cymreig dros addysg seciwlar, fodern a gwladol, wrth gwrs, sef achos yn erbyn addysg grefyddol a dogmataidd yr eglwys sefydlog; boed hynny'r eglwys Anglicanaidd neu Gatholigaid. Ond mewn adrannau cymdeithasol ac ardaloedd daearyddol mwyaf traddodiadol Sbaen, gan gynnwys Gwlad y Basg, gwelid adwaith yn erbyn achosion fel hyn ar ôl Gwrthryfel Rhyddfrydol 1868 a'r Adferiad Bourbonaidd yn 1874.<sup>731</sup> Roedd nifer mawr o genedlaetholwyr Basgaid y cyfnod yn cefnogi ysgolion yr hen urddau eglwysig a chwricwlwm cyffesol traddodiadol, ac i ryddfrydwyr Sbaenaidd eu gwleidyddiaeth y priodolir syniadau Krausaidd i ddatblygu ac

---

<sup>727</sup> Am ddyllanwad Victor Cousin ar Emrys ap Iwan, gw. Jenkins, 'Emrys ap Iwan', t. 92. Noder, er enghraifft, barn T. Gwynn Jones: 'Yr oedd ei syniadau am addysg, ei dull a'i diben ymhell ar y blaen i syniadau corf mawr athrawon ei oes': dyfynnir yn Williams, 'Cysylltiad Emrys ap Iwan', t. 27.

<sup>728</sup> Dyfynnir yn Williams, 'Cysylltiad Emrys ap Iwan', t. 28. Pwyslais yr awdur gwreiddiol.

<sup>729</sup> Dyfynnir yn Williams, 'Cysylltiad Emrys ap Iwan', t. 32.

<sup>730</sup> Williams, 'The Claims of the Welsh Language', t. 457.

<sup>731</sup> Gw. Raymond Carr, *Spain 1808-1975*, Second Edition (Oxford: Oxford University Press, 1982), tt. 463-472, am drafodaeth ar Ddiwygiad Catholigaid yr Adferiad rhwng 1875 a 1900.

estyn addysg seciwlar fodern i ddsbarthiadau gweithiol a gweinyddol Sbaen; rhyddfrydwyr megis Julián Sanz del Río a Francisco Giner de los Ríos a'u 'Instituto Libre de Enseñanza' (Sefydliad Rhydd Addysg).<sup>732</sup> At hynny, ac er bod y brifysgol archesgobol Sancti Spiritus Oñati (Gipuzkoa) yn darparu addysg uwch ddiwinyddol i feibion bonheddig Gwlad y Basg ers 1540, prifysgol breifat y Jeswitiaid a sefydlwyd yn Deusto (Bilbo) yn 1886 i hyfforddi cenedlaeth newydd o raddedigion yn y gyfraith ac economeg.<sup>733</sup>

O ran cenedlaetholwyr Basgaidd penodol, bu Sabino Arana yn ddisgybl preswyl yn ysgol nodedig y Jeswitiaid, Nuestra Señora de la Antigua yn Orduña, pan oedd yn ifanc, ond mae'n werth nodi nad oedd yn meddwl bod ysgolheictod yn bwysig i lwyddiant yn y byd: 'nid yng ngweithredoedd ei ddeallusrwydd y bydd dyn yn dwyn neu yn colli clod, yn fy marn i, ond yng ngweithredoedd ei ewyllys rhydd', meddai.<sup>734</sup> Yn wir, byddai Arana yn ysgrifennu yn y cylchgrawn *Bizkaitarra* yn 1895 fod nifer mawr o'r 'camweithredoedd y gofidir amdanynt yng nghymdeithas ddynol y dyddiau hyn' yn cael eu hachosi gan 'yr awydd eithafol hwnnw o ddarllen pob math o weithiau llenyddol', wrth fynd ymlaen i gasglu bod 'llawer o edmygwyr darllen (y rhan fwyaf o'r rhai sy'n darllen) na ddylent fod yn gyfryw edmygwyr, oherwydd eu bod yn eu niweidio eu hunain ac yn achosi niwed i bawb arall'.<sup>735</sup> Da yw cofio mai Catholig pybyr oedd Sabino Arana, a bod pob dysgeidiaeth y tu allan i ddysgeidiaeth Eglwys Rhufain yn niweidiol i ddyn yn ei farn ef.

Yn gyson â'r duedd Gatholig hon i ystyried llenyddiaeth seciwlar yn 'niweidiol', 'anfoesol' oedd drama a lwyfannwyd yn Bilbo ym mis Mai 1896 ym marn cenedlaetholwr Basgaidd dienw yn y newyddiadur *fuerrista* o Bilbo *La Cantabria*.<sup>736</sup> Ond fel y trafodir maes o law yn Haen 4, roedd Sabino Arana ei hun yn fwy na pharod i ddefnyddio'r theatr i ledaenu'i neges wleidyddol yn ei ddramâu *De fuera vendrá* (1898) a *Libe* (1903) er enghraifft, a hynny oherwydd ei fod yn ystyried y *genre* hwn yn 'gyfrwng defnyddiol ar gyfer

---

<sup>732</sup> Gw. Carr, *Spain 1808-1975*, tt. 469-472, am drafodaeth ar 'krausismo español' ac El Instituto Libre de Enseñanza.

<sup>733</sup> Carr, *Spain 1808-1975*, t. 467.

<sup>734</sup> 'No es a mi juicio, en las obras de la inteligencia donde el hombre puede justamente ganar méritos o padecer mengua, sino en los actos de la libre voluntad': dyfynnir yn Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 54. Yn ôl ei farn ei hun, ni chafodd Arana addysg dda, ac rhoddodd y gorau i'r brifysgol yn Barcelona yn gynnar. Gw. Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 54.

<sup>735</sup> 'Mucha parte de las aberraciones que hoy se deploran en la sociedad humana, no reconocen otra causa que el excesivo afán que hay por leer toda clase de escritos: hay muchos aficionados a la lectura (la mayor parte de los que leen) que no debieran serlo, porque se perjudican a sí propios y causan también daño a los demás': Sabino Arana [o dan y ffugenw 'A. ETA G. 'TAR S.'], 'Juicio crítico de la Historia General del Señorío de Bizcaya, escrita por D. E. J. de Labayru', *Bizkaitarra*, Año III/Número 27, 31 Mai 1895, tt. 1-2.

<sup>736</sup> 'Inmoral': [dienw], 'Casos sospechosos', *La Cantabria*, 22 Mai 1896, t. 1

propaganda'.<sup>737</sup> Gwelir yma unwaith eto, felly, fesur o anghysondeb yn nisgwrs cenedlaethol Gwlad y Basg y 1890au, neu o leiaf bragmatiaeth foesol neu esthetig dan law'r ysgrifennwr ymroddedig: nid yw deallusrwydd ac addysg seciwlar yn bwysig, gall 'darllen' fod yn niweidiol, gall y theatr fod yn 'anfoesol' ond – ar yr un pryd – yn gyfrwng defnyddiol at bwrpasau propagandaidd.<sup>738</sup> Blaenoriaethau tra gwahanol rhwng cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd a welir ym maes addysg felly, ond sicr yw bod dogn o bragmatiaeth rethregol yn ymddangos yn y ddau baradeim disgysiol o bryd i'w gilydd hefyd.

## Rhaid i ni achub ein gwareiddiad

Er bod blaenoriaethau'r ddwy garfan yn wahanol ym maes addysg, byddai pryderon Basgaidd am feddu ar ddiwylliant traddodiadol parchus a gawsai ei drifialeiddio yn gynyddol gan lenyddiaeth boblogaidd y dydd yn cael eu hadlewyrchu yn y wasg Gymraeg. Roedd diwylliant Cymru wedi disgyn i waelodion 'philstiaeth' meddai John Hughes mewn erthygl o'r un enw yn *Y Geninen* ym mis Ionawr 1896, yn arbennig yn yr adroddiadau '*sensational*' a 'nwyfus' a ymddangosai yn aml yn y papurau newydd.<sup>739</sup> Dyma fath o lenyddiaeth a ganolbwyntiai ar fanylion gwaedlyd troseddau a llofruddiaethau gwaethaf y wlad, adroddiadau a fyddai'n effeithio yn 'ddrwg' ar 'deimladau moesol' y bobl gyffredin, meddai'r awdur. At hynny, philistiaeth a welid hefyd yn y ffordd y byddai newyddiadurwyr yn 'camddefnyddio'r iaith', methu 'condemnio drygau', ac 'ymosod yn ffyrnig ar gymeriad rhyw ddyn neu'r llall'. 'Wel', meddai'r awdur, 'y mae ein hanwyl wlad yn cael ei llanw â Philistiaeth bob wythnos', a bydd 'canlyniadau gofidus [...] yn sicr o ddilyn y cyfryw ddysgasedd llenyddol yn nghenedl ac eglwysi Cymru os na ddaw rhyw feddyginiaeth fuan i'r drwg hwn'. 'Puro llenyddiaeth newyddiadurol Cymru' oedd y feddyginiaeth yr oedd John Hughes yn ei hargymell yn y pen draw, mewn galwad yr oedd iddi fwy na thinc o rethreg Jeswitaidd amdani.

---

<sup>737</sup> 'Útil vehículo de propaganda': Granja Sainz, *El Nacionalismo Vasco (1876-1975)*, t. 27.

<sup>738</sup> Pwysig yw nodi y byddai'r theatr yn troi yn arf effeithiol iawn i genhedlaeth gyfan o genedlaetholwyr Basgaidd yn yr 20g gynnar. Bu Nicolás Ruiz yn dadansoddi erthyglau ar theatr, cerddoriaeth a chwaraeon yn y wasg genedlaetholgar Fasgaidd ar ddechrau yr 20g (a'r rôl propagandaidd a chwaraeasant) mewn erthygl o 2008: Nicolás Ruiz, 'La prensa nacionalista en Vizcaya durante la Restauración: el espejo de una comunidad en construcción', *El Argonauta Español* [ar-lein], 5 (2008), <http://argonauta.revues.org/970> [cyrchwyd: 15 Awst 2015].

<sup>739</sup> John Hughes, 'Philistiaeth', *Y Geninen*, Ionawr 1895, tt. 55-57. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell.

Nid oedd y pryder hwn am effaith niweidiol diwylliant poblogaidd yn bryder gwreiddiol nac unigryw i ddisgwrs cenedlaethol Cymreig neu Fasgaidd yn y 1890au, sut bynnag. Y Sais Matthew Arnold a fathodd y term ‘philistiaeth’ yn ei ystyr modern wrth drafod methiannau diwylliannol a moesol Lloegr Fictoraidd yn *Culture and Anarchy: An Essay in Political and Social Criticism* (1869), wedi i’r beirniad celf a sylwebydd cymdeithasol John Ruskin fynegi pryderon tebyg yn ei gyfrol *Unto This Last* (1862).<sup>740</sup> Aeth Ruskin ymlaen i feirniadu llenyddiaeth boblogaidd ymhellach yn *Sesame and Lillies* (1865) gan honni y ‘gellir rhannu pob llyfr yn ddau ddsbarth, llyfrau’r awr a llyfrau pob oes’, sef llenyddiaeth wael a llenyddiaeth dda:

For all books are divisible into two classes, the books of the hour, and the books of all time. Mark this distinction – It is not one of quality only. It is not merely the bad book that does not last, and the good one that does. It is a distinction of species. There are good books for the hour, and good ones for all time; bad books for the hour, and bad ones for all time.<sup>741</sup>

Yn ychwanegol at hynny, ac yn hollbwysig i’n trafodaeth ni, cysylltodd Ruskin safonau moesol y genedl â safonau celf a diwylliant y genedl yn gyffredinol:

The art of any country is the exponent of its social and political virtues [...] The art, or general productive and formative energy, of any country, is an exact exponent of its ethical life. You can have noble art only from noble persons, associated under laws fitted to their time and circumstance.<sup>742</sup>

Ruskin yn bennaf, felly, a drodd ddiwylliant y genedl yn fater o bwys i iechyd y genedl, ac o ganlyniad, yn fater o ddiddordeb i genedlaetholwyr y cyfnod. At hynny, byddai syniadau Ruskin yn ddylanwad mawr ar genedlaetholdeb Prydeinig erbyn diwedd y 19g, ac ni synnir bod John Hughes yn eu perchenogi ac yn eu haddasu at ddibenion ei ddadl yn *Y Geninen* yn 1896.

Ni synnir chwaith fod Thomas E. Ellis yn dyfynnu ‘The Eagle’s Nest’ gan Ruskin yn ei ddarlith ‘Domestic and decorative art in Wales’ ym mis Mawrth 1897 wrth iddo alw am ddiwygiad yn ffyniant y celfyddydau yng Nghymru.<sup>743</sup> Bu Ellis hefyd yn beirniadu

---

<sup>740</sup> Cyhoeddwyd ysgrif Ruskin mewn pedair rhan yn y wasg yn 1860, ac wedyn mewn cyfrol yn 1862. Gw. J. L. Bradley, *Ruskin: The Critical Heritage. John Ruskin 1819-1900* (London: Routledge & Kegan Paul, 1984), tt. 273-286.

<sup>741</sup> John Ruskin, *Sesame and Lillies: Three Lectures* (New York: Cosimo Classics, 2016) t. 6.

<sup>742</sup> John Ruskin, ‘Lectures on Art: delivered before the University of Oxford in Hilary term, 1870’, yn E. T. Cook a Alexander Wedderburn (goln), *The Library Edition of the Complete Works of John Ruskin* (George Allen, 1903–12), Vol. 20, t. 39.

<sup>743</sup> John Ruskin, ‘The Eagle’s Nest: Ten Lectures on the Relation of Natural science to Art, Given before the University of Oxford in Lent term, 1872’, yn E. T. Cook a Alexander Wedderburn (goln), *The Library Edition*

‘philistiaid’ yn gyffredinol yn yr erthygl hon, neu ‘ddynion prysur, ffyniannus ac ymwithgar’, wrth amddiffyn gwirioneddau ‘parhaol a chadarn’ Ruskin:

For I must admit that, much as busy generations and the multitude of the Philistines in this country have laughed from time to time during the last fifty years at the teaching and the dicta of Ruskin, yet time constantly brings him its revenges, and dicta which, thirty or forty or fifty years ago and even to-day, are scoffed at by busy, prosperous, pushing men, have a curious knack of being recognised as permanent and solid truths by the more thoughtful men and women of our time.<sup>744</sup>

Deuai gwrth-philistiaeth yn rhan atodedig o ddisgwrs gwleidyddol nifer o genedlaetholwyr Cymreig amlwg y cyfnod, a hynny mewn gwrthgyferbyniad uniongyrchol â phoblyddiaeth, materoliaeth ac iwtilitariaeth disgwrs trechol Prydain Fawr Fictoriaidd. Pwysig cofio, sut bynnag, mai mudiadau ac arweinwyr deallusol Seisnig a fu’n dylanwadu fwyaf ar ddynion megis Hughes ac Ellis, a theg gofyn a oedd eu protestiadau yn gwir berthyn i wrth-ddisgwrs cenedlaethol Cymreig neu wrth-ddisgwrs y dosbarthiadau deallusol bwrtais Prydain yn y pen draw.

Roedd effaith niweidiol ‘philistiaeth’ yn fater o ofid mawr i Emrys ap Iwan hefyd, ond roedd tarddiad y philistiaeth hon yn glir ac yn amlwg iddo ef. Nofelau poblogaidd Saesneg oedd ar fai ym marn Emrys ap Iwan, ac os oedd pobl ifanc yn mynd i ddarllen nofelau o gwbl, meddai, ‘anogwn hwynt i ddarllen prif nofelau’r byd’:

Y mae rhai o nofelau clasurol Ffrainc, Sbaen, yr Eidal, Rwsia a Norwy wedi eu cyfieithu i’r Saesneg ac y mae hyd yn oed nofelau Goldsmith, George Eliot a Walter Scott a nofelau Cymraeg Daniel Owen a Gwynn Jones yn anrhaethol well na’r nofelau Saesneg y mae’r rhan fwyaf yn eu darllen.<sup>745</sup>

At hynny, ac er y byddai Michael D. Jones yn cytuno y dylai pobl ifanc ddarllen llenyddiaeth uchel yn lle llenyddiaeth isel, gweithiau Platon ac Aristotlys yr anogodd i’w fyfyrwyr yng Ngholeg y Bala eu darllen.<sup>746</sup>

Yn ychwanegol at ddylanwad niweidiol nofelau poblogaidd Saesneg, roedd Emrys ap Iwan yn poeni am gyflwr llenyddiaeth Gymraeg yn gyffredinol hefyd: ‘nid oes gennym neb o fri wedi ymroddi i’w diwyllio’, meddai, ‘nag un ysgrifennwr yn awr, mae yn debyg, y gellir

---

*of the Complete Works of John Ruskin* (George Allen, 1903–12), Vol. 22. Ellis, ‘Domestic and decorative art’ (gw. uchod am fanylion).

<sup>744</sup> Ellis, ‘Domestic and decorative art’, t. 50.

<sup>745</sup> Dyfynnir yn Williams, ‘Cysylltiad Emrys ap Iwan’, t. 24.

<sup>746</sup> Jones, ‘Michael D. Jones’, t. 3.

ei gymeryd fel safon'.<sup>747</sup> Gan fwyaf, ysgrifennid llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod mewn dull 'amhûr' o ran geirfa a phriod-ddull yn ôl Emrys, ac roedd newyddiadurwyr yn bennaf yn euog o beidio â chynhyrchu dim mwy na Saesneg wedi'i Chymreigeiddio: 'it can be seen thus that all that are required for understanding newspaper-Welsh are time, patience and a knowledge of English', meddai unwaith.<sup>748</sup> Dyma gŵyn y byddai Sabino Arana yn ei lleisio am gyflwr llenyddiaeth Fasgeg yn y 1890au, wrth iddo ddadlau dros buro'r iaith a dyfeisio llwyth o newydddeiriau er mwyn osgoi defnyddio Sbaeneg.<sup>749</sup>

Nid oedd llenyddiaeth enwadol y tu hwnt i feirniadaeth Emrys ap Iwan chwaith: dyma lenyddiaeth a gynrychiolai fwyafrif helaeth o gynnyrch llenyddol Cymreig y 19g â'i llwyth o esboniadau ysgrythurol, emyniaduron, cofiannau gweinidogion enwog, cylchgronau i blant a chyfnodolion diwylliannol.<sup>750</sup> Yn wir, pa un bynnag oedd rhinweddau neu fethiannau arddulliadol cyhoeddiadau enwadol, nid gweithiau llenyddol yng ngwir ystyr y gair oeddent ym marn Emrys, gan eu bod yn 'bleidiol' ac yn 'rhwygol', tra bod llenyddiaeth dda yn genedlaethol ac yn unol:

Nid oes y fath beth â Llenyddiaeth Gyfundebol. Nid oes dim yn haeddu ei alw'n llenyddiaeth os na bydd cenedl a chenedlaethau yn tystiolaethu bod iddynt ran ynddo.<sup>751</sup>

Gwir yw y byddai llawer o haneswyr llenyddol yr 21g yn cytuno ag asesiad cyffredinol Emrys ynglŷn â chyflwr llenyddiaeth Gymraeg y 19g, ac mae rhai wedi sylwi ar y 'gagendor' a fodolai rhwng iaith naturiol cymdeithas bob dydd ac iaith 'ymffrostgar' y wasg, y pulpud a'r eisteddfod.<sup>752</sup> 'Mynd ar gyfeiliorn' a fu llenyddiaeth Gymraeg yn ystod y 19g ym marn

---

<sup>747</sup> Dyfynnir yn Morgan, *Emrys ap Iwan: Garddwr Geiriau*, t. 20.

<sup>748</sup> Dyfynnir yn Lloyd, *Emrys ap Iwan*, t. 19.

<sup>749</sup> 'Arana propugnó un euskera puro, sin influencias del castellano, e inventó muchos neologismos': Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 20.

<sup>750</sup> Mae'n ddiddorol nodi na fyddai Emrys ap Iwan byth yn ysgrifennu yn *Y Drysorfa* nac *Y Traethodydd*, dau brif gyfnodolyn ei enwad, y Methodistiaid Calfinaidd, meddai Ellis W. Williams: 'Emrys ap Iwan', yn *Cymdeithas Emrys ap Iwan – Y Ddarlith Flynyddol*, Cyf. 1 & 2: 1981-82 (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1983), t. 14.

<sup>751</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Y Clasuron Cymraeg', *Y Geninen*, Ionawr 1894. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. II. Llenyddol, Ieithyddol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1939), tt. 1-44, t. 8.

<sup>752</sup> Mae Hywel Teifi Edwards wedi disgrifio llenyddiaeth y cyfnod Fictoraidd hwyr yn lenyddiaeth llawn 'hyperbole, bombast and excruciatingly bad taste': Hywel Teifi Edwards, 'Victorian stocktaking', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), t. 225. Gweler hefyd D. Tecwyn Lloyd, 'Emrys ap Iwan a'i gyfnod', yn *Cymdeithas Emrys ap Iwan – Y Ddarlith Flynyddol* Cyf. 5 & 6 - 1985-86 (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1986), tt. 6-7, am enghreifftiau pellach o lenyddiaeth 'wael' y cyfnod.

Emrys ap Iwan, meddai Alun Llywelyn-Williams, ac roedd angen cywiro'r sefyllfa trwy addysgu dynion ifanc i ysgrifennu yn iawn.<sup>753</sup>

At hynny, ac ym marn Emrys ap Iwan, anodd dadlau i lenyddiaeth Gymraeg o unrhyw safon gael ei chynhyrchu ers dechrau'r 18g, ac nid oedd y cyfnod rhwng 1650 ac 1850 yn arbennig o ffrwythlon o bersectif beirniadaeth lenyddol gyfredol, ac eithrio gwaith Morgan Llwyd, Ellis Wynne a Chylch y Morrisiaid: goroesi yn lle ffynnu a wnaeth y traddodiad clasurol yn y cyfnod hwn, dadleua Ceri Davies, er enghraifft.<sup>754</sup> Dyma farn a rennid gan nifer o feirniaid Seisnig a Chymreig y 1890au hefyd, meddai Thomas E. Ellis mewn araith o 1896.<sup>755</sup> Ond 'brysiog' ac 'anwybodus' oedd y feirniadaeth hon yn ei farn ef, oherwydd nid safon barddoniaeth Cymru ynnddi ei hun oedd ar fai, ond diffyg cyfresi neu ddetholiadau wedi'u cyhoeddi yn broffesiynol:

What is published in this connection to-day is published in a haphazard fashion, a little by one publisher, a little by another. Many of the foremost works are out of print. There is not one adequate edition. There is only haphazard congeries of partial editions, indifferently printed, ill-edited, and, even as they are, difficult to procure.<sup>756</sup>

Nid diffyg parch at lyfrau yn gyffredinol oedd gan y Cymry, sut bynnag, meddai Ellis mewn anerchiad arall; câi'r Cymry gymaint o 'lawenydd, cysur a chryfder' oddi allan o lyfrau â 'phobl gyffredin unrhyw wlad arall'.<sup>757</sup> Roedd gan aelodau presennol Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru 'ddyletswydd', felly, i gynhyrchu cyfrolau o'r math hwn fel y gallai pobl Cymru ddod i adnabod a gwerthfawrogi eu llenyddiaeth eu hunain: 'is it not our simple duty to make it possible for these thousands to read the literature of their own country in a scholarly and orderly form?'<sup>758</sup> A thra bod aelodau penodol yr Urdd wedi cyhoeddi neu ailgyhoeddi rhai o weithiau ceinaf llenyddiaeth Gymraeg, 'unigol, ac i ryw raddau,

---

<sup>753</sup> Alun Llywelyn-Williams, 'Emrys ap Iwan', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976), t. 21.

<sup>754</sup> Gw. Ceri Davies, *Welsh Literature and the Classical Tradition* (Cardiff: University of Wales Press, 1995), a phennod IV yn benodol, 'Clerics and Schoolmasters: The Mid-Seventeenth to the Mid-Nineteenth Centuries', tt. 85-114. Mae Davies yn trafod yr ysgrifenywyr Cymreig a fu'n ymddiddori â'r traddodiad clasurol rhwng 1650 a 1850, yn enwedig y cylch o gwmpas y Morrisiaid Môn.

<sup>755</sup> 'Critics, English and Welsh, are always passing judgements, most of them ill-informed and hasty, upon the value of the poetry of Wales': Ellis, 'The duty of the Guild', t. 157.

<sup>756</sup> Ellis, 'The duty of the Guild', t. 157.

<sup>757</sup> 'Whatever may be our possessions or our want of possessions, our opportunities and institutions or our lack of them, this at any rate is true, that there is in Wales a respect for and love for books, and that our countrymen probably draw as much joy and comfort and strength from books as the common people of any country': Ellis, 'Domestic and decorative art', t. 52.

<sup>758</sup> Ellis, 'The duty of the Guild', t. 158.



damweiniol' oedd eu hymdrechion, meddai Ellis.<sup>759</sup> 'What I desire is that from the beginning of our existence we should make these efforts in an organized and definite way'.<sup>760</sup> Dyma Thomas E. Ellis yn amlygu diffyg sylfaenol yn niwylliant cyhoeddi Cymreig yn 1896 a galw am ymateb trefnus a phendant; dyma rywbeth, fel mae'n digwydd, y buasai R. J. Derfel yn galw amdano dros 30 mlynedd yn gynharach yn 1864:

Pe byddai gennyf arian, byddwn yn adeiladu gweithdy mawr, ac yn sefydlu argraffwasg ynddo i argraffu pob ysgriflyfr Cymraeg o werth sydd eto heb eu cyhoeddi, ac i ddwyn allan argraffiadau newyddion o rai sydd yn brin ac yn anodd i'w cael.<sup>761</sup>

Ynghyd â sefydlu argraffwasg i gyhoeddi llenyddiaeth Gymraeg 'o werth', wele Derfel yn dadlau yn yr un erthygl o 1864 y dylid sefydlu 'amgueddfa fawr Gymreig [...] i fod yn dderbynfa ac yn gadwrfa i bethau Cymreig hynafol a diweddar'.<sup>762</sup> Byddai llyfrau, hen fathodau, arfau milwrol a 'gwisgoedd milwrol tywysogion Cymru' yn ymddangos yn ei chasgliadau, ynghyd â 'rhywbeth a oedd yn perthyn i Lewelyn, neu Lyndŵr, neu ryw ŵr mawr ac enwog arall'. Byddai lluniau, 'llawysgrifau y beirdd' ac enghreifftiau o fwynau i egluro mwynyddiaeth a daearyddiaeth Cymru yn cael eu harddangos hefyd, ynghyd â'r 'wisg Gymreig a wisgid gan ein mamau'. 'A yw'n bosibl gosod tipyn o werth ariannol ar weddillion meibion athrylith yng Nghymru?', gofyn Derfel wrth iddo annog i'w ddarllenwyr barchu treftadaeth faterol eu hanes. Yn ychwanegol at hynny, fe fyddai 'llyfrgell bentrefol' yn cael ei hadeiladu ym mhob pentref a thref yng Nghymru pe bai Derfel yn cael ei ffordd. 'Mor werthfawr fyddai llyfrgell fel hon mewn ardal wledig!' meddai ef; 'gallai bechgyn a genethod tlodion gael digon o lyfrau i'w darllen, a'r gweithiwr wrth ei ddiwrnod gwaith yr un modd'.

Erbyn 1897 roedd Thomas E. Ellis yn cwyno am ddiffyg prifddinas i Gymru a sefydliadau cenedlaethol lle y câi gweithiau llenyddol a chofnodion y wlad eu gwarchod a'u 'hanrhydeddu' mewn cyfleusterau teilwng:

---

<sup>759</sup> 'As it is, we see, and we see with great pleasure, that certain members of the Guild are publishing and republishing in various forms some of the finer parts of the literature of Wales. But these efforts are individual, and, to some extent, haphazard': Ellis, 'The duty of the Guild', t. 153.

<sup>760</sup> Ellis, 'The duty of the Guild', t. 153.

<sup>761</sup> Derfel, 'Pethau a wnawn', t. 112.

<sup>762</sup> Derfel, 'Pethau a wnawn', t. 114. Yn nyffryn Edeirnion, sef ardal enedigol Derfel y dylid sefydlu'r amgueddfa hon yn ei farn ef. Daw pob dyfyniad yng ngweddill y paragraff hwn o'r un ffynhonnell, tt. 114-115.

We have had no great municipal or national institution responsible to the people, and we have lacked what most countries had, a capital, where proper depositaries of the literature and records of the people are maintained and honoured.<sup>763</sup>

Byddwn yn trafod galwadau Ellis ac eraill am brifddinas i Gymru maes o law, ond canlyniad diffyg archifdy cenedlaethol Cymreig, yn ei farn ef, oedd bod tynged pob ‘mynegiant bywyd a meddwl Cymru’r gorffennol’ ar fympwy siawns a damwain, lle y dylent fod wedi bod ar gael i ‘weithwyr llenyddol hyfforddedig ac amyneddgar Cymru’.<sup>764</sup> Roedd yn fater o bwys mawr i Ellis, felly, y dylid gwneud ymdrech fawr i sicrhau eu meddiant ar gyfer ‘rhyw sefydliad yng Nghymru sy’n atebol i’r genedl’:<sup>765</sup>

We should set before ourselves as an ideal that an effort should be made, by great sacrifices if necessary, to secure these collections from being scattered over the world, and to make them part and parcel of one of the collegiate libraries, or of a national library.<sup>766</sup>

Noder mai ‘ymdrech’ y ‘dylen ni’ ei gwneud i sicrhau’r casgliadau hyn i lyfrgelloedd colegau Prifysgol Cymru neu ryw lyfrgell genedlaethol newydd, a hynny trwy ‘aberthu mawr’ pe bai angen. Diffygiol oedd cyflwr presennol Cymru o ran ei llyfrgelloedd ac archifdai cenedlaethol, ym marn Ellis, ac roedd ar y Cymry nid llai na dyletswydd dorfol i gywiro’r cam, dyletswydd y bu J. H. Davies yn galw amdani hefyd mewn erthygl yn *Young Wales* yn 1895: ‘Now that our educational edifice has been completed, Welshmen ought to set about the foundation of a national museum and library’.<sup>767</sup>

Diffygiol hefyd oedd cyflwr y celfyddydau ym marn rhai cenedlaetholwyr, yn enwedig o ran diffyg ysgol gelf frodorol, meddai Thomas E. Ellis yn ‘Domestic and decorative art in Wales’ yn 1897: dyma rywbeth a oedd gan wledydd bychain eraill a feddent ar ‘rodd amhrisiadwy hunanlywodraeth’:

I think one may say at the start [...] that not the most patriotic of us can claim for Wales the possession of a native school of art, as is possessed in other small countries which have obtained and enjoyed the priceless gift of self-government.<sup>768</sup>

---

<sup>763</sup> Ellis, ‘The duty of the Guild’, t. 147.

<sup>764</sup> ‘The result is that all the expressions of the life and mind of the past of Wales have been at the mercy and subject to the whims of chance’; ‘Those great quarries of Welsh lore should be opened to the patient and trained literary workers of Wales’: Ellis, ‘The duty of the Guild’, t. 147; t. 149.

<sup>765</sup> ‘I consider it a matter of the first importance that when any of the Welsh collections come into the market, a great deal and supreme effort should be made to secure possession of them for some institution in Wales responsible to the nation’: Ellis, ‘The duty of the Guild’, t. 151.

<sup>766</sup> Ellis, ‘The duty of the Guild’, t. 152.

<sup>767</sup> Davies, ‘Wales and the English’, t. 161.

<sup>768</sup> Ellis, ‘Domestic and decorative art’, t. 30.

Daeth y diffyg hwn i'r amlwg pan aeth Ellis i *Exposition Universelle de Paris* yn 1889 a gweld nad gwledydd mawrion megis Prydain, Ffrainc a Rwsia yn unig oedd yn meddu ar *salons* i arddangos 'cynhyrchion rhagorol eu celfyddydau brodorol', ond 'gwledydd tebyg iawn i Gymru o ran maint eu poblogaeth a'u cyfoeth materol cyffredinol' megis Denmarc, Serbia, Gwlad Groeg, 'a hyd yn oed Y Ffindir pell'.<sup>769</sup> Tybio a wnaeth Ellis, 'a yw'n bosibl yn y dyfodol y caiff ein gwlad hawlio ei lle yn yr orielau sy'n arddangos, o bryd i'w gilydd, weithgareddau torfol cenedloedd y byd'.<sup>770</sup>

Nid oedd y Cymry heb ddawn gelfyddydol ynddynt eu hunain, sut bynnag, meddai Ellis: lluosog oedd 'tystion i alluoedd cudd y Cymry ar gyfer y celfyddydau' yn ei farn ef, ac enwa arlunwyr megis 'tad go iawn yr ysgol dirlun Brydeinig' Richard Wilson; John Gibson, Inigo Jones ac Owen Jones yn y gorffennol; a Goscombe John a Syr Edward Burne-Jones yn y presennol.<sup>771</sup> Ond, arlunwyr a hanai o'r tu allan i Gymru a fu'n dal a dehongli harddwch Cymru a'i bywyd yn ddiweddar, meddai ef, rhywbeth a oedd yn achosi siom iddo am na fyddai'u gwaith yn cyrraedd 'meddwl a chalon Cymru':

My feeling with regard to them is one rather of sadness that the interpretation of the beauty of the landscape and of the life of Wales should be left to artists from outside, and that their products should be for a public outside Wales. Their pictures do not pass through the mind or the heart of Wales.<sup>772</sup>

Ond 'rhaid iddi fod' fel hyn, meddai Ellis, achos nid oedd gan Gymru 'nac orielau nac arlunwyr ein hunain, na'r un modd, heblaw cyfoeth, ffawd dda a chwaeth rhyw Gymro unigol yma ac acw' i ddehongli tirlun a bywyd Cymru i'r Cymry.<sup>773</sup> Fel hyn y byddai, meddai,

until we have a municipal gallery or galleries, or national gallery or galleries, where the products of these artists, who have seen the loveliness of Wales, can be exhibited for the wise enjoyment of the Welsh people.<sup>774</sup>

---

<sup>769</sup> 'Not alone had the great countries, - France, Germany, Great Britain, - their separate rooms for the exhibition of the products of their art, but that Denmark, Servia, Greece, and countries very much the same as Wales in population and in ordinary material wealth, had each one of them, even distant Finland, separate rooms in that great Exhibition, in order to show, as show they did, the splendid products of the native art of each country: Ellis, 'Domestic and decorative art', t. 31.

<sup>770</sup> 'I wondered then [...] whether it is possible that in the times to come our country may claim a place in the galleries which, from time to time, will show the collective activities of the nations of the world': Ellis, 'Domestic and decorative art', t. 31.

<sup>771</sup> 'Witnesses to the latent power for art in the Welsh people'; 'the real father of the British school of landscape': Ellis, 'Domestic and decorative art', tt. 32-33.

<sup>772</sup> Ellis, 'Domestic and decorative art', t. 33.

<sup>773</sup> 'And this must be so [...] As it is, we have neither galleries nor artists of our own, nor any means, except the wealth and good fortune and taste of an individual Welshman here and there, of securing for our people either temporarily or permanently the artistic interpretation of the landscape and life of Wales by artists who come and live in Wales or settle down there for a reason' Ellis, 'Domestic and decorative art', t. 34.

Dylanwad chwaeth ddeallusol a chelfyddydol Lloegr Fictoraidd hwyr sydd i'w weld unwaith eto yn nes ymlaen yn yr erthygl hon wrth i Ellis ddatgan bod y 'celfyddydau cartrefol ac ardduniadol' yn bwysicach o lawer na'r celfyddydau ffurfiol, dinesig a deongliadol y cyfnod modern, a hynny oherwydd y pellter ffug a agoresid rhwng yr artist a'r werin yn ystod y chwyldro diwydiannol:<sup>775</sup>

I would say that our duty is, first of all, to banish from our minds the idea that Art is something really confined to painting and to sculpture, and to impress, in season and out of season, by word and by deed, that the only real hope of Art is in its constant application to industry and to everyday life.<sup>776</sup>

Athrawiaeth William Morris a'r Mudiad Celf a Chrefft sydd wrth wraidd y sylwadau hyn, wrth gwrs, ac mae Ellis yn trafod a dyfynnu'r bardd a dylunydd yn helaeth yn yr erthygl hon.<sup>777</sup> Yn ddiddorol iawn, sut bynnag, nid rhesymau athronyddol neu esthetig yn unig sy'n gyrru Ellis at y casgliad y dylai'r Cymry ganolbwyntio ar y celfyddydau cartrefol ac ardduniadol, ond rhesymau pragmataidd hefyd:

And although we in Wales cannot hope to produce at command great sculptors, or great painters, or great architects, yet I am convinced that we can very largely through our public and national system of education do much to kindle and rekindle and nourish the instinct for art in its application to industry, for beauty of design and truth in workmanship, in the mind and the life of the people, and more especially by nourishing the domestic and decorative arts, which are the handmaidens of the mother art of architecture.<sup>778</sup>

Ni all Cymru 'obeithio cynhyrchu cerflunwyr, arlunwyr neu benseiri o fri ar alw' meddai Ellis (oherwydd ei bychander a gwendid rhaid tybio), felly, fe fyddai'n well gan y Cymry ganolbwyntio ar gelf a chrefft 'diwydiannol', a chan hynny gyfrannu at 'fam gelf' pensaerniaeth rhywun arall. Mae'n wir i Ellis alw am Ysgol Bensaerniaeth Gymraeg mewn araith arall o 1896, ond dyma gyfres o ddatganiadau diddorol iawn o bersectif ein thesis canolog: mae diffyg gan Gymru, meddai Ellis; rhaid inni gywiro'r diffyg hwnnw, ond rhaid inni gywiro'r diffyg hwnnw o fewn ein galluoedd cyfyngedig; hynny yw, bod yn

---

<sup>774</sup> Ellis, 'Domestic and decorative art', t. 34.

<sup>775</sup> Ellis, 'Domestic and decorative art', tt. 35 a 36-38.

<sup>776</sup> Ellis, 'Domestic and decorative art', t. 60.

<sup>777</sup> Ellis, 'Domestic and decorative art', t. 40.

<sup>778</sup> Ellis, 'Domestic and decorative art', t. 39.

‘llawforwyn’ y celfyddydau diwydiannol i feistres y celfyddydau cain.<sup>779</sup> Dyma ddisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol heb ei ail.

Ar ôl canmol harddwch a chreffftwaith llefydd tân, silffoedd-ben-tân, heyrn tân a dodrefn derw cartrefi traddodiadol Cymru (ymysg llwyth o bethau eraill), aiff Ellis ymlaen i ddatgan ei ddiagnosis fod angen mwy o hyfforddiant yn y crefftau mewn ysgolion cynradd, uwchradd a nos.<sup>780</sup> Yn wir, roedd angen hyd at dair ‘Ysgol Gelf a Chreffft’ ar draws Cymru er mwyn ‘meithrin diwydiannau cartrefol a phentrefol’ y wlad.<sup>781</sup> Nid dros nos y ceid ysgol gelf frodorol Gymreig, sut bynnag: byddai angen ‘addysg’, ‘delfrydau cywir’ ac ‘amynedd’ er mwyn datblygu ‘chwaeth’, ‘sgiliau etifeddol’, a ‘syniadau cywir’ y bobl.<sup>782</sup> Pe llwyddid i wneud hyn, fe allai Cymru edrych ymlaen at ddyfodol disglair yn y celfyddydau:

All buildings and all products of the national mind shall show that there is a real vitality in the national Art of Wales, in that art which shall mirror not only the bright fancy of the Celt, but also that love of home, love of things of the mind, that spirituality, and that serious outlook upon life, which characterise the Cymry.<sup>783</sup>

Roedd awydd yr awduron a ystyrid yn yr adran hon i godi diwylliant y Cymry yn adlewyrchu pryder ehangach gan rai am gyflwr gwareiddiad dynoliaeth ei hun. Roedd y gwareiddiad hwn dan fygythiad difrifol yn chwarter olaf y 19g ym marn Emrys ap Iwan, er enghraifft, bygythiad gan wareiddiad cystadleuol wedi’i seilio ar fateroliaeth a philistiaeth, neu ‘farbareidd-dra’ yn ei eiriau ei hun. Byddai’n fuddiol dyfynnu darn estynedig ganddo:

Y gwareiddiad y sy’n gwella cyflwr dynion heb wella dim ar eu natur, y gwareiddiad y sy’n eu galluogi i fyw yn foethus heb eu dyscu i fyw yn foel; y gwareiddiad y sy’n eu cymell i wella eu hunain drwy ddrygu eraill; y gwareiddiad y sy’n galluogi cenedl wael i ddarostwng cenedl well na hi ei hun yn unig am fod ganddi fwy o gyfoeth a mwy o arfau rhyfel; y gwareiddiad y sy’n cymell dynion i ddyfeisio gwell offerynnau i ladd eraill nag i’w cadw yn fyw; y gwareiddiad y sy’n gwneuthur bragwyr a hap-chwareuwyr masnachol yn aelodau o Dŷ’r Arglwyddi ac o’r Cyfrin Gyngor; ac yn gwneuthur y dynionach mwyaf diegwyddor yn Llundain, yn Birmingham, ac yn Johannesburg yn eilunod; y gwareiddiad y mae gau-Gristionogion yn ei ganmol, a’r gwir Gristionogion yn ei ffieiddio â’u holl galon; ar air, gwareiddiad

---

<sup>779</sup> Thomas E. Ellis, ‘A plea for a Welsh School of Architecture: an address at University College, Bangor, January 30th, 1896’, yn Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrexham: Hughes and Son, 1912), tt. 67-82.

<sup>780</sup> Ellis, ‘Domestic and decorative art’, t. 61.

<sup>781</sup> ‘Schools of arts and crafts’; ‘Foster home and village industries’: Ellis, ‘Domestic and decorative art’, t. 61.

<sup>782</sup> ‘It cannot be done suddenly and quickly, the development of taste, the gradual accumulation of hereditary skill, and the diffusion of right ideas of design and of art among a people, cannot be achieved by passing resolutions or by plebiscite, it can only come by education, by right ideals, and by patience’: Ellis, ‘Domestic and decorative art’, t. 62.

<sup>783</sup> Ellis, ‘Domestic and decorative art’, t. 63.

nad yw'n ddim amgen na barboreidd-dra o'r fath waethaf wedi ei wyngalchu oddi allan.<sup>784</sup>

Gellir dadlau bod y bygythiadau lluosog y mae Emrys yn eu rhestri yn y darn uchod, sef materoliaeth, mecaneiddio, philistiaeth ac imperialaeth wleidyddol a diwylliannol, yn adlewyrchu rhai agweddau ar feddwl 'dirywiad' (*degeneration*) cyfredol B. A. Morel a Max Nordau.<sup>785</sup> Maent hefyd yn rhagweld agweddau ar *Decline of the West* (1918) gan Oswald Spengler a'i weledigaeth o gwmp gwareiddiad 'Ffawstaid' y gorllewin, ac maent yn sicr yn ein hatgoffa o gerydd diweddarach Saunders Lewis am 'fuddugoliaeth baganaidd a materol' cenedlaetholdeb Lloegr.<sup>786</sup> Yn wir, yn y gyfres o erthyglau 'Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys' o 1890-1892 bu Emrys yn proffwydo rhyfel byd mawr a fyddai'n cael ei ymladd ar gaeau Fflandrys, ac yn ei homili 'Crefydd a Gwareiddiad' ymofynnodd a oedd bywyd syml llwythddyn o Arabia yn fwy dymunol na bywyd y gorllewinwr diwydiannol-imperialaidd gyda'i ffatrioedd a'i threnau.<sup>787</sup> Daeth i'r casgliad 'yn ddibetrus' fod yr Arabiad yn 'ddedwyddach o lawer, oddi mewn ac oddi allan':

Bûm i fy hun, wrth deithio yn y Dwyrain, a gweled ambell dylwyth a Arabiaid yn pabellu yn ddiotal ar lannerch las, a'u praidd yn pori o'u hamgylch, yn cael fy nhemtio i ymofyn pwy oedd yn byw y bywyd hyfrytaf, ai hwynt-hwy ai nynt – pobl gwlad y meddwi a'r chwarae gerwin, gwlad y brys gwyllt a'r garw sŵn, gwlad y gweithfaoedd a'r mygau, gwlad y trenau, y ceir ymod a'r bisiglau. Buaswn yn ateb yn ddibetrus fod yr Arabiaid yn ddedwyddach o lawer, oddi mewn ac oddi allan, na'r masnachwyr goludog ac annuwiol yr ydys yn cenfigennu wrth eu llwyddiant ym Mhrydain, yn yr America, ac yn Neheubarth Affrica.<sup>788</sup>

Yn y cyd-destun hwn, felly, nid rhaglen gul, blwyfol ac ynysol yw cenedlaetholdeb Cymreig Emrys ap Iwan, ond rhan o weledigaeth ehangach o iachawdwriaeth ryngwladol. Mae holl wareiddiad Cristnogol ei hun mewn perygl ym marn Emrys os nad yw cenedloedd y byd yn taro cydbwysedd cywir rhwng gwaseidd-dra, annibyniaeth urddasol ac imperialaeth ormesol.

---

<sup>784</sup> Dyfynnir yn Hooson, 'Emrys ap Iwan', 163.

<sup>785</sup> Gw. Max Nordau, *The Conventional Lies of Our Civilisation* (1883), *Degeneration* (1892), a *Paradoxes* (1896).

<sup>786</sup> Oswald Spengler, *Der Untergang des Abendlandes* (1918 a 1923). Gw. *The Decline of the West* (cyfieithiad i'r Saesneg a nodiadau gan Charles Francis Atkinson), 2 cyfrol (London: Allen & Unwin, 1928). Dyfyniad Saunders Lewis: Dafydd Glyn Jones, 'Aspects of his work: his politics', yn Alun R. Jones a Gwyn Thomas (goln), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales Press, 1983), t. 29.

<sup>787</sup> Cyhoeddwyd 'Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys, gan y Tad Morgan C.I.' yn wreiddiol mewn 5 rhan yn *Y Geninen* rhwng Gorffennaf 1890 ac Ebrill 1892. Ailgyhoeddwyd yr erthygl gyfan mewn cyfrol yn 1931, 1977 ac yn 2011 gan Dalen Newydd. Gw. Dafydd Glyn Jones (gol.), *Emrys ap Iwan: Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys* (Bangor: Dalen Newydd, 2011).

<sup>788</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Crefydd a Gwareiddiad', yn Ezra Roberts (gol.), *Homiliau gan y Diweddar Parch. R. Ambrose Jones (Emrys ap Iwan) Cyf. 2* (Dinbych: Gee a'i Fab, 1909), t. 12.

Pan fydd Emrys yn sôn am Gymru, felly, mae'n sôn am bob cenedl, a dim ond cenedl annibynnol sy'n 'preswyllo yn llonydd yn ei gwlad ei hun' a all ddod o hyd i Dduw:

Y mae yn haws i genedl rydd ac annibynnol, ac i genedl a fo yn preswyllo yn llonydd yn ei gwlad ei hun, gael hyd i'w Duw na chenedl ddarostyngedig neu genedl orchfygol.<sup>789</sup>

Yn y pen draw, felly, mae uniondeb moesol cenedlaetholdeb yn gorwedd mewn cydbwysedd bregus rhwng bod yn 'genedl ddarostyngedig' a 'chededl orchfygol' ym marn Emrys. Os gellir dod o hyd i'r cydbwysedd hwnnw, caiff gwareiddiad ei achub:

Y mae cenedl ddarostyngedig yn dueddol i fyned yn wasaidd, yn ddywarddol, yn gyffredin ei syniadau, yn rhy llwfr i feddwl drosti ei hun, ac yn rhy llwfr i ddywedyd y gwir; a phan fyddo'r gyfryw genedl yn ceisio Duw, ei geisio y bydd hi er mwyn cael moethau neu anwes ganddo, ac nid er mwyn dyrchafu ei enw trwy weithredoedd da. Y mae peryglon cenedl orchfygol yn wahanol. Pan elo teyrnas yn ymerodraeth orchfygol y mae hi yn ymfalchïo, yn ymddirywio yn ei moesau, yn anghofio Duw ei Gwneuthurwr, yn cyffroi llid cenedloedd eraill ac yn gwneuthur rhywbeth neu gilydd i sicrhau ei chwmp ei hun. Y mae elfennau dinistr ym mhob ymerodraeth a ffurfiwyd trwy drais.<sup>790</sup>

## Rhaid i ni roi cof yn ôl i'r genedl

Gwelwyd uchod mai cadw a diogelu llawysgrifau hanesyddol mewn termau materol oedd un o flaenoriaethau cenedlaetholwyr megis Thomas E. Ellis, ond pwysicach o lawer iddynt, efallai, oedd lledaenu'r stori yr oedd yr arteffactau hyn yn perthyn iddi, sef hanes cenedlaethol Cymru. 'Tyfu yn gyflym' a fyddai'r 'teimlad cenedlaethol', a 'sefyll yn glir' a fyddai 'delfrydau'r genedl' pe bai'r Cymry yn cymryd diddordeb yn hanes eu gwlad eu hunain, meddai J. H. Davies yn 'Wales and the English' yn 1895.<sup>791</sup> A byddai'r teimlad hwn a'r delfrydau hyn yn troi yn 'oleudwr' i'n harwain at 'ddyfodol gwydych mewn llenyddiaeth a chelf', meddai'r un awdur:

If once Welshmen can be taught to take an interest in the history of their country – and no country has a more interesting history – the nationalist feeling will grow apace and the ideals of the nation will again stand forth clear and become the beacons to lead us towards a great future in literature and art.<sup>792</sup>

<sup>789</sup> Emrys ap Iwan, 'Crefydd a Gwareiddiad', 12.

<sup>790</sup> Dyfynnir yn Morgan, *Emrys ap Iwan: Garddwr Geiriau*, t. 23.

<sup>791</sup> Davies, 'Wales and the English', t. 161.

<sup>792</sup> Davies, 'Wales and the English', t. 161.

Dyma syniad a grisialodd Saunders Lewis yn feirniadol yn 1956, ac yntau'n dadlau bod 'cenedlaetholdeb politicaidd yn rhagdybio cenedl sy'n cofio, sy'n ei chofio'i hunan yn genedl, a'i chof hi'n rym cymdeithasol a pholiticalidd'.<sup>793</sup> Nid oedd gan fwyafrif mawr o Gymry ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg 'gof o'r math hwnnw', meddai Lewis, a 'chan eithrio ysgolheigion Rhydychen ac ychydig eraill', nid oedd 'rhyddfrydwyr Cymru Fydd nac yn gwybod nac yn deall hanes Cymru fu'.<sup>794</sup>

Y cenedlaetholwr Cymreig cyntaf i feddu ar 'gof o'r math hwnnw' oedd Michael D. Jones ym marn y cenedlaetholwyr a'i dilynai. 'Cefais yn ei gwmni beth na chefais yn yr un ysgol nag yn yr un coleg y bûm ynddynt erioed' meddai Owen M. Edwards mewn llythyr a gyhoeddwyd yng nghofiant E. Pan Jones, sef 'serch goleuedig at hanes ac iaith Cymru, a chred ddiysgog yn y gallu grymus sydd wedi cael yr enw "Cenedlaethol" wedi hynny'.<sup>795</sup> *Drych y Prif Oesoedd* gan Theophilus Evans a gyhoeddwyd yn 1716 oedd ffynhonnell dehongliadau hanesyddol Michael D. Jones, meddai D. Gwenallt Jones. Dyma ffynhonnell nas ystyrir bellach yn ddibynadwy, ond mae'n bwysig nodi bod Jones ei hun yn ymwybodol o'r gwaith ymchwil y dylid ei wneud ar lawysgrifau gwreiddiol er mwyn ail-ysgrifennu hanes Cymru o'r newydd.<sup>796</sup> Wedi dweud hynny, nid am faintioli na chywirdeb ei waith y cofir Michael D. Jones yng nghyd-destun hanesyddiaeth bellach ond am y persbectif Cymreig a arddelai a'r cyswllt a ddarparodd rhwng haneswyr Cymreig y Dadeni Dysg a haneswyr y cyfnod modern.<sup>797</sup>

Ac yntau'n dilyn esiampl Gweirydd ap Rhys a'i gyfrol enwog *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry* (1872-74),<sup>798</sup> roedd Owen M. Edwards yn bennaf ymysg cenedlaetholwyr y cyfnod i geisio lledaenu hanes Cymru i gynulleidfa ehangach. Wedi treulio cyfnod yn olygydd i'r cylchgrawn cenedlaetholgar-wleidyddol *Cymru Fydd*, ysgrifennodd y cymrawd o Goleg Lincoln Rhydychen yn 1891 am ei awydd i ddechrau addysgu'r 'gwahanol bleidiau' yng Nghymru am hanes 'Cymru fu', a chynorthwyo myfyrwyr ac addysgwyr hanes a llenyddiaeth Gymreig:

---

<sup>793</sup> Lewis, 'Owen M. Edwards', t. 31.

<sup>794</sup> Lewis, 'Owen M. Edwards', t. 31.

<sup>795</sup> Dyfynnir yn Jones, 'Michael D. Jones', t. 17. Bu Jones yn ceisio dysgu Edwards i 'ysgrifennu hanes Cymru o safbwynt Cymro' am flynyddoedd maith yn ôl pob tebyg (t. 17).

<sup>796</sup> Jones, 'Michael D. Jones', t. 17

<sup>797</sup> 'Michael D. Jones oedd y ddolen-gydiol rhwng Theophilus Evans ac O. M. Edwards': Jones, 'Michael D. Jones', t. 18.

<sup>798</sup> Robert John Pryse (Gweirydd ap Rhys), *Hanes y Britaniaid a'r Cymry yn Wladol, Milwrol, Cymdeithasol, Llenorol, a Chrefyddol, o'r Amseroedd Boreuaf hyd y Bresennol* (dau gyfrol) (Llundain; Caerlleon; Abertawe: William MacKenzie, 1872 a 1874).



Teimlwn fod gennyf waith arall i'w wneud dros Gymru. Y mae llawer o'r camddealltwriaeth rhwng y gwahanol bleidiau yng Nghymru yn codi o'r ffaith nad oes yr un blaidd yn deall hanes Cymru Fu. Yr wyf yn credu o hyd fod rhyw deimlad rhyfeddol gryf o undeb dan yr holl ymbleidio ac ymsectu sydd yng Nghymru [...] Felly, ar ôl y mis hwn, newidir enw ac amcan y cyhoeddiad [*Cymru Fydd*]. Ei enw fydd Cymru, ei amcan fydd gwasanaethu efrydwyr Hanes a Llenyddiaeth Gymreig a chynorthwyo hyrwyddwyr addysg y wlad.<sup>799</sup>

Ymddangosodd rhifyn cyntaf ei gylchgrawn newydd *Cymru* ar 15 Awst 1891, cylchgrawn a oedd 'ateb Owen Edwards i fethiant mudiad politicaidd Cymru Fydd' a 'chylchgrawn mwyaf ei ddylanwad hyd at sefydlu *Beirniad* John Morris-Jones', yn ôl Saunders Lewis.<sup>800</sup> Yn wir, amcan ei holl fywyd o hynny ymlaen, wrth gyhoeddi llwyth o gyfrolau arall yn y Gymraeg a'r Saesneg megis *The Story of the Nations: Wales* yn 1901 ac *A Short History of Wales* yn 1906,<sup>801</sup> fyddai 'rhoi Cymru'n ôl i'r Cymry', 'rhoi cof i'r genedl', a 'meithrin dinasyddion drwy gof hanes'.<sup>802</sup>

Rhoi cof yn ôl i'r genedl Fasnidd oedd un o brif amcanion cenedlaetholwyr Gwlad y Basg yn ystod y 1890au hefyd, a chreu hanes safonol a gwyddonol oedd bwriad Estanislao J. Labayru yn chwe chyfrol ei *Historia general del Señorío de Bizcaya* ('Hanes cyffredinol Arglwyddiaeth Biscaia') a gyhoeddwyd rhwng 1895 a 1903.<sup>803</sup> Ond os creu hanes gwyddonol oedd bwriad Labayru, creu hanes gogoneddus cenedlaethol a'i boblogeiddio oedd bwriad Sabino Arana yn ei *Bizcaya por su independencia* ('Biscaia dros ei hannibyniaeth') a gyhoeddwyd yn 1892, sef cyfres o erthyglau a oedd wedi eu hysgrifennu ar gyfer y cylchgrawn *La Abeja* yn 1890. Erthyglau ar iaith a hanes Gwlad y Basg oedd y rhain a drafodai bedair brwydr (hanesyddol a chwedlonol) yn benodol, sef y brwydrau rhwng y Biscaiaid a'r Leoniaid a'r Castiliaid yn Arrigorriaga (888), yn Gordexola a Otxandio (1355), ac yn Mungia (1470). 'Mae mor angenrheidiol i'r Biscaiaid adnabod rhai penodau penodol o hanes eu mamwlad', meddai Arana yn y rhagymadrodd i'r gwaith, cyn mynd ymlaen i ddatgan bod pobl, a newyddiadurwyr Bilbo yn benodol, yn dathlu digwyddiadau pwysig

---

<sup>799</sup> Dyfynnir yn Lewis, 'Owen M. Edwards', t. 30.

<sup>800</sup> Lewis, 'Owen M. Edwards', t. 31 a 32.

<sup>801</sup> Owen M. Edwards, *The Story of the Nations: Wales* (1901), Ailargraffiad (London: T. Fisher Unwin, 1902); Owen M. Edwards, *A Short History of Wales* (London: T. Fisher Unwin, 1906).

<sup>802</sup> Lewis, 'Owen M. Edwards', t. 31 a 32.

<sup>803</sup> Estanislao Jaime de Labayru y Goicoechea, *Historia general del Señorío de Bizcaya* (chwe chyfrol) (Madrid: Librería de Victoriano Suárez, 1895-1903)

hanes Sbaen, ond ‘nid yw neb yn cofio arwyr a merthyron ein rhyddid; nid yw neb yn cofio gogoniannau annibyniaeth Biscaia’.<sup>804</sup> Roedd Biscaia, meddai ef,

wedi cael ei oruchafu gan Sbaeniaeth, a bellach mae’n ymddangos i lygaid Ewrop fel y mae newyddiaduron estron ac estron-addolgar yn ei dymuno: sef fel talaith Sbaenaidd ei haniau a’i hanes, ac fel talaith Sbaenaidd yn ôl ei hewyllys ei hun a’i serch digymell.<sup>805</sup>

Bwriad Arana, yn debyg i fwriad Owen M. Edwards, oedd dangos y camau epig allweddol yn y broses o greu’r genedl Fasgaidd mewn iaith a dull hygyrch y byddai pob Basgiad yn ei ddeall. ‘Propaganda pur’ oedd hwn ym marn Robin Evans; ac yn ôl José Luis de la Granja Sainz, ‘crëwyd hanesyddiaeth genedlaetholgar Fasgaidd’ yn y gwaith hwn, a rhoddwyd yr hanesyddiaeth honno at ‘wasanaeth ei athrawiaeth wleidyddol’ o hynny ymlaen.<sup>806</sup> At hynny, ‘fe drowyd hanes yn arf wleidyddol’, meddai Sainz, a ‘dyfeisiwyd oes euraidd chwedlonol ddiflanedig’ y dymunai Arana ‘ei hadfer gyda’i fudiad cenedlaetholgar’.<sup>807</sup> ‘Cenedl fach Fasgeg ei hiaith’ oedd Biscaia’r oes euraidd hon, meddai Arana yn *Bizkaya por su independencia*, cenedl a fwynhaodd ei ‘bodolaeth berffaith hapus’ cyn i’r Sbaenwyr ddwyn ei hannibyniaeth oddi arni yn y 16g.<sup>808</sup>

Creu hanes cenedlaethol hygyrch y gallai’r bobl gyffredin yn dod ei adnabod oedd prif ffocws Arana ac Edwards ill dau felly, ond roedd rhai eraill yn canolbwyntio ar ‘awdurdod’ yr hanes hwnnw. Y prif reswm dros fethu ysgrifennu hanes safonol Cymru cyn cyrraedd y 1890au, ym marn Thomas E. Ellis, oedd diffyg casgliadau o’r prif statudau hanesyddol a driniau â Chymru. Roedd hanes Cymru yn ‘amhosibl’ hebddynt, dywedodd mewn araith o 1896:

Is it not a mockery to expect a reliable, scientific history of Wales without having in a handy and convenient form the statutes relating to Wales from the statute of Rhuddlan

---

<sup>804</sup> ‘Es tan necesario a los bizkainos el conocimiento de ciertos capítulos de la historia de su Patria’; ‘Y nadie se acuerda de los héroes y mártires de nuestra libertad; ninguno, de las glorias de la independencia bizkaina’: Arana, *Bizkaya por su independencia*, tt. 7 a 12.

<sup>805</sup> ‘[Bizkaya] dominada por el españolismo, y apareciendo a los ojos de Europa como quieran pintarla los periodistas extraños y extranjeristas, a saber, como provincia española por su naturaleza e historia y por su propia voluntad y espontáneo afecto’: Arana, *Bizkaya por su independencia*, t. 12.

<sup>806</sup> Evans, *Gwlad y Basg*, t. 82. ‘Con esta obra creó la historiografía nacionalista vasca, puesta al servicio de su doctrina’: Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 15.

<sup>807</sup> ‘Convirtió la historia en un arma política y se inventó una mítica edad de oro vasca perdida, que aspiraba a recuperar en el futuro con su movimiento nacionalista’: Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 19.

<sup>808</sup> ‘Pequeña nación eskalduna’; ‘existencia perfectamente feliz’: Arana, *Bizkaya por su independencia*, tt. 18 a 19.

to the great coercion statutes of Henry IV and the statutes of the Tudors? A history of Wales is impossible without them.<sup>809</sup>

At hynny, roedd 'fffenomenau cymdeithasol a gwleidyddol y dyddiau hyn' yn 'annealladwy heb astudiaeth o'r statudau hynny sy'n adlewyrchu bywyd brith Cymru', ynghyd â hanes Cyngor Cymru a'r Gororau a Llys y Sesiwn Fawr.<sup>810</sup> Os poblogeiddio hanes Cymru fu gwaith bywyd Owen M. Edwards, felly, 'cyfreithloni' hanes Cymru trwy astudio'r statudau hyn yn fanwl oedd gwaith bywyd Syr John E. Lloyd, yn ôl ei gofiannydd Huw Pryce:

The concept of national renewal begged the question of national origins and thus gave urgency to the study of the nation's history [...] The fundamental reason for focusing on the Welsh past was that this gave legitimacy to claims that modern Wales was a nation reborn.<sup>811</sup>

Dyma gymhelliant a ysbrydolid dan ddylanwad cenedlaetholdeb Tsiecaidd a Serbaidd ail hanner y 19g, medd Pryce, a chanfyddir cyfeiriadau yng ngwaith J. E. Lloyd at 'the inspiration that Czech and Serbian nationalists drew from the past in their aspirations to self-government'.<sup>812</sup> At hynny, honnai Lloyd fod astudio hanes cenedlaethol yn anhepgor i hybu hunan-barch cenedlaethol ac i ffurfio 'ysbryd cenedlaethol' y 'cymunedau newydd' hynny a fu'n hawlio eu hannibyniaeth ar y pryd:

The study of national history and of national literature is not a mere fad, the occupation of amiable people who have nothing more useful to do; it is essential to the growth of national self-respect and it has been one of the most powerful instruments in forming the national spirit of those new communities which are now claiming their independence.<sup>813</sup>

Er yr adnabyddir J. E. Lloyd yn bennaf am ei gyfrol enwog o 1911, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*, a'i *History of Wales* o 1930, fe gyhoeddodd sawl llyfr yn ystod cyfnod yr astudiaeth hon, gan gynnwys *The Ancient Laws of Wales* yn 1889, *Llyfr Cyntaf Hanes* yn 1893, *Ail Lyfr Hanes (Hanes Cymru o 400 Hyd 1066 O.C.)* yn 1896, a *Trydydd Llyfr Hanes (Hanes Cymru o 1066 hyd 1282)* yn 1900.<sup>814</sup> Amcan

---

<sup>809</sup> Ellis, 'The duty of the Guild', t. 159.

<sup>810</sup> 'The social and political phenomena of to-day are unintelligible without a study of those statutes which mirror the chequered life of Wales': Ellis, 'The duty of the Guild', t. 159.

<sup>811</sup> Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 90 a 91.

<sup>812</sup> Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 91.

<sup>813</sup> Dyfynnir yn Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 91.

<sup>814</sup> J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*, 2 gyfrol (London, 1911; 2nd edn, London, 1912; 3rd edn, London 1939); *A History of Wales*, Benn's Sixpenny Library no. 119 (London, 1930). Hubert Lewis a John Edward Lloyd (goln), *The Ancient Laws of Wales* (London: Elliot Stock, 1889); J. E. Lloyd, *Llyfr Cyntaf Hanes* (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1893); J. E. Lloyd, *Ail Lyfr Hanes (Hanes Cymru o 400 Hyd 1066 O.C.)* (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1896); J. E.

Lloyd yn y cyfrolau hyn, a thrwy gydol ei yrfa, oedd profi bod y Cymry yn bobl hynafol a bod cenedligrwydd Cymreig yn gyfreithlon, medd Pryce:

His task as a historian, therefore, was to confer legitimacy on the modern sense of Welsh nationality by demonstrating that it had deep foundations whose features could be established more authoritatively than ever before by using the most modern scholarly methods.<sup>815</sup>

Er mwyn gwneud hynny, byddai Lloyd yn troi ei gefn ar chwedlau traddodiadol hanesyddiaeth Gymreig a *Drych y Prif Oesoedd* a throi at fethodolegau wyddonol newydd yr oes, sef dadansoddi ffynonellau cyfreithiol gwreiddiol yn fanwl ac yn systematig.<sup>816</sup> Serch hynny, byddai Lloyd yn gwneud hynny, dadleua Pryce, o bersbectif ‘gwladgarwr’ Cymreig ymroddedig ac nid o bersbectif sylwedydd diduedd.<sup>817</sup> Byddai Lloyd yn rhoi amlygrwydd mewn teitlau penodau i dywysogion a fu’n cyflawni ‘campau cenedlaethol’, er enghraifft, a ni ddadansoddwyd cyflwyniadau unigolion yng nghyd-destun y cyfnod dan sylw ond yn ôl y gwaddol a adawsent i’r genedl maes o law.<sup>818</sup> Personolwyd pobl Cymru yn un ‘actor’ hefyd, a ffafriwyd cymeriadau hanesyddol a adlewyrchent ewyllys gwleidyddol cenedlaetholwyr rhyddfrydol y 1890au, sef hunanlywodraeth o fewn yr Ymerodraeth Brydeinig. Mae gan Llywelyn ap Iorwerth rôl amlwg yn naratif Lloyd felly, a chan hynny neges wleidyddol glir ar gyfer y presennol: mae annibyniaeth i Gymru yn y dyfodol yn dibynnu ar ei lle o fewn Prydain ehangach a phenarglwyddiaeth Lloegr, fel y bu yn amser Llywelyn Fawr.<sup>819</sup>

Sefydlu ‘mawredd’ arwyr Cymreig hanesyddol mewn ffordd wyddonol a dibynadwy oedd amcan Lloyd yn y pen draw, felly, ynghyd â sefydlu ‘datblygu parhaol [...] cymeriad cenedlaethol’ y Cymry yn unol â syniadau Fichte a chenedlaetholwyr rhamantaidd Almaenig; dyma rywbeth yr oedd William Stubbs eisoes wedi llwyddo i’w wneud yn achos Lloegr yn *The Constitutional History of England in Its Origin and Development* (1875).<sup>820</sup> Yn wir, mae’n ddiddorol nodi o bersbectif ôl-drefedigaethol mai yn Saesneg y dewisodd Lloyd ysgrifennu ac efelychodd hanesion safonol Lloegr megis gweithiau Edward Hyde, David

---

Lloyd, *Trydydd Llyfr Hanes (Hanes Cymru o 1066 hyd 1282)* (Caernarfon: Cwmni’r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900).

<sup>815</sup> Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 93.

<sup>816</sup> Bu Lloyd yn gweithio ar ffynonellau a oedd eisoes wedi cael eu hadysgrifio a’u cyhoeddi ac nid ar lawysgrifau gwreiddiol: ‘His priority as a historian was to try and impose coherence on the past through meticulous investigation of the published source material, and he made relatively little use of unpublished manuscripts and documents’: Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 71.

<sup>817</sup> Gw. Pryce, *J. E. Lloyd*, tt. 152-156.

<sup>818</sup> Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 163.

<sup>819</sup> Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 163.

<sup>820</sup> Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 159.

Hume a William Stubbs. Canmol y Cymry a ‘ymddygodd fel Saeson’ oedd ei brif bwrpas yn y pen draw.<sup>821</sup> Aiff Pryce ymlaen:

It may even be that, for Lloyd, the greatest Welsh rulers were those who managed to behave most like the English – an attitude consistent with the insistence of T. C. Edwards and like-minded compatriots that modern Welsh culture needed to assimilate English elements.<sup>822</sup>

Gellid dadlau yn gryf felly, nad oedd naratif mwyaf awdurdodol y 19g hwyr ynglŷn â hanes y genedl Gymreig, a chan hynny prif llyn hanesyddol ein disgwrs cenedlaethol, yn adlewyrchu mwy na thybiadau cenedlaethol-drefedigaethol yr awdur ei hun: naratif lle mae gan Gymru safle israddol yn nheyrnas Lloegr a naratif sy’n breintio rhinweddau’r Saeson dros y rhai brodorol. Roedd Lloyd ac eraill yn awyddus i roi cof annibynnol yn ôl i’r genedl Gymreig felly, ond cof wedi’i gyflyru yn gadarn gan y syniad o dra-arglwyddiaeth a rhagoriaeth dosbarth llywodraethol y Saeson.

## **Rhaid i ni buro ein hil a’n moesau**

Gwelwyd uchod fod Sabino Arana a chenedlaetholwyr Basgaid eithafol eraill yn sefydlu deuoliaeth gategoriaidd rhwng Basgiaid Cristnogol duwiol a phobl anffyddlon ac anfoesol gweddill Sbaen yn haen sylfaenol eu disgwrs cenedlaethol. Gwelwyd hefyd sut y priodolwyd pob math o ddrygau cymdeithasol at y Sbaenwyr a fuasai’n mewnfudo i Wlad y Basg yn ystod chwarter olaf y 19g, a gwelwyd mai ‘dirywio mewn cymeriad’ a fyddai’r Biscaiad a gysylltai â hwy.<sup>823</sup> *Maketos* oedd ar fai, felly, am bob elfen o lygredd cymdeithasol Gwlad y Basg yn y 1890au yn ôl Arana gan gynnwys ‘anfoesoldeb, cabledd, trosedd, rhydd-feddwl, anghrediniaeth, sosialaeth, [ac] anarchiaeth’.<sup>824</sup>

‘Ynysu’ eu hunain rhag y *maketos* ‘ym mhob agwedd ar fywyd’ oedd yr argymhelliad a roddodd Arana i’r Basgiaid yn *Bizkaitarra* ym mis Ionawr 1895. Fel arall, meddai, ni allent ‘weithio dros ogoniant Duw’ yn eu gwlad eu hunain.<sup>825</sup> Mewn erthygl arall yn *La Patria* yn 1902, datganodd Arana y dylai’r Basgiaid gilio rhag ‘haint farwol’ y *maketos* a ‘chadw at

---

<sup>821</sup> Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 100.

<sup>822</sup> Pryce, *J. E. Lloyd*, t. 158.

<sup>823</sup> ‘El bizkaino degenera en carácter si roza con el extraño’: Arana, ‘¿Qué somos? (IV)’, t. 1.

<sup>824</sup> Arana, ‘¡Caridad!’, t. 2.

<sup>825</sup> ‘Es preciso aislarnos de los maketos en todos los órdenes de la vida. De otro modo, aquí en esta tierra que pisamos, no es posible trabajar por la gloria de Dios’: Arana, ‘Educación moderna’, tt. 2-4.

ffydd eu hynafiaid a'r crefyddusrwydd difrif" a'u hynodai. Dylent 'buro' eu harferion, a fu mor 'iachus a rhagorol' yn y gorffennol ond a oedd 'wedi cael eu heintio' yn ddiweddar ac ar fin 'mynd yn bwdr' oherwydd dylanwad y mewnfudwyr.<sup>826</sup> Yn ychwanegol at hynny, ni ddylai'r Basgiaid briodi â mewnfudwyr o Sbaen o dan unrhyw amgylchiadau, meddai ef. Roedd Arana mor 'obsesiynol' ynghylch y pwynt olaf hwn, meddai José Luis de la Granja Sainz, y seiliai plot nifer o'i ddramâu, a'i gomedi *De fuera vendrá* (1898) yn benodol, ar y tensiwn hwn rhwng teimladau personol a dyletswydd dorfol y Basgiaid i gadw eu hil yn bur.<sup>827</sup> Yn yr un modd, diddorol yw nodi y priododd Arana â Nicolasa de Achica-Allende yn 1900, merch annysgedig o Sukarrieta yr oedd ganddi fwy na chan cyfenw Basgaidd yn ei hach deuluol; dyma gymhwyster o burdeb hiliol teilwng i arweinydd y EAJ-PNV, mae'n debyg, er nad oedd angen mwy na dau daid a dwy nain â chyfenwau Basgaidd i fod yn aelod *batzoki* (canolfan Basgaidd) y EAJ-PNV yn ôl rheoliadau'r blaid.<sup>828</sup>

Trafodai Arana ei awydd i buro'r hil Fasgaidd yn aml yn nhudalennau ei gylchgronau, ac yn yr erthygl enwog 'La pureza de raza' ('Purdeb hil') a ymddangosodd yn *Bizkaitarra* ym mis Mawrth 1895, gosododd allan y polisi y byddai'r EAJ-PNV yn ei weithredu pe sicraent annibyniaeth i Fiscaia rywbyrd yn y dyfodol. Yn y lle cyntaf, byddai 'estroniaid' yn gallu ymsefydlu ym Miscaia 'o dan warcheidwaeth eu conswl priodol', ond ni allent 'ddod yn ddinasyddion' y wladwriaeth newydd; dyma bolisi digon rhesymol yng nghyd-destun perthnasau rhyngwladol y cyfnod, gellid dadlau.<sup>829</sup> Ond tynged lai elusengar byth a arhosai'r Sbaenwyr, a ystyrid hefyd yn estroniaid gan Arana. Byddai *Las Juntas Generales* (cynulliad taleithiol Biscaia) yn penderfynu, meddai ef, a ddylent 'gael eu halltudio' a'u gwahardd rhag 'dod i mewn i diriogaeth Biscaia' yn ystod blynyddoedd cyntaf annibyniaeth, a hynny 'er mwyn dileu pob arlliw yr oedd eu tra-arglwyddiaeth wedi ei gadael ar gymeriad, arferion ac iaith' y Biscaiaid.<sup>830</sup>

---

<sup>826</sup> 'Nosotros, los vascos, evitemos el mortal contagio, mantengamos firme la fe de nuestros antepasados y la seria religiosidad que nos distingue, y purifiquemos nuestras costumbres, antes tan sanas y ejemplares, hoy tan infestadas y a punto de corromperse por la influencia de los venidos de fuera': Sabino Arana [o dan y ffugenw 'Baia'], 'El catolicismo en el norte', *La Patria*, Año II/Número 39, 20 Gorffennaf 1902, t. 1.

<sup>827</sup> Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 20.

<sup>828</sup> Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, tt. 16 a 24

<sup>829</sup> 'Los extranjeros podrían establecerse en Bizcaya bajo la tutela de sus respectivos cónsules; pero no podrían naturalizarse en la misma': Arana, 'La pureza de raza', t. 1. Daw pob dyfyniad sy'n dilyn yn y paragraff hwn a'r ddau canlynol o'r un ffynhonnell a'r un dudalen.

<sup>830</sup> 'Respecto de los españoles, las Juntas Generales acordarían si habrían de ser expulsados, no autorizándoles en los primeros años de independencia la entrada en territorio bizkaino, a fin de borrar más fácilmente toda huella que en el carácter, en las costumbres y en el idioma hubiera dejado su dominación'.

Wedyn, ac yn rhinwedd ‘cyfraith naturiol a thraddodiadol’ Gwlad y Basg, meddai Arana, byddai dinasyddion Biscaia yn perthyn i dri dosbarth. Yn gyntaf, cafwyd ‘teuluoedd gwreiddiol Biscaia’, sef dinasyddion pur Biscaia. Wedyn, trwy gydffederasiwn â’r taleithiau Basgaid eraill, cafwyd ‘teuluoedd’ ehangach ‘yr hil Fasgaid’. Ac yn olaf, a thrwy ganiatâd arbennig *Las Juntas Generales*, a chyda rhai cyfyngiadau cyfreithiol a thiriogaethol, cafwyd ‘teuluoedd cymysgryw neu Fasgaid-estronol’.<sup>831</sup> Cydnabyddai Arana ei hun fod y trydydd dosbarth hwn, sef rhyw fath o ddinasyddiaeth israddol i’r rhai a briodasent â Sbaenwyr, yn codi arswyd ar y ‘Biscaiaid wedi’u hestroneiddio’.<sup>832</sup> Ond nid oedd y bobl hyn yn ‘deall’ mai dim ond ‘copi syml a ffyddlon’ o fesurau’r hen *fueros* oedd polisi’r EAJ-PNV, meddai Arana, neu fel arall, roeddent yn disgwyl i’r ‘sefydliadau gwladgarol’ addasu yn ôl ‘eu mympwyon’ hwy yn lle eu bod hwy yn addasu at hen gyfreithiau’r wlad.<sup>833</sup>

Aeth Arana ymlaen yn ‘La pureza de raza’ i esbonio pam oedd y polisiâu hyn mor ganolog i’w syniad o’r genedl Fasgaid. Pe na byddai egwyddorion a sylfeini’r hen *fueros* wrth wraidd deddfau a chyfansoddiad y Biscaia newydd, meddai, nid ‘Biscaia Biscaiaidd’ fyddai’r wlad ond ‘Biscaia *maketa*’.<sup>834</sup> Mewn mapiau gwleidyddol yn unig, ac nid mewn mapiau ethnograffig neu hiliol, y canfyddid y Biscaia annibynnol a boblogid yn bennaf gan bobl Sbaenaidd, meddai, ac fel ‘gwladwriaeth annibynnol’ yn unig y byddai’n ymddangos, nid fel gwladwriaeth a ‘gyfansoddiad yn ddeddfwriaethol Fiscaiaidd’.<sup>835</sup> ‘Enw’ Biscaia yn unig a fyddai’n parhau yn y diriogaeth yr anheddai’r ‘genedl Fiscaiaidd’ ynddi gynt, ac o dan yr amgylchiadau hyn, meddai Arana, gwell i’r wladwriaeth newydd ‘gael ei chladdu gan ddaeargryn’ er mwyn i’r enw ‘ddiflannu’ hefyd.<sup>836</sup> Cenedl hiliol o gnawd a gwaed oedd cenedl y Basgiaid yn y pen draw i Sabino Arana, ac nid yn unig y byddai’n ddiffygiol pe na

<sup>831</sup> ‘La ciudadanía bizkaina pertenecería por derecho natural y tradicional a las familias originarias de Bizkaya, y en general a las de raza euskeriana, por efecto de la confederación; y, por concesión del poder (Juntas Generales) constituido por aquéllas y éstas, y con las restricciones jurídicas y territoriales que señalaran, a las familias mestizas o euskeriano-extranjeras’.

<sup>832</sup> ‘He ahí la doctrina nacionalista que a muchos bizkainos extranjerizados en las ideas o en la sangre, o emparentados con familias de raza extraña, los aterra como espantoso fantasma’.

<sup>833</sup> ‘Porque no comprenden que es una simple y fiel copia de una de las bases políticas contenidas en el Fuero y en la historia de Bizkaya, o porque no quieren acomodarse ellos a las instituciones patrias, sino que éstas se adapten y amolden a su capricho’.

<sup>834</sup> ‘Y es el caso que una Bizkaya cimentada sobre otras bases fundamentales que las determinadas en su Fuero e historia, simbolizadas por el Roble de Gernika y proclamadas por el partido nacionalista, no sería una Bizkaya bizkaina, sino una Bizkaya maketa’.

<sup>835</sup> ‘Por el contrario: si se diera una Bizkaya, libre sí, pero constituida por la raza española, ¿sería en verdad Bizkaya? Sólo en los mapas; y de éstos en los políticos, que no en los etnográficos o de razas; y sería Bizkaya en aquéllos solamente como estado independiente, no como estado constituido y legislado bizkainamente, pues la raza maketa no podría vivir con las leyes tradicionales de nuestra raza’.

<sup>836</sup> ‘De manera que no quedaría más que el nombre de Bizkaya, por causa de quedar el territorio que en otras épocas ocupaba la nación bizkaina’; ‘Verdad es que en ese caso valiera más le hundiera un terremoto a este último, para que así desapareciese también el nombre’.

châi ei phuro rhag gwaed y Sbaenwyr, ond byddai hi'n 'peidio â bod' i ddwyn geiriau Emrys ap Iwan. Rhaid i'r *maketos* ddiflannu os oedd cenedl y Basgiaid yn mynd i barhau i fodoli.

Ymddangosodd y ddelwedd lenyddol boblogaidd 'Cymru lân, gwlad y gân' yng ngwaith beirdd gwladgarol megis John Jones (Talhaiarn) yn y 1850au fel adwaith yn erbyn casgliadau'r 'Llyfrau Gleision', a chafodd ei hailadrodd yn hir yn y 19g a 20g gynnar.<sup>837</sup> Dyma gytgan, er enghraifft, a genid gan y bardd T. Gwynn Jones a'i gyfeillion mewn eisteddfodau Sir Ddinbych pan yr oeddent yn ifainc yn y 1880au hwyr:

Tra byddo ffydd a rhinwedd  
Yn ysbrydoli cân,  
O bydded ein calonnau  
Yn bur i Walia lân.<sup>838</sup>

Cyfeirio at foesoldeb glân tybiedig y Cymry ac nid at burdeb hiliol y bobl y mae'r penillion hyn, ond mae'n glir hefyd fod rhai awduron yng Nghymru megis Emrys ap Iwan yn awyddus i gadw moesau'r Cymry'n 'bur' rhag arferion 'amhur' Seisnig. Roedd yn gas ganddo, er enghraifft, weld lledaenu chwaraeon Seisnig dros Gymru; nid ynddynt eu hunain, mae'n debyg, ond oherwydd y ffordd y mae 'chwarae' yn troi yn ganolbwynt bywyd ar draul pethau pwysicach:

Y maent yn teithio milltiroedd er mwyn chwarae; am chwarae y maent yn siarad, am chwarae y maent yn darllen, ac am chwarae y maent yn meddwl. Chwarae yw gwaith llawer ohonynt, eu proffes, eu galwedigaeth; a phan elo chwarae yn waith y mae'n peidio â bod yn chwarae.<sup>839</sup>

Yn yr un ffordd, roedd y gamp newydd o Loegr, pêl-droed, yn gamp 'anifeilaidd a darostyngol [...] yn fwy cyfaddas i fagu milwyr nag i fagu dynion' yn ei farn ef, a dim ond os oedd yr ystum a fabwysiedid ar y cyfrwy yn un 'urddasol' y dylid goddef 'seiclo', ond byth yn 'rhy aml'.<sup>840</sup> Nid oedd Emrys yn rhy hoff o'r neuaddau cerddoriaeth newydd a gyrhaeddai o Loegr chwaith, ond mae awgrym yn ei homili 'Caru Difyrrwch' mai oherwydd rhesymau materol oedd hyn, nid rhesymau ysbrydol, wrth iddo ysgogi ei gynulleidfa i gofio eu waledau:

---

<sup>837</sup> Gw. Huw Meirion Edwards, 'The lyric poets', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), t. 116. Noder ffurf boblogaidd arall ar yr un motiff: 'Cymru lân, Cymru lonydd'.

<sup>838</sup> Jenkins, *Thomas Gwynn Jones*, t. 49.

<sup>839</sup> Dyfynnir yn Williams, 'Emrys ap Iwan', t. 18.

<sup>840</sup> Dyfynnir yn Williams, 'Cysylltiad Emrys ap Iwan', t. 22.



Paham, er enghraifft, y dylai dyn ymgadw rhag caru difyrrwch? Ai am fod caru difyrrwch yn ei dynnu tu ag uffern; nage ddim, yn ôl y testyn: ond am fod hynny yn ei ddwyn i dlodi yn y byd hwn.<sup>841</sup>

Ond tybed a welir yma bragmatiaeth rethregol Emrys yn lle argyhoeddiad materol? Ai gwell iddo ddylanwadu ar feddwl ei gynulleidfa ac achosi newid yn eu hymddygiad yn hytrach na ddilyn dadl foesol yn slafaidd?<sup>842</sup>

Gwelir llawer o gwynion o'r math hwn yng ngwaith Emrys ap Iwan, ond ni ellir dweud y gwelir datganiadau o blaid polisïau 'hiliol', echblyg, yn y wasg Gymreig yn y 1890au yn gyffredinol. Y datganiad sydd agosaf at y patrymau Basgaidd a welwyd uchod yw arwyddair cenedlaetholgar poblogaidd y cyfnod, 'Cymru i'r Cymry'. Dyma'r hyn a ddywedodd Emrys ap Iwan, er enghraifft, yn 'Paham y Gorfu'r Undebwyr' yn 1895:

Cymru i'r Cymry; Lloegr i'r Saeson; yr Alban i'r Albanaidd; Iwerddon i'r Gwyddelod! Yr eiddo'r Cymro i'r Cymro, a'r eiddo'r estron i'r estron! – Yn enw rheswm, pa beth sy decach?<sup>843</sup>

Nid yw'r datganiad 'yr eiddo'r Cymro i'r Cymro, a'r eiddo'r estron i'r estron' yn awgrymu o reidrwydd fod Emrys o blaid alltudio Saeson o ogledd Cymru yn gorfforol neu ei fod am greu dosbarth cyfreithiol newydd o 'Gymry cymysgryw neu Gymreig-estronol' bid sicr. Ond mae'n eglur bod Emrys yn awyddus i roi 'eiddo' y Cymry yn ôl iddynt rywsut ac yn awyddus iddynt ynysu eu hunain rhag y Saeson i ryw raddau; neu dyna'r ffordd yr oedd beirniaid cyfredol yr arwyddair yn ei ddeall o leiaf. Wfftiwyd a gwrthodwyd y syniad o 'Gymru i'r Cymry' yn llwyr gan J. H. Davies yn *Young Wales* ym mis Gorffennaf 1895 er enghraifft:

“Wales for the Welsh”. Such a cry finds no acceptance among Welsh Nationalists, and it is doubtful whether a Welsh newspaper has ever given vent to such an absurd idea.<sup>844</sup>

Yn debyg i hynny, mae T. Mortimer Green yn yr un cylchgrawn yn ddiweddarach yn 1895 yn mynegi'r pryder y byddai'r Cymry yn eu hynysu eu hunain rhag y byd mawr yn yr un ffordd ag yr oedd rhai yn Tsieina yn dechrau eu hynysu eu hunain rhag y byd datblygedig:

---

<sup>841</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Caru Difyrrwch', yn Ezra Roberts (gol.), *Homiliau gan y Diweddar Parch. R. Ambrose Jones (Emrys ap Iwan) Cyf. 1* (Dinbych: Gee a'i Fab, 1906), t. 278.

<sup>842</sup> Noder bod Sabino Arana yn ceryddu 'bailes de salon' (dawnsiau neuadd) yn chwyrn hefyd, ac yn eu gwahardd rhag cael eu cynnal yn *batzoki* yr EAJ-PNV: 'Dim byd am ddawnsiau neuadd. Maent yn mynd yn groes i foesau ac arferion Biscaiaidd. Nis caniateir gan y rheoliadau' ['Nada de bailes de salón, que están reñidos con la moral y con las costumbres bizkainas. No los consiente el Reglamento']: troednodyn yn Arana, '¿Vida nueva?', t. 1.

<sup>843</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 41.

<sup>844</sup> Davies, 'Wales and the English', t. 159.

“Wales for the Welsh” is rhythmical and forms a convenient platform cry. Is it however a tenable position to occupy? Translate it into the language of the East and we have an example of its great danger when its limitations are not clearly understood. ‘China for the Chinese’ has paralyzed a nation’s energies, cribbed and cabined her intellectual growth, and left her bleeding at the conqueror’s feet.<sup>845</sup>

Pwysig yw nodi yma fod gweithgareddau’r grymoedd mawrion yn Tsieina yn ystod ail hanner y 19g, a’r digwyddiadau a arweiniodd at Wrthryfel y Bocswyr yn 1899, yn cael eu hystyried bellach yn rhai o benodau tywyllaf hanes imperialaeth yr oes Fictoraidd.<sup>846</sup> Derbynnir, ar y cyfan, mai galwad taer yn erbyn llechfeddiannu parhaol a chynyddol i mewn i fywyd masnachol, gwleidyddol, cyfreithiol a chrefyddol y Tsieineaid oedd yr alwad ‘Tsieina i’r Tsieineaid’, neu alwad i atal ymyrraeth diwylliant estron mewn cymdeithas draddodiadol frodorol ym marn y Bocswyr. Ond ystyrid yr alwad ‘Tsieina i’r Tsieineaid’ yn alwad yn erbyn moderniaeth, Cristnogaeth, a hyd yn oed gwareiddiad ei hun ym marn y gorllewin yn y 1890au: fe’i hystyrid yn alwad a ataliai’r wladwriaeth Tsieineaid rhag datblygu yn economaidd a rhag cymryd rhan yn y gyfundrefn ryngwladol. Amod annatod i Tsiena fanteisio ar aelodaeth o’r gymuned ryngwladol-drefedigaethol fodern oedd derbyn pob ‘consesiwn masnachol’ a ‘chylch dylanwad ecsoglwsif’ a fynnai’r pwerau gorllewinol wrth gwrs, ynghyd â llwyth o newidiadau cyfreithiol a chymdeithasol a ystyrid yn briodol gan eu heglwysi Cristnogol cenhadol.<sup>847</sup> Nid oedd modd i’r Tsieineaid llawn feddu ar eu hadnoddau eu hunain na’u diwylliant eu hunain pe dymument fwynhau gras a ffafr y gorllewin yn y pen draw.

Galwad wrthdrefedigaethol oedd ‘Tsieina i’r Tsieineaid’ na allai’r grymoedd gorllewinol ei goddef yn hir felly, ac mae’n ddiddorol dros ben fod y Cymro T. Mortimer Green – wrth ysgrifennu yn y cylchgrawn cenedlaetholgar *Young Wales* – yn cymharu goblygiadau gwleidyddol-economaidd yr arwyddair ‘Cymru i’r Cymry’ â goblygiadau ‘trychinebus’ yr arwyddair ‘Tsieina i’r Tsieineaid’. Mae’r neges yn glir: nid oedd modd i’r Cymry eu hynysu eu hunain rhag dylanwad gwareiddiol y byd imperialaidd modern heb ‘barlysu egni’r genedl’, ‘cyfyngu a charcharu ei thwf deallusol’, a’i ‘gadael hi’n gwaedu wrth draed y gorchfygwr’. Nid oedd modd i’r Cymry lawn feddu ar eu hadnoddau eu hunain na’u diwylliant eu hunain os dymument fwynhau gras a ffafr yr Ymerodraeth Brydeinig yw

---

<sup>845</sup> T. Mortimer Green, ‘Nationalism – Its Limitations’, *Young Wales*, Vol. I/No. 11, Tachwedd 1895, t. 260.

<sup>846</sup> Gw. Robert Bickers a R. G. Tiedemann (goln), *The Boxers, China, and the World* (Lanham, Maryland: Rowman & Littlefield, 2007) am gyfres o erthyglau ar wahanol agweddau o’r gwrthdaro yn Tsiena yn y 19g.

<sup>847</sup> Bickers a Tiedemann (goln), *The Boxers*, t. xiii.

goblygiadau geiriau T. Mortimer Green yn y pen draw; datganiadau ôl-drefedigaethol heb eu hail wrth gwrs.

Gwelir uchod, felly, fod rhai cenedlaetholwyr Basgaidd – a Sabino Arana yn benodol – yn awyddus i gywiro'r 'cam' hanesyddol o gymysgu gwaed Basgaidd â gwaed Sbaenaidd. Roeddent yn awyddus i'w hynysu eu hunain i'r radd eithaf posibl oddi wrth y *maketos* ac roedd ganddynt gynlluniau cynhwysfawr i wireddu hynny yn gyfreithlon wedi sicrhau eu gwladwriaeth annibynnol. Er na welir datganiadau hiliol i'w cymharu â'r galwadau eithafol hyn yn y disgwrs Cymreig, gwir yw bod galwadau am wrthod arferion 'anfoesol' y Saeson a galwadau megis 'Cymru i'r Cymry' yn dangos yr awydd gan rai yng Nghymru i gau'r 'arall' allan i ryw raddau neu'i gilydd. Ond gwelir lleisiau cryfion eraill yng Nghymru – lleisiau sy'n cael eu dylanwadu gan ddisgwrs metropolitanaidd Prydeinig y cyfnod – sy'n gwrthod unrhyw syniad o ynysu'r Cymry oddi wrth y Saeson, yn awyddus i osgoi cerydd eu meistri imperialaidd. Dyma 'ddiffygion a chywiriadau' cenedlaethol, a sector y paradeim disgyrsiol, sy'n amrywio fwyaf rhwng disgyrisiau cenedlaethol-drefedigaethol Cymru a Gwald y Basg yn y 1890au.

## **Rhaid i ni gysylltu/datgysylltu'r Eglwys**

Pwysicach o lawer i garfan fawr o genedlaetholwyr Cymreig y cyfnod na chywiro rhyw ddrygioni Seisnigaidd a fabwysiadwyd gan y Cymry yn ddiweddar, a phwnc a gafodd gryn dipyn o sylw yn y wasg genedlaetholgar, oedd y diffygion y dymument eu cywiro yn neddfwriaeth gymdeithasol y wlad a statws cyfansoddiadol Eglwys Loegr yng Nghymru. Ar ôl ymgyrch hir yn y 1860au a'r 1870au, er enghraifft, pasiwyd Deddf Cau Tafarnau ar y Sul (Cymru) yn 1881, y ddeddf gyntaf ers Deddfau Uno Cymru a Lloegr (1535-42) i fod yn benodol berthnasol i Gymru yn unig, a'r ddeddf a roddodd egwyddorion y mudiad dirwest ar waith.<sup>848</sup> Nid mudiad penodol Cymreig oedd y mudiad dirwest wrth gwrs, ond pan fethodd mesur 'Lloegr a Chymru' Syr Joseph Pease ar lawr Tŷ'r Cyffredin, ac wrth i filoedd o bobl Cymru arwyddo deisebau yn datgan eu cefnogaeth, fe fu llywodraeth Rhyddfrydol William Gladstone yn cefnogi mesur 'Cymru yn unig' John Roberts, a byddai tafarndai Cymru yn cau

---

<sup>848</sup> Bu dwy ddeddf benodol Gymreig flaenorol, sef Deddf Cymru a Berwick (1746) a Deddf Eglwysi Cadeiriol Cymru (1843), ond harmoneiddio trefniadau Cymru â Lloegr oedd bwriad y deddfau hyn ac nid eu gwahaniaethu. Gw. W. R. Lambert, 'The Welsh Sunday Closing Act, 1881', *Welsh History Review*, Volume 6 (1972-73), 161-189, am hanes cryno o'r ddeddf.

ar y Saboth am bron i ganrif. Roedd gwendid cenedlaethol y Cymry o feddwi ar y Sul wedi cael ei gywiro, mae'n debyg.

Yn ddiweddarach yn y 1880au, trodd sylw ac ymdrechion arweinwyr cenedlaethol Cymru at statws cyfansoddiadol Eglwys Loegr yng Nghymru, eglwys wladol yr oedd ganddi'r hawl gyfreithiol i godi trethi (a'r degwm yn benodol) ar gymunedau gwledig Cymru er mwyn cynnal bywoliaeth a ffyniant ei hofferiaid. Pobl a oedd wedi troi cefn ar yr eglwys esgobaethol Anglicanaidd yn llethol a mabwysiadu Anghydfurfiaeth oedd mwyafrif clir o'r Cymry erbyn y 1880au, ac ynghyd â chael ei ystyried yn weithred anghyfiawn a gorthrymol gan 'eglwys estron' a 'sgweieriaeth wedi'i Seisnigo', meddai Kenneth O. Morgan, roedd talu'r degwm yn achosi anawsterau ariannol go iawn i bobl dlotaf Cymru yn ystod dirywiad economaidd amaethyddol y 1880au.<sup>849</sup> Er bod sawl hanesydd wedi gofyn i ba raddau yr oedd y mudiad datgysylltu yng Nghymru yn dynwared y mudiad Gwyddelig cynharach a arweinasai at ddatgysylltu Eglwys Loegr yn Iwerddon yn 1869, byddai newid statws yr Eglwys a dileu'r degwm yn troi yn brif achos arweinwyr anghydfurfiol, rhyddfrydol a chenedlaethol Cymreig o ganol y 1880au ymlaen.<sup>850</sup> Yn yr un modd, byddai'r galwadau am 'ddatgysylltiad' a 'dadwaddoliad' yn llenwi tudalennau papurau newydd a chylchgronau cenedlaethol am genhedlaeth gyfan.

Pan wrthododd nifer o amaethwyr Sir Ddinbych dalu'r degwm yn 1886, a hwythau yn cael eu llusgo gerbron y llys gan gynrychiolwyr yr Eglwys, cychwynnodd 'Rhyfel y Degwm' (fel y'i gelwir) o ddifrif. Ymddangosodd llwyth o erthyglau yn *Y Faner* wedi hynny dan olygyddiaeth Thomas Gee yn traethu stori 'Merthyron y Degwm',<sup>851</sup> ac ymddangosodd ysgrif enwog gan John Parry, arweinydd y 'rhyfel' yn Llanarmon, yn *Y Traethodydd* yn 1887 o dan y teitl 'Helynt y Degwm', yn cyfiawnhau eu gweithredoedd.<sup>852</sup> Nid yn unig mewn erthyglau ac ysgrifau y datblygid disgwrs rhyfelgar y mudiad gwrth-ddegwmaidd ond hefyd mewn cerddi. Dyma ddarn o gân fuddugol mewn cystadleuaeth gerddol ar y pwnc 'Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech' yn *Y Faner* ar 20 Ebrill 1887 gan gerddor ifanc o dan y ffugenw 'Gwalch', sef y T. Gwynn Jones 15 mlwydd oed:

---

<sup>849</sup> 'The "alien church" so-called, the church of an exclusive minority which symbolized more clearly than any other institution the domination of an anglicized squirearchy over Welsh society, rural and urban': Morgan, 'Welsh nationalism', 157.

<sup>850</sup> Gw. P. M. H. Bell, *Disestablishment in Ireland and Wales* (London: SPCK, 1969) am hanes y ddau fudiad: 'Disestablishment in Ireland gave an impulse to a movement for disestablishment in Wales, but brought it nowhere near to achieving success' (t. 226).

<sup>851</sup> Gw. Davies, *Hanes Cymru*, tt. 413-414. Thomas Gee a sefydlodd Gynghrair Tirol Cenedlaethol Cymru ar batrwm yr Irish Land League.

<sup>852</sup> John Parry, 'Helynt y Degwm', *Y Traethodydd*, Cyfrol XLII, Ionawr 1887, tt. 45-53.

Dyfal una'r gad fileinig  
Mewn tost ofnau, mintai styfnig;  
Sen gorfodaeth sy'n gerfiedig  
Ar eu baner hwy;

Daw gwroniaid hy' gwerinol  
A phwerau amddiffynnol  
A'u dwrdiadau awdurdodol  
Deimlir ym mhob plwyf;

Tyrfa ddônt o Arfon  
Mawr fydd mintai Meirion,  
Dinbych, Maldwyn, Fflint a Môn  
I gyd i'r Armagedon;

Hunlle'r ormes yn Llanarmon  
Ydyw'r degwm cwlwm calon;  
Eisiau'i gaerau yn ysgyrion  
Mae holl Gymru mwy.<sup>853</sup>

Ceir yma ddelweddau o ormes, delweddau o wrthryfel a bloeddiadau i'r gad o'r fath fwyaf milwriaethus, a hynny gydag apêl genedlaethol: 'Eisiau'i gaerau yn ysgyrion / Mae holl Gymru mwy'. Yn wir, 'ffrwydradau gwleidyddol' a welir yn y gerdd hon, yn ôl David Jenkins, fel y gwelir mewn llwyth o gerddi eraill gan T. Gwynn Jones yn y wasg yn y 1880au hwyr, megis 'Aerflawdd – Degwm y Datgysylltiad' a 'Rhu Gwalia ar ei gelyn'.<sup>854</sup> Trodd delweddau a throsiadau newyddiadurol a barddonol Rhyfel y Degwm megis 'merthyron' a 'gwroniaid hy' gwerinol' yn rhan annatod o ddisgwrs cenedlaethol Cymru'r 1880au hwyr a'r 1890au, ac yn ddiddorol o bersbectif theori disgwrs, ymddangosodd gwrthddadleuon yn amddiffyn y drefn bresennol mewn erthyglau megis 'Amddiffyniad Eglwys Loegr' gan Evan Jones (Caernarfon) yn *Y Traethodydd* ym mis Tachwedd 1887.<sup>855</sup> Byddai prif drosiadau'r 'Rhyfel' yn aros yn hir yng nghof llenyddol Cymru, gyda nofel E. Tegla Davies, *Gŵr Pen y Bryn* (1923), er enghraifft, yn cael ei seilio ar ddigwyddiadau yn Sir Ddinbych yn 1886-7.<sup>856</sup>

'Amcan goruchaf' cenedlaetholwyr ifainc, dosbarth canol oedd datgysylltu Eglwys Loegr tua diwedd y 19g, a biliau seneddol yn cael eu cyflwyno yn San Steffan yn 1894, 1895,

---

<sup>853</sup> Dyfynnir yn Jenkins, *Thomas Gwynn Jones*, tt. 50-51

<sup>854</sup> 'Aerflawdd – Degwm y Datgysylltiad' (*Y Faner*, 22 Awst 1888); 'Rhu Gwalia ar ei gelyn' (*Y Faner*, 26 Rhagfyr 1888): Jenkins, *Thomas Gwynn Jones*, t. 52.

<sup>855</sup> Evan Jones, 'Amddiffyniad Eglwys Loegr', *Y Traethodydd*, Llyfr XLII, Tachwedd 1887, tt. 479-485.

<sup>856</sup> Ymddangosodd y nofel yn rannol yn *Yr Eurgrawn* rhwng 1915 a 1916. Gw. Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), t. 5.

1909 a 1912.<sup>857</sup> Mae'n rhesymol felly fod y trosiad 'diffyg/cywiriad' hwn (sefyllfa freintiedig Eglwys Loegr yng Nghymru [diffyg] / datgysylltu a dadwaddoli [cywiriad]) yn ganolog i ddisgwrs genedlaethol Cymreig y 1890au. Ond fel y gwelwyd uchod, nid oedd y disgwrs cenedlaethol Cymreig yn hollol gyson ac nid oedd pob awdur yn cytuno mai datgysylltu oedd 'amcan goruchaf' y genedl. Yn wir, nid mater 'cenedlig' o gwbl oedd datgysylltu ym marn Emrys ap Iwan ond mater 'sectol'. Gweler y datganiadau canlynol o 'Paham y Gorfu'r Undebwyr' o 1895:

Nid oedd gan ymgeiswyr y Cymry ddim i'w gynnig i'r Cymry fel cenedl heblaw dadsefydliad yr Eglwys, ac y mae hwnnw, arno ei hun, yn hytrach yn bwnc sectol nag yn bwnc cenedlig; o leiaf, y mae'n anodd dangos i'r cyffredin ei fod yn ddim amgen na hynny.<sup>858</sup>

Cadw Cymru yn genedl Gymraeg ei hiaith oedd 'amcan goruchaf' cenedlaetholwyr megis Emrys ap Iwan, a dyma enghraifft arall felly o anghysondeb annatrys yn y disgwrs.

Roedd cenedlaetholwyr Basgaidd hefyd yn cwyno am statws cyfansoddiadol yr eglwys esgobaethol, sef Eglwys Rufain yn eu hachos hwy, ym mywyd cyhoeddus eu gwlad. Ym marn llawer o Sbaenwyr y 1890au roedd yr eglwys Gatholig wedi'i gwahanu yn *ormodol* oddi wrth y gyfundrefn wleidyddol o dan ddylanwad Chwyldro Rhyddfrydol 1868 a seciwlariaeth y 19g yn gyffredinol, ac atgyfannu credoau, rheoliadau a swyddogion yr Eglwys i mewn i'r wladwriaeth (a'r gyfundrefn addysgol yn benodol) oedd amcan pleidiau Catholig eithafol megis y *Carlistas* (y Carliaid) ac *Integristas* ('Cyfanwyr') Ramón Nocedal a'i gylchgrawn *El Siglo Futuro*.<sup>859</sup> Cymdeithas geidwadol a Chatholig iawn oedd y gymdeithas Fasgaidd y tu allan i bocedi diwydiannol bychain Biscaia a Gipuzkoa yn y 19g ac roedd yr athroniaeth wleidyddol-grefyddol *Integrismo* ('Cyfaniaeth') yn dylanwadu yn drwm ar raglen y mudiad cenedlaethol Basgaidd yn y 1890au, fel y mae ei arwyddair, 'Jaungoikoa eta Foruak' ('Duw a'r *Fueros*') yn ei ddangos.<sup>860</sup>

Wrth drafod yr arwyddair hwn mewn erthygl yn *Euskalduna* yn 1896, esbonia'r awdur dienw pam roedd y gair 'Duw' yn ymddangos ynddo:

---

<sup>857</sup> 'Welsh disestablishment was the "supreme objective" of young, middle class nationalists of the end of the century': Morgan, 'Welsh nationalism', 159. Pasiwyd bil 1912 yn 1914, er na fyddai mesurau'r bil yn cael eu gweithredu tan 1920 oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf.

<sup>858</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', tt. 35-36.

<sup>859</sup> Gw. William J. Callahan, 'Church and state, 1808-1874' yn José Alvarez ac Adrian Shubert (goln), *Spanish History since 1808* (London: Arnold, 2000), tt. 62-63.

<sup>860</sup> 'Jaungoikoa eta Foruak' ('Duw a'r *Fueros*') oedd arwyddair y mudiad *fuerista*/humanlywodraethol yn gyffredinol o'r 1870au ymlaen. Bu Sabino Arana yn addasu hwn i 'Jaungoikoa eta Lagizarrak' ('Duw a'r Hen Gyfreithiau') wrth lansio'r EAJ-PNV yn 1895.

Duw, achos mae teyrnasiad Duw yn y gymdeithas yn angenrheidiol i fywyd gwleidyddol cenedloedd; achos mae cymdeithas heb Dduw yn gymdeithas o unigolion ynysig heb unrhyw egwyddor o undeb (sy'n angenrheidiol i fodolaeth dawel y gymdeithas).<sup>861</sup>

Roedd angen am 'gymdeithas wleidyddol grefyddol' ym marn yr awdur hwn felly, sef angen y byddai Sabino Arana yn ychwanegu ato wrth ddatgan y byddai cyfansoddiad y Biscaia newydd o dan yr EAJ-PNV yn sefydlu 'gwladwriaeth Gatholig-Apostolaidd-Rufeinig'.<sup>862</sup> Wedi llwyddo i wneud hynny, byddai rhaid i Fiscaia 'ufuddhau i beth bynnag y mae Eglwys Gristnogol Rhufain yn ei addysgu ac yn ei orchymyn', ac yn 'gwrthod beth bynnag y mae hi'n ei geryddu a'i gollfarnu'.<sup>863</sup> Roedd diben yr EAJ-PNV yn 'gymdeithasol', nid 'gwleidyddol' yn y pen draw, meddai Arana mewn erthygl arall yn *La Patria* yn 1902, sef 'Cristioneiddio'r bobl, naill ai yn dlawd neu yn gyfoethog: y modd i sicrhau hynny yw gweithgareddau gwleidyddol'.<sup>864</sup>

Diddorol dros ben yw'r ffaith felly, mai troi eu gwledydd yn fwy 'Duwiol' oedd prif amcan nifer mawr o genedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd y 1890au, ond roedd y rhai cyntaf yn argyhoeddedig y byddent yn sicrhau hynny trwy dorri cysylltiadau'r wladwriaeth â'r Eglwys esgobaethol, a'r rhai olaf yn galw am wladwriaeth lwyr gyffesiadol. Dyma enghraifft o fecanwaith dau ddisgwrs cenedlaethol yn gweithio yn yr un ffordd wrth iddynt weithredu camau a strategaethau rhethregol tebyg, ond dyma enghraifft hefyd o ddau ddisgwrs sy'n cyrraedd casgliadau gwrthwynebol oherwydd eu hamgylchiadau hanesyddol unigryw. Roedd rhyddid y genedl yn ffordd o agosáu at Dduw i'r ddwy garfan genedlaetholgar felly, ond roeddent yn anghytuno yn llwyr ynghylch sut yn union y dylid gwneud hynny.

---

<sup>861</sup> 'Dios, porque el reinado de Dios en la sociedad es un reinado necesario para la vida política de los pueblos; porque la sociedad sin Dios es una sociedad de individuos aislados entre sí, sin principio alguno de unión (necesario para la tranquila existencia de la sociedad)': [dienw], 'En síntesis', t. 1.

<sup>862</sup> 'Sociedad política religiosa': [dienw], 'En síntesis', t. 1. 'Estado esencialmente católico-apostólico-romano': llythyr at Víctor Chávarri ac eraill wedi'i ddyfynnu yn Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 47.

<sup>863</sup> 'Bizkaya, pues, ha de acatar cuanto la Iglesia cristiana de Roma enseñe y ordene, y ha de rechazar cuanto ésta repruebe y condene': llythyr at Víctor Chávarri ac eraill wedi'i ddyfynnu yn Arinas García, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida*, t. 47.

<sup>864</sup> 'Su fin [el EAJ-PNV] no es político; su fin es social: cristianizar al pueblo, lo mismo al pobre que al rico: lo político es el medio': Sabino Arana, erthygl yn *La Patria* 18, 23 Chwefror 1902. Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 79.

## Rhaid i ni ailfeddiannu'r gofod cenedlaethol

Mewn erthygl yn *Contemporary Wales* o 2010, mae Owain Llŷr ap Gareth yn dadansoddi'r swyddogaeth a chwaraeid gan ddefodau a symbolau brenhinol yng Nghymru fel rhan o frwydr ddisgyrsiol barhaol i reoli'r 'gofod cenedlaethol' Cymreig yn ystod y 20g.<sup>865</sup> Gan gymharu arwisgiadau Tywysog Cymru 1911 a 1969, ac agoriad swyddogol adeilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol yn 2006, mae ap Gareth yn disgrifio sut y newidiodd disgwrs cenedlaethol Cymreig dros yr 20g a sut yr adlewyrchwyd y disgwrs hwn yn naratifau a symbolau'r gwahanol ddefodau a seremonïau. Dilyniant graddol sy'n dechrau yn nisgwrs a defodau 'liberal imperial Wales' y 1900au cynnar a welir ym marn yr awdur, dilyniant sy'n gorffen yn nisgwrs a defodau 'civic nationalist Wales' y 2000au.

Nid beirniadu dewisiadau deongliadol a chategoreiddiol Owain Llŷr ap Gareth yw bwriad yr astudiaeth hon (er ein bod yn falch o gadarnhau ein bod yn cytuno â hwy ar y cyfan), ond sicr yw y byddai'n fuddiol ailadrodd gosodiad canolog ei ddadl fod perthynas bwysig ar waith rhwng disgwrs, defodau, symbolau a rheolaeth y gofod cenedlaethol, ac yn bwysicach byth, fod y fath berthynas i'w gweld yn hanes diweddar Cymru:

In Wales political ritual and symbols have been used to legitimise the social status quo and political change, and to deligitimize opposing views. It has thus been about the power to represent, both in the political sense of 'to speak for' and in the sense of 'to depict', the national space of Wales. The meaning of, and legitimate political authority over, this space are not pre-given, but are rather a matter of contestation and power struggles.<sup>866</sup>

Nid arolygu maint, siâp, lliw na sŵn y gofodau cenedlaethol Cymreig a Basgaidd yn ystod y 1890au yw pwrpas yr adran hon chwaith, ac eithrio dweud eu bod yn newid ac yn destun gwrthdaro a chystadleuaeth barhaol. Pwysicach i'n pwrpasau yma yw dangos bod ymwybyddiaeth o ddiffyg gofod cenedlaethol Cymreig/Basgaidd ar wahân yn rhan bwysig o rethreg cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd y cyfnod, fel yr oedd galwadau i gywiro'r diffyg hwn drwy greu llefydd, symbolau a defodau cenedlaethol newydd: roedd awydd i droi cenedloedd anweledig yn genhedloedd gweledol yn ganolog i ddisgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig a Basgaidd y 1890au.

---

<sup>865</sup> Owain Llŷr ap Gareth, 'From the medieval to the starship Enterprise in three acts: contesting the representation of Wales through royal ritual 1911-2007', *Contemporary Wales*, 23 (2010), 36-51.

<sup>866</sup> ap Gareth, 'From the medieval', 38.



Fel y gwelwyd uchod, yn ogystal â chwyno nad oedd gan Gymru archifdai a llyfrgelloedd cenedlaethol, fe fu Thomas E. Ellis yn cwyno mewn araith o 1897 nad oedd gan Gymru brifddinas, fel y gwnaeth Emrys ap Iwan ddwy flynedd yn gynharach ym mis Ebrill 1895.<sup>867</sup> Un o brif resymau y darostyngwyd Cymru gan Loegr yn y lle cyntaf, meddai Emrys, oedd diffyg prifddinas arni, ac o ganlyniad, diffyg ‘pendragon’:

Nid yn unig nid oys ganddi brif ddinas, eithr ni bu ganddi chwaith erioyd brif ddinas yn ystyr priodol y gair; ac fe ellir priodoli ei hymraniada, ei hymrafeylion; ie, ei darostyngiad hefyd, a llawer o’i hanffodion dilynol, i’r ffaith honn yn unig. Ac y may y ffaith na bu iddi ben tref yn dangos na bu iddi bendragon chwaith; ac am hynny, pa fodd y gallesid disgwyl iddi wrthsefyll yn hir ac yn llwyddiannus ymosodiadau’r Seyson?

Er y sonnid am y term ‘tywysogion’ Cymru’r Canol Oesoedd, ychwanega, nid oedd rheolaeth ganolog go iawn ganddynt mewn gwirionedd, a hynny hefyd oherwydd diffyg prifddinas:

Pe buase yn amser y ddau Lywelyn brif ddinas i Gymru oll pan oyddyn hwy yn ceisio bod yn dywysogion i Gymru oll, y mae yn bur debygol y buase’u hymdrechion yn fwy llwyddiannus [...] Lle bynnag y bo prif ddinas, y mae yno fwy o undod, mwy o adnodda, a gwell arfa.

Ar ben hynny, dywed Emrys wrth fynd ymlaen, mae’n haws i bobl ‘garu’ eu cenedl pan gaiff hi ei ‘[h]ymgrynhoi’ mewn un ddinas fel pan gaiff hi ei ‘[h]ymgorffoli’ mewn un arweinydd:

Fel y mae yn haws i’r cyffredin garu eu cenedl pan y bydd-hi wedi ymgorffoli mewn un person, sef mewn ymerawdwr, mewn brenin, mewn tywysog, neu mewn pennayth, felly y may yn haws iddyn hefyd garu eu gwlad pan y bydd-hi wedi ymgrynhoi o ran ei bywyd a’i donia mewn un ddinas.

Yn wir, ‘calon gwlad’ yw prifddinas gwlad ym marn Emrys, ‘ac o honni hi ac iddi hi y may holl wayd y genedl yn rhedeg’.

Yn yr un modd, mae nodweddion mwyaf ‘diddorol’ a ‘phwysicaf’ pob gwlad yn deillio o’i phrifddinas, fel mae nodweddion pwysicaf Ffrainc a Lloegr yn deillio o Baris a Llundain, meddai Emrys yn ddiweddarach yn yr erthygl.<sup>868</sup> Yr unig wlad yn y Deyrnas Unedig, a hyd yn oed ‘yr unig wlad wareiddiedig ar y ddeyar’ heb fod ganddi brifddinas yw Cymru, rhywbeth sy’n peri gresyn iddo gan fod prifddinas yn ‘fanteisiol i wlad ac yn gosod mesur o urddas arni’. ‘Heb Gayredin’, meddai, ‘ni fuase’r Alban ond enw deyaryddol, sef

---

<sup>867</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), ‘Prif Ddinas i Gymru’, *Y Geninen*, Cyf. XIII/Rhif 2, Ebrill 1895, tt. 81-85. Seilir yr erthygl hon ar anerchiad gerbron Cymdeithas Lenyddol Parkfield, Penbedw. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell.

<sup>868</sup> Emrys ap Iwan, ‘Prif Ddinas i Gymru’, tt. 81-85. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell.

enw ar Ogledd Prydain ne Ogledd Lloygr; ac heb ddinas Dulyn fe fuase'r Werddon yn is ei chyflwr nag ydyw-hi yn awr'. Mae'r datganiad olaf hwn yn ddiddorol dros ben yng nghydestun ein prism ôl-drefedigaethol wrth i Emrys ysu am feddu ar yr un nodweddion â chenedloedd eraill, er bod y nodweddion hyn yn mynd yn groes i draddodiad gwledig Cymreig â'i chymunedau a threfn gymdeithasol wasgaredig. Beth mae awydd Emrys ap Iwan i droi Cymru yn rhywbeth gwahanol, a throi cefn ar ei rhinweddau cyntefig er enghraifft, yn ei olygu? Mae cliw, efallai, i'w weld yn honiad Emrys y gellir 'dylanwadu fwyaf ar y wlad' ac y gellir 'yn ora orchfygu drygioni trwy ddaioni' pan fydd y wlad honno yn meddu ar brifddinas. Hynny yw, nodwedd elfennol cenedl-wladwriaethau canoledig y 19g oedd meddu ar brifddinas, a nodwedd yw hon a oedd yn hwyluso'r broses o greu diwylliant ac iaith homogenaidd. Mater hanfodol i genedl yw cael prifddinas ym marn Emrys yn y pen draw: 'os dywed rhywun fod Cymru yn rhy fechan ac yn rhy dlawd i gayl prif ddinas, yna y may-hi yn rhy fechan i fod yn wlad ac yn rhy dlawd i gynnwys cenedl'.

'Nid oes gennym yn ein Tywysogaeth wasgarog' meddai awdur anhysbys yn *Yr Haul* ym mis Ionawr 1895, 'ddim un canolbwynt cenedlaethol, na theml, na chrair, na chofadail, o amgylch yr hwn y gallwn ymgrynoi ac edrych yn ôl a theimlo yn un'.<sup>869</sup> 'Nid oes gennym na *St. Paul's* i gorffori undeb crefydd, na *Westminster Abbey* i grynhoi yng nghyd undeb cysegredig goffa am arwyr ein cenedl', ychwanegodd cyn mynd ymlaen i ymgasglu, 'y mae ein gwlad yn wasgaredig, a'n meddyliau ninnau yn wasgarog, heb ganolfan i orphwys mynyd arno'. Nid oes 'canolbwynt cenedlaethol' gan y Cymry yn ôl yr awdur hwn felly, na gofod cenedlaethol corfforol i 'ymgrynhoi', 'edrych yn ôl', a 'theimlo yn un' ynddo. Crynhoad huawdl a mewnwedol o swyddogaeth y gofod cenedlaethol o bersbectif theori cenedlaetholdeb cyfredol yw'r triptych olaf hwn, ac o bersbectif ôl-drefedigaethol mae'n ddiddorol nodi mai llefydd mawreddog Seisnig megis Eglwys Gadeiriol Sant Paul ac Abaty Westminster y mae'r awdur yn eu dewis fel patrymau i'w dynwared. Unwaith eto, nid gwrthod na dilorni patrymau disgrysiol Seisnig y mae'r cenedlaetholwyr Cymreig ar y cyfan, ond eu chwennych a'u hefelychu.

Fel y gwelwyd uchod, ystyrid Llywelyn ap Gruffudd yn batrwm o'r gwladgarwr Cymreig delfrydol gan rai yn y 19g, ac mae awdur yr erthygl uchod yn mynd ymlaen i ddatgan bod tywysog olaf Cymru yn 'deilwng o goffad' ac mai 'buddiol' i'r genedl fyddai

---

<sup>869</sup> [Dienw], 'Cenedlgarwch a Symmudiaau Gwladgarol', t. 14. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell.

‘cofio am dano’.<sup>870</sup> Yn ychwanegol at hynny, ac er bod ‘cysegredigrwydd bedd y merthyr yn warcheidwad i’r ddirgel fan yr hunn’, y mae ‘arnom eisiau rhywbeth ar y bedd hwn, i.e., pe bai ond tybiedig fedd, i daro y llygad, a gosod y syniad *cededlaethol* i orphwys arno’.<sup>871</sup> Hynny yw, fe ddylai bedd Llywelyn ap Gruffydd gael ei droi yn rhyw fath o ofod cenedlaethol y gallai’r Cymry ‘ymgrynhoi, edrych yn ôl, a theimlo yn un’ ynddo, hyd yn oed os mai gwerth symbolaidd yn unig a fyddai ganddo tan i ‘ddirgel’ ei gladdfa go iawn gael ei ddatrys. Hynod, yng nghyd-destun theori cenedlaetholdeb y modernwyr, yw ymwybyddiaeth a gonestrwydd y cenedlaetholwr cynnar hwn ynglŷn â natur artiffisial neu ddychmygol cymaint o dotemau cenedlaethol.

Nid mewn un lle unigol, neu ganolog fel petai, y dylai’r Cymry godi symbolau a dathlu eu hanes ym marn cenedlaetholwyr eraill, ond mewn llefydd lluosog ar draws Cymru gyfan. Ym marn Thomas E. Ellis, roedd croesau Celtaidd hynafol yn gofebion ‘deniadol’ i’r bobl a hunai yn y pentrefi lle roeddent yn goroesi, ynghyd â bod yn ‘dystion distaw’ i ‘harddwch cynllun a medr greddf’ y crefftwyr Cymreig a’u cerfluniodd yn yr Oesoedd Canol Cynnar.<sup>872</sup> Ond mewn pentrefi lle na oroesai croesau Celtaidd, dylid adeiladu cofebau i’r rhai o’r ardal a oedd wedi ‘dod â rhyw glod i’w man geni a gwasanaeth i ddynoliaeth’ yn gyffredinol, meddai Ellis:

I shall be extremely glad when villagers themselves, or those who have left villages and prospered in the world and go back again, realise what a service they do to a village if they help to raise, not perhaps a village cross, but some form of village monument to those who either in the village or out of it have done some credit to their birthplace and service to humanity.<sup>873</sup>

Dylid codi cofeb, meddai Ellis, i Tudur Aled, William Salesbury, William Rees (Gwilym Hiraethog) a Henry Rees yn Llansannan, er enghraifft, pentref y bu rhai o’r ‘Cymry mwyaf nodweddiadol Cymru gyfan’ yn byw ynddo ar y pryd, a phentref lle y canfyddid ‘rhyw ffresni ac egni mewn ysbryd a gweithgarwch’, ynghyd â chryn dipyn o ‘geidwadaeth

---

<sup>870</sup> [Dienw], ‘Cenedlgarwch a Symmudiaau Gwladgarol’, t. 14. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell.

<sup>871</sup> Pwyslais yr awdur gwreiddiol.

<sup>872</sup> ‘I think nothing is more attractive in the villages where they still survive than the old Celtic crosses of the early centuries. They are silent witnesses to the generations that have passed away in those villages, and they are the witnesses to this day of the beauty of the design and of the instinctive skill which a Welshman in the early , the 9th, 10th, and 11th centuries possessed’: Ellis, ‘Domestic and decorative art’, t. 59.

<sup>873</sup> Ellis, ‘Domestic and decorative art’, t. 59.

ysblennydd' o ran y pentrefwyr a'r werin.<sup>874</sup> Mae'n anodd dadlau bod codi cofebion i bobl nodweddiadol leol yn weithred mor 'genedlaethol' fel y cyfryw ag y mae codi cofebion i dywysogion, arweinwyr milwrol neu nawddseintiau Cymreig er enghraifft, ond yng nghydestun yr amserau a'r tuedd i godi cofebion a cherfluniau i'r Frenhines Victoria, pendefigion a landlordiaid mawrion Seisnig neu feistri diwydiannol absennol, mae codi cofebion i feirdd, dyneiddwyr a gweinidogion Anghydfurfiol Cymreig yn arwydd clir o awydd rhai cenedlaetholwyr i lenwi'r gofod cyhoeddus â mwy o'n 'henwogion ni'.

Bu cenedlaetholwyr Basgaidd yn awyddus i lenwi'r gofod cenedlaethol â delweddau, symbolau a seiniau Basgaidd yn y 1890au hefyd. Bu Sabino Arana a'i frawd Luis yn cynllunio baner hollol newydd i Fiscaia, yr *ikurrin*, yn 1894 er enghraifft, a byddai'r faner yn chwifio y tu allan i bob *batzoki* y EAJ-PNV wedi hynny.<sup>875</sup> Yn yr un modd, cyfansoddai Arana anthem genedlaethol newydd i Fiscaia tra oedd yn y carchar yn 1895, sef 'Eusko Abendaren Ereserkia' ('Anthem Ethnigrwydd Basgaidd') neu 'Gora ta gora' fel y'i cydnabyddir yn boblogaidd.<sup>876</sup> Yn gynharach yn 1853, roedd y Carliad o Urretxu (Gipuzkoa) José María Iparragirre (1820-1881) wedi cyfansoddi 'Gernikako Arbola', cân sy'n moli 'Coeden Gernika', neu symbol pwysicaf rhyddid a hawliau hanesyddol Gwlad y Basg. Mewn proses o boblogeiddio tebyg i 'Hen Wlad fy Nhadau' Evan a James James (1856), cafodd y gân lwyddiant sylweddol yn ystod y 1860au a'r 1880au ac erbyn y 1890au fe drodd yn ryw fath o anthem genedlaethol answyddogol a genid mewn dathliadau cyhoeddus a phrotestiadau gwleidyddol megis *La Gamazada* yn Iruñea yn 1893.<sup>877</sup>

Erbyn 1896, bu golygyddion y cylchgrawn *Euskalduna* yn hysbysebu lithograff o Goeden a *Sala de Juntas* Gernika, neu 'annwyl symbol ein *fueros*', a oedd ar werth am 1 peseta ar y pryd.<sup>878</sup> Buont yn argymhell yn eu sylwadau y dylai 'pob Basgiad da' archebu copi, ac mai 'bendigedig byddo'r dydd' y'i gwelid 'ym mhob cartref Basgaidd fel arwyddlun

---

<sup>874</sup> 'There you find at the present day some of the most characteristic Welshmen of the whole of Wales [and] a certain freshness and vigour of spirit and of activity and a great deal of splendid conservatism on the part of the villagers and the peasants': Ellis, 'Domestic and decorative art', t. 59.

<sup>875</sup> Mae'r ffurf 'ikurrin' yn golygu 'yr ikurrin' gan fod yr ôl-ddodiad 'a' yn gweithredu fel bannod yn yr iaith Fasgeg. Mabwysiadwyd yr *ikurrin* yn swyddogol fel baner Euskadi hunanlywodraethol cyn y Rhyfel Cartref yn 1936. Gw. Daniele Conversi, *The Basques, the Catalans and Spain: Alternative Routes to Nationalist Mobilisation* (London: Hurst & Company, 1997), t. 54. Mabwysiadwyd baner newydd i Nafarroa yn swyddogol yn 1910 gan La Diputación Foral de Navarra. Dyluniwyd y faner gan yr haneswyr Arturo Campión, Julio Altadill a Hermilio de Oloriz.

<sup>876</sup> Byddai 'Eusko Abendaren Ereserkia' yn troi yn anthem swyddogol Euskadi yn 1980. Gw. Conversi, *The Basques*, t. 54.

<sup>877</sup> Gw. Egaña, *Breve Historia de Euskal Herria*, t. 73.

<sup>878</sup> '[El] símbolo querido de nuestros fueros': [dienw], 'Guernikako - Aritza / El Roble de Guernica', *Euskalduna*, Año I/Número 1, 13 Medi 1896, t. 7.

gorffennol ac arwyddair dyfodol' y lle sanctaidd hwn.<sup>879</sup> Yn ychwanegol at hynny, ac yn yr un flwyddyn, gwelir galwadau yn y cylchgrawn *Revista Euskara* o Iruña am sefydlu *fiestas euskaras*, neu 'gwyliau Basgaidd', ar draws Gwlad y Basg: galwadau a adlewyrchid yn *Y Cymro* yn 1896 wrth i awdur dienw alw am sefydlu 'gŵyl' genedlaethol Cymreig, sef gŵyl ychwanegol i eisteddfodau lleol a'r Eisteddfod Genedlaethol.<sup>880</sup>

Gwelir yn yr adran hon, felly, gyfres o alwadau i ailfeddiannu'r 'gofod cyhoeddus' ar draws sbectrw m o ddimensiynau cymdeithasol (o'r cenedlaethol i'r preifat) ac mewn sawl cyfrwng cyfathrebu (y gweledol a'r clywedol). At hynny, gwelir galwadau i greu symbolau gweledol ar y lefel genedlaethol megis prifddinasoedd, temlau, baneri a chofebion i dywysogion; a gwelir galwadau i lenwi'r gofod cyhoeddus lleol â chroesau Celtaidd a chofebion i'n 'henwogion ni'. Yn yr un modd, gwelir ymdrechion i greu symbolau clywedol megis anthemau cenedlaethol a defodau amlgyfrwng megis gwyliau cenedlaethol. Gwelir hyd yn oed alwadau i lenwi'r gofod preifat â lluniau o lefydd 'sanctaidd' cenedlaethol megis Coeden Gernika.

Yn wir, wrth ystyried y gofod preifat olaf hwn ymhellach, diddorol yw nodi yr ysgrifennodd Sabino Arana *santoral* (calendr gwyliau'r saint) yn Fasgeg er mwyn annog pobl Gwlad y Basg i newid eu henwau Sbaeneg i enwau Basgaidd.<sup>881</sup> Ac yng Nghymru, bu Michael D. Jones yn newid cyfenwau Saesneg ei blant yn enwau Cymraeg (Ap Iwan, Erch Iwan), fel y gwnaeth R. J. Derfel â'i gyfenw ei hun.<sup>882</sup> Ym marn nifer o genedlaetholwyr y cyfnod, mae'n debyg, gall rhywbeth mor breifat â newid enw personol gyfrannu at ailfeddiannu'r gofod cenedlaethol unwaith y mae'n cael ei yngan neu'i ysgrifennu yn gyhoeddus. Boed hynny fel y bo, roedd awydd i droi cenedloedd anweledig a distaw yn genhedloedd gweledol a chlywadwy yn elfen bwysig i ddisgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig a Basgaidd y 1890au. Yn wir, disgyrsiau sy'n ceisio creu cenedloedd gweledol a chlywadwy fesul haen a welir yma; o'r mawr i'r bychain, o'r cenedlaethol i'r lleol, ac o'r cyhoeddus i'r preifat.

---

<sup>879</sup> 'Dichoso el día en que agotada la edición, lo vemos en todos los hogares euskaros, como divisa de su pasado y como lema de su porvenir': [dienw], 'Guernikako – Aritza / El Roble de Guernica', t. 7.

<sup>880</sup> Gw. [dienw], 'Gwyl y Cymry', *Y Cymro*, 5 Mawrth 1896, t. 4. Cylchgrawn La Asociación Euskara de Navarra (Cymdeithas Fasgeg Nafarroa), sef cymdeithas lenyddol, hanesyddol a diwylliannol Iruña, oedd *Revista Euskara*. Mae 'fiestas euskaras' yn gyfystyr â 'juegos florales' yn y cyd-destun hwn. Gw. Granja Sainz, *El Nacionalismo Vasco (1876-1975)*, tt. 21-22.

<sup>881</sup> Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 20.

<sup>882</sup> Gw. Jones, 'Michael D. Jones', t. 17.

## A ydym mor dlawd?

‘Drwy esgeuluso prynu nwyddau Cymreig a’u defnyddio’, meddai Michael D. Jones yn 1888, ‘y mae miloedd o Gymry yn colledu eu gwlad’, ac y mae’r rhai sy’n ‘defnyddio nwyddau Seisnig’, meddai ef, yn rhoi’r elw ‘i’r Sais, i fyw yn ei balas yn Lloegr’.<sup>883</sup> ‘Ond pe ceid cred yn Nghymru fod nwyddau a wneir gartref yn rhagorach’, ychwanegodd Jones, ‘rhoddid gwaith i filoedd o bobl yn ein gwlad, a gwellheid masnach Cymru yn mhob cyfeiriad’.<sup>884</sup> Dyma ddatganiad o genedlaetholdeb economaidd eithaf cryf gan Jones yn 1888, ond yn gyffredinol, y gwir yw na fu diffygion economaidd yn ymddangos yn ysgrifau cenedlaetholwyr Cymreig y 1890au gymaint ag yr ymddangosasant yn ysgrifau cenedlaetholwyr Gwyddelig, er enghraifft. Ac er bod erthyglau penodol yn trafod sectorau economaidd Gwlad y Basg megis mwyngloddiaeth, gwinllannoedd, pysgodfeydd ac amaethyddiaeth yn gyffredinol yn ymddangos yn aml yn y cylchgrawn diwylliannol *Euskal-Erria*, gwir hefyd nad ymddangosodd odid frawddeg na pharagraff yn y wasg genedlaetholgar Fasgaidd yn cwyno am sefyllfa ddiffygiol economi Gwlad y Basg.<sup>885</sup>

Mae hyn yn ddigon dealladwy, efallai, o gofio bod economi diwydiannol Biscaia a Gipuzkoa, a’r ardaloedd glofaol, chwarela a threfi mawrion Cymru yn gyffredinol yn ffynnu yn ystod chwarter olaf y 19g. ‘Mawr’ oedd Cymru o safbwynt economaidd rhwng 1880 a 1914 meddai Vaughan Hughes mewn cyfrol ddiweddar, ac ‘arwain y byd’ yn ddiwydiannol a wnaeth y ‘wlad fach’ hon yn hytrach na’i ddilyn.<sup>886</sup> Roedd gwaith, cyflog a ffyniant personol yn gymharol hygyrch i’r mwyafrif yng Nghymru a Gwlad y Basg yn ystod y cyfnod hwn os oeddent yn barod i symud o’u hardaloedd genedigol. Ac er y gellid dadlau ynghylch safon amgylchiadau gweithio a byw gweithwyr diwydiannol ac amaethyddol y ddwy wlad, pwysig cofio hefyd na welwyd unrhyw drychineb economaidd yng Nghymru nac yng Ngwlad y Basg

---

<sup>883</sup> Jones, ‘Nwyddau Gwisg y Cymry’, t. 10.

<sup>884</sup> Jones, ‘Nwyddau Gwisg y Cymry’, t. 10.

<sup>885</sup> Gw. [dienw], ‘Idea plausible: exposición de los productos industriales y de minería de Bizcaya’, *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Ebrill 1896, t. 306; Victor C. Manso de Zúñiga, ‘Enfermedades de la viña’, *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Ebrill 1896, tt. 307-309; Conde de Peracamps, ‘La piscicultura en Guipúzcoa: cría de peces y operaciones en 1895’, *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Mehefin 1896, tt. 513-525; [dienw], ‘Intereses agrícolas’, *Euskal-Erria*, Tomo XXXV, Gorffennaf 1896, tt. 134-135.

<sup>886</sup> Vaughan Hughes, *Cymru Fawr: Pan oedd Gwlad Fach yn Arwain y Byd* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2014).

yn y 19g i'w chymharu â'r Newyn Mawr (1845-49) a'r Newyn 'Bach' (1879) yn Iwerddon.<sup>887</sup>

Wedi dweud hyn oll, cwynai Michael D. Jones yn aml yn y wasg am ddiffyg cyfleoedd i'r Cymry 'ddisgleirio mewn materion seciwlar', ac am 'hegemoni economaidd y Saeson' yn gyffredinol.<sup>888</sup> A gwir hefyd bod Thomas E. Ellis wedi rhoi dadansoddiad manwl o broblemau economaidd Cymru mewn araith o 1890, gan bwysleisio'r angen am 'gyfundrefn reilffyrdd unedig', sefydlu 'diwydiannau gwledig', datblygu'r diwydiannau 'pysgota a choedwigaeth', a'r angen 'dybryd' am 'well amodau ffermio'.<sup>889</sup> Yn wir, yn y mater olaf hwn, sef sefyllfa'r economi wledig, fe ganfyddwn y mwyafrif o gwynion economaidd a ymddangosodd yn y wasg genedlaetholgar Gymraeg yn y 1880au a'r 1890au. Dadleuai Michael D. Jones, er enghraifft, dros Fesur Tir Cymreig, a gwahoddodd arweinydd y Gynghrair Tir Gwyddelig, Michael Davitt, i annerch cyfarfodydd yn y Fflint, Blaenau Ffestiniog a Llandudno yn 1885. Nid oedd gan Jones 'farn aeddfed' ar y pwnc yn ei farn ei hun, meddai D. Gwenallt Jones, ond roedd gan Thomas E. Ellis weledigaeth gliriach o lawer o greu 'gwerin Gymreig gadarn' a feddai ar eu tiroedd eu hunain ar ôl cael cymorth ariannol gan 'Fanc Tir Cymreig'.<sup>890</sup>

Datblygodd Ellis Fesur Tir Cymreig arfaethedig a'i chyflwyno ym mis Mawrth 1892, mesur a hawliodd 'Lys Tir' i osod rhenti teg ac iawndaliadau am welliannau i'r eiddo a wnaethpwyd gan y tenantiaid.<sup>891</sup> Byddai cynnig Ellis ac ymgyrch ffyrnig gan Ryddfrydwyr Cymreig eraill yn San Steffan yn gorfodi William Gladstone i ffurfio Comisiwn Brenhinol ar y Tir yng Nghymru ym mis Mai 1893, a byddai saith cyfrol swmpus yr adroddiad yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach ym mis Awst 1896.<sup>892</sup> Yn ddigon naturiol felly, fe welir llwyth o erthyglau yn ymddangos yn y cylchgrawn cenedlaetholgar *Young Wales* yn 1896 megis 'The Welsh Land Commission' gan W. Llewelyn Williams: 'I question if any event of recent times has been of such prime importance to the Principality', meddai'r awdur gan groesawu gwaith y comisiwn yn frwd.<sup>893</sup> Ond yn anymwybodol o gasgliadau terfynol yr adroddiad ar adeg

---

<sup>887</sup> Newyn Mawr Iwerddon ('an Gorta Mór'): 1845-49. Newyn 'Bach' Iwerddon ('an Gorta Beag'): 1879. Pwysig yw nodi mai cyffredin oedd newyn yng Nghymru cyn y 19g. Gw. G. Penrhyn Jones, 'Newyn yng Nghymru', *Y Traethodydd*, Cyfres III, Cyfrol XXIX (1961), 17-32.

<sup>888</sup> Griffith, 'Preaching', t. 77.

<sup>889</sup> Jones, *Thomas Edward Ellis*, t. 46.

<sup>890</sup> Jones, 'Michael D. Jones', t. 21. Jones, *Thomas Edward Ellis*, t. 60.

<sup>891</sup> Jones, *Thomas Edward Ellis*, t. 60.

<sup>892</sup> Gw. Davies, *Hanes Cymru*, tt. 421-422

<sup>893</sup> W. Llewelyn Williams, 'The Welsh Land Commission', *Young Wales*, Vol. II/No. 21, Medi 1896, t. 213.

ysgrifennu ei erthygl, roedd cyfansoddiad ei aelodaeth yn bennaf ymysg llwyddiannau'r comisiwn hyd yna:

What if English papers sneer and ask who Mr. So-and-So is, and what claims has he to be on the Commission? The great thing is not that Mr. So-and-So is unknown in England, but that he knows Wales well. There has been too much playing to the uninstructed English gallery in the appointments of Royal Commissions in the past. What we want are men who know Wales and the Welsh language, which is the key to the social condition and history of the Welsh people; men, moreover, who possess that sympathy with the people, without which learning and knowledge and ability are nothing worth.<sup>894</sup>

Beth bynnag fyddai argymhellion y comisiwn, mae'n debyg, pwysicach byth oedd mai argymhellion gan ddynion a oedd yn adnabod Cymru, yn siarad Cymraeg ac yn cydymdeimlo â'i phobl oeddent i Williams. Cyhoeddwyd erthygl arall yn *Young Wales* ddeufis yn ddiweddarach gan un o'r comisiynwyr brodorol hyn, D. Brynmor Jones, yn datgan ei falchder eu bod wedi profi heb amheuaeth fod y 'cwestiwn tir' yn bodoli yng Nghymru, gan fod llawer o landlordiaid Seisnig wedi gwadu bod y fath gwestiwn yn bodoli o gwbl.<sup>895</sup>

Cafwyd hefyd yn 1896 yr anerchiad a draethodd Tom Parry (Cyfarwyddwr Addysg Amaethyddol Prifysgol Aberystwyth) gerbron Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain, ac a gyhoeddwyd yn *Transactions* y gymdeithas yn 1897. Dyma ddadansoddiad manwl o achosion y dirwasgiad amaethyddol diweddar yng Nghymru, dirwasgiad a briodolodd Parry i gynaeafau gwael ac effaith masnach rydd a mewnfurion estronol, ac argymhellion am newidiadau a diwygiadau strwythurol yng nghyfundrefn amaethyddol Cymru.<sup>896</sup> Cynigiai Michael D. Jones ddiwygiadau i'r economi wledig yn 1896 hefyd, gan ddadlau y dylid creu ffatrioedd i gynhyrchu menyn Cymreig, a oedd unwaith 'y goreu yn y farchnad', i gystadlu gyda menyn Gwyddelig a oedd 'wedi mynd ddigon yn uwch nag ef' oherwydd bod 'ffatriau gan y Gwyddelod i wneyd eu hymenyn'.<sup>897</sup> Dyma Jones yn esbonio pam oedd natur gartrefol y diwydiant yng Nghymru yn ei rwystro:

Os bydd ymenyn Cymreig yn foddhaol i brynwr, nis gellir, fel rheol, cael dau ymenyn Cymreig yr un fath, am fod un Gymraes yn gwneud ei hymenyn un ffordd, â llai neu

---

<sup>894</sup> Williams, 'The Welsh Land Commission', t. 214.

<sup>895</sup> D. Brynmor Jones, 'The Welsh Land Question', *Young Wales*, Vol. II/No. 24, Rhagfyr 1896, tt. 277-282.

<sup>896</sup> Tom Parry, 'The Development of the Agricultural Resources of Wales', *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Session 1895-96 (London, 1897), tt. 23-54.

<sup>897</sup> Jones, 'Dic Siôn Dafydd a Chamaddysg', t. 251.



mwy o halen, a'r llall yn wahanol. Ond gellir cael ymenyn Gwyddelig o hyd yr un fath, am ei fod yn dyfod o ffatriâu.<sup>898</sup>

Roedd rhaid i'r Cymry 'blygu i ymgystadlu â'r Gwyddelod' a hynny trwy 'fynnu ffatriâu i wneyd eu hymenyn', neu 'ynte fodyn olaf yn y farchnad', meddai Jones.<sup>899</sup>

\* \* \*

Fel y dywedwyd ar ddechrau'r bennod hon, helaeth yw'r nifer o fethiannau cenedlaethol Cymreig a Basgaidd – a'r datrysiadau a gynigir iddynt – sy'n ymddangos yn y paradeim disgyrsiol; cymaint, bron, â'r nifer o awduron a ysgrifennai ar fater y genedl yn y 1890au. Byddai'n amhosibl nodi pob un ohonynt mewn traethawd o'r math hwn, fel y byddai'n amhosibl dadansoddi'r rhai a nodir yn helaeth ac yn fanwl. Detholiad a nodir yn y bennod hon, felly, er mwyn dangos natur a swyddogaeth y trosiad yn gyffredinol.

Gwelwyd uchod, felly, fod y pwysigrwydd a briodolai awduron Cymreig a Basgaidd i'r gwahanol ddiffygion cenedlaethol yn gallu amrywio yn sylweddol rhwng y disgwrs Cymreig a'r disgwrs Basgaidd, er eu bod yn cytuno lawer gwaith hefyd. Mae'r ddau ddisgwrs yn mynegi pryderon am ddyfodol yr iaith frodorol ac awydd i ddefnyddio'r gyfundrefn addysg i gywiro'r sefyllfa honno, er enghraifft, ac mae'r ddau ddisgwrs yn amlygu methiannau yn eu hanesyddiaeth a symbolau cenedlaethol cyhoeddus. Pryderon am gyflwr addysgol y Cymry a'u lle yn y byd gwâr yn gyffredinol sy'n gwahaniaethu'r disgwrs Cymreig, fel y mae pryderon am burdeb hiliol y Basgiaid a swyddogaeth yr Eglwys Gatholig yn y gymdeithas Fasgaidd yn achos Gwlad y Basg. At hynny, mae diffyg pryderon economaidd yn nodweddiadol yn y ddau ddisgwrs, fel y mae'r islif rhethregol o'r awydd i greu cenedl fwy duwiol a moesol. Trawiadol hefyd, yn y pen draw, yw'r islif isymwybodol i ragnodi cywiriadau sy'n adlewyrchu chwaethau, rhagfarnau, tueddfryd a blaenoriaethau diwylliannol Seisnig a Sbaenaidd.

Wedi creu dwy genedl ar wahân yn Haen 1, ac wedi amlygu cyfres o elynion allanol a mewanol yn Haen 2, mae Haen 3 yn cyflwyno diffygion 'presennol adfydus' ein cenedloedd a chynnig atebion i'r problemau hyn yn y gobaith o gyrraedd 'dyfodol iwtopaidd'. Awn ymlaen yn awr i ystyried haen olaf y paradeim disgyrsiol a'r ffyrdd yr oedd cenedlaetholwyr yn bwriadu cychwyn ar y daith honno.

---

<sup>898</sup> Jones, 'Dic Siôn Dafydd a Chamaddysg', t. 251.

<sup>899</sup> Jones, 'Dic Siôn Dafydd a Chamaddysg', t. 251.

## Haen 4: Undod a rhyddid

Haen gymharol denau yw haen olaf y paradeim disgysiol, a'r haen sydd agosaf at wyneb y ddaear destunol. Dyma haen y disgysiau cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig a Basgaidd y mae pobl yn ei chydabod orau, achos dyma'r haen sy'n galw am weithred wleidyddol ac am greu sefydliadau gwleidyddol annibynnol. Wedi profi cyfreithlondeb ein cenedl ar wahân, wedi amlygu bygythiad ein gelynion mewnol ac allanol, ac wedi manylu ar gyflwr adfydus ein presennol a'r mentrau a fydd yn arwain at ein dyfodol iwtopaidd, mae'r amser wedi cyrraedd inni weithredu ac ymryddhau ein hunain.

At hynny, gwelir galwadau am undod rhwng cenedlaetholwyr o'r un meddwl ac am ymgyrchu pwrpasol a threfnus. Gwelir galwadau am sefydlu pleidiau gwleidyddol cenedlaethol a fydd yn brwydro dros fuddiannau'r genedl yn senedd-dai'r ddwy wlad. Ac yn sefyll ar fan uchaf y ffos destunol, wedi'i seilio ar yr holl haenau a welwyd hyd yma, gwelir galwadau am yr hawl i'n llywodraethu ein hunain, am sefydliadau gwleidyddol annibynnol, a hyd yn oed – mewn ambell enghraifft wasgaredig – am annibyniaeth lwyr i'r genedl. Cwestiwn hollol wahanol, wrth gwrs, yw'r cwestiwn a oes gennym ddigon o argyhoeddiad a chred ynom ein hunain i wrando ar y galwadau hyn a chyrraedd y dyfodol iwtopaidd a ragwelwyd yn Haen 3. Gwelir datganiadau cuddiedig, felly, sy'n bradychu teyrngarwch nifer mawr o'n cenedlaetholwyr i famwlad fwy, datganiadau sydd – yn y diwedd – yn troi'n disgysiau cenedlaethol yn ddisgysiau cenedlaethol-drefedigaethol.

### Rhaid i ni uno

Roedd beirdd proffwydol yr Oesoedd Canol yn ymwybodol o'r 'goblygiadau gwleidyddol' a darddai yn rhesymegol o fod yn bobl neu genedl a'u dyletswydd i 'feddu ar dywysog neu frenin o'u plith eu hunain' ac i 'ymffurfio'n uned wleidyddol', yn ôl Peredur Lynch.<sup>900</sup> Ni synnir, efallai, fod cenedlaetholwyr Cymreig y 19g yn meddwl mewn ffordd debyg. 'Next to the need of self-knowledge', meddai R. A. Griffith yn yr erthygl 'Welsh Nationalism' yn 1895, 'the other great problem that calls for solution in Wales is how to organize our national forces'.<sup>901</sup> Aiff ymlaen i rybuddio, 'but our national sentiment is in danger of being dissipated

---

<sup>900</sup> Lynch, *Proffwydoliaeth*, t. 36.

<sup>901</sup> Griffith, 'Welsh Nationalism', t. 36. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell.

and lost in vaporous demonstrations'. Cyn i'r 'teimlad cenedlaethol' hwn allu cyfrannu at ddatblygiad y genedl, ychwanegodd Griffith, 'it must crystallize itself into ordered action'. Ar ben hynny, meddai, roedd mentrau gwleidyddol y Cymry yn y gorffennol wedi arwain at fethiant a siom oherwydd diffyg 'unity of purpose and concentration of energy'. Yn hollbwysig felly, 'our duty at the present juncture is to agree, not to find points of difference'. Ym marn Griffith yn 1895, felly, roedd angen i'r Cymry uno, cytuno, canolbwyntio a threfnu eu hunain.

Roedd Emrys ap Iwan hefyd yn ymwybodol o'r angen i'r Cymry 'gyd-siarad' rhag iddynt 'ddwyn aflwydd' ar eu gwlad eu hunain neu 'ymddadlau' pan ddylent 'gydweithredu':

Yn y dyddia hynn, y may Ymreolayth ne Ymlywodrayth i Gymru yn bwngc cynhyrfus; ac os yw yn debygol y cawn ymlywodrayth cyn hir, y mae yn hen bryd inni gyd-siarad am eisteddfa'r llywodrayth, rhag inni, trwy benderfynu yn rhy fyrbwyll, ddwyn aflwydd ar ein gwlad, ne fyned i ymddadlu pan y delo'r adeg inni gydweithredu.<sup>902</sup>

Ar ben hynny, meddai Emrys, roedd y Cymry Cymreig 'ar wasgar' mewn termau gwleidyddol ac wedi eu rhannu ymhlith y gwahanol bleidiau gwleidyddol Prydeinig.<sup>903</sup> Roedd llawer ohonynt wedi ymuno â Chymru Fydd, meddai, 'o achos eu bod yn tybied bod y blaid honno ychydig yn llai Seisnigaidd na'r hen blaid Chwigaid'. Roedd rhai eraill yn parhau'n aelodau o'r blaid Ryddfrydol 'am eu bod yn ofni bod swyddogion *Cymru Fydd* yn chwanoach i farchogaeth ar y teimlad Cymreig nag i'w fagu'. Roedd 'nifer nid bychan o Gymry Cymreig' yn Doriaid, meddai ef,

am eu bod yn credu y gall dyn fod yn Gymro da, beth bynnag fyddo'i syniadau am Fasnach Deg, am Iawn i Dafarnwyr, am Ynadon di-arian a diddysg, ac am y pwnc pitw pa un ai o lyfr ai yn syth o'r safn y gellir yn orau weneithio i "enaid ein hannwyl frawd a ymadawodd o'r byd".

Yn ychwanegol at hynny, roedd llawer o Gymry Cymreig, megis ef ei hun, yn 'ymgadw ymhell oddi wrth bob plaid wleidyddol a'r sydd yn awr yn y maes', am eu bod yn 'barnu nad yw dynionach sydd yn ddiotal am eu braint bennaf [yr iaith Gymraeg] ddim yn haeddu cael breintiau llai'. 'Ysywaeth', terfyna Emrys, 'nid yw'r Cymry Cymreig eto wedi ymglyfuno'n blaid wleidyddol', ac roeddent yn annhebygol o wneud y fath beth yn fuan, mae'n debyg, os oedd sail i farn goeglyd Emrys ar ddiwylledd a direidi ei gyd-wladwyr.

<sup>902</sup> Emrys ap Iwan, 'Prif Ddinas i Gymru', t. 81. Defnyddir orgraff wreiddiol Emrys ap Iwan fel yr ymddengys yn y cylchgrawn.

<sup>903</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 30. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell.

Credai J. Herbert Lewis A.S., ar y llaw arall, fod ‘yr undeb cydrhwng gogledd a de yn cryfhau yn barhaus’ yn ôl adroddiad yn *Y Cymro* ym mis Ionawr 1895.<sup>904</sup> Yn wir, roedd yr amser yn cyrraedd ‘pan na [f]yddai gogledd a de ond termau daearyddol yn unig, oblegid dymuniad corph mawr y genedl oedd gweled “Cymru unedig”. Byddai unrhyw ‘gamwri neu anffawd mewn un rhan o Gymru’, ychwanegodd, ‘yn sicr o ddeffro cydymdeimlad pob rhan arall’, cyn mynd ymlaen i roi enghraifft ddiweddar o’r undod cenedlaethol newydd hwn:

Pan drowyd y dynion oddiar y reilffordd yn Môn am eu hanallu i siarad Saesneg, gwelid Cymru drwyddi, heb wahaniaeth plaid na sect, yn tanio mewn digofaint, ac yr oedd undeb ysbryd felly yn allu nad oedd yn ddoeth i unrhyw gorphoraeth, pa mor gryf bynnag y bo, ddod i wrthdarwiad ag ef.

Yn yr un modd, roedd Thomas E. Ellis wedi galw am undod rhwng y gwahanol ranbarthau yng Nghymru ‘pe bai’r wlad yn mynd i symud yn ei blaen’ mewn anerchiad gerbron Cymdeithas y Cymry yn Kimberly (De Affrica) bedair blynedd ynghynt.<sup>905</sup> Pwysleisiodd Ellis, edrydd Wyn Jones, fod ‘gan bob rhan o Gymru rywbeth i’w gyfrannu i’r adfywiad cenedlaethol’.<sup>906</sup> O Feirion, Arfon a Cheredigion y deuai’r ‘sadrwydd, duwioldeb, lletygarwch a chyfeillgarwch rhwng cymdogion’; o’r ‘chwarelwyr, y glowyr a’r gweithwyr dur’ y deuai’r ‘ysbryd democrataidd a’r ynni’; ac o ‘dai masnach Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd’ y deuai’r ‘weledigaeth, y fenter a’r gallu i drefnu’. Daliai Ellis mai ‘dyma rai o’r priodoleddau angenrheidiol i sefydlu’r Gymru a fyddai, ryw ddydd, yn anfon ei chynrychiolwyr i ymuno â chynrychiolwyr Iwerddon a De Affrica mewn senedd imperialaidd’. Hynny yw, i aralleirio Ellis rywfaint, byddai rhyw Gymru ‘aeddffed’ ddychmygol y dyfodol yn cael ei derbyn yn ‘chwaer’ i blant eraill yr Ymerodraeth Brydeinig (sydd â mesur o hunanlywodraeth) pe byddai hi’n cyfuno holl alluoedd ei gwahanol ranbarthau.

Cytunai’r pedwar awdur uchod, felly, ar yr angen am undod, ond roedd Lewis yn gweld arwyddion cadarnhaol o solidariaeth ymysg y gwahanol garfanau tiriogaethol Cymreig na welai Emrys na Griffith ddim ohonynt eto, tra bod Ellis yn canolbwyntio ar sut y byddai gwahaniaethau amlwg rhwng y Cymry yn creu cenedl unedig gryfach yn y dyfodol. Fe fu

---

<sup>904</sup> [Dienw], ‘Cenedlaetholdeb Cymru’, t. 5. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell.

<sup>905</sup> Gw. Jones, *Thomas Edward Ellis*, t. 48.

<sup>906</sup> Jones, *Thomas Edward Ellis*, t. 48. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell.

cytundeb ar ‘the need of national unity’, yng ngeiriau Henry Bonsall, yn y 1890au felly, ond nid oedd pawb o’r un farn a oeddent yn nes at eu hamcan neu beidio.<sup>907</sup>

Roedd *fuieristas* Gwlad y Basg y 1890au yn ymwybodol o’r diffyg cytundeb a fodolai ymysg y gwahanol bleidiau Basgaid tua’r un adeg hefyd, a’r angen am ‘undod pob Basgiad’ ym marn Ander Delgado.<sup>908</sup> Yn wir, yn rhifyn cyntaf un y cylchgrawn *Euskalduna* yn 1896, ac ar ôl cyflwyno eu rhaglen syniadaethol, y mae’r golygyddion yn datgan bod rhaid iddynt ‘gysegru eu holl egni i greu undod tyn rhwng pob mab da Gwlad y Basg’, cyn mynd ymlaen i wahodd y meibion hyn i ‘ddod at ein hochr ni’.<sup>909</sup> Byddai gwaith y Basgiaid ifainc hyn yn cynorthwyo’r golygyddion, ‘weithiau yn wrol ac weithiau yn ddiymhongar [...] i gyrraedd ein hamcan o wneud y newyddiadur hwn yn dra phoblogaidd’.<sup>910</sup> Yn ddiweddarach yn yr un rhifyn o *Euskalduna* yn yr erthygl ‘Arrate’ (sef enw ar fynydd yn Gipuzkoa), mae awdur anhysbys arall yn galw am undod rhwng pobl y taleithiau Biscaia, Gipuzkoa a Nafarroa, o’r un fath a welwyd ym mrwydr Navas de Tolosa yn y flwyddyn 1212.<sup>911</sup>

Y mae’r diwrnod gogoneddus hwnnw, pan ymladdodd, yn unedig ar flaen y gad, filwyr o Nafarroa [...] a milwyr o Guipuzkoa a Biscaia [...] yn symbolaidd ac yn dweud wrthym mai pob tro y byddo’n hil fonheddig yn sefyll yn unedig, fe all oresgyn yr holl rwystrau a godir i’w hymatal rhag cyflawni ei dymuniadau.<sup>912</sup>

At hynny, ac wrth godi’r ddelwedd o ‘gadwyn y pobloedd Basgaid’, mae’r awdur yn mynd ymlaen i ddatgan y ‘dylem ni, bob Basgiad-Nafarroa, afael yn dyn yn ei dolenni cryfion, ac o gwmpas Coeden Gernika, pawb gyda’n gilydd, bydd rhaid inni amddiffyn ein *fueros*’.<sup>913</sup> Undod roedd ei angen ar bobl Gwlad y Basg yn ôl llawer o *fuieristas*, felly, ond nid unrhyw fath o undod yn ôl Sabino Arana megis undod ‘ffug’ ac ‘allanol’, ond ‘undod perffaith ein meddwl’.<sup>914</sup> Er mwyn cyrraedd yr undod hwnnw, meddai ef yn 1894, roedd rhaid i’r Basgiaid

<sup>907</sup> Henry Bonsall, ‘The Need of National Unity’, *Young Wales*, Vol. I/No. 7, Gorffennaf 1895, tt. 153-155.

<sup>908</sup> ‘Unión de todos los vascos’: Delgado, ‘El fuerismo’, 309-310.

<sup>909</sup> ‘Consagr[ar] toda su energía á producir la unión estrecha de todos los buenos hijos de Euskeria’; ‘[que] vengan á nuestro lado’: [dienw], ‘En síntesis’, t. 2.

<sup>910</sup> ‘Con su trabajo, ora valioso, ora modesto, nos ayuden á la consecución de nuestros fines haciendo este periódico eminentemente popular’: [dienw], ‘En síntesis’, t. 2.

<sup>911</sup> Brwydr Las Navas de Tolosa (1212): ymunodd lluoedd Biskaia a Gipuzkoa o dan Díaz López de Haro (‘El Bueno’), Arglwydd Biscaia, a lluoedd Nafarroa o dan eu brenin Sancho el Fuerte yn erbyn y Mwriaid.

<sup>912</sup> ‘Esta gloriosa jornada, en la que pelearon unidas, en la vanguardia, las tropas nabarras mandadas por su rey Sancho, el Fuerte, y las guipuzkoanas y bizkainas por su Señor, resulta simbólica y nos dice que siempre que nuestra noble raza permanezca unida, es capaz de vencer todos los obstáculos que se opongan al logro de sus deseos’: [dienw], ‘Arrate’ (1/2), t. 4.

<sup>913</sup> ‘Todos los vasco-nabarras debemos asirmos á sus resistentes eslabones y en torno del Arbol de Guernica, todos unidos, estamos obligados á defender nuestros sacrosantos fueros’: [dienw], ‘Arrate’ (1/2), t. 4.

<sup>914</sup> ‘Pero es preciso que nos unamos, no con unión ficticia y exterior, sino dentro de una perfecta unidad de pensamiento’: Sabino Arana, *Bizkaitarra* 7 (31 Mawrth 1894). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 85.

‘wrthod pob syniad gwleidyddol pleidiol i Sbaen a chofleidio yn y faner sy’n dwyn ein harwyddair sanctaidd: *Jaun-Goikua eta Lagi-Zarra* [Duw a’r hen gyfraith]’.<sup>915</sup>

## Rhaid i ni greu plaid genedlaethol

Roedd cenedlaetholwyr y ddwy wlad o’r un farn felly: roedd angen undod o fewn y teulu Cymreig a’r teulu Basgaidd cyn iddynt allu symud ymlaen i gywiro’r amryw ddiffygion cenedlaethol a welent o’u cwmpas. Fel y gwelir maes o law, roedd ‘uno’ mewn ystyr haniaethol, neu ysbrydol efallai, yn ddigon i rai yng Nghymru, ond i eraill, roedd angen gweithred fwy ymarferol, mwy gwleidyddol, a dechreuent fwrw eu golwg ar gynrychiolaeth y Cymry yn senedd San Steffan yn benodol.

Bu Michael D. Jones yn datgan mor gynnar â 1884, er enghraifft, y ‘byddai deg ar hugain o aelodau boneddigaidd a dewr yn ddigon i gadw sylw’r Tŷ ar Gymru yn barhaus’, cyn mynd ymlaen i gwyno mai ‘ychydig yw nifer yr aelodau gwir Gymreig eu cydymdeimlad a’r sydd gennym yn bresennol’.<sup>916</sup> Yr *Irish Parliamentary Party*, a sefydlwyd yn 1874 gan Isaac Butt, oedd ysbrydoliaeth llawer o genedlaetholwyr Cymreig y cyfnod hwn, ac mae Jones yn mynd ymlaen yn yr un erthygl i gwyno bod ar Aelodau Cymreig ‘arswyd rhag efelychu yr Aelodau Gwyddelig drwy ymffurfio yn blaid gref i ddadleu dros Gymru mor ffyddlon a digywilydd ag y gwnânt dros y Werddon’.<sup>917</sup> ‘Gofal mawr rhag colli parch yn ngolwg y Saeson’, neu bryder am flino’r *Predominant Partner* efallai, oedd y rheswm am wrthod plaid Gymreig ar wahân ym marn Michael D. Jones, ac ‘ni cheir cynrychiolaeth iach i Gymru byth, oni chawn aelodau digon cenedlgarol a dewr i fyw a bod uwchlaw y gwaseidd-dra heintus hwn’.<sup>918</sup> Nid trwy’r blaid Ryddfrydol y byddai Cymru yn cael y ‘gynrychiolaeth iach’ honno sut bynnag, ychwanegodd Jones mewn erthygl arall yn *Y Celt* yn 1888, gan mai ‘rhyw ôl-aelod, neu gynffon, yw Rhyddfrydwyr Cymreig yn bresennol i’r Blaid Ryddfrydol Seisnig’, yr hon nad oedd wedi ‘gofalu ond ychydig am fuddiannau Cymru fel y cyfryw, ond

---

<sup>915</sup> Para ello hay que rechazar toda idea política españolista y abrazarnos a la bandera en cuyos pliegues está grabado nuestro sacrosanto lema *Jaun-Goikua eta Lagi-Zarra*: Sabino Arana, *Bizkaitarra* 7 (31 Mawrth 1894). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 85.

<sup>916</sup> Michael D. Jones, ‘Plaid Genedlaethol Gymreig’, *Y Celt*, 26 Rhagfyr 1884, t. 6.

<sup>917</sup> Jones, ‘Plaid Genedlaethol Gymreig’, t. 6.

<sup>918</sup> Jones, ‘Plaid Genedlaethol Gymreig’, t. 6.

fel y byddent yn taro ei chyfleusdra ei hunan'.<sup>919</sup> Rhywbeth amgen, rhywbeth newydd, yr oedd ei eisiau ym marn Michael D. Jones.

Wedi galw am sefydlu plaid genedlaethol Gymreig yn ei erthygl 'At y Cymry o'r Cymry' yn 1892, aeth Emrys ap Iwan ymlaen yn 'Paham y Gorfu'r Undebwyr' yn 1895 i honni mai 'cryf o ran dylanwad' a fyddai'r Cymry pe byddent yn 'cyfuno'n blaid'.<sup>920</sup> Yn wir, dwy blaid wleidyddol yn unig a ddylai fod yng Nghymru 'hyd oni chaffo hi ei hawliau cenedlig', meddai Emrys, sef 'Plaid Gymreig' a 'Phlaid Wrth-Gymreig'; a dylai gwneud y blaid olaf hon yn 'wannach wannach' fod yn ymgais bennaf pob Cymro gwladgarol.<sup>921</sup> Diddorol dros ben yw nodi yng nghyd-destun cefnlen ôl-drefedigaethol yr astudiaeth hon sylwadau Emrys mai 'peth plentynnaidd a gwaeth na phlentynnaidd yw inni ddynewared y Saeson' yn eu dewis rhwng Torïaid a Chwigioid, 'cyn penderfynu'r pwnc pwysig pa un ai'r Cymry ai'r Saeson sydd i gael eu ffordd yng Nghymru, a pha un ai'r Gymraeg ai'r Saesneg sydd i fod yn iaith ysgolion a chynghorau a swyddfeydd a llysoedd barn Cymru'.<sup>922</sup> Gellid dadlau yn sicr, o ystyried y geiriau hyn, fod Emrys ap Iwan yn ymwybodol o gyflwr ôl-drefedigaethol rhai yng Nghymru mor gynnar â'r 1890au, wrth iddynt 'ddynewared' yn 'blentynnaidd' categorïau gwleidyddol y Saeson tra bod eu categori gwleidyddol eu hunain yn prysur ddiiflannu.

Cymru Fydd fyddai'r cyfrwng gorau i greu'r cyfryw blaid genedlaethol ym marn Thomas E. Ellis, a datganodd o flaen cyngor cenedlaethol y mudiad newydd yn Y Drenewydd yn 1888 mai 'such a national programme must inevitably create a national Welsh party, without and within Parliament', cyn mynd ymlaen i daeru:

[The Welsh people] will seek for, find and send to Parliament intrepid men who, as individuals and as a party, will spontaneously and without conscious effort make the advancement of the Welsh cause their first, their paramount, and if necessary, their exclusive aim.<sup>923</sup>

Roedd R. A. Griffith hefyd yn cytuno yn ei erthygl 'Welsh Nationalism' (1895) y byddai Aelodau Seneddol Cymreig yn fwy dylanwadol pe byddent yn cyfuno mewn un blaid: 'nobody will deny that the Welsh members would gain enormously in influence if they were

<sup>919</sup> Michael D. Jones, 'Plaid Gymreig', *Y Celt*, 21 Medi 1888, t. 7.

<sup>920</sup> Emrys ap Iwan, 'At y Cymry o'r Cymry', tt. 52-54; Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 32.

<sup>921</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 32.

<sup>922</sup> Emrys ap Iwan, 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', t. 33.

<sup>923</sup> Thomas E. Ellis, 'Notes for "Cymru Fydd": National Council meeting, Newtown, October 9, 1888', yn Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrexham: Hughes and Son, 1912), tt. 187 a 188.

consolidated into [an] united party and supported by a strong national organization'.<sup>924</sup> A thra ei fod yn cydnabod bod rhai yn dadlau na ddylai Cymru Fydd wyro oddi ar ei brif genhadaeth i hyrwyddo iaith, llenyddiaeth ac addysg Gymraeg mewn ffordd ambleidiol,<sup>925</sup> roedd Griffith yn cytuno ag Ellis mai'r mudiad newydd hwn fyddai'r cyfrwng cywir i sianelu ymdrechion gwleidyddol y Cymry:

I would contend that, because it aims at being national, the Cymru Fydd movement must be political [...] Liberalism in Wales has assumed a national character. In all our schemes of legislation, we demand special treatment. I am, therefore, convinced that the Cymru Fydd movement, while doing all it can to preserve the Welsh language, to foster Welsh literature, and to promote the educational advancement of the Welsh people, must be in the main a political organization, depending on national sentiment for its motive force, and looking to the mission of the Welshman in the world for its governing idea.<sup>926</sup>

Eto i gyd, nid oedd pawb yn ystyried bod cymhellion aelodau Cymru Fydd yn llwyr anrhydeddus. 'Trwy symmudiadau gwladgarol, eang, pur, y twythir meddyliau y genedl â syniadau dyrchafedig, ac y dygir hi i fendithiol undeb' meddai awdur anhysbys yng nghylchgrawn priodol Eglwys Loegr, *Yr Haul*, yn 1895, ond roedd Cymru Fydd yn 'ymgais feiddgar i fasnachu ar deimladau goreu ein cenedl, a throi afon fawr gwladgarwch cenedlaethol yn gainc-ffrydiau i droi melinau bychain plaid wleidyddwyr' yn ei farn.<sup>927</sup> 'Nid oes un symudiad ag sydd yn *rhannu* y genedl', meddai, 'yn debyg o'i chyfannu, ac ni wiw dysgwyl i Beelzebub blaid-wleidyddol fwrw allan fân gythreuliaid ein pleidiau sectyddol'.<sup>928</sup> Mae'n peri syndod, efallai, fod prif gylchgrawn Eglwys Loegr yng Nghymru yn pryderu cymaint am gyflwr gwladgarwch y Cymry yn y 1890au, nes inni ystyried nad teimlad cenedlaethol ynddo ei hun a boenai grymoedd y wladwriaeth Brydeinig ond teimlad cenedlaethol wedi'i actifadu'n wleidyddol. Ystyrier geiriau Kenneth O. Morgan:

Certainly they [the Welsh national movement] aroused the alarm of English Unionists. Wales seemed to be succumbing to the same contagion of separatism as was Ireland. Politicians like R. C. Raikes cited the classical tag, *Proximus ardet Ucalegon* – a kind of Virgilian domino theory – to imply that the immediate disintegration of the Empire was close at hand.<sup>929</sup>

---

<sup>924</sup> Griffith, 'Welsh Nationalism', t. 36.

<sup>925</sup> 'Some people argue that Cymru Fydd cannot rightly be called a national movement if it assumes a political aspect. They ask why we should exclude the large number of Tories and Churchmen who are ardent in their support of Welsh literature. A partisan movement, they say, should not arrogate to itself a national name': Griffith, 'Welsh Nationalism', t. 36.

<sup>926</sup> Griffith, 'Welsh Nationalism', t. 36.

<sup>927</sup> [Dienw], 'Cenedlgarwch a Symmudiadau Gwladgarol', t. 15.

<sup>928</sup> [Dienw], 'Cenedlgarwch a Symmudiadau Gwladgarol', t. 15.

<sup>929</sup> Morgan, 'Welsh nationalism', 162.



Roedd rhai cenedlaetholwyr Cymreig yn ymwybodol, sut bynnag, nad oedd uno a sefydlu pleidiau cenedlaethol neu gymdeithasau gwladgarol yn ddigon ynddo ei hun: roedd angen gweithredu, gwaith ac ymdrech. ‘We are setting Welshmen to work’, meddai Thomas E. Ellis yn 1896, ‘in unearthing the treasures, in cultivating the land, so to speak, which has lain fallow’.<sup>930</sup> Galwad am waith llaw caled lle nad oedd gwaith gynt sydd yn y datganiad syml hwn felly, galwad sydd hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn rhethreg Sabino Arana yng Ngwlad y Basg. Nid yw’n ‘ddigon’ i wladgarwr, meddai, ‘broffesu â deallusrwydd yr athrawiaethau gwladgarol a’u cydnabod fel yr unig rai sy’n gywir’, gan ‘nad yw syniadau ar eu pennau eu hunain yn cyfrif dim byd; does dim gwerth ac effaith ynddynt os nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn symudiadau’r galon, ac os nad ydynt yn troi yn weithredoedd allanol’.<sup>931</sup> At y dibenion hyn, sefydlwyd *Bizkai-Buru-Batzar* (pwyllgor gwaith) *Euzko Alderdi Jeltzalea - El Partido Nacionalista Vasco* (Y Blaid Genedlaetholgar Fasgaid) gan Arana a’i frawd Luis ddeg diwrnod ar ôl cyhoeddi’r erthygl uchod ar 31 Gorffennaf 1895. Ac yn yr un cyfnod, galwodd *fuerristas* Basgaid, o dan ddylanwad digwyddiadau yn Iwerddon a Hwngari, am eu plaid wleidyddol eu hunain a fyddai’n rhoi ailsefydlu’r *fueros* o flaen unrhyw fater arall.<sup>932</sup> Yn debyg i *batzokis* yr EAJ-PNV, roedd y *fuerristas* hefyd o blaid sefydlu ‘sedes políticas’ (canolfannau gwleidyddol), neu adeiladau briciau a morter lle y gallai *fuerristas* ymgasglu a threfnu eu gweithredoedd.<sup>933</sup>

Serch hynny, ‘hir a llafurus’ fyddai’r ymdrech i ailsefydlu rhyddid Basgaid yn ôl golygyddion *Euskalduna*, ac ‘amynedd’ fyddai arf pwysicaf gwladgarwyr Gwlad y Basg.<sup>934</sup> ‘Ni chwblhawyd unrhyw orchwyl fawreddog yn hanes dynoliaeth’, meddant, ‘heb swm mawr o ymdrechion wedi’u hanelu yn iawn’.<sup>935</sup> Byddai *fuerristas* yn mynd trwy gyfnodau o ‘brawf a gwaradwydd’, ychwanegasant, pe dymument drosglwyddo i’w meibion yr ‘adnau cysegredig’ a dderbyniasent ‘yn etifeddiaeth’ gan eu cyndadau.<sup>936</sup> Yn debyg i ‘gerrig wrth ymyl y cefnfor

<sup>930</sup> Ellis, ‘The duty of the Guild’, t. 145.

<sup>931</sup> ‘Mas para ser patriota no basta profesar con la inteligencia las doctrinas patriotas y reconocerlas como las únicas verdaderas, no: las ideas, solo en cuanto tales, de nada sirven, para nada valen, ningún efecto producen si no se reflejan en los movimientos del corazón, si no se traducen en actos exteriores’: wedi’i briodoli i Sabino Arana yn ‘El Banquete’ (*Bizkaitarra*, Año III/Suplemento IV, 21 Gorffennaf 1895), ond wedi’i ddifynnu yn Egilsot (gol.), *De su alma y de su pluma*, t. 135.

<sup>932</sup> Delgado, ‘El fuerismo’, 311.

<sup>933</sup> Delgado, ‘El fuerismo’, 313.

<sup>934</sup> ‘¿Qué la empresa es larga y penosa; y más que ninguna otra arma tenemos menester el arma de la paciencia para llegar á donde nos proponemos?’: [dienw], ‘Lo que somos’, t. 9.

<sup>935</sup> ‘Ninguna grande obra se ha realizado en la humanidad sin una gran suma de esfuerzos bien encaminados’: [dienw], ‘Lo que somos’, t. 9.

<sup>936</sup> ‘¿Qué tenemos que pasar por períodos de prueba y de humillación? Pasaremos por todo, menos que se diga de nosotros que no hemos procurado transmitir íntegro á nuestros hijos el sagrado depósito que recibimos en herencia de nuestros padres’: [dienw], ‘Lo que somos’, t. 9.

sy'n gwrthwynebu pob cynddaredd y môr yn ddi-ofn', roeddent yn awyddus i arddangos 'diffuantrwydd a grym' eu hegwyddorion, meddant.<sup>937</sup>

Cynhyrchu propaganda, trefnu cyfarfodydd cyhoeddus a chynhyrfu gwrthdystiadau oedd blaenoriaethau'r *fueristas* yn ystod y cyfnod hwn, yn ôl Ander Delgado.<sup>938</sup> Mewn erthygl yn *Euskalduna* o'r enw 'La propaganda' o 1898, er enghraifft, mae'r golygyddion yn datgan y dylai 'gwrthdystiadau neu gyfarfodydd poblogaidd' ddod yn 'rhan naturiol o'n harferion', a phe llwyddid i drefnu'r cyfryw gyfarfodydd yn rheolaidd, meddant, byddai'r blaid *fuerista* yn 'cymryd cam pwysig iawn ymlaen yn ei gwaith propagandaidd'.<sup>939</sup> Yn wir, 'mewn propaganda wedi'i anelu yn iawn y ceir ein buddugoliaeth', ychwanegasant yn nes ymlaen yn yr un erthygl.<sup>940</sup> Roedd Sabino Arana o'r un farn ynglŷn â grym ac effaith propaganda, ac yn ogystal â threfnu cyfarfodydd cyhoeddus a gwrthdystiadau torfol roedd yn awyddus i fanteisio ar gyfrwng y theatr i ledaenu'i neges wleidyddol. Mewn erthygl o'r enw 'El teatro como medio de propaganda' (y theatr fel cyfrwng propaganda) o fis Chwefror 1895, honnai mai propaganda yn unig a allai 'argyhoeddi'r deallusrwydd' ar yr un pryd ag 'ysgogi neu berswadio'r ewyllys', ac roedd y theatr yn gyfrwng delfrydol i'r dibenion hyn.<sup>941</sup>

Roedd galwadau i uno pobl o'r un meddwl cenedlaetholgar, ffurfio pleidiau cenedlaethol a dechrau'r gwaith caled o weithredu o ddifrif yn rhan bwysig o'r ddau ddisgwrn cenedlaethol-drefedigaethol felly. Ond i ba ddibenion? Beth yn union roedd cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd am ei greu yn y 1890au? Beth yn union oedd eu cynllun cyfansoddiadol?

---

<sup>937</sup> 'Queremos demostrar por nuestra paciencia la sinceridad y la fortaleza de nuestras convicciones que á la manera que la roca erguida á los bordes del Océano desafía impávida todas las iras del mar, han de rechazar todos los embates que pretendan quebrantarlas': [dienw], 'Lo que somos', t. 9.

<sup>938</sup> Delgado, 'El fuerismo', 311-312.

<sup>939</sup> 'Estos son los motivos por los que entendemos que las manifestaciones ó reuniones populares debieran tomar carta de naturaleza en nuestras costumbres, y si el partido fuerista consigue realizarlas periódicamente, habrá dado un paso muy importante en los trabajos de propaganda': [dienw], 'La propaganda', *Euskalduna*, 26 Mehefin 1898. Dyfynnir yn Delgado, 'El fuerismo', 297.

<sup>940</sup> 'En la propaganda bien dirigida está nuestra victoria': [dienw], 'La propaganda'. Dyfynnir yn Delgado, 'El fuerismo', 314.

<sup>941</sup> 'La propaganda consiste en convencer a la inteligencia y mover o persuadir a la voluntad': Sabino Arana, 'El teatro como medio de propaganda', *Bizkaitarra*, Año III/Número 21, 17 Chwefror 1895, t. 1.

## Rhaid i ni'n llywodraethu ein hunain

'Mae'n bryd i ni gael ein rheoli gennym ni'n hunain, yn lle gan ffylid', dywedodd y Parch. Isaac Jones, Nantglyn, wrth iddo weddio am i'r Arglwydd roi pwyll i'w gynulleidfa 'bleidleisio'n iawn' yn ystod y 1890au.<sup>942</sup> Ac yn natganiad yr hen bregethwr hwn (cymeriad llwyr anhysbys erbyn hyn) gwelwn fotiff mwyaf arwyddluniol gwleidyddiaeth genedlaetholgar Gymreig a Basgaidd y 1890au: yr alwad am ryddid cyfansoddiadol, neu'r alwad ddiamwys i'n 'rheoli ein hunain'. Dyma alwad ddiamwys, sut bynnag, nas gwelir yn aml yn nisgwrs cenedlaethol Cymreig y 1890au, disgwrs a ddominyddwyd gan honiadau o annhegwch cenedlaethol a galwadau am gywiro'r diffygion cenedlaethol a welwyd yn gynharach yn yr astudiaeth hon. Dyma ddatganiad petrus a gofalus ar y cyfan yn y disgwrs Cymreig felly, heb bwysau na sylwedd na dyfnder esboniadol na rhethregol. Gwir yw bod cenedlaetholwyr Basgaidd yr EAJ-PNV yn rhoi ychydig mwy o gig syniadaethol ar eu hesgyrn rhethregol na'u cymheiriaid Cymreig; ond fel y gwelir maes o law, nid llawer mwy. Haen fwyaf arwyddluniol ein dau ddisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol yw'r haen olaf hon, bid sicr, ond haen deneuach ac ysgafnach ydyw hefyd. Trown yn yr adran hon i ddadansoddi datganiadau o blaid annibyniaeth a hunanlywodraeth wrth geisio ateb y cwestiwn hollbwysig: pam y bu'r datganiadau hyn mor brin? Pam y buont mor ansylweddol?

Ym marn Emrys ap Iwan, hawl a ganiatawyd gan Dduw ei hun, a hawl a ddylai barhau am byth yn y nefoedd, oedd yr hawl i fod yn genedl ar wahân, fel y gwelir yn y darn canlynol o'i homili 'Gweddi a Gwaith':

Er mwyn cadw dynion rhag myned yn rhy debyg i'w gilydd y neillduodd – y dosparthodd – Duw feibion Adda yn llwythau, yn ieithoedd, yn bobloedd ac yn genhedloedd; ac y mae'r Beibl yn awgrymu y bydd i bob dosparthiad a ordeiniodd Duw i beri amrywiaeth ar y ddaear, barhau dros byth yn y nef hefyd; canys nef annyddorol iawn a fyddai'r nef na byddai ynddi wahanol genhedloedd a gwahanol ieithoedd.<sup>943</sup>

Yn wir, ym marn D. Myrddin Lloyd, Emrys ap Iwan oedd y meddyliwr Cymreig cyntaf – o dan ddylanwad y Chwyldro Ffrengig a'r polemegydd Paul Louis Courier yn benodol – i gefnogi'r syniad mai ewyllys y bobl ac nid braint pendefigion a roddai i lywodraethau

---

<sup>942</sup> Dyfynnir yn Jenkins, *Thomas Gwynn Jones*, t. 52.

<sup>943</sup> Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan), 'Gweddi a Gwaith', yn Ezra Roberts (gol.), *Homiliau gan y Diweddar Parch. R. Ambrose Jones (Emrys ap Iwan) Cyf. 1* (Dinbych: Gee a'i Fab, 1906), t. 187.

enedlaethol yr hawl i fodoli.<sup>944</sup> Ar ben hynny, roedd Emrys yn dal bod ‘yr addasrwydd i lywodraethu’ yn gorwedd yn yr un lle â’r ‘hawl’ i lywodraethu: ‘his major premise was that it is the right of every nation to have its own government, and he held that fitness to govern lay where the right is’, meddai Lloyd.<sup>945</sup> Naill ai trwy ordeiniad dwyfol neu trwy gyfraith naturiol yr Ymoleuo, roedd rhyddid cenedlaethol, fel rhyddid personol, yn sanctaidd i Emrys ap Iwan: ‘y mae rhyddid cenedlig mor werthfawr â rhyddid personol’, meddai unwaith, ‘ac y mae’n wiu aberthu llawer er ei fwyn’.<sup>946</sup>

Diddorol yw nodi bod Sabino Arana yn mynegi barn debyg yng Ngwlad y Basg yn 1895 wrth ddatgan ‘nad oes mawrhydi arall ym Miscaia na’r un cyffredinol sydd gan Dduw a’r un cenedlaethol sydd gan *Las Juntas Generales*’.<sup>947</sup> Hynny yw, sofraniaeth Duw a sofraniaeth y *fueros* a sefydliadau hanesyddol Biscaia a gydnabyddai Arana, nid sofraniaeth Sbaen. At hynny, nid ‘breintiau’ a ganiatawyd gan ras brenin Sbaen oedd y *fueros* chwaith yn ei farn ef, ond ‘deddfau pobloedd rhydd’ a grëwyd â’u ‘hawdurdod cyfreithiol sofran eu hunain at ddibenion eu hunain, heb ymyrraeth unrhyw rym allanol’.<sup>948</sup> Ni fu Biscaia byth yn ddarostyngedig yn gyfansoddiadol i sofraniaeth Sbaen ym marn Arana felly, a hollol resymegol oedd mynnu annibyniaeth lwyr i’r genedl: ‘mae cenedlaetholdeb Biscaiaidd yn mynnu bod Biscaia yn genedl hollol rydd ac annibynnol ar bob cenedl arall’, meddai yn y cylchgrawn *Bizkaitarra* yn 1894.<sup>949</sup> Ac nid oedd y Biscaiaid yn dymuno mwy na bod y ‘genedl Sbaenaidd yn tynnu ei dominyddiaeth allan o’u tiriogaeth’ ac yn gadael i’r Biscaiaid ‘eu llywodraethu eu hunain yn rhydd, heb oruchafiaeth unrhyw rym uwch na grym Arglwydd yr holl nefoedd’.<sup>950</sup>

---

<sup>944</sup> D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. II. Llenyddol, Ieithyddol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1939), t. xv. Gw. Ernest Weekley (gol.), *Paul-Louis Courier: A Selection from the Works* (Manchester: The University Press, 1925) am detholiad o *lettres* gwleidyddol Courier.

<sup>945</sup> Lloyd, *Emrys ap Iwan*, t. 32.

<sup>946</sup> Dyfynnir yn Evans, ‘Ein dyled i Emrys ap Iwan’, t. 38.

<sup>947</sup> ‘En Bizkaya no hay más Majestades que la universal de Dios y la nacional de las Juntas Generales’: Sabino Arana, ‘El Basco’, *Bizkaitarra*, Número 25 (1895). Dyfynnir yn Egilsot (gol.), *De su alma y de su pluma*, t. 82.

<sup>948</sup> ‘Las instituciones que se llaman fueros vasco-navarros no son privilegios: son leyes propias de estos pueblos libres con libertad originaria, creadas libremente y con soberana potestad por ellos mismos para sí mismos, sin ingerencia de ningún poder extraño’: Sabino Arana, *El Partido Carlista y los fueros vasco-navarros* (1897). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 88.

<sup>949</sup> ‘El nacionalismo bizkaino tiende a la constitución de Bizkaya en nación absolutamente libre e independiente de las demás’: Sabino Arana, *Bizkaitarra*, Número 8, 22 Ebrill 1894. Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 82.

<sup>950</sup> ‘Los bizkainos no queremos otra cosa sino que la nación española retire de nuestro territorio su dominación; para que Bizkaya sea de los bizkainos y éstos la gobiernen libremente sin estar sometidos a más poder superior que al del Señor de todo el universo’: Sabino Arana, *Bizkaitarra*, Número 16 (1894). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 90.

Er na fu Arana yn ymhelaethu yn aml yn y wasg am drefniadau cyfansoddiadol y llywodraeth Fiscaiaidd rydd hon, cawn gipolwg ar ei fwriadau mewn cyfrol o 1897, *El Partido Carlista y los fueros vasco-navarros*, wrth iddo ddatgan bod ‘dychwelyd Gwlad y Basg i’w llywodraethu ei hun yn ôl y *fueros* yn golygu y bydd hi’n dychwelyd i fod yn hollol rydd ac annibynnol o Sbaen, gyda’i llywodraeth ei hun, ei phŵer deddfwriaethol ei hun, a ffiniau rhyngwladol’.<sup>951</sup> Ond nid gwladwriaeth unedol Fasgaidd fawr a ragwelai Arana, ac nid gwladwriaeth Fiscaiaidd fychan ar wahân chwaith. Creu ‘cydffederasiwn’ o ‘wladwriaethau Basgaidd’ ar ddwy ochr y Pyreneau oedd uchelgais Sabino Arana, ac undod hiliol ac undod Pabyddol yn sylfaen i’r endid newydd hwn (neu ‘Euskadi’ yn ei eiriau ei hun), endid a fyddai’n ymestyn a draws gogledd Sbaen a de orllewin Ffrainc:

Mae cenedlaetholdeb yn anelu, fel y gwyddys, at annibyniaeth lwyr i’r Bobl Fasgaidd, a’i hadferiad yn unol â hanfod ei thraddodiad crefyddol-wleidyddol, a’i chyfansoddi [...] yn gydffederasiwn o holl wladwriaethau hynafol yr hil. Mae’n hysbys bod chwech o’r rhain: Lapurdi [Labourd] a Zuberoa i’r gogledd o’r Bidasoa [Bidassoa] a’r Pyreneau; Biscaia, Gipuzkoa ac Araba i’r De; a Nafarroa ar ddwy ochr i’r llinell hon.<sup>952</sup>

Aeth Arana ymlaen yn yr un gyfrol i ddisgrifio’r drefn gyfansoddiadol a fyddai’n rheoli cysylltiadau rhwng gwladwriaethau’r cydffederasiwn. Yn gyntaf oll, dim ond trwy ‘ewyllys rhydd ac eglur pob Gwladwriaeth Fasgaidd’ y byddai’r cydffederasiwn yn cael ei sefydlu.<sup>953</sup> Yn ail, byddai gan bob gwladwriaeth ‘yr un hawliau a’r un rhwymedigaethau yn union’.<sup>954</sup> Ac yn drydydd, ni fyddai’r cydffederasiwn yn ‘rhwymo’r’ gwladwriaethau ac eithrio ym materion o ‘drefn gymdeithasol’ a ‘chysylltiadau rhyngwladol’, gan y byddai’r un ‘annibyniaeth lwyr draddodiadol’ ganddynt i gyd.<sup>955</sup> ‘Gallwch weld, felly, na fwriada

---

<sup>951</sup> ‘Volver el Pueblo Vasco a regirse según sus fueros significa volver a ser absolutamente libre e independiente de España, con gobierno propio, poder legislativo propio y fronteras internacionales’: Sabino Arana, *El Partido Carlista y los fueros vasco-navarros* (1897). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 89.

<sup>952</sup> ‘El nacionalismo aspira, como es sabido, a la independencia absoluta del Pueblo Vasko, restaurándose éste conforme a lo esencial de su Tradición Religioso-Política, y constituyendo [...] la Confederación de todos los antiguos Estados de la raza. Sabido es que éstos son seis: Laburdi, y Zuberoa, al norte del Bidasoa y el Pirineo; Bizkaya, Gipuzkoa y Araba al Sur; Nabarra a un lado y otro de dicha línea’: Sabino Arana, *El Partido Carlista y los fueros vasco-navarros* (1897). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, tt. 85-86. Gw. hefyd, Granja Sainz, *El nacionalismo vasco: claves de su historia*, t. 20.

<sup>953</sup> ‘Que sólo se haría constituyéndose por voluntad libre y expresa de todos y cada uno de los Estados Vascos y teniendo todos los mismos derechos en la formación de sus bases’: Sabino Arana, *El Partido Carlista y los fueros vasco-navarros* (1897). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 86

<sup>954</sup> ‘Dentro de ella tendrían siempre todos los Estados los mismos derechos e idénticas obligaciones’: Sabino Arana, *El Partido Carlista y los fueros vasco-navarros* (1897). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 86

<sup>955</sup> ‘La Confederación no les ligaría más que en el orden social y en el de las relaciones con el extranjero, permaneciendo en los otros con la misma absoluta independencia tradicional.’

enedlaetholwyr neu gefnogwyr *Bizkaitarra* lyncu'r gwladwriaethau traddodiadol yn un fwy', ychwanega Arana, yn awyddus i gysuro beirniaid ei gynllun.<sup>956</sup>

Fel y trafodwyd uchod, y radd o annibyniaeth a welent yn briodol i daleithiau Gwlad y Basg, a bodolaeth gyfansoddiadol yr endid mawr newydd hwn, oedd y pwnc a wahaniaethai cenedlaetholwyr yr EAJ-PNV a'r *fuéristas*. Adfer hen gyfundrefn gyfreithiol a sefydliadau hunanlywodraethol y taleithiau Basgaidd a ddiddymwyd gan lywodraeth Ryddfrydol Madrid yn 1876 oedd prif amcan y *fuéristas*, nid annibyniaeth lwyr neu gydffederasiwn newydd. Statws cyfreithiol ar wahân, hunanlywodraeth mewn materion domestig, a'r hawl i godi eu trethi a'u tollau eu hunain oedd eu blaenoriaethau, a hyn oll o dan frenhiniaeth Sbaen, fel yr oedd hi yn achos y taleithiau Basgaidd am ganrifoedd cyn 1876. 'Rhanbarthwyr' fyddai'r term a briodolid iddynt bellach, er na fyddent yn cydnabod y gair ar y pryd. Roedd golygyddion *Euskalduna* yn eu cymharu eu hunain yn 1896 â phobl Escitia pan oeddent yn wynebu byddin y Rhufeiniaid: 'y mae ein rhaglen yr un peth â'r datganiad haerllug a dwfn hwnnw a daflodd pennaeth yr Escitia yn wyneb capten y Rhufeiniaid, yn ôl a ddarllenwn yn Tacitus: *Urbis nostrae institutum, sicut a majoribus accipimus, sic posteris tradamus*'.<sup>957</sup> 'Trosglwyddo'r sefydliadau a dderbyniasom oddi wrth ein tadau i'n disgynyddion, yn union fel y'u cymynnwyd inni', dyna oedd rhaglen y *fuéristas* mewn un frawddeg.<sup>958</sup>

Un o'r dadleuon a deflid yn erbyn cyfundrefn y *fueros* yn y 1890au oedd ei hynafiaeth, ei darfodiad yn y byd modern, neu'i hanghydymffurfiad ag egwyddorion ac arferion y byd rhyddfrydol yn benodol. Ond nid rheswm dros ddiddymu'r sefydliadau ynddynt eu hunain oedd yr hynafiaeth hon ym marn y *fuéristas*, fel a welir yn y datganiad hwn gan olygyddion *Euskalduna*: 'felly, mae treigl amser yn gorfodi i ni wneud newidiadau iddynt? Iawn, fe fydd y rhai a etholir gan y wlad yn gwneud hynny er mwyn rheoli a gweinyddu yn ôl traddodiad'.<sup>959</sup> A phan maent yn gofyn iddynt eu hunain a ddylai popeth a sefydlwyd gan eu cyndadau gael ei 'barchu yn fanwl ac yn llwyr', maent yn ymateb: 'bydd y cynullïadau a'u gwysir gan y wlad hefyd yn penderfynu hynny', nid 'y rhai nad ydynt yn

<sup>956</sup> 'Ya ve, pues, que los nacionalistas o bizkaitarras no pretenden la absorción de los Estados tradicionales en uno mayor': Sabino Arana, *El Partido Carlista y los fueros vasco-navarros* (1897). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 86.

<sup>957</sup> '[Nuestro programa] viene á ser aquella arrogante y profunda afirmación que el jefe de los escitas lanzó en rostro al capitán romano, según leemos en Tácito: *Urbis nostrae institutum, sicut a majoribus accipimus, sic posteris tradamus*' [yn unol ag y derbyniasom sefydliadau ein dinas oddi wrth ein cyndadau, y byddwn yn eu trosglwyddo i'n disgynyddion]: [dienw], 'Lo que somos', t. 9.

<sup>958</sup> 'Transmitir á la posteridad las instituciones que recibimos de nuestros padres, tal como ellos nos las legaron': [dienw], 'Lo que somos', t. 9.

<sup>959</sup> '¿Qué el andar de los tiempos exige introducir en ellos modificaciones? Las introducirán los elegidos por el país para regirle y administrarle según tradición': [dienw], 'Lo que somos', t. 9.

adnabod yn ddwfn nac yn fanwl anghenion, dewisiadau a theimladau'r rhai y mae'r llywodraeth yn mynnu deddfu arnynt'.<sup>960</sup> Nid oedd anghysondeb â'r byd modern yn trechu gofynion democratiaeth leol yn ôl y *fuieristas*, mae'n debyg. Boed hynny fel y bo, roedd *fuieristas* Gwlad y Basg, a Charliaid y cylchgrawn *El Basco* yn benodol, yn ymwybodol o ddatblygiadau ym Mhrydain Fawr a'r mudiad *Home Rule* yn Iwerddon. 'Ni frwydrir dros bwnc pitw sy'n ymwneud â buddion,' meddai awdur anhysbys yr erthygl 'La cuestión vascongada' ('Y cwestiwn Basgaidd') yn 1893, 'ond yn hytrach dros ymreolaeth, dros fywyd ei hun, o fewn undod cenedlaethol, dros *self-government*, fel y byddai'r Saeson yn ei alw ef.'<sup>961</sup>

'Nid yw cael Ymreolaeth ond pwnc o amser', meddai Michael D. Jones yn *Y Celt* yn 1888; 'yr Iwerddon a'i caiff ef gyntaf', ac wedyn 'daw Ymreolaeth i Gymru, Ysgotland, ac adrannau o Loegr wedi hynny.'<sup>962</sup> 'Ffurfir ein llywodraeth yn debyg i lywodraeth yr Unol Daleithiau', ychwanegodd, 'a'r bobl fydd mewn awdurdod yma cyn bo hir fel yn yr America'.<sup>963</sup> Yn debyg i Sabino Arana yng Ngwlad y Basg, sut bynnag, ni ymhelaethodd Michael D. Jones ar ei syniadau am hunanlywodraeth i Gymru yn fanwl yn y wasg yn y 1880au a'r 1890au. Ond yn groes i'r hwn y bu Emrys ap Iwan yn ei honni yn *Y Geninen* yn 1892 mai ef ei hun 'a luniodd y gair ymreolaeth' ac mai ef 'oedd y cyntaf yng Nghymru i ddadleu dros y peth y mae y gair yn ei olygu', y tebyg yw mai Jones oedd y cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r gair 'ymreolaeth' ac i ddadlau yn gyson dros fesur o ryddid gwleidyddol i Gymru.<sup>964</sup>

Erbyn y 1890au, sut bynnag, roedd Emrys ap Iwan yn dadlau dros 'ymreolaeth' i Gymru yn aml yn y wasg ac yn disgrifio perthynas Cymru a Lloegr yn y dyfodol mewn termau ffederal, ac yn cynnig y Swistir a'r Unol Daleithiau fel modelau.<sup>965</sup> Braidd yn rhyfeddol, felly, yw'r ffaith bod cenedlaetholwr Cymreig ffyrnicaf ei oes yn eithaf pragmataidd ynglŷn â'r radd o annibyniaeth wleidyddol yr oedd yn dymuno ei gweld yng

---

<sup>960</sup> '¿Qué debe respetarse, escrupulosa y absolutamente todo el contenido de lo que nuestros padres dispusieron en lo tocante á las diversas materias que comprende la vida social de la familia vascongada? Lo decidirán también las asambleas convocadas por el país á este efecto, no [...] por quien no tiene conocimiento profundo y detallado de las necesidades, de las aspiraciones y de los sentimientos de aquellos para cuyo gobierno se dictan': [dienw], 'Lo que somos', t. 9.

<sup>961</sup> 'No se pelea por una mezquina cuestión de intereses, sino por la *autonomía*, por la vida propia, dentro de la unidad nacional, por el *self-government* que dirían los ingleses': [dienw], 'La cuestión vascongada', *El Basco*, 7 Medi 1893. Dyfynnir yn Delgado, 'El fuerismo', 305.

<sup>962</sup> Michael D. Jones, 'Y Weinyddiaeth a Phleidlais Cerydd', *Y Celt*, 6 Gorffennaf 1888, t. 7.

<sup>963</sup> Jones, 'Y Weinyddiaeth', t. 7.

<sup>964</sup> Gw. etymoleg y gair 'ymreolaeth' a sylwadau Emrys ap Iwan yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 3799.

<sup>965</sup> Lloyd, *Emrys ap Iwan*, t. 30.

Nghymru. Yn debyg i *Home-Rulers* Gwyddelig y 1890au, nid oedd Emrys yn rhagweld teyrnas neu weriniaeth Gymreig annibynnol ar yr Ymerodraeth Brydeinig: ‘y mae’r ffaith nad yw Cymru ond rhan fechan o ynys’, meddai, ‘yn peri na byddai’n fuddiol iddi fod yn deyrnas neu yn weriniaeth annibynnol’.<sup>966</sup> Yn wir, ‘tir canol’ a safiad ‘rhesymol ac ymarferol’ a ddewisodd wrth ddadlau dros hunanlywodraeth yn y 1890au:

Wrth ddewis tir canol yr wyf yn gosod fy hun gyda’r blaid fwyaf rhesymol ac ymarferol, am fy mod wrth ddadlau dros Ymreolaeth i Gymru yn dadlau dros gymaint o ryddid a phob cyfiawnder arall ag sy gyraeddadwy iddi.<sup>967</sup>

Mae’r ymadrodd olaf hwn, ‘cymaint o ryddid a phob cyfiawnder arall ag sy gyraeddadwy’, yn drawiadol dros ben yng nghyd-destun dadl ehangach ein hastudiaeth. Dyma brif genedlaetholwr Cymreig y 1890au yn ymfodloni mewn ‘cymaint’ o hunanlywodraeth ag sy’n ‘gyraeddadwy’, sef nid y swm mwyaf posibl, a hynny oherwydd dim ond ‘rhan fechan o ynys’ yw Cymru. Diffyg hyder ac isafiaeth gynhenid a fu’n treiddio meddyliau gwladgarwyr ‘cywiraf’ Cymru pan godid cwestiynau o lywodraethu eu hunain, mae’n debyg.

Wedi dweud hynny, roedd Emrys ap Iwan yn glir ei farn fod angen o leiaf gyfundrefn ddeddfwriaethol ar wahân i Gymru gan fod ‘y ffaith ei bod yn gartref cenedl, sef pobl neillduol, a gwahanol iawn i’r Saeson’ yn dangos ‘na all llawer o’r deddfau a’r defodau sy’n gyfaddas i’r naill genedl ddim bod felly i’r llall’.<sup>968</sup> Ac roedd yn ymwybodol, pe na byddai’r Cymry yn sicrhau hunanlywodraeth ar yr un pryd â’r Gwyddelod, byddai’r cyfle yn diflannu am byth: ‘oni chawn Ymreolaeth yr un pryd â’r Gwyddelod, byddwn yn rhy weinïon i gael Ymreolaeth byth’.<sup>969</sup> Yn ychwanegol at hynny, ac yntau’n ymwybodol o natur anghydryw, heterogenaidd a gwasgaredig cymunedau Cymreig, cynigiodd gyfundrefn o lywodraethiant lleol newydd i Gymru ar sail ar y bröydd a siroedd hanesyddol.<sup>970</sup> Ac yn adleisio uchelgeisiau Owain Glyndŵr yn y Cytundeb Tridarn, ysgrifennodd hefyd am Gymru fwy ei maint yn y dyfodol, wedi’i seilio ar y dalaith Rufeinig *Britannia Secunda*, a fyddai’n ymestyn ‘hyd at yr Hafren’ a chynnwys siroedd Seisnig y gororau megis Swydd Gaer, Swydd Amwythig, Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon.<sup>971</sup> Ni wyddom a ddywedodd Emrys ap Iwan y pwynt olaf

---

<sup>966</sup> Dyfynnir yn Lloyd, ‘Emrys ap Iwan a’i gyfnod’, t. 18.

<sup>967</sup> Dyfynnir yn Lloyd, ‘Emrys ap Iwan a’i gyfnod’, t. 18.

<sup>968</sup> Dyfynnir yn Lloyd, ‘Emrys ap Iwan a’i gyfnod’, t. 18.

<sup>969</sup> Emrys ap Iwan, ‘Paham y Gorfu’r Undebwyr’, t. 41.

<sup>970</sup> Gw. Williams, ‘Emrys ap Iwan’, t. 15.

<sup>971</sup> Emrys ap Iwan, ‘Prif Ddinas i Gymru’, t. 84. Cytundeb a luniwyd yn 1405 rhwng Owain Glyndŵr, Henry Percy, Iarll Iaf Northumberland, ac Edmund Mortimer oedd y Cytundeb Tridarn (*Tripartite Indenture*). Gw. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr*, tt. 166-169.



hwn o ddifrif, ond sicr yw y gwelwn enghraifft arall o ddisgyrsiau gwladgarol hynafol yn byrlymu i fyny i wyneb y disgwrs cenedlaetholgar Fictoriaidd.

Fel y gwelwyd yn Haen 3, roedd Emrys o'r farn, p'un ai bod senedd gan Gymru ai peidio, roedd 'yn resyn ac yn rhyfedd na bay Ynghymru ryw ddinas a gyfrifid yn brif ddinas', ac yn yr erthygl 'Prif Ddinas i Gymru' o 1895 mae'n trafod yn helaeth lle y dylid sefydlu'r brifddinas hon ar ôl i Gymru gael hunanlywodraeth.<sup>972</sup> I ddechrau, mae'n cydnabod y byddai gwleidyddion gwahanol ranbarthau Cymru yn dadlau dros eu trefi a'u dinasoedd eu hunain, a hynny am resymau gwahanol: dros Gaerdydd oherwydd ei maint a'i chyfoeth a thros Gaernarfon neu Fangor oherwydd eu Cymreictod. Ond roedd Emrys yn bendant na ddylai Caerdydd (sef Antwerp neu Marseille Cymru yn ei farn ef) gael yr anrhydedd honno: ac yntau'n ymwybodol unwaith eto o'r rhaniad hanesyddol rhwng gogledd a de, credai y dylai tref a leolid yn y canolbarth ennill y dydd. Rhywle ar yr echel ledredol 'rhwyng yr afonydd Mawddach ac Ystwyth' a fyddai'n gwneud y tro yn ei farn, a hynny er mwyn torri 'nid yn unig ar y pellter ffordd, ond hefyd ar y pellter teimlad sydd rhwng De a Gogledd'. Braidd yn annisgwyl efallai, 'Pengwern' (Amwythig) oedd ei ddewis cyntaf yn yr erthygl hon. Ond gan nad ailfeddiannwyd Swydd Amwythig gan y Gymru rydd newydd eto, mae'n mynd yn ymlaen i egluro: 'hwyrach mai Pengwern a fydd-hi eto yn y dyfodol pell: ond ar hynn o bryd, y may yn rhaid iddi fod yn nes i For y Gorllewin'.

Roedd gan Emrys ap Iwan feini prawf pwysig eraill wrth ddewis prifddinas i Gymru. Dylid ei lleoli, er enghraifft, rywle yr oedd 'pedair tafodiaith' y Gymraeg yn ymuno yn ddaearyddol er mwyn sicrhau na fyddai un ohonynt yn trechu ar y gweddill yn y dyfodol.<sup>973</sup> Dylai hi fod mewn man cyfleus ar gyfer trafndiaeth genedlaethol. Dylai hi feddu ar 'le iddi ymehangu' yn y dyfodol a dylai hi fod mewn 'sefyllfa fanteisiol i iechyd ei thrigolion'. Yn olaf, meddai, dylai fod ganddi 'ryw hen hanes ne draddodiad ag sy'n ei gwneud yn anwyl gan yr holl genedl'. Machynlleth a gwblhaodd y meini prawf hyn i gyd ym marn Emrys ap Iwan, a chydag 'hen hanes' Owain Glyndŵr yn gefnlen, rhagwelai yno 'ddinas fawr a gwyd' â senedd Gymreig wrth ei chanol 'i wneuthur deddfa a barnedigeytha i Gymru'.

Nid Emrys ap Iwan a Michael D. Jones yn unig a ymhelaethodd ar y sefydliadau y dymument eu gweld yng Nghymru hunanlywodraethol y dyfodol. 'Self-government is at once the inspirer and the goal of nationhood', meddai Thomas E. Ellis yn 1888, wrth iddo alw am

<sup>972</sup> Emrys ap Iwan, 'Prif Ddinas i Gymru', tt. 81-85, t. 81. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell.

<sup>973</sup> Emrys ap Iwan, 'Prif Ddinas i Gymru', t. 81. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o'r un ffynhonnell.

‘a Welsh representative authority’, ‘a Welsh national authority’, ac ‘an authority representative of and responsible directly and primarily to the Welsh people’.<sup>974</sup> Aeth ymlaen:

Without a national assembly – at once the symbol of unity and the instrument of self-government – her position as a nation can not be assured, and her work as a nation can not be done. Without the inclusion of the demand for autonomy, the programme lacks a ruling principle. With it, the programme and the struggle for its attainment become for our fatherland an emancipating faith – the pledge and the artificer of our national unity.<sup>975</sup>

Mewn anerchiad enwog yn Y Bala ddwy flynedd yn ddiweddarach ym mis Medi 1890 soniodd Ellis am ei awydd i weld ‘cynulliad i Gymru’, cynulliad fyddai’n ‘allweddol i bob datblygiad arall’ yng Nghymru.<sup>976</sup> At hynny, ‘gwŷr a gwragedd Cymru fyddai’n ethol y cynulliad’ hwn, gan achub y blaen ar y mudiad swffragét o nifer o flynyddoedd, yn ôl Wyn Jones.<sup>977</sup>

Fe fu Ellis yn cefnogi ‘Mesur Sefydliadau Cenedlaethol (Cymru)’ Alfred Thomas yn 1892 hefyd, sef ymgais i sefydlu nifer o sefydliadau neilltuol Cymreig megis Ysgrifennydd Gwladol i Gymru, Adran Addysg Gymreig, Amgueddfa Genedlaethol a ‘Chyngor Cenedlaethol’ Cymreig. Byddai’r un olaf hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol Cymru ac Aelodau Seneddol Cymreig, a fyddai’n ymarfer swyddogaethau deddfwriaethol mewn materion Cymreig.<sup>978</sup> Ond nid ‘ymreolaeth’, neu greu awdurdodaeth gyfreithiol a deddfwriaethol annibynnol Gymreig, gyda’i senedd, llywodraeth a sefydliadau eraill ar wahân, oedd blaenoriaeth llawer o genedlaetholwyr Cymreig eraill y cyfnod. Gwrthwynebwyd y mesur gan wleidyddion Cymreig amlwg megis Bryn Roberts, A.S. dros Eifion, a David Alfred Thomas, A.S. dros Ferthyr Tudful, a methodd y Bil ar ei ail ddarlleniad.<sup>979</sup> Diddorol yw nodi yn y cyd-destun hwn farn Ifan Morgan Jones mai diffyg sefydliadau cenedlaethol Cymreig (hen a newydd) oedd prif reswm am fethiant cenedlaetholdeb Cymreig yn y 19g ac nid sgileffeithiau rhyddfrydiaeth yn gyffredinol:

Diffyg sefydliadau Cymreig oddi ar y Ddeddf Uno a fu’n gyfrifol am ddiffyg datblygiad cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y [19g]. Heb eu sefydliadau eu hunain, a dim i’w hatal rhag mwynhau holl freintiau’r wladwriaeth ganolog, nid oedd

---

<sup>974</sup> Ellis, Thomas E., ‘Notes for “Cymru Fydd”’, tt. 188-189.

<sup>975</sup> Ellis, Thomas E., ‘Notes for “Cymru Fydd”’, t. 189.

<sup>976</sup> Jones, *Thomas Edward Ellis*, t. 46.

<sup>977</sup> Jones, *Thomas Edward Ellis*, t. 46.

<sup>978</sup> Gw. Morgan, *Wales in British Politics*, tt. 109-110.

<sup>979</sup> Morgan, *Wales in British Politics*, t. 109.

cymhelliad digonol i'r Cymry, fel rhai o'r [g]wledydd anhanesiol eraill Ewrop, fynnu ymreolaeth. Hyd yn oed wrth i'r wasg Gymraeg fwynhau 'oes aur' yn y 19eg ganrif, ni lwyddodd yr afrif gyfnodolion hyn i gynhyrchu ymdeimlad o 'gymuned ddychmygedig' Gymreig yn absenoldeb sefydliadau a fyddai wedi eu defnyddio yn gyfrwng er mwyn hybu disgwrs cenedlaetholdeb.<sup>980</sup>

Efallai ei fod yn syndod, ar ôl inni weld pedair haen y disgwrs cenedlaethol yn cael eu hadeiladu yn ofalus ac yn gynyddol – sef datganiadau o wahaniaeth cyntefig yr hil Gymreig a'i gelyniaeth farwol â'r hil Saeson, yr holl ddiffygion yng nghyflwr y genedl a'r datrysiadau a fyddai'n cyfrannu at ddyfodol gwell, ynghyd â'r galwadau am uno a threfnu'r Cymry yn wleidyddol – nad oedd cenedlaetholwyr y cyfnod yn fwy eiddgar i gymryd y cam rhesymegol nesaf yn rhethreg a pholisi cenedlaetholgar, sef datgan annibyniaeth i'w gwlad a sefydlu sefydliadau neilltuol. Byddwn yn troi yn adran olaf y bennod hon i ddatganiadau nifer o ddatganiadau sy'n ymddangos law yn llaw â chynigion i 'reoli ein hunain' mewn erthyglau yn y wasg Gymreig yn y 1890au, sef datganiadau y dylem 'gymryd ein lle yn yr Ymerodraeth'.

## **Oes rhaid i ni gymryd ein lle yn yr Ymerodraeth?**

Fel y gwelwyd uchod mewn nifer o ddyfyniadau o'r erthygl 'Cenedlaetholdeb Cymru', un o genedlaetholwyr Gymreig mwyaf brwdfrydig y 1890au oedd J. Herbert Lewis A.S.<sup>981</sup> Roedd Lewis yn aelod blaengar o Gymru Fydd ac yn gyfaill agos i Thomas E. Ellis a David Lloyd George, a gellir gweld mewn darn arall o 'Cenedlaetholdeb Cymru' sut y mae'n datblygu dadl genedlaetholgar sy'n gyson â'n pedair haen hyd yma:

Credai llawer mai difodiant iaith a theimlad Cymru fyddai y peth goreu iddi, ond credai ef [J. Herbert Lewis] mai dyma'r peth gwaethaf allai ddod i'w chyfarfod, ac argymhellai bawb i gadw ei nodweddion goreu, [ac] i ddadblygu ein buddiannau yn ein ffordd ein hunain.<sup>982</sup>

Mewn un frawddeg, dyma ddatganiad diamwys o blaid iaith, hunaniaeth a nodweddion Cymreig, datganiad sydd hyd yn oed yn argymhell y dylai'r Cymry ddatblygu eu buddiannau

---

<sup>980</sup> Jones, 'Ymrestru o dan y Faner', t. 8.

<sup>981</sup> Gw. Kenneth O. Morgan, 'Lloyd George's Flintshire loyalist: the political achievement of John Herbert Lewis', *Journal of Liberal History*, 57 (Winter 2007-2008), 18-30, am drosolwg o fywyd a meddwl J. Herbert Lewis. Gw. hefyd Timothy P. Erasmus, 'Herbert Lewis and Welsh radicalism: a study of the political career of John Herbert Lewis (1858-1933), with special reference to the period 1892-1906' (Traethawd PhD: Prifysgol Bangor, 1988).

<sup>982</sup> [Dienw], 'Cenedlaetholdeb Cymru', t. 5.

yn eu ‘ffordd eu hunain’, sef cymryd mesur o hunanreolaeth arnynt eu hunain. Ond yn yr ymadrodd sy’n dilyn y datganiadau uchod ceir cipolwg ar elfen amhersain bwysig yn nisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig y cyfnod:

*[Credai llawer mai difodiant iaith a theimlad Cymru fyddai y peth goreu iddi, ond credai ef mai dyma’r peth gwaethaf allai ddod i’w chyfarfod, ac argymhellai bawb i gadw ei nodweddion goreu, i ddadblygu ein buddianau yn ein ffordd ein hunain]* ac ar yr un pryd i feithrin y teimladau mwyaf cyfeillgar at genedloedd eraill y Deyrnas Gyfunol.<sup>983</sup>

Gwelir bellach mai dyma ddatganiad cenedlaetholgar â therfynau, neu amodau, clir: dylai’r Cymry wneud yr holl bethau a awgrymir yn hanner cyntaf y frawddeg, ond ni ddylent eu gwneud mewn ffordd sy’n digio cenedloedd eraill y Deyrnas Gyfunol; a chan ‘genhedloedd eraill y Deyrnas Gyfunol’ ni allwn ond tybio mai Lloegr oedd wrth wraidd meddyliau Lewis. Rhyddid i Gymru a fynnai Lewis felly, ond nid rhyddid llwyr neu ryddid di-ffrwyng.

Gwelir camau rhethregol a rhesymol tebyg mewn darn o araith gan Syr Vaughan Williams a adroddwyd yn yr erthygl ‘Y Cymeriad Celtaidd’ yn *Y Cymro* yn 1895. Credai Williams, meddai’r gohebydd,

*fod cenedlaetholdeb yn hanfodol i ddadblygiad y Celt. Nis gallai ei athrylith ffynnu pan gyfyngid arno. Nid oeddynt i gyflwyno talentau feddent er budd dynoliaeth i gylch lleol; nid oeddynt i aberthu gobeithion y dyfodol am freuddwydion y gorphenol.*<sup>984</sup>

Dyma felly, ar un olwg, ddatganiad diamwys o blaid cenedlaetholdeb Celtaidd, neu Gymreig yng nghyd-destun yr erthygl. Yn wir, ni allai’r Cymry fanteisio ar eu hathrylith, eu talentau a’u gobeithion ar gyfer y dyfodol heb gofleidio yn llawn ynddo. Ond pan ychwanegir brawddeg olaf y darn, mae rhesymu a neges yr awdur yn mabwysiadu gwedd hollol newydd:

*[Mae cenedlaetholdeb yn hanfodol i ddadblygiad y Celt. Nis gallai ei athrylith ffynnu pan gyfyngid arno. Nid oeddynt i gyflwyno talentau feddent er budd dynoliaeth i gylch lleol; nid oeddynt i aberthu gobeithion y dyfodol am freuddwydion y gorphenol]* Rhaid iddynt gymeryd eu safle fel rhan o’r ymherodraeth, i’r hyn yr oedd ganddynt hawl gyfiawn.<sup>985</sup>

I’r awdur hwn, felly, nid oedd cenedlaetholdeb yn gyfrwng i’r Celtiaid wahaniaethu rhyngddynt hwy eu hunain a’r Ymerodraeth Brydeinig yn gyfansoddiadol, a chan hynny ‘ffynnu’ mewn termau economaidd neu ddiwylliannol yn eu hawl eu hunain: roedd

<sup>983</sup> [Dienw], ‘Cenedlaetholdeb Cymru’, t. 5.

<sup>984</sup> [Dienw], ‘Y Cymeriad Celtaidd’, t. 7.

<sup>985</sup> [Dienw], ‘Y Cymeriad Celtaidd’, t. 7.

enedlaetholdeb yn gyfrwng iddynt gyrraedd y cyflwr dyrchafedig angenrheidiol i fod yn aelodau llawn yr Ymerodraeth. Roedd cenedlaetholdeb Cymreig, felly, yn ryw fath o ‘addysg’ imperialaidd i’r awdur hwn, neu ffordd o ddatblygu ‘talentau’ y Cymry er budd yr Ymerodraeth, ac nid er budd y ‘cylch lleol’.<sup>986</sup>

Ynghyd â Thomas E. Ellis, David Lloyd George oedd cenedlaetholwr Cymreig mwyaf adnabyddus a phoblogaidd y 1890au. Gwelwyd uchod nifer o’i ddatganiadau diamwys o blaid cenedlaetholdeb, ond byddai’n fuddiol inni ystyried yn fanwl y darn canlynol o’i fanifesto ar gyfer etholiad cyffredinol 1895:

Yr wyf yn un o’r rhai sydd yn credu nad ydyw yr adnewyddiad ysbryd fu ar ein hen genedl yn ystod y ganrif ddiweddaraf i gael ei ddihysbyddu hyd nes y codir Cymru nid yn unig mewn crefydd a moes, ond mewn diwylliant – mewn rhyddid – mewn cyflwr cymdeithasol, i un o’r safleoedd uwchaf ym mysghedloedd gwareiddiad.<sup>987</sup>

Dyma wleidydd Cymreig, felly, yn proffesu cefnogaeth i’r math o raglen genedlaethol a welwyd yn Haen 3 y paradeim disgysiol: adnewyddu ysbryd y genedl a’i chodi yn grefyddol, yn foesol, yn ddiwylliannol ac yn ei chyflwr cymdeithasol. Ond dyma rywun sy’n barod i fynd ymhellach at Haen 4 hefyd, wrth iddo awgrymu y dylai Cymru gael ‘rhyddid’. ‘Yr wyf yn credu’, ychwanega yn ddiweddarach yn y manifesto, ‘fod dyfodol Cymru yn ddiogelach yn nwyllaw ei meibion a’i merched hi ei hun [...] nag yng ngofal y rhai sydd ers hanner canrif yn gwrthod gwrandaw ar ei chwynion a’i hymbiliau’, wrth ymgasglu mai ‘dyna’r pahan y rhoddwn i Gymru yr hawl i reoli ei materion arbenigol ei hun’. Dyna ni, roedd David Lloyd George yn cefnogi rhyddid a hunanlywodraeth i Gymru felly. Cenedlaetholwr go iawn sydd yma, a disgwrs cenedlaethol safonol hefyd. Ond yn y geiriau ‘materion arbenigol ei hun’, a’r rhai sy’n dilyn, ‘gan adael i’r Senedd Ymerodrol bob goruwchreolaeth dros faterion sydd yn perthyn i’r holl Ymerodraeth’, gwelir bod Lloyd George hefyd yn rhoi terfynau llym ar uchelgeisiau’r genedl Gymreig yn y pen draw.

Roedd dau ddimensiwn yn bodoli ym mywyd gwleidyddol Cymru i Lloyd George yn 1895 felly, y ‘genedl’ â’i senedd leol, a’r Ymerodraeth â’i ‘Senedd Ymerodrol’, ac roedd yr ail yn uwch na’r cyntaf, mae’n debyg. Mae’n mynd ymlaen yn yr un darn i esbonio mai’r ‘hawl roddwn i Gymru yn eu gwlad eu hunain, pleidleisiwn i’w estyn hefyd i Loegr, i’r Iwerddon, ac i Sgotland’, a chan hynny, ddatguddio yn derfynol ei gynllun cyfansoddiadol

---

<sup>986</sup> Gw. hefyd yr erthygl gan George Baden-Powell, ‘Welshmen and the British Empire’, yn *Transactions of the Liverpool Welsh National Society*, 8th session (1892-93), tt. 98-108.

<sup>987</sup> David Lloyd George, Manifesto Etholiad Cyffredinol 1895. Dyfynnir yn Jones, *Hen Lyfr Bach: Lloyd George*, tt. 17-18. Daw pob dyfyniad yn y paragraff hwn o’r un ffynhonnell.

ehangach: uned arall yr Ymerodraeth Brydeinig, ynghyd â'r cenedloedd cartref eraill, fyddai Cymru, ac nid cenedl ar wahân. Byddai Thomas E. Ellis hefyd yn cyfeirio yn aml at Lywodraeth Prydain fel 'the Imperial Government', a chlr yw nad oedd cenedlaetholdeb Cymreig Lloyd George ac Ellis yn perthyn i'r un categori â chenedlaetholdeb traddodiadol Ewropeaidd y 19g, neu genedlaetholdeb Mazzini, Kosuth a Mudiad y Ffeniaid yn Iwerddon a oedd am greu gwladwriaeth annibynnol y tu allan i'r Ymerodraeth a lywodraethid drostynt.<sup>988</sup>

Dyma Ellis unwaith eto:

Now, Liberalism is being educated and widened by Mr. Gladstone through his struggle for the recognition of nationality and autonomy as enobling and fructifying elements, not in Ireland alone, but in Wales and Scotland likewise. This struggle is the master-current of the politics of the United Kingdom. Let Wales take the tide at its flood. It will surely lead on to fortune.<sup>989</sup>

'Dominiwnoldeb' (*dominionism*) ac nid cenedlaetholdeb oedd ideoleg Lloyd George, Ellis a llawer o wladgarwyr Cymreig eraill y 1890au mewn gwirionedd,<sup>990</sup> neu'r awydd i droi Cymru yn ddominiwn rhannol-hunanlywodraethol o fewn yr Ymerodraeth Brydeinig, fel yr oedd Canada, Awstralia, Seland Newydd a De Affrica.<sup>991</sup> Ni fwriadwn ddadlau, gan hynny, mai anghywir neu amhriodol mewn unrhyw ffordd oedd dadlau dros y fath beth, nac mai ansylweddol oedd y radd o hunanlywodraeth yr oeddent yn ei chwennych yng nghyd-destun y cyfnod; mae hanes diweddarach y gwledydd a nodir uchod yn dangos bod y fath statws yn gallu arwain at annibyniaeth *de facto* lwyr a 'llwyddiant' yn y byd allanol.<sup>992</sup> Dadlau yr ydym, yn debyg i Kenneth O. Morgan, nad datganiadau na syniadau cenedlaetholgar pur a welir yma ond datganiadau cenedlaethol-drefedigaethol:

For the supreme object of these Welsh national leaders was essentially equality within the united Kingdom and an expanding empire, not severance from it. Welsh and Irish

---

<sup>988</sup> Ellis, 'The duty of the Guild', t. 154.

<sup>989</sup> Ellis, Thomas E., 'Notes for "Cymru Fydd"', t. 193.

<sup>990</sup> Nid yw'r gair 'dominiwnoldeb' (neu 'dominionism') yn bodoli yn swyddogol yn y cyd-destun hwn hyd y gwyddom, ond fe'n tery yn air addas iawn am athroniaeth wleidyddol Cymru Fyddwyr y 1890au.

<sup>991</sup> Mae'n bwysig gwahaniaethu yma rhwng statws 'dominiwn' cyffredinol llawer o drefedigaethau yn yr Ymerodraeth Brydeinig a feddai ar raddau amrywiol o hunanlywodraeth yn y 19g, a'r statws 'Dominiwn' (llythyren fras) a rowyd yn ddiweddarach i'r trefedigaethau a feddai ar radd helaeth o annibyniaeth o dan y Goron, gan ddechrau gyda Chyddfederasiwn Canada yn 1867; Awstralia, Seland Newydd a'r Tir Newydd (1907); Undeb De Affrica (1910); a'r Wladwriaeth Rydd Iwerddon (1922). Rhwyd yr un statws i'r India, Pacistan a Seilón (Sri Lanka erbyn hyn) tua diwedd y 1940au. Roedd Datganiad Balfour 1926 yn cydnabod y Dominiynau yn 'Cymunedau Annibynnol yn yr Ymerodraeth Brydeinig', a chadarnhaodd Statud San Steffan 1931 eu hannibyniaeth deddfwriaethol lawn. Gw. 'Dominion: British Commonwealth', *Encyclopaedia Britannica* [ar-lein]: <https://www.britannica.com/topic/dominion-British-Commonwealth> [cyrchwyd: 8 Chwefror 2019].

<sup>992</sup> Ni fwriedir bychanu'r problemau y'u wynebu'r gwledydd hyn ers troi yn annibynnol wrth gwrs, yn enwedig y rhai yn Ne Affrica.

nationalism were fundamentally different. Despite all the efforts of ingenious journalists to invent one, there was simply no ‘Parnell of Wales’.<sup>993</sup>

Yn symbolaidd iawn, efallai, dadlau dros gynnwys arfau Cymreig yn arfbais frenhinol y Deyrnas Unedig (lle nad oeddent yn ymddangos gynt) a wnaeth T. H. Thomas yn y pen draw mewn erthygl yn *Young Wales* yn 1897, nid ceisio creu arfbais newydd ar gyfer rhyw deyrnas neu weriniaeth Gymreig ar wahân.<sup>994</sup>

Wrth ddatgan y byddai’n pleidleisio i estyn yr un hawliau a roddai i Gymru ‘hefyd i Loegr, i’r Iwerddon, ac i Sgotland’, bu David Lloyd George yn ei ddiffinio ei hun, mewn termau llym, yn Brydeiniwr; o leiaf o bersbectif cenedlaetholwyr Basgaidd yr EAJ-PNV. Cymharer yr hyn a ddywedodd Sabino Arana yn *Bizkaitarra* yn 1894:

Ni fyddwn byth yn trafod a oes gan ranbarthau Sbaen megis Catalwnia’r hawl i’r sefydliadau rhanbarthol y maent yn eu hamddiffyn; gan nad ydym yn poeni llawer amdanynt, neu yn fwy penodol, am faterion mewnol Sbaen.<sup>995</sup>

Fel y gwelwyd uchod, roedd Arana yn amheus iawn ynghylch honiadau cenedlaethol Catalwnia a methodolegau’r *Catalanistas* yn gyffredinol, a diau bod mesur o’r gwrthnawsedd penodol hwnnw yn treiddio i’w sylwadau hyn. Ond mae syniad ac elfen ddisgyrsiol gyffredinol a phwysig ar waith yma hefyd, sef y syniad na ddylai cenedlaetholwyr un genedl ymdrafferthu ynghylch materion cenedl arall, a llai fyth materion y genedl ormesol. Pam y dylai cenedlaetholwyr Basgaidd ymboeni am drefniadau gwleidyddol Sbaen? Pam y dylai cenedlaetholwyr Cymreig ymboeni am drefniadau mewnol Prydain o ran hynny? Oni bai, wrth gwrs, eu bod yn eu hystyried eu hunain yn rhan o’r genedl honno? A dyma graidd y mater dan sylw: rhanbarthwyr Cymreig o Brydeinwyr oedd mwyafrif o ‘wladgarwyr’ Cymru’r 1890au, ac er bod Sabino Arana yn brwydro yn ffyrnig yn eu herbyn, roedd y mwyafrif o ‘*patriotas*’ Gwlad y Basg y cyfnod yn rhanbarthwyr Basgaidd o Sbaenwyr hefyd.

Ysgrifennai Arana yn aml ac yn helaeth am y gwahaniaeth a welai rhwng y ddau safiad hyn, rhwng *autonomía regional* (awtonomiaeth ranbarthol) ar yr un llaw, ac *independencia nacional* (annibyniaeth genedlaethol) ar y llaw arall. ‘Er bod awtonomiaeth yn golygu annibyniaeth’, meddai yn 1894, ‘gwyddys bod yr awtonomiaeth y mae pobl yn

---

<sup>993</sup> Morgan, ‘Welsh nationalism’, 164.

<sup>994</sup> T. H. Thomas, ‘The Inclusion of Arms Representing Wales in the Royal Shield of the United Kingdom’, *Young Wales*, Vol. III/No. 33, Medi 1897, tt. 193-197

<sup>995</sup> ‘Nosotros nunca discutiremos si las regiones españolas como Cataluña tienen o no derecho al regionalismo que defienden; porque nos preocupan muy poco, nada por mejor decir, los asuntos internos de España’: Sabino Arana, *Bizkaitarra* 16 (1894). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 77.

clochdar cymaint amdani ar hyn o bryd yn awtonomiaeth berthynol a rhannol, sef awtonomiaeth ranbarthol; nid annibyniaeth lwyr a chyflawn, sef annibyniaeth genedlaethol'.<sup>996</sup> Er bod *fueristas* yn galw yn gryf am ailsefydlu *fueros* a sefydliadau hynafol y taleithiau Basgaidd, roeddent yn fodlon i wneud hynny o fewn brenhiniaeth Sbaen gan adael ystod eang o swyddogaethau llywodraethol yn nwylo Madrid. Nid oedd y *Partido Fuerista* (y Blaid *Fuerista*) yn haeddu'r fath epithed, meddai Arana yn *Bizkaitarra* yn 1894, oherwydd rhanbarthwyr oeddent hwy yn y bôn, ond deddfau cenedlaethol oedd y *fueros*:

Ni enwir yn briodol y blaid ranbarthol [honno] yn blaid *fuerista*, gan mai cenedlaetholdeb neu ymwahaniaeth yw *fuerismo* yn Biscaia, ac nid deddfau rhanbarthol yw'r *fueros* ond sefydliadau cenedlaethol.<sup>997</sup>

Er mwyn bod yn *fuerista* go iawn, mae 'rhaid i *fuerista* fod yn ymwahanwr', meddai Arana mewn erthygl arall yn 1894,<sup>998</sup> ac nid oedd y llefau a glywid yn ddiweddar, '¡Que muera Castilla!' ('Marwolaeth i Gastilia!'), yn 'werth dim' gan eu bod yn llefau 'rhanbartholgar'.<sup>999</sup> Llef y gall 'y Galisiaid, y Catalaniaid, yr Andalwsiaid a phobl Valencia', ynghyd â'r 'Aragoniaid a phobl Extremadura', ei gweiddi oedd y llef hon.<sup>1000</sup> Ond nid oedd yn llef 'briodol i bobl Biscaia' gan y dylai'r rhain, 'a hyd yn oed y Basgiaid i gyd', fod yn 'genedlaetholwyr'.<sup>1001</sup> Roedd i ranbartholdeb ei le priodol, meddai Arana mewn erthygl arall yn 1894, ond y rhanbartholdeb a 'ddeuai o ganlyniad i gonffederasiwn y gwladwriaethau Basgaidd' oedd y rhanbartholdeb hwnnw, unwaith y byddent yn 'rhydd o'r iau estron'.<sup>1002</sup> Yn ogystal â hynny, meddai Arana, fe fyddai 'trefn ranbarthol y gwladwriaethau Basgaidd o

---

<sup>996</sup> 'Auque autonomía significa independencia, sin embargo, sabido es que la autonomía que en estos tiempos tanto se cacarea, es la autonomía relativa y parcial, la autonomía regional; no la independencia absoluta y total, la independencia nacional': Sabino Arana, *Bizkaitarra* 15 (1894). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 75.

<sup>997</sup> 'Por eso el partido regionalista a que nos referimos no se llama con propiedad fuerista; porque, respecto de Bizkaya, fuerismo es nacionalismo o separatismo y los fueros de Bizkaya no son leyes regionales, sino instituciones nacionales.': Sabino Arana, *Bizkaitarra* 15 (1894). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 75.

<sup>998</sup> 'El fuerista, para serlo en realidad de verdad, ha de ser necesariamente separatista': Sabino Arana, *Bizkaitarra* 8 (1894). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 89.

<sup>999</sup> '¡Mueras a Castilla? Eso vale poco, hombre: eso es regionalista': Sabino Arana, 'El Diario de Bilbao', *Bizkaitarra*, Año III/Número 31, 28 Gorffennaf 1895, t. 4. Y gwrthwyneb i'r ymadrodd enwog Sbaeneg '¡Que viva [rhywbeth]!' ('Hir oes i [rywbeth]!') yw '¡Que muera [rhywbeth]!' ('O bydded i [rywbeth] farw!' neu 'Marwolaeth i [rywbeth]!').

<sup>1000</sup> 'Es grito que lo mismo pueden dar los gallegos que los catalanes, los andaluces que los valencianos, los aragoneses que los extremeños': Arana, 'El Diario de Bilbao', t. 4.

<sup>1001</sup> 'Pero no es grito propio de bizkainos, porque éstos, y aun los euskerianos todos, deben ser nacionalistas': Arana, 'El Diario de Bilbao', t. 4.

<sup>1002</sup> 'También aquí tenemos regionalismo: pero es el regionalismo que habría de resultar de la confederación de los estados euskerianos, ya libres del yugo extranjero': Sabino Arana, *Bizkaitarra* 16 (1894). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 76.



fewn y genedl Euskeria' yn 'fwy awtonomaidd na'r hyn y mae rhanbarthau Sbaen yn ei chwennych o fewn Sbaen'.<sup>1003</sup>

Wrth ystyried y geiriau uchod a'r safiad cenedlaetholgar eithafol a hyrwyddodd Arana yn y wasg Fasgaidd rhwng 1894 a 1896, gellir dychmygu y byddai'n mynd i'w fedd yn hawlio annibyniaeth lwyr i Wlad y Basg. Ond nid felly y bu pethau yn y pen draw. Wrth i 'Euskalerriacos' cymedrol Ramón de la Sota ymuno â'r EAJ-PNV yn 1898, ac o dan bwysau cynyddol yr Heddlu ac awdurdodau cyfreithiol llywodraeth Sbaen (gan gynnwys sawl cyfnod yn y carchar), dechreuodd Arana ostwng ei ddisgwyliadau o ran y maint o annibyniaeth wleidyddol y dylai Gwlad y Basg ei mwynhau. Mewn erthygl enwog o'r enw 'Grave y trascendental' ('Difrifol a throsynnol') o 1902, datganodd Arana y byddai'n ymatal rhag galw ar ei gefnogwyr i 'hyrwyddo cenedlaetholdeb', ac y byddai'n 'cydnabod a pharchu sofraniaeth Sbaen' a mynd ati i ffurfio plaid Fasgaidd newydd a fyddai'n 'Sbaenaidd' ar yr un pryd ac yn gweithio dros 'lawenydd y wlad hon o fewn y wladwriaeth Sbaenaidd'.<sup>1004</sup> Ni wyddys a oedd argyhoeddiadau Arana wedi newid o ddifrif nac yn barhaol achos bu farw flwyddyn yn ddiweddarach yn 1903.<sup>1005</sup> Ond amlwg yw bod rhaid i'r cenedlaetholwr mwyaf eithafol ein cyfnod, naill ai yng nghyd-destun Gwlad y Basg neu yng nghyd-destun Cymru, gyfaddawdu ei syniadau a chymedroli ei rethreg oherwydd yr amgylchiadau cymdeithasol a gwleidyddol a welai o'i gwmpas.

\* \* \*

Gwelwyd ym mhennod olaf yr astudiaeth hon sut mae datganiadau yn Haen 4 y paradeim disgrysiol yn adeiladu ar y seiliau rhethregol a rhesymegol a grëwyd yn y tair haen flaenorol. Yn wir, gwelwyd bod datganiadau yn Haen 4 yn dibynnu ar y datganiadau a ddaeth o'u blaen am eu cysondeb rhesymegol ac awdurdod cyd-destunol, fel y mae datganiadau ym mhob haen y paradeim disgrysiol. Hynny yw, mae'r galwadau am weithred annibynnol a welwyd yn y bennod hon yn rhesymegol ac yn ddarbwyllol achos sefydlwyd yn Haen 3 fod gan y

---

<sup>1003</sup> 'Pero aun este regionalismo en que se constituirían los estados euskerianos dentro de la nación de Euskeria, sería más autonómico que el que persiguen las regiones españolas dentro de España': Sabino Arana, *Bizkaitarra* 16 (1894). Dyfynnir yn Careaga (gol.), *Páginas de Sabino Arana*, t. 76.

<sup>1004</sup> 'Corre el rumor de que el señor Arana y Goiri, que proclamó el nacionalismo vasco y fundó el partido, viendo hoy que a éste no se le permite la vida legal [...], propónese desistir de continuar llamando a sus compatriotas al nacionalismo; recomendar a los que hasta el presente han acudido, reconozcan y acaten la soberanía española, y pedirles un último voto de confianza para redactar y exponerles el programa completo de un nuevo partido vasco que sea a la vez español, que aspire a la felicidad de este país dentro del estado español, que camine hacia ella sin quebrantar la legalidad presente': Sabino Arana, 'Grave y trascendental', *La Patria*, Año II/Número 35, 22 Mehefin 1902, t. 3.

<sup>1005</sup> Gw. Payne, *Basque Nationalism*, tt. 80-82.

genedl ddiffygion a bod cywiriadau ar gael. Gwyddom fod y diffygion a'r cywiriadau hyn yn wirioneddol achos sefydlwyd yn Haen 2 fod gennym gyfres o elynion allanol a mewnol sydd wedi ein hecsbloetio, ein hesgeuluso a'n hamharu ers amser maith, ynghyd â chyfeillion newydd sy'n cadarnhau ein hamheuron ac yn rhannu eu syniadau ymlywodraethol â ni. Gwyddom fod gelynyon gennym achos sefydlwyd yn Haen 1 – gwaelod y ffos destunol – ein bod yn bodoli fel cenedl ragorol ar wahân wrth ochr cenedl 'arall', peryglus, bygythiol a chynllwyngar.

Gwelwyd yn y bennod hon, felly, y modd y mae llawer o awduron yn galw am undod rhwng gwladgarwyr ac am weithred ymarferol yn y gofod cyhoeddus, a bod rhai yn galw am sefydlu pleidiau gwleidyddol ar wahân a fyddai'n ymgyrchu dros yr achosion cenedlaethol a gyflwynwyd yn gynharach. Mae nifer llai o leisiau yn mynd ymlaen i ddadlau dros greu, neu adfer, sefydliadau cenedlaethol hunanlywodraethol a fydd yn gyfrifol am wireddu cenedl ddiwygiedig y dyfodol, ac mae nifer llai byth yn dadlau dros annibyniaeth lwyr neu am wladwriaeth ar wahân. Gwelwyd yn y bennod hon, felly, gyfres o alwadau cenedlaetholgar sy'n rhoi pen rhesymegol i gyfres o ddatganiadau cenedlaetholgar eraill a ddaeth o'u blaen.

Ond yn sefyll ymysg yr holl ddatganiadau cenedlaetholgar hyn, weithiau yn echblyg ac weithiau yn ymhlyg, gwelwyd galwadau am gydraddoldeb wrth fwrdd imperialaidd y gelyn mawr, neu gydnabyddiaeth gyfansoddiadol hir-ddisgwyliedig gan y *Predominant Partner*. Gwelwyd, felly, ddatganiadau sy'n cadarnhau lle parhaol ein cenedloedd o fewn cyfundrefn drefedigaethol pwerau mawrion y gorllewin. Gwelwyd yn y bennod olaf hon, felly – fel y gwelwyd ar draws y paradeim disgyrsiol ehangach – ddatganiadau 'trefedigaethol' sy'n tanseilio'r datganiadau 'cenedlaetholgar' ac yn troi ein 'disgyrsiau cenedlaethol' yn 'ddisgyrsiau cenedlaethol-drefedigaethol'. Er bod gan y ddau ddisgwrs fframwaith a mecanwaith 'cenedlaethol', mae enghreifftiau unigol o amheuaeth, ansicrwydd ac anghysondeb yr israddolyn yn eu cyfaddawdu a'u gwanhau yn y pen draw. Nid galwadau am wladwriaethau ethnig annibynnol Cymreig a Basgaidd a welwyd yn y bennod olaf hon ar y cyfan, ond galwadau am fesurau cymedrol o hunanreolaeth o fewn teuluoedd imperialaidd mwy.



## Diweddglo

Welsh Radicalism as now taught and practised by our Welsh Radical members is doomed. The spirit of the age and that feeling of broader patriotism which welds the people of this country into one nation condemn the “Cymru Fydd” fad, with its narrow notions of nationality. It is all very well for Welsh Radicals to insist upon Wales being a nation, but it is time they learnt wisdom and knew their place as a very small section of the British people [...] Before any of the wild measures which Welsh Radicals hold out to their supporters are passed, England will have the last word to say. “Young Wales” may fret and fume, but it is well for them to realise the truth in time. England has a population and an electorate larger than the whole of the “Celtic fringe” in Scotland, Ireland, and Wales added together, and, therefore, it is only right that before any change takes place in the Constitution of this country the assent of England should be obtained, for she has ample means to coerce the three so-called nationalities: [dienw], ‘Exit Major Jones’, *The Western Mail*, 6 Awst 1895, t. 4.

\* \* \*

Yn ei gyfrol ar hanes modern Cymru, *Rebirth of a Nation*, rhydd Kenneth O. Morgan y teitl ‘The National Revival’ i’r bennod sy’n ymdrin â thwf y mudiad cenedlaethol Cymreig rhwng 1880 a 1900; yn rhagargoeli amserau tywyllach i ddod, efallai, rhodd y teitl ‘Edwardian High Noon’ i’r bennod sy’n adrodd digwyddiadau yn y cyfnod 1900-1914.<sup>1006</sup> ‘National Awakening’ yw’r teitl a rodd Gwynfor Evans i’w bennod ar chwarter olaf y 19g yn *Land of my Fathers* hefyd; ‘The Collapse’ yw teitl y bennod a’i dilyn.<sup>1007</sup> Ac yn nheitlau penodau’r ddwy gyfrol hyn, gwelir crynodeb huawdl o naratif traddodiadol hanes cenedlaetholdeb Cymreig yn y 19g ac 20g gynnar: ganed a blodeuodd yn y 1880au a 1890au ac aeth i’w aeafgwsg yn 1900 cyn deffro yn betrus yn 1925 wrth i Blaid Cymru gael ei sefydlu.<sup>1008</sup>

Mae’r rhesymau a gynigir gan haneswyr am fethiant y mudiad cenedlaethol ar ôl 1900 yn niferus. Ceir dylanwad a grym diddordebau Seisnig yn ardaloedd diwydiannol y de, marwolaeth Thomas E. Ellis yn ieuanc, uchelgais personol David Lloyd George, gwrthddywediadau ideolegol wrth wraidd rhyddfrydiaeth Gymreig, twf gwleidyddiaeth

---

<sup>1006</sup> Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales* (Oxford: Oxford University Press, 1981): ‘The National Revival’ (tt. 90-122); ‘Edwardian High Noon’ (tt. 123-155).

<sup>1007</sup> Evans, *Land of my Fathers*: ‘Michael D. Jones and the National Awakening’ (tt. 399-415); ‘The Collapse’ (tt. 416-443).

<sup>1008</sup> Gw. Richard Wyn Jones, *Rhoi Cymru’n Gyntaf*, am drafodaeth ar ddylanwad cenedlaetholdeb Cymreig cynnar ar syniadaeth Plaid Cymru o 1925 ymlaen. Gw. hefyd, Bennod 2, ‘Plaid Cymru’s Intellectual Heritage: The Ideas that Shaped the Party’, yn Laura McAllister, *Plaid Cymru: The Emergence of a Political Party* (Bridgend: Seren, 2001), tt. 37-60.

ddosbarth a'r mudiad llafur, atyniad emosiynol at jingoistiaeth imperialaidd a militariaeth Prydain Fawr cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, a hyd yn oed bodlondeb syml gan nifer helaeth o Gymry â'u statws traddodiadol fel deiliaid Coron Lloegr a'u statws 'newydd' fel cyd-aelodau'r ymerodraeth fwyaf llwyddiannus y byd.<sup>1009</sup> 'Methiant moesol mewnol' ymysg y Cymry oedd y rheswm a rodd Gwynfor Evans, 'methiant mewn syniadaeth' meddai Simon Brooks, a 'diffyg sefydliadau gwleidyddol' meddai Ifan Morgan Jones.<sup>1010</sup>

Ni fyddem yn anghytuno ag unrhyw un o'r esboniadau penodol uchod. I ryw raddau neu'i gilydd, buont i gyd yn cyfrannu at fethiant cenedlaetholdeb Cymreig i sefydlu ei hun yn gadarn yn y 1880au a'r 1890au, a thyfu a lledaenu ymysg y boblogaeth ehangach yn y 1900au. Wedi dweud hynny, pe bai rhaid inni ddewis un neu ddwy ffactor greiddiol a ataliai dwf cenedlaetholdeb Cymreig fwyaf yn yr oes Fictoriaidd, fe gytunem â barn Ifan Morgan Jones fod diffyg sefydliadau cenedlaethol hanesyddol yng Nghymru yn hollbwysig, ac fe fynegem gydymdeimlad cyffredinol â dadl Brooks ynghylch effaith wrthgynhyrchiol rhyddfrydiaeth Gymreig a chyflwr ôl-drefedigaethol nifer mawr o Gymry'r cyfnod. Dileu hynodweddu ac amrywiaethau lleol, 'camamserol', yn enw cynnydd economaidd a chymdeithasol, ac nid eu hamddiffyn, oedd athroniaeth sylfaenol rhyddfrydiaeth glasurol y 19g yn y pen draw, ac roedd y syniad o berthyn i deulu mawr, a theulu 'mawreddog' erbyn y 1890au, gyda 'phrif bartner' wrth y llyw, yn gysurus iawn i bobl a gollasant bob hyder i'w rheoli eu hunain ganrifoedd maith yn gynt. Ar ben hynny, pe bai rhaid inni bennu'r prif ffactorau a ataliai dwf y mudiad cenedlaethol Basgaid ar ôl 1900, byddem yn amlygu natur ymrannol cenedlaetholdeb hiliol yr *Aranistas* yng ngolwg cymdeithas drefol Gwlad y Basg, twf gwleidyddiaeth sosialaidd ac anarchaidd ymysg y dosbarth gweithiol a dosbarth deallusol, ac adwaith ffyrnig gan y dde yn Sbaen yn erbyn unrhyw fygythiad i 'España: Una, Grande y Libre' (un Sbaen, fawr a rhydd).<sup>1011</sup>

Ond nid ceisio amddiffyn na hyrwyddo dehongliad penodol o hanes cenedlaetholdeb Cymreig a chenedlaetholdeb Basgaid rhwng 1876 a 1918 oedd prif nod yr astudiaeth hon. Yn hytrach, canolbwyntiwyd ar sut mae'r amrywiaeth hon o densiynau rhesymegol ac

---

<sup>1009</sup> Gw. Morgan, *Rebirth of a Nation*, tt. 119-121.

<sup>1010</sup> 'The answer lies inside Wales itself; an internal moral failure': Evans, *Land of my Fathers*, t. 416. 'Methiant mewn syniadaeth oedd methiant cenedlaetholdeb Cymraeg': Brooks, *Pam na fu Cymru*, t. 25. 'Diffyg sefydliadau gwleidyddol yng Nghymru, megis senedd-dai a phrifysgolion, a allai fod wedi atgynhyrchu cenedlaetholdeb Cymreig ar draul yr un Prydeinig': Jones, 'Ymrestru o dan y Faner', t. 8.

<sup>1011</sup> Arwyddair llywodraethiad Ffasgaidd Francisco Franco rhwng 1939 a 1975 oedd 'España: Una, Grande y Libre'.

emosiynol yn dod i'r golwg yn nisgyrsiau cenedlaethol y ddwy wlad, disgyrsiau yr ydym wedi eu categoreiddio yn ddisgyrsiau is-genedlaethol, neu ddisgyrsiau 'cenedlaethol-drefedigaethol'. Gwelwyd yn Haen 1, er enghraifft, sut mae'r ddau ddisgwrs yn sefydlu cenedloedd ar wahân ar draws sbectwm o ystyriaethau ethnograffig, cyn mynd ymlaen yn aml i danseilio'r ddeuliaeth hon gan gefnogi categorïau ethnig 'uwch', sef Prydeindod a *Hispanidad*. Gwelwyd yn Haen 2 y tensiynau sy'n bodoli rhwng naratifau o elyniaeth a naratifau o frawdoliaeth a'r berthynas ansicr ac anghyson a geir â'r prif bartner a'i deulu estynedig, sef pobloedd eraill ei ymerodraeth dramor. Gwelwyd yn Haen 3 sut mae'r disgyrsiau'n cyflwyno cyfres o gwynion ynghylch cyflwr presennol y genedl (y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hachosi dan law'r gelyn mawr, wrth gwrs) cyn mynd ymlaen i ragnodi cywiriadau sy'n adlewyrchu chwaethau, rhagfarnau, tueddfryd a blaenoriaethau diwylliannol Seisnig a Sbaenaidd. A gwelwyd yn Haen 4 sut mae'r disgyrsiau yn galw am undod, gweithred a rhyddid gwleidyddol er mwyn gwireddu'r rhaglen wleidyddol a gyflwynwyd yn Haen 3, cyn datgan yn blwmp ac yn blaen mai ym mherfedd teulu imperialaidd y prif bartner y ceir dyfodol disglair y famwlad. Mae'r disgyrsiau hyn yn cynnwys datganiadau cenedlaetholgar selog ac uchelgeisiol o bryd i'w gilydd, ond maent hefyd yn syrthio wrth y ffens olaf lawer gwaith.

Boed hynny fel y bo, ni fwriadwyd 'profi' dim gan yr archaeoleg ddisgyrsiol hon. Yn hytrach, roeddem yn awyddus i ddatguddio ac arddangos yn gyfochrog arteffactau dwy ffos destunol wahanol, ceisio eu cymharu a, hwyrach, cynnig rhai sylwadau ar y patrymau cyffredin a'r gwahaniaethau amlwg a ddarganfyddid. Gwelwyd, at hynny, fod y ddau ddisgwrs yn sefydlu'r ddwy genedl ar wahân mewn ffordd ieithyddol, esboniadol a deongliadol debyg, er bod ystyriaethau hiliol a chyfansoddiadol yn bwysicach o lawer yn y disgwrs Basgaidd. Gwelwyd cyflwyniad tebyg o gyfres o elynion a chyfeillion allanol a mewnlol, a gwelwyd yr un drwgdybio'r gelyn mawr haniaethol, sef moderniaeth, er bod y berthynas hon yn llawer mwy cymhleth yn achos Cymru, yn enwedig yn ei pherthynas â phrif ideoleg yr oes fodern, rhyddfrydiaeth. At hynny, mae nifer helaeth o'r diffygion cenedlaethol a chywiriadau a gynigir gan ein hawduron i greu eu dyfodol iwtopaidd yn debyg iawn, fel y mae absenoldeb pryderon economaidd ar y cyfan. Yn ddiddorol iawn, gwelwyd hefyd fod cenedlaetholwyr Cymreig a Basgaidd fel ei gilydd yn awyddus i ymbellhau rhag 'anfoesoldeb' y bobl drws nesaf a chreu cymdeithas fwy duwiol, a hynny trwy ddatgysylltu'r eglwys esgobol yn achos y Cymry ac ymgysylltu yn llawer nes ati hi yn achos y Basgiaid. Yn yr un modd, gwelwyd galwadau tebyg am undod, am weithredu ac am greu pleidiau

cenedlaethol a fyddai'n brwydro dros fesurau o hunanlywodraeth, er bod galwadau am annibyniaeth lwyr yn llawer cryfach yn nisgwrs Sabino Arana a'r EAJ-PNV nag yn nisgwrs unrhyw genedlaetholwr Cymreig 'eithafol' megis Emrys ap Iwan neu Michael D. Jones. Yn bwysig iawn, sut bynnag, gwelwyd anghysondebau, gwrthddywediadau ac anghytundeb yn llifo trwy'r ddau ddisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol, er na chanfuwyd y ffawtliniau disgyrsiol hyn yn yr un sector o'r paradeim disgyrsiol, nac â'r un radd o ddwyyster, ar bob achlysur. Rhanna'r ddau ddisgwrs fframwaith strwythurol cyffredinol a nifer o'r themâu pwysicaf, efallai, ond maent yn wahanol o ran manylion eu cynnwys, eu pwyslais a goslef.

Trwy gymharu datganiadau cenedlaetholgar yn y wasg Gymreig a'r wasg Fasgaid yn y 1890au rydym yn gobeithio ein bod wedi amlygu dau beth o ddiddordeb i haneswyr y ddwy wlad a'r rhai sy'n ymddiddori yn theori lenyddol ac athroniaeth iaith yn gyffredinol. Yn gyntaf, mae iaith cenedlaetholdeb yn gweithio mewn paradeim disgyrsiol cyd-ddibynnol. Er y gellid rhoi ffurf gysyniadol ar y paradeim hwn mewn sawl ffordd, rydym wedi'i drefnu yn bedair haen gan ddadlau bod yr haenau hyn yn cynrychioli camau adeiladol yn rhesymeg a strategaeth rethregol y ddau ddisgwrs, o'u datganiadau hiliol ac ethnolegol yng 'ngwaelod y ffos' hyd at ddatganiadau gwleidyddol ac economaidd yn 'nes at yr wyneb'. Dadleuasom hefyd fod yr haenau a pharadeim cyfan yn gweithio fel cyfundrefn unedig, a bod datganiadau ar wyneb y disgwrs megis 'hunanlywodraeth i Gymru!' yn dibynnu ar ddatganiadau sylfaenol megis 'ni'r Cymry' ar waelod y ffos am eu grym semantig ac awdurdod rhethregol.

Yn ail, dadleuasom nad yw'r paradeim hwn yn gadarn ac yn gyson o ran argyhoeddiad ei ddadleuon cenedlaetholgar, fod lleisiau amrywiol eu barn yn mabwysiadu ac wedyn yn gwrthddweud rhai o'i ddaliadau pwysicaf, a'i fod yn aml iawn yn methu cyrraedd casgliadau cenedlaetholgar rhesymegol. Dadleuasom, felly, mai ynghyd â dylanwad disgyrsiau 'cenedlaethol-wrthimperialaidd' gwledydd bychain eraill y 19g, megis Iwerddon, Catalwnia, Hwngari, a'r Eidal, dylanwadwyd yn gryf ar ddisgyrsiau cenedlaethol Cymreig a Basgaid gan brofiadau trefedigaethol hanesyddol y ddwy wlad a chan ddisgyrsiau 'cenedlaethol-imperialaidd' Prydain a Sbaen yn y 19g hwyr. Dadleuasom, felly, mai disgyrsiau 'cenedlaethol-drefedigaethol' a welir yn newyddiaduraeth genedlaetholgar y 1890au yng Nghymru a Gwlad y Basg yn y pen draw.

Ni fwriedir cynnig unrhyw ddadl bellach yn yr astudiaeth hon, ar wahân i awgrymu, efallai, fod olion y ddau ddisgwrs cenedlaethol-drefedigaethol hyn yn parhau yn natganiadau

enedlaetholgar y Cymry a'r Basgiaid trwy'r 20g gyfan ac efallai hyd at ein dyddiau ni. Gwir, er enghraifft, fod cyfrolau hagiograffaid ar fywyd a gwaith rhai o'r awduron a gwleidyddion amlycaf y cyfnod yn dylanwadu yn gryf ar genedlaethau o genedlaetholwyr i ddod, cyfrolau megis cofiant Emrys ap Iwan gan T. Gwynn Jones o 1912, cofiant Thomas E. Ellis gan Owain Llewelyn o 1915, detholiad o ddyfyniadau Sabino Arana gan Manuel de Egilsot o 1932, a hanes cenedlaetholdeb Basgaidd cynnar gan Engracio de Arantzadi y Etxeberria o 1935.<sup>1012</sup> Gwir hefyd, sut bynnag, y byddai cyfrolau pwysig eraill, mwy Prydeinig ac imperialaidd eu naws a'u rethreg, yn cynnal elfennau trefedigaethol y disgwrs Cymreig am ddegawdau i ddod, cyfrolau, er enghraifft, megis *Welsh Political and Educational Leaders in the Victorian Era* gan J. Vyrnwy Morgan o 1908.<sup>1013</sup>

Cafodd llawer o haenau ieithyddol a chydysniadol newydd eu doddi ar ben disgwrsiau cenedlaethol-drefedigaethol Cymreig a Basgaidd y 1890au erbyn hyn bid sicr, ond pe baem yn cloddio'n ddigon dwfn i mewn i ddisgwrs cenedlaethol yr 21g, faint o'r arteffactau a drafodwyd uchod a ganfyddid o hyd? Beth bynnag am yr ateb 'gwyddonol', rhown y gair olaf i ddedholiad bach o ysgrifenydd yr 20g a'r ganrif hon, wrth annog i'r darllenydd ddwyn i gof y datganiadau, delweddau, trosiadau a motiffau a gyflwynwyd ar hyd yr astudiaeth hon. Gadawer i'r darllenydd ei hun wneud y darn olaf hwn o waith archaeoleg y traethawd.

I have been a Nationalist all my life. I cannot remember the time when I did not harbour a fiery desire to fight the ancient enemies of my race and to see restored the independence of my country. [T. Gwynn Jones, 1916]<sup>1014</sup>

The great argument for Welsh Home Rule is that Wales is a nation with a language and traditions different from those of England, and that past history has proved that, under the centralized system of English Government, Welsh national character will not have full (or fair) development [...] We are told that the Poles, the Czechs and the Magyars are ancient nations. But not one of them is as old as the Welsh. By the side of the Welsh, the French and the Scotch [*sic*] are modern nations. Cymru had all the

---

<sup>1012</sup> T. Gwynn Jones, *Emrys ap Iwan: Dysgawdr, Llenor, Cenedlgarwr – Cofiant* (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwr Cymreig, 1912); Owain Llewelyn (O. Llew Owain), *Tom Ellis: Gwladgarwr a Gwleidydd* (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwr Cymreig, 1915); Manuel de Egilsot, *De su alma y de su pluma (colección de pensamientos, seleccionados en los escritos del maestro del nacionalismo vasco)* (Bilbao: Talleres Gráficos E. Verdes Achirica, 1932); Engracio de Arantzadi y Etxeberria ("Kizkitza"), *Ereintza: Siembra de nacionalismo vasco 1894-1912* (Zarautz: Editorial Vasca, 1935).

<sup>1013</sup> J. Vyrnwy Morgan (ed.), *Welsh Political and Educational Leaders in the Victorian Era* (London: James Nisbet & Co., 1908).

<sup>1014</sup> T. Gwynn Jones, 'Nationality and Patriotism', *The Welsh Outlook*, Vol. III, Ebrill 1916, 111. Tanlinellwyd geiriau o ddiddordeb gan yr awdur presennol, ac yn y dyfyniadau sy'n dilyn.



essentials of a political nation except a united government, before England in any sense existed. [J. Arthur Price, 1921]<sup>1015</sup>

Er mwyn Duw yn unig rhodd Arana-Goiri waedd dros ryddid. Er mwyn Duw yn unig yr ydym ni ei ddisgyblion yn amddiffyn ein cednligrwydd a'n rhyddid cenedlaethol. O leiaf, er mwyn Duw yn unig yr ydym am garu Euskadi a'i hapusrwydd [ac] er mwyn i'r Basgiaid gael yn y wlad adnewyddedig yr adnoddau digonol i gyrraedd eu hamcan terfynol [...] Ar gyfer y delfryd hwnnw rydym wedi ymdrafferthu i blannu'r hadau hyn ac er i'n plant gasglu, yn llawen, ffrwythau bywyd a rhyddid Cristnogol. [Engracio de Arantzadi y Etxeberria, 1935]<sup>1016</sup>

Yn wyneb y sefyllfa hon, mae EH Bildu yn credu ei bod yn hanfodol bod pob unigolyn a phob asiantaeth sy'n dymuno amddiffyn hawliau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd dinasyddion Gwlad y Basg yn ymfyddino ac yn gweithredu o fewn sefydliadau'r wlad. Ac yn eu tro, dylent chwilio am synergeddau a ffyrdd i gydweithio gyda'i gilydd fel y gall yr amddiffyniad hwn fod yn fwy effeithiol. Mae EH Bildu yn pwysleisio ei bod hi'n bryd i weithredu fel pobl. [Dienw, erthygl ar wefan y blaid wleidyddol genedlaetholgar EH Bildu, Chwefror 2019]<sup>1017</sup>

We're used to Westminster ignoring Wales. But there are plenty of times when Westminster seems to go out of its way to deliberately do a number on Wales, too [...] Wales' rail infrastructure has long been neglected [...] Which raises the question: What is the Secretary for State for Wales actually doing around the Cabinet table? [...] "Wales is becoming the Botany Bay of the 21st Century. England shoving its urban poor onto the hulks and shipping them off to Wales [...] It's just using cheap land and cheap labour. It's not really investing in Wales, it's exploiting Wales" [...] Once again, what is best for Wales was set aside when it was found to negatively impact constituencies in England [...] However, the UK Government chose to completely ignore Wales' voice and push for as damaging a Brexit as possible for the country [...] Westminster is also in the process of imposing an EU Withdrawal Bill on Wales that will strip them of powers in areas already devolved [...] Given how Westminster keeps shafting Wales, are we really happy to see those powers back in their hands? [Dienw, erthygl ar *nation.cymru*, Rhagfyr 2017]<sup>1018</sup>

---

<sup>1015</sup> J. Arthur Price, 'The Historical Case for Welsh Home Rule', *The Welsh Outlook*, Vol. VIII, Rhagfyr 1921, 272.

<sup>1016</sup> 'Sólo por Dios, dio Arana Goiri, el grito de libertad. Sólo por Dios, defendemos sus discípulos la nacionalidad y la libertad patria. Al menos, sólo por Dios queremos querer a Euskadi y su felicidad [y] para que los vascos den en la patria renovada con los medios adecuados para alcanzar su último fin [...] Por ese ideal hemos realizado una siembra dolorosa por la que recogerán nuestros hijos, gozosamente, frutos de vida y libertad cristianas': Arantzadi y Etxeberria, *Ereintza*, tt. 323-324.

<sup>1017</sup> 'Ante esta situación, EH Bildu cree imprescindible la movilización y el trabajo en las instituciones de todas las personas y agentes de este país que defienden los derechos políticos, sociales y económicos que nos corresponden como pueblo y como ciudadanos y ciudadanas vascas. Y a su vez, buscar sinergias y el trabajo en común, para que esa defensa y reivindicación sean más efectivas. EH Bildu subraya que es momento de actuar como pueblo': [dienw], 'EH Bildu saldrá el domingo a las calles de Donostia en defensa de la democracia y la libertad', adran 'Noticias' (newyddion) ar wefan EH Bildu (plaid genedlaetholgar adain chwith Gwlad y Basg), 15 Chwefror 2019, <https://ehbildu.eus/es/noticias/13406-eh-bildu-saldrá-el-domingo-a-las-calles-de-donostia-en-defensa-de-la-democracia-y-la-libertad> [cyrchwyd: 25 Chwefror 2019].

<sup>1018</sup> [Dienw], 'Top 5 ways Westminster shafted Wales in 2017', *nation.cymru*, 18 Rhagfyr 2017, <https://nation.cymru/2017/top-5-ways-westminster-shafted-wales-in-2017> [cyrchwyd: 10 Mehefin 2018].

# Llyfryddiaeth

## 1. Ffynonellau cynradd

Ceir nifer cynyddol o fersiynau digidol o newyddiaduron a chylchgronau hanesyddol ar-lein erbyn hyn. Codwyd nifer o'r erthyglau y'u dadansoddir yn yr astudiaeth hon o'r gwefannau isod. Fel arall, ymgynghorwyd ag archifau copi caled y wasg ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Gwlad y Basg (Universidad del País Vasco - Euskal Herriko Unibertsitatea), Leioa.

*Cylchgronau Cymru Ar-lein* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru):

<https://cylchgronau.llyfrgell.cymru/home>

*Papurau Newydd Cymru Ar-lein* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru):

<https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru>

*The British Newspaper Archive* (The British Library):

<https://www.britishnewspaperarchive.co.uk>

*Hemeroteca Digital Donostia* (Llyfrgell Dinas Donostia):

<http://liburutegidigitala.donostiakultura.com>

*Hemeroteca Digital Gipuzkoa* (Llyfrgell Talaith Gipuzkoa): <https://w390w.gipuzkoa.net>

*Hemeroteca Digital Biscaia* (Llyfrgell Talaith Biscaia): <http://www.bizkaia.eus/kultura/foru>

*Hemeroteca Digital Biblioteca Nacional de España* (Llyfrgell Genedlaethol Sbaen):

<http://hemerotecadigital.bne.es/index.vm>

### a. Erthyglau yn y wasg Gymreig

[Dienw], 'A Russian Threat', *The Cardiff Times*, 9 Ebrill 1898, t. 5

[Dienw], 'Cenedlaetholdeb Cymru', *Y Cymro*, 24 Ionawr 1895, t. 5

[Dienw], 'Cenedlgarwch a Symmudiadau Gwladgarol', *Yr Haul*, Rhifyn 121/Cyf. XI, Ionawr 1895, tt. 14-15

[Dienw], 'Cymru i'r Cymry', *Y Cymro*, 29 Awst 1895, t. 3

[Dienw], 'Cymry Anwaraidd', *Y Drych-Columbia*, 10 Hydref 1895, t. 5

[Dienw], 'Cymry fel Dinaswyr', *Y Cymro*, 11 Ebrill 1895, t. 4

[Dienw], 'Cymry yn Ysgrifenu Saesneg', *Tarian y Gweithiwr*, 2 Gorffennaf 1896, t. 2

[Dienw], 'Dyledswyddau y Cymry', *Y Cymro*, 4 Gorffennaf 1895, t. 4

[Dienw], 'Exit Major Jones', *The Western Mail*, 6 Awst 1895, t. 4

[Dienw], 'Gwyl y Cymry', *Y Cymro*, 5 Mawrth 1896, t. 4

[Dienw], 'Important Agression by Germans: Attempt to Seize English Treasure', *The South Wales Daily Post*, 28 Tachwedd 1900, t. 3

[Dienw], 'Side by Side with the Russian Bear', *The Carmarthen Journal and South Wales Weekly Advertiser*, 12 Mai 1893, t. 8

[Dienw], 'Y Bwgan Rwsiaidd eto', *Y Drych*, 26 Awst 1886, t. 4

[Dienw], 'Y Cwestiwn Cymreig', *Y Tyst a'r Dydd*, 1 Tachwedd 1889, t. 9

[Dienw], 'Y Cwestiwn Llosgedig Cymru', *Seren Cymru*, 14 Gorffennaf 1893, t. 9

[Dienw], 'Y Cymeriad Celtaidd', *Y Cymro*, 12 Rhagfyr 1895, t. 7

[Dienw], 'Yr Elfen Gymreig yn y Saeson', *Y Werin*, 21 Tachwedd 1896, t. 3

'Cefni', 'Cymry y Cynoesoedd', *Y Geninen*, Cyf. XIII / Rhif 1, Ionawr 1895, tt. 75-77

'Dau Gyfaill', 'Beth sydd Genedlaethol?', *Y Geninen*, Cyf. XIII / Rhif 1, Ionawr 1895, tt. 16-22

'Idriswyn', 'Beth y Wnawn?', *The Weekly Mail*, 19 Hydref 1895, t. 6

‘Ysbryd Llewelyn’, ‘Gwaseidd-dra y Cymry (II)’, *Y Geninen*, Cyf.XIII / Rhif 4, Hydref 1895, tt. 275-277

Baden-Powell, George, ‘Welshmen and the British Empire’, *Transactions of the Liverpool Welsh National Society*, 8th session (1892-93), 98-108

Bonsall, Henry, ‘The Need of National Unity’, *Young Wales*, Vol. I/No. 7, Gorffennaf 1895, tt. 153-155

Darlington, Thomas, ‘Erthyglau Gwrth-Seisnig yn y Wasg Gymreig’, *Y Geninen*, Cyf. XIV/Rhif 1, Ionawr 1896, tt. 36-40

Darlington, Thomas, ‘The Cymric Element in the English People (i)’, *Young Wales*, Vol. II/No. 22, Hydref 1896, tt. 234-239

Davies, David, ‘The Journalism of Wales during the Victorian Era’, *Young Wales*, Vol. III/No. 31-32, Awst 1897, tt. 184-188

Davies, J. H., ‘Wales and the English’, *Young Wales*, Vol. I/No. 7, Gorffennaf 1895, tt. 159-161

Davies, John, ‘Llenyddiaeth Newyddiadurool Cymru’, *Y Traethodydd*, Llyfr XXXIX, 1884 (Ebrill), tt. 172-192

Derfel, R. J., ‘Pethau a wnawn pe bai gennyf arian’ (1864). Ailgyhoeddwyd yn D. Gwenallt Jones (gol.), *Detholiad o Ryddiath Gymraeg R. J. Derfel: Cyfrol I* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1945), tt. 112-118

Edwards, Owen M., ‘Enaid Cenedl’, *Cymru*, Cyf. LIV/Rhif 318 (1918), tt. 11-12. Ailgyhoeddwyd yn Thomas Jones (gol.), *Yn y Wlad ac Ysgrifau Eraill gan Syr O. M. Edwards* (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1958), tt. 187-189

Edwards, Owen M., ‘Hanes Cymru’, *Cymru*, Cyf. I/Rhif 3, 15 Hydref 1891, tt. 97-100

Everitt, A. W. B., ‘The Early Inhabitants of Britain I.’, *Young Wales*, Vol. II/No. 17, Mai 1896, tt. 97-99

Everitt, A. W. B., ‘The Early Inhabitants of Britain II.’, *Young Wales*, Vol. II/No. 20, Awst 1896, tt. 185-188

Green, T. Mortimer, 'Nationalism – Its Limitations', *Young Wales*, Vol. I/No. 11, Tachwedd 1895, tt. 260-263

Griffith, John L., 'Dyfodiad y Cymry i Brydain', *Y Drych-Columbia*, 7 Mawrth 1895, t. 2

Griffith, R. A., 'Welsh Nationalism', *Young Wales*, Vol. I/No. 2, Chwefror 1895, tt. 35-36

Hughes, John, 'Philistiaeth', *Y Geninen*, Ionawr 1895, tt. 55-57

Hughes, T. J. (yn ysgrifennu o dan y ffugenw 'Adfyfr'), 'Neglected Wales: Education', *The Daily News*, 17 Tachwedd 1886, t. 5

Hughes, T. J. (yn ysgrifennu o dan y ffugenw 'Adfyfr'), 'Neglected Wales: The Land Question', *The Daily News*, 13 Hydref 1886, t. 5

Hughes, T. J. (yn ysgrifennu o dan y ffugenw 'Adfyfr'), 'Neglected Wales: The Magistracy', *The Daily News*, 27 Ionawr 1887, tt. 5-6

Hughes, T. J. (yn ysgrifennu o dan y ffugenw 'Adfyfr'), 'Neglected Wales: The State Church', *The Daily News*, 28 Hydref 1886, t. 5

Jones, D. Brynmor, 'The Welsh Land Question', *Young Wales*, Vol. II/No. 24, Rhagfyr 1896, tt. 277-282

Jones, Evan (Ieuan Gwynedd), 'Saisaddoliaeth', *Y Gymraes*, Mawrth 1850. Dyfynnir yn Brinley Rees (gol.), *Ieuan Gwynedd: Detholiad o'i Ryddiath* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1957), tt. 75-76

Jones, Evan, 'Amddiffyniad Eglwys Loegr', *Y Traethodydd*, Llyfr XLII, Tachwedd 1887, tt. 479-485

Jones, Michael D., 'Dic Siôn Dafydd a Chamaddysg', *Y Geninen*, Cyf. XIV/Rhif 4, Hydref 1896, tt. 249-251

Jones, Michael D., 'Mrs Davey, Sunny Cottage, Near Carmarthen', *Y Geninen*, Cyf. X /Rhif 1, Ionawr 1892, tt. 13-14

Jones, Michael D., 'Nwyddau Gwisg y Cymry', *Y Celt*, 2 Mawrth 1888, t. 10

Jones, Michael D., 'Plaid Genedlaethol Gymreig', *Y Celt*, 26 Rhagfyr 1884, t. 6

Jones, Michael D., 'Plaid Gymreig', *Y Celt*, 21 Medi 1888, t. 7

Jones, Michael D., 'Y Weinyddiaeth a Phleidlais Cerydd', *Y Celt*, 6 Gorffennaf 1888, tt. 6-7

Jones, Michael D., 'Ymreolaeth', *Y Celt*, 7 Mawrth 1890, tt. 1-2

Jones, Rev. Idrisyn, 'The Moral Importance of Retaining our Welsh Language', *Young Wales*, Vol. I/No. 20, Awst 1896, tt. 181-185

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Anffyddwyr yn Pregethu Cyfiawnder', *Baner ac Amserau Cymru*, 18 Chwefror 1885, t. 13

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'At y Cymry o'r Cymry', *Y Geninen*, Ebrill 1892, tt. 52-54

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys' (5 rhan), *Y Geninen*, Gorffennaf 1890; Ebrill a Gorffennaf 1891; Ionawr ac Ebrill 1892. Ailgyhoeddwyd yn Dafydd Glyn Jones (gol.), *Emrys ap Iwan: Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys* (Bangor: Dalen Newydd, 2011)

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Dyscu Cymraeg yn yr Ysgolion Beunyddiol', *Y Geninen*, Cyf. XXI/Rhif 4, Hydref 1903, tt. 217-222

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Dysgu Cymraeg yn yr Ysgolion Beunyddiol (Papur a Ddarllenwyd yn Nghyfarfod Ysgolion Dosbarth Dinbych)', *Baner ac Amserau Cymru*, 27 Chwefror 1895, tt. 3-4. Ailgyhoeddwyd darn o'r erthygl yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), t. 180

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Ein Gorthrymwyr a'n Cefnderoedd', *Baner ac Amserau Cymru*, 19 Hydref 1881, t. 13

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Paham y Gorfu'r Undebwyr', *Y Geninen*, Cyf. XIII/Rhif 4, Hydref 1895, tt. 252-257. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), tt. 23-41

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Pethau a Ddarnguddir', *Baner ac Amserau Cymru*, 30 Ebrill 1879, t. 13

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Prif Ddinas i Gymru', *Y Geninen*, Cyf. XIII/Rhif 2, Ebrill 1895, tt. 81-85. Seilir yr erthygl hon ar anerchiad gerbron Cymdeithas Lenyddol Parkfield, Penbedw

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Rhyfel y Rhyddfrydwyr', *Baner ac Amserau Cymru*, 16 Awst 1882, t. 13

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Sylwadau am y Rhyfel nad oedd yn Rhyfel', *Baner ac Amserau Cymru*, 11 Hydref 1882. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), tt. 82-89

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Y Clasuron Cymraeg', *Y Geninen*, Ionawr 1894. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. II. Llenyddol, Ieithyddol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1939), tt. 1-44

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Y Llo Arall', *Baner ac Amserau Cymru*, 11 Ebrill 1877. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), tt. 51-61

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan: yn ysgrifennu o dan y ffugenw 'Nationalist'), 'Bully, Taffy a Paddy', *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Ebrill 1880, t. 13. Ailgyhoeddwyd yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937), tt. 1-13

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan: yn ysgrifennu o dan y ffugenw 'Lucas Abernethy, M. D. Fellow of the Royal Kill or Cure Society. Member of the Anti Fuss and Toppery League. President of the N. W. Anti-Saxonization Club'), 'Y Dwymyn Seisnig yng Nghymru', *Baner ac Amserau Cymru*, 27 Rhagfyr 1876, t. 5

Jones, T. Gwynn, 'Nationality and Patriotism', *The Welsh Outlook*, Vol. III, Ebrill 1916, 111-114

- Parry, John, 'Helynt y Degwm', *Y Traethodydd*, Llyfr XLII, Ionawr 1887, tt. 45-53
- Parry, Tom, 'The Development of the Agricultural Resources of Wales', *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Session 1895-96 (London, 1897), tt. 23-54
- Price, J. Arthur, 'Is Welsh Home Rule Coming?', *The Welsh Outlook*, Vol. IV, Gorffennaf 1917, 247-250
- Price, J. Arthur, 'The Historical Case for Welsh Home Rule', *The Welsh Outlook*, Vol. VIII, Rhagfyr 1921, 272-274
- Rhys, John, 'Llythyr o San Sebastian at Gymdeithas D. Ab Gwilym', *Cymru*, Cyf. VI/Rhif 33, 15 Ebrill 1894, tt. 149-153
- Rhys, T., 'Ein Colegau Anghenedlaethol', *Y Celt*, 22 Mawrth 1895, t. 3
- Thomas, T. H., 'The Inclusion of Arms Representing Wales in the Royal Shield of the United Kingdom', *Young Wales*, Vol. III/No. 33, Medi 1897, tt. 193-197
- Williams, W. Llewelyn, 'The Claims of the Welsh Language', *Wales*, Vol. III/No. 30, Hydref 1896, tt. 455-460
- Williams, W. Llewelyn, 'The Welsh Land Commission', *Young Wales*, Vol. II/No. 21, Medi 1896, tt. 213-216

## **b. Erthyglau yn y wasg Fasgaidd**

- [Dienw], '¡Alerta vascongados!', *La Unión Vasco-Navarra*, 6 Medi 1893, t. 1
- [Dienw], '¡Viva España!', *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Gorffennaf 1896, tt. 223-224
- [Dienw], 'Arrate' (1/2), *Euskalduna*, Año I/ Número 1, 13 Medi 1896, tt. 4-5
- [Dienw], 'Casos sospechosos', *La Cantabria*, 22 Mai 1896, t. 1
- [Dienw], 'EH Bildu saldrá el domingo a las calles de Donostia en defensa de la democracia y la libertad', adran 'Noticias' (newyddion) ar wefan EH Bildu (plaid genedlaetholgar adain chwith Gwlad y Basg), 15 Chwefror 2019, <https://ehbildu.eus/es/noticias/13406-eh-bildu>



*saldra-el-domingo-a-las-calles-de-donostia-en-defensa-de-la-democracia-y-la-libertad*

[cyrchwyd: 25 Chwefror 2019]

[Dienw], ‘El labrador’, *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Gorffennaf 1896, tt. 202-203

[Dienw], ‘En síntesis’, *Euskalduna*, Año I/ Número 1, 13 Medi 1896, tt. 1-3

[Dienw], ‘Espíritus fuertes’, *El Cántabro*, 3 Ionawr 1895, t. 1

[Dienw], ‘Gladstone y la cuestión vascongada’, *La Unión Vasco-Navarra*, 27 Hydref 1893, t. 1

[Dienw], ‘Guernikako – Aritza / El Roble de Guernica’, *Euskalduna*, Año I/Número 1, 13 Medi 1896, t. 7

[Dienw], ‘Hechos y comentarios’, *Euskalduna*, Año I/Número 1, 13 Medi 1896, t. 5

[Dienw], ‘Idea plausible: exposición de los productos industriales y de minería de Bizcaya’, *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Ebrill 1896, t. 306

[Dienw], ‘Intereses agrícolas’, *Euskal-Erria*, Tomo XXXV, Gorffennaf 1896, tt. 134-135

[Dienw], ‘Irlanda (lo que debemos imitar)’, *La Unión Vasco-Navarra*, 11 Chwefror 1893, t. 1

[Dienw], ‘La cuestión vascongada’, *El Basco*, 7 Medi 1893. Dyfynnir yn Ander Delgado, ‘El fuerismo, el *Home Rule Bill* y la política británica: el contexto internacional en los inicios del movimiento nacionalista vasco (1890-1903)’, *Historia Contemporanea*, 25 (2002), 305

[Dienw], ‘La lengua Euskara’, *Euskalduna*, Año I/Número 1, 13 Medi 1896, tt. 3-4

[Dienw], ‘La máquina infernal’, *Euskalduna*, Año I/Número 2, 20 Medi 1896, tt. 10-11

[Dienw], ‘La opinión’, *Euskalduna*, Año I/Número 14, 13 Rhagfyr 1896, tt. 1-2

[Dienw], ‘La propaganda’, *Euskalduna*, 26 Mehefin 1898. Dyfynnir yn Ander Delgado, ‘El fuerismo, el *Home Rule Bill* y la política británica: el contexto internacional en los inicios del movimiento nacionalista vasco (1890-1903)’, *Historia Contemporanea*, 25 (2002), 297

[Dienw], ‘La Protesta de Guernica: 1896’ (1/2), *Euskalduna*, Año I/Número 2, 20 Medi 1896, tt. 11-12

[Dienw], 'La voz del patriotismo', *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Gorffennaf 1896, tt. 242-247

[Dienw], 'Lo que somos y lo que queremos', *Euskalduna*, Año I/Número 2, 20 Medi 1896, tt. 9-10

[Dienw], 'Origen del pueblo bascongado', *Euskal-Erria*, Gorffennaf 1896, tt. 26-27

[Dienw], 'Pequeñeces...', *El Fuerista*, 3 Ionawr 1895, tt. 1-2

[Dienw], 'Sirimiri', *Euskalduna*, Año I/Número 1, 13 Medi 1896, t. 7

[Dienw], 'Una pregunta', *Euskalduna*, Año I/Número 1, 13 Medi 1896, t. 6

'F. B.', '¿Dónde está el mal de la sociedad?', *El Fuerista*, 3 Ionawr 1895, t. 1

'Un Bizkaino', 'A mi patria, vendida por capitalistas y escritores' [cerdd], *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 4

Arana, Sabino [o dan y ffugenw 'A. ETA G. 'TAR S.'], 'Juicio crítico de la Historia General del Señorío de Bizcaya, escrita por D. E. J. de Labayru', *Bizkaitarra*, Año III/Número 27, 31 Mai 1895, tt. 1-2

Arana, Sabino [o dan y ffugenw 'Baia'], 'El catolicismo en el norte', *La Patria*, Año II/Número 39, 20 Gorffennaf 1902, t. 1

Arana, Sabino, '¡Caridad!', *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 2

Arana, Sabino, '¿Basco o Vasco?', *Revista de Vizcaya*, Gorffennaf 1886

Arana, Sabino, '¿Qué somos? (IV)', *Bizkaitarra*, Año III/Número 29, 30 Mehefin 1895, tt. 1-2

Arana, Sabino, '¿Vida nueva?', *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, tt. 1-2

Arana, Sabino, 'Areitz órbelak', *Bizkaitarra*, Año III/Número 28, 16 Mehefin 1895, t. 3

Arana, Sabino, 'Azkue y su obra', *Bizkaitarra*, Año III/Número 21, 17 Chwefror 1895, t. 1

Arana, Sabino, 'Comentarios cazados al vuelo', *Bizkaitarra*, Año III/Número 31, 28 Gorffennaf 1895, t. 3

Arana, Sabino, 'Corrupción', *Bizkaitarra*, Año III/Número 27, 31 Mai 1895, t. 1

Arana, Sabino, 'Educación moderna', *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, tt. 2-4

Arana, Sabino, 'El 25 de Octubre de 1839', *Bizkaitarra*, Año II/Número 16, 31 Hydref 1894, t. 1

Arana, Sabino, 'El Basco' [1], *Bizkaitarra*, Año III/Número 22, 24 Chwefror 1895, tt. 1-3

Arana, Sabino, 'El Basco' [2], *Bizkaitarra*, Año III/Número 24, 31 Mawrth 1895, t. 4

Arana, Sabino, 'El Basco' [3], *Bizkaitarra*, Año III/Número 31, 28 Gorffennaf 1895, t. 4

Arana, Sabino, 'El Diario de Bilbao', *Bizkaitarra*, Año III/Número 31, 28 Gorffennaf 1895, t. 4

Arana, Sabino, 'El Noticiero Bilbaino', *Bizkaitarra*, Año III/Número 22, 24 Chwefror 1895, t. 1

Arana, Sabino, 'El teatro como medio de propaganda', *Bizkaitarra*, Año III/Número 21, 17 Chwefror 1895, t. 1

Arana, Sabino, 'Errores catalanistas', *Bizkaitarra*, Año II/Número 16, 31 Hydref 1894, t. 3

Arana, Sabino, 'Grave y trascendental', *La Patria*, Año II/Número 35, 22 Mehefin 1902, t. 3

Arana, Sabino, 'La Cantabria', *Bizkaitarra*, Año III/Número 22, 24 Chwefror 1895, t. 3

Arana, Sabino, 'La ceguera de los Bizkainos', *Bizkaitarra*, Año II/Número 15, 30 Medi 1894, tt. 1-3

Arana, Sabino, 'La pureza de raza', *Bizkaitarra*, Año III/Número 24, 31 Mawrth 1895, tt. 1-2

Arana, Sabino, 'Los nacionalistas de Irlanda', *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 3

- Arana, Sabino, 'Los valientes', *Bizkaitarra*, Año III/Número 25, 24 Ebrill 1895, t. 3
- Arana, Sabino, 'Mi pensamiento', Mehefin 1902. Difynnir yn José Luis de la Granja Sainz, 'El antimaketismo: la visión de Sabino Arana sobre España y los Españoles', *Revista de Historia*, 19 (2006), 199
- Arana, Sabino, 'Minuta contra errores Carlistas', *Bizkaitarra*, Año II/Número 11, 29 Mehefin 1894, tt. 3-4
- Arana, Sabino, 'Revista de la prensa', *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 3
- Arana, Sabino, 'Revista de prensa', *Bizkaitarra*, Año III/Número 23, 24 Mawrth 1895, t. 3
- Arana, Sabino, 'Un buen patriota', *Bizkaitarra*, Año III/Número 19, 20 Ionawr 1895, t. 4
- Aranzadi, Telesforo de, 'Consideraciones acerca de la raza vasca', *Euskal-Erria*, Tomo XXXV, Rhagfyr 1896, tt. 33-37, 65-72, 97-103, 129-134
- Campión, Arturo, 'Okendoren eriotza', *Euskal-Erria: revista bascongada*, t. 9 (2º sem. 1883), tt. 517-525
- Castell, Angel María, 'Bersolaris... ingleses', *Euskal-Erria*, Tomo XXXV, Rhagfyr 1896, tt. 543-544
- Flor, Roger de, 'Bascongados prehistóricos', *Euskal-Erria*, Rhagfyr 1895, tt. 405-406
- Manso de Zúñiga, Victor C., 'Enfermedades de la viña', *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Ebrill 1896, tt. 307-309
- Munárriz, Pedro Lino, 'Los Bascos: etnografía/carácter', *Euskal-Erria*, Tomo XXXV, Rhagfyr 1896, tt. 147-149 a tt. 166-168
- Muntibar, Antón de, 'Chiriloras', *Euskalduna*, Año I/Número 2, 20 Medi 1896, t. 12
- Peracamps, Conde de, 'La piscicultura en Guipúzcoa: cría de peces y operaciones en 1895', *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Mehefin 1896, tt. 513-525

Soraluce, Pedro M. de, 'El marinero euskaldun', *Euskal-Erria*, Tomo XXXIII, Rhagfyr 1895, tt. 468-472, 504-507, 521-525, 568-575. Y yhan olaf yn *Euskal-Erria*, Tomo XXXIV, Gorffennaf 1896, tt. 18-22

Unamuno, Miguel de, 'Discurso en los Juegos Florales celebrados en Bilbao el día 26 de agosto de 1901', *El Noticiero Bilbaíno*, 27 Awst 1901. Ailgyhoeddwyd yn *Obras Completas: Tomo VI* (Madrid: Afrodísio Aguado, 1958), tt. 326-343

### **c. Ffynonellau cynradd eraill (iaith Gymraeg a Saesneg)**

[Dienw], *Hanes Louis Kossuth, Llywydd Hungari: yn cynnwys rhagdraith ar ei nodwedd fel dyn, gwladwr, areithiwr, &c., a hanes ei fywyd o'i febyd i'w ddymchweliad gan Awstria a Rwssia, ynghyd â diangfa ryfedd ei wraig a'i blant: hefyd, ei areithiau yn Southampton, Llundain, Winchester, etc., etc.* (Y Bala: E. Davies a G. Humphreys, 1852)

[Dienw], *Islwyn* (Wrecsam: Hughes a'i Fab – Llyfrau Urdd y Delyn, 1897)

[Dienw], *Islwyn: Pigion o'i Waith; Pigion Rhyddiaith, Atodiad Barddoniaeth* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1897)

Edwards, Owen M. (gol.), *Bywyd Ieuan Gwynedd, ganddo ef ei hun* (Caernarfon: Cyfres y Fil, 1900)

Edwards, Owen M. (gol.), *Gwaith Barddonol Islwyn* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1897)

Edwards, Owen M., *A Short History of Wales* (London: T. Fisher Unwin, 1906)

Edwards, Owen M., *Cartrefi Cymru* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1896)

Edwards, Owen M., *Hanes Cymru i Ysgolion, Cyfarfodydd Llenyddol, a Theuluoedd: Rhan I. Hyd Farwolaeth Gruffydd ab Llewelyn yn 1063* (1895). Gw. Ailargraffiad (Caernarfon : Swyddfa Cymru, 1901)

Edwards, Owen M., *O'r Bala i Geneva* (Y Bala: Davies ac Evans, 1889)

Edwards, Owen M., *Tro i'r De* (Caernarfon: Cwmni'r Cyhoeddwyr Cymreig, 1907). Gw. argraffiad diwygiedig yn, Thomas Jones (gol.), *Tro trwy'r Gogledd; Tro i'r De: Gweithiau Syr O. M. Edwards, Canmlwyddiant 1858-1958* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1958)

Edwards, Owen M., *Tro trwy'r Gogledd* (Caernarfon: Cwmni'r Cyhoeddwyr Cymreig, 1907). Gw. argraffiad diwygiedig yn, Thomas Jones (gol.), *Tro trwy'r Gogledd; Tro i'r De: Gweithiau Syr O. M. Edwards, Canmlwyddiant 1858-1958* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1958)

Edwards, Owen M., *Tro yn Llydaw* (Dolgellau: E.W. Evans, 1890)

Edwards, Owen M., *Tro yn yr Eidal* (Dolgellau: E.W. Evans, 1889)

Edwards, Owen M., *The Story of the Nations: Wales* (1901). Gw. Ailargraffiad (London: T. Fisher Unwin, 1902)

Ellis, Thomas E., 'A plea for a Welsh School of Architecture: an address at University College, Bangor, January 30th, 1896', yn Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrexham: Hughes and Son, 1912), tt. 67-82

Ellis, Thomas E., 'Domestic and decorative art in Wales: a lecture delivered to the Hon. Society of Cymmrodorion on March 10th, 1897', yn Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrexham: Hughes and Son, 1912), tt. 29-63

Ellis, Thomas E., 'Notes for "Cymru Fydd": National Council meeting, Newtown, October 9, 1888', yn Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrexham: Hughes and Son, 1912), tt. 187-193

Ellis, Thomas E., 'The duty of the Guild towards the literature and records of Wales: a paper read at the second annual collegiate meeting of the Guild of Graduates of the University of Wales, held in the University College of North Wales, Bangor, on Saturday, October 17th, 1896', yn Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrexham: Hughes and Son, 1912), tt. 143-162

Ellis, Thomas E., 'The influence of the Celt in the making of Britain' (1889), yn Annie J. Ellis (gol.), *Speeches and Addresses by the late Thomas E. Ellis, M.P.* (Wrecsam: Hughes and Son, 1912), tt. 85-115

Evans, Beriah Gwynfe, *Caradog: Drama Hanesyddol* [drama] (Caernarfon: yr awdur, 1904)

Evans, Beriah Gwynfe, *Chwareu-gan: Drama yn Null Shakespeare ar "Owain Glyndwr": Buddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Eryri, Llanberis, 1879* [drama] (Llanberis: Argraffwyd dros y cyhoeddwr T.E. Jones gan Richard Owen, 1879)

Evans, Beriah Gwynfe, *Dafydd Dafis: sef Hunangofiant Ymgeisydd Seneddol* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1898)

Evans, Beriah Gwynfe, *Esther: Drama Ysgrythyrol. Rhan 2, Y Cyfarwyddiadau a'r Gerddoriaeth* [drama] (Caernarfon: Argraffwyd yn swyddfa'r Herald Cymraeg, 1914)

Evans, Beriah Gwynfe, *Glyndwr, Tywysog Cymru: The Welsh Historical Investiture Play* [drama] (Caernarfon: B.G. Evans, 1911)

Evans, Beriah Gwynfe, *Glyndwr: Tywysog Cymru. Chwareuawd Hanesiol mewn Tair Act. I. Gormes. II. Gwrthryfel. III. Rhyddid* [drama] (Caernarfon, Cyhoeddedig gan yr awdwr, 1911)

Evans, Beriah Gwynfe, *Llywelyn Ein Llyw Olaf: Drama Gantata mewn Tair Act* [drama] (Llanelli: D. Williams a'i Fab, 1883)

Evans, Beriah Gwynfe, *Ystori'r Streic: sef Drama yn Arddangos Bywyd Gweithwyr Cymru Heddyw* [drama] (Caernarfon: Argraffwyd yn Swyddfa'r Herald, 1904)

Evans, Theophilus, *Drych y Prif Oesoedd* (1716). Ailgyhoeddwyd yn Garfield H. Hughes (gol.), *Drych y Prif Oesoedd: Yn ôl yr argraffiad cyntaf: 1716* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1961)

Griffith, Gwilym Oswald, *The New Wales: Some Aspects of National Idealism with a Plea for Welsh Home Rule* (Liverpool, H. Evans & Sons, 1913)

John, E. T. a Owen, J. Dyfnallt, *Cymru a'r Gymraeg* (Undeb y Cymdeithasau Cymraeg a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1916)

John, E. T., *Enter the Celt* (Perth: Milne, Tannahill, & Methven, 1918)

John, E. T., *Home Rule for Wales; Addresses to 'Young Wales'* (Bangor: Jarvis & Foster, 1912)

John, E. T., *Wales, its Politics and Economics: with the text of the Government of Wales Bill* (Cardiff: Welsh Outlook Press, 1919)

Jones, Evan (Ieuan Gwynedd), *A Vindication of the Educational and Moral Condition of Wales in reply to William Williams, Esq., Late M.P. for Coventry by Evan Jones of Tredegar* (Llandoverly: William Rees, 1848)

Jones, Evan (Ieuan Gwynedd), *Facts, figures and statements in illustration of the dissent and morality of Wales: an appeal to the English people* (London: B. L. Green, 1849)

Jones, J. R. Kilsby, *Holl weithiau prydyddawl a rhyddieithol y diweddar Barch. William Williams, Pant-y-Celyn: gyda chofiant yr awdur gan y golygydd* (Llundain: William Mackenzie, 1867)

Jones, John ('Jac Glan-y-Gors'), 'Hanes Dic Siôn Dafydd', yn Robert Davies (Nantglyn), *Barddoniaeth, yn Cynnwys Cerddi, Cywyddau, ac Ynglynion, ar amryw Destunau* (Llundain: Argraphwyd gan T. Jones, 1803)

Jones, John William ('Andronicus'), *Adgofion Andronicus* (Caernarfon: Welsh National Press Company, 1894)

Jones, John William ('Andronicus'), *Yn y Tren* (gol. gan R. D. Rowland, 'Anthropos') (Caernarfon: Swyddfa'r Genedl, 1895)

Jones, Michael D., *Y Gwenynydd: Llawlyfr Ymarferol Ar Gadw Gwenyn*. Dyfynnir yn D. Gwenallt Jones, 'Michael D. Jones', yn Gwynedd Pierce (gol.), *Triwyr Penllyn* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1956), t. 17

Jones, Owen (Meudwy Môn), *Ceinion llenyddiaeth Gymreig: yn cynnwys detholion o weithiau prif feirdd ac ysgrifenyddwyr rhydd-iethiol y dywysogaeth o'r bedwaredd ganrif ar ddeg hyd yr oes hon*, 4 cyfrol (Llundain: Blackie, 1875-1876)

Jones, Owen (Meudwy Môn), *Cymru: yn hanesyddol, parthedegol, a bywgrahyddol*, 2 cyfrol (Llundain: Blackie a'i fab, 1875)

Jones, Owen (Myvyr), Williams, Edward (Iolo Morganwg) a Pughe, William Owen (Idrison), *The Myvyrian archaiology of Wales: collected out of ancient manuscripts*, 2nd ed. (Denbigh: Gee, 1870)



Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Caru Difyrwch' [homili], yn Ezra Roberts (gol.), *Homiliau gan y Diweddar Parch. R. Ambrose Jones (Emrys ap Iwan) Cyf. 1* (Dinbych: Gee a'i Fab, 1906), tt. 277-95

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Crefydd a Gwareiddiad' [homili], yn Ezra Roberts (gol.), *Homiliau gan y Diweddar Parch. R. Ambrose Jones (Emrys ap Iwan) Cyf. 2* (Dinbych: Gee a'i Fab, 1909), tt. 9-22

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Duw yn Darian a Duw yn Wobr' [homili], yn Ezra Roberts (gol.), *Homiliau gan y Diweddar Parch. R. Ambrose Jones (Emrys ap Iwan) Cyf. 2* (Dinbych: Gee a'i Fab, 1909), tt. 23-35

Jones, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Gweddi a Gwaith' [homili], yn Ezra Roberts (gol.), *Homiliau gan y Diweddar Parch. R. Ambrose Jones (Emrys ap Iwan) Cyf. 1* (Dinbych: Gee a'i Fab, 1906), tt. 177-91

Jones, T. Gwynn, *Emrys ap Iwan: Dysgawdr, Llenor, Cenedlgarwr – Cofiant* (Caernarfon: Cwmni'r Cyhoeddwr Cymreig, 1912) (Abertawe: Hughes a'i Fab, 1978)

Jones, T. M. (Gwenallt), *Llenyddiaeth fy Ngwlad, sef Hanes y Newyddiadur a'r Cylchgrawn Cymreig yn Nghymru, America, ac Awstralia yn nghyd a'u Dylanwad ar Fywyd Cenedl y Cymry* (Treffynon: P. M. Evans a'i Fab, 1893)

Lewis, H. Elvet, *Athrylith John Ceiriog Hughes* (Liverpool: Foulkes, 1899)

Lewis, Hubert a Lloyd, John Edward (eds), *The Ancient Laws of Wales* (London: Elliot Stock, 1889)

Llewelyn, Owain (O. Llew Owain), *Tom Ellis: Gwladgarwr a Gwleidydd* (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwr Cymreig, 1915)

Lloyd, J. E., *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*, 2 gyfrol (London, 1911; 2nd edn, London, 1912; 3rd edn, London 1939)

Lloyd, J. E., *A History of Wales*, Benn's Sixpenny Library no. 119 (London, 1930)

Lloyd, J. E., *Ail Lyfr Hanes (Hanes Cymru o 400 Hyd 1066 O.C.)* (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1896)

- Lloyd, J. E, *Llyfr Cyntaf Hanes* (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1893)
- Lloyd, J. E, *Trydydd Llyfr Hanes (Hanes Cymru o 1066 hyd 1282)* (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900)
- Morgan, J. Vyrnwy (ed.), *Welsh Political and Educational Leaders in the Victorian Era* (London: James Nisbet & Co., 1908)
- Morgan, J. Vyrnwy, *The Life and Sayings of the Late Kilsby Jones, Congregational Minister, Llandrindod* (London: Elliot Stock, 1896)
- Morris, John Edward, *The Welsh wars of Edward I: a contribution to mediaeval military history, based on original documents* (Oxford: Clarendon Press, 1901)
- Morton, H. V., *A Stranger in Spain* (London: Methuen & Co. Ltd, 1955)
- Morton, H. V., *In Search of Wales*, Firth Edition (London: Methuen & Co. Ltd, 1933)
- Newell, Ebenezer J., *A History of the Welsh Church to the Dissolution of the Monasteries* (London: Elliot Stock, 1895)
- Newell, Ebenezer J., *A Popular History of the Ancient British Church: with Special Reference to the Church in Wales* (London: Society for Promoting Christian Knowledge, 1887)
- Owen, Daniel, *Straeon y Pentan* (Wrexham: cyhoeddiedig gan Hughes & Son, 1895)
- Owen, Henry, *Gerald the Welshman* (London: Whiting 1889)
- Parry, John (gol.), *Encyclopaedia Cambrensis: Y gwyddoniadur Cymreig*, 11 cyfrol (Dinbych: T. Gee a'i fab, 1889-1896)
- Pryse, Robert John (Gweirydd ap Rhys), *Hanes y Britaniaid a'r Cymry yn Wladol, Milwrol, Cymdeithasol, Llenorol, a Chrefyddol, o'r Amseroedd Boreuaf hyd y Bresennol* (dau gyfrol) (Llundain; Caerlleon; Abertawe: William MacKenzie, 1872 a 1874)
- Rees, R. O., *Mary Jones, y Gymraes Fechan heb yr un Beibl: a sefydliad y Feibl-Gymdeithas* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1904). Cyhoeddwyd gyntaf gan Hughes a'i Fab yn 1879

Rhys, John a Brynmor-Jones, David, *The Welsh People: Chapters on their Origin, History, Laws, Language, Literature and Characteristics* (London, 1900). Gw. Fourth Edition, (London: T. Fisher Unwin, 1906)

Rhys, John, *Celtic Britain* (London: SPCK, 1882). Gw. argraffiad diweddar gan Random House (London, 1996)

Seebohm, Frederic, *The Tribal System in Wales: being part of an inquiry into the structure and methods of tribal society* (1895). Gw. 2nd ed. (London: Longmans, 1904)

Southall, John Edward, *Preserving and teaching the Welsh language in English speaking districts: being the substance of an essay awarded a prize at the National Eisteddfod, Newport, 1897, by Galar Gwent (John E. Southall)* (Newport: John E. Southall, 1899)

Southall, John Edward, *The Welsh language census of 1891: with coloured map of the 52 registration districts into which Wales is divided* (Newport: John E. Southall, 1895)

Southall, John Edward, *Wales and her language: considered from a historical, educational and social standpoint with remarks on modern Welsh literature and a linguistic map of the country* (Newport: Southall, 1892)

Thomas Price (Carnhuanawc), *Hanes Cymru a Chenedl y Cymry o'r Cynoesoedd hyd at Farwolaeth Llywelyn ap Gruffydd* (Crughywel/Crickhowell: Thomas Williams, 1842)

Thomas, Alfred, *In the Land of the Harp and Feathers: a Series of Welsh Village Idylls*, Argraffiad Newydd (Dolgellau: William Hughes & Son, 1910). Cyhoeddwyd gyntaf gan H. R. Allenson, Llundain, yn 1896

Williams, W. Llewelyn, *Gŵr y Dolau, neu Ffordd y Troseddwr* (1899), Argraffiad Diwygiedig (Gwasg Aberystwyth, 1946)

#### **ch. Ffynonellau cynradd eraill (iaith Fasgeg, Sbaeneg a Ffrangeg)**

Arana, Sabino, *Bizkaya por su independencia* (Bilbao: Tipografía de Sebastián, 1892)

Arana, Sabino, *De fuera vendrá: comedia en tres actos* [drama] (1898), edición anotada, estudio histórico-crítico y apéndices por José Luis Granja (Donostia: Haranburu, 1982)

Arana, Sabino, *El Partido Carlista y los fueros vasko-nabarro: polémica* (Bilbao: Amorrortu, 1897)

Arana, Sabino, *Gramática elemental del euskera bizkaíno* (1888)

Arana, Sabino, *Libe: melodrama histórico* [drama] (1903), original de Jelalde; desarrollo y adaptación dramático de Manuel de la Sota y Aburto (Bilbo: E. Verdes Achirica, 1934)

Arana, Sabino, *Obras completas de Arana-Goiri'ttar Sabin* (Buenos Aires: Editorial Sabindiar-Batza, 1965)

Azkue, Resurrección María de, *Azkueko Resurreccion Maria Bizkaiko lenengo euskal-irakasleak eratu ta biurturiko Euskal-izkindea / Gramática eúskara / formada y traducida por Resurrección María de Azkue* (Bilbao: Tipografía de José de Astuy, 1891)

Baroja, Pío, *Camino de perfección: pasión mística* (1901) (Madrid: Caro Raggio, D.L., 1974)

Baroja, Pío, *El árbol de la ciencia* (1911), 1ª ed., 30ª reimp (Madrid: Alianza, 1989)

Baroja, Pío, *El mayorazgo de Labraz* (1903) (Madrid: Caro Raggio, 1972)

Baroja, Pío, *La casa de Aizgorri* (1900) (Madrid: Caro Raggio, 1972)

Baroja, Pío, *La leyenda de Jaun de Alzate* (1922) (Madrid: Caro Raggio, 1972)

Baroja, Pío, *Zalacaín el Aventurero: historia de las buenas andanzas y fortunas de Martín Zalacaín de Urbía* (1908), 7ª ed. (Madrid: Espasa-Calpe, 1975)

Campión, Arturo, 'Discurso en el Congreso de los Diputados el día 14 de enero de 1895', yn *Discursos Políticos y Literarios de Arturo Campión* (Bilbao: Editorial la gran Enciclopedia Vasca, 1976), tt. 104-119

Campión, Arturo, *Blancos y negros: guerra en la paz* (Pamplona: Imp. de Erice y García, 1898)

Campión, Arturo, *El genio de Navarra* (1884-1888) (Iruña: Editorial Mintzoa, 2005)

Campión, Arturo, *La Leyenda de Aitor por Agustín Chao; versión castellana del original francés por Arturo Campión* (Bilbao: C. Perez Bidebarricta, 1879)

Campión, Arturo, *Orreaga (Roncesvalles): balada escrita en el dialecto guipuzcoano: acompañada de versiones a los dialectos bizcaino, labortano y suletino y de diez y ocho variedades dialectales de la región bascongada de Navarra desde Olazagutía hasta Roncal* (1877) (Bilbao: La Gran Enciclopedia Vasca, 1971)

Cánovas del Castillo, Antonio, *Discurso sobre la nación: Ateneo de Madrid, 6 de Noviembre de 1882* (Madrid: Biblioteca Nueva, 1997)

Chaho, Joseph-Agustin, *Aitor: Légende Cantabre* (1845). Argraffiad diweddar yn Sbaeneg: *La leyenda de Aitor* (Bilbao: Asociación Valle-Inclán Universidad del País Vasco, 1993)

Chaho, Joseph-Agustin, *Paroles d'un Bizkaïen aux libéraux del Reine Christine* (Paris: Imprimerie de Prospere Dondey-Dupré, 1834)

Chaho, Joseph-Agustin, *Voyage en Navarre pendant l'insurrection des Basques (1830-1835)* (París: Arthus Bertrand, 1836)

Egilsot, Manuel de (gol.), *De su alma y de su pluma (colección de pensamientos, seleccionados en los escritos del maestro del nacionalismo vasco) / Arana-Goiri'tar Sabin* (Publicado con motivo de la celebración de las "Bodas de oro" del Nacionalismo Vasco, 1882-1932) (Bilbao: Talleres Gráficos E. Verdes Achirica, 1932). Argraffiad newydd gan Editorial Memoria Histórica, heb ddyddiad

Elizondo, Mauro (gol.), *Sabino Arana: padre de las nacionalidades: correspondencia inédita de los hermanos Arana-Goiri* (gohebiaeth Sabino Arana a'i frawd Luis), 2 vol. (Bilbao: La Gran Enciclopedia Vasca, 1981)

Etxepare, Bernard; rhagair gan Pello Salaburu; cyflwyniad gan Beñat Oyharçabal; cyfieithwyd gan Mikel Morris Pagoeta, *Linguae vasconum primitiae: the first fruits of the Basque language, 1545* (Reno: Center for Basque Studies, University of Nevada, 2012)

Humboldt, Wilhelm von, *Selected Basque Writings: The Basques and Announcement of a Publication* (1801). Ailgyhoeddwyd a chyfieithwyd gan Andreas Corcoran gyda chyflwyniad gan Iñaki Zabaleta Gorrotatxegi (Reno: University of Nevada, 2013)

Labayru y Goicoechea, Estanislao Jaime de, *Historia general del Señorío de Bizcaya* (chwe chyfrol) (Madrid: Librería de Victoriano Suárez, 1895-1903)

Larramendi, Manuel de, *Corografía o descripción general de la muy noble y muy leal provincia de Guipúzcoa* (1756) (San Sebastián: Sociedad Guipuzcoana de Ediciones y Publicaciones, 1969)

Larramendi, Manuel de, *De la antigüedad, y universalidad del bascuense en España : de sus perfecciones, y ventajas sobre otras muchas lenguas* (Salamanca: Eugenio Garcia de Honorato, 1728)

Larramendi, Manuel de, *Diccionario trilingüe del Castellano, Bascuence y Latín* (San Sebastián: Bartholome Riesgo y Montero, 1745)

Larramendi, Manuel de, *El imposible vencido* (1729) (Echévarri: Amigos del Libro Vasco, 1988)

Maeztu, Ramiro de, *Defensa de la hispanidad* (Madrid: Gráfica Universal, 1934)

Maeztu, Ramiro de, *Hacia otra España* (1899) (Madrid: Biblioteca Nueva, D. L., 1998)

Maeztu, Ramiro de, *La crisis del humanismo: los principios de autoridad, libertad y función a la luz de la guerra* (1920) (Buenos Aires: Editorial Sudamericana, 1947)

Navarro Villoslada, Francisco, *Amaya ó los vascos en el siglo VIII: novela histórica* (1877) (Donostia: Tarttalo, D.L., 1991)

Sagarmínaga Epalza, Fidel de, *El gobierno y el régimen foral del Señorío de Vizcaya* (1892), Nueva ed. ampliada por Darío de Areitio – 5 vol. (Bilbao: Imprenta de la Excma. Diputación de Vizcaya, 1928-1976)

Sículo, Lucio Marineo, *De las cosas memorables de España* (Alcalá de Henares, 1530)

Unamuno, Miguel de, *Abel Sánchez: una historia de pasión* (1917), 14ª ed. (Madrid: Espasa-Calpe, 1979)

Unamuno, Miguel de, *Del sentimiento trágico de la vida en los hombres y en los pueblos* (1912), 3ª ed. (Madrid: Espasa-Calpe, 1982)

Unamuno, Miguel de, *Niebla: novela* (Madrid: Renacimiento, 1914)

Unamuno, Miguel de, *Paz en la Guerra* (1897), Edición crítica por Manuel Basas (Bilbao: El Correo Español-El Pueblo Vasco, 1986)

Unamuno, Miguel de, *San Manuel Bueno, mártir* (1931), 12<sup>a</sup> ed. (Madrid: Cátedra, D.L., 1989)

## 2. Ffynonellau eilaidd

Aaron, Jane (gol.), *A View across the Valley: Short Stories by Women from Wales c.1850-1950* (Dinas Powys: Honno, 1999)

Aaron, Jane a Williams, Chris (goln), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005)

Aaron, Jane, ‘Bardic anti-colonialism’ yn Aaron, Jane a Williams, Chris (goln), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), tt. 137-158

Adams, Rachel, ‘Michel Foucault: Discourse’, *Critical Legal Thinking: Law and the Political* (17 Tachwedd 2017) [ar-lein], <http://criticallegalthinking.com/2017/11/17/michel-foucault-discourse> [cyrchwyd: 29 Mehefin 2019]

Álvarez Gila, Oscar a Tápiz Fernández, José María, ‘Prensa nacionalista vasca y emigración a America (1900-1936)’, *Anuario de Estudios Americanos*, Tomo LIII, 1 (1996), 233-259

Álvarez Junco, José, ‘The nation-building process in nineteenth-century Spain’, yn Clare Mar-Molinero ac Angel Smith (goln), *Nationalism and the Nation in the Iberian Peninsula: Competing and Conflicting Identities* (Oxford/Washington D.C.: Berg, 1996), tt. 89-106

Álvarez Junco, José, *Mater dolorosa: la idea de España en el siglo XIX* (Madrid: Taurus, 2001)

ap Gareth, Owain Llŷr, ‘From the medieval to the starship Enterprise in three acts: contesting the representation of Wales through royal ritual 1911-2007’, *Contemporary Wales*, 23 (2010), 36-51

ap Gareth, Owain Llŷr, 'Welshing on postcolonialism: complicity and resistance in the construction of Welsh identities' (Traethawd PhD: Prifysgol Aberystwyth, 2009)

Arantzadi y Etxeberria, Engracio de ('Kizkitza'), *Ereintza: siembra de nacionalismo vasco 1894-1912* (Zarautz: Editorial Vasca, 1935)

Aretxaga, Begoña, 'Madness and the politically real: reflections on violence in postdictatorial Spain', yn Mary-Jo DelVecchio Good, Sandra Teresa Hyde, Sarah Pinto a Byron J. Good (goln), *Postcolonial Disorders* (Berkeley/Los Angeles: University of California Press, 2008), tt. 43-61

Arinas García, Txema, *Sabino Arana o la Identidad Pervertida* (Astorga: Editorial Akrón, 2008)

Ashcroft, Bill, Griffiths, Gareth, a Tiffin, Helen, *Key Concepts in Post-Colonial Studies* (London: Routledge, 1998)

Baldick, Chris, *The Social Mission of English Criticism 1848-1932* (Oxford: Clarendon Press, 1983)

Balfour, Sebastian, 'The lion and the pig: nationalism and national identity in *fin-de-siècle* Spain', yn Clare Mar-Molinero ac Angel Smith (goln), *Nationalism and the Nation in the Iberian Peninsula: Competing and Conflicting Identities* (Oxford/Washington D.C.: Berg, 1996), tt. 107-117

Banti, Alberto Mario, 'Sacrality and the aesthetics of politics: Mazzini's concept of the nation', yn C. A. Bayly ac E. F. Biagini (goln), *Giuseppe Mazzini and the Globalization of Democratic Nationalism* (Oxford: Oxford University Press, 2008), tt. 59-74

Barnard, F. M., *Herder's Social and Political Thought. From Enlightenment to Nationalism* (Oxford: Clarendon Press, 1965)

Barry, Peter, *Beginning Theory: An Introduction to Literary and Cultural Theory* (Manchester / New York: Manchester University Press, 2002)

Baycroft, Timothy, *Nationalism in Europe 1789-1945* (Cambridge: Cambridge University Press, 1998)



- Bayly, C. A. a Biagini, E. F., (goln), *Giuseppe Mazzini and the Globalization of Democratic Nationalism* (Oxford: Oxford University Press, 2008)
- Behdad, Ali a Thomas, Dominic (goln), *A Companion to Comparative Literature* (Chichester/Malden: Wiley-Blackwell, 2011)
- Belsey, Catherine, *Poststructuralism: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2002)
- Bell, P. M. H., *Disestablishment in Ireland and Wales* (London: SPCK, 1969)
- Ben-Ami, Shlomo, 'Basque nationalism between archaism and modernity', *Journal of Contemporary History* (SAGE, London, Newbury Park a New Delhi, 26 (1991), 493-521
- Beresford Ellis, Peter, *Celtic Dawn: The Dream of Celtic Unity* (Talybont: Y Lolfa, 1993)
- Berger, Stefan, 'And what should they know of Wales? Why Welsh history needs comparison', *Llafur*, 8 (3) (2002), 131-139
- Berger, Stefan, 'Comparative history' in Stefan Berger, Heiko Feldner a Kevin Passmore (goln), *Writing History: Theory & Practice* (London: Hodder Arnold, 2003), tt. 161-179
- Berlin, Isaiah, *Vico and Herder: Two Studies in the History of Ideas* (London: The Hogarth Press, 1976)
- Bertens, Hans, *Literary Theory: The Basics* (London: Routledge, 2001)
- Bhabha, Homi K., *The Location of Culture* (London: Routledge, 1994)
- Bickers, Robert a Tiedemann, R. G. (goln), *The Boxers, China, and the World* (Lanham, Maryland: Rowman & Littlefield, 2007)
- Birt, Paul W., *Cerddi Alltudiaeth: Thema yn Llenyddiaethau Québec, Catalunya a Chymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997)
- Black, Jeremy a MacRaill, Donald M., *Studying History*, 3rd Edition (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2007)

- Bohata, Kirsti, *Postcolonialism Revisited: Writing Wales in English* (Cardiff: University of Wales Press, 2004)
- Bowen, H. V. (gol.), *Wales and the British Overseas Empire: Interactions and Influences 1650–1830* (Manchester: Manchester University Press, 2012)
- Bradley, J. L., *Ruskin: The Critical Heritage. John Ruskin 1819-1900* (London: Routledge & Kegan Paul, 1984)
- Brevertton, T. D., *The Welsh Almanac* (Sain Tathan: Wales Books, 2002)
- Brooks, Simon, ‘Yr Hil: ydy’r canu caeth diweddar yn hiliol?’, yn Owen Thomas (gol.), *Llenyddiaeth Mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 1-38
- Brooks, Simon, *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004)
- Brooks, Simon, *Pam na fu Cymru: Methiant Cenedlaetholdeb Cymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2015)
- Callahan, William J., ‘Church and state, 1808-1874’, yn José Alvarez ac Adrian Shubert (goln), *Spanish History since 1808* (London: Arnold, 2000), tt. 48-63
- Careaga, Adolfo (gol.), *Páginas de Sabino Arana: Fundador del Nacionalismo Vasco* (Madrid: Criterio Libros, 2001)
- Carlin, Patrick Joseph, ‘Cynllunio ieithyddol mewn awdurdodau isranbarthol yng Ngwlad y Basg, Catalwnia a Chymru’ (Traethawd PhD: Prifysgol Aberystwyth, 2009)
- Carr, Raymond, ‘Liberalism and reaction, 1833-1931’, yn Raymond Carr (gol.), *Spain: A History* (Oxford: Oxford University Press, 2000), tt. 205-242
- Carr, Raymond, *Modern Spain: 1875-1980* (Oxford: Oxford University Press, 1980)
- Carr, Raymond, *Spain 1808-1975, Second Edition* (Oxford: Oxford University Press, 1982)
- Cenoz, Jasone a Perales, Josu, ‘The Basque-speaking communities’, yn María Teresa Turell (gol.), *Multilingualism in Spain* (Clevedon: Multilingual Matters, 2001), tt. 91-109

Cohen, Deborah a O'Connor, Maura (goln), *Comparison and History: Europe in Cross-National Perspective* (Abingdon: Routledge, 2004)

Cohen, Jeffrey Jerome, 'Hybrids, monsters, borderlands: the bodies of Gerald of Wales', yn Jeffrey Jerome Cohen (gol.), *The Postcolonial Middle-Ages* (New York: St Martin's Press, 2000), tt. 85-104

Conversi, Daniele, *The Basques, the Catalans and Spain: Alternative Routes to Nationalist Mobilisation* (London: Hurst & Company, 1997)

Corcuera Atienza, Javier, *Orígenes, Ideología y Organización del Nacionalismo Vasco 1876-1904* (Madrid: Siglo Veintiuno Editores, 1979)

Champion, Timothy, 'The appropriation of the Phoenicians in British imperial ideology', *Nations and Nationalism* 7 (4), 2001, 451-465

Christopher, A. J., 'From Flint to Soweto: reflections on the colonial origins of the apartheid city', *Area*, 15 (2) (1983), 145-149

Davies, Alun, 'Cenedlaetholdeb yn Ewrop a Chymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg', *Efrydiau Athronyddol*, 27 (1964), 14-23

Davies, Ceri, *Welsh Literature and the Classical Tradition* (Cardiff: University of Wales Press, 1995)

Davies, D. Eirug, *Y Winllan Well: America'r Cymry* (Talybont: Y Lolfa, 2015)

Davies, Hazel, 'Boundaries: the early travel books and periodicals of O. M. Edwards', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 186-209

Davies, John, *Hanes Cymru* (Llundain: Penguin, 1992)

Davies, Philip R., 'Dyna'r chwarae: Emrys ap Iwan ac imperialaeth Brydeinig 1879-1885', *Ysgrifau Beirniadol*, XXXIII, Rhagfyr 2014, 47-72

Davies, Philip R., 'Jaungoikua eta lagizarra / Duw a'r hen gyfraith: camau cyntaf mewn astudiaeth ar feddwl a llenyddiaeth genedlaethol yng Nghymru a Gwlad y Basg, 1850-1914',

*Proceedings of the Association of Celtic Students of Ireland and Britain*, Vol. I & II (2015), 125-136

Davies, Philip R., 'The ideas of Emrys ap Iwan' (Traethawd MA: Prifysgol Bangor, 2013)

Davies, R. R., 'Colonial Wales', *Past and Present*, 65 (1974), 3-23

Davies, R. R., *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford: Oxford University Press, 1995)

Davies, Sioned, 'Pefformio o'r pulpud: rhagarweiniad i'r maes', *Y Traethodydd*, Cyfrol CLV (2000), 256-280

De Winter, Lieven a Türsan, Huri (goln), *Regionalist Parties in Western Europe* (London: Routledge, 1998)

Delgado, Ander, 'El fuerismo, el *Home Rule Bill* y la política británica: el contexto internacional en los inicios del movimiento nacionalista vasco (1890-1903)', *Historia Contemporanea*, 25 (2002), 289-317

Delgado, Ander, 'Sympathy with you as a nation. Las relaciones entre el nacionalismo vasco y galés hasta la guerra civil española', *Historia y Política*, 25 (2011), 331-355

Díaz Freire, José Javier, 'Cuerpo a cuerpo con el giro lingüístico', *Arenal*, 14 (1) (2007), 5-29

Díaz Freire, José Javier, 'La construcción de la identidad nacional vasca', yn Ramón Talasac Hernández a José Manuel Azcona Pastor (goln), *La tribuna de 'El Sitio': 125 años de expresión libre en Bilbao (1875-2000)* (Ansoáin (Nafarroa): Impreso Sociedad 'El Sitio', 2001), tt. 669-679

Díaz Freire, José Javier, 'Miguel de Unamuno y Bilbao: la experiencia melancólica de la modernidad', *Ayer*, 98/2015 (2), 21-44

Díaz Noce, Javier, *Historia del periodismo vasco (1600-2010)* (San Sebastián-Donostia: Mediatika, Cuadernos de Medios de Comunicación / Eusko Ikaskuntza 13, 2012)

Duffy, Seán, 'The 1169 invasion as a turning-point in Irish-Welsh relations', yn Brendan Smith (gol.), *Britain and Ireland, 900-1300: Insular Responses to Medieval European Change* (Cambridge: Cambridge University Press, 1999), tt. 98-114

- Dumville, D. N., 'Sub-Roman Britain: History and Legend', *History* 62 (1977), 173-192
- Eagleton, Terry, *Marxism and Literary Criticism* (London: Routledge, 1992)
- Edwards, Huw Meirion, 'The lyric poets', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 97-125
- Edwards, Hywel Teifi, 'Victorian stocktaking', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 210-231
- Egaña, Iñaki, *Breve Historia de Euskal Herria* (San Sebastián-Donostia: Txertoa Argitaletxea, 2013)
- Eguiguren, Jesús M., *El Socialismo y la Izquierda Vasca 1886-1994* (Madrid: Editorial Pablo Iglesias, 1994)
- Erasmus, Timothy P., 'Herbert Lewis and Welsh radicalism: a study of the political career of John Herbert Lewis (1858-1933), with special reference to the period 1892-1906' (Traethawd PhD: Prifysgol Bangor, 1988)
- Evans, Gwynfor, 'Ein dyled i Emrys ap Iwan', yn *Cymdeithas Emrys ap Iwan – Y Ddarlith Flynnyddol* Cyf. 1 & 2 - 1981-82 (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1983), tt. 23-41
- Evans, Gwynfor, *Land of my Fathers: 2000 Years of Welsh History* (Talybont: Y Lolfa, 2008)
- Evans, Robin, *Gwlad y Basg: Yma o Hyd* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2012)
- Fairclough, Norman, *Analysing Discourse: Textual Analysis for Social Research* (Abingdon: Routledge, 2003)
- Fernández Ulloa, Teresa, 'La fuerza del mito en el discurso político nacionalista de Sabino Arana Goiri', *Revista Electrónica de Estudios Filológicos*, 6 (2003), <http://www.um.es/tonosdigital/znum6/estudios/fernandezulloa.htm> [cyrchwyd: 22 Hydref 2014]
- Ferris, David, 'Why compare?', yn Ali Behdad a Dominic Thomas (goln), *A Companion to Comparative Literature* (Chichester/Malden: Blackwell, 2011), tt. 28-45

Flynn, Mary Katherine, 'Constructed identities and Iberia', *Ethnic and Racial Studies*, 24 (5) (2001), 703-718

Forster, Michael N. (cyf. a gol.), *Johann Gottfried von Herder: Philosophical Writings* (Cambridge: Cambridge University Press, 2002)

Foster Evans, Dylan, 'Bardd arallwlad: Dafydd ap Gwilym a theori ôl-drefedigaethol', yn Thomas, Owen (gol.), *Llenyddiaeth Mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 39-72

Foucault, Michel, *The Archaeology of Knowledge* (London: Tavistock Publications, 1972)

Friend, Julius W., *Stateless Nations: Western European Regional Nationalisms and the Old Nations* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2012)

Gallop, Rodney, *A Book of the Basques* (London: MacMillan and Co., 1930)

Garai, Koldo Julen, 'Oihenart, una relectura de su obra', *Letras de Deusto*, vol. 23, n° 60 (septiembre-octubre 1993), 119-143

García Venero, Maximiano, *Historia del nacionalismo vasco*, Reimpresión a la 3ª edición (Madrid: Editora Nacional, 1979)

Gellner, Ernest, *Nationalism* (London: Weidenfeld & Nicolson, 1997)

Giles, J. A. (cyfieithydd), *Nennius: History of the Britons* (Kessinger Publishing, 2007)

González, Santiago, *Palabra de Vasco: la Parla Imprecisa del Soberanismo* (Madrid: Espasa Calpe, 2004)

Gorski, Philip S., 'Pre-modern nationalism: an oxymoron? The evidence from England', yn Gerard Delanty a Krishan Kumar (goln), *The Sage Handbook of Nations and Nationalism* (London /Thousand Oaks / New Delhi: Sage, 2006), tt. 143-156

Granja Sainz, José Luis de la, 'El antimaketismo: la visión de Sabino Arana sobre España y los Españoles', *Revista de Historia*, 19 (2006), 191-203

Granja Sainz, José Luis de la, *El nacionalismo vasco (1876-1975)* (Madrid: Arco Libros, 2000)

Granja Sainz, José Luis de la, *El nacionalismo vasco: claves de su historia* (Madrid: Anaya, 2009)

Griffith, W. P., 'Preaching second to no other under the sun: Edward Matthews, the nonconformist pulpit and Welsh identity during the mid-nineteenth century', yn Robert Pope (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001), tt. 61-83

Gutting, Garry, *Foucault: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2005)

Hawkes, David, *Ideology*, 2nd Edition (London: Routledge, 2003)

Hawthorn, Jeremy, *Cunning Passages: New Historicism, Cultural Materialism and Marxism in the Contemporary Literary Debate (Interrogating Texts)* (London: Arnold, 1996)

Hechter, Michael, *Internal Colonialism: The Celtic Fringe in British National Development, 1536-1966* (London: Routledge and Kegan Paul, 1975)

Heiberg, Marianne, 'Insiders/outside: Basque nationalism', *European Journal of Sociology*, 16:02 (1975), 169-193

Henry-Jones, Marian, 'Wales and Hungary', *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Session 1968, Part I (London, 1969), 7-27

Henry-Jones, Marian, *Hanes Ewrop 1815-1871* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1982)

Herzl, Theodor, *Der Judenstaat* (1896). Cyfieithiad Saesneg gyda chyflwyniad gan Louis Lipsky, *The Jewish State* (New York: Dover Publications, 1988) ar gael ar-lein: [www.gutenberg.org/ebooks/25282](http://www.gutenberg.org/ebooks/25282) [cyrchwyd: 21 Tachwedd 2018]

Holmes, James S., 'The name and nature of translation studies', yn Lawrence Venuti (gol.), *The Translation Studies Reader*, 2nd edition (New York/London: Routledge, 2004), tt. 180–92

Hooson, John, 'Emrys ap Iwan', *Y Traethodydd*, CVI/461 (1951), 156-64

Horrocks, Chris a Jevtic, Zoran, *Introducing Foucault* (Royston: Icon Books, 2004)

Hroch, Miroslav, *Comparative Studies in Modern European History* (Aldershot: Ashgate Variorum, 2007)

Hroch, Miroslav, *The Social Preconditions of National Revival in Europe: A Comparative Analysis of the Social Composition of Patriotic Groups Among the Smaller European Nations* (Cambridge: Cambridge University Press, 1985)

Hughes, Dewi Rowland, *Cymru Fydd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006)

Hughes, Glyn Tegai, 'Islwyn and *Y Storm*', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 69-96

Hughes, Trystan Owain, 'Continuity and conversion: the concept of a national church in twentieth-century Wales and its relation to the Celtic Church', yn Robert Pope (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001), tt. 123-138

Hughes, Vaughan, *Cymru Fawr: Pan oedd Gwlad Fach yn Arwain y Byd* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2014)

Hunter, Jerry, *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the American Civil War* (Cardiff: University of Wales Press, 2007)

Ibarra Güell, Pedro ac Irujo Ametzaga, Xabier (goln), *Basque Political Systems* (Reno: Center for Basque Studies – University of Nevada, 2011)

Iglesias, Ana a Ramallo, Fernando, 'Language as a diacritical in terms of cultural and resistance identities in Galicia', *Estudios de Sociolingüística*, 3.2 (2002), 255-287

Irujo Ametzaga, Mikel, 'Political institutions in Hegoalde', yn Pedro Ibarra Güell a Xabier Irujo Ametzaga (goln), *Basque Political Systems* (Reno: Center for Basque Studies – University of Nevada, 2011), tt. 33-51

James, E. Wyn, 'The new birth of a people: Welsh language and identity and the Welsh methodists, c. 1740-1820', yn Robert Pope (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000*, (Cardiff: University of Wales Press, 2001), tt. 14-42

Jansen, Wim, *Beginner's Basque* (New York: Hippocrene, 2007)



- Jenkins, David, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych, Gwasg Gee, 1973)
- Jenkins, R. T., ‘Emrys ap Iwan’, *Efrydydd*, Ionawr 1925, 90-4. Ailgyhoeddwyd yn *Yr Apêl at Hanes ac Ysgrifau Eraill* (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1930), tt. 90-97
- Jenkins, R. T., ‘Y newid yng Nghymru yng nghyfnod y Tuduriaid’, yn *Yr Apêl at Hanes ac Ysgrifau Eraill* (Wrecsam: Hughes a’i Fab, 1930), tt. 9-34
- Johnes, Martin, ‘For class and nation: dominant trends in the historiography of twentieth-century Wales’, *History Compass*, 8/11 (2010), 1257-1274
- Johnes, Martin, *Wales – England’s colony?* (Cardigan: Parthian, 2019)
- Jones, Aled a Jones, Bill, *Welsh Reflections: Y Drych and America 1851-2001* (Llandysul: Gomer, 2001)
- Jones, Aled, ‘The Welsh newspaper press’, yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 1-23
- Jones, Aled, ‘Welsh Missionary Journalism in India, 1880-1947’, yn Julie F. Codell (gol.), *Imperial Co-Histories: National Identities and the British and Colonial Press* (Madison: Fairleigh Dickinson University Press, 2003) tt. 242-272
- Jones, Aled, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1993)
- Jones, D. Gwenallt (gol.) *Detholiad o Ryddiaith Gymraeg R. J. Derfel*, 2 Cyfrol (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1945)
- Jones, D. Gwenallt, ‘Michael D. Jones’, yn Gwynedd Pierce (gol.), *Triwyr Penllyn* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1956), tt. 1-27
- Jones, Dafydd Glyn, ‘Aspects of his work: his politics’, yn Alun R. Jones a Gwyn Thomas (goln), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales Press, 1983), tt. 23-78
- Jones, Dafydd Glyn, ‘Traddodiad Emrys ap Iwan’, yn *Tair Darlith Goffa - Cymdeithas Emrys ap Iwan* (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1991), tt. 1-17
- Jones, Dafydd Glyn, *Hen Lyfr Bach: Lloyd George* (Bangor: Dalen Newydd, 2015)

Jones, Gwilym A., 'Teithi meddwl Emrys ap Iwan', yn *Tair Darlith Goffa - Cymdeithas Emrys ap Iwan* (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1991), tt. 43-64

Jones, Ieuan Gwynedd, 'Language and community in nineteenth-century Wales', yn David Smith (gol.), *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales 1780-1980* (London: Pluto Press, 1980), tt. 47-71

Jones, Ifan Morgan, 'Papur newydd', *Esboniadur* (Coleg Cymraeg Cenedlaethol) [ar-lein], [https://wici.porth.ac.uk/index.php/Papur\\_newydd](https://wici.porth.ac.uk/index.php/Papur_newydd) [cyrchwyd: 07 Ionawr 2019]

Jones, Ifan Morgan, 'Ymrestru o dan y Faner: Dadansoddiad o'r modd yr atgynhyrchwyd cenedlaetholdeb gan sefydliadau a gweisg Cymraeg Cymru yn y 19eg ganrif' (Traethawd PhD: Prifysgol Bangor, 2018)

Jones, J. R., 'Y syniad o genedl', *Efrydiau Athronyddol*, 24 (1961), 3-17

Jones, J. R., *Prydeindod* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1966)

Jones, J. T. (gol.), *Llyfrau'r Ford Gron: 17* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1932)

Jones, R. F. a Turnbull, G. H. (goln), *Addresses to the German Nation by Johann Gottlieb Fichte* (London: The Open Court Publishing Company, 1922)

Jones, R. Gerallt, 'Emrys ap Iwan', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 126-145

Jones, R. Gerallt, *Seicoleg Cardota* (Aberystwyth: Cyhoeddiadau Barddas, 1989)

Jones, R. Tudur, 'Cwmni'r Celt a dyfodol Cymru', yn E. Wyn James a Bill Jones (goln), *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2009), tt. 104-133

Jones, R. Tudur, 'Michael D. Jones a thynged y genedl', yn E. Wyn James a Bill Jones (goln), *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2009), tt. 60-83

Jones, R. Tudur, *Faith and the Crisis of a Nation: Wales 1890-1914* (Cardiff: University of Wales Press, 2004)

Jones, R. Tudur, *The Desire of Nations* (Llandybie: Christopher Davies, 1974)

Jones, T. Gwynn, *Emrys ap Iwan: Dysgawdr, Llenor, Cenedlgarwr – Cofiant* (Abertawe: Hughes a'i Fab, 1978)

Jones, Wyn, *Thomas Edward Ellis: 1859-1899* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986)

Juaristi Larrinaga, Patxi, 'Fiscal pacts in Hegoalde', yn Pedro Ibarra Güell a Xabier Irujo Ametzaga (goln), *Basque Political Systems* (Reno: Center for Basque Studies – University of Nevada, 2011), tt. 71-81

Juaristi, Jon, *El linaje de Aitor: la invención de la tradición vasca* (Madrid: Taurus, 1998)

Kedourie, Elie, *Nationalism*, Fourth Edition (Oxford: Blackwell, 1992)

Kennedy, Liam, 'Modern Ireland: post-colonial society or post-colonial pretensions?', *The Irish Review*, No. 13, 'Autobiography as Criticism' (Winter, 1992/1993), 107-121

Knight, Frances, 'Welsh nationalism and Anglo-Catholicism: the politics and religion of J. Arthur Price (1861-1942)', yn Robert Pope (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001), tt. 103-122

Knight, Stephen, 'Welsh fiction in English as postcolonial literature', yn Jane Aaron a Chris Williams (goln), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), tt. 159-176

Kurlansky, Mark, *The Basque History of the World* (London: Vintage Books, 2000)

Lambert, W. R., 'The Welsh Sunday Closing Act, 1881', *Welsh History Review*, Volume 6 (1972-73), 161-189

Letamendi, Francisco ('Ortzi'), *Breve historia de Euskadi: de la prehistoria a nuestros días* (Barcelona: Ibérica de Ediciones y Publicaciones, 1980)

Lewis, Saunders, 'Emrys ap Iwan', yn *Ysgrifau Dydd Mercher* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1945), tt. 74-83

Lewis, Saunders, 'Owen M. Edwards', yn Gwynedd Pierce (gol.), *Triwyr Penllyn* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1956), tt. 28-37

Lewis, Saunders, *Ceiriog – Yr Artist yn Philistia* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1929)

- Lewis, Saunders, *Williams Pantycelyn* (London: Foyle's Welsh Depôt, 1927)
- Lewis, Saunders, *Yr Artist yn Philistia II: Daniel Owen* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1936)
- Löffler, Marion, 'A romantic nationalist', *Planet*, 121 (1997), 58-66
- Lorenzo Espinosa, José María, 'Influencia del nacionalismo irlandés en el nacionalismo vasco 1916-1936', XI Congreso de Estudios Vascos: Donostia 1991, *Nuevas Formulaciones Culturales: Euskal Herria y Europa* (Donostia: Eusko Ikaskuntza, 1992)
- Lynch, Peredur I., *Proffwydoliaeth a'r Syniad o Genedl*, Trafodion Bangor: Rhif 5 (Prifysgol Bangor, 2007)
- Lloyd Gruffydd, K., 'Wales's maritime trade in wine during the later Middle Ages', *Cymru a'r Môr: Maritime Wales*, 15 (1992), 7-42
- Lloyd, D. Myrddin (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. III. Crefyddol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1940)
- Lloyd, D. Myrddin (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. I. Gwlatgar, Cymdeithasol, Hanesiol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1937)
- Lloyd, D. Myrddin (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan. II. Llenyddol, Ieithyddol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1939)
- Lloyd, D. Myrddin, 'Cymru ac Ewrop', *Efrydiau Athronyddol*, 27 (1964), 3-13
- Lloyd, D. Myrddin, *Emrys ap Iwan* (Writers of Wales) (Cardiff: University of Wales Press, 1979)
- Lloyd, D. Tecwyn, 'Emrys ap Iwan a'i gyfnod', yn *Cymdeithas Emrys ap Iwan – Y Ddarlith Flynyddol* Cyf. 5 & 6 - 1985-86 (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1986), tt. 1-19
- Llwyd, Rhys, 'Plaid Cymru, Welsh nationalism and christianity – a historical perspective', *Ethics in Brief* (The Kirby Laing Institute for Christian Ethics), 2015 Election Series No. 5 (March 2015), [http://www.klice.co.uk/uploads/Ethics%20in%20Brief/EiB\\_Llwyd\\_E2015\\_5\\_WEB.pdf](http://www.klice.co.uk/uploads/Ethics%20in%20Brief/EiB_Llwyd_E2015_5_WEB.pdf) [cyrchwyd: 12 Hydref 2016]

Llywelyn-Williams, Alun, 'Emrys ap Iwan', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976), tt. 11-36

Llywelyn-Williams, Alun, *Y Nos y Niwl a'r Ynys* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1960)

MacClancy, Jeremy, 'Bilingualism and multinationalism in the Basque Country', yn Clare Mar-Molinero ac Angel Smith (goln), *Nationalism and the Nation in the Iberian Peninsula: Competing and Conflicting Identities* (Oxford /Washington D.C.: Berg, 1996), tt. 207-220

Macdonnell, Diane, *Theories of Discourse: An Introduction* (Oxford: Basil Blackwell, 1986)

Masson, Ursula, 'Women Versus "the People": Language, Nation and Citizenship 1906-11', yn T. Robin Chapman (gol.), *The Idiom of Dissent: Protest and Propaganda in Wales* (Llandysul: Gomer, 2006), tt. 1-23

Matthews, Jodie, 'Borrowing Welshness: *Wild Wales*, affiliation and identity', *North American Journal of Welsh Studies*, 6 (1) (2011), 53-61

Maund, Kari, *The Welsh Kings: The Medieval Rulers of Wales* (Stroud: Tempus Publishing, 2000)

Mayo, Patricia Elton, *The Roots of Identity: Three National Movements in Contemporary European Politics* (London: Allen Lane, 1974)

McAllister, Laura, *Plaid Cymru: The Emergence of a Political Party* (Bridgend: Seren, 2001)

Medhurst, Ken a Williams, Colin H. (goln), *National Separatism* (Cardiff: University of Wales Press, 1982)

Medhurst, Ken, 'Basques and Basque nationalism', yn Ken Medhurst a Colin H. Williams (goln), *National Separatism* (Cardiff: University of Wales Press, 1982), tt. 235-261

Miguélez-Carballeira, Helena, *Galicia, a Sentimental Nation : Gender, Culture and Politics* (Cardiff: University of Wales Press, 2013)

Mills, Sara, *Discourse* (London: Routledge, 1997)

Millward, E. G. (gol.), *Ceinion y Gân: Detholiad o Ganeuon Poblogaidd Oes Victoria* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1983)

Millward, E. G., 'Beriah Gwynfe Evans: a pioneer playwright-producer', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1800-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 166-185

Millward, E. G., 'O. M. Edwards – Rhai sylwadau ar ei waith llenyddol', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976), tt. 37-54

Montero, Manuel, *Voces vascas: diccionario de uso* (Madrid: Tecnos, 2014)

Morgan, D. Densil, 'The essence of Welshness? Some aspects of Christian faith and national identity in Wales, c.1900-2000', yn Robert Pope (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001), tt. 139-162

Morgan, D. Densil, *Wales and the Word: Historical Perspectives on Religion and Welsh Identity* (Cardiff: University of Wales Press, 2008)

Morgan, Enid, *Emrys ap Iwan: Garddwr Geiriau* (Bangor: Cymdeithas Theatr Cymru, 1980)

Morgan, Kenneth O., 'Lloyd George's Flintshire loyalist: the political achievement of John Herbert Lewis', *Journal of Liberal History*, 57 (Winter 2007-2008), 18-30

Morgan, Kenneth O., 'Tom Ellis versus Lloyd George: the fractured consciousness of *fin-de-siècle* Wales', yn Geraint H. Jenkins a J. Beverley Smith (goln), *Politics and Society in Wales, 1840-1922: Essays in Honour of Ieuan Gwynedd Jones* (Cardiff: University of Wales Press, 1988), tt. 93-112

Morgan, Kenneth O., 'Welsh nationalism: the historical background', *Journal of Contemporary History*, 6 (1) (1971), 153-159 & 161-172

Morgan, Kenneth O., *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales* (Oxford: Oxford University Press, 1981)

Morgan, Kenneth O., *Wales in British Politics 1868-1922* (Cardiff: University of Wales Press, 1963)

Okey, Robin, 'Iaith ac addysg cenhedloedd di-wladwriaeth yn Ewrop, 1800-1918', yn Prys Morgan (gol.), *Brad y Llyfrau Gleision: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), tt. 201-222

Okey, Robin, 'Ieithoedd llai eu defnydd a lleiafrifoedd ieithyddol yn Ewrop oddi ar 1918: arolwg cyffredinol', yn Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams (goln), *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 607-640

Olaziregi, Mari Jose (gol.), *Writers in Between Languages: Minority Literatures in the Global Scene* (Reno: Center for Basque Studies, 2009)

Özirimli, Umut, *Theories of Nationalism: A Critical Introduction* (Basingstoke/New York: Palgrave, 2000)

Parry, Thomas, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1944)

Passmore, Kevin, 'Poststructuralism and history', yn Stefan Berger, Heiko Feldner a Kevin Passmore (goln), *Writing History: Theory and Practice* (London: Hodder Arnold, 2003), tt. 118-140

Patterson, Craig, *Galician Cultural Identity in the Works of Ramón Otero Pedrayo* (Lampeter: The Edwin Mellen Press, 2006)

Payne, Stanley G., *Basque Nationalism* (Reno, Nevada: University of Nevada Press, 1975)

Pêcheux, Michel, *Language, Semantics and Ideology: Stating the Obvious* (Harbans Nagpal, tr.) (Basingstoke: Macmillan, 1982)

Penrhyn Jones, G. , 'Newyn yng Nghymru', *Y Traethodydd*, Cyfres III, Cyfrol XXIX (1961), 17-32

Pope, Robert (gol.), *Religion and National Identity: Wales and Scotland c.1700-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001)

Porter, Bernard, *Critics of Empire: British Radicals and the Imperial Challenge* (London: I. B. Tauris, 2008)

Porter, Bernard, *The Lion's Share: A History of British Imperialism 1850 to the Present*, 5th Edition (Harlow: Routledge, 2012)

Price Jones, Frank, 'Jones, Evans (Ieuan Gwynedd; 1820-1852), Independent minister, and journalist', *Welsh Biography Online*, <http://wbo.llgc.org.uk/en/s-JONE-EVA-1820.html> [cyrchwyd: 1 Ionawr 2019]

Price, Adam, *Wales: The First and Final Colony* (Talybont: Y Lolfa, 2018)

Price, Angharad, 'Borshiloff', yn Owen Thomas (gol.), *Llenyddiaeth Mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 137-151

Pryce, Huw, *J. E. Lloyd and the Creation of Welsh History: Renewing a Nation's Past* (Cardiff: University of Wales Press, 2011)

Rees, Brinley (gol.), *Ieuan Gwynedd: Detholiad o'i Ryddiath* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1957)

Reeves, Rosanne (gol.), *Llon a Lledf a Storiâu Eraill gan Sara Maria Saunders (S.M.S.)* (Dinas Powys: Honno, 2012)

Reeves, Rosanne, *Dwy Gymraes, Dwy Gymru: Hanes Bywyd a Gwaith Gwyneth Vaughan a Sara Maria Saunders* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014)

Reiss, H. S., *The Political Thought of the German Romantics 1793-1815* (Oxford: Basil Blackwell, 1955)

Resina, Joan Ramón, 'Post-national Spain? Post-Spanish Spain?', *Nations and Nationalism*, 8 (3) (2002), 377-396

Roberts, Arthur Meirion, 'R. J. Derfel, 1824-1905', *Y Traethodydd*, 'O'r Pulpud i'r Platfform' (Ionawr 2009), 34-54

Rubio Pobes, Coro, 'El concepto y la idea de autonomía en el siglo XIX (Cataluña y País Vasco). Una aproximación', *Spagna Contemporanea*, 17 (2000), 7-27

Ruiz, Nicolás, 'La prensa nacionalista en Vizcaya durante la Restauración: el espejo de una comunidad en construcción', *El Argonauta Español* [ar-lein], 5 (2008), Mis ar-lein 15/01/2008, <http://argonauta.revues.org/970> [cyrchwyd: 15 Awst 2015]



Ruskin, John, 'Lectures on Art: delivered before the University of Oxford in Hilary term, 1870', yn E. T. Cook a Alexander Wedderburn (goln), *The Library Edition of the Complete Works of John Ruskin* (George Allen, 1903–12), Vol. 20

Ruskin, John, 'The Eagle's Nest: Ten Lectures on the Relation of Natural science to Art, Given before the University of Oxford in Lent term, 1872', yn E. T. Cook a Alexander Wedderburn (goln), *The Library Edition of the Complete Works of John Ruskin* (George Allen, 1903–12), Vol. 22

Ruskin, John, *Sesame and Lillies: Three Lectures* (New York: Cosimo Classics, 2016)

Ryan, Kiernan (gol.), *New Historicism and Cultural Materialism: A Reader* (London: Arnold, 1996)

Said, Edward W., *Orientalism: Western Conceptions of the Orient* (London: Penguin, 1995)

Schiavone, Awen Meleri, 'Barti Ddu, T. Llew Jones – nofel antur ôl-drefedigaethol?' (Traethawd MPhil: Prifysgol Caerdydd, 2014)

Scholes, Robert, *Structuralism in Literature: An Introduction* (New Haven/London: Yale University Press, 1974)

Shaw, David Gary, 'Happy in our chains? Agency and language in the postmodern age', *History and Theory*, 40 (4) (2001), 1-9

Sims-Williams, Patrick, *Irish Influence on Medieval Welsh Literature* (Oxford: Oxford University Press, 2011)

Smith, Anthony, *Chosen Peoples: Sacred Sources of National Identity* (Oxford: Oxford University Press, 2003)

Spengler, Oswald, *Der Untergang des Abendlandes* (1918 a 1923). Gw. *The Decline of the West* (cyfieithiad i'r Saesneg â nodiadau gan Charles Francis Atkinson), 2 cyfrol (London: Allen & Unwin, 1928)

Stead, Peter, 'The language of Edwardian politics', yn David Smith (gol.), *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales 1780-1908* (London: Pluto Press, 1980), tt. 148-165

Stephens, Meic (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986)

Stocking Jr., George W., *Victorian Anthropology* (New York: The Free Press, 1991)

Taylor, Lucy, 'Rethinking Welsh Patagonia', *Planet*, 218 (Haf, 2015), 27-32

Tiryakian, Edward A. a Rogowski, Roland (goln), *New Nationalisms of the Developed West: Toward Explanation* (Boston: Allen & Unwin, 1985)

Thomas, M. Wynn (gol.), *Morgan Llwyd: Llyfr y Tri Aderyn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1988)

Thorpe, Lewis (golygydd a chyfieithydd), *Geoffrey of Monmouth: History of the Kings of Britain* (London: Penguin, 1966)

Thorpe, Lewis (golygydd a chyfieithydd), *Gerald of Wales: The Journey Through Wales / The Description of Wales* (London: Penguin, 1978)

Ugalde Zubiri, Alexander, *La Acción Exterior del Nacionalismo Vasco (1890-1939): Historia, Pensamiento y Relaciones Internacionales* (Oñati: IVAP, 1996)

Wade-Evans, A. W., 'Prolegomena to a study of early Welsh history', yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *The Historical Basis of Welsh Nationalism* (Cardiff: Plaid Cymru, 1950), tt. 1-41

Weekley, Ernest (gol.), *Paul-Louis Courier: A Selection from the Works* (Manchester: The University Press, 1925)

Wiliam, Dafydd Wyn, *Y Canu Mawl i Rai Teuluoedd o Gwmwd Dindaethwy* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2010)

Williams, Gerwyn (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999)

Williams, Ellis W., 'Emrys ap Iwan', yn *Cymdeithas Emrys ap Iwan – Y Ddarlith Flynyddol*, Cyf. 1 & 2: 1981-82 (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1983), 1-19

Williams, Glyn, 'Nationalism in nineteenth-century Wales: the discourse of Michael D. Jones', yn Glyn Williams (gol.), *Crisis of Economy and Ideology: Essays on Welsh Society, 1840-1980* (BSA Sociology of Wales Study Group, 1983), tt. 180-200

Williams, Gwyn A., 'Twf hanesyddol y syniad o genedl yng Nghymru', *Efrydiau Athronyddol*, 24 (1961), 18-30

Williams, Gwyn, *An Introduction to Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press, 1992)

Williams, Heather, 'Différance', *Esboniadur* (Coleg Cymraeg Cenedlaethol) [ar-lein], <https://wici.porth.ac.uk/index.php/Différance> [cyrchwyd: 09 Chwefror 2019]

Williams, J. E. Caerwyn, 'Twf cenedlaetholdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol', yn Dewi Eirug Davies (gol.), *Gwinllan a Roddwyd* (Llandybie: Christopher Davies, 1972), tt. 60-80

Williams, Menai, 'Cysylltiad Emrys ap Iwan â phobl ieuanc a phlant', yn *Tair Darlith Goffa - Cymdeithas Emrys ap Iwan* (Yr Wyddgrug: Gwasanaeth Llyfrgell Clwyd, 1991), tt. 19-38

Williams, Rhiannon Heledd, *Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad?: Gwasg Gyfnodol Gymraeg America 1838-1866* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017)

Wodak, Ruth; de Cillia, Rudolf; Reisigl, Martin a Liebhart, Karin (cyfieithwyd gan Angelika Hirsch a Richard Mitten), *The Discursive Construction of National Identity* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 1999)

Wright, Elizabeth, *Psychoanalytic Criticism: A Reappraisal* (Cambridge: Polity Press, 1998)

Wyn Jones, Richard, 'In the shadow of the first-born: the colonial legacy in Welsh politics', yn Jane Aaron a Chris Williams (goln), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), tt. 23-38

Wyn Jones, Richard, *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007)

Wyn Jones, Richard, *Y Blaid Ffasgaidd yng Nghymru: Plaid Cymru a'r Cyhuddiad o Ffasgaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2013)